Dogfen ir Cyhoedd

Mrs Annwen Morgan
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| **PWYLLGOR GWAITH** | | **THE EXECUTIVE** |
| **DYDD LLUN 30 TACHWEDD 2020 10.00 o'r gloch** | | **MONDAY 30 NOVEMBER 2020 10.00 am** |
| **CYFARFOD RHITHIOL – AR HYN O BRYD NID OES MODD I'R CYHOEDD FYNYCHU'R CYFARFOD)** | | **VIRTUAL MEETING – (AT PRESENT, MEMBERS of THE PUBLIC ARE UNABLE TO ATTEND)** |
| Swyddog Pwyllgor | **Ann Holmes 01248 752518** | Committee Officer |

**AELODAU/MEMBERS**

**Plaid Cymru/Party of Wales**

Llinos Medi Huws, Carwyn Jones, R Meirion Jones, Alun W Mummery, Robert G Parry, OBE, FRAgS, Robin Wyn Williams

**Annibynnol/Independent**

Richard Dew, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams

COPI ER GWYBODAETH / COPY FOR INFORMATION

I Aelodau'r Cyngor Sir / To the Members of the County Council

Bydd aelod sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod i siarad (ond nid i bleidleisio) os ydy o/hi wedi gofyn am gael rhoddi eitem ar y rhaglen dan Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith. Efallai bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ceisiadau gan aelodau sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith i siarad ar faterion eraill.

A non-Executive member will be invited to the meeting and may speak (but not vote) during the meeting, if he/she has requested the item to be placed on the agenda under the Executive Procedure Rules. Requests by non-Executive members to speak on other matters may be considered at the discretion of The Executive.

**Ar hyn o bryd nid yw'r Pwyllgor hwn yn cael ei wê-ddarlledu'n fyw.**
**Bydd recordiad o'r cyfarfod ar wefan y Cyngor cyn gynted â phosibl.**

**R H A G L E N**

**1** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

**2** **MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDI.**

Dim materion brys ar adeg anfon y rhaglen hon.

**3** **COFNODION** (Tudalennau 1 - 6)

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 26 Hydref 2020.

**4** **BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH** (Tudalennau 7 - 20)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

**5** **CERDYN SGORIO CORFFORAETHOL - CHWARTER 2, 2020/21** (Tudalennau 21 - 34)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn, AD a Thrawsnewid.

**6** **MABWYSIADU'R DDOGFEN CYFLAWNI BLYNYDDOL 2020-22** (Tudalennau 35 - 44)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn, AD a Thrawsnewid.

**7** **MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW - CHWARTER 2, 2020/21** (Tudalennau 45 - 74)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151.

**8** **MONITRO'R GYLLIDEB GYFALAF - CHWARTER 2, 2020/21** (Tudalennau 75 - 88)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151.

**9** **ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB Y CRT - CHWARTER 2, 2020/21** (Tudalennau 89 - 96)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151.

**10** **SYLFAEN Y DRETH GYNGOR 2021/22** (Tudalennau 97 - 104)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151.

**Ar hyn o bryd nid yw'r Pwyllgor hwn yn cael ei wê-ddarlledu'n fyw.**
**Bydd recordiad o'r cyfarfod ar wefan y Cyngor cyn gynted â phosibl.**

**11** **CYNLLUN TWF TERFYNOL** (Tudalennau 105 - 300)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro.

**12** **CYNLLUN PEILOT CYNGOR SIR YNYS MÔN A BWRDD IECHYD PRIFYSGOL BETSI CADWALADR – ANABLEDDAU DYSGU CYNGOR SIR YNYS MÔN A BWRDD IECHYD** (Tudalennau 301 - 308)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Dros Dro ar gyfer Gwasanaethau Oedolion

**13** **DIWYGIO'R BROSES GYFANSODDIADOL MEWN PERTHYNAS Â PHENNU CYLLIDEB Y CYNGOR** (Tudalennau 309 - 314)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro.

This page is intentionally left blank

# Y PWYLLGOR GWAITH

## Cofnodion y cyfarfod rhithwir a gynhaliwyd ar 26 Hydref 2020

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Llinos Medi Huws (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Ieuan Williams (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Richard A Dew, Carwyn Jones, R Meirion Jones, Alun Mummery, Bob Parry OBE FRAgS, Dafydd R Thomas, Robin Williams. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151,<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro,<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc,<br>Cyfarwyddwr Dros Dro ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol,<br>Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo,<br>Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid,<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd,<br>Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad (GM) (ar gyfer eitem 5),<br>Prif Swyddog Datblygu (Gwasanaethau Tai) (AJ) (ar gyfer eitem 7),<br>Prif Swyddog Rheoli Gwastraff (ME) (ar gyfer eitem 8),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr Glyn Haynes, T Ll Hughes MBE, Aled M Jones, G O Jones, Bryan Owen, Dylan Rees, Alun Roberts, Dafydd Roberts. Swyddog Cyfathrebu (GJ), Swyddog Sgriwtini (SR), Mr Gareth W Williams (Newyddiadurwr Democratiaeth Leol). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Dirprwy Brif Weithredwr. |

### 1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

### 2 MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDI

Dim.

### 3 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 28 Medi, 2020 i'w cymeradwyo ganddo.

**PENDERFYNWYD cadarnhau bod cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 28 Medi, 2020 yn gywir.**

## 4 BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn ymgorffori Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith am y cyfnod Tachwedd 2020 hyd at Fehefin 2021 i'w ystyried a nodwyd yr eitemau newydd canlynol: -

- **Ar gyfer cyfarfod 30 Tachwedd, 2020**

  **Eitem Newydd -** Cyllideb gyfun ar gyfer Anableddau Dysgu

- **Ar gyfer cyfarfod 14 Rhagfyr, 2020: -**

  Eitem 13 - Premiwm Treth Gyngor ar gyfer Ail Gartrefi

- **Ar gyfer cyfarfod 25 Ionawr, 2020: -**

  Eitem 17 - Strategaeth Dai Dros Dro 2020/21

- **Ar gyfer cyfarfod Mawrth 2021:**

  - Eitem 19 – Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2019/20;
  - Eitem 28 – Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai (CRT).

- **Ar gyfer cyfarfod Mehefin 2021:-**

  - Eitem 36 - Adroddiad Blynyddol Safonau Iaith Gymraeg 2020/21;
  - Eitem 38 - Cerdyn Sgorio Corfforaethol - Chwarter 4, 2020/21;
  - Eitem 39 - Adroddiad Monitro’r Gyllideb Refeniw - Chwarter 4, 2020/21;
  - Eitem 40 - Adroddiad Monitro’r Gyllideb Gyfalaf - Chwarter 4, 2020/21;
  - Eitem 41 - Adroddiad Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai - Chwarter 4, 2020/21.

**PENDERFYNWYD cadarnhau Blaenraglen Waith ddiweddaredig y Pwyllgor Gwaith am y cyfnod Tachwedd 2020 hyd at Fehefin 2021 fel y cafodd ei chyflwyno.**

## 5 ADRODDIAD PERFFORMIO BLYNYDDOL 2019/20

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid ar Adroddiad Perfformio Blynyddol 2019/20 i'r Pwyllgor Gwaith i'w ystyried. Roedd yr adroddiad - y mae'n ofynnol i'r Awdurdod ei gyhoeddi yn unol â statud - yn cynnwys adolygiad o'r canlynol: -

- y cynnydd a wnaed gan yr Awdurdod o ran cyflawni'r amcanion yn ei Ddogfen Gyflawni Flynyddol ar gyfer 2019/20 fel yr amlinellir o dan y 3 amcan blaenoriaeth (para 1.3)
- ei berfformiad yn gyffredinol gan gynnwys perfformiad yn seiliedig ar ddangosyddion cenedlaethol (dangosyddion MAC a DPA lleol).

Tynnodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Corfforaethol sylw at nifer o gyflawniadau o dan y 3 amcan allweddol ond gan gydnabod hefyd fod meysydd y gellid eu gwella ymhellach. Nododd fod 3 dangosydd perfformiad yn cael eu hamlygu mewn coch yn yr adroddiad. Cyfeiriodd yr Aelod Portffolio ymhellach at nifer o lwyddiannau nodedig a grybwyllir yn yr adroddiad. Wrth dynnu sylw at y cyflawniadau hyn a rhai eraill, diolchodd yr Aelod Portffolio i staff y Cyngor gan nodi na fyddai'r cyflawniadau hyn wedi bod yn bosib heb eu hymroddiad a'u gwaith caled. Wrth edrych ymlaen, er bod y Cyngor yn parhau i wynebu her ac ansicrwydd wrth ddarparu ei wasanaethau, roedd yn hyderus serch hynny y byddai modd iddo, gyda chefnogaeth ei staff a'i bartneriaid, wneud gwelliannau pellach a sicrhau canlyniadau cadarnhaol er budd pobl Ynys Môn.

Dywedodd y Cynghorydd Aled Morris Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, fod y Pwyllgor Sgriwtini wedi ystyried yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol yn ei gyfarfod ar 20 Hydref, a bod y Pwyllgor yn falch o argymell yr Adroddiad Perfformio Blynyddol i'r Pwyllgor Gwaith.

Cyfeiriodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff at ffaith bod y cyfraddau ailgylchu yn dangos gostyngiad yn ddiweddar. Nododd fod deunydd yr oedd modd ei ailgylchu yn cael ei dynnu o'r biniau du o’r blaen ond bellach mae holl gynnwys y biniau du'n cael ei gludo i Barc Adfer i'w losgi. Nodwyd bod gofyn cyrraedd y targed o 70% erbyn 2024 ac mae ffigyrau ailgylchu'r Ynys eisoes yn agos at darged Llywodraeth Cymru.

Cydnabu'r Pwyllgor Gwaith y llwyddiannau lu y mae'r adroddiad yn tystio iddynt a chytunwyd bod modd eu priodoli i arweinyddiaeth glir, gweithlu ymroddedig a system rheoli perfformiad, asesu ac adrodd effeithiol.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo Adroddiad Perfformio 2019/20 fel adlewyrchiad o waith yr Awdurdod ac y dylid ei gyhoeddi erbyn y dyddiad statudol ar ddiwedd mis Hydref.**

## 6 OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU - LLYTHYR BLYNYDDOL 2019/20

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro i'r Pwyllgor Gwaith i'w ystyried.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Corfforaethol fod adroddiad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru - Llythyr Blynyddol 2019/20 yn adroddiad blynyddol ar y gwaith a wnaed gan yr Ombwdsmon dros y 12 mis blaenorol. Nododd fod hwn yn adroddiad cadarnhaol gan fod nifer y cwynion a wnaed yn erbyn y Cyngor wedi gostwng. O'r 26 o gwynion a gyflwynwyd i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, daeth yr Ombwdson i'r casgliad nad oedd angen i'w swyddfa ymchwilio i 25 ohonynt ac ymdriniwyd ag 1 gŵyn a gyflwynwyd trwy ddatrysiad cynnar.

**PENDERFYNWYD derbyn Llythyr Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2019/20 a dirprwyo grym i'r Cyfarwyddwr**

**Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro ysgrifennu at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru erbyn 30 Tachwedd, 2020 i gadarnhau hynny a nodi y bydd y Cyngor yn parhau i fonitro cwynion, a thrwy hynny'n rhoi i'r Aelodau'r wybodaeth y maent ei hangen i'w helpu i graffu ar berfformiad.**

## 7 STRATEGAETH ATAL AC YMYRRAETH GYNNAR GORFFORAETHOL

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith i'w ystyried, adroddiad ar y cyd gan y Cyfarwyddwr Dros Dro ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Pennaeth Gwasanaethau Tai mewn perthynas â'r Strategaeth Atal ac Ymyrraeth Gynnar a'r amserlen ar gyfer ei gweithredu.

Dywedodd y Cadeirydd a'r Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol ma nod y strategaeth yw hyrwyddo gwell ansawdd bywyd i bobl. Diffinnir y Weithred Atal fel mabwysiadu dulliau sy'n adeiladu ar gyfranogiad gweithredol defnyddwyr gwasanaeth a chymunedau i sicrhau gwell canlyniadau ac i gyfrannu'n sylweddol at wneud y defnydd gorau posib o arian ac asedau eraill.

Adroddodd y Prif Swyddog Datblygu (Gwasanaethau Tai) fod gan y Strategaeth Atal ac Ymyrraeth Gynnar ran annatod i'w chwarae o ran lleihau'r galw am ddarpariaeth rheng flaen, statudol, a thrwy hynny leihau costau a sicrhau bod pob dinesydd, gan gynnwys rhai o'r bobl fwyaf bregus, yn derbyn ymyriadau amserol i gwrdd â'u hanghenion amrywiol. Bydd y Strategaeth yn canolbwyntio ar ddull gweithredu ledled yr Awdurdod, fel yr amlinellir yn y Cynllun Gweithredu, ac yn cael ei gweithredu ochr yn ochr â Chynllun Corfforaethol y Cyngor er mwyn cyflawni'r 3 nod corfforaethol craidd fel yr amlinellwyd hwy yn yr adroddiad. Adroddodd ymhellach fod angen dull corfforaethol o weithredu a bod raid cymryd perchnogaeth o'r Strategaeth Atal, gan gynnwys amser staff ac ymrwymiad ariannol ar draws holl Adrannau'r Cyngor, os am gyflawni nodau'r Strategaeth Atal ac Ymyrraeth Gynnar yn llawn. Nodir yr ymrwymiad ariannol dros y 18 mis i 2 flynedd nesaf wrth i anghenion a blaenoriaethau ddod yn gliriach. Adroddodd y Swyddog ymhellach fod gweithio mewn partneriaeth yn allweddol i lwyddiant y Strategaeth hon.

Dywedodd y Cynghorydd Aled Morris Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, fod y Pwyllgor Sgriwtini wedi ystyried y Strategaeth Atal ac Ymyrraeth Gynnar yn ei gyfarfod ar 20 Hydref, a bod y Pwyllgor yn falch o argymell y Strategaeth i'r Pwyllgor Gwaith.

Dywedodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol wedi codi pryderon ynghylch goblygiadau ariannol y Strategaeth yn y dyfodol gan y bydd yn dibynnu ar grantiau. Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 y gall llwyddiant y Strategaeth leihau costau'n sylweddol i'r Awdurdod dros y blynyddoedd i ddod gan na fyddai pobl yn gorfod bod yn ddibynnol ar wasanaethau a ddarperir gan y Cyngor.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Strategaeth Atal ac Ymyrraeth Gynnar a'r Cynllun Gweithredu.**

## 8 CASGLU GWASTRAFF GARDD GWYRDD - METHODOLEG AR GYFER CODI TÂL A CHYNLLUN GWEITHREDU

Cyflwynwyd adroddiad ar y cyd gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 a'r Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo i'r Pwyllgor Gwaith i'w ystyried.

Adroddodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo fod y Pwyllgor Gwaith, ar 27 Ionawr, 2020, wedi cymeradwyo gwasanaeth casglu Gwastraff Gardd pythefnosol y codir tâl amdano o 1 Ebrill, 2021. Nododd mai'r Awdurdod hwn yw'r unig awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru nad yw'n codi tâl am gasglu gwastraff gardd ac mai argymhelliad Llywodraeth Cymru yw y dylid codi tâl am gasglu gwastraff gwyrdd yn unol â'r strategaeth wastraff genedlaethol 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff'. Bydd y bin gwyrdd cyfredol yn cael ei ddefnyddio gan yr aelwydydd a bydd y gwasanaeth yn casglu'r gwastraff gwyrdd 26 gwaith y flwyddyn a chodir tâl blynyddol o £35 a thâl ychwanegol o £30 am bob bin gwyrdd ychwanegol. Taliad blynyddol fydd hwn a bydd aelwydydd yn cael opsiwn i dalu ar-lein neu dros y ffôn. Darperir sticer adnabod fel rhan o'r Pecyn Gwybodaeth y bydd aelwydydd yn ei dderbyn unwaith y byddant wedi cofrestru a thalu am y gwasanaeth. Dywedodd na chodir tâl ar neuaddau pentref, mynwentydd, eglwysi a chapeli. Cyfeiriodd yr Aelod Portffolio at y crynodeb o'r costau a amcangyfrifir fel y nodwyd nhw yn rhan 5.4 yr adroddiad a'r angen i gyflogi 2 Ymgynghorydd Gwasanaethau Cwsmer ychwanegol dros dro i weinyddu'r broses o godi tâl am gasglu gwastraff gardd.

Rhoddodd y Cynghorydd Gwilym O Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio adroddiad manwl ar y drafodaeth a gafwyd yn y Pwyllgor Sgriwtini ar 22 Hydref wrth iddo ystyried y bwriad i godi tâl am gasglu Gwastraff Gardd. Dywedodd fod y Pwyllgor Sgriwtini wedi argymell i'r Pwyllgor Gwaith y dylid codi tâl am gasglu gwastraff gardd o Ebrill 2021.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid y byddai peidio â chodi ffi am gasglu gwastraff gardd ar gyfer aelwydydd sy'n dymuno derbyn y gwasanaeth hwn wedi arwain at orfod codi'r dreth gyngor 1% ychwanegol.

Roedd y Cadeirydd o'r farn bod angen cyhoeddi Atodiad 2 o'r adroddiad oedd yn ymwneud â 'cwestiynau cyffredin' ar wefan y Cyngor i breswylwyr ei ei weld fel rhan o weithredu'r cynllun codi tâl am gasglu gwastraff gardd.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Awdurdodi codi tâl o £35 y flwyddyn am gasglu gwastraff gardd o'r bin cyntaf a £30 y flwyddyn am gasglu o finiau ychwanegol;**
- **Awdurdodi'r gyllideb gwariant ychwanegol fel yr amlinellir hi ym mharagraff 5.4, gyda'r gyllideb gwariant honno'n cael ei hariannu o'r incwm a gynhyrchir trwy godi tâl;**
- **Bod y 'cwestiynau cyffredin' sy'n rhan o'r adroddiad yn Atodiad 2 yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor.**

Daeth y cyfarfod i bean am 11.00 am

**Y CYNGHORYDD LLINOS M HUWS**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **30 Tachwedd 2020** |
| **Pwnc / Testun:** | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith** |
| **Deilydd(ion) Portffolio:** | **Cyng Llinos Medi** |
| **Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Tel:**<br>**E-bost:** | **Huw Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd**<br>**01248 752108**<br>**JHuwJones@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

**A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau**

Yn unol â'i Gyfansoddiad, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi blaen raglen waith a'i diweddaru'n rheolaidd. Cyhoeddir blaen raglen Waith y Pwyllgor Gwaith yn fisol er mwyn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:

gadarnhau'r blaen raglen waith atodol ar gyfer y cyfnod **Rhagfyr 2020 – Gorffennaf 2021;**

Adnabod unrhyw faterion ar gyfer cael mewnbwn penodol ac ymgynghoriad gyda Phwyllgorau Sgriwtini'r Cyngor yn ystod argyfwng Covid-19 gan gydnabod y strategaeth ar gyfer cyfarfodydd pwyllgor hyd at 30 Ebrill 2021 a gymeradwywyd gan arweinyddion grŵp ar 12 Mai 2020, sy'n nodi'r disgwyliadau o ran cynnal cyfarfodydd o'r pwyllgorau sgriwtini;

Nodi bod blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei diweddaru'n fisol a'i chyflwyno fel eitem safonol yn fisol i'r Pwyllgor Gwaith.

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

| **B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| **-** |

| **C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith cyn cyhoeddi pob diweddariad er mwyn cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaengynllunio. |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson a'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydy'. |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Amherthnasol. |

| **DD – Effaith ar Genedlaethau'r Dyfodol (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein anghenion tymor hir fel Ynys** | Ddim yn berthnasol. |
| **2** | **A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir a fydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol. Os felly, sut:-** | |
| **3** | **A ydym wedi bod yn cyd-gweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda pwy-** | |
| **4** | **A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae'i rhan yn drafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:-** | |
| **5** | **Nodwch yr effeithiau mae'r penderfyniad hwn yn ei gael ar yr agenda cydraddoldeb ac iaith Gymraeg** | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

| **E – Gyda phwy yr ymgynghoroch?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol)** | Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei thrafod yn fisol yng nghyfarfodydd y Penaethiaid Gwasanaeth (eitem safonol ar y rhaglen).<br><br>Fe'i cylchredir yn rheolaidd hefyd i Benaethiaid Gwasanaeth er mwyn ei diweddaru. |
| **2** | **Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol)** | |
| **3** | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol)** | |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth (TG)** | |
| **7** | **Caffael** | |
| **8** | **Sgriwtini** | Dan amgylchiadau arferol, cynhelir cyd-drafodaeth yn fisol ar raglenni gwaith y Pwyllgor Gwaith a'r ddau Bwyllgor Sgriwtini, a hynny er mwyn sicrhau aliniad rhyngddynt. |
| **9** | **Aelodau Lleol** | Amherthnasol. |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith: Rhagfyr 2020 – Gorffennaf 2021. |

| **FF – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth):** |
|---|
| |

**  Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Rhagfyr 2020 – Gorffennaf 2021

Diweddarwyd 20 Tachwedd 2020

Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Mae modd i benderfyniadau gweithredol gael ei gwneud gan y Pwyllgor Gwaith llawn yn gweithredu fel corff cyfunol neu gan aelodau unigol o'r Pwyllgor Gwaith yn gweithredu trwy hawliau dirprwyiedig. Mae'r blaen raglen waith yn cynnwys gwybodaeth am y penderfyniadau a geisir, pwy fydd yn gwneud y penderfyniadau a phwy yw'r Swyddogion a'r Deilyddion portffolio arweiniol ar gyfer pob eitem.

Dylid nodi, fodd bynnag, bod y blaen raglen waith yn ddogfen hyblyg, gan nad oes modd gwybod am yr holl eitemau y bydd angen penderfyniad arnynt gymaint â hyn ymlaen llaw ac efallai bydd angen newid yr amserlen ar gyfer rhai materion er mwyn cwrdd â blaenoriaethau newydd ayyb. Oherwydd hyn, fe adolygir yn rheolaidd y rhestr o eitemau sydd wedi'u cynnwys ac fe gyhoeddir diweddariad yn fisol.

Yn achlysurol, bydd angen cyflwyno adroddiadau am drafodion eiddo penodol, a hynny yn unol â Pholisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau. Oherwydd dylanwad y farchnad allanol, nid yw'n bosibl dynodi amseriad adroddiadau fel hyn ymlaen llaw.

Gosodir allan y fersiwn ddiweddaraf o flaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith **– sy'n ddogfen fyw ac yn agored i newid -** ar y tudalennau dilynol.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Rhagfyr 2020 – Gorffennaf 2021

Diweddarwyd 20 Tachwedd 2020

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhagfyr 2020** | | | | | | | |
| 1 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Pwyllgor Gwaith | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>14 Rhagfyr 2020 | |
| 2 | **Rheoli'r Trysorlys – Adolygiad canol blwyddyn 2020/21** | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>14 Rhagfyr 2020 | |
| 3 | **Premiwm y Dreth Gyngor ar gyfer ail gartrefi** | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>14 Rhagfyr 2020 | |
| 4 | **Chwaraeon Gogledd Cymru – Achos Busnes** | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Christian Branch<br>Pennaeth Rheolaiddio a Datblygu Economaidd dros dro<br><br>Cyng Carwyn Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>14 Rhagfyr 2020 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Rhagfyr 2020 – Gorffennaf 2021

Diweddarwyd 20 Tachwedd 2020

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |
| 5 | **Moderneiddio Ysgolion – Ardal Llangefni** | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Dysgu | Rhys H Hughes Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc<br><br>Cyng R Meirion Jones | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br><br>10 & 17 Rhagfyr 2020 | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Rhagfyr 2020 | |
| | | | | **Ionawr 2021** | | | |
| 6 | **Cyllideb 2021/22 (S)**<br><br>Cwblhau cynigion cychwynnol drafft y Pwyllgor Gwaith ar gyfer ymgynghori. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Ionawr 2021 | |
| | | | | | | | |
| 7 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Pwyllgor Gwaith | Busnes y Cyngor | Huw Jones Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Ionawr 2021 | |
| 8 | **Strategaeth Interim Tai 2020-21** | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Tai | Ned Michael Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Alun W Mummery | | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Ionawr 2021 | Cyngor Llawn<br><br>Dyddiad i'w gadarnhau |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Rhagfyr 2020 – Gorffennaf 2021

Diweddarwyd 20 Tachwedd 2020

| | Y pwnc a'i *gategori a<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 9 | **Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn 2019/20** | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Ionawr 2021 | |
| 10 | **Cwrs Golff Llangefni** | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Christian Branch<br>Pennaeth Rheolaiddio a Datblygu Economaidd dros dro<br><br>Cyng Carwyn Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Ionawr 2021<br>(i'w gadarnhau) | |
| | | | | **Chwefror 2021** | | | |
| 11 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Pwyllgor Gwaith | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>15 Chwefror 2021 | |
| | | | | **Mawrth 2021** | | | |
| 12 | **Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2019/20**<br><br>Cymeradwyo'r adroddiad | Deilydd Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol | Busnes y Cyngor | Lynn Ball<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro<br><br>Cyng Llinos Medi | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio<br>9 Mawrth 2021 | Penderfyniad dirprwyiedig<br><br>Mawrth 2021 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

## Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
### Cyfnod: Rhagfyr 2020 – Gorffennaf 2021

Diweddarwyd 20 Tachwedd 2020

| | **Y pwnc a'i *gategori a**<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |
| 13 | **Monitro Cyllideb Refeniw 20120/21 – Ch3 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid (dyddiad i'w gadarnhau) | Pwyllgor Gwaith<br><br>1 Mawrth 2021 | |
| 14 | **Monitro Cyllideb Gyfalaf 2020/21 – Ch3 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid (dyddiad i'w gadarnhau) | Pwyllgor Gwaith<br><br>1 Mawrth 2021 | |
| 15 | **Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2021/22 – Ch3 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid (dyddiad i'w gadarnhau) | Pwyllgor Gwaith<br><br>1 Mawrth 2021 | |
| 16 | **Strategaeth Rheoli Trysorlys 2021/22**<br><br>Mabwysiadu strategaeth ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid (dyddiad i'w gadarnhau) | Pwyllgor Gwaith<br><br>1 Mawrth 2021 | Cyngor<br>9 Mawrth 2021 |

Tudalen 14

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Rhagfyr 2020 – Gorffennaf 2021

Diweddarwyd 20 Tachwedd 2020



| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 17 | **Taliadau am Wasanaethau Di-Breswyl 2021/22**<br><br>Cymeradwyaeth. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Gwasanaethau Oedolion | Iola Richards<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion dros dro<br><br>Cyng Llinos Medi | Panel Sgriwtini Cyllid (dyddiad i'w gadarnhau) | Pwyllgor Gwaith<br><br>1 Mawrth 2021 | |
| 18 | **Ffi Safonol ar gyfer Cartrefi Preswyl y Cyngor Sir yn ystod 2021/22**<br><br>Cymeradwyaeth. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Gwasanaethau Oedolion | Iola Richards<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion dros dro<br><br>Cyng Llinos Medi | Panel Sgriwtini Cyllid (dyddiad i'w gadarnhau) | Pwyllgor Gwaith<br><br>1 Mawrth 2021 | |
| 19 | **Ffioedd Cartrefi Gofal y Sector Annibynnol 2021/22**<br><br>Cymeradwyaeth. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Gwasanaethau Oedolion | Iola Richards<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion dros dro<br><br>Cyng Llinos Medi | Panel Sgriwtini Cyllid (dyddiad i'w gadarnhau) | Pwyllgor Gwaith<br><br>1 Mawrth 2021 | |
| 20 | **Rhenti Tai y CRT a Thaliadau'r Gwasanaethau Tai 2021/22** | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Alun W Mummery | Panel Sgriwtini Cyllid (dyddiad i'w gadarnhau) | Pwyllgor Gwaith<br><br>1 Mawrth 2021 | |
| 21 | **Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai (CRT)** | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Alun W Mummery | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol (dyddiad i'w gadarnhau) | Pwyllgor Gwaith<br><br>1 Mawrth 2021 | |

* *Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Rhagfyr 2020 – Gorffennaf 2021

Diweddarwyd 20 Tachwedd 2020

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 22 | **Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a Chyllideb 2021/22 (S)**<br><br>Mabwysiadu cynigion terfynol i'w hargymell il'r Cyngor Sir. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid (dyddiad i'w gadarnhau)<br><br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | Pwyllgor Gwaith<br><br>1 Mawrth 2021 | Cyngor 9 Mawrth 2021 |
| 23 | **Strategaeth Gyfalaf a Rhaglen Gyfalaf** | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Cyllid (13 Tachwedd, 2020)<br><br>Panel Cyllid (dyddiad i'w gadarnhau) | Pwyllgor Gwaith<br><br>1 Mawrth 2021 | Cyngor 9 Mawrth 2021 |
| 24 | **Cyllideb Gyfalaf 2021/22** | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid (dyddiad i'w gadarnhau)<br><br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | Pwyllgor Gwaith<br><br>1 Mawrth 2021 | Cyngor 9 Mawrth 2021 |
| | | | | | | | |
| 25 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Pwyllgor Gwaith | Busnes y Cyngor | Huw Jones Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>22 Mawrth 2021 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Rhagfyr 2020 – Gorffennaf 2021

Diweddarwyd 20 Tachwedd 2020

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 26 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch3, 2020/21 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>8 Mawrth 2021 | Pwyllgor Gwaith<br><br>22 Mawrth 2021 | |
| 27 | **Codi Tâl Galw Gofal – Tenantiaid Tai Cyngor** | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Alun W Mummery | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br><br>(dyddiad i'w gadarnhau) | Pwyllgor Gwaith<br><br>22 Mawrth 2021 | |
| | | | | **Ebrill 2021** | | | |
| 28 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Pwyllgor Gwaith | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Ebrill 2021 | |
| | | | | **Mai 2021** | | | |
| 29 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Pwyllgor Gwaith | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mai 2021 | |

* *Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Rhagfyr 2020 – Gorffennaf 2021

Diweddarwyd 20 Tachwedd 2020

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | **Mehefin 2021** | | | |
| 30 | **Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2020/21**<br><br>Cymeradwyo'r adroddiad. | Deilydd Portffolio sydd â chyfrifoldeb am yr iaith. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Ieuan Williams | I'w gadarnhau | Penderfyniad dirpwyiedig<br><br>Mehefin 2021 | |
| | | | | | | | |
| 31 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Pwyllgor Gwaith | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mehefin 2021 | |
| 32 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch4, 2020/21 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>….. | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mehefin 2021 | |
| 33 | **Monitro Cyllideb Refeniw 20120/21 – Ch4 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mehefin 2021 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith

## Cyfnod: Rhagfyr 2020 – Gorffennaf 2021

Diweddarwyd 20 Tachwedd 2020

| | Y pwnc a'i *gategori a<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 34 | **Monitro Cyllideb Gyfalaf 2020/21 – Ch4 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mehefin 2021 | |
| 35 | **Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2021/22 – Ch4 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mehefin 2021 | |
| | **Gorffennaf 2021** | | | | | | |
| 36 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Pwyllgor Gwaith | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>Gorffennaf 2021 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **30 TACHWEDD 2020** |
| **Pwnc / Testun:** | **ADRODDIAD MONITRO'R CERDYN SGORIO – CHWARTER 2 (2020/21)** |
| **Deilydd(ion) Portffolio:** | **Y CYNGHORYDD DAFYDD RHYS THOMAS** |
| **Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:** | **CARYS EDWARDS** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Tel:**<br>**E-bost:** | **GETHIN MORGAN**<br>01248 752111<br>GethinMorgan@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | Amherthnasol |

**A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau**

**1.1** Hwn yw'r cerdyn sgorio cyntaf ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020/21 i gael ei ystyried oherwydd y pwysau allanol sy'n gysylltiedig â'n hymateb i'r pandemig coronafeirws.

**1.2** Mae'n dangos safle'r Cyngor yn erbyn ei amcanion gweithredol fel yr amlinellwyd ac y cytunwyd arnynt rhwng yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth / y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol.

**1.3** Gofynnir i'r Pwyllgor graffu ar y cerdyn sgorio a nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli er mwyn sicrhau gwelliannau i'r dyfodol.

*Gellir crynhoi'r rhain fel a ganlyn -*

**1.3.1** Cydnabod a rheoli tanberfformiad trwy gymryd camau lliniaru i gynorthwyo gwelliant yn ystod Ch3 a monitro'n ofalus y dangosyddion y mae'r pandemig coronafeirws yn effeithio arnynt ar hyn o bryd.

**1.4** Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn y mesurau lliniaru a amlinellir uchod.

**B – Pa opsiynau eraill bu I chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?**

Amherthnasol

| C – Pam fod hwn yn benderfyniad i’r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Mae'r mater hwn wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith |

| D – A yw’r penderfyniad hwn yn gyson a’r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Ydi |

| DD – A yw’r penderfyniad hwn oddi fewn i’r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Ydi |

| E – Effaith ar Genedlaethau’r Dyfodol (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| **1** | **Sut mae’r penderfyniad yma’n effeithio ar ein anghenion tymor hir fel Ynys** | Mae’r adroddiad y Cerdyn Sgorio Corfforaethol yn rhoi cipolwg ar berfformiad DPA yn erbyn 3 amcan Cynllyn y Cyngor ar ddiwedd pob chwarter.<br><br>Mae’r 3 amcan, isod, yn ystyried anghenion tymor hir yr Ynys<br><br>1. Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir<br>2. Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus er mwyn eu cadw’n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl<br>3. Gweithio gyda’n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi’n effeithiol â newid a datblygiadau tra’n gwarchod ein hamgylchedd naturiol<br><br>Mae mesur y DPA yn erbyn pob amcan yn dangos sut mae penderfyniadau'n cael effaith ar ein perfformiad cyfredol. |
| **2** | **A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir a fydd yn atal costau /** | Gallai perfformiad rhai DPAau o bosibl gael effaith ar gostau yn y dyfodol, ond mae mesurau lliniaru a gynigir yn ceisio lliniaru'r pwysau hyn. |

| | | |
|---|---|---|
| | **dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol. Os felly, sut:-** | |
| **3** | **A ydym wedi bod yn cyd-gweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda pwy-** | Ymgymerir ag elfennau o'r gwaith sy'n cael ei fonitro yn y Cerdyn Sgorio mewn modd cydweithredol â sefydliadau eraill fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Llywodraeth Cymru, Cadwch Gymru'n Daclus, Gyrfa Cymru, Chwaraeon Cymru, GWE, ymhlith eraill. |
| **4** | **A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae'i rhan yn drafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:-** | Amh. |
| **5** | **Nodwch yr effeithiau mae'r penderfyniad hwn yn ei gael ar yr agenda cydraddoldeb ac iaith Gymraeg** | Amh. |

| **E – Gyda phwy yr ymgynghoroch?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif-weithredwr / Uwch Dim Rheoli (UDRh) (gorfodol)** | Ystyriwyd y mater hwn gan yr UDA ac adlewyrchir eu sylwadau yn yr adroddiad |
| **2** | **Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol)** | Dim sylwadau |
| **3** | **Swyddog Cyfreithiol / Mnitro (gorfodol)** | Dim sylwadau |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth (TG)** | |
| **7** | **Caffael** | |
| **8** | **Sgriwtini** | |
| **9** | **Aelodau Lleol** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Atodiad A - Cherdyn Sgorio Chwarter 2 |

| **FF – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth):** |
|---|
| Adroddiad Monitro Cerdyn Sgorio 2019/20 – Chwarter 3 (fel y cyflwynwyd ef i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Mawrth 2020 ac a dderbyniwyd ganddo.) |

**ADRODDIAD MONITRO CERDYN SGORIO - CHWARTER 2 (2020/21)**

## 1. RHAGARWEINIAD

1.1. Un o ddyletswyddau'r Cyngor o dan Raglen Cymru ar gyfer Gwella yw gwneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn y modd yr ydym yn darparu ein gwasanaethau. Mae'n ofynnol i ni roi trefniadau ar waith i gael dealltwriaeth effeithiol o anghenion a blaenoriaethau lleol, ac i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau a'r capasiti sydd gennym i gyflawni’r anghenion a’r blaenoriaethau hynny, ac er mwyn gwerthuso effaith yr hyn a wnawn.

1.2. Mae Cynllun y Cyngor ar gyfer 2017 i 2022 yn nodi'r anghenion a'r blaenoriaethau lleol a’n hamcanion ar gyfer y cyfnod.

1.3. Defnyddir yr adroddiad monitro hwn ar y cerdyn sgorio fel rhan o'r broses i fonitro llwyddiant ein Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA), sef cyfuniad o ddangosyddion lleol a chenedlaethol, wrth i’r Cyngor ddarparu ei wasanaethau o ddydd i ddydd. Mae'r adroddiad hefyd yn dwyn sylw at unrhyw gamau lliniarol a nodwyd gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) i yrru a sicrhau gwelliannau.

1.4. Mae’r dangosyddion ar gyfer eleni yn rhai y cytunwyd arnynt ym mis Gorffennaf 2019 ac maent wedi eu cynnwys yn y cerdyn sgorio. Oherwydd y pandemig Covid-19 cyfredol, ni fu modd i ni drefnu gweithdy i gytuno ar set newydd o ddangosyddion ar gyfer eleni. Gan hynny, defnyddir dangosyddion 2019/20 er mwyn sicrhau cysondeb.

1.5. Effeithiwyd hefyd ar yr adroddiadau chwarterol ar gyfer Ch4 2019/20 a Ch1 2020/21 gan bandemig Covid-19 ac felly cytunwyd i beidio eu cyhoeddi na'u trafod gyda'r pwyllgorau perthnasol.

1.6. Mae'r cerdyn sgorio (atodiad 1) yn portreadu'r sefyllfa ar ddiwedd Ch2 a bydd yn cael sylw pellach (ynghyd â'r adroddiad hwn) gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith yn ystod mis Tachwedd. Dyma'r adroddiad cyntaf ar gerdyn sgorio 2020/21 i gael ei ystyried gan y pwyllgorau hynny oherwydd y pwysau allanol sy'n gysylltiedig â'n hymateb i'r pandemig coronafeirws.

## 2. CYD-DESTUN

2.1. Mae’r DPA monitro perfformiad yn parhau i fod wedi eu halinio â thri amcan strategol y Cyngor:

- Amcan 1 - Sicrhau y gall pobl Ynys Môn ffynnu a gwireddu eu potensial tymor hir
- Amcan 2 - Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus i'w cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib
- Amcan 3 - Gweithio mewn partneriaeth â'n cymunedau i sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau, tra’n amddiffyn ein hamgylchedd naturiol

2.2. Ni fydd modd cyhoeddi gwybodaeth ar gyfer pob DPA ar y Cerdyn Sgorio bob chwarter oherwydd natur y dulliau casglu data. Yn y fath achosion, bydd nodyn yn dweud pa mor aml y mae'r DPA yn cael ei fonitro a phryd y bydd y data ar gael i'w casglu, e.e. (blynyddol) (Ch4), (tymhorol) (Ch3).

2.3. Ni fydd modd 'chwaith adrodd ar yr holl ddangosyddion oherwydd pandemig Covid-19 lle mae rhai o'n gweithgareddau dydd i ddydd wedi cael eu heffeithio oherwydd y cyfnod clo cenedlaethol a'r cyfyngiadau i argaeledd rhai o'n gwasanaethau. Mae rhai DPA a gasglwyd yn draddodiadol gan Lywodraeth Cymru hefyd wedi'u hatal am yr un rhesymau.

2.4. Canslwyd cyhoeddi dangosyddion cenedlaethol Mesurau Atebolrwydd Perfformiad eleni oherwydd pandemig Covid-19. Felly cytunwyd ar dargedau ar gyfer y flwyddyn yn seiliedig ar berfformiad y flwyddyn flaenorol a hefyd yn seiliedig ar sut yr effeithiwyd arnynt oherwydd cau a gostwng rhai o'n gwasanaethau.

2.5. Mae delio gyda’r argyfwng Covid -19 wedi bod yn her sylweddol i’r Cyngor – nid yn unig o ran cynnal gwasanaethau allweddol rheng flaen a chynnal busnes arferol lle bo’n bosib, ond hefyd i sicrhau bod trefniadau iechyd a diogelwch yn eu lle i ddiogelu staff yr awdurdod tra’n darparu gwasanaethau.

2.6. Yn lleol, rydym wedi blaenoriaethu –

- Cynnal gwasanaethau statudol rheng flaen,
- Gweithredu gwasanaethau newydd mewn ymateb uniongyrchol o’r argyfwng,
- Cynllunio ar gyfer nifer sylweddol o farwolaethau,
- Amddiffyn a diogelu gweithlu’r Cyngor,
- Sicrhau cyflenwad Offer Amddiffyn Personol (PPE) digonol a safonol,
- Amddiffyn a chefnogi plant bregus a phlant ein gweithwyr allweddol yn ein Hybiau Gofal,
- Gweithredu canllawiau cenedlaethol,
- Gweithredu grantiau cenedlaethol, e.e. cymorth busnes, taliadau uniongyrchol am bridal ysgol am ddim,
- Addasu'r gweithlu mewn cyfnod byr o amser a chreu'r amodau ar gyfer gwahanol ffyrdd o weithio gan gynnwys cyflwyno Microsoft Teams a Zoom i alluogi staff ac aelodau etholedig i weithio gartref lle nad oeddent erioed wedi gweithio gartref yn y gorffennol,
- Dod yn un o’r Siroedd cyntaf i beilotio’r system ‘Profi ac Olrhain’,
- Darparu cyfathrebiadau a rhannu gwybodaeth yn amserol ac yn rheolaidd, yn fewnol ac yn allanol, a
- Cydweithredu’n effeithiol ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol; ac
- Ail-ddyrannu dyletswyddau staff er mwyn gweithio ar y tîm Prawf, Olrhain ac Amddiffyn

2.7. Rhaid hefyd pwysleisio bod gwaith dydd i ddydd wedi parhau yn ystod cyfnod yr argyfwng ar draws sawl Gwasanaeth, ond bod y dull o weithio wedi cael ei addasu er mwyn cadw’r gweithlu a thrigolion yr Ynys yn ddiogel.

2.8. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein hymateb i bandemig Covid-19 yn ein Hadroddiad Perfformiad Blynyddol 2019/20 sydd ar gael [https://www.ynysmon.gov.uk/cynllunycyngor](https://www.ynysmon.gov.uk/cynllunycyngor)

## 3. PERFFORMIAD IECHYD CORFFORAETHOL

3.1. Mae'n galonogol nodi bod mwyafrif (88%) y dangosyddion sy'n cael eu monitro yn parhau i berfformio'n dda yn erbyn targedau ( Gwyrdd neu Felyn). Nodir rhai o'r uchafbwyntiau isod.

3.2. Mae presenoldeb yn y gwaith yn faes yr adroddir arno bob mis ac a fe'i dadansoddir i sicrhau gwelliant. Ar ddiwedd Ch2 mae'r Cyngor yn WYRDD yn erbyn ei darged gyda 2.66 diwrnod yn cael eu colli am bob gweithiwr cyfwerth ag amser llawn yn y cyfnod yn erbyn targed o 4.48 diwrnod. Mae hyn yn welliant ar y lefelau a welwyd yn ystod Ch2 2019/20 lle collwyd 3.96 diwrnod oherwydd absenoldeb ac mae hefyd yn well na'r 4.74 o ddyddiau a gollwyd yn Ch2 2018/19.

3.3. Un maes sydd wedi bod yn hollbwysig yn ystod y pandemig, oherwydd cau ein swyddfeydd ac ailagor rhai gwasanaethau yn ofalus ar ôl y cyfnod clo, yw ein strategaeth ddigidol. Mae'r holl ddangosyddion o dan yr is-bennawd 'symud i wasanaeth digidol' wedi perfformio'n well nag yn y blynyddoedd blaenorol. Gellir gweld y symud i wasanaethau digidol yn nifer y defnyddwyr cofrestredig (eitem 10), lle gwelwyd cynnydd o 8k o ddiwedd mis Mawrth 2020. Bu cynnydd sylweddol hefyd yn y defnydd o ffurflenni ar-lein lle mae'r dangosydd (eitem 11) eisoes wedi dyblu perfformiad 2019/20, sef o 10.8k i 21.7k. Mae hyn yn ffrwyth yr ymgyrch gan y Bwrdd Trawsnewid Prosesau Busnes i gynyddu nifer y ffurflenni ar-lein a oedd ar gael cyn y pandemig a'r rhai a ddatblygwyd o fis Mawrth 2020 ac mae'n sicrhau y gellir cael mynediad at wasanaethau traddodiadol a gwasanaethau newydd a gyflwynwyd i gwrdd â gofynion prosesau sy'n gysylltiedig â'r pandemig. Gellir gweld y newid hwn hefyd yn nifer yr ymweliadau â Gwefan y Cyngor yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn.

3.4. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw achos pryder gyda'r is-bennawd 'siarter gwasanaeth cwsmeriaid' gan fod yr holl ddangosyddion yn perfformio'n dda yn erbyn targedau. Ni fu unrhyw gwynion corfforaethol mewn perthynas â materion gwasanaeth cwsmeriaid ac roedd nifer y cwynion ar ddiwedd Ch2 (17) yn hanner y nifer yn yr un cyfnod yn 2019/20 (35). Mae hyn yn gadarnhaol yn ystod cyfnod lle mae llawer o wasanaethau ar gyfer trigolion Ynys Môn yn cael eu darparu mewn ffordd wahanol i'r arfer ac mae hefyd yn dangos bod darparu gwasanaeth da i gwsmeriaid yn parhau i fod yn flaenoriaeth yn ystod yr amseroedd anodd hyn.

3.5. Ar hyn o bryd mae'r adran rheolaeth ariannol yn rhagweld, ar sail y sefyllfa ariannol ar ddiwedd yr ail chwarter, y bydd gan y Cyngor danwariant o £1,156k ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2021. Disgwylir tanwariant o £1,595k yn y cyllidebau gwasanaeth oherwydd llai o alw am Wasanaethau Plant ac effaith cau ysgolion yn ystod y cyfnod rhwng Ebrill a Gorffennaf 2020 ar gyllidebau addysg canolog. Rhagwelir gorwariant o £234k yn y maes cyllid corfforaethol oherwydd talu mwy o fudd-daliadau a gostyngiad yn y llog y gellir ei dderbyn oherwydd effaith economaidd Covid-19. Disgwylir tangyflawniad o £608k mewn perthynas â chasglu'r Dreth Gyngor safonol. Rhagwelir gwarged o £404k yn yr incwm o Bremiwm y Dreth Gyngor. Y diffyg net a ddisgwylir o ran y Dreth Gyngor yn gyffredinol yw £204k. Bydd cefnogaeth ariannol Llywodraeth Cymru i gwrdd â chostau sy'n gysylltiedig â Covid-19 ac iawndal am golli incwm yn helpu i atal y Cyngor rhag gorwario sawl miliwn o bunnau.

3.6. Gellir gweld rhagor o wybodaeth am reolaeth ariannol yn yr ‘Adroddiad Monitro Cyllideb Refeniw ar gyfer Ch2’ a fydd yn cael ei drafod yng nghyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 30 Tachwedd.

3.7. Mae hyn yn dangos y gellir rhoi sicrwydd rhesymol, trwy ddadansoddi'r cardiau sgorio, fod gweithgareddau dydd i ddydd y Cyngor o ran rheoli ei bobl, ei gyllid a'i wasanaethu, ynghyd â gwasanaethau i’w gwsmeriaid, yn cyrraedd safon sy'n briodol ac y cytunwyd arni gan yr Aelodau mewn cyfnod argyfwng. Adlewyrchir hyn hefyd yn y ffaith bod y dangosyddion rheoli perfformiad hefyd yn dangos perfformiad da.

## 4. RHEOLI PERFFORMIAD

4.1. Mae pandemig Covid-19 wedi effeithio ar nifer o'r DPA sy'n cael eu monitro trwy'r Cerdyn Sgorio ac mae rhai ohonynt yn cael eu hamlygu isod. Ar hyn o bryd, yn achos 16 o’r dangosyddion (35% o'r dangosyddion) mae Llywodraeth Cymru wedi canslo'r angen i gasglu data ar eu cyfer neu nid yw'r data'n cael eu casglu ar hyn o bryd oherwydd bod adnoddau wedi eu hailgyfeirio i ddelio â'r pandemig o fewn gweithlu ein partneriaid allanol. Amlygwyd y rhain yn y golofn statws CAG fel CV-19 er gwybodaeth.

4.2. Mae'r rhesymau dros y rheini sydd wedi'u heffeithio yn cynnwys y DPA sy'n gysylltiedig â:

- Dangosyddion y Gwasanaeth Dysgu (eitemau 1-7) - roedd ysgolion ar gau tan fis Medi a chanslwyd arholiadau. Mae llyfrgelloedd hefyd wedi bod ar gau
- Tai (eitemau 18, 31-32, 34) - Mae dangosyddion digartrefedd gan Lywodraeth Cymru wedi’u hatal, ac oherwydd y pandemig bu oedi pellach o ran cyflwyno meddalwedd newydd i fesur boddhad tenantiaid.
- Rheoleiddio a Datblygu Economaidd (eitemau 8, 11-12) - Bu Canolfannau Hamdden ar gau a dim ond yn raddol yr ailagorwyd nhw dros yr haf. Mae hyn wedi arwain at lawer iawn yn llai o ymweliadau ac o ganlyniad 'roedd yn amhosib gosod unrhyw dargedau ystyrlon. Mae'r Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff (NERS) hefyd wedi'i atal oherwydd y pandemig coronafeirws.
- Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo (eitem 37) - Oherwydd bod ein contractwr allanol wedi adleoli staff i helpu i ddarparu gwasanaethau rheoli gwastraff hanfodol yn ystod y pandemig coronafeirws, a’r ffaith bod y gwaith o fonitro'r cynllun Cadw Cymru’n Daclus wedi ei atal, ni fyddir, am y tro, yn mesur canran y strydoedd sy'n lân.
- Gwasanaethau Oedolion (eitem 19) - Mae'r dangosydd Oedi Wrth Drosglwyddo Gofal wedi'i atal oherwydd y gwaith hanfodol a wneir gan y GIG yn ystod y pandemig coronafeirws.

4.3. Ar gyfer y dangosyddion sy'n weddill ac y byddir yn adrodd arnynt yn Ch2 (26 dangosydd), mae'r mwyafrif (73%) ohonynt yn perfformio'n uwch na'r targed neu o fewn 5% i'w targedau. Fodd bynnag, nodwn fod wyth dangosydd yn tanberfformio yn erbyn eu targedau ac fe'u hamlygir fel rhai Coch neu Ambr yn y Cerdyn Sgorio.

4.4. Mae perfformiad ar gyfer **Amcan 1** ar ddiwedd Ch2 wedi bod yn dda gan mai dim ond un dangosydd sy'n tanberfformio yn erbyn yr amcan ar hyn o bryd.

4.4.1. Dangosydd 10, sef canran y busnesau risg uchel a arolygwyd dan raglen a gynlluniwyd ymlaen llaw i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â Deddfwriaeth Hylendid Bwyd - sy'n GOCH gyda pherfformiad o 10% yn erbyn targed o 80% ond sy'n welliant ar y 0% a gynhaliwyd yn Ch1.

Effeithiwyd ar y gwaith hwn o ganlyniad i bandemig Covid-19, lle nad oedd ond modd cynnal 9 o'r 41 o arolygiadau a gynlluniwyd ar gyfer Ch2, a dim un o gwbl o'r 49 a gynlluniwyd ar gyfer Ch1. Roedd hyn oherwydd nifer o resymau ond yn bennaf oherwydd cau busnesau yn ystod y cyfnod clo cychwynnol, a effeithiodd ar y cyfan o Ch1 a rhywfaint o Ch2 gan na ellid cynnal ymweliadau, a hefyd oherwydd adleoli staff mewn ymateb i'r pandemig. Mae'n bwysig nodi mai Polisi'r Asiantaeth Safonau Bwyd oedd y byddai'r holl reolaethau bwyd (archwiliadau) swyddogol yn dod i ben ac nid oedd rhaid i Awdurdodau Lleol gynnal ymweliadau oherwydd y Pandemig.

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) wedi cyhoeddi canllawiau sy'n nodi blaenoriaethau ar gyfer gweithredu o ran diogelwch bwyd, sef lle mae adeiladau risg uchel (cyfraddau B) yn flaenoriaeth i'w harchwilio, ynghyd ag ailymweliadau, ymchwilio i gwynion a materion bwyd, yn ogystal ag archwilio llongau pysgota. Dilynwyd y canllawiau hyn yn llawn ac arolygwyd yr holl adeiladau cyfradd B yr oedd gofyn eu harolygu yn Ch1 a Ch2.

Ar ôl i fusnesau bwyd ddechrau agor yn llawn ac yn sgil cyflogi ymgynghorydd i hwyluso'r gwaith o gwrdd â'r llwyth gwaith oedd wedi cronni (Medi ymlaen) bu'n bosib ehangu rhywfaint ar yr uchod. Cynhaliwyd ymweliadau rhithwir i leihau'r amser a dreulir ar Safleoedd Bwyd wrth gynnal Ymweliadau Hylendid Bwyd. Gwnaethpwyd hyn ar sail risg, gyda'r adeiladau risg uchaf yn cael eu harchwilio gyntaf. Mae'r cyfnod clo byr wedi llesteirio'r gwaith hwn ar hyn o bryd ond bydd y gwaith yn ailgychwyn unwaith y byddir mewn sefyllfa i wneud hynny.

4.5. Mae perfformiad yn erbyn y dangosyddion ar gyfer **Amcan 2** yn dangos bod pedwar dangosydd o'r 14 a gafodd eu monitro yn Ch2 (29%) yn tanberfformio ar gyfer yr amcan ar hyn o bryd.

4.5.1. Dangosydd 26 - Canran y plant mewn gofal y bu'n rhaid iddynt symud lleoliad 3 gwaith neu fwy - sy'n AMBR gyda pherfformiad o 6.29% yn erbyn targed o 5%. Mae hyn yn gynnydd o'i gymharu â diwedd Ch2 2019/20 lle'r oedd 3.8% wedi symud lleoliadau.

Mae nifer fach o blant mewn gofal wedi symud 3 gwaith neu fwy er mwyn cyflawni eu cynllun sefydlogrwydd sy'n cynnwys rhai plant sy'n symud i Gartrefi Clyd lleol neu at Ofalwyr Maeth Ynys Môn sydd newydd eu recriwtio.

4.5.2. Dangosydd 27 – Canran yr atgyfeiriadau plant sy'n ailgyfeiriadau o fewn 12 mis - sy'n GOCH gyda pherfformiad o 38.89% yn erbyn targed o 10%. Mae hyn yn ostyngiad mewn perfformiad o'i gymharu â Ch2 yn 2019/20 lle cofnodwyd perfformiad o 14.29%.

Mae'r DPA hwn yn ymwneud â nifer gymharol fach o achosion (8 o blant a 5 teulu) a gall amrywio'n fawr ar ddechrau'r flwyddyn. Canfu adolygiad o'r

achosion ailgyfeirio eu bod oll wedi eu hailgyfeirio yn briodol i’r gwasanaeth gyda phob un ohonynt yn cael eu hailgyfeirio oherwydd rhesymau newydd a sefyllfaoedd a oedd yn codi na ellid bod wedi eu rhagweld na’u hatal.

4.5.3 Dangosydd 35 - Nifer y dyddiau calendr a gymerir ar gyfartaledd i osod unedau llety y mae modd eu gosod (ac eithrio Unedau Anodd Eu Gosod) sydd yn GOCH ar y cerdyn sgorio gyda 78 diwrnod yn erbyn targed o 26 diwrnod.

Oherwydd y pandemig ni fu modd gosod tai mor gyflym ag arfer a hynny'n bennaf oherwydd bod rhaid cydymffurfio â deddfwriaeth coronafeirws a rheolau pellter cymdeithasol.

Mae mwy o unedau bellach yn cael eu gosod ond ni ddisgwylir y bydd modd cyrraedd y targed blynyddol oherwydd ansicrwydd yn sgil y pandemig Covid-19.

4.5.4 Dangosydd 36 - Gwasanaethau Landlord: Mae canran y rhent a gollir oherwydd bod eiddo'n wag yn GOCH ar y cerdyn sgorio gyda 2.18% wedi'i golli yn erbyn targed o 1.50%

Mae cysylltiad uniongyrchol rhwng y dangosydd hwn a'r dangosydd a drafodir uchod. Gan ei bod wedi cymryd mwy o amser i osod unedau llety mae swm y rhent a gollir yn uwch. Yn anffodus mae'n annhebygol y bydd modd cyrraedd y targed am y flwyddyn o ganlyniad.

4.6. Mae'r perfformiad yn erbyn dangosyddion **Amcan 3** wedi bod yn gymysg yn sgil effaith y pandemig Covid-19. Perfformiodd 50% yn dda yn erbyn targedau yn Ch2. Mae tri dangosydd o'r chwech (50%) a gafodd eu monitro ar gyfer yr amcan wedi tanberfformio yn erbyn y targed.

4.6.1. Dangosydd 41 - Canran yr holl geisiadau cynllunio a benderfynwyd o fewn yr amser - sy'n GOCH gyda 79% yn erbyn targed o 90%. Mae hyn yn is na'r 92% a welwyd yn Ch2 2019/20.

Mae'r dangosydd hwn yn un arall yr effeithiwyd arno gan bandemig Covid-19 lle bu'n rhaid atal archwiliadau safle a gofynion cyhoeddusrwydd. Mae cyfyngiadau ar ymweliadau safle yn parhau i fod mewn grym ar gyfer swyddogion a'r Pwyllgor Cynllunio. Mae ôl-groniad cronedig o geisiadau ac addasu i ffyrdd newydd o weithio hefyd wedi cyflwyno heriau i'r Gwasanaeth, yn ogystal ag oedi wrth ohebu ag asiantau cynllunio oherwydd nad oedd llawer ohonynt yn weithredol yn ystod y cyfnod clo. Mae capasiti cynllunio a'r llwyth achosion uchel yn parhau i fod yn her

Rydym eisoes wedi newid arferion gwaith a byddwn yn eu hadolygu er mwyn addasu yn ôl yr angen, gan gadw agwedd hyblyg tuag at arferion a blaenoriaethau gwaith er mwyn cwrdd â'r galw sy'n newid. Byddwn hefyd yn cydnabod cyfleoedd i gryfhau capasiti Cynllunio trwy'r Cynllun Gwella Cynllunio.

4.6.2. Dangosydd 43 - Canran yr apeliadau cynllunio a wrthodwyd - sy’n GOCH gyda pherfformiad o 50% yn erbyn targed o of 65%.

Nid yw'r dangosydd hwn ond yn ymwneud â niferoedd bach iawn a gellir priodoli’r perfformiad ar ddiwedd y chwarter i’r ffaith bod 3 o'r 6 o’r apeliadau wedi eu cadarnhau. Mae'r dangosydd hwn yn dibynnu ar y math a natur y ceisiadau a dderbyniwyd ac mae'n anochel y bydd rhai apeliadau cynllunio yn llwyddiannus

Bydd trafodaeth gyda’r Adran Polisi Cynllunio ar y Cyd yn dilyn i sicrhau cysondeb mewn penderfyniadau a / neu ddehongliadau swyddogion o geisiadau er mwyn lleihau apeliadau cynllunio llwyddiannus.

4.6.3. Dangosydd 43 - Canran yr achosion gorfodaeth cynllunio yr ymchwiliwyd iddynt o fewn 84 diwrnod - sy'n GOCH gyda pherfformiad o 65% yn erbyn targed o 80%. Mae hwn yn welliant ar y perfformiad a welwyd yn Ch1 lle cwblhawyd 48% o'r gwaith o fewn yr amserlen.

Mae cynnydd da bellach yn cael ei wneud er gwaethaf y cyfyngiadau a'r anawsterau a gafwyd o ganlyniad i bandemig Covid-19. Arweiniodd y pandemig at atal yr ymweliadau safle a chyfarfodydd arferol ac roedd heriau hefyd o ran addasu i brosesau ac arferion gwaith newydd.

Mae'r perfformiad cyfredol yn dangos cynnydd o 19% o'i gymharu â Ch1 (Ch1 11 allan o’r 21, Ch2 34 allan o’r 48) ac mae'r prosesau a gyflwynwyd yn 2020/21 bellach wedi gwreiddio. Rhagwelir y bydd y gwelliant hwn yn parhau i'r flwyddyn i ddod, yn ddibynnol ar effaith y pandemig Covid-19.

4.7. Er bod y gweithgareddau dydd i ddydd yn erbyn mwyafrif y dangosyddion wedi bod yn mynd rhagddynt yn ystod y cyfnod heriol hwn, cydnabuwyd bod goruchwyliaeth o'r prosiectau / rhaglenni wedi arafu rhywfaint yn ystod y cyfnod oherwydd effeithiau Covid-19 ar y gweithlu ac yn sgil adleoli staff y Cyngor i ddelio â'r argyfwng. Ers dechrau mis Ebrill, dim ond dwywaith y cynhaliwyd y Byrddau Rhaglenni Corfforaethol i gymryd trosolwg o'r sefyllfa bresennol gyda'r gwahanol ffrydiau gwaith.

4.8. Serch hynny, mae'n ymddangos bod rhai prosiectau wedi symud ymlaen yn ôl y disgwyl (megis prosiect cytundeb newydd i gasglu a chael gwared ar wastraff) ond mae eraill wedi arafu rhywfaint. Wrth werthuso'r sefyllfa bresennol, noder mai'r gwaith sy'n gysylltiedig â'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion / Trawsnewid Gwasanaethau Cymdeithasol a'r ffrydiau gwaith sy’n gysylltiedig â thrawsnewid prosesau busnes yw'r rheini sydd wedi arafu wrth i adnoddau gael eu defnyddio i gefnogi'r ymateb i'r pandemig. Caeodd ysgolion am gyfnod o 3 mis rhwng Mawrth a Gorffennaf a chaeodd canolfannau gofal dydd yn ystod y cyfnod clo cychwynnol. Ffocws staff Technoleg Gwybodaeth oedd symud yn gyflym i ganiatáu i staff ac aelodau etholedig weithio gartref mewn ffordd ystyrlon a diogel bron dros nos.

4.9. Mae'r rhaglenni hyn bellach yn ailddechrau yn ystod yr hydref dan oruchwyliaeth y ddau fwrdd corfforaethol sydd bellach yn cael eu cadeirio gan y Prif Weithredwr a'r Dirprwy Brif Weithredwr ac sy'n cynnwys cynrychiolaeth o'r holl bleidiau gwleidyddol yma yn y Cyngor. Mae'r gwaith o adrodd yn ôl ar yr ymgynghoriadau addysg a

gynhaliwyd yn ardal Llangefni wedi cychwyn; mae'r gwaith ar ddatblygu arfarniad opsiynau ar leoliad cynllun tai gofal ychwanegol pellach yn cael ei gwblhau ac mae gwaith sy'n gysylltiedig â rhaglen drawsnewid y gwasanaethau cymdeithasol yn datblygu mewn modd amserol o dan oruchwyliaeth y Bwrdd Trawsnewid Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r byrddau hefyd wedi gwneud y penderfyniad i osod cyfeiriad ar gyfer y rhaglenni adfer a rhagwelir y bydd y rhain yn cael eu mabwysiadu'n gynnar yn y Flwyddyn Newydd.

4.10. Rhagwelir yn amlwg y bydd angen adolygu effeithiau COVID wrth ddatblygu'r gwahanol ffrydiau gwaith ond, o dan arweiniad y ddau fwrdd, credir bod lle i fod yn optimistaidd y gall y gwahanol brosiectau ddatblygu mewn modd amserol dros gyfnod y gaeaf a pharhau i ddal i fyny â'r hyn a oedd yn mynd i ddigwydd cyn y cyfnod clo cychwynnol.

## 5. ARGYMHELLION

5.1. Gofynnir i'r Pwyllgor graffu ar y cerdyn sgorio a nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli i sicrhau gwelliannau i'r dyfodol. Gellir crynhoi'r rhain fel a ganlyn –

5.1.1. Cydnabod a rheoli tanberfformiad trwy gymryd camau lliniaru i gynorthwyo gwelliant yn ystod Ch3 a monitro'n ofalus y dangosyddion y mae'r pandemig coronafeirws yn effeithio arnynt ar hyn o bryd.

5.2. Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn y camau lliniaru a amlinellir uchod.

Atodiad A - Cerdyn Sgorio Corfforaethol - Corporate Scorecard Ch-Q2 2020/21

| Rheoli Perfformiad / Performance Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed Ch/ Q Target | Targed Bl / Yr Target | Canlyniad 19/20 Result | Canlyniad 18/19 Result |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan 1 - Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir** | | | | | | | |
| 1) Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd (tymhorol) (Ch3) | CV-19 | - | - | - | 94.60% | 94.90% | 94.60% |
| 2) Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd (tymhorol) (Ch3) | CV-19 | - | - | - | 94.40% | 93.90% | 94.40% |
| (blynyddol) (Ch4) | CV-19 | - | - | - | 2% | 2% | 1.10% |
| 4) Sgôr ‘Cap 9’ cyfartalog ar gyfer disgyblion blwyddyn 11 (blynyddol) (Ch3) | CV-19 | - | - | - | - | 345.4 | 349.1 |
| 5) Canran y disgyblion a aseswyd yn y Gymraeg ar ddiwedd y Cyfnod Syflaen (blynyddol) (Ch4) | CV-19 | - | - | - | - | 87.50% | 88.30% |
| 6) Canran y disgyblion blwyddyn 11 sy’n astudio’r Gymraeg [iaith gyntaf] (blynyddol) (Ch4) | CV-19 | - | - | - | - | 65.01% | 65% |
| (blynyddol) (Ch3) | CV-19 | - | | - | 75% | 75% | 82% |
| 8) Nifer yr ymweliadau â chyfleusterau chwaraeon a hamdden | CV-19 | ↑ | 22.8k | - | - | 530k | 553k |
| 9) Canran y sefydliadau bwyd sy’n cyrraedd safonau hylendid bwyd | Gwyrdd / Green | ↑ | 95% | 95% | 95% | 98% | 98% |
| 10) Canran y busnesau risg uchel oedd yn agored i ymchwiliadau wedi’u trefnu a archwiliwyd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â’r Ddeddfwriaeth Hylendid Bwyd | Coch / Red | ↑ | 10% | 80% | 80% | 92% | - |
| 11) Canran cleientiaid NERS a gwblhaodd y rhaglen ymarfer corff | CV-19 | - | - | - | - | 75% | 70% |
| 12) Canran cleientiaid NERS yr oedd eu hiechyd wedi gwella wrth gwblhau’r rhaglen ymarfer corff | CV-19 | - | - | - | - | 84% | 83% |
| 13) Nifer o eiddo preifat gwag wedi’u adfer i ddefnydd | Gwyrdd / Green | ↑ | 45 | 35 | 70 | 104 | 78 |
| 14) Nifer y cartrefi newydd a grewyd o ganlyniad i ddechrau ailddefnyddio eiddo gwag | Gwyrdd / Green | ↑ | 7 | 2 | 5 | 7 | 9 |
| 15) Nifer yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol a ddarperir fesul 10,000 o aelwydydd (blynyddol) (Ch4) | - | - | - | - | - | 124 | 53 |
| 16) Gwasanaethau landlordiaid: Canran y cartrefi sy’n bodloni’r Safon Ansawdd Tai Cymru (WHQS) | Gwyrdd / Green | → | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% |
| 17) Gwasanaethau landlordiaid: Nifer y diwrnodau ar gyfartaledd i cwblhau atgyweiriadau | Gwyrdd / Green | ↓ | 7.38 | 18 | 18 | 16.44 | 13.63 |
| 18) Canran y tenantiaid sy’n fodlon gyda gwaith atgyweirio ymatebol (blynyddol) (Ch4) | CV-19 | - | - | - | - | | - |
| **Amcan 2 - Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus er mwyn eu cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl** | | | | | | | |
| 75+ oed | CV-19 | - | - | 3 | 3 | 6.88 | 7.78 |
| 20) Canran yr ymholiadau ynghylch amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn terfynau amser statudol | Gwyrdd / Green | ↓ | 94.96% | 90% | 90% | 91.30% | 90.91% |
| 21) Canran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod ailalluogi ac sydd â phecyn gofal a chymorth llai o faint chwe mis yn ddiweddarach | Gwyrdd / Green | → | 50.0% | 35% | 35% | 50% | 30.87% |
| 22) Canran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod ail-alluogi ac nad oes ganddynt becyn gofal a chymorth 6 mis yn ddiweddarach | Gwyrdd / Green | ↑ | 61.10% | 62% | 62% | 63.08% | 62.84% |
| 23) Cyfradd y bobl hŷn (65 mlwydd oed neu hŷn) y mae’r awdurdod yn eu cefnogi mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o’r boblogaeth 65 oed neu hŷn ar 31 Mawrth | Gwyrdd / Green | ↑ | 15.8 | 19 | 19 | 17.57 | 17.35 |
| 24) Canran y rhai sy’n ofalwyr i oedolion a ofynnodd am asesiad neu adolygiad ac a gafodd asesiad neu adolygiad iddyn nhw eu hunain yn ystod y flwyddyn | Gwyrdd / Green | → | 98.10% | 93% | 93% | 98.00% | 93.30% |
| 25) Canran yr asesiadau plant a gwblhawyd o fewn amser | Gwyrdd / Green | ↓ | 90.05% | 90% | 90% | 89.62% | 86.17% |
| 26) Canran y plant mewn gofal y bu’n rhaid iddynt symud 3 gwaith neu fwy | Ambr / Amber | ↓ | 6.29% | 5.00% | 10% | 8.39% | 9.52% |
| 27) Canran y cyfeiriadau o blant sy’n cael eu hail-gyfeirio o fewn 12 mis | Coch / Red | ↓ | 38.89% | 10% | 10% | 12.75% | 16.96% |
| 28) Cyfanswm yr amseroedd (mewn diwrnodau) a dreuliodd pob plentyn ar y CPR os cafodd ei dynnu oddi ar y CPR yn ystod y flwyddyn | Gwyrdd / Green | ↑ | 218 | 270 | 270 | 224 | 241 |
| 29) Canran y cyfeiriadau yn ystod y flwyddyn lle caiff penderfyniad ei wneud o fewn 1 diwrnod gwaith | Gwyrdd / Green | ↓ | 99.39% | 95% | 95% | 98.88% | 98% |
| 30) Canran yr ymweliadau statudol â phlant mewn gofal oedd i fod i ddigwydd yn ystod y flwyddyn, a gynhaliwyd yn unol â’r rheoliadau | Gwyrdd / Green | ↓ | 90% | 90% | 90% | 86.30% | 86.17% |
| 31) Canran y teuluoedd a ataliwyd yn llwyddiannus rhag mynd yn ddigartref | CV-19 | - | - | 60% | 60% | 74.91% | 55.10% |
| 32) Canran y teuluoedd (gyda plant) a ataliwyd yn llwyddiannus rhag mynd yn ddigartref | CV-19 | - | - | 60% | 60% | 77.70% | |
| 33) Nifer y dyddiau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i’r Anabl | Gwyrdd / Green | → | 148.8 | 170 | 170 | 159.58 | 161.9 |
| 34) Penderfyniad wedi ei wneud ar Achosion Digartrefedd o fewn 56 diwrnod (blynyddol) (Ch4) | CV-19 | - | - | - | - | | - |
| 35) Nifer cyfartalog y dyddiau calendr a gymerwyd i osod unedau llety sy’n rhai y mae modd eu gosod (ac eithrio Eiddo Anodd eu Gosod) | Coch / Red | ↓ | 78 | 26 | 26 | 21.9 | - |
| 36) Gwasanaethau landlordiaid: Canran y rhent wedi’i golli o ganlyniad i eiddo fod yn wag | Coch / Red | ↓ | 2.18% | 1.50% | 1.50% | 1.42% | 1.30% |
| **Amcan 3 - Gweithio gyda'n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau tra'n gwarchod ein hamgylchedd naturiol** | | | | | | | |
| 37) Canran y strydoedd sy’n lân | CV-19 | - | - | 95% | 95% | 93.79% | 95.60% |
| 38) Canran y gwastraff wedi’u ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio | Melyn / Yellow | ↑ | 68% | 70% | 67% | 67.26% | 69.86% |
| 39) Nifer cyfartalog y dyddiau gwaith a gymerwyd i glirio digwyddiadau tipio anghyfreithlon | Gwyrdd / Green | → | 0.96 | 1 | 1 | 0.96 | 0.2 |
| 40) Cilogramau y gwastraff gweddilliol a eneradir fesul person | Gwyrdd / Green | ↓ | 106kg | 120kg | 240kg | 206.17kg | 240kg |
| 41) Canran yr holl geisiadau cynllunio a benderfynwyd mewn pryd | Coch / Red | ↓ | 80% | 90% | 90% | 90% | 80% |
| 42) Canran yr apeliadau cynllunio a wrthodwyd | Coch / Red | ↓ | 50% | 65% | 65% | 78% | 74% |
| 43) Canran yr achosion gorfodaeth cynllunio yr ymchwiliwyd iddynt o fewn 84 diwrnod | Coch / Red | ↑ | 65% | 80% | 80% | 74% | - |
| 44) Canran y prif ffyrdd A sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) (Ch4) | - | - | - | 3% | 2.90% | 4% | 2.90% |
| 45) Canran y ffyrdd B sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) (Ch4) | - | - | - | 4% | 3.80% | 3.80% | 3.80% |
| 46) Canran y ffyrdd C sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) (Ch4) | - | - | - | 9% | 8.70% | 8.20% | 8.70% |

Coch - mwy na 10% yn is na'r targed a/neu angen ymyrraeth sylweddol Ambr - rhwng 5% a 10% yn is na'r targed a/neu angen rhywfaint o ymyrraeth
Melyn - o fewn 5% o'r targed Gwyrdd - ar darged neu'n uwch

Atodiad A - Cerdyn Sgorio Corfforaethol - Corporate Scorecard Ch-Q2 2020/21

| Gofal Cwsmer / Customer Service | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed / Target | Canlyniad 19/20 Result | Canlyniad 18/19 Result |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Siarter Gofal Cwsmer / Customer Service Charter** | | | | | | |
| 01) Nifer y cwynion a dderbyniwyd (ac eithrio Gwasanaethau Cymdeithasol) | Gwyrdd / Green | ↑ | 17 | 34 | 67 | 76 |
| 02) Nifer y cwynion Cam 2 a dderbynnwyd ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol | - | ↑ | 3 | - | | 8 |
| 03) Nifer y Cwynion a gadarnhawyd / gadarnhawyd yn rhannol | - | ↓ | 2 | - | | 27 |
| 04a) % o ymatebion ysgrifenedig o fewn 20 diwrnod (Corfforaethol) | Gwyrdd / Green | → | 100% | 80% | 94% | 93% |
| 04a) % o ymatebion ysgrifenedig o fewn 20 diwrnod (Gwasanaethau Cymdeithasol) | Gwyrdd / Green | ↑ | 91% | 80% | | 57% |
| 05) Nifer y cwynion Cam 1 ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol | - | ↑ | 11 | - | | 44 |
| 06) Nifer o bryderon (ac eithrio Gwasanaethau Cymdeithasol) | - | ↑ | 25 | - | 136 | 62 |
| 07) Nifer o ganmoliaethau | - | ↑ | 240 | - | 618 | 513 |
| 08) % o Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Ymatebwyd o fewn yr Amserlen | Gwyrdd / Green | ↑ | 84% | 80% | 82% | 81% |
| 09) Nifer o Geisiadau Rhyddid Gwybodaeth a dderbyniwyd | - | ↑ | 345 | - | 903 | 1052 |
| **Newid Cyfrwng Digidol / Digital Service Shift** | | | | | | |
| 10) Nifer o ddefnyddwyr AppMôn (blynyddol) | - | ↑ | 23k | - | 15k | 8.2k |
| 11) Nifer o adroddiadau a dderbyniwyd gan AppMôn | - | ↑ | 21.7k | - | 10.8k | 4.7k |
| 12) Nifer o daliadau dros y we | - | ↑ | 7.8k | - | 13k | 11k |
| 13) Nifer o daliadau dros y ffôn | - | ↑ | 3.5k | - | 6.5k | 5k |
| 14) Nifer o 'ddilynwyr' CSYM ar Cyfryngau Cymdeithasol | - | ↑ | 39.4k | - | 33k | 29.5k |
| 15) Nifer o ymwelwyr i wefan y Cyngor | - | ↑ | 518k | - | 783k | - |

| Rheoli Pobl / People Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed / Target | Canlyniad 19/20 Result | Canlyniad 18/19 Result |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Nifer y staff yr awdurdod cyfan, gan gynnwys athrawon a staff mewn ysgolion (FTE) | - | - | 2171 | - | 2181 | 2243 |
| 02) Nifer y staff yr awdurdod cyfan, ac eithrio athrawon a staff mewn ysgolion (FTE) | - | - | 1217 | - | 1230 | 1252 |
| 03a) Absenoldeb Salwch - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | Gwyrdd / Green | → | 2.66 | 4.25 | 9.4 | 10.34 |
| 03b) Salwch Tymor Byr - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | - | - | 0.77 | - | 4.2 | 4.68 |
| 03c) Salwch Tymor Hir - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | - | - | 1.89 | - | 5.2 | 5.66 |
| 04a) Ysgolion Cynradd - Absenoldeb Salwch - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | Gwyrdd / Green | → | 1.51 | 4.36 | 7.98 | 12.21 |
| 04b) Ysgolion Cynradd - Salwch Tymor Byr - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd | - | - | 0.48 | - | 4..17 | 4.97 |
| 04c) Ysgolion Cynradd - Salwch Tymor Hir - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul | - | - | 1.52 | - | 3.81 | 7.24 |
| 05a) Ysgolion Uwchradd - Absenoldeb Salwch - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | Gwyrdd / Green | ↑ | 0.90 | 3.31 | 9.61 | 9.57 |
| 05b) Ysgolion Uwchradd - Salwch Tymor Byr - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd | - | - | 0.20 | - | 4.58 | 5.26 |
| 05c) Ysgolion Uwchradd - Salwch Tymor Hir - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd | - | - | 0.70 | - | 5.03 | 4.31 |
| 06) Gweithwyr yr Awdurdod Lleol yn gadael (%) (Trosiant) (Blynyddol) (Ch4) | - | - | - | 10% | 9% | 11% |
| 07) % o ADP a'i cwblhawyd o fewn yr amserlen (Blynyddol) (Ch4) | - | - | - | 80% | 80% | 86% |

| Rheolaeth Ariannol / Financial Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Cyllideb / Budget | Canlyniad / Actual | Amrywiant / Variance (%) | Rhagolygon o'r Gwariant / Forcasted Actual | Amrywiant a Ragwelir / Forcasted Variance (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Y gyllideb o gymharu â Ffigyrau Gwirioneddol | Gwyrdd / Green | - | £69,608,378 | £68,846,492 | -1.09% | - | - |
| 02) Alldro diwedd blwyddyn a ragwelir (Refeniw) | Gwyrdd / Green | - | £142,146,320 | - | - | £140,785,530 | -0.96% |
| 03) Alldro diwedd blwyddyn a ragwelir (Cyfalaf) | - | - | £20,967,000 | - | - | £9,467,000 | 31.11% |
| 04) Cyflawniad yn erbyn targedau effeithlonrwydd | Coch / Red | - | £307,000 | - | - | £244,000 | 20.52% |
| 05) Incwm o gymharu â Thargedau (ac eithrio grantiau) | Coch / Red | - | -£6,022,558 | -£4,057,299 | -32.63% | - | - |
| 06) Swm a fenthycwyd | - | - | £4,836,000 | - | - | £0 | 100% |
| 07) Chost benthyca | Gwyrdd / Green | - | £4,248,560 | - | - | £4,196,378 | 1.23% |
| 08) % o'r anfondebau a dalwyd o fewn 30 diwrnod | Melyn / Yellow | - | - | 82.30% | - | - | - |
| 09) % of y Dreth Gyngor a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Melyn / Yellow | - | - | 98.70% | - | - | - |
| 10) % y Trethi Busnes a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Gwyrdd / Green | - | - | 98.90% | - | - | - |
| 11) % yr Amrywiol Ddyledion a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Melyn / Yellow | - | - | 96.40% | - | - | - |
| 12) % y Rhent Tai a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Melyn / Yellow | ↓ | - | 100.15% | - | - | - |
| 13) % y Rhent Tai a gasglwyd heb gynnwys taliadau budd-dal (am y 3 blynedd ddiwethaf) | - | → | - | 100.36% | - | - | - |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **30 TACHWEDD 2020** |
| **Pwnc / Testun:** | **MABWYSIADU'R DDOGFEN CYFLAWNI BLYNYDDOL 2020-22** |
| **Deilydd(ion) Portffolio:** | **Y CYNGHORYDD DAFYDD RHYS THOMAS** |
| **Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:** | **CARYS EDWARDS** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Tel:**<br>**E-bost:** | **GETHIN MORGAN**<br>01248 752111<br>GethinMorgan@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | Amherthnasol |

## A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

Gofynnir i'r Pwyllgor roi'r hawl i Swyddogion drwy gydsyniad y Deilydd Portffolio i ymgymryd â'r dasg o orffen y cynllun drafft ac argymell i'r Cyngor llawn fabwysiadu y Ddogfen Cyflawni Blynyddol ar gyfer 20-22 yn ei gyfarfod ar 8 Rhagfyr, 2020.

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith hefyd gadarnhau pa mor ymarferol yw cyflawni'r gwaith yn y meysydd sydd wedi eu nodi yn ystod y cyfnod cyfredol o dan flaenoriaethau Cynllun y Cyngor.

Mae'r Ddogfen Gyflawni Flynyddol yn amlinellu rhaglenni gwaith blynyddol y Cyngor sydd wedi'u cynllunio i gyflawni disgwyliadau Cynllun y Cyngor 2017-22

Mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dangos y prif feysydd ar gyfer gwella a chyflawni blaenoriaethau corfforaethol y cyngor yn ystod 2020-22. Mae hyn yn rhyddhau ein swyddogaeth ni o wellhad parhaol sy'n cael ei gydnabod yn ofyniad statudol o dan Fesur Llywodraeth Leol - Cymru 2009 a Cymru – "Rhaglen ar gyfer Gwelliant" 2011.

At ddibenion eglurder mae'r Ddogfen Cyflawni Blynyddol yn cael ei adnobod fel arall fel y Cynllun Gwella (a amlinellir yn y Cyfansoddiad).

## B – Pa opsiynau eraill bu I chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

Dim opsiwn arall wedi'I ystyried, mae hwn yn ddisgwyliad statudol dan Fesur Llywodraeth Lleol 2009.

## C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Mae'r mater hwn wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith

| CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson a'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Ydi gan ei fod yn darparu'r manylder parthed sut bydd y Cyngor yn gwireddu disgwyliadau Cynllun y Cyngor a fabwysiadwyd gan y Cyngor llawn yn flaenorol. |

| D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Ydi |

| DD – Effaith ar Genedlaethau'r Dyfodol (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| 1 | **Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein anghenion tymor hir fel Ynys** | Mae'r DGB yn amlinellu'r gwaith y bydd y cyngor yn ei wneud i gyflawni amcanion Cynllun y Cyngor am y 18 mis nesaf, gan gynnwys penderfyniadau fydd yn effeithio ar anghenion tymor hir Ynys Môn. |
| 2 | **A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir a fydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol. Os felly, sut:-** | Nodir y goblygiadau ariannol sy'n gysylltiedig â chyflwyno'r Ddogfen Gyflawni Flynyddol yn y broses flynyddol o bennu'r gyllideb |
| 3 | **A ydym wedi bod yn cyd-gweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda pwy-** | Bydd amryw o elfennau sydd yn gysylltiedig a gwireddiad amserol y cynllun hwn angen cydweithrediad ag eraill. Caiff hyn ei amlygu wrth i'r cynllun gael ei wireddu dros y cyfnod sydd i ddod. |
| 4 | **A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae'i rhan yn drafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:-** | Ymgynghorwyd â dinasyddion Ynys Môn cyn mabwysiadu Cynllun y Cyngor 2017-22 a bydd amryw o'r ffrydiau gwaith yn cael eu ymgynghori arnynt ymhellach yn ystod y cyfnod gweithredu. |
| 5 | **Nodwch yr effeithiau mae'r penderfyniad hwn yn ei gael ar yr agenda cydraddoldeb ac iaith Gymraeg** | Amherthnasol - bydd Asesiadau Effaith yn cael eu cynnal ar ffrydiau gwaith cysylltiedig a'r Ddogfen Gyflawni Flynyddol er mwyn asesu effaith unrhyw newidiadau ar gydraddoldeb a'r iaith Gymraeg. |

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| **1** | **Prif-weithredwr / Uwch Dim Rheoli (UDRh) (gorfodol)** | Ystyriwyd y mater hwn gan yr UDA ac adlewyrchir eu sylwadau yn yr adroddiad |
| **2** | **Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol)** | Dim sylwadau |
| **3** | **Swyddog Cyfreithiol / Mnitro (gorfodol)** | Dim sylwadau |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth (TG)** | |
| **7** | **Caffael** | |
| **8** | **Sgriwtini** | |
| **9** | **Aelodau Lleol** | |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Dogfen Cyflawni Blynyddol 2020-22 |

| FF – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth): |
|---|
| Cynllun y Cyngor 2017-22 |

# DOGFEN GYFLAWNI FLYNYDDOL – 2020-22

DRAFT

## RHAGAIR

Mae'n fraint gennyf gyflwyno ein pedwaredd ddogfen gyflawni flynyddol (DGF) sy'n canolbwyntio ar y gwaith yr ydym yn ei wneud i wireddu'r dyheadau uchelgeisiol a bennwyd yng Nghynllun y Cyngor Sir am y cyfnod 2017-22. Fodd bynnag, mae'r DGF hon yn wahanol i unrhyw un o'r tair a gyhoeddwyd gennym yn flaenorol gan y bydd yn canolbwyntio ar y gwaith y byddwn yn ei wneud dros gyfnod o 18 mis, rhwng mis Hydref 2020 a Mawrth 2022.

Rwyf yn ysgrifennu hwn a ninnau newydd ddod allan o gyfnod clo byr o bythefnos i geisio lleihau nifer y bobl sy'n cael eu heintio â Covid-19, yn dilyn nifer uchel o achosion yn genedlaethol ac yma yn Ynys Môn.

Fel y trafodais yn fy rhagair i'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol fis diwethaf, bu i'r Cyngor ymateb ac addasu yn gyflym er mwyn diogelu'r bregus yn ein cymunedau a chefnogi'r anghenus pan oedd angen. O'r herwydd nid oedd modd, er enghraifft, cyhoeddi ein DGF ym mis Mehefin gan i nifer o'n gweithgareddau dydd i ddydd a chynlluniau ddod i stop yn ddisymwth ddiwedd mis Mawrth 2020 er mwyn delio â'r Pandemig Coronafeirws.

Rydym yn cydnabod ein bod yn parhau i fyw mewn byd a all newid yn ddramatig o un wythnos i'r llall ac felly rydym wedi llunio rhaglen waith ar gyfer y cyfnod sydd, yn ein barn ni, yn gyraeddadwy er gwaetha'r pandemig presennol.

Mae'n cynnwys gwaith yn gysylltiedig â Chynllun Adfywio Economaidd Gogledd Môn sydd â'r nod o wella ffyniant Amlwch a Gogledd Môn. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn cyfnod lle bu cyfleoedd swyddi yn dirywio yn yr ardal. Hefyd, byddwn yn gweithio'n agos â Menter Môn a phartneriaid eraill ar Barth Arddangos Ynni Llanw Morlais, sydd â'r nod o greu nifer o swyddi crefftus os caiff y cynllun ei gymeradwyo.

Gohiriwyd datblygiad ein Rhaglen Moderneiddio Ysgolion ers y pandemig, ond nawr bod systemau ar waith, ein nod yw cytuno ar y ffordd briodol ymlaen sy'n sicrhau bod y cyfleoedd gorau ar gael i'n myfyrwyr presennol ac myfyrwyr y dyfodol.

Yn ystod 2019/20, fe wnaethom gynorthwyo i ddod â 104 o dai yn ôl i ddefnydd yn ogystal â chreu 7 o gartrefi newydd fel eu bod yn dod yn gartrefi i unigolion, cyplau a theuluoedd. Eleni, ein nod yw parhau â'r duedd gadarnhaol hon a dod â mwy o dai gwag yn ôl i ddefnydd, yn ogystal â chynyddu'r stoc dai sydd ar gael i'n tenantiaid drwy ddatblygu 83 eiddo newydd.

Mae llawer o'r gwaith a wnaethom mewn ymateb i'r coronafeirws wedi canolbwyntio ar y ffordd orau y gall trigolion Ynys Môn gysylltu â'r Cyngor, yn arbennig tra bod ein swyddfeydd ar gau. Mae'r gwaith a wnaethpwyd ar ein taith ddigidol i hwyluso darpariaeth hunanwasanaeth ar-lein wedi caniatáu i nifer o wasanaethau barhau yn ôl yr arfer yn ogystal â chyflwyno gwasanaethau newydd mewn ymateb i'r pandemig, megis ceisiadau am grantiau busnes ac archebu ymweliad â chanolfan ailgylchu. Byddwn yn parhau â'n taith drawsnewid ddigidol yn ystod y deunaw mis nesaf, gan sicrhau fod gwasanaethau eraill ar gael ar-lein.

Ym mis Medi 2020, cytunodd Cyngor Sir Ynys Môn ar gynnig i ymrwymo i gyflawni Sector Cyhoeddus Carbon Niwtral erbyn 2030. Yn ystod y flwyddyn nesaf byddwn yn datblygu Chynllun Gweithredu Newid Hinsawdd er mwyn chwarae ein rôl yn llawn.

Rydym yn ymwybodol hefyd fod rhaid i ni ddatblygu cynlluniau ar y ffordd orau o adfer yn dilyn y pandemig ac o'r herwydd rydym yn datblygu 4 cynllun adfer sy'n canolbwyntio ar ffrydiau gwaith Adfer yr Economi, Adfer Cyrchfan, ac Adfer Cymunedol / Cymdeithasol a Sefydliadol. Byddant oll ar gael yn gynnar yn y Flwyddyn Newydd.

Yn olaf, mae amgylchiadau'r flwyddyn hon, o fis Mawrth ymlaen, wedi newid pob un ohonom. Fel Cyngor, gallwn fod yn falch o'n staff a'n cymunedau. Gyda'n gilydd gallwn wneud gwahaniaeth a thrwy gyd-dynnu rydym yn dangos cryfder ein hynys fechan.

**Llinos Medi** (Arweinydd y Cyngor)

DRAFT

## AMCAN 1
## SICRHAU Y GALL POBL YNYS MÔN FFYNNU A GWIREDDU EU POTENSIAL TYMOR HIR.

**SWYDDI A CHYFLEON GWAITH**

- Byddwn yn cyflawni prosiectau a rhaglenni a ariennir yn allanol sy'n cynnwys Prosiect Strategol Caergybi ym Mhenrhos, Prosiect Arfor, Porth Ymwelwyr Ynys Gybi, Cynlluniau Gwella Adeiladau Hanesyddol, a'r Rhaglen Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio
- Byddwn yn dechrau cyflawni Cynllun Adfywio Economaidd Gogledd Ynys Môn i wella ffyniant yn Amlwch a Gogledd Ynys Môn.
- Byddwn yn cydlynu'r Rhaglen Ynys Ynni i liniaru'r effeithiau a gwella'r buddion sy'n deillio o brosiectau ynni mawr fel Prosiect Wylfa Newydd, Prosiect Parth Arddangos Ynni Llanw Morlais, Prosiect Fferm Solar Traffwll, Prosiect Glannau Caergybi a Phrosiect Marina Caergybi.
- Byddwn yn cydweithio â Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill ac yn dylanwadu arnynt i hwyluso'r amodau iawn ar gyfer datblygu ar yr Ynys.
- Byddwn yn cydweithio trwy'r Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i yrru Bid Twf Gogledd Cymru yn ei flaen.
- Byddwn yn parhau i gydweithio i adnabod a paratoi ar gyfer y cyfleoedd a'r risgiau posib yn sgil Brexit.

**ADDYSG A SGILIAU**

- Byddwn yn cytuno ar ac yn datblygu darpariaeth Moderneiddio Ysgolion yn ardal Llangefni
- Byddwn yn archwilio i opsiynau ac yn cytuno ar Gynllun ar gyfer Moderneiddio Ysgolion yn ardal Seiriol
- Byddwn yn archwilio i opsiynau ar gyfer Moderneiddio Ysgolion yn nalgylch Amlwch
- Byddwn yn parhau i gefnogi ein hysgolion i ddatblygu fel sefydliadau sy'n dysgu, gan sicrhau amgylcheddau dysgu cynhwysol, a hyrwyddo'r dysgu a'r addysgu gorau posib ar gyfer pob dysgwr.
- Bydd ffocws penodol yn cael ei roi ar barhau i ddatblygu'r ystod o sgiliau dysgu ac addysgu sydd eu hangen i sicrhau dysgu cyfunol effeithiol
- Byddwn yn darparu'r Strategaeth Atal corfforaethol i sicrhau bod disgyblion a phobl ifanc yn ffynnu ac yn gwireddu eu potensial hirdymor
- Byddwn yn ymdrechu i gynyddu'r ansawdd a'r nifer o bobl sy'n ymgeisio am rolau arweinyddiaeth yn ein hysgolion

**IECHYD A LLES**

- Byddwn yn darparu cyfleoedd i breswylwyr ac ymwelwyr gymryd rhan a defnyddio cyfleusterau hamdden trwy weithredu Cynllun Adfer Môn Actif pan fydd yn ddiogel gwneud hynny.
- Byddwn yn datblygu strategaeth iechyd meddwl ar gyfer ysgolion fel bod ystyriaethau Iechyd a Lles wedi'u hintegreiddio'n llawn ym mhob ysgol.
- Byddwn yn adeiladu ar y gronfa o wirfoddolwyr sydd wedi'i sefydlu yn ein cymunedau ers y pandemig ac yn ceisio sefydlu mwy o gynlluniau tro da yn ein cymunedau.
- Byddwn yn adolygu ein ffyrdd o ymgysylltu â'n tenantiaid i sicrhau bod llais y cwsmer yn cael ei glywed wrth gynllunio'r gwasanaethau a gynigir i'n tenantiaid.
- Byddwn yn gweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, sefydliadau'r 3ydd Sector, Cyngor ar Bopeth a chyrff eraill i sefydlu menter Bwyd Da Môn ar gyfer trigolion Ynys Môn er mwyn ceisio mynd i'r afael â thlodi bwyd a lleihau faint o wastraff bwyd sy'n mynd i safleoedd tirlenwi.

## AMCAN 2 - CEFNOGI OEDOLION A THEULUOEDD BREGUS FEL EU BOD YN GALLU BOD YN DDIOGEL, YN IACH AC MOR ANNIBYNNOL Â PHOSIB

**CEFNOGAETH I OEDOLION HŶN A BREGUS**

- Byddwn yn gweithio ar ddatblygu ein hopsiynau ar gyfer darpariaeth tai gofal ychwanegol newydd ar yr Ynys a fydd yn cynnig cartref am oes i bobl dros 60 oed sy'n dymuno byw'n annibynnol mewn cymuned ddiogel a chroesawgar gyda gwasanaethau gofal a chymorth ar y safle.
- Byddwn yn trawsnewid gwasanaethau i oedolion ar draws yr holl wasanaethau iechyd meddwl trwy weithredu'r Strategaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl yng Ngogledd Cymru.
- Byddwn yn cynyddu lefelau cyfranogiad yn y modelau hybiau cymunedol trwy hyrwyddo a datblygu'r hybiau a gynhelir ledled yr Ynys.
- Byddwn yn datblygu'r rhaglen Cysylltu Bywydau i gefnogi pobl sy'n byw gyda Dementia a gwella gofal seibiant i ofalwyr.
- Byddwn yn parhau i wreiddio'r 3 Thîm Adnoddau Cymunedol, a leolir yn Amlwch, Ysbyty Penrhos Stanley a Llanfairpwll, a fydd yn dod â staff y Cyngor a staff Betsi Cadwaladr ynghyd i wella mynediad i'n gwasanaethau gofal a chymorth cyn gynted ag y bo modd.
- Byddwn yn ymgysylltu â defnyddwyr y Gwasanaeth Cyfleoedd Dydd i Oedolion ag Anableddau Dysgu fel y gallwn gyd-greu ystod ehangach o gyfleoedd dydd o ansawdd uchel i unigolion yn eu cymunedau.

**CEFNOGAETH I DEULUOEDD A PHLANT**

- Byddwn yn datblygu Cartrefi Clyd ymhellach, neu gartrefi o fath teuluol ar yr ynys a fydd yn golygu y bydd plant o Ynys Môn sy'n derbyn gofal yn gallu cael y gofal hwnnw ar yr Ynys a mynychu ysgolion lleol a chymryd rhan ym mywyd y gymuned, yn hytrach na chael eu rhoi mewn llety sy'n bellach i ffwrdd efallai o'r gymuned leol y maent wedi arfer â hi.
- Byddwn yn parhau i recriwtio gofalwyr maeth yn Ynys Môn fel y gall Plant sy'n Derbyn Gofal barhau i fyw yn eu cymunedau pan na all eu rhieni ofalu amdanynt.
- Byddwn yn datblygu gwasanaethau seibiant ymhellach ar gyfer plant anabl a'u teuluoedd.
- Byddwn yn gweithio i gynyddu'r Stoc Dai sydd ar gael i'n tenantiaid trwy ychwanegu 83 o gartrefi, gan gynnwys datblygu cynlluniau ar gyfer 63 o gartrefi newydd a phrynu 20 o hen dai Cyngor.
- Byddwn yn ymgeisio am gyllid grant allanol i gefnogi cynlluniau i ddatblygu hen safle Ysgol Llaingoch, Caergybi, ar gyfer adeiladu cartrefi newydd.
- Byddwn yn defnyddio Premiwm y Dreth Gyngor i sicrhau bod pobl ifanc yn gallu cael mynediad at dai addas yn eu cymunedau lleol drwy ddatblygu a moderneiddio 3 chartref gwag a sicrhau eu bod ar gael i'w prynu gan brynwyr tro cyntaf lleol.
- Byddwn yn cwblhau'r gwaith i alluogi tenantiaid i gysylltu'n ddigidol trwy gyflwyno system Gwasanaethau Digidol a fydd yn caniatáu i denantiaid gyfathrebu â ni yn ddigidol, gan gynnwys ar gyfer rhoi gwybod am unrhyw faterion gofal cwsmer, gwaith gofal a thrwsio, i dalu rhent a chyflwyno unrhyw gwynion am ein stadau.

## AMCAN 3 - GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH GYDA'N CYMUNEDAU I SICRHAU Y GALLANT YMDOPI'N EFFEITHIOL GYDA NEWID A DATBLYGIADAU TRA'N DIOGELU EIN HAMGYLCHEDD NATURIOL.

**DATBLYGU A HYRWYDDO**

Yn dilyn cynnig a gymeradwywyd gan Gyngor Sir Ynys Môn i gyflawni Sector Cyhoeddus Carbon Niwtral erbyn 2030;

- Byddwn yn datblygu ac yn mabwysiadu Cynllun Gweithredu Newid Hinsawdd i newid arferion a darparu ymyriadau i leihau ein ôl-troed Carbon.
- Byddwn yn darparu pwyntiau gwefru cerbydau trydan ar safle Parcio a Theithio Llanfairpwll yn ogystal â nodi safleoedd addas eraill ar gyfer y cyfleusterau hyn ledled yr ynys.
- Byddwn yn parhau â'n bwriad a'n cyflawniad o ran sicrhau bod dros 70% o'r holl wastraff cartref yn cael ei ailgylchu erbyn 2025 sydd, yn ei dro, yn golygu nad oes angen i wastraff fynd i safleoedd tirlenwi.
- Byddwn yn datblygu ac yn gweithio ar gynlluniau lliniaru llifogydd mewn safleoedd yn Nwyran, Amlwch, Caergybi, Porthaethwy, Llanfairpwll, Y Fali a Thraeth Coch, yn ogystal â chydweithio gyda Chyfoeth Naturiol Cymru ar gynllun lliniaru llifogydd Llangefni
- Byddwn yn datblygu llwybrau cerdded a beicio ymhellach yn unol â Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013.

**TRAWSNEWID**

- Byddwn yn datblygu’r agenda cynllunio lle trwy weithio mewn partneriaeth â Medrwn Môn a wardiau Twrcelyn, Llifon, Rhosyr, Aethwy a Chanolbarth Môn i gwblhau’r broses o fapio pob ward erbyn 2021.
- Byddwn yn parhau i gymell a chefnogi'r swyddogaethau Tai, Gwarchod y Cyhoedd a Hamdden a chefnogi staff i wneud y defnydd mwyaf posib o'r Gymraeg yn ogystal â pharhau i ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg staff sy'n gallu siarad Cymraeg.
- Byddwn yn gwneud paratoadau ac yn aildendro’r contract prydau ysgol ar draws yr ynys gan sicrhau bod bwydlen iach a maethlon yn barod erbyn Medi 2021.
- Byddwn yn parhau i symud ymlaen â'r rhaglen buddsoddiadau cyfalaf tymor hir i wella hyblygrwydd defnydd ac apêl Canolfannau Hamdden y Cyngor Sir yn ogystal â datblygu cynlluniau ar gyfer cae 3G newydd yng Nghaergybi.
- Byddwn yn parhau ar ein taith ddigidol trwy hwyluso darpariaeth hunanwasanaeth ar-lein sy'n caniatáu i ddinasyddion ofyn, adrodd a thalu am wasanaethau ar amser sy'n gyfleus iddynt o unrhyw leoliad, dyfais neu sianel ddigidol trwy ddatblygu ein System Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid ymhellach a gostwng nifer y ffurflenni sydd ar gael ar bapur yn unig.
- Byddwn yn sicrhau bod athrawon a disgyblion yn gallu cael mynediad i wasanaethau ar-lein cyflymach trwy gynyddu'r cyflymder lawrlwytho band llydan i 300Mb /e yn ein hysgolion uwchradd.
- Byddwn yn cynyddu’r gymhareb cyfrifiaduron i ddisgyblion mewn ysgolion trwy ddefnyddio’r grant HWB gan Lywodraeth Cymru
- Byddwn yn dechrau gweithredu Porth Cwsmeriaid y Gwasanaeth Refeniw i roi gwasanaeth hwylus ac o ansawdd uchel i gwsmeriaid a fydd yn cynnig cyfleusterau hunanwasanaeth ac yn cynorthwyo gyda biliau electronig.
- Byddwn yn newid hen gerbydau fflyd y Cyngor am gerbydau trydan neu LPG mwy newydd lle bo hynny'n briodol ac yn nodi safleoedd Cyngor lle gellir gosod Pwyntiau Gwefru  Cerbydau Trydan.

**ADFER**

Mae delio â'r argyfwng Covid-19 wedi bod yn her sylweddol i'r Cyngor - nid yn unig o ran cynnal gwasanaethau rheng flaen allweddol, darparu gwasanaethau newydd, a chynnal busnes fel arfer lle bo modd, ond hefyd o ran sicrhau bod trefniadau iechyd a diogelwch ar waith i warchod staff yr awdurdod wrth iddynt ddarparu gwasanaethau. Roedd yn rhaid cael cydbwysedd rhwng y materion hyn a datblygu / darparu gwasanaethau ac ymyriadau newydd mewn ymateb i'r argyfwng.

Mae'r effaith wedi bod yn bellgyrhaeddol ar drigolion, cymunedau ac economi'r ynys. Mae wedi cael effaith sylweddol ar allu'r Cyngor i barhau gyda'i raglen waith strategol fel yr amlinellir uchod. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod dyletswydd arnom i sicrhau cydbwysedd rhwng adferiad, busnes fel arfer a chynlluniau strategol. Oherwydd bod heriau argyfwng Covid-19 yn parhau i fod yn sylweddol, cydnabyddir y bydd ein hadferiad fel Ynys ac fel Cyngor yn canolbwyntio ar 4 prif faes gwaith -

- **Cynllun Adfer Economaidd**

Nod y cynllun adfer economaidd fydd sefydlu fframwaith o gamau i gefnogi busnesau, cynnal lefelau cyflogaeth, a gosod y sylfeini i ddechrau ailstrwythuro'r economi leol i sicrhau mwy o wytnwch a thwf posib yn y dyfodol.

- **Cynllun Adfer ar gyfer Cyrchfannau**

Ein nod yma fydd sefydlu fframwaith y cytunwyd arno, ynghyd ag ystod o gamau i fynd i'r afael â'r materion sy'n wynebu busnesau twristiaeth a lletygarwch ers dechrau'r pandemig. Byddwn hefyd yn parhau i gefnogi ailgychwyn masnachu diogel a chynaliadwy a denu ymwelwyr yn ôl i'r ynys, nid yn unig i fwynhau llonyddwch, asedau naturiol ac 'ymdeimlad unigryw o le' Ynys Môn, ond hefyd i barchu ein cymunedau ac ymddwyn yn gyfrifol ynddynt o dan y 'normal newydd'.

- **Cynllun Adfer Cymunedol / Cymdeithasol**

Bydd y cynllun adfer hwn yn anelu at gadw arfer da, cynyddu capasiti ac arbenigedd i'r eithaf, dysgu a chyd-gynhyrchu ymdrechion sydd wedi datblygu a chryfhau'n naturiol trwy gydol y cyfnod argyfwng.

Y nod, trwy gydol yr adferiad, fydd gwarchod trigolion Ynys Môn rhag yr heriau a wynebir a'r gwendidau amlwg a gynyddodd effeithiau personol Covid-19. Yn ogystal, rhagwelir y bydd angen gwarchod staff rheng flaen (gweithwyr allweddol) trwy adeiladu'r gallu a'r gwytnwch angenrheidiol trwy gydol y cyfnod adfer.

- **Cynllun Adfer Sefydliadol**

Mae'r pandemig wedi cael effaith aruthrol ar y Cyngor gyda galwadau mawr a diddiwedd, ac mae graddfa a chyflymder y newid wedi bod yn ddigynsail ac effeithiwyd ar bob agwedd ar weithgareddau'r Cyngor. Yn wir, credir y bu effaith ar bob agwedd ar fywydau pobl a (staff) ac mae'n bwysig nawr ystyried effaith y newidiadau hyn ar ddatblygiad y sefydliad.

Credir bod angen ymdrech gynlluniedig ar draws y Cyngor i adolygu'r broses i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ac sy'n cydnabod yr amgylchedd allanol sy'n newid yn gyson. Gellir gweld yr argyfwng yn rhoi cyfle heb ei ail i newid a gwella.

Yr her fydd gwireddu'r cyfleon - cyfleon a fydd yn sicrhau y cynhelir trefniadau gweithio cadarn a diogel, gan sicrhau lles staff trwy eu cefnogi'n barhaus a datblygu eu galluoedd a'u sgiliau i gwrdd â'r gofynion newydd.

## Rhagor o wybodaeth

I gael mwy o wybodaeth am unrhyw elfen o'r ddogfen hon neu os oes gennych unrhyw sylwadau, cysylltwch â:

Adnoddau Dynol a Thrawsnewid

Cyngor Sir Ynys Môn

Swyddfeydd y Cyngor

Llangefni,

Ynys Môn

LL77 7TW

Ffôn - 01248 752111

E-bost: -

CarysEdwards@ynysmon.gov.uk

GethinMorgan@ynysmon.gov.uk

Mae'r ddogfen hon ar gael yn y Gymraeg a gellir ei darparu ar ddisg, mewn braille ac mae ar gael hefyd ar wefan y Cyngor ynghyd â Chynllun y Cyngor ar gyfer 2017-22:

http://www.ynysmon.gov.uk/cynllunycyngor

Gellir cael rhagor o wybodaeth hefyd fel a ganlyn: Polisïau, cynlluniau a strategaethau a gyhoeddwyd gan y Cyngor ac y gellir eu gweld trwy fynd i : http://www.ynysmon.gov.uk

Mae Adroddiadau Archwilio ac Arolygu a gynhyrchwyd gan Reoleiddwyr y Cyngor ar gael ar eu gwefannau perthnasol, fel a ganlyn:

- Swyddfa Archwilio Cymru: www.archwilio.cymru
- Arolygiaeth Gofal Cymru: https://arolygiaethgofal.cymru
- Estyn: www.estyn.cymru

Os nad oes gennych fynediad i'r rhyngrwyd, neu os hoffech gael dogfen nad yw wedi'i rhestru uchod, cysylltwch â'r Cyngor trwy'r manylion cyswllt a amlinellir ar frig y dudalen hon os gwelwch yn dda.

DRAFT

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **30 TACHWEDD 2020** |
| **PWNC:** | **MONITRO CYLLIDEB REFENIW, CHWARTER 2 2020/21** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD ROBIN WYN WILLIAMS** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **MARC JONES** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>FFÔN:<br>E-BOST: | **CLAIRE KLIMASZEWSKI**<br>01248 751865<br>ClaireKlimaszewski@ynysmon.gov.uk |
| **AELODAU LLEOL:** | **Amherthnasol** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

1. Ar 10 Mawrth 2020, gosododd y Cyngor gyllideb net ar gyfer 2020/21 gyda swm gwariant net y gwasanaethau o £142.146m i gael ei gyllido o'r Dreth Gyngor, Trethi Annomestig a grantiau cyffredinol. Mae hyn yn cynnwys cyfanswm o £1.115m ar gyfer eitemau cyffredinol ac eitemau nas cyllidwyd ar eu cyfer. Cafodd y gyllideb ar gyfer Premiwm y Dreth Gyngor ei gostwng £0.051m i £1.393m.

2. Roedd y gyllideb am 2020/21 yn cynnwys yr angen i wneud arbedion gwerth £0.37m. Mae'r rhain wedi cael eu hymgorffori yng nghyllidebau unigol y gwasanaethau a chaiff llwyddiant neu fethiant i'w cyflawni eu hadlewyrchu yn y (tan)/gorwariant a ddangosir. Roedd y targed arbedion ar gyfer 2020/21 yn sylweddol is nag mewn blynyddoedd blaenorol oherwydd cynnydd o 3.8% yn y cyllid gan Lywodraeth Cymru. Croesawyd y cynnydd hwn ar ôl gostyngiad mewn cyllideb dros nifer o flynyddoedd a arweiniodd at osod targedau arbedion sylweddol o dros £2m bob blwyddyn. Ni fu'n bosib i Lywodraeth Cymru roi unrhyw arwydd o lefel arfaethedig y cyllid tu hwn i 2020/21 oherwydd i Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant gan Lywodraeth y DU gael ei ganslo yn sgil Brexit, yr Etholiad Cyffredinol ym mis Rhagfyr 2019 ac yna delio â'r pandemig Coronafeirws.

3. Hyd yma, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu £232m i gwrdd â chostau ychwanegol a gafwyd gan Gynghorau wrth ddelio â'r pandemig, gan gynnwys costau prynu offer diogelu personol (PPE), cefnogi'r Sector Gofal Oedolion, darparu gwasanaethau ychwanegol i bobl ddigartref, helpu gyda chostau symud staff i weithio gartref, cyllido cost taliadau wythnosol i rieni plant a fyddai fel arfer yn derbyn cinio ysgol am ddim a digolledu am incwm a gollwyd gan Gynghorau o ganlyniad i gau gwasanaethau. Ar 17 Awst 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gronfa ychwanegol o £260m i helpu Cynghorau yn ystod chwarter 3 a 4. Dyrannwyd cyllid y mae'n rhaid ei hawlio i'r 22 Cyngor yng Nghymru, ac mae'r symiau a hawliwyd hyd yma ac amcangyfrif o gyllid grant yn y dyfodol wedi'u hymgorffori yn y rhagamcanion yn yr adroddiad hwn.

4. Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol gwasanaethau'r Cyngor ar ddiwedd chwarter 2, sef 30 Medi 2020. Ceir hefyd grynodeb o'r sefyllfa ragdybiedig ar gyfer y flwyddyn gyfan. Dylid nodi fod rhagdybied y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ar ddiwedd chwarter 2 yn anodd a gall y sefyllfa newid yn sylweddol wrth i ni symud drwy weddill y flwyddyn ariannol. Mae hyd yn oed yn anoddach rhagdybied y sefyllfa derfynol ar ddiwedd y flwyddyn am 2020/21 oherwydd nad yw'n glir eto pryd fydd rhai o wasanaethau'r Cyngor yn gweithredu fel arfer a pha gostau ychwanegol fydd ynghlwm â darparu'r gwasanaethau hynny mewn modd sy'n lleihau'r risg o ledaenu'r feirws e.e. PPE ychwanegol, mwy o lanhau, gostyngiad mewn capasiti gwasanaethau yn effeithio ar lefelau incwm.

5. Y sefyllfa ariannol gyffredinol ar ragamcenir ar gyfer 2020/21, gan gynnwys Cyllid Corfforaethol a'r Gronfa Dreth Gyngor, yw tanwariant o £1.156m. Mae hyn yn 0.81% o gyllideb net y Cyngor ar gyfer 2020/21.

**6.** Argymhellir y dylid:-

- **(i)** Nodi'r sefyllfa a amlinellir yn Atodiadau A a B yng nghyswllt perfformiad ariannol yr Awdurdod hyd yma a'r alldro disgwyliedig ar gyfer 2020/21;
- **(ii)** Nodi'r crynodeb o'r cyllidebau wrth gefn ar gyfer 2020/21 fel y manylir arnynt yn Atodiad C;
- **(iii)** Nodi'r sefyllfa mewn perthynas â'r rhaglenni buddsoddi i arbed yn Atodiad CH.
- **(iv)** Nodi'r sefyllfa o ran arbedion effeithlonrwydd 2020/21 yn Atodiad D;
- **(v)** Nodi'r modd y caiff costau staff asiantaeth ac ymgynghorwyr eu monitro yn 2020/21 yn Atodiadau DD, E ac F.

**B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Amherthnasol

**C - Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Mae'r mater hwn wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith

**CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Ydi

| DD - | Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth** (mandadol) | |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | d/b – adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / eraill** | |

| E - | Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | |

**F - Atodiadau:**

- Atodiad A – Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw – Chwarter 2 2020/21
- Atodiad B – Tabl o'r Alldro Dros Dro ar gyfer 2020/21
- Atodiad C – Crynodeb o'r Cyllidebau Wrth Gefn ar gyfer 2020/21
- Atodiad CH – Adolygiad o'r Prosiectau Buddsoddi i Arbed 2020/21
- Atodiad D - Adolygiad o'r Arbedion Effeithiolrwydd 2020/21
- Atodiad DD - Gwybodaeth ynghylch monitro Staff Asiantaeth 2020/21
- Atodiad E - Gwybodaeth ynghylch monitro Ymgynghorwyr 2020/21
- Atodiad F – Gwybodaeth fanwl mewn perthynas â'r gwariant ar Ymgynghorwyr

| **FF -** | **Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|---|

- Cyllideb Refeniw 2020/21 (fel y cafodd ei hargymell gan y Pwyllgor hwn ar 2 Mawrth 2020 a'i mabwysiadu gan y Cyngor Sir ar 10 Mawrth 2020).

**ATODIAD A**

**MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW – CHWARTER 2 2020/21**

## 1. Balans Cyffredinol

Roedd gan Gronfa'r Cyngor gronfeydd wrth gefn clustnodedig o £8.760m a chronfeydd wrth gefn yn yr ysgolion a oedd werth £0.197m ar ddechrau'r flwyddyn ariannol. Arweiniodd yr alldro drafft ar gyfer 2019/20 at falansau cyffredinol a oedd yn £7.060m ar gychwyn y flwyddyn ariannol bresennol. Gall hyn newid pan ddaw'r archwiliad allanol i ben ddiwedd y mis. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid yw'r archwiliad wedi amlygu unrhyw addasiadau sy'n cael effaith ar y gronfa gyffredinol.

Cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith yr eitemau canlynol i'w cyllido o'r gronfa Gyffredinol yn 2020/21:-

| Cyfarfod y Pwyllgor Gwaith | Swm £m | Pwrpas |
|---|---|---|
| Balans agoriadol drafft | -7.060 | Cronfa gyffredinol archwiliedig ddrafft ar 31 Mawrth 2020. |
| 15 Mehefin 2020 | 0.085 | Cynyddu'r gronfa wrth gefn glustnodedig ar gyfer paentio Pier Biwmares o £100k i £185k er mwyn cyllido'r gwaith yn llawn. |
| **Balans Cyffredinol Diwygiedig Cronfa'r Cyngor** | **-6.975** | **Fel y sonnir uchod, gall hyn newid yn dilyn unrhyw addasiadau ar ôl archwilio'r cyfrifon.** |

Yr alldro cyfredol tybiedig a ragamcenir ar gyfer 2020/21 yw tanwariant o £1.156m. Os yw'r duedd hon yn parhau, mae'n debygol y bydd cronfa wrth gefn gyffredinol y Cyngor yn cynyddu i £8.131m erbyn diwedd y flwyddyn. Mae hyn yn uwch na'r isafswm balans o £7.1m a argymhellwyd ar gyfer y gronfa gyffredinol ar gyfer 2020/21, fel y cymeradwywyd gan y Cyngor llawn ar 10 Mawrth 2020. Byddai'r cynnydd hwn yn helpu'r Cyngor wrth iddo symud i gyfnod ariannol hyd yn oed yn fwy ansicr oherwydd y pandemig sy'n mynd rhagddo.

## 2. Perfformiad Ariannol fesul Gwasanaeth

**2.1** Mae manylion y perfformiad ariannol fesul gwasanaeth am y cyfnod a'r alldro rhagamcanedig ar gyfer pob un wedi'i nodi yn Atodiad B. Rhagwelir tanwariant o £1.595m ar wasanaethau ar 31 Mawrth 2021. Amcangyfrifir gorwariant o £0.234m ar Gyllid Corfforaethol. Yn ogystal, rhagwelir gorwariant o £0.204m mewn perthynas â Chasglu'r Dreth Gyngor, gyda £0.608m i'w briodoli i ddiffyg wrth gasglu'r Dreth Gyngor gyffredinol. Fodd bynnag, mae gwarged o £0.404m ar Bremiwm y Dreth Gyngor yn gwrthbwyso cyfran sylweddol o'r diffyg yn y Dreth Gyngor. Rhagamcenir, ar hyn o bryd y bydd tanwariant o £1.156m yn y gyllideb refeniw yn 2020/21, sef 0.81% o gyllideb refeniw net y Cyngor.

**2.2** Mae Tabl 1 isod yn crynhoi'r amrywiadau sylweddol (tua £100k neu uwch):-

**Tabl 1**

| | **(Tan)/Gorwariant £'000** |
|---|---|
| Dysgu | (967) |
| Oedolion | (309) |
| Gwasanaethau Plant | (543) |
| Trawsnewid | (176) |
| Costau Corfforaethol a Democrataidd | 171 |
| Budd-daliadau a roddwyd | 210 |
| Costau nad oedd cyllideb ar eu cyfer ac nad oes modd eu rheoli – yswiriant, costau cyfalaf pensiwn a dyledion drwg | 200 |
| Y Dreth Gyngor, gan gynnwys Premiwm y Dreth Gyngor | 204 |
| Arall (cyfanswm amrywiadau llai na £100k) | 54 |
| **Cyfanswm yr Amrywiadau gôr/(tan)wariant** | **1,156** |

## 3. Esboniad o'r Amrywiadau Sylweddol

### 3.1 Dysgu Gydol Oes

#### 3.1.1 Cyllidebau Datganoledig Ysgolion

Ar ôl i'r Cyngor osod cyllidebau ysgolion, mae cyfrifoldeb am y gyllideb yn cael ei ddatganoli i ysgolion ac mae unrhyw dan neu orwariant blynyddol yn cael ei ddal yng nghronfeydd wrth gefn yr ysgolion unigol. Gan fod y mwyafrif o ysgolion ar gau yn ystod tymor yr haf, heblaw am un wythnos pan oeddent ar agor, bydd costau a gafwyd gan ysgolion yn is na'r arfer e.e. cyflenwadau a gwasanaethau, athrawon llanw a ffioedd arholiadau. Bydd unrhyw danwariant sy'n deillio o hynny'n cynyddu balansau ysgolion. Nid yw'r Cyngor yn bwriadu cymryd dim o'r tanwariant yn ôl. Ni fydd y sefyllfa gyffredinol o ran cyllidebau datanoledig ysgolion yn hysbys tan ddiwedd y flwyddyn ariannol.

#### Addysg Ganolog

**3.1.2** Roedd tanwariant o £400k (49.19%) yn y gwasanaeth hwn ar ddiwedd chwarter 2. Y rhagamcan ar gyfer diwedd y flwyddyn yw tanwariant o £1,041k (21.92%). Mae nifer o'r cyllidebau hyn yn cael eu harwain gan y galw, felly, oherwydd i ysgolion orfod cau yn sgil y Pandemig Coronafeirws, nid oes unrhyw alw, neu mae'r galw wedi gostwng, fel yr amlygir isod yn 3.1.3. Gallai'r gwasanaethau hyn a arweinir gan y galw newid wrth i'r flwyddyn academaidd fynd rhagddi.

**3.1.3** Mae nifer o feysydd yn gor a thanwario ar draws y Gwasanaeth. Rhestrir y rhai mwyaf arwyddocaol isod:-

- Rhagwelir tanwariant o £440k ar brydau ysgol oherwydd nad oedd galw am brydau ysgol yn ystod 4 mis cyntaf y flwyddyn ariannol pan oedd ysgolion ar gau. Mae'r Cyngor yn sybsideiddio prydau ysgol, felly, mae llai o alw yn arwain at lai o wariant yn erbyn y gyllideb prydau ysgol.
- Bu llai o alw ar y gyllideb lleoliadau all-sirol ers dechrau 2019/20, gan fod un ar ddeg o blant wedi gadael lleoliadau all-sirol ar ôl iddynt droi'n 16+ oed neu ddychwelyd i leoliadau ar Ynys Môn. Dim ond pedwar lleoliad newydd a gafwyd. Rhagwelir tanwariant o £765k ar leoliadau all-sirol. Wrth i'r cyfnod clo lacio ac wrth i'r flwyddyn academaidd fynd rhagddi, efallai y bydd nifer y plant sydd angen lleoliadau all-sirol yn dechrau cynyddu ac yn cael effaith ar y tanwariant a ragwelir.
- Mae rhai cyllidebau yn y gwasanaeth dan bwysau ond mae'r tanwariant a ragwelir yn gwneud yn iawn am hynny. Rhagwelir y bydd gorwariant o £194k ar Wasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol Môn a Gwynedd. Mae tua £50k yr un o bwysau cyllidebol yn y meysydd anghenion dysgu ychwanegol, Clwb Gofal ac addysg bellach.

#### 3.1.2 Diwylliant

**3.1.2.1** Roedd tanwariant o £57k (7.56%) yn y gwasanaeth hwn yn ystod y cyfnod ond mae'r alldro a ragwelir ar gyfer y flwyddyn yn orwariant o £74k (5.76%). Mae hyn oherwydd y rhagamcan y collwyd £136k o incwm yn sgil cau'r Oriel a'r ailagor graddol yn dilyn y cyfnod clo. Mae hyn yn rhagdybio y bydd Llywodraeth Cymru'n rhoi'r gorau i ddigolledu awdurdodau lleol am incwm a gollwyd ar ôl chwarter 1, pan ganiatawyd i'r Oriel agor. Nid yw cyllid ar gyfer y celfyddydau bellach yn gymwys dan y cynllun Grant Caledi Covid-19 Llywodraeth Cymru. Mae cyllid arall ar gael i gefnogi'r celfyddydau, serch hynny, nid yw'n eglur a yw'r incwm a gollwyd yn yr Oriel yn gymwys. Cyflwynwyd hawliad am £31k i Lywodraeth Cymru ac, os y'i derbynnir, bydd y gorwariant yn gostwng i £26k. Mae Llyfrgelloedd yn helpu i ostwng gorwariant y gwasanaeth a disgwylir y bydd tanwariant o £75k o ganlyniad i swyddi gweigion ac arbedion ar staff llanw tra'r oedd llyfrgelloedd ar gau oherwydd Covid-19. Disgwylir ychydig o orwariant ar grantiau diwylliant ac archifau.

### 3.2 Gofal Cymdeithasol Oedolion

**3.2.1** Roedd gorwariant o £485k (3.83%) yn y gwasanaeth hwn yn ystod y cyfnod. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd tanwariant o £309k (1.15%) yn y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn welliant o £504k o gymharu â'r gorwariant o £195k a ragamcanwyd yn ystod chwarter 1. Y rheswm am hyn yw cynnydd annisgwyl mewn incwm gohiriedig ar wasanaethau i'r Henoed. Cyfrifir yn llawn am incwm gohiriedig yn y flwyddyn y darparwyd y gwasanaeth, ond mae'n bosib na fydd y ddyled yn cael ei chlirio am nifer o flynyddoedd, ar ôl gwerthu eiddo neu setlo ystadau cleientiaid ymadawedig. Hefyd, mae'r gyllideb yn cynnwys defnyddio cyllideb wrth gefn o £251k ar gyfer galw ychwanegol am wasanaethau gofal cymdeithasol Oedolion oherwydd pwysau cyllidebol ym meysydd Gofal Nyrsio a Gofal Cartref. Nid yw'r gorwariant a ragwelir yn cynnwys grant pwysau'r gaeaf posib gan nad yw'r Cyngor wedi derbyn cynnig o grant am y pwysau hwn hyd yma. Os bydd Llywodraeth Cymru'n cynnig cyllid grant, bydd yn cael ei adlewyrchu mewn adroddiad monitro'r gyllideb yn y dyfodol. Dengys hyn fod y galw am wasanaethau cymdeithasol oedolion yn parhau i fod yn uchel. Rhoddwyd cyllideb ychwanegol o £1.028m i'r gwasanaeth fel rhan o broses gosod cyllideb 2020/21 gan fod cyllidebau'r Gwasanaethau Oedolion dan bwysau yn 2019/20. Cafodd cyllideb wrth gefn o £251k ar gyfer Galw yn y Gwasanaethau Oedolion ei chynnwys hefyd wrth osod y gyllideb, ac mae hynny wedi cael ei gymryd i ystyriaeth wrth lunio'r rhagamcan uchod.

**3.2.2** Roedd yr elfennau o ran amrywiad yn yr alldro a ragamcanwyd fel a ganlyn:-

- Gwasanaethau ar gyfer yr Henoed: Tanorwariant rhagamcanedig o £136k oherwydd cynnydd mewn incwm gohiriedig. Gan fod yr incwm hwn yn gysylltiedig â chleientiaid nid yw'n incwm sy'n cael ei ailadrodd ar yr un lefel bob blwyddyn. Felly, mae gorwariant sylfaenol o £257k, ym meysydd Gofal Nyrsio a Gofal Cartref.
- Anableddau Corfforol (AC): Rhagamcenir tanwariant o £68k – mae'r tanwariant mwyaf yn ymwneud ag asesu a rheoli gofal (£83k) oherwydd swydd wag a chyllid grant a dderbyniwyd ar gyfer swyddi eraill. Offer ac addasiadau (£37k) a gwasanaethau eraill (£18k). Gwaed llai o waith gosod cymhorthion ac addasu oherwydd y pandemig Covid-19. Disgwylir gorwariant (£64k) ar ofal preswyl.
- Anableddau Dysgu (AD): Rhagamcenir gorwariant o £245k – rhagwelir gorwariant o £102k ar ofal preswyl oherwydd galw ychwanegol am leoliadau cost uchel ar gyfer unigolion sydd ag anghenion gofal cymhleth. Mae hwn yn wasanaeth a arweinir gan y galw ac yn bennaf mae'n comisiynu nifer fechan o leoliadau costus iawn i gwrdd ag anghenion defnyddwyr gwasanaeth. Rhagwelir y bydd gorwariant o £7k ar ofal dydd, ynghyd â gorwariant o £14k ar asesu a rheoli gofal. Rhagwelir y bydd gorwariant o £400k ar lety â chymorth a llety arall. Roedd disgwyl arbedion o £300k yn y maes hwn o ganlyniad i ymarfer tendro, fodd bynnag ni chafodd hynny ei weithredu oherwydd Covid-19. Gohiriwyd y broses dendro. Rhagwelir tanwariant sylweddol o £209k ar ofal cartref wrth i fwy o unigolion dderbyn taliadau uniongyrchol a threfnu eu gofal cartref eu hunain.
- Iechyd Meddwl (IM): Rhagwelir tanwariant o £247k - rhagwelir y bydd £6k o danwariant ar ofal preswyl. Mae hwn yn wasanaeth sy'n cael ei arwain gan y galw ac, unwaith eto, mae'n golygu cost uchel ar gyfer nifer isel o leoliadau costau uchel yn bennaf. Felly, mae'n bosib y bydd y sefyllfa'n newid wrth i'r flwyddyn ariannol fynd rhagddi. Rhagamcenir £262k o danwariant ar gymorth cymunedol oherwydd swyddi gwag. Rhagwelir gorwariant ar Ofal Cartref (£28k) a Byw â Chymorth (£31k).
- Uned Ddarparu a Rheoli a Chymorth: Rhagamcenir tanwariant o £103k. Mae hyn oherwydd swydd wag a phrosiect trawsnewid rhanbarthol, a fyddai wedi costio £68k, nad yw'n symud ymlaen oherwydd Covid-19. Mae pwysau ar y gyllideb yn yr uned ddarparu, yn arbennig ar gartrefi gofal, lle rhagwelir gorwariant o £164k, er bod tanwariant mewn meysydd eraill yn gostwng y gorwariant yn yr Uned Ddarparu i £25k.

**3.2.3** Dengys y ffigyrau ar gyfer chwarter 2 bwysau sylweddol o ran y galw am wasanaethau yn ystod y chwarter. Er mwyn ymchwilio'n llawn i'r materion hyn, bydd yr adran yn ystyried pob llinell benodol sydd wedi arwain at y gorwariant sylweddol a ragamcenir. Yn achos pob un, rhoddir ystyriaeth i'r canlynol:-

- Natur y tueddiadau cylchol (tueddiadau blwyddyn ar ôl blwyddyn a mis ar ôl mis);
- Y rhesymau tu ôl i'r tueddiadau;
- Camau pellach y gellir eu cymryd i reoli galw.

Adroddir ar unrhyw adborth i'r Pwyllgor Gwaith a'r Panel Sgriwtini Cyllid.

## 3.3 Gwasanaethau Plant

**3.3.1** Roedd tanwariant o £195k (3.27%) yn y gwasanaeth yn ystod y cyfnod a rhagwelir tanwariant o £534k (4.96%) erbyn diwedd y flwyddyn. Mae'r rhan fwyaf o adeiniau yn y Gwasanaethau Plant yn tanwario, a rhagwelir y bydd tanwariant o £449k yn y maes plant sy'n derbyn gofal. Disgwylir gorwariant o £193k ar blant ag anableddau.

**3.3.2** Rhagwelir y bydd tanwariant yn y gyllideb Plant sy'n Derbyn Gofal oherwydd tanwariant disgwyliedig o £1,000k ar leoliadau all-sirol. Mae hyn yn gysylltiedig â thanwariant sylweddol yn y Gwasanaeth Dysgu gan fod y Gwasanaeth Dysgu a'r Gwasanaethau Plant yn cyllido lleoliadau all-sirol. Gadawodd nifer o bobl ifanc leoliadau all-sirol yn 2019/20 oherwydd eu hoedran neu am iddynt gael eu lleoli ar yr Ynys. Bu cynnydd yn y lleoliadau gyda Gofalwyr Maeth o ganlyniad i'r pecyn buddion Gofalwyr Maeth a gyflwynwyd y llynedd. Rhagwelir y bydd gorwariant o £328k ar leoliadau gofal maeth a gorwariant o £182k ar leoliadau nad ydynt yn rhai safonol. Mae'r tanwariant ar leoliadau all-sirol yn fwy na digon i wneud yn iawn am y gorwariant hwn. Mae'n bosib y bydd atgyfeiriadau i'r Gwasanaethau Plant yn dechrau cynyddu ac mae'n annhebygol y bydd y tanwariant yn parhau yn yr hirdymor. Mae gwasanaethau plant ag anableddau'n gorwario (£193k) oherwydd cost uchel lleoliadau arbenigol a fydd yn cael eu symud i Gartref Arbenigol Grŵp Bach y Cyngor yn y pendraw, pan fydd yn weithredol.

**3.3.3** Oherwydd y pandemig, gwelwyd gostyngiad yn nifer yr atgyfeiriadau i'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a gostyngiad bychan yn nifer y plant sy'n dod i ofal yr Awdurdod Lleol. Rhagwelir y bydd atgyfeiriadau'n cynyddu ac, yn wir, mae'n bosib y bydd rhaid i ni ddod â rhai plant i mewn i ofal. Felly, rhaid i ni ystyried gofynion ariannol y pwysau hwn yn ystod y misoedd nesaf.

## 3.4 Tai (Cronfa'r Cyngor)

**3.4.1** Roedd tanwariant o £24k (2.46%) yn y gwasanaeth hwn yn ystod y cyfnod a rhagamcenir y bydd tanwariant o £25k erbyn diwedd y flwyddyn. Mae tanwariant o £25k ar ddigartrefedd oherwydd swydd wag ond, ac eithrio hynny, disgwylir i'r gwariant fod o fewn y gyllideb.

## 3.5 Rheoleiddio a Datblygu Economaidd

### 3.5.1 Economaidd a'r Gymuned (yn cynnwys Cyrchfan a Hamdden)

**3.5.1.1** Yn gyffredinol, roedd tanwariant o £159k (13.93%) yn y gwasanaeth am y cyfnod a'r alldro rhagamcaniedig yw gorwariant o £15k (0.80%).

**3.5.1.2** Rhagamcenir y bydd gorwariant o £20k ar elfen Datblygu Economaidd y gwasanaeth erbyn diwedd y flwyddyn. Mae gohirio prosiect Wylfa Newydd a therfynu cytundebau partneriaeth gyda Horizon a'r Grid Cenedlaethol yn cael effaith negyddol ar allu'r gwasanaeth i gyflawni ei dargedau incwm mewn perthynas â chodi tâl am staff. Ailgyfeiriwyd staff i weithio ar ymateb yr Awdurdod i'r Coronafeirws. Fodd bynnag, nid yw'r costau hyn yn gymwys ar gyfer cyllid grant Llywodraeth Cymru. Mae pwysau eraill ar y gyllideb yn cynnwys dylunio graffeg a thanysgrifiadau datblygu economaidd, a allai ddod i gyfanswm o £20k o orwariant erbyn diwedd y flwyddyn. Mae'r swydd wag Cyfarwyddwr Rheoleiddio a Lle wedi helpu i gyllido llawer o'r pwysau ar y gyllideb ac, o'r herwydd, mae'r gorwariant yn debyg i'r hyn a ragwelwyd yn ystod chwarter 1.

**3.5.1.3** Rhagamcenir y bydd tanwariant o £5k yn yr adain Cyrchfan eleni, sy'n is na'r tanwariant o £20k a ragwelwyd yn chwarter 1. Mae ansicrwydd ynghylch gallu'r gwasanaeth i gyflawni ei dargedau incwm ar gyfer angorfeydd, cofrestriadau badau dŵr personol a ffioedd lansio. Mae incwm o ffioedd lansio wedi gwella wrth i gyfyngiadau'r cyfnod clo lacio yn ystod yr haf. Fodd bynnag, mae angorfeydd a chofrestriadau'n parhau i fod yn broblem. Mae gwaith paentio pier Biwmares wedi arwain at gostau sydd £50k yn uwch na'r cyllid sydd ar gael. Fodd bynnag, mae'r swydd wag Rheolwr Cyrchfan ac arbedion ar gostau wardeiniaid traeth a staff tymhorol yn lleihau effaith y pwysau ar y gyllideb, a rhagwelir tanwariant bychan erbyn 31 Mawrth 2021.

**3.5.1.4** Mae'r adain Hamdden wedi cael ei tharo'n galed oherwydd i'r holl ganolfannau hamdden gael eu cau ddechrau'r flwyddyn oherwydd y cyfyngiadau Covid-19, gan gynnwys y cyfnod clo byr. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi digolledu'r gwasanaeth am yr incwm a gollwyd hyd at ddiwedd chwarter 2 ac yn ddiweddar cyhoeddwyd y byddai awdurdodau Cymru'n cael eu digolledu am incwm a gollir yn chwarter 3 a 4. Bydd hyn yn arwain at gyllideb gytbwys yn hytrach na'r diffyg mewn incwm o £630k a ragwelwyd.

**3.5.2 Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd**

**3.5.2.1** Roedd tanwariant o £72k (6.26%) yn y gwasanaeth hwn yn ystod y cyfnod. Fodd bynnag, yr alldro rhagamcanedig ar gyfer y flwyddyn yw gorwariant o £62k (2.91%). Mae hyn yn welliant o gymharu â gorwariant rhagamcanedig o £103k yn chwarter 1.

**3.5.2.2** Roedd tanwariant o £52k yn yr Adain Gwarchod y Cyhoedd ar gyfer y cyfnod ond yr alldro rhagamcanedig yw gorwariant o £36k. Rhagwelir y bydd gorwariant ar reoli cŵn/pla yn cynyddu i £25k ar gyfer y flwyddyn, disgwylir i orwariant ar Iechyd yr Amgylchedd wella ychydig, i £18k, a rhagwelir y bydd gorwariant ar Gofrestryddion yn cynyddu o £25k yn chwarter 1 i £35k yn chwarter 2. Maent oll wedi cael eu heffeithio gan ddiffyg mewn incwm oherwydd y pandemig. Rhagwelir tanwariant yn yr Adain Safonau Masnach (£12k) ac Iechyd a Diogelwch Corfforaethol (£25k) oherwydd swyddi gweigion.

**3.5.2.3** Roedd tanwariant o £20k yn yr Adain Gynllunio ar gyfer y cyfnod a rhagamcenir gorwariant o £26k erbyn diwedd y flwyddyn. Mae hyn yn welliant o gymharu â gorwariant o £70k a ragamcanwyd yn chwarter 1. Mae hyn oherwydd y casglwyd mwy o incwm yn ystod yr ail chwarter. Rhagwelir y bydd gorwariant o £30k ar reoli cynllunio oherwydd diffyg yn y cyllidebau incwm yn ystod hanner cyntaf y cyfnod clo. Rhagwelir gorwariant o £6k ar reoli adeiladu, unwaith eto oherwydd diffyg yn y targedau incwm, er bod y sefyllfa'n well nag yn chwarter 1. Rhagamcenir tanwariant o £5k yr un ar gyfer Polisi Cynllunio a Gweithredu a Chadwraeth. Mae Llywodraeth Cymru'n ystyried mai wedi cael ei ohirio'n unig y mae incwm megis ffioedd cynllunio a thaliadau rheoli adeiladu ac y bydd yn cael ei adfer yn ystod ail hanner y flwyddyn. O'r herwydd, nid ydynt yn gwneud yn iawn am y diffyg incwm yn y meysydd hynny ar hyn o bryd, ond gallai'r sefyllfa newid yn ystod ail hanner y flwyddyn ariannol.

## 3.6 Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo

### 3.6.1 Priffyrdd

**3.6.1.1** Roedd gorwariant o £160k (5.31%) yn y gwasanaeth hwn ar gyfer y cyfnod. Fodd bynnag, rhagwelir gorwariant o £6k (0.1%) erbyn diwedd y flwyddyn. Mae hyn yn gynnydd o gymharu â thanwariant o £43k a ragwelwyd yn ystod chwarter 1.

**3.6.1.2** Mae tan neu orwariant bach mewn nifer o feysydd yn gwneud yn iawn am hyn. Y gorwariant mwyaf sylweddol yw £110k ar Fflyd oherwydd diffyg mewn incwm gan wasanaethau eraill yn sgil y cyfyngiadau Covid. Yn ogystal, ni chwblhawyd y rhagolwg ar gyfer meysydd parcio yn chwarter 1 oherwydd bod gormod o ansicrwydd. Fodd bynnag, rhagwelir diffyg o £90k mewn incwm erbyn hyn. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud yn iawn am gyfran o'r incwm meysydd parcio a gollwyd oherwydd bod llai o bobl yn defnyddio meysydd parcio yn gyffredinol, ond ni fyddant yn digolledu'r Cyngor am yr incwm a gollwyd oherwydd y penderfyniad a wnaed yn lleol i beidio â chodi tâl ar ôl 10 y bore. Mae nifer o feysydd yn tanwario mewn adeiniau eraill yn gwneud yn iawn am orwariant yn y meysydd uchod. Roedd gwaith stryd yn rhagweld cyllideb gytbwys ond, erbyn hyn, rhagwelir gwarged o £50k mewn incwm. Mae tanwariant o £50k ar gefnogaeth adrannol o ganlyniad i swydd wag ac arbedion mewn costau trafnidiaeth (£40k) ac mewn costau cyflenwadau a gwasanaethau. Nid yw'r rhagolwg hwn yn cynnwys costau cynnal a chadw'r gaeaf gan ei bod yn rhy gynnar yn y flwyddyn i ddarogan yr alldro ar y costau hyn. Gallai unrhyw gostau sylweddol yn ystod y gaeaf waethygu'r alldro a ragwelir yn ystod y chwarter hwn. Fodd bynnag, mae gan y Cyngor gronfa wrth gefn glustnodedig o £54k sydd ar gael i gyllido unrhyw gostau sylweddol a all godi yn ystod misoedd y gaeaf.

### 3.6.2 Gwastraff

**3.6.2.1** Roedd tanwariant o £334k (8.69%) yn y gwasanaeth Gwastraff ar gyfer y cyfnod a rhagwelir y bydd tanwariant o £205k (2.55%) yn y gwasanaeth erbyn diwedd y flwyddyn. Mae hwn yn welliant ar y gorwariant o £10k a ragwelwyd yn chwarter 1. Yn ystod y chwarter cyntaf, nid oedd rhagolwg ar gael ar gyfer Gwaredu Gwastraff oherwydd i'r gwasanaethau gwaredu gwastraff gael eu symud i Parc Adfer. Fodd bynnag, mae digon o wybodaeth ar gael i'w gynnwys yn chwarter 2 a rhagwelir tanwariant o £150k ar waredu gwastraff. Mae hyn oherwydd bod y Cyngor yn manteisio ar gyfradd is fesul tunnell o wastraff ers dod yn bartner ym mhartneriaeth Parc Adfer gyda phedwar awdurdod lleol arall yng Ngogledd Cymru.

**3.6.2.2** Mae'r rhagamcanion ar gyfer diwedd y flwyddyn yn cynnwys gor a thanwariannau i wneud yn iawn am hynny mewn gwahanol rannau o'r gwasanaeth. Disgwylir y bydd gorwariant ar Gasglu Gwastraff yn cynyddu £10k, i £60k, sy'n cynnwys ffioedd proffesiynol a chostau cyfreithiol yn gysylltiedig â rhoi'r contract casglu gwastraff newydd ar waith. Disgwylir y bydd gorwariant o £20k ar doiledau cyhoeddus, gwelliant o £15k o ganlyniad i grant gan Lywodraeth Cymru i helpu gyda chostau Covid-19. Yn flaenorol, rhagwelwyd y byddai gorsaf gynhyrchu trydan Penhesgyn yn tanwario £10k. Erbyn hyn, disgwylir cyllideb gytbwys i'r orsaf oherwydd diffyg mewn incwm. Rhagamcenir tanwariant o £90k ar ailgylchu ac mae hyn yn gynnydd o £50k o gymharu â thanwariant o £40k a ragamcanwyd yn chwarter 1. Mae'r tanwariant ar ailgylchu o ganlyniad i swydd wag, gwarged mewn incwm o ddeunyddiau ailgylchu a llai o wariant ar gyflenwadau a gwasanaethau. Yn flaenorol, roedd disgwyl cyllideb gytbwys ar gyfer y gwasanaeth glanhau, fodd bynnag, rhagwelir tanwariant o £10k erbyn hyn oherwydd y contract glanhau.

### 3.6.3 Eiddo

**3.6.3.1** Sefyllfa'r gwasanaeth ar gyfer y cyfnod hwn yw tanwariant o £127k ond rhagwelir gorwariant o £156k (17.5%) erbyn diwedd y flwyddyn. Mae hwn yn welliant bychan o gymharu â'r gorwariant o £171k a rhagwelwyd yn chwarter 1.

**3.6.3.2** Y prif reswm am y gorwariant rhagamcanedig yn y gwasanaeth Eiddo yw tangyflawni ffioedd proffesiynol wedi'u cyfalafu gan £160k oherwydd yr oedi yn y rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, sydd i'w briodoli'n rhannol i'r cyfnod clo. Mae oedi mewn prosiectau cyfalaf o fewn y rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif wedi lleihau'r gwaith sy'n ennill ffi o fewn Eiddo yn y flwyddyn ariannol hon. Fodd bynnag, disgwylir i'r gwaith hwn gynyddu mewn blynyddoedd ariannol yn y dyfodol pan fydd prosiectau Band B y rhaglen yn cael eu datblygu. Yn chwarter 1, ogystal, roedd disgwyl diffyg o £50k ar renti Unedau Diwydiannol oherwydd i'r Cyngor ganiatáu 'un mis heb rent' i holl denantiaid unedau diwydiannol y Cyngor ac eiddo amrywiol i gefnogi busnesau lleol yn ystod y cyfnod clo. Nid yw Llywodraeth Cymru'n digolledu'r Cyngor am yr incwm hwn gan mai penderfyniad lleol ydoedd ac nid yw'r incwm a gollwyd yn deillio'n uniongyrchol o'r cyfnod clo. Fodd bynnag, mae'n bosib y bydd hyn yn cael ei adolygu gan Lywodraeth Cymru. Bydd £40k o rent wedi'i ôl-ddyddio ar gyfer Terfynfa Forwrol, Amlwch yn helpu i gydbwyso cyllideb rhenti. Bydd gwelliant o £10k ar waith plymwyr, trydanwyr a seiri y codir tâl amdano yn helpu i gydbwyso cyllideb yr adain hon.

## 3.7 Trawsnewid

**3.7.1** Roedd gorwariant o £85k (3.1%) yn y swyddogaeth Trawsnewid am y cyfnod. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd tanwariant o £176k (3.52%) erbyn diwedd y flwyddyn. Mae hyn yn gynnydd o £119k ar y tanwariant o £57k a ragwelwyd yn chwarter 1. Y rheswm am hyn yw cynnydd yn y tanwariant yn y gyllideb hyfforddi.

**3.7.1.1** Roedd tanwariant o £131k (17.76%) yn y swyddogaeth AD yn ystod y cyfnod a rhagwelir y bydd tanwariant o £185k (13.74%) erbyn diwedd y flwyddyn. Disgwylir i swyddi gweigion greu tanwariant o £35k. Rhagamcenir y bydd tanwariant o £150k ar hyfforddiant canolog. Mae hyn oherwydd i'r feirws Covid-19 atal hyfforddiant arferol rhag digwydd. Mae hyn yn gynnydd o £105k o gymharu â'r tanwariant o £45k a ragwelwyd ar gyfer hyfforddiant yn ystod chwarter 1.

**3.7.1.2** Roedd gorwariant o £234k (13.83%) yn yr Adain TGCh am y cyfnod a disgwylir gorwariant o £113k (4.04%) erbyn diwedd y flwyddyn. Yn hanesyddol, nid yw cyllidebau meddalwedd wedi bod yn ddigonol, yn arbennig gan fod y Cyngor wedi gwella ei swyddogaethau a'i alluedd TGCh i ganiatáu i staff weithio gartref. Yn 2019/20, roedd £213k o orwariant yn yr adain TGCh. Darparwyd cyllideb ychwanegol i liniaru pwysau ar y gyllideb, ond mae'n debygol y bydd yn parhau i orwario. Mae cynyddu trwyddedau Citrix a VASCo i ganiatáu gweithio gartref ar raddfa eang yn ystod y cyfnod clo a thu hwnt wedi cynyddu'r pwysau ar y gyllideb ymhellach, er bod Llywodraeth Cymru wedi cynorthwyo'r Cyngor drwy ddarparu 50% tuag at y costau TGCh ychwanegol. Rhagwelir gorwariant o £113k yn y swyddogaeth, sy'n debyg i'r hyn a ragwelwyd yn chwarter 1. Rhagwelir y bydd gorwariant o £136k ar feddalwedd, ond mae tanwariant o £20k ar Cyswllt Môn (*Anglesey Connected*) a £3k ar gostau gweithredol yr adain TGCh yn lleihau'r gorwariant hwn.

**3.7.1.3** Roedd tanwariant o £17k (5.08%) yn Trawsnewid Corfforaethol ar gyfer y cyfnod a disgwylir tanwariant o £104k (12.19%) erbyn diwedd y flwyddyn, yn debyg i chwarter 1. Disgwylir i bob maes danwario, gyda'r tanwariant mwyaf sylweddol o £58k ar Bartneriaeth Ynys Môn a Gwynedd. Rhagwelir y bydd tanwariant o £22k ar Cyswllt Môn, a briodolir yn bennaf i gostau staffio.

## 3.8 Adnoddau (ac eithrio Budd-daliadau a Roddwyd)

**3.8.1** Roedd tanwariant o £93k (5.52%) yn y swyddogaeth Adnoddau ar gyfer y cyfnod, a'r alldro rhagamcanedig yw gorwariant o £66k (2.12%). Mae hyn yn gynnydd o £47k ar y gorwariant o £19k a ragwelwyd yn chwarter 1.

**3.8.2** Disgwylir gorwariant o £146k ar Refeniw a Budd-daliadau yn ystod y flwyddyn oherwydd gostyngiad o £153k mewn incwm costau llys. Mae'r adain Gyfrifeg yn edrych ar orwariant o £93k, yn bennaf oherwydd costau banc o £40k. Disgwylir gorwariant o £38k ar staff Cyfrifeg a rhagwelir diffyg o £15k ar incwm grant staff oherwydd i staff y tîm grantiau gael eu hadleoli i wneud gwaith yn gysylltiedig â Covid-19. Disgwylir tanwariant o £42k yn yr adain Archwilio Mewnol oherwydd swyddi gwag. Digwylir tanwariant o £131k yn yr adain Caffael oherwydd eu mentrau caffael, h.y. cyllidebau prynu wedi eu canoli ac ad-daliadau ar gardiau caffael.

## 3.9 Busnes y Cyngor

**3.9.1** Roedd tanwariant o £92k (11.28%) yn y swyddogaeth ar gyfer y cyfnod ond rhagwelir y bydd tanwariant o £6k (0.36%) erbyn diwedd y flwyddyn. Mae hyn yn ostyngiad o gymharu â gorwariant o £24k a ragwelwyd yn ystod chwarter 1.

**3.9.2** Disgwylir gorwariant o £24k yn y Gwasanaethau Cyfreithiol, sydd yn llai na'r gorwariant o £41k a ragwelwyd yn chwarter 1. Mae'r gwelliant hwn o ganlyniad i adennill lefelau incwm yn dilyn y cyfnod clo. Disgwylir gorwariant o £14k ar staff asiantaeth i lenwi swyddi gwag/absenoldebau yn yr Adran Gyfreithiol.

**3.9.3** Yn yr un modd, mae'r Gwasanaethau Democrataidd yn rhagweld llai o gostau yn chwarter 2 ac mae cynnydd o £13k yn y tanwariant, i £30k. Disgwylir tanwariant ym mhob un o'i swyddogaethau, gyda'r tanwariant mwyaf yn y gwasanaethau etholiadol (£14k).

## 3.10 Costau Corfforaethol a Democrataidd

**3.10.1** Roedd gorwariant o £82k (5.27%) yn y gyllideb Gorfforaethol a Democrataidd ar gyfer y cyfnod a rhagwelir y bydd gorwariant o £171k (6.14%) erbyn diwedd y flwyddyn. Mae hyn yn gynnydd o £114k ar y gorwariant o £57k a ragwelwyd yn chwarter 1.

**3.10.2** Mae yna adeiniau yn yr adran sy'n rhagweld gorwariant ar ddiwedd y flwyddyn tra bod tanwariannau sy'n gwneud i fyny am hynny mewn adeiniau eraill. Mae'r prif feysydd sy'n peri pryder yn y maes Corfforaethol arall a disgwylir gorwariant o £227k o gymharu â 95k yn ystod chwarter 1. Mae hyn oherwydd costau pensiwn hanesyddol cynyddol o £144k yn dilyn prisio'r gronfa bensiwn, sy'n cael ei wneud bob tair blynedd, ym mis Mawrth 2019. Disgwylir gorwariant o £20k ar gwnsela staff, er bod y swm yn is na'r hyn a nodwyd yn chwarter 1. Hefyd, mae ffioedd crwneriaid yn uwch na'r gyllideb a bydd gorwariant o £24k. Disgwylir tanwariant o £30k ar yr ardoll prentisiaid a rhagwelir tanwariant o £35k ar gostau cefnogi Aelodau a threuliau. Mae hyn yn gynnydd o £19k yn y tanwariant a ddisgwyliwyd yn chwarter 1 oherwydd bod cyfarfodydd ar-lein yn cael eu cynnal yn sgil cyfyngiadau Covid-19.

### 3.11 Rheolaeth Gorfforaethol

**3.11.1** Roedd tanwariant o £20k (6.46%) yn y swyddogaeth ar gyfer y cyfnod a rhagwelir tanwariant o £40k (6.39%) erbyn diwedd y flwyddyn. Mae hyn yn ymwneud â'r gyllideb weddilliol yn dilyn ailstrwythuro'r tîm rheoli yn 2019/20.

## 4. Cyllid Corfforaethol (yn cynnwys Budd-daliadau a Roddwyd)

**4.1** Disgwylir gorwariant o £234k (1.37%) ar Gyllid Corfforaethol, gan gynnwys Budd-daliadau a Roddwyd, ar ddiwedd y flwyddyn. Mae hyn yn ostyngiad bychan yn y gorwariant a nodwyd ar gyfer chwarter 1. Rhagwelir gorwariant o £210k ar fudd-daliadau a roddwyd o ganlyniad i gynnydd yn y nifer sy'n hawlio dan y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor oherwydd cynnydd yn y nifer sy'n hawlio'r Credyd Cynhwysol yn sgil effeithiau economaidd yr argyfwng Covid-19. Rhagwelir gorwariant o £11k ar log a dderbynnir oherwydd i'r gyfradd log sylfaenol ostwng i 0.01% o ganlyniad i effaith economaidd Covid-19.

**4.2** Roedd y gyllideb ar gyfer 2020/21 yn cynnwys rhai eitemau a gadwyd yn ganolog fel cyllidebau wrth gefn, sy'n dod i gyfanswm o £1,115k. Mae'r gyllideb wrth gefn gyffredinol yn £371.5k ar gyfer pwysau cyllidebol ad-hoc annisgwyl a gyfyd yn ystod y flwyddyn. Mae cyllideb wrth gefn cyflogau a graddio o £150k wedi'i gynnwys ar gyfer costau cyflogau a graddio nad oes cyllideb ar eu cyfer, megis taliadau diswyddo. Roedd cyllidebau wrth gefn gwerth £593k wedi'u cynnwys yn y gyllideb a gellir ond eu defnyddio ar gyfer y costau a gymeradwywyd. Cynhwyswyd £251k ar gyfer galw ychwanegol yn y Gwasanaethau Oedolion ac mae hwn wedi cael ei ddefnyddio'n barod i gyllido cynnydd mewn galw am wasanaethau i'r Henoed. Cynhwyswyd cyllideb wrth gefn risg o £235k yn y gyllideb hefyd i gyfrannu at gostau unrhyw ddyfarniad cyflog ar gyfer 2020/21 sydd yn uwch na'r 2% ychwanegol y cyllidebwyd ar ei gyfer wrth osod y gyllideb. Erbyn hyn, cytunwyd ar ddyfarniad cyflog o 2.75%. Bydd hyn yn golygu cost ychwanegol o £340k i'r Cyngor, felly, bydd y gyllideb wrth gefn risg yn cael ei defnyddio tuag at y dyfarniad cyflog. Bydd y balans o £105k yn cael ei gyllido o'r gyllideb wrth gefn cyflogau a graddio. Yn dilyn hynny, gwnaed dyraniad ychwanegol o £115k i'r cronfeydd wrth gefn clustnodedig ar gyfer gweithgareddau adfer oherwydd Covid-19. Roedd hyn yn cynyddu cyfanswm y cyllidebau wrth gefn i £1,230k. Mae yna gronfeydd wrth gefn llai hefyd ar gyfer y Bid Twf Rhanbarthol, STEM a gweithwyr ar eu pen eu hunain. Mae Atodiad C yn cynnwys crynodeb o'r gyllideb wrth gefn ac mae'n dangos fod £148k wedi'i drosglwyddo'n barod i gyllidebau a gymeradwywyd.

## 5. Casglu'r Dreth Gyngor

**5.1** Penderfynir ar gyllideb Cronfa'r Dreth Gyngor gan ddefnyddio'r rhagamcan o'r ddyled gasgadlwy ar gyfer y flwyddyn gyfredol yn unig, a hynny'n seiliedig ar y ffigwr a osodwyd ar gyfer sylfaen y dreth ym mis Tachwedd 2019. Nid yw'n darparu ar gyfer ôl-ddyledion a gasglwyd o flynyddoedd blaenorol, addasiadau i rwymedigaethau sy'n deillio o flynyddoedd blaenorol (eithriadau, disgowntiau pobl sengl ac ati), newidiadau i sylfaen y dreth ar gyfer y flwyddyn gyfredol neu'r ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg ac amheus. Ni ellir amcangyfrif y newidiadau hyn ac, yn anorfod, maent yn arwain at wahaniaeth rhwng balans terfynol y Gronfa Gasglu'r Dreth Gyngor a'r gyllideb wreiddiol. Ar hyn o bryd, rhagamcenir y bydd Cronfa'r Dreth Gyngor £608k yn brin o'r targed oherwydd erydiad parhaus i sail y dreth yn sgil nifer sylweddol o eiddo hunan-arlwyo yn trosglwyddo i drethi busnes. Mae Covid-19 yn cael effaith hefyd ar gasglu'r Dreth Gyngor a chynyddwyd y ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg i adlewyrchu'r effaith hwn.

**5.2** Mae posibilrwydd y bydd cyllideb Premiwm y Dreth Gyngor, sef taliad dreth gyngor ychwanegol a godir ar ail gartrefi (ers 1 Ebrill 2017), £404k yn uwch na'r gyllideb. Mae hyn yn gwella'r diffyg yn y Dreth Gyngor. At ei gilydd, felly, rhagwelir diffyg o £204k ar gasglu'r Dreth Gyngor.

## 6. Arbedion Cyllidebol 2020/21

**6.1** Tynnwyd arbedion cyllidebol o £307k o gyllidebau'r gwasanaethau ar gyfer 2020/21. Mae £244k o'r arbedion hyn yn debygol o gael eu cyflawni, fodd bynnag, ni ddisgwylir i £63k o arbedion gael eu cyflawni. Bydd y diffyg mwyaf sylweddol yn y gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo, lle y bydd yn anodd cyflawni £57k o arbedion oherwydd oedi a achoswyd gan y pandemig Coronafeirws. Ceir dadansoddiad manwl ar gyfer pob Gwasanaeth yn Atodiad D.

## 7. Buddsoddi i Arbed

**7.1** Ymgymerwyd â rhaglen buddsoddi i arbed yn 2016/17 gyda dyraniad o £983k ar gyfer prosiectau unigol. Hyd yma, mae £789k wedi cael ei wario neu ei ymrwymo o'r cyllid hwn hyd at ac yn cynnwys 2020/21. Mae'r holl brosiectau wedi eu datblygu i raddfeydd amrywiol, gyda rhai yn nes i'w cwblhau nac eraill. Gellir gweld manylion llawn y gwariant a'r cynnydd ar bob un o'r prosiectau yn Atodiad CH. Lle na fydd prosiectau wedi eu cwblhau erbyn diwedd y flwyddyn, byddent yn parhau i 2021/22 a bydd y gyllid yn parhau i fod ar gael o fewn y gronfa wrth gefn buddsoddi i arbed.

## 8. Costau Asiantaeth ac Ymgynghorwyr

**8.1** Yn ystod y flwyddyn hyd yma, gwariwyd £272k ar staff Asiantaeth gyda'r costau uchaf yn y maes gofal cymdeithasol. Ar y cyfan, roedd y rhain yn cael eu cyllido'n rhannol o gyllidebau staffio oherwydd eu bod yn gysylltiedig â swyddi gweigion. Mae'r manylion llawn i'w gweld yn Atodiad DD.

**8.2** Gwariwyd £109k ar wasanaethau ymgynghori yn chwarter 2 ac roedd hyn yn sylweddol is na'r £234k a wariwyd ar wasanaethau ymgynghori yn ystod chwater 2 y llynedd. Mae hyn oherwydd bod y cyfyngiadau coronafeirws wedi arwain at oedi mewn prosiectau a ffrydiau gwaith lle mae angen defnyddio ymgynghorwyr. Mae manylion llawn y gwariant fesul gwasanaeth a gwybodaeth ychwanegol am y gwariant i'w gweld yn Atodiad E.

## 9. Cyllid Grant Covid-19 gan Lywodraeth Cymru hyd yma

**9.1** Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cymorth ariannol sylweddol i awdurdodau lleol yng Nghymru mewn perthynas â chostau ychwanegol yn gysylltiedig â Coronafeirws ac incwm a gollwyd. Oni bai am y cyllid hwn, byddai'r alldro a ragwelir yn orwariant sylweddol. Dengys Tabl 2 isod fod y Cyngor wedi hawlio £3.283m ar gyfer costau ychwanegol yn codi o'r pandemig yn ystod y chwarter cyntaf. Nid oedd £66k yn gymwys, ond ystyriwyd bod £3.283m yn gymwys ac mae £2.733m wedi cael ei dalu i'r Cyngor yn barod, sy'n gadael balans o £0.550m yn weddill ar gyfer chwarter 1 a 2. Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y bydd y cyllid grant hwn yn cael ei ymestyn i chwarter 3 a 4 y flwyddyn ariannol hon.

**Tabl 2 Gwariant cysylltiedig â Covid-19 rhwng Ebrill a Medi 2020 a gyllidwyd gan Lywodraeth Cymru**

| | Gwas. Cym. Oedolion £'000 | Marwolaethau Ychwanegol £'000 | Prydau Ysgol am Ddim £'000 | Cyff-redinol £'000 | Di-gartrefedd £'000 | Glanhau Ysgolion £'000 | Cefnogaeth Gymunedol £'000 | TG/ Gweithio Gartref £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **CRYNODEB** | | | | | | | | | |
| Hawliwyd | 1,040 | 15 | 550 | 1,105 | 398 | 4 | 69 | 168 | 3,349 |
| Ni chaniatawyd | 1 | - | 10 | 13 | - | - | 36 | 9 | 69 |
| **Balans Dyledus** | **1,039** | **15** | **541** | **1,091** | **398** | **4** | **33** | **159** | **3,280** |
| Talwyd | 1,039 | 15 | 489 | 1,091 | 398 | 4 | 33 | 159 | 3,228 |
| **Balans yn Weddill** | **-** | **-** | **52** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **52** |

### 9.2 Incwm a gollwyd oherwydd Cyfyngiadau Covid-19 a Gyllidwyd gan Lywodraeth Cymru

Mae incwm y Cyngor wedi gostwng yn sylweddol o ganlyniad i gyfyngiadau Covid-19, megis cau canolfannau Hamdden a'r effaith ar ffioedd meysydd parcio yn ystod y Cyfnod Clo a'r Cyfnod Clo Byr a thu hwnt. Mae risg hefyd y gosodir cyfyngiadau pellach er mwyn helpu i leihau lledaeniad Covid-19. Mae Llywodraeth Cymru wedi digolledu awdurdodau lleol am incwm cymwys a gollwyd oherwydd y Coronafeirws. Mae'r Cyngor wedi hawlio £1,114k gan Llywodraeth Cymru o hynny mae £20k wedi ei wrthod. Mae £800k wedi ei dalu hyd yma a disgwylir i £591k arall gael ei dalu yn ystod yr wythnosau nesaf. Mae crynodeb o'r incwm a ddigolledwyd ac a hawliwyd hyd at 30 Medi 2020 i'w weld yn Nhabl 3 isod:-

**Tabl 3 – Cyllid Grant Llywodraeth Cymru ar gyfer Incwm a Gollwyd gan Wasanaethau yn ystod y Pandemig**

| Crynodeb | Morwrol £'000 | Amgueddfeydd £'000 | Hamdden £'000 | Lleoedd Agored £'000 | Addysg £'000 | Gwaredu Gwastraff £'000 | Parcio £'000 | Gwasanaethau Oedolion £'000 | Gwarchod y Cyhoedd £'000 | Incwm Rhent £'000 | Marchnadoedd a Chlybiau Teithio £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Hawliwyd | 37 | 89 | 618 | 6 | 274 | 2 | 222 | 33 | 71 | 49 | 10 | 1,411 |
| Ni chaniatawyd | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 20 | 0 | 0 | 0 | 20 |
| **Balans Dyledus** | **37** | **56** | **319** | **6** | **147** | **2** | **158** | **13** | **3** | **49** | **10** | **1,391** |
| Talwyd | 37 | 56 | 319 | 6 | 147 | 2 | 158 | 13 | 3 | 49 | 10 | 800 |
| **Balans yn Weddill** | **0** | **33** | **299** | **0** | **127** | **0** | **64** | **0** | **68** | **0** | **0** | **591** |

## 10. Casgliad

**10.1** Yr amcanestyniad cychwynnol ar ddiwedd yr ail chwarter yw y bydd gan y Cyngor danwariant o £1,156k ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2021. Disgwylir i gyllidebau gwasanaeth danwario o £1,595k oherwydd gostyngiad mewn galw am Wasanaethau Plant ac effaith cau ysgolion yn ystod y cyfnod rhwng Ebrill a Gorffennaf 2020 ar gyllidebau addysg canolog. Rhagwelir y bydd cyllid Corfforaethol yn gorwario £234k oherwydd cynnydd mewn budd-daliadau a roddwyd a diffyg yn y llog a dderbynnir oherwydd effaith economaidd Covid-19. Disgwylir y bydd incwm y Dreth Gyngor gyffredinol £608k yn is na’r disgwyl. Rhagwelir gwarged o £404k ar Bremiwm y Dreth Gyngor. Y diffyg net ar y Dreth Gyngor yn gyffredinol yw £204k. Bydd cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer costau cysylltiedig â Covid-19 ac iawndal am incwm a gollwyd yn cynorthwyo i atal y Cyngor rhag wynebu gorwariant o sawl miliwn.

**ATODIAD B**

## Alldro Refeniw Rhagamcanedig ar gyfer y Flwyddyn Ariannol yn diweddu 31 Mawrth 2021 - Chwarter 2

| Gwasanaeth/Swyddogaeth | Cyllideb Flynyddol 2020/21 | Ch 2 2020/21 Blwyddyn gyllidol hyd yma | Ch2 Gwariant gwirioneddol ac wedi'i ymrwymo | Ch2 2020/21 Amrywiant | Ch2 Gwariant Gwirioneddol ac wedi'i ymrwymo | Ch2 Amcan wariant i 31 Mawrth 2021 | Amcangyfrif o alldro 31 Mawrth 2021 Gor/(tan) wariant yn Ch2 | Amcangyfrif Gor/(tan)wariant fel % o'r Gyllideb Gyfan 2020/21 | Ch1 Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2021 Gor/(tan) wariant | Gor/(tan) wariant Drafft y Flwyddyn Ddiwethaf 2019/20 (Amodol ar Archwiliad) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **%** | **£'000** | **£'000** | **%** | **£'000** | **£'000** |
| **Dysgu Gydol Oes** | | | | | | | | | | |
| Cyllideb Ddatganoledig Ysgolion | 47,579 | 27,682 | 25,322 | (2,360) | -8.52% | 47,579 | 0 | 0.00% | 0 | 0 |
| Addysg Ganolog | 4,748 | (813) | (1,213) | (400) | 49.19% | 3,707 | (1,041) | -21.92% | (1,238) | (272) |
| Diwylliant | 1,285 | 749 | 692 | (57) | -7.56% | 1,359 | 74 | 5.76% | 99 | 29 |
| | | | | | | | | | | |
| **Gwasanaethau Oedolion** | 26,911 | 12,643 | 13,128 | 485 | 3.83% | 26,602 | (309) | -1.15% | 195 | 1,085 |
| | | | | | | | | | | |
| **Gwasanaethau Plant** | 10,951 | 5,945 | 5,750 | (195) | -3.27% | 10,408 | (543) | -4.96% | (1,382) | 156 |
| | | | | | | | | | | |
| **Tai** | 1,168 | 960 | 936 | (24) | -2.46% | 1,143 | (25) | -2.14% | 0 | (77) |
| | | | | | | | | | | |
| **Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo** | | | | | | | | | | |
| Priffyrdd | 6,287 | 3,023 | 3,183 | 160 | 5.31% | 6,293 | 6 | 0.10% | (43) | (192) |
| Eiddo | 891 | 70 | (57) | (127) | -181.52% | 1,047 | 156 | 17.50% | 171 | 44 |
| Gwastraff | 8,030 | 3,846 | 3,512 | (334) | -8.69% | 7,825 | (205) | -2.55% | 10 | (208) |
| | | | | | | | | | | |
| **Rheoleiddio a Datblygu Economaidd** | | | | | | | | | | |
| Datblygu Economaidd | 1,882 | 1,141 | 982 | (159) | -13.93% | 1,897 | 15 | 0.80% | 920 | 0 |
| Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | 2,131 | 1,153 | 1,081 | (72) | -6.26% | 2,193 | 62 | 2.91% | 103 | (117) |
| | | | | | | | | | | |
| **Trawsnewid** | | | | | | | | | | |
| Adnoddau Dynol | 1,346 | 740 | 609 | (131) | -17.76% | 1,161 | (185) | -13.74% | (76) | (35) |
| TGCh | 2,794 | 1,689 | 1,923 | 234 | 13.83% | 2,907 | 113 | 4.04% | 115 | (85) |

| Gwasanaeth/Swyddogaeth | Cyllideb Flynyddol 2020/21 | Ch 2 2020/21 Blwyddyn gyllidol hyd yma | Ch2 Gwariant gwirioneddol ac wedi'i ymrwymo | Ch2 2020/21 Amrywiant | Ch2 Gwariant Gwirioneddol ac wedi'i ymrwymo | Ch2 Amcan wariant i 31 Mawrth 2021 | Amcangyfrif o alldro 31 Mawrth 2021 Gor/(tan) wariant yn Ch2 | Amcangyfrif Gor/(tan)wariant fel % o'r Gyllideb Gyfan 2020/21 | Ch1 Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2021 Gor/(tan) wariant | Gor/(tan) wariant Drafft y Flwyddyn Ddiwethaf 2019/20 (Amodol ar Archwiliad) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **%** | **£'000** | **£'000** | **%** | **£'000** | **£'000** |
| Trawsnewid Corfforaethol | 853 | 336 | 319 | (17) | -5.08% | 749 | (104) | -12.19% | (96) | (192) |
| | | | | | | | | | | |
| **Adnoddau** | 3,109 | 1,692 | 1,599 | (93) | -5.52% | 3,175 | 66 | 2.12% | 19 | (170) |
| | | | | | | | | | | |
| **Busnes y Cyngor** | 1,669 | 818 | 726 | (92) | -11.28% | 1,663 | (6) | -0.36% | 24 | (2) |
| | | | | | | | | | | |
| **Costau Corfforaethol a Democrataidd** | 2,785 | 1,559 | 1,641 | 82 | 5.27% | 2,956 | 171 | 6.14% | 57 | (99) |
| | | | | | | | | | | |
| **Rheolaeth Gorfforaethol** | 626 | 312 | 292 | (20) | -6.46% | 586 | (40) | -6.39% | (37) | (70) |
| Costau nad oes cyllideb ar eu cyfer ac na ellir eu rheoli: yswiriant, costau pensiwn a dileu dyledion drwg/lwfansau amhariad ar incwm gwasanaethau | | | | | | 200 | 200 | 0.00% | 200 | 241 |
| | | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm Cyllidebau Gwasanaeth** | **125,046** | **63,547** | **60,426** | **(3,120)** | **-4.91%** | **123,451** | **(1,595)** | **-1.28%** | **(959)** | **36** |
| | | | | | | | | | | |
| Ardollau | 3,599 | 3,599 | 3,597 | (1) | -0.03% | 3,599 | 0 | 0.00% | 0 | 0 |
| Rhyddhad Treth Dewisol | 95 | 0 | 0 | 0 | 0.00% | 108 | 13 | 13.68% | 0 | 11 |
| Cyllido Cyfalaf | 6,939 | 2,098 | 2,098 | 0 | 0.00% | 6,950 | 11 | 0.16% | 34 | (277) |
| Cyllidebau wrth Gefn Cyffredinol ac Eraill | 1,065 | 1,082 | 1,082 | 0 | 0.01% | 1,065 | 0 | 0.00% | 0 | (447) |
| Gwasanaethau Cefnogol – Cyfraniad CRT | (700) | 0 | 0 | 0 | 0.00% | (700) | 0 | 0.00% | 0 | (86) |
| Budd-daliadau a Roddwyd | 6,103 | (717) | (717) | 0 | 0.00% | 6,313 | 210 | 3.44% | 207 | 248 |
| | | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm Cyllid Corfforaethol** | **17,100** | **6,061** | **6,061** | **(1)** | **-0.01%** | **17,335** | **234** | **1.37%** | **241** | **(551)** |
| **Cyfanswm 2020/21** | **142,146** | **69,608** | **66,487** | **(3,121)** | **-4.48%** | **140,786** | **(1,361)** | **-0.96%** | **(718)** | **(515)** |

| Gwasanaeth/Swyddogaeth | Cyllideb Flynyddol 2020/21 | Ch 2 2020/21 Blwyddyn gyllidol hyd yma | Ch2 Gwariant gwirioneddol ac wedi'i ymrwymo | Ch2 2020/21 Amrywiant | Ch2 Gwariant Gwirioneddol ac wedi'i ymrwymo | Ch2 Amcan wariant i 31 Mawrth 2021 | Amcangyfrif o alldro 31 Mawrth 2021 Gor/(tan) wariant yn Ch2 | Amcangyfrif Gor/(tan)wariant fel % o'r Gyllideb Gyfan 2020/21 | Ch1 Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2021 Gor/(tan) wariant | Gor/(tan) wariant Drafft y Flwyddyn Ddiwethaf 2019/20 (Amodol ar Archwiliad) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | % | £'000 | £'000 | % | £'000 | £'000 |
| **Cyllido** | | | | | | | | | | |
| Trethi Annomestig | (24,313) | (13,091) | (15,132) | 0 | 0.00% | (24,313) | 0 | 0.00% | 0 | 0 |
| Y Dreth Gyngor | (39,749) | 0 | 0 | 0 | 0.00% | (39,140) | 608 | -1.53% | 1,200 | 207 |
| Premiwm y Dreth Gyngor | (1,393) | 0 | 0 | 0 | 0.00% | (1,797) | (404) | 29.01% | (455) | |
| Grant Cynnal Refeniw | (76,692) | (41,295) | (47,731) | 0 | 0.00% | (76,692) | 0 | 0.00% | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Cyllid 2020/21** | **(142,146)** | **(54,386)** | **(62,863)** | **0** | **0** | **(141,942)** | **204** | **-0.14%** | **745** | **207** |
| | | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm yr alldro yn cynnwys effaith y cyllido** | **0** | **15,222** | **3,624** | **(3,121)** | **-20.50%** | **(1,156)** | **(1,156)** | **-0.81%** | **27** | **(308)** |

**ATODIAD C**

**Crynodeb o'r Sefyllfa Alldro ar Gyllidebau wrth Gefn 2020/21**

| | Cyllideb<br>£ | Trosglwyddiadau<br>£ | Cyllideb Ddiwygiedig hyd yma<br>£ | Ymrwymedig hyd yma<br>£ | Cyllidebau heb eu hymrwymo hyd yma<br>£ | Rhagolwg Cyllideb<br>£ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyllideb Wrth Gefn Cyffredinol | 371,550 | - 72,940 | 298,610 | 2,500 | 296,110 | - |
| Cyflogau a Graddio | 150,000 | - 12,727 | 137,273 | 9,037 | 128,236 | - |
| Cronfa Wrth Gefn Clustnodedig | 708,770 | - 62,800 | 645,970 | - | 645,970 | - |
| **Cyfanswm Cyllidebau wrth Gefn** | **1,230,320.00** | **-148,467.00** | **1,081,853.00** | **11,536.98** | **1,070,316.02** | **0.00** |

## Adolygiad o Brosiectau Buddsoddi i Arbed 2020/21

| Gwasanaeth | Teitl | Disgrifiad | Swm a Gymeradwywyd £ | Dyraniad ar gyfer 2020/21 £ | Gwariwyd 2020/21 £ | Cyllideb sy'n Weddill 2020/21 £ | Balans ar 30 Medi 2020 £ | Diweddariad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Adnoddau | System Rheoli Dogfennau Electronig ar gyfer Refeniw a Budd-daliadau | Datrysiad sganio a llif gwaith ar gyfer Refeniw a Budd-daliadau | 170,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | Caewyd y prosiect. Dim diweddariad pellach. |
| TG | Mynegai Tir ac Eiddo Lleol (LLPG) | Gweithredu system LLPG ar draws y Cyngor | 10,800 | 0 | 0 | 0 | 0 | Caewyd y prosiect. Dim diweddariad pellach. |
| TG / Trawsnewid | System Rheoli Cysylltiadau gyda'r Cwsmer (CRM) | Prynu a gweithredu system CRM | 255,000 | 100,132 | 53,456 | 46,676 | 46,676 | Mae defnydd helaeth yn cael ei wneud o'r CRM o hyd gydag ail gyfran y grantiau cymorth i fusnes yn cael eu gweinyddu drwy'r system yn ogystal â system archebu ar gyfer ymweld â Chanolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartref. Ar hyn o bryd mae'r system yn cael ei hintegreiddio â'r systemau busnes a ddefnyddir gan y contractwr y dyfarnwyd contract casglu gwastraff yr Awdurdod iddo. Mae Covid wedi effeithio ar gynnydd ffurflenni eraill ond mae gwaith ar ffurflenni eraill a enwebwyd gan y Bwrdd Trawsnewid yn parhau lle bo'n bosib. |
| TG / Adnoddau | Porth Taliadau | Prynu a gweithredu porth talu a fydd yn golygu y gellir derbyn taliadau drwy'r Ap | 27,000 | 13,583 | 0 | 13,583 | 13,583 | Caewyd y prosiect. Dim diweddariad pellach. |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Gwella gwydnwch y systemau Cynllunio | Systemau cynllunio awtomataidd newydd | 118,000 | 15,374 | 0 | 15,374 | 15,374 | Ni chafwyd unrhyw wariant pellach yn Chwarter 2, a rhoddwyd blaenoriaeth i gynnal profion a darparu hyfforddiant er mwyn paratoi i roi Cynllunio yn 'fyw' ar Enterprise. Y bwriad yw sicrhau a threfnu slot gyda Northgate ym mis Tachwedd. Os na lwyddir i gyflawni'r amserlen hon, bydd y dyddiad ar gyfer mynd yn 'fyw' yn cael ei ohirio tan fis Ionawr 2021. |

| Gwasanaeth | Teitl | Disgrifiad | Swm a Gymeradwywyd £ | Dyraniad ar gyfer 2020/21 £ | Gwariwyd 2020/21 £ | Cyllideb sy'n Weddill 2020/21 £ | Balans ar 30 Medi 2020 £ | Diweddariad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Adnoddau | Gwella Systemau Casglu Arian | Prynu a gweithredu system rheoli incwm newydd sy'n cysylltu gyda'r ffrydiau incwm presennol ac yn caniatáu dulliau newydd ar gyfer casglu incwm (AppMon ac ati) gysylltu i'r system rheoli arian | 150,000 | 42,799 | 30,459 | 12,340 | 12,340 | Mae ymrwymiadau llawn wedi eu gwneud bellach ac oddi fewn i'r cyllidebau bid. Ailgychwynnodd y gwaith gweithredu yn ystod Chwarter 2 wedi i'r cynllun ffyrlo ddod i ben i rai aelodau o staff prosiect Capita, ond bydd y momentwm yn cynyddu yn ystod Chwarter 3. Mae gwaith profi ar y ffeil allforio GL newydd y gellir ei wneud o bell bron â'i gwblhau ac mae trefniadau mewn lle i gwblhau'r gwaith profi nad oes modd ei wneud o bell. Ar ôl cwblhau hyn, gellir dechrau gweithredu systemau cysoni incwm/e-ddatganiadau, sydd yn golygu prosesau newydd ar gyfer gwasanaethau a datganiadau banc electronig wedi eu teilwra gan fancwyr yr Awdurdod. Mae gwaith awtomeiddio pellach yn cael ei ddatblygu drwy ddatblygu rhyngwyneb rhaglennu cymwysiadau (API) i alluogi diweddariad incwm awtomatig i'r ledjer drwy reoli incwm ar gyfer gwasanaethau mewnol megis Hamdden, Addysg a Phriffyrdd ac yn allanol ar gyfer DWP. Bydd gweithredu'n parhau i'r flwyddyn ariannol nesaf oherwydd i Covid-19 ohirio gwaith gweithredu a bod gwasanaethau mewnol wedi ail-dendro rhai prosesau meddalwedd. Bydd balans y gyllideb sy'n weddill yn cael ei ddefnyddio ar gyfer unrhyw eitemau annisgwyl sy'n weddill. |
| Dysgu Gydol Oes | Moderneiddio prosesau busnes a pherfformiad - Addysg | Gweithredu modiwlau nad oeddent yn cael eu defnyddio yn y system Rheoli Gwybodaeth ONE | 67,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | Caewyd y Prosiect. Dim diweddariad pellach. |
| Dysgu Gydol Oes | Moderneiddio prosesau busnes a pherfformiad - Oriel Môn | Gwefan ar gyfer yr Oriel | 20,000 | 11,474 | 0 | 11,474 | 11,474 | Bu peth oedi oherwydd y cwmni a Covid-19. Mae'r rhannau olaf o'r siop ar-lein bron wedi'u cwblhau ac mae'r wefan wedi cael ei chyflwyno, er bod rhai mân broblemau'n parhau. Rydym yn disgwyl derbyn yr anfonebau am y gwaith a gwblhawyd yn Chwarter 3. |

| Gwasanaeth | Teitl | Disgrifiad | Swm a Gymeradwywyd<br>£ | Dyraniad ar gyfer 2020/21<br>£ | Gwariwyd 2020/21<br>£ | Cyllideb sy'n Weddill 2020/21<br>£ | Balans ar 30 Medi 2020<br>£ | Diweddariad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| TG / Trawsnewid | Digidol yn Gyntaf / Digidol yn Awtomatig | Cyflogi Swyddog Digidol Arweiniol a Dadansoddwr Gwasanaethau Digidol | £70,000 ym mlwyddyn 1 a £50,000 ym mlwyddyn 2 | 50,000 | 34,073 | 15,927 | 65,057 | Recriwtiwyd dau berson i'r swyddi Technegydd Digidol Dros Dro (Gradd 5) ac maent yn cael eu cyflogi ar hyn o bryd. |
| Gwarchod y Cyhoedd | Gwella Cysylltedd Digidol yn y Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd | Gweithredu system yn seiliedig ar y cwmwl i gofnodi ymweliadau archwilio. Mae'r feddalwedd yn ddatrysiad Cymru gyfan sydd wedi cael ei chaffael drwy gytundeb fframwaith a gefnogir gan 19 o'r 22 Gyngor yng Nghymru | £10,000 y flwyddyn am 4.5 blwyddyn | 10,000 | 0 | 10,000 | 45,000 | Dim datblygiadau i'w hadrodd yn 2020/21. Oherwydd Covid-19 a'r pwysau ar Gwarchod y Cyhoedd, nid oedd capasiti i symud ymlaen. |
| | | | | | | | | |
| **Cyfanswm** | | | | **243,362** | **117,988** | **125,374** | **209,504** | |

## Adolygiad o Arbedion EffeithIonrwydd 2020/21

| Gwasanaeth/ Swyddogaeth | Arbedion Cyllidebol 2020/21<br><br>£'000 | Arbedion y mae modd eu cyflawni 2020/21<br><br>£'000 | Arbedion y mae'n bosib na fyddant yn cael eu cyflawni 2020/21<br><br>£'000 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | 68 | 11 | 57 | Ar hyn o bryd, mae'n annhebygol y bydd £10k o arbedion yn cael eu cyflawni drwy leihau cost rhedeg fflyd cerbydau'r Cyngor drwy fuddsoddi mewn cerbydau sy'n rhatach ar danwydd a gwella gweithdrefnau gweinyddol i leihau amser segur cerbydau. Mae hyn oherwydd gostyngiad sylweddol yn nefnydd cerbydau fflyd oherwydd Covid-19. Derbyniwyd pedwar cerbyd LPG ym mis Gorffennaf a fydd yn rhatach ar danwydd.<br><br>Mae'n annhebygol hefyd y bydd cynnydd o £47k mewn ffioedd meysydd parcio'n cael ei gyflawni. Roedd angen opsiwn nad oedd yn defnyddio arian parod (Talu gyda Ffôn) er mwyn gweithredu'r ffioedd newydd, ond gohiriwyd y broses oherwydd Covid-19 ac roedd yr holl feysydd parcio ar gau i'r cyhoedd. Gweithredwyd Talu gyda Ffôn ar 3 Awst ond nid oedd yn bosib cyflwyno'r ffioedd newydd yn ein safleoedd tymhorol. Roedd goblygiadau Covid yn golygu nad oedd modd gweithredu hysbysiad cyfreithiol ynghylch newid yn y ffioedd tan fis Medi. Erbyn hyn, mae'r holl feysydd parcio wedi ailagor a chodwyd yr hen ffioedd yn y meysydd parcio arfordirol ond ni chodwyd tâl am barcio yn y meysydd parcio trefol tan ddiwedd mis Medi, yn unol â chyfarwyddyd y Pwyllgor Gwaith. Trafodwyd y sefyllfa gydag aelodau'r Grŵp Llywio Parcio mewn cyfarfod ar 30 Medi a phenderfynwyd gweithredu ffioedd newydd ac ychwanegol yn 2021/22. Cyflwynwyd hawliad i Lywodraeth Cymru am incwm a gollwyd ac mae'r Awdurdod wedi derbyn taliad o £150k. Bydd hawliad pellach am incwm a gollwyd mewn safleoedd tymhorol yn cael ei baratoi a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru pe cyfyd y cyfle i wneud hynny.<br><br>Mae arbediad o £11k drwy aildrefnu rota tu allan i oriau'r tîm atgyweirio eiddo yn debygol o gael ei gyflawni. |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | 65 | 59 | 6 | Gweithredwyd arbediad o £22k yn llawn drwy leihau capasiti gweinyddol y Tîm Rheoli Datblygu. Cyflawnwyd hyn yn sgil y buddsoddiad diweddar yn y system gynllunio.<br><br>Mae'n annhebygol y bydd y cynnydd disgwyliedig o £1k mewn incwm yn cael ei gyflawni oherwydd y pandemig cyfredol a'i effaith ar ymgynnull mewn grwpiau a digwyddiadau.<br><br>Mae £37k o arbedion drwy ddileu gweddill y gyllideb Cyfleusterau Awyr Agored yn dilyn trosglwyddo'r asedau o reolaeth y Cyngor wedi cael ei gyflawni'n llawn. |

| Gwasanaeth/ Swyddogaeth | Arbedion Cyllidebol 2020/21 £'000 | Arbedion y mae modd eu cyflawni 2020/21 £'000 | Arbedion y mae'n bosib na fyddant yn cael eu cyflawni 2020/21 £'000 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Cynyddwyd y ffioedd a thaliadau ar gyfer gwasanaethau morwrol, er nad yw'r arbediad o £5k yn debygol o gael ei gyflawni oherwydd cyfyngiadau'n gysylltiedig â Covid-19 a byrhau'r tymor agor. |
| Tai | 101 | 101 | 0 | Cyflawnwyd arbediad o £27k drwy ddileu swydd wag Swyddog Datblygu Strategol. |
| | | | | Mae arbedion o £4k drwy leihau cost cefnogaeth weinyddol i'r Pennaeth Tai yn cael ei gyflawni. |
| | | | | Bydd arbediad o £36k drwy gyfalafu costau staffio ynghlwm â darparu grantiau Cyfleusterau i'r Anabl yn cael ei gyflawni. |
| | | | | Mae arbedion o £19k a gynigiwyd drwy addasu'r costau a godir ar y Cyfrif Refeniw Tai i adlewyrchu'r cynnydd mewn costau yn debygol o gael eu cyflawni yn yr adolygiad diwedd blwyddyn. |
| | | | | Nododd adolygiad o gyllideb y gwasanaeth gyllidebau o £15k nad oedd yn cael ei defnyddio ac maent bellach wedi cael eu dileu. Nid oedd gorwariant ar ddiwedd Ch2 felly mae'r arbediad hwn yn cael ei gyflawni. |
| Trawsnewid | 5 | 5 | 0 | Nodwyd arbediad o £5k drwy ddileu cyllidebau ar gyfer llinellau ffôn a ffonau symudol nad oes fawr o ddefnydd yn cael ei wneud ohonynt. Ni nodwyd unrhyw arbedion llinellau pellach hyd yma ond, os na fyddant yn cael eu canfod, bydd yr arbedion yn cael eu canfod o feysydd eraill yng nghyllideb yr adran, fel yn 2019/20. |
| Adnoddau | 60 | 60 | 0 | Cynigiwyd arbediad o £10k drwy ostwng cyllidebau postio o ganlyniad i fuddsoddiadau yn y systemau Cyflogres a Budd-daliadau Tai sydd wedi caniatáu i wybodaeth gael ei drosglwyddo'n electronig yn hytrach na phostio dogfennau papur. Mae gwariant yn Ch2 ychydig yn uwch na'r gyllideb, ond mae'n debyg fod hyn oherwydd amseriad y gwariant. |
| | | | | Disgwylir y bydd dull corfforaethol o brynu nwyddau yn rhyddhau arbediad o £50k. Mae gwariant yn Ch2 o fewn y gyllideb. |
| Busnes y Cyngor | 8 | 8 | 0 | Disgwylir i leihau costau cynnal digwyddiadau Dinesig gyflawni arbediad o £8k ar gyfer y flwyddyn. Mae gwariant yn Ch2 o fewn y gyllideb. |
| **Cyfanswm** | **307** | **244** | **63** | |

**ATODIAD DD**

**Costau Asiantaeth rhwng Ebrill a Mehefin 2020**

| Gwasanaeth | Swm £ | Ffynhonnell Gyllido (Cyllideb Graidd Benodol / Cyllideb staffio nas defnyddiwyd / Grant / Cyfraniad Allanol) | Parhaol / Dros Dro | Pwrpas |
|---|---|---|---|---|
| Ysgolion | 900 | Craidd | Dros Dro | Athrawon llanw mewn meysydd arbenigol |
| | **900** | | | |
| Gwastraff | 33,893 | Cyllideb Graidd Benodol | Dros Dro | Staff tymor byr – ddim ar gael drwy'r Matrics Adnoddau Dynol |
| | 33,087 | Cyllideb Graidd Benodol | Dros Dro | Tasgau ychwanegol sydd eu hangen yn y tymor byr. Nid yw staff ar gael drwy'r Matrics Adnoddau Dynol |
| | 22,468 | Cyllideb Graidd Benodol | Dros Dro | Tasgau ychwanegol sydd eu hangen yn y tymor byr. Nid yw staff ar gael drwy'r Matrics Adnoddau Dynol. |
| | **89,448** | | | |
| Gwasanaethau Plant | 36,553 | Cyllideb Graidd / Cronfa Staff Asiantaeth | Dros Dro | I lenwi swyddi gwag |
| | 45,149 | Cyllideb Graidd / Cronfa Staff Asiantaeth | Dros Dro | I lenwi swyddi gwag |
| | 11,868 | Cyllideb Graidd / Cronfa Staff Asiantaeth | Dros Dro | I lenwi swyddi gwag |
| | **93,570** | | | |
| Gwasanaethau Oedolion | 68,814 | Cyllideb Graidd | Dros Dro | Prosiect DOLS |
| | 16,803 | Cyllideb Graidd | Dros Dro | I lenwi swyddi gwag |
| | **85,617** | | | |
| Trawsnewid | 3,240 | Cyllideb staffio nas defnyddiwyd | Dros Dro | Mamolaeth |
| | **3,240** | | | |
| **Cyfanswm** | **272,775** | | | |

**ATODIAD E**

**Crynodeb o Wariant Ymgynghori Ch2 2020/21**

| Crynodeb o Wariant Ymgynghori fesul Gwasanaeth | | | |
|---|---|---|---|
| **Gwasanaeth** | **Ch1 £** | **Ch2 £** | **Cyfanswm 2020/21 £** |
| Addysg Ganolog | 8,685 | 10,033 | **18,718** |
| Diwylliant | 0 | 0 | **0** |
| Economaidd ac Adfywio | 1,125 | 36,501 | **37,626** |
| Eiddo | 0 | 0 | **0** |
| Priffyrdd | 0 | 17,655 | **17,655** |
| Ysgolion | 0 | 0 | **0** |
| Gwastraff | 12,883 | 40,257 | **53,140** |
| CRT | 0 | 1,200 | **1,200** |
| Tai | 0 | 0 | **0** |
| Corfforaethol a Democrataidd | 0 | 0 | **0** |
| Gwasanaethau Oedolion | 0 | 0 | **0** |
| Gwasanaethau Plant | 2,466 | 56 | **2,522** |
| Corfforaethol | 0 | 0 | **0** |
| Trawsnewid | 630 | 1,386 | **2,016** |
| Busnes y Cyngor | 11,847 | 2,582 | **14,429** |
| Adnoddau | 9,515 | 0 | **9,515** |
| **Cyfanswm** | **47,151** | **109,671** | **156,822** |
| Ariannwyd o: | | | |
| Cyllideb Graidd | 46,016 | 72,640 | **118,656** |
| Grant | 630 | 1,386 | **2,016** |
| Cyfraniad Allanol | 505 | 35,645 | **36,150** |
| Arian wrth Gefn | 0 | 0 | **0** |
| **Cyfanswm** | **47,151** | **109,671** | **156,822** |

**ATODIAD F**

## Dadansoddiad o Gostau Ymgynghori Chwarter 2 2020/21

| | Swm £ | Categori – rheswm dros benodi | | | Ffynhonnell y Cyllid | Disgrifiad o'r gwaith a wnaed |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Parhaus – i dalu am sgiliau penodol nad oes angen swydd barhaol | Maint y gwaith | Gwaith Penodol / Prosiect Unwaith ac am Byth | (Cyllideb Graidd Benodol / Cyllideb staffio nas ddefnyddiwyd / Grant / Cyfraniad Allanol) | |
| **Cyfanswm Ch1 Ebrill – Mehefin** | **47,151** | | | | | |
| Addysg Ganolog | 9,333 | | ✓ | | Craidd | Ffioedd Proffesiynol – gwasanaeth fel Uwch Swyddog Adran Addysg |
| | 700 | | | ✓ | Craidd | Ffioedd Proffesiynol - Gwasanaeth i'r Gwasanaeth Dysgu |
| **Cyfanswm Addysg Ganolog** | **10,033** | | | | | |
| Economaidd ac Adfywio | 1,458 | | | ✓ | Allanol | Ymgynghoriaeth ynghylch ailgychwyn swydd mordeithiau ar ôl Covid ac asesiad effaith economaidd |
| | 19,675 | ✓ | | | Allanol | Cais TWAO Morlais |
| | 870 | ✓ | | | Allanol | Prosiect Morlais G2624 |
| | 1,285 | ✓ | | | Allanol | Gwasanaethau Lletya Blynyddol |
| | 12,182 | | | ✓ | Allanol | Rheoli Prosiect Arfor Ch1 a 2 |
| | 430 | | | ✓ | Craidd | Gwiriadau strwythurol |
| | 27 | | | ✓ | Craidd | Mater 73 – Diweddariad i'r Canllaw Cyfreithiol |
| | 399 | ✓ | | | Craidd | Worldpay – Taliadau Debyd Uniongyrchol |
| | 175 | | | ✓ | Allanol | Sesiynau syrffio ar gyfer aelodau clwb gofal |
| **Cyfanswm Economaidd a Rheoleiddio** | **36,501** | | | | | |
| **Priffyrdd** | 2,184 | | | ✓ | Cyllideb Graidd | Cyfraniad ardoll WPPP 2019/20 Ch4 |
| | 6 | | | ✓ | Cyllideb Graidd | Tâl PCN |
| | 6,316 | | | ✓ | Cyllideb Graidd | Cymorth Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd 2019 |
| | 9,150 | | | ✓ | Cyllideb Graidd | Arolwg SCRIM 2020 |
| **Cyfanswm Priffyrdd** | **17,655** | | | | | |

| | Swm £ | Categori – rheswm dros benodi | | | Ffynhonnell y Cyllid | Disgrifiad o'r gwaith a wnaed |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Parhaus – i dalu am sgiliau penodol nad oes angen swydd barhaol | Maint y gwaith | Gwaith Penodol / Prosiect Unwaith ac am Byth | (Cyllideb Graidd Benodol / Cyllideb staffio nas ddefnyddiwyd / Grant / Cyfraniad Allanol) | |
| Gwastraff | 28,886 | ✓ | | ✓ | Cyllideb Graidd Benodol | Darparu Cefnogaeth Dechnegol Allanol – Caffael contract casglu gwastraff a glanhau newydd |
| | 57 | ✓ | | ✓ | Cyllideb Graidd Benodol | DUoS Offtake |
| | 172 | ✓ | | ✓ | Cyllideb Graidd Benodol | Ffi mesuryddion a setliad |
| | 3,966 | ✓ | | ✓ | Cyllideb Graidd Benodol | Cefnogaeth Dechnegol Nwy – Safle Tirlenwi Penhesgyn |
| | 183 | ✓ | | ✓ | Cyllideb Graidd Benodol | Asesiad Risg Tân |
| | 250 | ✓ | | ✓ | Cyllideb Graidd Benodol | Mesurau lliniaru ar gyfer Penhesgyn |
| | 1,138 | ✓ | | ✓ | Cyllideb Graidd Benodol | SEMP cais i amrywio Trwydded Amgylcheddol Safle Tirlenwi Penhesgyn |
| | 2,730 | ✓ | | ✓ | Cyllideb Graidd Benodol | CRT a Chynllun Rheoli Dŵr Daear |
| | 1,856 | ✓ | | ✓ | Cyllideb Graidd Benodol | Gwaith monitro bioaerosolau yn y peiriannau compostio (IVC) - Gorffennaf 2020 |
| | 587 | ✓ | | ✓ | Cyllideb Graidd Benodol | Costau Dadansoddi |
| | 250 | ✓ | | ✓ | Cyllideb Graidd Benodol | Mesurau lliniaru ar gyfer Penhesgyn |
| | 183 | ✓ | | ✓ | Cyllideb Graidd Benodol | Asesiad Risg Tân |
| **Cyfanswm Gwastraff** | **40,257** | | | | | |
| **CRT** | 300 | | | ✓ | Craidd | Gwaith technegol gyda'r nos – gwella'r system Orchard FYW |
| | 900 | | | ✓ | Craidd | Cyflunio Gosod Tai |
| **Cyfanswm CRT** | **1,200** | | | | | |
| Gwasanaethau Plant | 45 | | | ✓ | Cyllid Craidd | Prynu Tystysgrif Geni |
| | 11 | | | ✓ | Cyllid Craidd | Prynu Tystysgrif Geni |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Plant** | **56** | | | | | |
| Trawsnewid | 1,386 | ✓ | | | Grant | Asesydd - Gweithwyr Cymdeithasol dan Hyfforddiant |
| **Cyfanswm Trawsnewid** | **1,386** | | | | | |
| Busnes y Cyngor | 2,582 | | | ✓ | Cyllideb staff nas defnyddiwyd | Llanw ar gyfer absenoldeb dros dro |
| **Cyfanswm Busnes y Cyngor** | **2,582** | | | | | |
| **Cyfanswm Ch2 – Gorffennaf - Medi** | **109,671** | | | | | |
| **Cyfanswm Cronnus 2020/21 – Ebrill - Medi** | **156,822** | | | | | |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **30 TACHWEDD 2020** |
| **Pwnc:** | **ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB – AIL CHWARTER 2020/21 - CYFALAF** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y CYNGHORYDD R WILLIAMS** |
| **Pennaeth / Cyfarwyddwr Gwasanaeth:** | **MARC JONES (EST. 2601)** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Ffôn:<br>E-bost: | **JEMMA ROBINSON**<br>**01248 752675**<br>**JemmaRobinson@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

**A –Argymhelliad / Argymhellion a'r Rheswm / Rhesymau**

- Argymhellir bod y Pwyllgor Gwaith yn nodi'r cynnydd o ran gwariant a derbyniadau yn erbyn cyllideb gyfalaf 2020/21 yn chwarter 2.
- Cymeradwyo £4.449m o Fenthyca Digefnogaeth mewn perthynas ag amodau'r Contract Gwastraff a ddyfarnwyd i Biffa, yn unol â pharagraff 3.3.1 yr adroddiad hwn.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Amherthnasol

**C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

- Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol y gyllideb Gyfalaf ar gyfer ail chwarter y flwyddyn ariannol.
- Mae monitro cyllidebau yn swyddogaeth a neilltuwyd i'r Pwyllgor Gwaith.

**CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Gosod y Gyllideb Gyfalaf flynyddol.

**DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? Beth oedd eu sylwadau?**

| | | |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth** (mandadol) | Adolygwyd yr adroddiad gan yr UDA ac ymgorfforwyd eu sylwadau yn yr adroddiad terfynol. |
| 2 | **Cyllid / Swyddog Adran 151** (mandadol) | Amherthnasol – adroddiad gan y Swyddog Adran 151 yw hwn. |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Mae'r Swyddog Monitro yn rhan o'r UDA ac mae'r UDA wedi ystyried y sylwadau. |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Caffael** | |
| 8 | **Sgriwtini** | |
| 9 | **Aelodau Lleol** | |

| E – Effaith ar Genedlaethau'r Dyfodol (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| 1 | **Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys** | Mae'r gyllideb gyfalaf yn cyllido buddsoddiadau mewn asedau ac isadeiledd y mae eu hangen i ganiatáu'r Cyngor gyflawni ei amcanion hirdymor a nodir yn ei Gynllun Corfforaethol a'i Strategaeth Cyfalaf. |
| 2 | **A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol. Os felly, sut:-** | Bydd rhai o'r buddsoddiadau unigol e.e. gwaith atal llifogydd, yn arbed costau yn y dyfodol tra bydd eraill e.e. prosiectau Cronfa Gofal Integredig, yn lleihau dibyniaeth ar y Cyngor i ddarparu gwasanaethau mwy costus. |
| 3 | **A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy:** | Mae cyllido'r prosiectau wedi cael ei gytuno a'i gynllunio gyda sefydliadau eraill, yn benodol Llywodraeth Cymru. |
| 4 | **A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:-** | Mae Cynllun Corfforaethol a rhaglen gyfalaf 2020/21 y Cyngor wedi bod yn destun proses ymgynghori gyda dinasyddion Ynys Môn. |
| 5 | **Nodwch effeithiau'r penderfyniad hwn ar yr agenda cydraddoldeb a'r Gymraeg** | Mae rhai o'r prosiectau a gyllidir gan y rhaglen gyfalaf yn effeithio ar yr agenda cydraddoldeb e.e. mynediad i'r anabl mewn ysgolion, grantiau cyfleusterau i'r anabl. Nid oes effaith ar agenda'r iaith Gymraeg. |

**F - Atodiadau:**

Atodiad A – Adroddiad Monitro'r Gyllideb Gyfalaf – Chwarter 2 2020/21
Atodiad B – Crynodeb o'r Gwariant ar Brosiectau Cyfalaf hyd yma yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf a'r Gwariant a Ragwelir ar Ddiwedd y Flwyddyn

**FF – Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

- Cyllideb Gyfalaf 2020/21, fel yr argymhellwyd hi gan y Cyngor llawn ar 10 Mawrth 2020;
- Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2020/21, a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn ar 10 Mawrth 2020;
- Adroddiad Alldro Cyfalaf 2019/20, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ar 15 Mehefin 2020; a
- Monitro Cyllideb Gyfalaf Chwarter 1 2020/21, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ar 28 Medi 2020.

## 1. RHAGARWEINIAD

**1.1** Hwn yw'r adroddiad ar fonitro'r Gyllideb Gyfalaf ar gyfer ail chwarter y flwyddyn ariannol, ac mae'n caniatáu i'r Aelodau nodi'r cynnydd o ran Gwariant Cyfalaf a Derbyniadau Cyfalaf yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf.

**1.2** Ym mis Mawrth 2020, cymeradwyodd y Cyngor Raglen Gyfalaf (a oedd yn cynnwys amcangyfrif o lithriad) ar gyfer gwasanaethau heblaw tai o £17.050m ar gyfer 2020/21 a Rhaglen Gyfalaf o £20.255m ar gyfer y CRT. Yn ogystal, ym mis Mehefin 2020, cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith Lithriad Cyfalaf o £12.109m i'w ddwyn ymlaen o 2019/20, gan ddod â chyfanswm y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer gwasanaethau heblaw tai i £22.336m a £19.032m ar gyfer y CRT. Ers y broses gosod y gyllideb, ychwanegwyd cynlluniau pellach i'r rhaglen, y mwyafrif ohonynt wedi'u cyllido gan grant, ac sy'n dod i gyfanswm o £8.098m. Daw hyn â chyfanswm y Gyllideb Gyfalaf ar gyfer 2020/21 i £49.466m.

## 2. CYNNYDD O RAN GWARIANT 2020/21

**2.1** Isod mae tabl cryno o'r gwariant Cyfalaf hyd at 30 Medi 2020, y gyllideb wedi'i phroffilio hyd at 30 Medi 2020 a'r dull cyllido arfaethedig ar gyfer y Rhaglen Gyfalaf am 2020/21:-

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol £'000 | Cyllideb a Broffiliwyd £'000 | Gwariant Gwirionedd ol £'000 | Gwariant wedi ei Ymrwymo £'000 | Cyfanswm Gwariant £'000 | % y Gyllideb a Broffiliwyd sydd wedi ei gwario | % y Gyllideb Flynyddol sydd wedi ei gwario |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tai - Cronfa Gyffredinol | 1,860 | 584 | 506 | 13 | 519 | 89 | 28 |
| Tai - CRT | 19,032 | 4,930 | 3,245 | 435 | 3,680 | 75 | 19 |
| Dysgu Gydol Oes | 11,727 | 2,166 | 1,537 | 89 | 1,626 | 75 | 14 |
| Economaidd ac Adfywio | 3,794 | 1,822 | 1,690 | 122 | 1,812 | 99 | 48 |
| Priffyrdd | 6,660 | 2,604 | 2,071 | 106 | 2,176 | 84 | 33 |
| Eiddo | 2,673 | 1,203 | 1,220 | - | 1,220 | 101 | 46 |
| Trawsnewid | 529 | 106 | 86 | 28 | 114 | 108 | 21 |
| Cynllunio | 1,324 | 113 | 10 | 160 | 170 | 151 | 13 |
| Gwasanaethau Oedolion | 1,867 | 160 | 156 | - | 156 | 97 | 8 |
| **Cyfanswm** | **49,466** | **13,688** | **10,521** | **951** | **11,471** | **84** | **23** |

| | |
|---|---|
| **Cyllidwyd gan:** | |
| Grant Cyfalaf | 20,769 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 793 |
| Bethyca â Chefnogaeth | 7,955 |
| Benthyca Digefnogaeth | 1,796 |
| Cyfraniad Refeniw | 16,133 |
| Cronfeydd Wrth Gefn | 619 |
| Benthyciad | 1,401 |
| **Cyfanswm Cyllido** | **49,466** |

**2.2** Hyd at ddiwedd y chwarter cyntaf ar gyfer y gronfa gyffredinol, gwariwyd 89% o'r gyllideb a broffiliwyd. Fodd bynnag, dim ond 26% o'r gyllideb flynyddol a wariwyd hyd yma. Y rheswm am hyn yw bod nifer o'r cynlluniau cyfalaf yn gwario mwy tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae rhai cynlluniau cyfalaf wedi cychwyn, ac mae'r rhan fwyaf o'r gyllideb a broffiliwyd ar gyfer chwarter 2 wedi cael ei gwario – cynlluniau megis cynlluniau Lliniaru Llifogydd Biwmares a Phentraeth, cynllun Porth Ymwelwyr Caergybi, cynllun Isadeiledd Strategol Caergybi a chynllun Parcio a Rhannu Gaerwen. Nid yw rhai cynlluniau cyfalaf wedi cychwyn eto, ond mae'r gyllideb ar eu cyfer wedi eu proffilio i'w gwario tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol, megis Diogelwch Ysgolion, camerâu gorfodaeth ar Lithrfa Porth y Wrach, cynllun Partneriaeth Tirwedd Ynys Gybi, cynllun Ffyrdd Gwydn, Mynediad i'r Anabl i Adeiladau Addysg, Cynllun Adnewyddu Adeiladau Presennol ac Adeiladau Addysg a'r maes chwarae antur ym Mharc y Morglawdd. Gellir gweld y cynlluniau yma a'u proffiliau yn Atodiad B. Mae yna nifer o gynlluniau Grant Cyfalaf yn 2020/21 a fe geir diweddariad arnynt yn Adran 3.1 yr adroddiad hwn.

**2.3** Mae'r Cyfrif Refeniw Tai wedi gwario 75% o'r gyllideb a broffiliwyd a 19% o'r gyllideb flynyddol. Ar hyn o bryd, rhagwelir na fydd tanwariant sylweddol yn y gyllideb erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Daeth y pandemig coronafeirws â'r holl gontractau cynnal a chadw a gynlluniwyd i stop tuag at ddiwedd chwarter 4 2019/20 ac arhosodd safleoedd ar gau yn ystod y cyfnod clo am y rhan fwyaf o chwarter 1 2020/21. Gweithiodd y Gwasanaeth Tai tuag at ailgychwyn gwaith ar nifer o safleoedd tuag at ddiwedd chwarter 1 2020/21, gan gynnwys contractau gwaith cynnal a chadw allanol a gynlluniwyd. Cyflawnwyd y nod hwn yn llwyddiannus, gyda'r holl waith yn cael ei wneud mewn modd diogel sy'n gwarchod y trigolion a gweithlu'r contractwr. Wrth ailddechrau'r gwaith canolbwyntiwyd ar gwrdd ag amodau caeth a chydymffurfio ag Asesiadau Risg a gymeradwywyd, Canllawiau Pellter Cymdeithasol a Chanllawiau'r Llywodraeth ar gyfer gwaith adeiladu yn ystod y pandemig coronafeirws a pharheir i wneud hynny. Yn anochel, cafodd y datblygiadau hyn effaith ddifrifol ar wariant disgwyliedig yn ystod chwarter 1 a bydd yn arwain at oedi cyn y gellir buddsoddi cyfalaf ar gyfer gwaith mewnol yn ystod gweddill 2020/21. Yn ystod chwarter 2, gwelwyd mwy o wariant ar waith cynnal a chadw traddodiadol a gynlluniwyd yn sgil ailddechrau gwaith ar ddau gontract mawr. Disgwylir i'r proffiliau gwariant ar y ddau gynllun hyn gynyddu yn ystod chwarter 3.

Mae Covid-19 yn parhau i effeithio ar brosiectau adeiladu tai newydd a phrynu eiddo. Rhwng mis Mawrth a Medi 2020, nid oedd modd ymweld ag eiddo wedi'i feddiannu ac, felly, ni lwyddwyd i ddod i gytundeb i brynu unrhyw eiddo yn ôl yn ystod y cyfnod hwn. Y nod yw prynu 15 o hen dai Cyngor y flwyddyn ond, ar hyn o bryd, rhagdybiaeth fwy rhesymol yw mai traean o'r ffigwr hwn yn unig fydd yn cael eu prynu yn ystod 2020/21, a bydd hyn yn cael effaith ar y gyllideb. Mae oedi i'w weld o hyd ar safleoedd adeiladu newydd oherwydd Covid-19, yn arbennig mewn perthynas ag argaeledd rhai deunyddiau penodol a chyflenwadau. Mae hyn wedi arafu cynnydd y gwaith a gostwng gwariant. Bu oedi mewn rhai prosiectau hefyd oherwydd oedi y gellir ei briodoli i gwmnïau cyfleustodau. Yn gyffredinol, disgwylir i'r materion hyn gael effaith sylweddol ar gyllideb 2020/21.

## 3. CYLLIDO

### 3.1 Grantiau Cyfalaf

**3.1.1** Mae nifer o gynlluniau Grant Cyfalaf yn y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2020/21, ac mae'r mwyafrif ohonynt wedi cychwyn ac yn mynd rhagddynt. Rhoddir diweddariad byr ar y cynlluniau isod:-

- **Isadeiledd Strategol Llangefni** – Mae'r cynllun yn cynnwys adeiladu 5 uned ddiwydiannol newydd ar hen safle Hyfforddiant Môn ac estyniad i'r Ganolfan Fusnes i'w osod i'r sector preifat. Mae'r unedau diwydiannol newydd bellach wedi'u cwblhau, ac mae'r pump wedi'u gosod. Mae'r gwaith yn y Ganolfan Fusnes bellach wedi'i gwblhau ac mae gofod swyddfa yn cael ei hysbysebu ar hyn o bryd. Mae ail-broffil wedi'i gyflwyno i Swyddfa Gyllido Ewropeaidd Cymru (WEFO) a chymeradwywyd estyniad 6 mis hyd ddiwedd mis Medi ar gyfer y prosiect. Oherwydd oedi ar y safle o ganlyniad i Covid, adolygwyd yr estyniad hwn eto gan WEFO ym mis Awst a chymeradwywyd estyniad tan ddiwedd mis Mawrth 2021. Mae'r gwariant sy'n weddill wedi'i neilltuo i uwchraddio'r cladin a mân waith arall yn y Ganolfan Fusnes gyfredol ac mae'r gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. Bydd unrhyw danwariant yn cael ei adolygu yn ddiweddarach yn y flwyddyn pan fydd y gwaith cladio'n tynnu tua'i derfyn a rhoddir ystyriaeth i'w ddefnyddio i ddiwallu anghenion TG tenantiaid.

- **Isadeiledd Strategol Caergybi** – Cynllun yw hwn i adeiladu deng uned ddiwydiannol newydd ym Mhenrhos, Caergybi. Mae'r contractwr a benodwyd wedi gorffen y prif waith erbyn hyn ac wedi gadael y safle. Mae gwaith cywiro mân ddiffygion a gwaith comisiynu angen eu cwblhau. Cafwyd problemau gyda hawddfraint y cysylltiad trydan ar y safle sydd wedi arwain at gostau cyfreithiol uwch. Mae'r mater yn mynd rhagddo ac mae swyddogion yn yr adrannau Eiddo ac Economaidd yn rhoi blaenoriaeth iddo ar hyn o bryd. Sicrhawyd cyllid Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) a sefydlwyd Cyd-Fenter gyda Llywodraeth Cymru, sy'n darparu'r cyllid cyfatebol ar gyfer y cynllun. Yn ddibynnol ar gwblhau materion cyfreithiol, gobeithir y bydd yr unedau ar gael i'w gosod ym mis Rhagfyr 2020/Ionawr 2021.

- **Grant Trawsnewid Trefi – Covid –** Mae pob Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru wedi derbyn £0.108m o gyllid adnewyddu trefol dan y cynllun Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio (TRI), sydd wedi cael ei addasu at ddibenion gwahanol i gefnogi gwneud addasiadau i ganol trefi yn sgil Covid. Gyda chydsyniad Llywodraeth Cymru, dyfarnwyd y cyllid mewn grantiau o £10k i'r pum cyngor tref a grantiau o £5k i bum cyngor cymuned mewn pentrefi glan môr prysur. Mae eitemau cymwys yn cynnwys addasu toiledau cyhoeddus, meinciau, potiau planhigion, byrddau picnic, gorsafoedd diheintio ac arwyddion. Defnyddiwyd cyfran o'r gronfa gan y Cyngor ei hun ar gyfer arwyddion cadw pellter cymdeithasol a mesurau cysylltiedig. Erbyn hyn, mae'r swm o £0.108m wedi ei ymrwymo'n llawn a gofynnwyd i'r holl hawliadau gael eu cyflwyno erbyn diwedd mis Rhagfyr. Anfonwyd neges briffio ynghylch y gronfa hon at yr holl Aelodau etholedig.

- **Ysgolion yr 21ain Ganrif** - O'r Prosiectau Band A, mae ysgolion newydd yn Rhyd y Llan, Ysgol Cybi ac Ysgol Santes Dwynwen i gyd wedi'u cwblhau, ynghyd ag estyniad i Ysgol Parc y Bont a gwaith adnewyddu yn Ysgol Brynsiencyn. Ymgynghorwyd ynghylch y cynllun Band A olaf, sy'n canolbwyntio ar y ddarpariaeth ysgol yn ardal Llangefni, dros gyfnod o chwe wythnos yn ystod chwarter 4 2019/20. Ar ôl cwblhau'r ymgynghoriad, os mai ysgol newydd yw'r opsiwn a ddewisir, bydd angen penderfynu costau'r cynllun a'u cynnwys yn yr Achos Busnes Terfynol a gyflwynir i Lywodraeth Cymru.

- **Grant Cyfalaf Gofal Plant** – Sicrhawyd £2.718m o gyllid grant ar gyfer y cyfnod 2019 i 2021 i addasu nifer o ysgolion cynradd fel y gall y Cyngor ddarparu digon o leoedd gofal plant i ateb y galw yn sgil y cynnig gofal plant. Bydd cyfleusterau ychwanegol yn cael eu creu yn Ysgol Santes Dwynwen £0.400m, Ysgol Morswyn £0.413m, Ysgol Pencarnisiog £0.340m, Ysgol Esceifiog £0.364m, Ysgol y Tywyn £0.216m ac i gyflawni Cynllun Grantiau Bach a Rheoli Prosiect £0.165m. Mae'r gwaith wedi'i gwblhau yn Ysgol Santes Dwynwen, Ysgol Morswyn, Ysgol Pencarnisiog, Ysgol y Tywyn ac Ysgol Esceifiog. Cynhaliwyd arolygon ar safleoedd ysgol eraill i benderfynu ymhle i ddyrannu gweddill y cyllid grant.

- **Neuadd y Farchnad** – Mae'r prif gontractwr wedi ailgychwyn gwaith ar y safle ac yn rhoi sylw i'r diffygion sy'n weddill. Mae angen caniatâd cynllunio yn chwarter 3 ar gyfer y gwaith allanol sy'n weddill, gan gynnwys rac feiciau a storfa finiau, cyn y byddant yn cael eu gosod. Mae cam cyntaf y gwaith dehongli treftadaeth wedi ailgychwyn ac mae offer Clyweledol wedi cael ei archebu a bydd y ddau'n cael eu gosod yn chwarter 3, gan ymgorffori arwydd hanesyddol siop Pollecoff a roddwyd i'r Cyngor. Mae ein tîm Ystadau yn parhau i weithio ar ddenu tenantiaid posib ac mae trafodaethau diweddar â darpar denant ar gyfer y gofod swyddfa yn parhau i fod yn rhai cadarnhaol a byddai'n arwain at osod y rhan fwyaf o'r gofod swyddfa.

- **Trawsnewid Treflun Caergybi (Cam II y Fenter Treftadaeth Treflun)** - Bydd ceisiadau grant ffurfiol gan drydydd parti yn cael eu cyflwyno yn ystod y cyfnod rhwng diwedd Hydref a chanol Tachwedd ar gyfer dau brosiect blaenoriaeth, gan gynnwys un yn ymwneud ag adeilad yng nghanol y dref sydd wedi bod yn wag am y cyfnod hiraf. Bydd y ddau brosiect yn golygu trosi adeiladau gwag yn unedau tai. Byddant yn cael eu cyflawni yn ystod chwarter 3/chwarter 4 ac mae'r gwaith ymarferol wedi ei raglennu i'w gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Yn ogystal, mae cynnydd da yn parhau i gael ei wneud mewn perthynas â chynigion ar gyfer safle Eglwys Sant Cybi a'r maes parcio cyfagos. Derbyniwyd caniatâd eglwysig ar gyfer y llwyfan gwylio ar y Tŵr Gogledd-Ddwyreiniol a disgwylir y bydd y gwaith yn cael ei dendro yn ystod chwarter 4 ac y bydd y gwaith yn cychwyn bryd hynny hefyd. Cwblhawyd y gwaith ar giatiau'r fynwent isaf a'r panel uwchben ddiwedd mis Medi. Cyhoeddwyd brîff tendro ar gyfer gwasanaethau dylunio mewn perthynas â'r toiledau cyhoeddus ar Sgwâr Swift ond, yn anffodus, nid oedd y cyflwyniadau yn cydymffurfio â'r gofynion ac mae'r gwaith hwn wedi'i gynnwys yn y gwaith dylunio ehangach ar gyfer y safle, ochr yn ochr â ffrydiau eraill ar gyfer cynigion manwl ar gyfer gweddill y safle, gan gynnwys gweithio'n agos â'r Gwasanaeth Priffyrdd ar y posibilrwydd o gyflwyno mannau gwefru ceir trydan yn Sgwâr Swift.

- Mae cyllid wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y **Rhaglen Targedu Buddsoddiad Adfywio (TRIP)**. Pwrpas y cyllid yw dod â 108 eiddo gwag yn ôl i ddefnydd trwy bedwar cynllun, sef Cynllun Cymorth i Brynwyr Tro Cyntaf, Cynllun Cymorth i Landlordiaid Cartrefi Gwag, Cynllun Ymyrraeth Uniongyrchol ynghylch Cartrefi Gwag a Chynllun Bywyd Canol Tref. Cyflawnir y cynlluniau hyn gan Gyngor Sir Ynys Môn, fel yr awdurdod sy'n arwain, a Chyngor Gwynedd, fel y partner cyflawni ar y cyd. Cyhoeddwyd Llythyr Cynnig diwygiedig ar gyfer TRIP sy'n dyrannu £1.001m ar gyfer Cynllun Grantiau i Brynwyr Tro Cyntaf, Cynllun Cymorth i Landlordiaid Cartrefi Gwag, Cynllun Bywyd Canol Tref a Chynllun Ymyrraeth Uniongyrchol ynghylch Cartrefi Gwag. Dim ond Cyngor Sir Ynys Môn fydd yn cyflawni'r cynlluniau hyn yn 2020/21, oni bai y gellir sicrhau cyllid pellach i gefnogi cynlluniau yng Ngwynedd. Hyd at ddiwedd chwarter 2, hawliwyd £335,596 a rhagwelir y bydd y grant wedi'i hawlio'n llawn erbyn diwedd chwarter 4. Yn barod, mae 107 o dai gwag wedi dod yn ôl i ddefnydd, yn erbyn targed o 108.

- **Partneriaeth Tirwedd Ynys Gybi** – Mae'r Bartneriaeth Tirwedd wedi sicrhau cyllid o £1.146m gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol (CTLG) i gyflawni ystod o brosiectau sy'n canolbwyntio ar amgylchedd naturiol Ynys Gybi. Roedd disgwyl caniatâd gan CTLG i ddechrau'r gwaith yn chwarter 3 2019/20, ond cafodd ei ohirio yn dilyn cais am estyniad 6 mis i gyllid Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) sy'n cael ei ddefnyddio fel cyllid cyfatebol ar gyfer y Bartneriaeth Tirwedd. Caniatawyd estyniad i'r ERDF sy'n caniatáu gwariant hyd at fis Rhagfyr 2021. Cyhoeddwyd hysbysebion ar gyfer Rheolwr Rhaglen, Swyddog Prosiect a Chynorthwyydd Prosiect yn chwarter 2 a gobeithir penodi i'r swyddi yn chwarter 3, gan ganiatáu i'r gwaith cyflawni ddechrau'n ffurfiol yn chwarter 4. Mae'r cyllid wedi cael ei ail-broffilio a bydd y rhaglen yn rhedeg tan 2024-25 yn awr.

- **Cynllun Grant Hwb ar gyfer Isadeiledd mewn Ysgolion** - Gwnaed rhywfaint o gynnydd gyda'r gwaith gosod isadeiledd, ac mae 45% o ysgolion cynradd wedi derbyn cyfarpar newydd (ar ddechrau Tachwedd 2020). Cynigiwyd amserlen newydd a fyddai'n golygu bod 80% o'r gwaith yn cael ei gwblhau erbyn mis Rhagfyr 2020, ar yr amod na fydd newid yn y mynediad i ysgolion oherwydd Covid-19. Hysbyswyd Llywodraeth Cymru fod llithriad i ddiwedd mis Mawrth 2021 yn debygol ar gyfer gweddill yr ysgolion. Yn ystod y cyfnod clo, ac mewn ymgynghoriad ag ysgolion, penderfynwyd rhoi blaenoriaeth i gyllido cyfrifiaduron Chromebook i gefnogi unrhyw ofynion i ddysgu o bell yn y dyfodol ac i adlewyrchu'r newid yn y byd addysg o ganlyniad i Covid-19. Defnyddiwyd yr holl gyllid Blwyddyn 2 i archebu 2,951 Chromebook fydd yn cael eu dosbarthu i ysgolion yn ôl niferoedd disgyblion. Bu oedi pellach o ran cyflenwi'r dyfeisiau hyn oherwydd bod gwneuthurwyr prosesyddion yn wynebu problemau gweithgynhyrchu. Disgwylir derbyn y dyfeisiau yn fuan a byddant yn cael eu dosbarthu i ysgolion ar unwaith. Mae sesiynau ymgysylltu pellach ag ysgolion yn cael eu defnyddio i rannu gwybodaeth am y Cynllun Cyflenwi diwygiedig ar gyfer Blynyddoedd 3 a 4 y rhaglen petai cyllid ychwanegol yn cael ei ddarparu.

- **Porth Twristiaeth** – Mae prosiect CDT (Cyrchfan Denu Twristiaid) Porth Ymwelwyr Rhyngwladol Ynys Gybi yn becyn o brosiectau sy'n digwydd dros sawl blwyddyn, a chânt eu cyllido'n bennaf trwy Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, Llywodraeth Cymru a Chronfa Dreftadaeth y Loteri. Mae dyluniadau ar gyfer Rhan 2 yn cael eu cwblhau ar hyn o bryd a chyflwynir y broses gydsynio yn chwarter 3. Mae gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd i gael caniatâd ar gyfer prosiect gerllaw Eglwys Sant Cybi a maes parcio Sgwâr Swift, a bydd y gwaith arfaethedig yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio ym mis Tachwedd. Bydd gwaith a drefnwyd ym Mharc Gwledig y Morglawdd Caergybi yn cael eu tendro yn fuan, a phenodir contractwr yn chwarter 4.

- **Maes Chwarae Antur, Parc Gwledig y Morglawdd** - Dyfarnodd Llywodraeth Cymru gyllid o'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy ar gyfer Ardal Harddwch Naturiol Eithriadol Ynys Môn. Dyfarnwyd £0.100m ar gyfer dylunio a gosod maes chwarae antur ym Mharc Gwledig y Morglawdd. Anfonwyd dogfennau tendr at GwerthwchiGymru ond nid oedd yr un ymgeisydd yn bodloni'r meini prawf yn llawn, felly, ni phenodwyd contractwr. Penderfynodd uwch reolwyr gynhyrchu brîff i gomisiynu ymgynghorwyr i gynhyrchu gweledigaeth ar gyfer Parc Gwledig y Morglawdd a fyddai'n cynnwys dylunio a gosod maes chwarae antur. Yn dilyn hynny, cafodd y syniad o gynhyrchu briff i gomisiynu ymgynghorydd ei dynnu'n ôl a chynhyrchwyd brîff tendr gwell wedi ei ail-alinio i'w roi ar GwerthwchiGymru ar gyfer dylunio a gosod maes chwarae antur ym Mharc Gwledig y Morglawdd. Mae'r risg o beidio â chwblhau'r gwaith erbyn diwedd mis Mawrth, a'r risg o danwariant posib, yn uchel oherwydd oedi, yr angen i geisio caniatâd cynllunio, cyfyngiadau'r tywydd yn ystod misoedd y gaeaf ac unrhyw gyfyngiadau Covid-19 pellach yn ystod y gwaith gosod.

- **Cronfa Ffyrdd Gwydn** - Mae hon yn ffrwd cyllid grant newydd, a gyflwynwyd eleni. Mae'r Cyngor wedi llwyddo i gael cyllid o dan y grant hwn i astudio pa fesurau gwytnwch y gellid eu gweithredu ar yr A545 a'r B5109 y naill ochr a'r llall i Fiwmares. Mae gan y ddwy ffordd hyn hanes o gau ar adegau o dywydd garw ac ni fydd y tywydd stormus cynyddol sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd ond yn gwaethygu'r sefyllfa. Mae gwaith wedi cychwyn i gaffael ymgynghorwyr allanol i gynnal yr astudiaeth hon ond rhagwelir y bydd y gwariant yn digwydd yn ystod y chwarter olaf eleni.

- **Cynlluniau draenio yng Nghaergybi ac Amlwch** - Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. Yng Nghaergybi, gwnaed cynnydd o ran datblygu cytundeb gweithio gyda Dŵr Cymru fel y gellir rhannu data modelu a fydd yn caniatáu i'r astudiaeth ymchwilio i'r risgiau o lifogydd y mae ein systemau ni a rhai Dŵr Cymru yn eu hwynebu yn y dref. Yn Amlwch mae angen gweithio'n agos gyda Chyfoeth Naturiol Cymru, fel bod modd ystyried prif risg llifogydd afon yn yr astudiaeth. Ar hyn o bryd, disgwylir am gytundeb gan Lywodraeth Cymru i ganiatáu i hyn ddigwydd. Bydd y ddwy astudiaeth yn parhau ymhell i'r flwyddyn ariannol nesaf.

- **Mân waith grant** (25 lleoliad) - Y grant hwn yw'r grant mwyaf a ddyfarnwyd erioed i'r Cyngor ar gyfer cynlluniau bach. Yn anffodus, fe'i dyfarnwyd yn ystod pandemig Covid-19 ac o ganlyniad, ni allai gwaith adeiladu ddechrau ar unwaith. Fodd bynnag, mae gwaith yn mynd rhagddo bellach ac mae dros hanner y gwaith wedi'i gwblhau gyda rhaglen yn cael ei datblygu ar gyfer y gweddill. Mae risg na fydd rhai o'r 25 o gynlluniau'n cael eu cwblhau yn parhau, oherwydd bod llai o amser ar gael nawr i gyflawni'r gwaith hwn (y mae'n rhaid ei gwblhau o fewn y flwyddyn ariannol gyfredol) a'r anawsterau gweithio o dan reolau pellter cymdeithasol mewn cyfnodau clo pellach. Byddwn yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru ar hyn.

- **Lliniaru Llifogydd Biwmares** – Cafodd y rhan fwyaf o waith ar y safle ei gwblhau yn yr haf a chafodd cyfran o'r gwaith ei ohirio. Bydd angen dod i gytundeb ynghylch y gwaith a ohiriwyd.

- **Lliniaru Llifogydd Pentraeth** – Dyrannodd Llywodraeth Cymru gyllid ar gyfer cynllun Lliniaru Llifogydd Nant y Felin, Pentraeth yn ei rhaglen ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20. Roedd y cynllun hwn ar y safle ond yna daethpwyd ar draws anawsterau hefo cyflwr y tir nad oedd modd eu rhagweld. Sicrhawyd cyllid ychwanegol i fynd i'r afael â'r anawsterau ac oherwydd goblygiadau Covid. Cwblhawyd y rhan fwyaf o'r gwaith yn ystod yr haf.

- **Traeth Coch** – Mae gwaith Dylunio a Datblygu gan ymgynghorwyr ar y cynllun Risg Arfordirol yn Nhraeth Coch yn mynd rhagddo. Mae rhai rhwystrau i'w goresgyn, yn arbennig mewn perthynas ag ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod y cyfyngiadau presennol, ond y gobaith yw y bydd y rhan fwyaf o'r gwariant yn digwydd yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Mae bwriad i ystyried y gwaith adeiladau yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf, ar yr amod bod y Cyngor yn cymeradwyo'r cyllid cyfatebol sydd ei angen.

- **Achos Busnes Llawn Llanfair, Menai a'r Fali** - Mae'r tri chynllun yn mynd rhagddynt**.** Mae pryderon ynghylch yr heriau sy'n gysylltiedig â'r opsiwn a ffafrir ar gyfer Llanfair PG a rhagwelir y bydd angen gwaith ychwanegol yma. Mae'n debygol y bydd Achos Busnes Llawn (Dylunio a Datblygu) cynllun Llanfair PG yn parhau ymhell i'r flwyddyn ariannol nesaf. Mae llai o risgiau canfyddedig yn gysylltiedig â Phorthaethwy a'r Fali a rhagwelir y gallai cynllun y Fali fod yn barod ar gyfer y gwaith adeiladu yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. Unwaith eto, mae hyn yn amodol ar dderbyn cymeradwyaeth y Cyngor i'r cyllid cyfatebol sydd ei angen.

- **Galluogi** – Sicrhawyd grant o £0.093m gan Lywodraeth Cymru ar gyfer addasiadau i gefnogi byw'n annibynnol. Disgwylir y bydd y grant hwn wedi ei ddefnyddio'n llawn erbyn diwedd y flwyddyn.

- **Arian Cyfalaf ar gyfer Diogelwch ar y Ffyrdd –** Mae'r cynllun hwn yn ymgorffori dau brosiect sydd yn werth cyfanswm o £0.478m. Mae un prosiect yn cynnwys gosod mesurau diogelwch ar ran o ffordd yr A5025, o'r Fali i Borthaethwy ac mae'r llall yn cyflwyno parthau 20mya y tu allan i ysgolion ynghyd â gwell cysylltiadau i gerddwyr. Cafwyd gwariant o £0.220m ar yr A5025 yn chwarter 2. Bydd gwaith ar yr A5025 yn parhau yn chwarter 3, drwy ddarparu gwell cyfleusterau i gerddwyr ac arwyddion diogelwch ffyrdd a bydd y gwaith o gyflwyno parthau 20mya ar draws yr Ynys yn cychwyn.

- **Teithio Llesol** - Sicrhawyd grant o £0.200m gan Lywodraeth Cymru ar gyfer mân welliannau i'r isadeiledd, gan gynnwys gosod arwyddion, parcio beiciau, cael gwared ar rwystrau mynediad a lledu llwybrau, yn ogystal â datblygu'r mapiau Teithio Llesol Integredig. Pwrpas y grant yw hyrwyddo a chynyddu lefelau teithio llesol, gwella iechyd a lles, lleihau allyriadau carbon a gwella teithio llesol i'r gwaith, addysg a gwasanaethau allweddol, cyrchfannau a thrafnidiaeth gyhoeddus. Mân welliannau cyfyngedig yn unig a wnaed hyd yn hyn, a bydd y rhan fwyaf o'r gwaith yn cael ei wneud yn chwarter 3 a 4. Mae hyn yn cynnwys defnyddio'r grant i gaffael ymgynghorwyr allanol i gynnal astudiaethau dichonoldeb ar gynlluniau posib i wella Teithio Llesol y gellid eu cyflawni yn y dyfodol.

- **Cyllid Trafnidiaeth Leol** – Sicrhawyd grant o £0.376m gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Gronfa Drafnidiaeth Leol, y Gronfa Rhwydwaith Trafnidiaeth Leol a'r Gronfa Trawsnewid Cerbydau Allyriadau Isel Iawn. Pwrpas y cronfeydd hyn yw datblygu systemau trafnidiaeth integredig, effeithiol, hygyrch, fforddiadwy a chynaliadwy a datblygu a darparu cynlluniau sy'n cefnogi tacsis / PHV nad ydynt yn cynhyrchu allyriadau, a hynny erbyn 2028 fel sy'n uchelgais gan Lywodraeth Cymru.

  - **Cronfa Drafnidiaeth Leol** - sicrhawyd £0.242m ar gyfer cwblhau'r gwaith o adeiladu safle Parcio a Rhannu Gaerwen. Bu cynnydd mewn costau oherwydd ffactorau annisgwyl ar y safle a gofynnir am gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru. Cwblhawyd oddeutu 95% o'r gwaith a bydd y gwaith tirlunio/plannu sy'n weddill yn cael ei wneud yn ystod chwarter 3.

  - **Cronfa Rhwydwaith Trafnidiaeth Leol** - sicrhawyd £0.049m ar gyfer gwelliannau i arosfannau bws ac i ddatblygu cyfleusterau i deithwyr ar fysys yng nghyffordd Pencarnisiog ar yr A4080. Rhagwelir y bydd y gwaith yn cael ei gyflawni yn chwarter 3 a chwarter 4.

  - **Cronfa Trawsnewid Cerbydau Allyriadau Isel Iawn** - sicrhawyd £0.085m ar gyfer darparu mannau gwefru cerbydau trydan yn y cyfleuster Parcio, Teithio a Rhannu yn Llanfairpwll fel hyb trafnidiaeth gynaliadwy. Mae gwaith wedi cychwyn i gaffael ymgynghorwyr allanol i wneud gwaith dichonolrwydd a dylunio, fodd bynnag, rhagwelir y bydd gwariant yn digwydd yn chwarter 3 a chwarter 4.

### 3.2 Derbyniadau Cyfalaf

**3.2.1** Y Derbyniadau Cyfalaf ar gyfer eleni hyd yma a'r Derbyniadau Cyfalaf y cyllidebwyd ar eu cyfer yw:-

| | Cyllideb 2020/21 £'000 | Derbyniwyd hyd at 30-Medi-20 £'000 | Rhagolwg i 31-Mawrth-21 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Cronfa'r Cyngor:** | | | |
| Mân-ddaliadau | 0 | 20 | 20 |
| Cyffredinol | 313 | 359 | 528 |
| Diwydiannol | 0 | 0 | 0 |
| Ysgolion | 554 | 370 | 562 |
| **Cyfanswm** | **868** | **749** | **1,109** |

**3.2.2** Y Derbyniadau Cyfalaf a ragwelir ar 31 Mawrth 2021 yw £1.109m, a derbyniwyd £0.749m erbyn 30 Medi 2020 (68%).

**3.2.3** Er bod y Derbyniadau Cyfalaf a ragwelwyd yn £1.109m, mae £2.439m o Dderbyniadau Cyfalaf ar gael i gyllido'r Rhaglen Gyfalaf oherwydd bod £1.330m o Dderbyniadau Cyfalaf wedi eu dwyn ymlaen o 2019/20 yn y Gronfa Wrth Gefn ar gyfer Derbyniadau Cyfalaf. Gellir defnyddio £1.877m o hyn i gyllido'r rhaglen gyfalaf gyffredinol, gyda'r £0.562m arall ar gael i gyllido rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif fel rhan o gyllid cyfatebol Cyngor Sir Ynys Môn.

### 3.3 Cyllid Cyfalaf Ychwanegol

**3.3.1** Yn dilyn proses ail-dendro'r Contract Gwastraff, dyfarnodd Cyngor Sir Ynys Môn y contract i Biffa. Fel rhan o drafodaethau'r contract, cytunwyd y byddai'r Cyngor yn cyllido cost cyfalaf y cerbydau newydd. Bydd y rhan fwyaf o'r cerbydau a'r peiriannau'n cael eu prynu yn barod ar gyfer dyddiad cychwyn y contract newydd, sef 1 Ebrill 2021, a'r gost i'r Cyngor fydd £4.449m. Y bwriad yw cyllido'r gost drwy Fenthyca Digefnogaeth. Bydd hyn yn creu cost refeniw blynyddol o rhwng £550k a £650k (yn dibynnu ar hyd y benthyciad) a bydd y gost ychwanegol yn cael ei chymryd i ystyriaeth yn y gyllideb refeniw ar gyfer 2021/22.

## 4. GWARIANT GWIRIONEDDOL A RAGWELIR YN 2020/21

**4.1** Isod mae tabl gyda'r Gwariant a ragwelir erbyn 31 Mawrth 2021 a'r cyllid diwygiedig:-

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol £'000 | Gwariant a Ragwelir £'000 | (Tan) / Gor Wariant a Ragwelir £'000 | Amrywiant % |
|---|---|---|---|---|
| Cronfa Gyffredinol - Tai | 1,860 | 1,860 | 0 | 0 |
| Tai - CRT | 19,032 | 12,788 | (6,244) | (33) |
| Dysgu Gydol Oes | 11,727 | 4,068 | (7,659) | (65) |
| Economaidd ac Adfywio | 3,794 | 3,391 | (403) | (11) |
| Priffyrdd | 6,660 | 5,941 | (719) | (11) |
| Eiddo | 2,673 | 2,673 | 0 | 0 |
| Trawsnewid | 529 | 341 | (188) | (35) |
| Cynllunio | 1,324 | 826 | (499) | (38) |
| Gwasanaethau Oedolion | 1,867 | 1,867 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **49,466** | **33,755** | **(15,711)** | **(32)** |
| **Cyllidwyd gan:** | **Cyllideb Flynyddol £'000** | **Cyllid a Ragwelir £'000** | **Amrywiant £'000** | **Amrywiant %** |
| Grant Cyfalaf | 20,769 | 15,070 | (5,699) | (27) |
| Derbyniadau Cyfalaf | 793 | 782 | (11) | (1) |
| Benthyca â Chefnogaeth | 7,955 | 5,727 | (2,228) | (28) |
| Benthyca Digefnogaeth | 1,796 | 136 | (1,660) | (92) |
| Cyfraniad Refeniw | 16,133 | 10,152 | (5,981) | (37) |
| Cronfeydd wrth Gefn | 619 | 487 | (133) | (21) |
| Benthyciad | 1,401 | 1,401 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Cyllid** | **49,466** | **33,755** | **(15,711)** | **(32)** |

**4.2** Fel y gwelir yn nhabl 4.1 (uchod), y tanwariant a ragwelir ar y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2020/21 yw £15.711m, gyda'r swm hwn yn llithro efallai i Raglen Gyfalaf 2021/22. Bydd y cyllid ar gyfer y llithriad hwn hefyd yn llithro i 2021/22 a bydd yn cael ei gymryd i ystyriaeth wrth gynhyrchu'r Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys, y Strategaeth Gyfalaf a'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2021/22. Y prif brosiect y rhagwelir y bydd yn tanwario yw Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, sydd wedi cael ei atal dros dro ar hyn o bryd ac yn dibynnu ar ganlyniad yr ymgynghoriad pellach ar foderneiddio'r ddarpariaeth ysgol yn ardal Llangefni. Fodd bynnag, pe bai hyn yn cael ei ddatrys yn y dyfodol agos, gall y tanwariant a ragwelir fod yn llai. Rhagwelir hefyd y bydd tanwariant sylweddol ar y CRT, fel yr eglurir ym mharagraff 2.3 uchod.

**4.3** Y Gofyniad Cyllid Cyfalaf a ragwelir ar 31 Mawrth 2021 yw £140.667m, sef yr angen sylfaenol i'r Awdurdod fenthyca er mwyn gallu cyllido ei Raglen Gyfalaf. Ar hyn o bryd, mae'r benthyciad allanol yn £135.650m, sy'n golygu bod angen i'r Awdurdod gael benthyg £5.017m i gyllido'r Rhaglen Gyfalaf gyfredol. Os bydd y benthyciad hwn yn un allanol, bydd yr Awdurdod yn dal i fod o fewn ei derfynau benthyca awdurdodedig yn unol â'r Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2020/21 (Atodiad 11).

## 5. BLYNYDDOEDD Y DYFODOL

**5.1** Argymhellodd y Strategaeth Gyfalaf y dylai'r cyllid ar gyfer Rhaglen Gyfalaf 2020/21 gael ei gyfyngu i gyfanswm y grant cyfalaf cyffredinol a benthyca â chefnogaeth (fel y penderfynir gan Lywodraeth Cymru) a gwerth amcangyfrifedig unrhyw dderbyniadau cyfalaf a geir. Disgwylir y bydd Rhaglen Gyfalaf 2021/22 yn dilyn yr un egwyddorion, gyda'r Grant Cyfalaf Cyffredinol a'r Benthyca â Chefnogaeth yn cael eu defnyddio i gyllido prynu Cerbydau newydd bob blwyddyn fel y bydd angen, Buddsoddi mewn TGCh, Adnewyddu'r asedau cyfredol a dyraniad blynyddol i dalu am gost Grantiau Statudol Cyfleusterau i'r Anabl. Bydd cyllid ar gael hefyd ar gyfer ail-wynebu ffyrdd a phrosiectau cyfalaf sy'n denu grantiau allanol, a bydd y rhain yn cael eu gwerthuso fesul achos.

Ar ôl i'r prosiectau uchod gael eu cyllido, efallai y bydd rhywfaint o gyllid ar gael i gyllido cynlluniau cyfalaf newydd, gyda blaenoriaeth yn cael ei rhoi i brosiectau sy'n cyfrannu at amcanion y Cyngor fel y nodir nhw yng Nghynllun y Cyngor am y cyfnod 2017-2022 ac unrhyw gynlluniau a all gynhyrchu arbedion refeniw yn y dyfodol neu gynhyrchu incwm ychwanegol.

## 6. CASGLIAD

**6.1** Mae'r canlyniadau ar ddiwedd chwarter 2 a'r gwariant cysylltiedig a ragwelir yn dangos yr effaith y mae Covid-19 a chyfyngiadau cysylltiedig yn eu cael ar gynnydd a chwblhau rhai cynlluniau. Mae'r rhan fwyaf o brosiectau ar darged i'w cwblhau o fewn y gyllideb. Oherwydd bod rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif ar stop am y tro ac yn dibynnu ar ganlyniad yr ymgynghoriad pellach ynghylch moderneiddi'r ddarpariaeth addysgol, mae risg o danwariant sylweddol yn erbyn y prosiect hwn. Mae'r Cyngor wedi sicrhau llawer o wahanol grantiau allanol ac mae gwaith yn mynd rhagddo'n dda ar y rhan fwyaf o'r cynlluniau hyn. Mae'r Cyngor hefyd yn disgwyl derbyn £1.109m o Dderbyniadau Cyfalaf yn 2020/21 i gyfrannu tuag at gyllido'r Rhaglen Gyfalaf.

**ATODIAD B**

# Crynodeb o Wariant y Prosiectau Cyfalaf hyd yma yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf a’r Gwariant a Ragwelir erbyn diwedd y flwyddyn

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Cyllideb a Broffiliwyd (£) | Gwariant Gwirioneddol (£) | Gwariant a Ymrwymwyd (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Amrywiad i'r Proffil (£) | Gyllideb a Broffiliwyd a Wariwyd (%) | Gyllideb Flynyddol a Wariwyd (%) | Gwariant a Ragamcenir (£) | (Tan)/ Gorwariant a Ragamcenir | Amrywiad (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cronfa Dai Gyffredinol** | | | | | | | | | | | |
| Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl | 636,000 | 136,000 | 87,315 | 0 | 87,315 | (48,685) | 64 | 14 | 636,000 | 0 | 0 |
| Safle Preswyl ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr | 523,506 | 16,275 | 45,161 | 12,835 | 57,996 | 41,721 | 356 | 11 | 523,506 | 0 | 0 |
| Cynllun Prynu Gorfodol | 135,000 | 134,000 | 134,066 | 115 | 134,181 | 181 | 100 | 99 | 135,000 | 0 | 0 |
| Grant Enable | 93,200 | 23,200 | 1,344 | 0 | 1,344 | (21,856) | 6 | 1 | 93,200 | 0 | 0 |
| Grant TRIP Cynllun Landlord | 147,576 | 74,994 | 33,960 | 0 | 33,960 | (41,034) | 45 | 23 | 147,576 | 0 | 0 |
| Grant TRIP Prynwr tro cyntaf | 294,000 | 200,000 | 204,033 | 0 | 204,033 | 4,033 | 102 | 69 | 294,000 | 0 | 0 |
| Tai fforddiadwy | 30,650 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 30,650 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **1,859,932** | **584,469** | **505,880** | **12,950** | **518,830** | **(65,639)** | **89** | **28** | **1,859,932** | **0** | **0** |
| | | | | | | | | | | | |
| **CRT Tai** | | | | | | | | | | | |
| Contract Gwres Canolog | 400,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 50,000 | (350,000) | (88) |
| Contract Gwaith Cynnal a Chadw a Gynlluniwyd | 6,120,000 | 1,120,000 | 1,007,125 | 410,211 | 1,417,335 | 297,335 | 127 | 23 | 5,620,000 | (500,000) | (8) |
| Gwella Perfformiad Ynni | 537,000 | 0 | 0 | 3,797 | 3,797 | 3,797 | 0 | 1 | 100,000 | (437,000) | (81) |
| Gwaith Amgylcheddol | 750,000 | 20,000 | 18,529 | 780 | 19,309 | (691) | 97 | 3 | 250,000 | (500,000) | (67) |
| Prynu Eiddo Presennol a datblygu eiddo newydd | 9,230,000 | 3,380,000 | 1,889,742 | 2,995 | 1,892,737 | (1,487,263) | 56 | 21 | 5,292,737 | (3,937,263) | (43) |
| Ailfodelu Llawr Y Dref | 2,218 | 0 | 5,260 | 0 | 5,260 | 5,260 | 0 | 237 | 5,260 | 3,042 | 137 |
| Addasiadau Sector Cyhoeddus | 350,000 | 50,000 | 23,872 | 16,840 | 40,713 | (9,287) | 81 | 12 | 150,000 | (200,000) | (57) |
| Risg Tân | 450,000 | 60,000 | 56,119 | 0 | 56,119 | (3,881) | 94 | 12 | 300,000 | (150,000) | (33) |
| Tir Halogedig | 20,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 20,000 | 0 | 0 |
| SATC | 1,172,875 | 300,000 | 244,286 | 0 | 244,286 | (55,714) | 81 | 21 | 1,000,000 | (172,875) | (15) |
| **CYFANSWM** | **19,032,093** | **4,930,000** | **3,244,933** | **434,623** | **3,679,557** | **(1,250,443)** | **75** | **19** | **12,787,997** | **(6,244,096)** | **(33)** |
| | | | | | | | | | | | |
| **Dysgu Gydol Oes** | | | | | | | | | | | |
| Mynediad i'r Anabl mewn Adeiladau Addysgol | 500,000 | 25,000 | 12,793 | 13,446 | 26,240 | 1,240 | 105 | 5 | 500,000 | 0 | 0 |
| Adnewyddu Adeiliadau Addysg | 2,034,000 | 1,000,000 | 824,221 | 34,275 | 858,497 | (141,503) | 86 | 42 | 2,034,000 | 0 | 0 |
| Diogelwch Ysgolion | 200,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 50,000 | (150,000) | (75) |
| Dymchwel ysgolion | 324,620 | 290,000 | 291,288 | 0 | 291,288 | 1,288 | 100 | 90 | 324,620 | 0 | 0 |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif - Moderneiddio Band A | 5,409,861 | 45,700 | 20,452 | 24,670 | 45,122 | (578) | 99 | 1 | 184,720 | (5,225,141) | (97) |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif - Moderneiddio Band B | 2,050,000 | 0 | 1,620 | 0 | 1,620 | 1,620 | 0 | 0 | 1,620 | (2,048,380) | (100) |
| Grant Cyfalaf Dechra'n Deg | 39,276 | 5,000 | 3,977 | 0 | 3,977 | (1,023) | 80 | 10 | 39,276 | 0 | 0 |
| Cynyddu'r capasiti ar gyfer grant gofal plant | 1,169,197 | 800,000 | 382,568 | 16,242 | 398,809 | (401,191) | 50 | 34 | 933,722 | (235,475) | (20) |
| **CYFANSWM** | **11,726,954** | **2,165,700** | **1,536,919** | **88,633** | **1,625,552** | **(540,148)** | **75** | **14** | **4,067,958** | **(7,658,996)** | **(65)** |
| | | | | | | | | | | | |
| **Economaidd ac Adfywio** | | | | | | | | | | | |
| Gwaith ar Ystaffell Ffitrwydd Plas Arthur | 102,864 | 102,864 | 116,010 | 356 | 116,366 | 13,502 | 113 | 113 | 116,366 | 13,502 | 13 |
| Gwelliannau Hamdden | 250,000 | 0 | 170 | 2,488 | 2,658 | 2,658 | 0 | 1 | 250,000 | 0 | 0 |
| Porth Twristiaeth | 1,076,233 | 50,000 | 0 | 80,944 | 80,944 | 30,944 | 162 | 8 | 700,000 | (376,233) | (35) |
| Isadeiledd Strategol Caergybi | 1,553,764 | 1,248,000 | 1,292,102 | 1,502 | 1,293,604 | 45,604 | 104 | 83 | 1,553,764 | 0 | 0 |
| Isadeiledd Strategol Llangefni | 231,360 | 231,360 | 125,964 | 877 | 126,840 | (104,520) | 55 | 55 | 231,360 | 0 | 0 |
| Buddsoddi i Arbed - System Gynllunio | 15,252 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 15,252 | 0 | 0 |
| Datblygu Economaidd a Lles Amgylcheddol | 95,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 95,000 | 0 | 0 |
| Llithrfa Porth y Wrach - Camerau Gorfodi | 30,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 30,000 | 0 | 0 |
| Ailddatblygu Safle Ysgol TRIP | 7,222 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 7,222 | 0 | 0 |
| Datblygu Economiadd - i Geisio Cyllid Cyfatebol | 64,150 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 64,150 | 0 | 0 |
| Porth Twristiaeth | 160,000 | 160,000 | 129,355 | 30,623 | 159,978 | (22) | 100 | 100 | 160,000 | 0 | 0 |
| Grant Covid Trawsnewid Trefi | 108,000 | 30,000 | 26,489 | 5,000 | 31,489 | 1,489 | 105 | 29 | 108,000 | 0 | 0 |
| Grant AOHN - Maes Chwarae Antur, Parc y Morglawdd | 100,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 60,000 | (40,000) | (40) |
| **CYFANSWM** | **3,793,845** | **1,822,224** | **1,690,089** | **121,790** | **1,811,879** | **(10,345)** | **99** | **48** | **3,391,114** | **(402,731)** | **(11)** |

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Cyllideb a Broffiliwyd (£) | Gwariant Gwirioneddol (£) | Gwariant a Ymrwymwyd (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Amrywiad i'r Proffil (£) | Gyllideb a Broffiliwyd a Wariwyd (%) | Gyllideb Flynyddol a Wariwyd (%) | Gwariant a Ragamcenir (£) | (Tan)/ Gorwariant a Ragamcenir (£) | Amrywiad (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Priffyrdd** | | | | | | | | | | | |
| Uwchraddio Peiriannau Talu ac Arddangos Mewn Meysydd Parcio | 30,000 | 30,000 | 0 | 30,307 | 30,307 | 307 | 101 | 101 | 30,307 | 307 | 1 |
| Cerbydau | 593,367 | 105,000 | 33,766 | 71,490 | 105,256 | 256 | 100 | 18 | 593,367 | 0 | 0 |
| Ailwynebu Priffyrdd | 1,363,582 | 873,581 | 600,655 | 0 | 600,655 | (272,926) | 69 | 44 | 1,363,582 | 0 | 0 |
| Grant Adnewyddu Priffyrdd | 599,414 | 360,414 | 213,326 | 0 | 213,326 | (147,088) | 59 | 36 | 599,414 | 0 | 0 |
| Gwaith Lliniaru Llifogydd ym Miwmares (LIC) | 683,371 | 90,000 | 85,621 | 0 | 85,621 | (4,379) | 95 | 13 | 463,371 | (220,000) | (32) |
| Gwaith Lliniaru Llifogydd ym Mhentraeth (LIC) | 325,581 | 250,000 | 255,027 | 0 | 255,027 | 5,027 | 102 | 78 | 320,027 | (5,554) | (2) |
| Lliniaru Llifogydd yn Llansadwrn | 34,922 | 7,695 | 7,695 | 0 | 7,695 | (0) | 100 | 22 | 12,695 | (22,227) | (64) |
| Astudiaethau Traenio Amlwch a Chaergybi | 69,845 | 2,500 | 2,349 | 0 | 2,349 | (151) | 94 | 3 | 42,349 | (27,496) | (39) |
| Cynllun Lliniaru Llifogydd Traeth Coch | 104,952 | 500 | 419 | 0 | 419 | (81) | 84 | 0 | 60,419 | (44,533) | (42) |
| Cynllun Lliniaru Llifogydd Llanfair | 406,034 | 5,500 | 5,419 | 0 | 5,419 | (81) | 99 | 1 | 55,419 | (350,615) | (86) |
| Achos Busnes Llawn Cynllun Lliniaru Llifogydd Menai | 161,801 | 500 | 419 | 0 | 419 | (81) | 84 | 0 | 80,419 | (81,382) | (50) |
| Achos Busnes Llawn Cynllun Lliniaru Llifogydd Y Fali | 150,913 | 500 | 419 | 0 | 419 | (81) | 84 | 0 | 75,419 | (75,494) | (50) |
| Buddsoddi i Arbed - Cerbydau | 72,980 | 41,000 | 40,993 | 0 | 40,993 | (7) | 100 | 56 | 72,980 | 0 | 0 |
| Gwaith Grant Graddfa Fechan | 739,921 | 150,000 | 143,031 | 0 | 143,031 | (6,969) | 95 | 19 | 669,031 | (70,890) | (10) |
| Teithio Llesol | 200,000 | 30,000 | 30,184 | 3,776 | 33,960 | 3,960 | 113 | 17 | 200,000 | 0 | 0 |
| A545 Biwmares | 24,727 | 10,132 | 5,635 | 0 | 5,635 | (4,497) | 56 | 23 | 24,727 | 0 | 0 |
| Cyfalaf Diogelu'r Ffyrdd | 478,000 | 220,000 | 220,004 | 0 | 220,004 | 4 | 100 | 46 | 478,000 | 0 | 0 |
| Cronfa Ffyrdd Gwydn | 105,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 105,000 | 0 | 0 |
| Cronfa Trafnidiaeth Lleol - Parcio a Rhannu Gaerwen | 242,000 | 300,000 | 296,222 | 0 | 296,222 | (3,778) | 99 | 122 | 335,000 | 93,000 | 38 |
| Cronfa Rhwydwaith Trafnidiaeth Leol - Gwaith gwella'r Arhosfan Bysiau | 49,000 | 0 | 2,547 | 0 | 2,547 | 2,547 | 0 | 5 | 49,000 | 0 | 0 |
| Cronfa Trawsnewid Cerbydau - Pwyntiau gwefru Cerbydau Trydan | 85,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 85,000 | 0 | 0 |
| Hyb Porth Caergybi | 139,443 | 127,000 | 126,952 | 0 | 126,952 | (48) | 100 | 91 | 225,443 | 86,000 | 62 |
| **CYFANSWM** | **6,659,853** | **2,604,322** | **2,070,683** | **105,572** | **2,176,255** | **(428,067)** | **84** | **33** | **5,940,969** | **(718,884)** | **(11)** |
| | | | | | | | | | | | |
| **Eiddo** | | | | | | | | | | | |
| Adnewyddu Asedau Cyfredol | 918,773 | 150,000 | 167,371 | 0 | 167,371 | 17,371 | 112 | 18 | 918,773 | 0 | 0 |
| Eiddo - Buddsoddi i Arbed | 1,650,921 | 1,053,000 | 1,052,477 | 0 | 1,052,477 | (523) | 100 | 64 | 1,650,921 | 0 | 0 |
| Adnewyddu Mânddaliadau | 100,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 100,000 | 0 | 0 |
| Fferm Cromlech | 3,172 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 3,172 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **2,672,866** | **1,203,000** | **1,219,848** | **0** | **1,219,848** | **16,848** | **101** | **46** | **2,672,866** | **0** | **0** |
| | | | | | | | | | | | |
| **Trawsnewid** | | | | | | | | | | | |
| TGCh - Isadeiledd Craidd | 292,662 | 40,000 | 23,000 | 0 | 23,000 | (17,000) | 57 | 8 | 104,935 | (187,727) | (64) |
| TGCh - Adnewyddu Cyfrifiaduron | 121,000 | 50,000 | 59,314 | 0 | 59,314 | 9,314 | 119 | 49 | 121,000 | 0 | 0 |
| TGCh - Trosglwyddo Cysylltu Môn i PSBA | 32,405 | 15,619 | 3,748 | 12,455 | 16,203 | 584 | 104 | 50 | 32,405 | 0 | 0 |
| TGCh - Uwchraddio Ystafelloedd Gyfarfod | 19,964 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 19,964 | 0 | 0 |
| Isadeiledd Hwb TG | 63,124 | 0 | 0 | 15,236 | 15,236 | 15,236 | 0 | 24 | 63,124 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **529,155** | **105,619** | **86,062** | **27,691** | **113,753** | **8,134** | **108** | **21** | **341,428** | **(187,727)** | **(35)** |
| | | | | | | | | | | | |
| **Cynllunio** | | | | | | | | | | | |
| Prosiect Hyb Neuadd y Farchnad, Caergybi | 281,000 | 95,000 | 0 | 126,122 | 126,122 | 31,122 | 133 | 45 | 267,122 | (13,878) | (5) |
| Partneriaeth Tirwedd Caergybi | 143,300 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 65,000 | (78,300) | (55) |
| Adfywio Caergybi (THI Cam II) | 900,000 | 17,500 | 10,244 | 33,433 | 43,677 | 26,177 | 250 | 5 | 493,677 | (406,323) | (45) |
| **CYFANSWM** | **1,324,300** | **112,500** | **10,244** | **159,555** | **169,799** | **57,299** | **151** | **13** | **825,799** | **(498,501)** | **(38)** |
| | | | | | | | | | | | |
| **Gwasanaethau Oedolion** | | | | | | | | | | | |
| ICF | 1,732,800 | 160,000 | 155,854 | 0 | 155,854 | (4,146) | 97 | 9 | 1,732,800 | 0 | 0 |
| Hyb Cymunedol Bryn Hwfa | 13,155 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 13,155 | 0 | 0 |
| Adnewyddu Plas Crigyll | 37,978 | 0 | 1 | 0 | 1 | 1 | 0 | 0 | 37,978 | 0 | 0 |
| Adnewyddu Plas Mona | 83,371 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 83,371 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **1,867,304** | **160,000** | **155,854** | **0** | **155,854** | **(4,146)** | **97** | **8** | **1,867,304** | **0** | **0** |
| | | | | | | | | | | | |
| **CYFANSWM** | **49,466,302** | **13,687,834** | **10,520,512** | **950,815** | **11,471,326** | **(2,216,508)** | **84** | **23** | **33,755,367** | **(15,710,935)** | **(32)** |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **30 TACHWEDD 2020** |
| **Pwnc / Testun:** | **MONITRO CYLLIDEB Y CRT, CHWARTER 2, 2020/21** |
| **Aelod Portffolio:** | **Y CYNGHORYDD ROBIN WILLIAMS** |
| **Cyfarwyddwr :** | **MARC JONES** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Ffôn:**<br>**E-bost:** | **STEPHEN MOORE**<br>01248 752634<br>StephenMoore@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

**A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau**

**1.** Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith nodi'r canlynol: -

**(i)** Y sefyllfa a amlinellir mewn perthynas â pherfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer chwarter 2 2020/21.

**(ii)** Yr alldro a ragwelir ar gyfer 2020/21.

**2. Cefndir**

**(i)** Ym mis Mawrth 2020, cytunodd y Cyngor ar gyllideb refeniw ar gyfer 2020/21 a oedd yn dangos gwarged cynlluniedig o £7.8m.

**(ii)** Y gyllideb gyfalaf ar gyfer 2020/21 oedd £19.1m, gan gynnwys lwfans ar gyfer gwariant na chafodd ei gwblhau o gyllideb gyfalaf 2019/20.

**(iii)** Rhoddodd y cyfuniad o'r gyllideb refeniw a'r gyllideb gyfalaf wedi'i haddasu ddiffyg cyllidebol cynlluniedig o £7.2m, a fyddai'n cael ei gyllido o gronfa wrth gefn y CRT.

**(iv)** Mae gwariant o'r CRT wedi ei gyfyngu i ddibenion penodol ac ni ellir trosglwyddo arian ohono i'r Gronfa Gyffredinol, ac ni ellir defnyddio arian wrth gefn y Gronfa Gyffredinol i gyllido'r CRT 'chwaith.

**3.** Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol y CRT am y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2020 a 30 Medi 2020.

**4. Trosolwg**

**(i)** Mae'r sefyllfa refeniw ar gyfer Ch2 yn dangos tanwariant o £324k, o'i gymharu â £220k ar ddiwedd Ch1. Mae'r incwm a ragwelir £100k yn is na'r gyllideb wreiddiol, a rhagwelir y bydd y gwariant £112k yn is na'r gyllideb wreiddiol fel yr eglurir isod. Dangosir mwy o fanylion yn Atodiad A.

**(ii)** Mae'r gwariant Cyfalaf £1,250k yn is na'r gyllideb broffiliedig (£421k yn Ch1). Mae'r gwariant a ragwelir £6,244k yn is na'r gyllideb, fel yr eglurir isod. Dangosir mwy o fanylion yn Atodiad B.

**(iii)** Mae'r diffyg a ragwelir (gan gyfuno refeniw a chyfalaf) £6,256k yn llai na'r gyllideb (sy'n gostwng y diffyg a gynlluniwyd i £832k), o'i gymharu â diffyg a ragwelwyd o £2,112k yn llai na'r gyllideb ar ddiwedd Ch1. Mae hyn i raddau helaeth yn ganlyniad i wariant cyfalaf is na'r gyllideb.

**5. Incwm**

**(i)** Ar ddiwedd yr ail chwarter, roedd lefel yr incwm a dderbyniwyd £140k (£52k yn Ch1) yn uwch na'r gyllideb broffiliedig, fel y nodir isod.

**(ii)** Roedd incwm rhent £105k yn uwch na'r gyllideb (£52k yn Ch1). Mae'r gyllideb, fodd bynnag, yn rhagdybio y bydd eiddo newydd yn dod i mewn yn ystod y flwyddyn a oedd gynt wedi eu dal yn ôl (gweler hefyd yr adran 'cyfalaf' isod). O ganlyniad, rhagwelir y bydd incwm £100k yn is na'r gyllideb erbyn diwedd y flwyddyn.

**(iii)** Mae incwm o dâl gwasanaeth, sy'n seiliedig ar y costau gwirioneddol a gafwyd, £3k yn well na'r gyllideb. Adolygwyd y gyllideb yn llwyr yn dilyn tanwariant sylweddol yn y gyllideb hon y llynedd.

**(iv)** Mae incwm arall £32k yn well na'r gyllideb broffiliedig o ganlyniad i amseriad derbyn arian o'r Tariff Cyflenwi Trydan. Nid yw'r rhagolwg ar gyfer y flwyddyn wedi newid.

**(v)** Mae'r cynllun 30 mlynedd yn cynnwys darpariaeth o £280k tuag at ddyledion drwg, sef 1.5% o'r cyfanswm incwm rhent. Roedd hyn yn gynnydd o gymharu â'r 1.25% yn y flwyddyn flaenorol a hynny er mwyn gwneud darpariaeth ar gyfer cyflwyno Credyd Cynhwysol. Dim ond pan nad oes gobaith realistig o adennill ôl-ddyledion rhent y mae dyled ddrwg yn codi. Y ddarpariaeth wirioneddol yng nghyfrif blynyddol 2019/20 oedd £118k, sef dim ond 0.65% o'r cyfanswm incwm rhent, sy'n adlewyrchu'r ymdrechion a wnaed i sicrhau bod y rhent sy'n ddyledus yn cael ei adennill. Gwnaed y darpariaethau hyn cyn i bandemig Covid 19 effeithio ar Ynys Môn. Ddiwedd mis Mawrth 2020, roedd yr ôl-ddyledion rhent yn 2.41% o'r incwm rhent (£438k). Ddiwedd mis Mehefin, roedd hyn wedi codi i 3.4% (£625k), sef cynnydd o 50%, ac, ar ddiwedd mis Medi roedd wedi gostwng i 3.33% (£612k). Mewn dadansoddiad diweddar gan Lywodraeth Cymru o ôl-ddyledion rhent ymhlith yr 11 o awdurdodau yng Nghymru sydd wedi cadw eu stoc dai, Cyngor Sir Ynys Môn oedd y 3ydd gorau allan o 11. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw sicrwydd ynghylch faint o'r arian y bydd modd ei adennill dros amser, ynteu a fydd hwn yn arian na ellir ei adennill ac yn ddyled y bydd raid ei dileu. Mae'n ymddangos bod profiad blaenorol yn awgrymu bod y ddarpariaeth yn ddigonol ar hyn o bryd, ond cedwir llygad ar y sefyllfa.

**(vi)** Mae'r rhagolygon cyffredinol ar gyfer incwm bellach yn ostyngiad o £100k o'i gymharu â'r gyllideb wreiddiol erbyn diwedd y flwyddyn (gostyngiad o £50k ar ddiwedd Ch1).

**6. Gwariant ac eithrio ar Waith Atgyweirio a Chynnal a Chadw**

**(i)** Ar ddiwedd yr ail chwarter, roedd gwariant ar waith ac eithrio gwaith atgyweirio a chynnal a chadw £59k yn uwch na'r gyllideb broffiliedig (£12k yn is na'r gyllideb yn Ch1). Mae hyn yn bennaf o ganlyniad i gost flynyddol system Gyfrifiadurol Orchard yn cael ei hymrwymo nawr, wedi'i wrthbwyso gan y ffaith y gwnaed llai o waith oherwydd Covid (yn enwedig atal diwrnodau glanhau). Adolygwyd y rhagolwg, ac mae bellach £12k yn well na'r gyllideb (o'i gymharu â dim gwahaniaeth yn Ch1), gan gymryd i ystyriaeth y gostyngiad yn y gwaith gan y tîm Cyfranogiad Tenantiaid (£26k) a'r costau ychwanegol yn sgil datblygu'r modiwl gwaith symudol (£14k).

**7. Gwaith Atgyweirio a Chynnal a Chadw**

**(i)** Mae'r Uned Cynnal a Chadw Tai (UCT) yn dangos tanwariant o £332k (£226k yn Ch1), sef canlyniad uniongyrchol sefyllfa Covid 19 gan mai dim ond gwaith atgyweirio hanfodol sy'n cael ei wneud. Mae hyn wedi lleihau costau deunyddiau a'r defnydd a wneir o isgontractwyr. Mae'n anodd mesur beth fydd effaith mwy o weithgaredd unwaith y gellir cynnig gwasanaeth arferol, ond gwnaed amcangyfrif ceidwadol y bydd gostyngiad o £70k (£50k yn Ch1) mewn gwariant, o'i gymharu â'r gyllideb wreiddiol. Bydd y sefyllfa'n parhau i gael ei monitro.

**(ii)** Mae gwariant ar staff cynnal a chadw adeiladau nad ydynt yn staff yr UCT £36k (£15k yn Ch1) yn is na'r gyllideb broffiliedig ar ddiwedd Ch2. Y sefyllfa a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn yw y dylai'r gwariant fod £30k yn is na'r gyllideb (sero yn Ch1).

**(iii)** Mae gorwariant o £124k ar gostau Atgyweirio a Chynnal a Chadw eraill (£83k yn Ch1) o gymharu â'r gyllideb broffiliedig. Mae hyn yn bennaf oherwydd natur dymhorol gwaith cynnal a chadw tiroedd, felly, rhagwelir y bydd y gwariant yn unol â'r gyllideb erbyn diwedd y flwyddyn.

**8. Addasiadau Diwedd Blwyddyn**

**(i)** Mae'r pennawd hwn yn ymdrin ag eitemau o wariant (costau cyllido cyfalaf a thaliadau a godir o'r Gronfa Gyffredinol) sy'n rhan o'r broses gyfrifo ar ddiwedd y flwyddyn. Ar hyn o bryd, ni ragwelir unrhyw newidiadau.

**9. Gwariant Cyfalaf**

**(i)** Cyfanswm y rhaglen gyfalaf wreiddiol a gymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Mawrth 2020 oedd £19,114k, i'w gyllido gan y Lwfans Gwaith Atgyweirio Mawr (£2,660k), grantiau cyfalaf eraill (£1,450k) a chyfraniad o £15,034 o gronfa wrth gefn y CRT. Mae hyn yn cynnwys gwariant a ddygwyd ymlaen o raglen gyfalaf 2019/20. Fel y digwyddodd pethau, nid oedd angen yr holl wariant a oedd i'w ddwyn ymlaen, felly, erbyn hyn mae cyllideb ddiwygiedig o £19,032k (£14,992k ar ôl caniatáu ar gyfer £4,110k o gyllid grant). Yn seiliedig ar y wybodaeth gyfredol, rhagwelir y bydd y gwariant gwirioneddol ar ôl grantiau yn £8,678k, sydd £6,244k yn is na'r gyllideb ddiwygiedig.

**(ii)** Mae Covid 19 wedi effeithio’n ddifrifol ar brosiectau cyfalaf, gan arwain at oedi sylweddol gyda phrosiectau. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos prynu'n ôl hen dai Cyngor, a hynny oherwydd bod y farchnad dai wedi bod ar stop i bob pwrpas. Mae'r rhagolygon cyfalaf wedi'u diwygio'n llwyr o'r herwydd a rhagwelir y bydd y gwariant £6,244k yn is na'r gyllideb ddiwygiedig ar ddiwedd y flwyddyn. Dangosir manylion pellach yn Atodiad B isod.

**(iii)** Mae'r tanwariant ar wariant cyfalaf yn golygu bod y swm a gyllidir o gyfrif refeniw'r CRT yn gostwng yn yr un modd. Yna mae'r balans ar gael i gyllido’r prosiectau sydd wedi'u gohirio i'r flwyddyn nesaf.

**10. Balans y CRT**

**(i)** 'Roedd balans agoriadol cronfa wrth gefn y CRT yn £8,597k. Roedd y gyllideb ddiwygiedig yn caniatáu defnyddio £7,088k o'r balans hwn. Fodd bynnag, bydd y tanwariant a ragwelir yn arwain at drosglwyddo £6,256k ychwanegol i'r gronfa wrth gefn. Bydd hyn yn rhoi balans wrth gefn o £7,765k erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r balans hwn wedi'i gyfyngu i ddibenion penodol, felly, nid yw ond ar gael i gyllido gwariant CRT yn y dyfodol.

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?** | | |
|---|---|---|
| Amherthnasol | | |
| **C – Pam mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** | | |
| Mae hwn yn fater sydd wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith | | |
| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** | | |
| Ydi | | |
| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** | | |
| Ydi | | |
| **Dd – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Rheoli (UDRh) (gorfodol)** | Ystyriwyd yr adroddiad drafft gan yr UDA ac mae unrhyw sylwadau wedi'u hymgorffori yn yr adroddiad terfynol. |
| **2** | **Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol)** | Amherthnasol – adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn |
| **3** | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol)** | Ymgynghorwyd â'r Swyddog fel rhan o'r UDA. |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth (TG)** | |
| **7** | **Sgriwtini** | |
| **8** | **Aelodau Lleol** | |
| **9** | **Unthyw gyrff allanol / eraill** | |
| **E - Risgiau a Chamau Lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrth-dlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniadau** | |
| **7** | **Arall** | |
| **F - Atodiadau:** | | |
| Atodiad A - Gwariant a rhagolygon refeniw hyd ddiwedd chwarter 1.<br>Atodiad B - Gwariant a rhagolygon cyfalaf hyd ddiwedd chwarter 1. | | |
| **FF – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am ragor o wybodaeth os gwelwch yn dda):** | | |
| • Cyllideb CRT 2020/21 (fel y'i cymeradwywyd gan y Pwyllgor hwn ym mis Mawrth 2020).<br>• Cynllun Busnes 30 Mlynedd y CRT am y cyfnod 2020/50 (fel y'i cymeradwywyd gan y Pwyllgor hwn ym mis Mehefin 2020). | | |

**Atodiad A**

## *CYFRIF CRT 2020/21*

| | Cyllideb Flynyddol 2020/21 | Cyllideb wedi ei phroffilio hyd at Fis 6 | Gwirioneddol hyd at Fis 6 | Amrywiad hyd at Fis 6 | Rhagolygon Diwedd Blwyddyn | Amrywiad Diwedd Blwyddyn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ | £ | £ |
| **CYFRIF REFENIW** | | | | | | |
| **Incwm** | | | | | | |
| Anheddau | (18,407,000) | (9,203,502) | (9,308,977) | (105,475) | (18,307,000) | 100,000 |
| Garejys | (218,000) | (109,002) | (108,042) | 960 | (218,000) | 0 |
| Taliadau Gwasanaeth | (212,000) | (106,000) | (108,604) | (2,604) | (212,000) | 0 |
| Arall | (199,000) | (78,000) | (110,521) | (32,521) | (199,000) | 0 |
| Darpariaeth ar gyfer Dyledion Drwg | 280,000 | 0 | 0 | 0 | 280,000 | 0 |
| **CYFANSWM INCWM** | **(18,756,000)** | **(9,496,504)** | **(9,636,144)** | **(139,640)** | **(18,656,000)** | **100,000** |
| **Gwariant ac eithrio gwaith atgyweirio a chynnal a chadw** | | | | | | |
| Cyfranogiad Tenantiaid | 136,170 | 68,050 | 41,793 | (26,257) | 110,170 | (26,000) |
| Gweinyddu Rhenti | 450,220 | 224,780 | 246,002 | 21,222 | 450,220 | 0 |
| Rheoli Stadau | 247,430 | 123,564 | 82,506 | (41,058) | 247,430 | 0 |
| Gwariant Refeniw Arall | 899,340 | 426,944 | 531,976 | 105,032 | 913,340 | 14,000 |
| **Cyfanswm Gwariant ac eithrio gwaith atgyweirio a chynnal a chadw** | **1,733,160** | **843,338** | **902,277** | **58,939** | **1,721,160** | **(12,000)** |
| **Atgyweirio a Chynnal a Chadw** | | | | | | |
| Uned Cynnal a chadw Tai (UCT) | 3,112,000 | 1,555,710 | 1,223,406 | (332,304) | 3,042,000 | (70,000) |
| Staff Cynnal a Chadw Tai (dim UCT) | 926,020 | 462,352 | 426,466 | (35,886) | 896,020 | (30,000) |
| Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw arall | 448,200 | 224,114 | 348,529 | 124,415 | 448,200 | 0 |
| **Cyfanswm Atgyweirio a Chynnal a Chadw** | **4,486,220** | **2,242,176** | **1,998,401** | **(243,775)** | **4,386,220** | **(100,000)** |
| **Addasiadau Diwedd Blwyddyn** | | | | | | |
| Taliadau Cyllido Cyfalaf | 3,093,000 | 0 | 0 | 0 | 3,093,000 | 0 |
| Ad-daliad o’r Gwasanaeth Tai | 790,630 | 0 | 0 | 0 | 790,630 | 0 |
| Ad-daliad o’r Gwasanaethau Canolog | 818,990 | 0 | 0 | 0 | 818,990 | 0 |
| **Cyfanswm Addasiadau Diwedd Blwyddyn** | **4,702,620** | **0** | **0** | **0** | **4,702,620** | **0** |
| | | | | | | |
| **CYFANSWM GWARIANT REFENIW** | **10,922,000** | **3,085,514** | **2,900,678** | **(184,836)** | **10,810,000** | **(112,000)** |
| | | | | | | |
| **CYFANSWM REFENIW (GWARGED) / DIFFYG** | **(7,834,000)** | **(6,410,990)** | **(6,735,466)** | **(324,476)** | **(7,846,000)** | **(12,000)** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| **CYFRIF GWARIANT CYFALAF** | | | | | | |
| Gwariant 2020/21 | 19,032,093 | 4,930,000 | 3,679,557 | (1,250,443) | 12,787,997 | (6,244,096) |
| | | | | | | |
| Lwfans ar gyfer Gwaith Atgyweirio Mawr | (2,660,000) | 0 | 0 | 0 | (2,660,000) | 0 |
| **Grantiau eraill** | (1,450,000) | 0 | 0 | 0 | (1,450,000) | 0 |
| **CYFANSWM CYFALAF (GWARGED) / DIFFYG** | **14,922,093** | **4,930,000** | **3,679,557** | **(1,250,443)** | **8,677,997** | **(6,244,096)** |
| | | | | | | |
| **(CYNNYDD) / GOSTYNGIAD NET YNG NGHRONFA WRTH GEFN Y CRT** | **7,088,093** | **(1,480,990)** | **(3,055,909)** | **(1,574,919)** | **831,997** | **(6,256,096)** |
| | | | | | | |
| **Balans Agoriadol y CRT** | (8,597,000) | | | | (8,597,000) | |
| | | | | | | |
| **(Cynnydd) / Gostyngiad Net yng Nghronfa wrth Gefn y CRT** | 7,088,093 | | | | 831,997 | |
| | | | | | | |
| **Balans Cau'r CRT** | **1,508,097** | | | | **(7,765,003)** | |
| | | | | | | |

**ATODIAD B**

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Cyllideb a Broffiliwyd (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Amrywiad o gymharu â'r Proffil (£) | Gwariant a Ragamcenir (£) | Tan/Gorwariant a Ragamcenir (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **CRT Tai** | | | | | | |
| Contract Gwres Canolog | 400,000 | 0 | 0 | 0 | 50.000 | (350,000) |
| Contract Gwaith Cynnal a Chadw a Gynlluniwyd | 6,120,000 | 1,120,000 | 1,417,335 | 297,335 | 5,620,000 | (500,000) |
| Gwella Perfformiad Ynni | 537,000 | 0 | 3,797 | 3,797 | 100,000 | (437,000) |
| Gwaith Amgylcheddol | 750,000 | 20,000 | 19,309 | (691) | 250,000 | (500,000) |
| Prynu eiddo presennol / Datblygu eiddo newydd | 9,230,000 | 3,380,000 | 1,892,737 | (1,487,263) | 5,292,737 | (3,937,263) |
| Ailfodelu'r Stoc Gyfredol | 2,218 | 0 | 5,260 | 5,260 | 5,260 | 3,042 |
| Addasiadau Sector Cyhoeddus | 350,000 | 50,000 | 40,713 | (9,287) | 150,000 | (200,000) |
| Risg Tân | 450,000 | 60,000 | 56,119 | (3,881) | 300,000 | (150,000) |
| SATC | 1,172,875 | 300,000 | 244,286 | (55,714) | 1,000,000 | (172,875) |
| Gwaith Adfer | 20,000 | 0 | 0 | 0 | 20,000 | 0 |
| **Cyfansymiau ar gyfer y CRT** | **19,032,093** | **4,930,000** | **3,679,556** | **(1,250,444)** | **12,787,997** | **(6,244,096)** |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **30 TACHWEDD 2020** |
| **Pwnc / Testun:** | **SYLFAEN Y DRETH GYNGOR AR GYFER 2021/22** |
| **Deilydd(ion) Portffolio:** | **CYNGHORYDD ROBIN WILLIAMS (AELOD PORTFFOLIO – CYLLID)** |
| **Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:** | **MARC JONES – CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) A SWYDDOG ADRAN 151** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Tel:**<br>**E-bost:** | **GERAINT H JONES (RHEOLWR GWASANAETH REFENIW A BUDD-DALIADAU)**<br>01248 752651 ghjfi@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | **DIM YN BERTHNASOL** |

**A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau**

Rwy'n argymell fod y Pwyllgor Gwaith yn gwneud y penderfyniadau isod:-

**1.** Nodi cyfrifiad Sylfaen y Dreth Gyngor gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151, fydd yn cael ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cyfrifo'r Grant Cynnal Refeniw i Gyngor Sir Ynys Môn am y flwyddyn ariannol 2021/22, sef 30,880.22 (gweler **Atodiad A** ar gyfer y cyfrifiad o Sylfaen y Dreth Gyngor at y diben yma - Rhan E6).

**2.** Cymeradwyo'r cyfrifiad at ddiben pennu Sylfaen y Dreth Gyngor gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 am y cyfan o'r ardal ac am rannau ohoni am y flwyddyn 2021/22 (gweler **Atodiad A** ar gyfer y cyfrifiad o sylfaen y dreth – Rhan E5).

**3.** Yn unol â Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor) (Cymru) 1995 (SI19956/2561) fel y cawsant eu diwygio gan SI1999/2935 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor) a'r Dreth Gyngor (Dosbarthiadau Rhagnodedig o Anheddau) (Cymru) (Diwygiad) 2004 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor) (Cymru) (Diwygiad) 2016, y rhain yw'r cyfansymiau y mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi eu cyfrif fel Sylfaen y Dreth am 2021/22 sef 31,548.20 ac am y rhannau hynny o'r ardal sydd wedi eu rhestru isod:-

| | |
|---|---|
| Amlwch | 1,519.66 |
| Biwmares | 1,081.50 |
| Caergybi | 3,990.91 |
| Llangefni | 1,976.50 |
| Porthaethwy | 1,478.06 |
| Llanddaniel-fab | 381.29 |
| Llanddona | 385.84 |
| Cwm Cadnant | 1,159.87 |
| Llanfair Pwllgwyngyll | 1,331.84 |
| Llanfihangel Ysceifiog | 693.53 |
| Bodorgan | 464.26 |
| Llangoed | 653.68 |
| Llangristiolus a Cherrigceinwen | 629.11 |
| Llanidan | 415.21 |
| Rhosyr | 1,025.44 |
| Penmynydd | 246.78 |

| | |
|---|---|
| Llaneilian | 580.02 |
| Llannerch-y-medd | 529.34 |
| Llaneugrad | 184.19 |
| Llanfair Mathafarn Eithaf | 1,850.63 |
| Cylch y Garn | 400.30 |
| Mechell | 556.99 |
| Rhos-y-bol | 479.47 |
| Aberffraw | 306.84 |
| Bodedern | 427.24 |
| Bodffordd | 426.65 |
| Trearddur | 1,271.33 |
| Tref Alaw | 266.44 |
| Llanfachraeth | 226.29 |
| Llanfaelog | 1,270.30 |
| Llanfaethlu | 270.72 |
| Llanfair-yn-Neubwll | 589.19 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Pentraeth | 579.06 | | Y Fali | 1,009.83 |
| Moelfre | 621.39 | | Bryngwran | 359.06 |
| Llanbadrig | 683.74 | | Rhoscolyn | 358.31 |
| Llanddyfnan | 503.92 | | Trewalchmai | 363.47 |

**RHESYMAU A CHEFNDIR**

Mae'r cyfrifiadau wedi cael eu gwneud yn unol â Chanllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer Anheddau'r Dreth Gyngor (CT1 v.1.0) 2021/22 yn seiliedig ar nifer yr eiddo mewn bandiau amrywiol ar y rhestr brisio ar 31 Hydref 2020 a chrynhoir gan yr Awdurdod dan Rhan 22B (7) o Ddeddf Gyllid Llywodraeth Leol 1992. Mae'r cyfrifiadau yn cymryd i ystyriaeth disgowntiau, eithriadau a phremiymau a hefyd newidiadau i'r rhestr brisio sy'n debygol yn ystod 2021/22.

Rhaid i Gyngor Sir Ynys Môn, fel awdurdod bilio, gyfrifo sylfaen y Dreth Gyngor ar gyfer ei ardal ac ar gyfer gwahanol rannau o'i ardal a rhaid rhoi gwybod am y symiau hyn i'r cyrff sy'n codi praeseptau ac ardollau erbyn 31 Rhagfyr 2020. Eleni, mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn am y wybodaeth i bwrpas gosod y Grant Cynnal Refeniw erbyn 13 Tachwedd 2020, ac i bwrpas pennu'r dreth (wedi cadarnhad gan y Pwyllgor Gwaith) erbyn 4 Ionawr 2021.

Mae'r cyfrifiadau yn **Atodiad A** yn seiliedig ar gadarnhau disgownt o ddim ar gyfer eiddo Dosbarthiadau A, B a C; premiwm o 100% ar dai gwag hirdymor a phremiwm o 35% ar ail gartrefi ar gyfer 2021/22 gan y Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 23 Chwefror 2020. Mae'r cyfrifiadau hefyd yn seiliedig ar benderfyniad y Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 11 Rhagfyr 2018, byddai'r cynllun lleol cyfredol Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn parhau am flynyddoedd dilynol heblaw ei fod yn cael ei newid yn sylweddol. Am 2021/22, dim ond yr uwchraddio arferol i'r budd-daliadau sy'n cael ei weithredu. Mae Llywodraeth Cymru'n parhau i gwrdd yn llawn â chostau cynllun cenedlaethol blaenorol y DU, ond bydd costau oherwydd baich achosion ac/neu gynnydd yn y Dreth Gyngor yn syrthio ar gynghorau lleol.

**SYLFAEN Y DRETH GYNGOR AR GYFER CYFRIFO'R GRANT CYNNAL REFENIW**

Bydd cyfanswm y disgownt cyfwerth â band D, cyn addasu ar gyfer y gyfradd gasglu (ac sy'n cynnwys lwfans ar gyfer tai sy'n eiddo'r Weinyddiaeth Amddiffyn), yn cael ei ddefnyddio wrth gyfrifo'r hawliadau ar gyfer Grant Cynnal Refeniw 2021/22. Mae'r cyfanswm yma, sy'n cael ei ddefnyddio wrth gyfrifo'r Grant Cynnal Refeniw, yn eithrio'r addasiadau am bremiymau a'r disgowntiau a roddir gan rhai awdurdodau ar gyfer eiddo Dosbarthiadau A, B a C. Cyfrifir y ffigwr yma i fod yn 30,880.22 (i'w gymharu â 30,927.17 am 2020/21). Mae hyn yn ostyngiad o 0.15%.

**SYLFAEN Y DRETH AT DDIBEN PENNU'R DRETH**

Mae'r cyfanswm y disgownt cyfwerth â band D sy'n cael ei ddefnyddio at ddiben pennu'r dreth wedi cael ei addasu gan wneud lwfans ar gyfer methu â chasglu, sy'n parhau i fod yn 1.5% a, hefyd, sy'n cynnwys lwfans ar gyfer tai sy'n eiddo'r Weinyddiaeth Amddiffyn. Cyfrifir y ffigwr yma i fod yn 31,548.20. Nodir, felly, bod y ffigurau a nodir dan argymhelliad 3 yn cynnwys yr addasiadau am bremiymau.

Cyfanswm y sylfaen arfaethedig am 2021/22 at ddiben pennu'r dreth yw 31,548.20. Mae hyn yn cymharu â 31,532.53 am 2020/21 ac yn gynnydd o 0.05%. Mae sail y dreth sydd, ar y wyneb, yn edrych yn statig yn destyn tipyn o anweddolrwydd. Mae'r lleihad o ran sail y dreth oherwydd cynnydd i ddisgowntiau person sengl a lleihad yn y nifer o eiddo trethadwy ar yr un ochor ac, ar yr ochor arall, ceir cynnydd yn niferoedd tai gwag hir dymor/ail dai hefo premiwm a tai newydd yn dod i mewn i sail y dreth. Mae'r symudiadau hyn bron yn canslo eu hunain allan.

| |
|---|
| Mae sylfaen y dreth am eiddo gwag hirdymor am 2021/22 yn 372.78, o'i gymharu â 318.11 am 2020/21.<br><br>Mae sylfaen y dreth am ail gartrefi am 2021/22 yn 773.42, o'i gymharu â 765.53 am 2020/21. |
| **B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?** |
| Mae disgresiwn gan y Cyngor llawn, dan reoliadau a wnaed dan Rhan 12 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ac, wedyn, dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, i osod disgownt i ddosbarthiadau penodedig o anheddau (yn bennaf tai haf ac ail gartrefi (Dosbarthiadau A a B)). Wrth i hyn gael ei gyflwyno, penderfynodd y Cyngor llawn osod disgownt o ddim i'r ddau ddosbarth penodedig A a B ac mae'r penderfyniad wedi ei gadarnhau yn flynyddol ers hynny. Ym mis Mawrth 2007, ac ar argymhelliad y Pwyllgor Gwaith, penderfynodd y Cyngor llawn osod disgownt o ddim ar Ddosbarth Penodedig C (rhai mathau o dai gwag hirdymor) a hynny am y tro cyntaf ac mae wedi gwneud hynny bob blwyddyn wedyn.<br><br>Byddai rhoi disgownt o 25%, 50% neu 100% yn groes i bolisi'r Cyngor llawn â gwrthodwyd yr opsiwn.<br><br>Bu'r Cyngor llawn ar 27 Chwefror 2019, bennu premiwm y Dreth Gyngor o 100% ar eiddo gwag hirdymor a phremiwm o 35% ar ail gartrefi o'r 1 Ebrill 2019. Mae'r cyfrifiad yma a'r argymhellion yn unol â'r penderfyniad hynny. |
| **C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
| Hyd 2004, y Cyngor llawn oedd yn gyfrifol am y cyfrifiad hwn. Bellach, mae'r swyddogaeth hon wedi cael ei thynnu oddi ar y rhestr o swyddogaethau sydd wedi cael eu neilltuo i'r Cyngor llawn. Fodd bynnag, y Cyngor llawn yn hytrach na'r Pwyllgor Gwaith sy'n parhau i fod yn gyfrifol am benderfyniadau sy'n ymwneud â disgowntiau a phremiymau, ynghyd â phennu Cynllun Lleol ar gyfer Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. |
| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson a'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
| Mae'r modd y cafodd y sylfaen ar gyfer y dreth ei gyfrifo allan yn cymryd i ystyriaeth y polisi cyfredol a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn ynghylch caniatáu disgowntiau i ddosbarthiadau penodedig A, B a C, ynghyd â pholisi'r Cyngor llawn ar ganiatáu gostyngiad hyd at 100% yn y Dreth Gyngor i'r rheiny sy'n gymwys dan gynllun lleol y Cyngor.<br><br>Mae'r cyfrifiad yma a'r argymhellion yn unol â'r penderfyniad yma a hefyd bod y Cyngor llawn, yn ei gyfarfod ar 27 Chwefror 2019, wedi pennu premiwm y Dreth Gyngor o 100% ar dai gwag hirdymor a premiwm o 35% ar ail gartrefi o 1 Ebrill 2019. |
| **D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
| Bydd y cyfrifiad o sylfaen y dreth yn galluogi'r Cyngor llawn i bennu'r gofynion o ran ei Dreth Gyngor i gwrdd â'r gyllideb a gymeradwywyd ganddo ar gyfer 2021/22. |

**DD – Effaith ar Genedlaethau'r Dyfodol (os yn berthnasol)**

| | | |
|---|---|---|
| 1 | **Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein anghenion tymor hir fel Ynys** | Mae hwn yn gyfrifiad flynyddol o sylfaen y dreth i'r Cyngor bennu'r gofynion o ran ei Dreth Gyngor. |
| 2 | **A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir a fydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol. Os felly, sut:-** | Mae hwn yn gyfrifiad flynyddol o sylfaen y dreth i'r Cyngor bennu'r gofynion o ran ei Dreth Gyngor. |

| | | |
|---|---|---|
| **3** | **A ydym wedi bod yn cyd-gweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda pwy-** | Na. |
| **4** | **A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae'i rhan yn drafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:-** | Na. |
| **5** | **Nodwch yr effeithiau mae'r penderfyniad hwn yn ei gael ar yr agenda cydraddoldeb ac iaith Gymraeg** | Mae hwn yn gyfrifiad flynyddol o sylfaen y dreth i'r Cyngor bennu'r gofynion o ran ei Dreth Gyngor. |
| **E – Gyda phwy yr ymgynghoroch?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol)** | Dim Sylw |
| **2** | **Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol)** | Awdur yr adroddiad. |
| **3** | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol)** | Dim sylw. |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth (TG)** | |
| **7** | **Caffael** | |
| **8** | **Sgriwtini** | |
| **9** | **Aelodau Lleol** | |
| **F - Atodiadau:** | | |
| Atodiad A : Cyfrifiad Sylfaen y Dreth Gyngor Leol 2021/22 | | |
| **FF – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth):** | | |
| Nodiadau Llywodraeth Cymru ar gyfer arweiniad ar Anheddau Dreth Gyngor (CT1) 2021/22 | | |

## CYFRIFIAD SYLFAEN Y DRETH GYNGOR LEOL 2021/22

| | BAND | A* | A | B | C | D | E | F | G | H | I | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhan A** | **ANHEDDAU TRETHADWY** | | | | | | | | | | | |
| **A.1** | Holl anheddau trethadwy | | 4,676 | 6,614 | 6,502 | 7,042 | 5,333 | 2,602 | 1,029 | 158 | 53 | 34,009 |
| **A.2** | Anheddau sy'n derbyn gostyngiad anabledd | | 13 | 49 | 48 | 84 | 72 | 54 | 11 | 10 | 6 | 347 |
| **A.3** | Cyfanswm yr anheddau trethadwy wedi'i addasu (gan gymryd i ystyriaeth ostyngiadau anabledd) | 13 | 4,712 | 6,613 | 6,538 | 7,030 | 5,315 | 2,559 | 1,028 | 154 | 47 | 34,009 |
| **Rhan B** | **ADDASIADAU DISGOWNT A PHREMIWM** | | | | | | | | | | | |
| **B.1** | Anheddau heb ddisgownt neu bremiwm (gan gynnwys eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi heb ddisgownt neu bremiwm) | 6 | 1,849 | 3,546 | 3,655 | 4,291 | 3,609 | 1,855 | 731 | 98 | 27 | 19,667 |
| **B.2a** | Anheddau gyda disgownt o 25% (ag eithrio eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi) | 7 | 2,603 | 2,745 | 2,387 | 2,106 | 1,250 | 483 | 167 | 20 | 4 | 11,772 |
| **B.2b** | Anheddau gyda disgownt o 50% (ag eithrio eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi) | 0 | 13 | 12 | 21 | 23 | 21 | 3 | 12 | 4 | 0 | 109 |
| **B.3a** | Anheddau gyda disgownt amrywiol ag eithrio 25% neu 50% | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **B.3b** | Anheddau gyda disgownt eiddo gwag hirdymor eu ail gartref | | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **B.3c** | Anheddau gyda phremiwm eiddo gwag hirdymor neu ail gartref | | 247 | 310 | 475 | 610 | 435 | 218 | 118 | 32 | 16 | 2,461 |
| **B.4** | Cyfanswm yr anheddau a addaswyd sydd yn daladwy | 13 | 4,712 | 6,613 | 6,538 | 7,030 | 5,315 | 2,559 | 1,028 | 154 | 47 | 34,009 |
| **B.5** | Holl disgowntiau newidiol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **B.6** | Addasiad disgownt am eiddo gwag hirdymor ac ail gartref | | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 |
| **B.7** | Addasiad premiwm am eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi | | 142.4 | 161.8 | 204.6 | 262.9 | 190.0 | 88.0 | 49.1 | 12.5 | 6.3 | 1,117.5 |

## CYFRIFIAD SYLFAEN Y DRETH GYNGOR LEOL 2021/22

| | BAND | A* | A | B | C | D | E | F | G | H | I | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhan C** | **CYFRIFIAD O ANHEDDAU TRETHADWY GYDA DISGOWNTIAU A PHREMIYMAU** | | | | | | | | | | | |
| **C.2** | Cyfanswm anheddau gan gynnwys disgowntiau a phremiymau | 11 | 4,197 | 6,083 | 6,135 | 6,755 | 5,182 | 2,525 | 1,029 | 160 | 52 | |
| **C.3** | Cymhareb â Band D | **5/9** | **6/9** | **7/9** | **8/9** | **1** | **11/9** | **13/9** | **15/9** | **18/9** | **21/9** | |
| **C.4** | Cyfwerthoedd Band D (wedi'i talgrynnu i ddau le degol) | 6.25 | 2,798.07 | 4,730.87 | 5,453.64 | 6,754.90 | 6,333.49 | 3,646.86 | 1,715.58 | 319.00 | 121.92 | 31,880.58 |
| **C.7** | Cyfanswm anheddau gostyngiedig ac eithrio addasiad hirdymor gwag ac ail gartref | 11 | 4,055 | 5,921 | 5,931 | 6,492 | 4,992 | 2,437 | 980 | 147 | 46 | |
| **C.8** | Cyfwerthoedd Band D ag eithrio addasiad hirdymor gwag ac ail gartref | 6.25 | 2,703.17 | 4,605.03 | 5,271.78 | 6,492.00 | 6,101.33 | 3,519.75 | 1,633.75 | 294.00 | 107.33 | 30,734.39 |
| **Rhan E** | **CYFRIFO SYLFAEN Y DRETH GYNGOR** | | | | | | | | | | | |
| **E.1** | Anheddau Trethadwy : cyfwerthoedd Band D | | | | | | | | | | | 31,880.58 |
| **E.2** | Cyfradd gasglu (wedi'i dalgrynnu i ddau le degol) | | | | | | | | | | | 98.50% |
| **E.3** | = E1 x E2 (wedi'i dalgrynnu i ddau le degol) | | | | | | | | | | | 31,402.37 |
| **E.4** | Anheddau Dosbarth O wedi'u heithrio : cyfwerthoedd Band D (Eiddo'r Weinyddiaeth Amffiddyn) | | | | | | | | | | | 145.83 |
| **E.5** | **Sylfaen y Dreth Gyngor at ddiben pennu'r dreth** | | | | | | | | | | | **31,548.20** |
| **E.5a** | Anheddau trethadwy gostyngedig ag eithrio addasiad eiddo gwag hirdymor ac ail gartref | | | | | | | | | | | 30,734.39 |
| **E.6** | **100% o Sylfaen y Dreth Gyngor ar gyfer cyfrifo'r grant cynnal refeniw** | | | | | | | | | | | **30,880.22** |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **30 Tachwedd 2020** |
| **Pwnc / Testun:** | **Cynllun Twf Terfynol** |
| **Deilydd(ion) Portffolio:** | **Yr Arweinydd : Cynghorydd Llinos Medi Huws**<br><br>**Aelod Portffolio ar gyfer Prosiectau Mawr a Datblygu'r Economi : Cynghorydd Carwyn Jones** |
| **Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:** | **Prif Weithredwr : Annwen Morgan** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Tel:**<br>**E-bost:** | **Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro : Lynn Ball**<br>**01248 752586**<br>**lynnball@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Perthnasol i holl Aelodau** |

**CRYNODEB**

Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno'r dogfennau allweddol angenrheidiol ar gyfer cyrraedd y Cytundeb Terfynol ar gyfer Cynllun twf Gogledd Cymru gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.

Er mwyn cytuno ar y Cytundeb Terfynol â'r ddwy Lywodraeth, mae Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru wedi paratoi cyfres o ddogfennau, sef y Cynllun Busnes Cyffredinol, yr Achos Busnes Portffolio, y Cytundeb Terfynol Drafft a Chytundeb Llywodraethu 2.

Ystyriwyd y dogfennau perthnasol gan y Pwyllgor Partneriaeth ac Adfywio ar 10 Tachwedd 2020 lle buodd y Pwyllgor gefnogi'r argymhellion. Mae copi o Gofnod y Penderfyniadau Sgriwtini wedi'i atodi yn ***Atodiad 10***.

**ARGYMHELLION**

1. Bod y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor yn cymeradwyo'r Cynllun Busnes Cyffredinol fel y ddogfen sy'n nodi'r trefniadau ar gyfer cyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru fel sail ar gyfer ymrwymo i'r Cytundeb Terfynol a derbyn y Llythyr Cynnig Grant gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.

2. Bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo'r darpariaethau yng Nghytundeb Llywodraethu 2 mewn perthynas â swyddogaethau gweithredol, yn argymell bod y Cyngor yn cymeradwyo'r darpariaethau mewn perthynas â swyddogaethau

anweithredol a bod y Pwyllgor Gwaith yn benodol yn mabwysiadu'r dirprwyaethau a'r Cylch Gorchwyl yng "Nghytundeb Llywodraethu 2: Atodiad 1" ohono fel sail ar gyfer cwblhau'r Cytundeb Terfynol a derbyn y Llythyr Cynnig Grant gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.

3. Bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo'n ffurfiol ac yn argymell i'r Cyngor awdurdodi'r corff atebol, Cyngor Gwynedd, i arwyddo'r llythyr Cynnig Cyllid Grant ar ran y Partneriaid.

4. Bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo'n ffurfiol ac yn argymell i'r Cyngor gymeradwyo'r dull a ddefnyddir i gyfrifo'r gost benthyca sydd ei angen er mwyn hwyluso'r llif arian negyddol ar gyfer y Cynllun Twf ac i gynnwys darpariaeth o fewn cyllideb y Cyngor i dalu'r cyfraniad hwn a'r cyfraniadau craidd ac atodol sydd wedi'u sefydlu fel sydd wedi'i nodi yn GA2 (ac ym mharagraffau 2.5. - 2.7 isod).

5. Bod y Prif Weithredwr mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd, y Swyddog Monitro a'r Swyddog Adran 151 yn derbyn awdurdod dirprwyedig i gytuno ar fân newidiadau i'r dogfennau gyda'r Partneriaid fel sydd angen i gwblhau'r cytundeb.

**CYD-DESTUN**

**1.0 EGLURO CYNLLUN TWF TERFYNOL BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**

1.01 **Cefndir**

1.02 Mae Cynllun Twf Gogledd Cymru yn bortffolio sy'n cynnwys 5 rhaglen i'w gweithredu dros y bymtheg mlynedd nesaf. Bydd yn cael ei weithredu gan Swyddfa Rheoli y Portffolio ar ran y Bwrdd Uchelgais.

1.03 Mae'r Cynllun Twf yn ceisio cyflawni cyfanswm o hyd at £1.1bn o fuddsoddiad yn economi'r Gogledd (£240m o'r Cynllun Twf), i greu 3,400 - 4,200 o swyddi ychwanegol net a chynhyrchu £2.0 - £2.4 biliwn mewn GVA ychwanegol net.

1.04 Mae'r pum rhaglen ac 14 prosiect, wedi'u cynllunio a'u datblygu'n ofalus gyda rhan ddeiliaid i fynd i'r afael a methiannau penodol yn y farchnad a rhwystrau i dwf economaidd. Bydd achosion busnes rhaglenni yn cael ei datblygu a'i cyflwyno i'r Bwrdd Uchelgais am gymeradwyaeth o Ionawr 2021 ymlaen.

**1.05 Cynllun Busnes Cyffredinol**

Mae'r Cynllun Busnes Cyffredinol wedi baratoi gan y Swyddfa Rheoli Portffolio er mwyn gosod allan y trefniadau ar gyfer gweithredu Cynllun Twf Gogledd Cymru, gan gynnwys trosolwg o'r rhaglenni a prosiectau er mwyn cael cymeradwyaeth pob partner i'r gofynion Ariannol ar gyfer gweithredu'r cynllun.

1.06 Mae copi o'r Cynllun Busnes Cyffredinol yn ***Atodiad 1***.

1.07 Mae'r Cynllun Busnes Cyffredinol yn crynhoi cynnwys yr Achos Busnes Portffolio a'r 5 Achos Busnes Rhaglen. Mae'r Achos Busnes Rhaglen yn rhoi crynodeb o'r

cynnig ariannu ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru, ac mae'r achosion busnes rhaglen yn cynnwys manylion ar y 5 rhaglen unigol.

1.08 Bydd y portffolio ac achosion busnes y rhaglenni, unwaith y cymeradwyir fel rhan o'r Cynllun Terfynol, yn ddogfennau byw a ddefnyddir i reoli cyflawniad y Cynllun Twf ar sail barhaus ac fe'i diweddarir yn rheolaidd wrth i'r rhaglenni a'r prosiectau ddatblygu.

**1.09 Cytundeb Terfynol**

1.10 Yn Nhachwedd 2019 cytunodd y Bwrdd Uchelgais a Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i Benawdau'r Telerau, gyda Cytundeb Terfynol i'r gwblhau yn 2020.

1.11 Mae'r Cytundeb Terfynol Drafft wedi ei ddatblygu ar y cyd rhwng y Bwrdd Uchelgais a'r ddwy Lywodraeth.

1.12 Mae'r Cytundeb Terfynol yn gytundeb rhwng y Bwrdd Uchelgais, Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ar gyfer gweithredu Cynllun Twf Gogledd Cymru.

1.13 Bydd y Cytundeb Terfynol yn cael ei arwyddo ar sail yr Achos Busnes Portffolio ac 5 achos busnes rhaglen.

1.14 Mae copi o'r Cytundeb Terfynol Drafft ar gael yn ***Atodiad 2***.

**1.15 Cytundeb Llywodraethu 2**

1.16 Mae Cytundeb Llywodraethu 2 wedi ddatblygu gan y Penaethiaid Cyfreithiol rhanbarthol gyda Cyngor annibynnol arbenigol gan gwmni Pinsent Masons.

1.17 Mabwysiadwyd Cytundeb Llywodraethu 1 er mwyn cefnogi'r broses a'r cais am gyllid i'r ddwy Lywodraeth. Bydd Cytundeb Llywodraethu 2 yn mynd a'r bartneriaeth i'r cyfnod gweithredu ar gyfer y Cynllun Twf. Mae'r cytundeb yn gytundeb partneriaeth rhwng y chwe Awdurdod Lleol a'r Prifysgolion a'r Colegau sy'n gyrff partner. Mae'n parhau â'r model llywodraethu a fabwysiadwyd yn GA1, sef Cyd-bwyllgor a gefnogir gan awdurdod lletya ac yn darparu ar gyfer ymrwymiadau a chyfrifoldebau'r Partneriaid i'r bartneriaeth. Hefyd, mae'n diffinio'r berthynas rhwng y Bwrdd a'i sefydliadau Partner cyfansoddol, cyfyngiadau dirprwyo ac atebolrwydd.

1.18 Mae Cytundeb Llywodraethu 2 yn elfen angenrheidiol ar gyfer gweithredu'r Cynllun Twf. Mae'n rhoi sicrwydd i'r Llywodraethau ynghylch llywodraethiant y bartneriaeth. Mae'n sefydlu ymrwymiad cyfreithiol-rwym gan ac i'r Partneriaid a'r Corff Atebol sy'n angenrheidiol i alluogi i Gytundeb Terfynol y Cynllun Twf a'r Llythyr Grant gael eu cytuno. Heb y sicrwydd hwnnw, ni ellid ymrwymo i'r Cytundeb Terfynol a'r Llythyr Cynnig Grant ar ran y Partneriaid.

1.19 Darperir crynodeb eglurhaol manylach o Gytundeb Llywodraethu 2 yn ***Atodiad 3*** ac mae copi o Gytundeb Llywodraethu 2 wedi'i gynnwys yn ***Atodiad 4***.

**1.20 RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

1.21 Yn 2016, mabwysiadodd partneriaid y Bwrdd Uchelgais Weledigaeth Twf ar gyfer Economi Gogledd Cymru. Yn seiliedig ar Strategaeth y Weledigaeth Twf, yn Hydref 2018 cytunwyd ar y Cynllun Twf gan holl bartneriaid y Bwrdd Uchelgais drwy weithio gyda Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a’r sector breifat. Yn Nhachwedd 2019 cytunodd y Bwrdd Uchelgais a’r ddwy Lywodraeth i Benawdau’r Telerau, gyda Cytundeb Terfynol i’w gwblhau yn 2020.

1.22 Mae’r Bwrdd Uchelgais wedi ymrwymo i gyrraedd Cytundeb Terfynol gyda’r ddwy Lywodraeth cyn diwedd Rhagfyr 2020.

1.23 Mae’r Swyddfa Rhaglen wedi datblygu y dogfennau sydd angen ei cyflwyno i’r ddwy Lywodraeth ar gyfer cyrraedd y Cytundeb Terfynol. Mae cynnwys y dogfennau wedi amlinellu yn yr adroddiad hwn, gyda copïau o’r dogfennau fel atodiadau.

**1.24 Covid-19**

1.25 Mae Covid-19 wedi cael effaith economaidd syfrdanol ar y Gogledd, yn yr un modd â rhannau eraill o'r DU ac yn fyd-eang. Mae'r Bwrdd Uchelgais Economaidd yn gweithio'n agos gyda'r chwe awdurdod lleol, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU a chynrychiolwyr o'r sector preifat i gydlynu'r ymateb rhanbarthol i adfer yr economi. Nid yw'n hysbys eto beth yw effeithiau tymor hwy Covid-19 ar yr economi rhanbarthol.

1.26 Mae'r Cynllun Twf wedi'i ddylunio i fynd i'r afael â rhwystrau strwythurol, hir-dymor sy'n atal twf economaidd. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd yn gwbl ymwybodol yn y byr-dymor y bydd angen amrediad o gamau gweithredu er mwyn hwyluso adferiad ac mae sicrhau bod y mesurau byr-dymor hynny'n cyd-fynd â'r Cynllun Twf yn allweddol.

1.27 Ni all y Cynllun Twf ar ei ben ei hun fynd i'r afael â'r holl heriau sy'n wynebu economi'r Gogledd, yn enwedig yng ngoleuni Covid-19. Fodd bynnag, bydd y chwistrelliad sylweddol o fuddsoddiad cyfalaf i economi'r Gogledd o du'r Cynllun Twf yn hwb arwyddocaol i'r sectorau adeiladu a chysylltiedig a hynny ar adeg pan mae'n debygol y bydd capasiti dros ben yn yr economi.

**1.28 Y broses ar gyfer Cytundeb Terfynol**

1.29 Er mwyn cytuno i’r Cytundeb Terfynol gyda’r ddwy Lywodraeth, mae’r Bwrdd Uchelgais wedi paratoi pecyn o ddogfennau gan gynnwys Cynllun Busnes Cyffredinol, Achos Busnes y Portffolio, Cytundeb Terfynol Drafft ac Cytundeb Llywodraethu 2.

**1.30 GOBLYGIADAU CYFREITHIOL**

1.31 Mae’r adroddiad yn esbonio darpariaethau perthnasol Cytundeb Llywodraethu 2 (“GA2”), y Cynllun Busnes Cyffredinol (“OBP”) a’r Gytundeb Twf Terfynol. Maent yn ffurfio rhan o’r oblygiadau cyfreithiol ond er osgoi dyblygu nid ydynt yn cael eu hail adrodd yn yr adran yma.

1.32 Gwneir yr argymhellion yn adroddiad yn unol a'r pwerau o roddir i'r Cynghorau dan adrannau 101,102, 111 ac 113 o Deddf Llywodraeth Leol 1972, adran 1 o Ddeddf Lywodraeth Leol (Nwyddau a Gwasanaethau) 1976, adran 25 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994, Adrannau 2, 19 a 20 o Ddeddf Lywodraeth Leol 2000, Adran 9 o Fesur Llywodraeth Leol Cymru 2009 a phob pŵer grymuso arall sydd nawr gan y Cynghorau.

1.33 Mae darpariaethau Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2019 sydd ynglŷn a Cyd Bwyllgorau Corfforaethol ("CBC's") a chyhoeddiad diweddar dogfen ar ddarpar reoliadau yn amlwg yn berthnasol i'r materion a drafodir yn yr adroddiad. Fod bynnag mae Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru wedi bod yn gweithredu fel Cyd Bwyllgor ffurfiol ers Ionawr 2019. Nid yw GA2 yn newid y fframwaith llywodraethu sylfaenol yma ond mae'n angenrheidiol er caniatáu i'r Partneriaid ymrwymo i'r Cynllun Twf o fewn yr amserlen a osodir. O ganlyniad nid oes cynnig i wneud unrhyw newidiadau i'r argymhellion er cyfarch dyfodiad arfaethedig CBC's er fod GA2 yn cydnabod darpariaethau'r Bil a'r posibilrwydd o adolygiad i'r dyfodol.

1.34 Mae'r OBP yn ddogfen allweddol ynglŷn a chyflawni'r Cynllun Twf. Mae'n gweithredu i greu disgwyliad cyfreithlon y prosesir y Rhaglenni yn y modd a osodir yn y Cynllun. O ganlyniad mae'n bwysig fod pob Partner yn fodlon gyda chynnwys yr OBP. Bydd penderfyniadau ynglŷn a chyflawni y rhaglenni a phrosiectau angen eu hystyried yn unol a'r darpariaethau yn GA2 pryd y gellir amlygu materion ynglŷn a phrosiectau unigol a sicrhau cyngor cyfreithiol manwl.

1.35 Wrth ystyried y mater yma dylid dal sylw at, ymysg materion eraill, dyletswyddau y Cyngor dan Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Yn gryno mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i weithredu yn unol a'r egwyddor datblygu cynaliadwy er sicrhau y gellir cyfarch anghenion y presennol heb danseilio gallu cenedlaethau'r dyfodol i gyfarch eu anghenion. Mae hyn er gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r OBP yn esbonio fod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn greiddiol i ddatblygu a gweithredu y Weledigaeth Twf a'r Cynllun Twf.

1.36 Mae Asesiad Lles wedi ei gynnal ac wedi ei atodi yn ***Atodiad 5***. Dylid dal sylw at y rhain wrth ddod i benderfyniad ar y mater yma.

1.37 Mae sylw wedi ei roi i ddyletswyddau dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (gan gynnwys y dyletswyddau Cymreig penodol). Yn unol a'r dyletswyddau yma rhaid i Gynghorau wrth wneud penderfyniadau:

a. ddal sylw priodol ar yr angen i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu a gormesu ac ymddygiadau eraill a waherddir gan y Ddeddf ;
b. hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobol sydd yn rhannu nodwedd gwarchodedig a'r rhai sydd ddim; a
c. hybu perthynas dda rhwng pobol sydd yn rhannu nodwedd gwarchodedig a'r rhai sydd ddim.

1.38 Yng Nghymru mae angen i'r Cynghorau gymryd camau penodol er dangos fod sylw priodol wedi ei roi i'r dyletswydd cydraddoldeb cyhoeddus. Mae'r dyletswyddau

cydraddoldeb Cymreig penodol yma yn cynnwys asesu ardrawiad polisïau a threfniadaethau ar gydraddoldeb (yr hyn a elwir yn arferol yn Asesiad Ardrawiad Cydraddoldeb).

1.39 Mae’r Asesiad Llesiant a yn dangos fod y manylion a gynhwysir ym mharatoi ac yn y OBP drafft yn cydymffurfio gyda’r 5 ffordd o weithio, y Nodau Llesiant ac yn dangos y bydd y Weledigaeth Twf a’r Cynllun Twf yn cael ardrawiad cadarnhaol ar bob a grŵp a phobol sydd a nodweddion gwarchodedig.

## 2. OBLYGIADAU ARIANNOL

2.1 Mae bwlch cyllido tymor canolig dros dro rhwng proffil gwariant disgwyliedig y Cynllun Twf a phroffil disgwyliedig y cyllid a dderbynnir gan y llywodraethau dros 15 mlynedd. Bydd y Bwrdd Uchelgais, drwy'r awdurdod lletya, yn gyfrifol am reoli'r llif arian negyddol hwn, ac mae wedi gweithio gydag Arlingclose i fodelu cost y benthyca a fyddai ei angen mewn egwyddor i hwyluso'r llif arian negyddol ar gyfer y Cynllun Twf, a'r cyfraniadau partner blynyddol cyfatebol sydd eu hangen i gwrdd â'r gost hon.

2.2 Gydag ystod o dybiaethau i'w hystyried, mae'r Bwrdd Uchelgais wedi rhagweld ystod o ffigyrau, wedi'u modelu fel y senario achos gorau (Fersiwn 1) a'r senario achos gwaethaf (Fersiwn 2), i adlewyrchu amseriad cwblhau'r Cynllun Twf ac amseru canlyniadol cyllid grant y llywodraethau. Mae'r gwahaniaeth rhwng y senarios achos gorau a gwaethaf yn amlygu pwysigrwydd cwblhau'r Cynllun Twf erbyn diwedd y flwyddyn galendr. Yn y ddau fersiwn, mae'r amrywiadau eraill, h.y. cyfradd llog ac incwm NNDR wedi parhau'r un fath. Y gyfradd llog a ddefnyddiwyd oedd 2.2% sy'n cael ei ystyried yn dybiaeth ddarbodus. Bydd y Bwrdd Uchelgais yn defnyddio ei grant NNDR "cadwedig" gan Lywodraeth Cymru i'w osod yn erbyn y llif arian negyddol, a'r awdurdodau lleol (yn gymesurol i'r boblogaeth) fydd yn cwrdd â'r gost net (£12.46m - £17.73m) ar gyfer prosiectau rhanbarthol y Bwrdd Uchelgais gydag arianwyr y prosiectau yn gyfrifol am y gost mewn perthynas â'u prosiect nhw.

2.3 Bydd unrhyw newidiadau i'r prosiectau yn arwain at fater a gedwir yn ôl os yw'n golygu cynyddu cyfraniadau'r partneriaid (e.e. newid o ariannwr y prosiect i'r Bwrdd Uchelgais, cynnyrch NNDR is, cost uwch, proffil gwariant cynharach).

2.4 Gyda phrosiectau cyfalaf, mae bob amser risg o orwario, a rhoddir mesurau rheoli yn eu lle i gyfyngu costau gorwario ar brosiectau penodol. Ar gyfer prosiectau rhanbarthol, byddai'r Swyddfa Rhaglen yn gyfrifol am reoli gwariant a sicrhau bod cyllidebau wrth gefn digonol wedi'u cynnwys yn achosion busnes y prosiectau. Byddai gorwariant yn fater i Ariannwr y Prosiect ymdrin ag ef mewn perthynas a'u prosiectau nhw.

2.5 Mae'r tabl isod yn dangos **cyfanswm cyfraniadau'r partneriaid (15 mlynedd)** i ymdopi â chost 'benthyca' a fydd ei angen mewn egwyddor i hwyluso'r llif arian negyddol.

| Fersiwn | Prifysgol Bangor | Prifysgol Glyndwr | Grŵp Llandrillo Menai | Coleg Cambria | Partneriaid Masnachol eraill | Conwy | Sir Ddinbych | Sir y Fflint | Gwynedd | Ynys Môn | Wrecsam | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £m | £m | £m | £m | £m | £m | £m | £m | £m | £m | £m | £m |
| 1 | 1.40 | 0.51 | 0.75 | 0.52 | 2.29 | 1.17 | 0.96 | 1.56 | 1.24 | 0.70 | 1.36 | 12.46 |
| 2 | 1.99 | 0.73 | 1.07 | 0.74 | 3.24 | 1.67 | 1.36 | 2.22 | 1.77 | 1.00 | 1.94 | 17.73 |

2.6. Mae'r tabl isod yn dangos **cyfraniadau blynyddol y partneriaid** i ymdopi â chost 'benthyca' a fydd ei angen mewn egwyddor i hwyluso'r llif arian negyddol.

| Fersiwn | Bangor University | Glyndwr University | Grŵp Llandrillo Menai | Coleg Cambria | Other Commerical Partners | Conwy | Denbighshire | Flintshire | Gwynedd | Isle of Anglesey | Wrexham | Total |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ |
| 1 | 93,330 | 34,000 | 50,000 | 34,670 | 152,660 | 78,010 | 64,000 | 104,000 | 82,670 | 46,670 | 90,670 | 830,680 |
| 2 | 132,670 | 48,670 | 71,330 | 49,330 | 216,000 | 111,340 | 90,670 | 148,000 | 118,000 | 66,670 | 129,340 | 1,182,020 |

2.7. Mae cyfraniadau blynyddol y partneriaid (uchod) yn ychwanegol i'r cyfraniadau blynyddol 'craidd' ac 'atodol' sydd wedi'u sefydlu (isod).

| Cyfraniadau | Prifysgol Bangor | Prifysgol Glyndwr | Grŵp Llandrillo Menai | Coleg Cambria | Conwy | Sir Ddinbych | Sir y Fflint | Gwynedd | Ynys Môn | Wrecsam | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ |
| Craidd | 25,000 | 25,000 | 25,000 | 25,000 | 50,000 | 50,000 | 50,000 | 50,000 | 50,000 | 50,000 | 400,000 |
| Cyfraniadau Atodol | 0 | 0 | 0 | 0 | 40,000 | 40,000 | 40,000 | 40,000 | 40,000 | 40,000 | 240,000 |

## 3. ASESIAD EFFAITH

Gweler Atodiadau 5, 6 a 7

Atodiad 5 – Asesiad Effaith Deddf Llesiant
Atodiad 6 – Asesiad Effaith yr Iaith Gymraeg
Atodiad 7 – Asesiad Effiath Cydraddoldeb

## 4. YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD

4.1 Ar y 7fed o Hydref 2020 trafodwyd cynnwys yr adroddiad hwn gan y Grŵp Gweithredol.

4.2 Cyflwynwyd adroddiad a'r dogfennau perthnasol i'r Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ar 23 Hydref 2020 pan gafodd y cynigion hyn eu cymeradwyo ar gyfer eu cyflwyno i'r Partneriaid. Weler copi o'r Adroddiad Blaen yn ***Atodiad 8*** ac mae'r dogfennau cyflawn ar gael YMA.

4.3 Mae adroddiad a dogfennau perthnasol wedi cylchredeg ar gyfer cymeradwyaeth gan yr holl partneriaid. Bydd adroddiad blaen ac atodiadau yn cael ei cyflwyno i'r gyfarfodydd Craffu, Pwyllgor Gwaith ac Cyngor Llawn y chwe Awdurdod lleol. Ymgynghorwyd â Phwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio'r Cyngor hwn mewn cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Tachwedd 2020 (***gweler Atodiad 10***).

4.4 Mae Prif Weithredwr, Dirprwy Brif Weithredwr, Swyddog Adran 151 a Swyddog Monitro'r Cyngor hwn i gyd wedi cyfrannu at yr adroddiad hwn ac yn cefnogi ei argymhellion.

## 5. ATODIADAU

| | |
|---|---|
| **Atodiad 1** | Cynllun Busnes Cyffredinol* |
| **Atodiad 2** | Cytundeb Terfynol Draft* |
| **Atodiad 3** | Crynoldeb o Gytundeb Llywodraethu 2* |
| **Atodiad 4** | Cytundeb Llywodraethu 2* |
| **Atodiad 5** | Asesiad Effaith Deddf Llesiant |
| **Atodiad 6** | Asesiad Effaith yr Iaith Gymraeg |
| **Atodiad 7** | Asesiad Effaith Cydraddoldeb |
| **Atodiad 8** | Adroddiad i'r Bwrdd Uchelgais |
| **Atodiad 9** | Buddion i Fôn |
| **Atodiad 10** | Gofnod y Penderfyniadau Sgriwtini |

**yn amodol ar olygu terfynol a phrawf ddarllen*

# CYNLLUN BUSNES CYFFREDINOL CYNLLUN TWF GOGLEDD CYMRU 2020-25









# Tabl Cynnwys


Tabl Cynnwys2

Rhagair 3

1. Crynodeb Gweithredol6
2. Pwrpas12
3. Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru12
4. Cefndir i Gynllun Twf Gogledd Cymru13
5. Yr Achos dros Newid14
6. Rhaglenni'r Cynllun Twf21
7. Y Prosiectau24
8. Effaith Economaidd28
9. Proffil Cyllid y Cynllun Twf30
10. Cyfraniadau Partner Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru32
11. Strategaeth Fasnachol34
12. Dull Caffael34
13. Trefniadau Llywodraethu36
14. Amserlen Cyflawni Prosiectau'r Cynllun Twf41

# Rhagair

Mae'r **Cynllun Twf** wedi'i ddatblygu drwy gydweithio agos ac ymrwymiad gan bartneriaid ar draws sectorau gan gynnwys Llywodraeth Cymru a'r DU, i gyflawni buddsoddiad a newid cadarnhaol a hirhoedlog a fydd yn galluogi twf economaidd a chyflogaeth yn yr hir-dymor.

Dros y pymtheg mlynedd nesaf, bydd y Cynllun Twf yn ein grymuso i gydweithio a chymryd rheolaeth dros sut rydym yn buddsoddi yn ein dyfodol.

Mae'n gyfle unigryw i ddatganoli buddsoddiadau'r llywodraeth, gwneud y penderfyniadau buddsoddi hynny yn lleol ac arddangos y gwerth a ddaw yn sgil hyn. Yn y pendraw, fel rhan o raglen fuddsoddi ehangach, bydd y Cynllun Twf yn galluogi i ni adeiladu economi bywiog, cynaliadwy a chynhwysol i ni i gyd yng Ngogledd Cymru.

Byddwn yn **flaengar** gyda'n buddsoddiadau – yn adeiladu ar ein cryfderau i roi hwb i gynhyrchedd, meithrin arloesedd a bod yn gystadleuol yn y marchnadoedd yr ydym yn eu gwasanaethu. Mae gennym ganolbwyntiau ymchwil ac arloesedd sydd wedi'u hen sefydlu eisoes, sy'n ein helpu ni i wthio'r ffiniau wrth ddod o hyd i feysydd twf newydd ar gyfer ein busnesau gweithgynhyrchu gwerth uchel. Byddwn yn buddsoddi ymhellach i greu canolfannau rhagoriaeth i wella ein henw da a galluogi twf yn y diwydiant pwysig hwn.

Byddwn yn mynd i'r afael â methiant marchnad hir-dymor sydd wedi bod yn rhwystr i fuddsoddiad masnachol - gan wneud y Gogledd yn lle mwy addas i fuddsoddi ynddo a datgloi'r potensial ar gyfer swyddi medrus gwerth uchel, er mwyn i'n pobl ifanc a chenedlaethau'r dyfodol ffynnu. Byddwn yn mynd i'r afael â'r diffyg tir ac eiddo addas ar gyfer twf busnes a dod â safleoedd ymlaen er mwyn darparu'r tir cyflogaeth a thai yr ydym ei angen.

Drwy fuddsoddi yn awr, rydym yn adeiladu ein **gwytnwch** ar gyfer y dyfodol.

Rydym yn **gysylltiedig** fel rhanbarth. Mae ein partneriaeth ar draws y chwe awdurdod lleol, y prifysgolion, y colegau a'r sector preifat wedi'i hen sefydlu ac yn cryfhau o hyd. Yn ogystal, rydym yn gyrru newid cyfeiriad mewn cysylltedd digidol drwy gydbwyso buddsoddiad mewn isadeiledd a thechnoleg. Rydym yn cyfarch yr ardaloedd hynny sydd angen cysylltiadau band eang cyflymach a mwy dibynadwy fwyaf a gwneud y mwyaf o botensial mynediad i 5G ac arloesedd digidol newydd. Mae cyfleoedd hefyd yn bodoli yn ein cysylltiadau agos gyda'r economïau cyfagos megis Pwerdy'r Gogledd, Iwerddon a Chanolbarth Cymru. Drwy weithio gyda'n gilydd, gallwn adeiladu economïau cryfach.

Byddwn yn cryfhau ein henw da fel rhanbarth cydlynus; rhoi lifer ar ein partneriaethau i hyrwyddo twf yn yr economi sy'n gynaliadwy, yn gynhwysol ac y gellir ei ymestyn. Mae ein Buddsoddiad mewn prosiectau ynni carbon isel yn galluogi i ni gyfrannu'n uniongyrchol i'r argyfwng newid hinsawdd, gan helpu i wneud y Gogledd yn amgylchedd glanach, gwyrddach, ond hefyd gan leoli ein hunain fel un o'r lleoliadau arweiniol yn y DU o fewn y sector ynni carbon isel. Heb anghofio ein economïau sylfaen o fewn amaeth a thwristiaeth,

byddwn yn helpu i alluogi ac annog arallgyfeirio i wella dyfodol hir-dymor y diwydiannau allweddol hyn, gan sicrhau bod ganddynt y cyfle i ddatblygu'n gynaliadwy a ffynnu.

Byddwn yn buddsoddi mewn ffordd sy'n hyrwyddo gwerth cymdeithasol ac yn adeiladu cyfoeth yn ein cymunedau. Rydym yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi ei rhwymedigaeth i gyflawni'r Cynllun Twf mewn ffordd sy'n gwella ein llesiant cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd.

Edrychwn ymlaen at arwain y buddsoddiad pwysig hwn yn ein cartref a'n rhanbarth, Gogledd Cymru.



**Dyfrig Siencyn,**
Cadeirydd | Chair,
Bwrdd Uchelgais Economiaidd Gogledd Cymru | North Wales Economic Ambition Board



**Mark Pritchard,**
Is-gadeirydd | Vice Chair,
Bwrdd Uchelgais Economiaidd Gogledd Cymru | North Wales Economic Ambition Board



**Alwen Williams,**
Cyfarwyddwr Rhaglen | Programme Director,
Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | North Wales Economic Ambition Board

---

Mae Cynllun Twf Gogledd Cymru yn becyn hollbwysig o fuddsoddiadau cyfalaf i'n rhanbarth a fydd yn hwb sylweddol i economi'r Gogledd ar adeg pan fo newidiadau mawr yn y farchnad megis Brexit a digwyddiadau byd-eang yn cynnwys pandemig Covid-19, yn parhau i effeithio ar ein Cymunedau a'n Heconomi. Mae Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy, fel y corff ymbarél rhanbarthol ar gyfer y sector preifat yn y Gogledd, wedi gweithio'n galed iawn mewn partneriaeth â'r Bwrdd Uchelgais ers cychwyn datblygu'r Cynllun Twf, i sicrhau bod y buddsoddiadau a gynigir yn y Cynllun yn cael eu dosbarthu ledled y rhanbarth a'n sectorau er mwyn rhoi'r budd mwyaf i'n busnesau.

Mae gan Gynllun Twf sy'n cyflawni ar gefnogi busnesau a thwf cynhyrched ar gyfer ein busnesau bach a chanolig brodorol a'r busnesau rhyngwladol sydd wedi'u lleoli yn y Gogledd yn ei sectorau allweddol e.e. Gweithgynhyrchu, Twristiaeth a Lletygarwch, Amaeth ac Ynni, botensial i gael effaith gadarnhaol unwaith mewn oes arnom i gyd. Mae hi'n hanfodol, serch hynny, bod y prosiectau a'r rhaglenni arfaethedig nid yn unig yn gatalyddion twf ond hefyd bod iddynt y credo sylfaenol eu bod yn gwneud hynny gan gyfrannu at siwrne'r rhanbarth tuag at economi Cylchol a Dim Carbon Net. Edrychwn ymlaen at barhau i ymgysylltu'n ystyrlon â'r Bwrdd Uchelgais ar y pecyn buddsoddi allweddol hwn.



**Jim Jones,**
Cadeirydd | Chair,
Cyngor Busnes Gogledd Cymru Merswy Dyfrdwy | North Wales Mersey Dee Business Council



**Ashley Rogers,**
Cyfarwyddwr Masnachol | Commercial Director,
Cyngor Busnes Gogledd Cymru Merswy Dyfrdwy | North Wales Mersey Dee Business Council

Mae gan Ogledd Cymru gynghrair unigryw a phwerus o arweinyddion sector preifat a chyhoeddus sydd wedi bod yn gweithio fel partneriaid unedig, drwy Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a'r Grŵp Cyflawni Busnes, i sicrhau bod y Cynllun Twf yn denu enillion sylweddol ar fuddsoddiadau.

Mae gan aelodau'r Grŵp Cyflawni Busnes, sy'n entrepreneuriaid yn bennaf sydd â hanes blaenorol sefydledig o fewn eu sectorau a'u diwydiannau a gydnabyddir yn rhyngwladol, lais annibynnol. Mae gan yr aelodau rwydweithiau busnes dylanwadol a helaeth yng Nghymru, y DU a'r tu hwnt ac yn bwysig iawn, maent yn angerddol iawn dros y Gogledd, sy'n gartref i'r rhan fwyaf ohonynt.

Tua'r Dwyrain, rydym yn ffodus i fod wedi'n lleoli yn agos ar ddwy ddinas fawr; Lerpwl a Manceinion, sy'n gartrefi i ddau faes awyr rhyngwladol i'n cysylltu ni â'r farchnad fyd-eang, tra bod Llundain ryw ddwy awr i ffwrdd ar y trên. Tua'r Gorllewin, mae porthladd Caergybi yn hwyluso ein masnach drwy gludo nwyddau ar y môr ac mae'n agor y llwybr at dwristiaeth rhyngwladol ac Iwerddon. Mae gan bob modfedd o'r Gogledd hanes ardderchog, diwylliant cyfoethog, cestyll a thraethau gwych, atyniadau twristiaeth unigryw, bywyd gwyllt rhyfeddol ac, heb os, y tirweddau naturiol gorau ar y Ddaear.

Mae rhaglenni'r Cynllun Twf yn canolbwyntio ar feysydd o'r economi lle mae gennym brofiad hirhoedlog ac arbenigedd cryf; megis Gweithgynhyrchu Uwch, Ynni Adnewyddadwy a Thwristiaeth. Er enghraifft, mae gan y prosiect pŵer llanw ar Ynys Môn, Morlais, y potensial i wneud Gogledd Cymru yn un o arweinwyr y byd mewn ynni llanw. Ychydig iawn o lefydd yn y byd sy'n addas a gallai'r buddsoddiad olygu bod Gogledd Cymru yn un o'r tri chynhyrchwr pŵer llanw mwyaf yn y byd.

Hefyd, mae'r Cynllun Twf yn buddsoddi yn isadeiledd digidol y rhanbarth. Mae hyn yn hanfodol ac mae'n tanategu twf economaidd. Mae band eang ffibr cyflymder uchel dibynadwy a hygyrch a gallu 5G ledled y Gogledd yn hanfodol.

Drwy gydol hanes, mae'r Gogledd wedi dangos ei wytnwch i frwydro yn erbyn yr holl newidiadau economaidd blaenorol ac wedi dod drwyddynt yn gryfach. Mae'r pandemig diweddar hwn wedi achosi daeargryn cymdeithasol ac economaidd dinistriol.

Gyda chynllun economaidd credadwy, buddsoddiad mewn sgiliau ac addysg a chydag arweinyddiaeth leol benderfynol sydd yn derbyn adnoddau digonol, credaf yn gryf fod gan y Gogledd gyfle gwych a'r potensial i ailsefydlu ei hun fel economi pwerus yng Nghymru, a fydd yn cael ei gefnogi'n fawr gan fuddsoddiad y Cynllun Twf dros y pymtheg mlynedd nesaf a'r tu hwnt.



**Askar Sheibani,**
Cadeirydd | Chair,
Grŵp Cyflawni Busnes | Business Delivery Group

# 1. Crynodeb Gweithredol

1.1 Nod Cynllun Twf Gogledd Cymru *(y cyfeirir ato o hyd ymlaen fel y Cynllun Twf)* yw adeiladu economi mwy bywiog, cynaliadwy a gwydn yn y Gogledd, gan adeiladu ar ein cryfderau i roi hwb i gynhyrchedd wrth fynd i'r afael â heriau a rhwystrau economaidd hir-dymor i gyflawni twf cynhwysol. Mae ein dulliau gweithredu i gyflawni twf mewn ffordd gynhwysol, gynaliadwy, y gellir ei ymestyn yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

1.2 Mae'r Cynllun Twf yn bartneriaeth rhwng y sectorau cyhoeddus a phreifat, gyda chefnogaeth ariannol gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn buddsoddi £240miliwn i Gynllun Twf Gogledd Cymru dros y 15 mlynedd nesaf. Mae'r Cynllun Twf yn ceisio cyflawni cyfanswm o hyd at £1.1bn o fuddsoddiad yn economi'r Gogledd (£240m o'r Cynllun Twf), i greu 3,400 - 4,200 o swyddi ychwanegol net a chynhyrchu £2.0 - £2.4 biliwn mewn GVA ychwanegol net.

| | |
|---|---|
| Amcan Gwariant 1 - Swyddi | **Creu rhwng 3,400 a 4,200 o swyddi newydd net yn y Gogledd drwy'r Cynllun Twf erbyn 2036.** |
| Amcan Gwariant 2 - GVA | **Cefnogi cynnydd ychwanegol net o rhwng £2.0 biliwn a £2.4 biliwn mewn GVA i Economi'r Gogledd drwy'r Cynllun Twf erbyn 2036.** |
| Amcan Gwariant 3 - Buddsoddiad | **Cyflawni cyfanswm o hyd at £1.1 biliwn o fuddsoddiad yn Economi'r Gogledd drwy'r Cynllun Twf erbyn 2036.** |

1.3 Y Cynllun Busnes Cyffredinol (OBP) hwn yw'r sail y mae'r Partneriaid yn ymrwymo i Gynllun Twf Gogledd Cymru arni (*y cyfeirir ato o hyd ymlaen fel y Cynllun Twf*). Mae'r isod yn rhoi trosolwg o'r Cynllun Twf gan gynnwys y rhaglenni a'r prosiectau sydd i'w cyflawni. Mae'n nodi beth fydd y Cynllun Twf yn ei gyflawni yn nhermau allbynnau a buddion i'r rhanbarth, cyfraniadau ariannol pob partner a threfniadau rheoli perfformiad a llywodraethu i sicrhau y cyflawnir y Cynllun Twf.

## Yr Achos dros Newid

1.4 Mae Gogledd Cymru yn gartref i bron i 700,000 o drigolion ac mae'n cyfrannu £14.2 biliwn i economi'r DU bob blwyddyn,[1] gan gynrychioli 22% o economi Cymru.[2] Fodd bynnag, mae bwlch cynhyrchedd parhaus a chynyddol yn dal i fodoli rhwng y Gogledd a'r DU gydag amrywiadau eang yn y GVA (Gwerth Ychwanegol Crynswth) cyfartalog y pen ledled y rhanbarth. **Mae mynd i'r afael â'r anghyfartaledd hwn yn flaenoriaeth bwysig i'r Cynllun Twf.**

1.5 Mae economi'r Gogledd yn amrywiol a'r sectorau allweddol yw gweithgynhyrchu, ynni a thwristiaeth yn ogystal â swyddi yn y sector cyhoeddus. Mae rhan o'r bwlch cynhyrchedd yn cael ei briodweddu gan strwythur sectorau economi'r Gogledd, gyda rhai ardaloedd yn benodol ddibynnol ar sectorau sydd â chyflogau cymharol isel, gan gynnwys twristiaeth a manwerthu. Ar yr un pryd, mae rhai cryfderau, gyda 64,000 o

---

1 Mesurwyd gan Werth Ychwanegol Crynswth (GVA). Ffynhonnell: ONS, data 2018.

2 https://statswales.gov.wales/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/Regional-Accounts/Gross-Value-Added-GDP/gva-by-measure-welsheconomicregion-year


bobl yn gyflogedig mewn sectorau gwerth uchel, a ddiffinnir fel gweithgynhyrchu, gwybodaeth a chyfathrebu; a gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol.

1.6 **Mae cefnogi sectorau gwerth uchel ac ymdrin â'r rhwystrau hir-dymor i dwf wrth galon Cynllun Twf Gogledd Cymru.** Mae heriau a chyfleodd allweddol wedi'u hadnabod fel a ganlyn:

- Gwella cynhyrchedd
- Cefnogi arloesedd ac Ymchwil a Datblygu
- Cefnogi'r agenda carbon isel a gyrru twf carbon isel
- Integreiddio'r gadwyn gyflenwi
- Cwrdd ag anghenion sgiliau
- Angen am ofod llawr cyflogaeth modern a thir preswyl wedi'i wasanaethu
- Ymdrin â'r rhaniad digidol
- Ymestyn y capasiti ymchwil digidol.

1.7 Mae model rhesymeg yn ffordd o fynegi'r cyd-destun ar gyfer newid a buddsoddi. Mae crynodeb o fodel rhesymeg ar gyfer y Cynllun Twf wedi'i nodi yn Ffigwr 1.1 isod ac mae'n rhoi trosolwg o'r gyrwyr strategol, yr amcanion, y mewnbynnau ac effaith y Cynllun Twf.

Ffigwr 1.1 Model Rhesymeg y Portffolio




Ffynhonnell: Hatch

## Adfer ar ôl COVID-19

1.8 Mae Covid-19 wedi cael effaith economaidd syfrdanol ar y Gogledd, yn yr un modd â rhannau eraill o'r DU ac yn fyd-eang. Mae'r Bwrdd Uchelgais Economaidd yn gweithio'n agos gyda'r chwe awdurdod lleol, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU a chynrychiolwyr o'r sector preifat i gydlynu'r ymateb rhanbarthol i adfer yr economi. Nid yw'n hysbys eto beth yw effeithiau tymor hwy Covid-19 ar yr economi rhanbarthol.

1.9 Mae'r Cynllun Twf wedi'i ddylunio i fynd i'r afael â rhwystrau strwythurol, hir-dymor sy'n atal twf economaidd. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd yn gwbl ymwybodol yn y byr-dymor y bydd angen amrediad o gamau gweithredu er mwyn hwyluso adferiad ac mae sicrhau bod y mesurau byr-dymor hynny'n cyd-fynd â'r Cynllun Twf yn allweddol.

1.10 Ni all y Cynllun Twf ar ei ben ei hun fynd i'r afael â'r holl heriau sy'n wynebu economi'r Gogledd, yn enwedig yng ngoleuni COVID-19. Fodd bynnag, bydd y chwistrelliad sylweddol o fuddsoddiad cyfalaf i economi'r Gogledd o du'r Cynllun Twf yn hwb arwyddocaol i'r sectorau adeiladu a chysylltiedig a hynny ar adeg pan mae'n debygol y bydd capasiti dros ben yn yr economi.

## Rhaglenni'r Cynllun Twf

1.11 Mae'r Cynllun Twf yn seiliedig ar gyflawni 14 o brosiectau trawsffurfiol ar draws pum rhaglen. Mae Ymyriadau a Terfynau Gwaith o fewn y ffactor hwn wedi'u diffinio fel a ganlyn: Mae'r rhaglenni wedi'u diffinio fel naill ai rhaglenni twf uchel neu raglenni hwyluso.

### Sectorau Twf Uchel i yrru cynhyrchedd yn y rhanbarth

1.12 Bydd y prosiectau o fewn y Cynllun Twf wedi'u hanelu at gynyddu gwerth ac effaith y sectorau twf uchel yn canolbwyntio ar dair prif raglen:

- **Ynni carbon isel**
- **Arloesi mewn gweithgynhyrchu gwerth uchel**
- **Bwyd-amaeth a thwristiaeth**


### Mynd i'r afael â'r rhwystrau allweddol i hwyluso a chyflawni twf economaidd

1.13 Rydym wedi adnabod sectorau hwyluso drwy'r Cynllun Twf i fynd i'r afael â rhwystrau economaidd allweddol a rhoi sylw i faterion strwythurol sydd wedi cael effaith ar gynhyrchedd a swyddi. Bydd cyflawni yn y sectorau hyn yn creu'r amodau priodol i fusnesau fuddsoddi yn y rhanbarth ac i'r farchnad lafur gymryd mantais ar gyfleoedd cyflogaeth newydd. Byddwn yn defnyddio dulliau mwy strategol i'n buddsoddiadau, gan sicrhau eu bod wedi'u targedu'n dda er mwyn hwyluso twf economaidd a thwf mewn cyflogaeth ledled y rhanbarth. Gwneir hyn mewn partneriaeth â phartneriaid allweddol, yn enwedig Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.

1.14 Mae'r prosiectau o fewn y Cynllun Twf i fynd i'r afael â rhwystrau allweddol i dwf yn canolbwyntio ar ddwy raglen allweddol:

- **Tir ac Eiddo**
- **Digidol**

Ffigwr 1.2 Rhaglenni'r Cynllun Twf





Ffynhonnell: Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru

1.15 Mae'r rhaglenni Sgiliau a Chyflogaeth a Thrafnidiaeth Strategol yn eistedd y tu allan i'r Cynllun Twf. Mae'r rhaglen yn parhau'n allweddol i gyflawni'r weledigaeth ehangach ar gyfer y Gogledd ac mae'r Bwrdd Uchelgais yn gweithio gyda'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol a thrwy ei Is-fwrdd Trafnidiaeth i adnabod a sicrhau ffynonellau cyllid amgen i gyflawni'r rhaglenni hyn.

1.16 Mae'r holl raglenni a phrosiectau yn cyfrannu ar gyflawni'r tri amcan gwario. Yn ogystal, maent yn cynhyrchu cyfres o fuddion sydd wedi cael eu dosbarthu fel buddion uniongyrchol, anuniongyrchol ac ehangach. Mae'r rhain wedi'u nodi yn Ffigwr 1.1. isod.

Ffigwr 1.3 Fframwaith Buddion




Ffynhonnell: Hatch

## Proffil Cyllid y Cynllun Twf

1.17 Mae proffil cyllid cyfalaf pob rhaglen wedi'i grynhoi yn nhabl 1 isod.

Tabl 1: Crynodeb Ariannol Cynllun Twf Gogledd Cymru

| Maes Rhaglen | Cyfraniad y Llywodraethau (£m) | Cyfraniad Cyhoeddus (£m) | Cyfraniad Preifat (£m) | Cyfanswm Costau'r Rhaglen (£m) |
|---|---|---|---|---|
| **Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel** | 13.0 | 26.5 | 0.0 | 39.5 |
| **Cysylltedd Digidol** | 37.0 | 3.1 | 1.6 | 41.7 |
| **Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth** | 24.5 | 12.4 | 4.4 | 41.3 |
| **Tir ac Eiddo** | 79.1 | 1.9 | 274.4 | 355.4 |
| **Ynni Carbon Isel** | 86.4 | 140.4 | 441.7 | 668.5 |
| **Cyfanswm** | **240.0** | **184.3** | **722.1** | **1,146.4** |

## Cyfraniadau Partner Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru

1.18 Nid oes unrhyw gyllid refeniw yn cael ei ddarparu drwy'r Cynllun Twf ar gyfer cyflawni'r prosiectau neu gostau rhedeg gweithredol y prosiectau unwaith y byddant wedi'u cwblhau. Mae'r cyllid refeniw i gefnogi'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn cael ei ddarparu drwy gyfraniadau partner y Bwrdd Uchelgais a (yn cynnwys cyfraniadau atodol awdurdodau lleol) ac mae cyllid ESF ychwanegol hefyd wedi'i sicrhau ar gyfer y tair blynedd weithredol gyntaf (o fis Mai 2020). Hefyd gellir defnyddio swm sydd gyfwerth â 'haenen uchaf' y grantiau llywodraeth blynyddol ar 1.5% i ariannu hyn, yn amodol ar hyblygrwydd Llywodraeth Cymru i reoli cyllid.

1.19 Mae cyfraniadau blynyddol y partneriaid tuag at gostau'r Swyddfa Rheoli Portffolio wedi'u nodi yn y tabl isod:

Tabl 2: Cyfraniadau blynyddol y partneriaid tuag at gostau'r Swyddfa Rheoli Portffolio

| | Cyfraniad Awdurdodau Lleol | Cyfraniadau Blynyddol AU/AB | Cyfanswm y Cyfraniadau Blynyddol |
|---|---|---|---|
| **Cyfraniadau Craidd Blynyddol** | £50k fesul ALl | *£25k fesul partner | £400k |
| **Cyfraniad Atodol Blynyddol*** | £40k fesul ALl | 0 | £240k |

** mae hwn wedi'i osod ar 50% o gyfraniad craidd yr Awdurdod Lleol fel y cytunwyd yn GA1 (i'w olynu gan GA2)*
*** mae'r cyfraniad hwn yn gyfraniad atodol y cytunwyd arno gan y Cynghorau yn unig*

1.20 Mae cyfraniad grant (£240m) y Cynllun Twf i Gynllun Twf Gogledd Cymru yn cael ei ddarparu gan Lywodraethau'r DU a Chymru mewn rhandaliadau blynyddol dros gyfnod o 15 mlynedd. Mae natur y taliadau grant hyn gan y llywodraethau yn arwain at fwlch

cyllido tymor canolig rhwng proffil gwariant disgwyliedig y Cynllun Twf a'r cyllid a dderbynnir gan y llywodraethau.

1.21 Bydd y Bwrdd Uchelgais, drwy Gyngor Gwynedd fel awdurdod lletya yn gyfrifol am reoli'r llif arian negyddol hwn. Yr awdurdodau lleol (yn gymesurol i'r boblogaeth) fydd yn cwrdd â'r gost ar gyfer prosiectau rhanbarthol y Bwrdd Uchelgais gydag arianwyr y prosiectau yn gyfrifol am y gost mewn perthynas â'u prosiect nhw.

1.22 Mae'r cyfanswm cyfraniadau (15 mlynedd) y bydd eu hangen gan bartneriaid Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, i alluogi cyflawni'r Cynllun Twf, wedi'u nodi fel ystod i bob partner. Mae'r senario achos gorau (fersiwn 1) a'r gwaethaf (fersiwn 2) isod ar gyfer y partneriaid yn adlewyrchu amseriad cwblhau'r Cynllun Twf ac amseru canlyniadol cyllid grant y llywodraethau. Byddai angen i unrhyw gynnydd arfaethedig mewn cyfraniadau cytûn gael ei gymeradwyo fel mater a gedwir yn ôl. Dengys y tabl isod gyfanswm y cyfraniadau dros y cyfnod o 15 mlynedd. Dangosir cyfraniadau blynyddol yn y prif adroddiad yn adran 10.7.

| Fersiwn | Prifysgol Bangor | Prifysgol Glyndwr | Grŵp Llandrillo Menai | Coleg Cambria | Partneriaid Masnachol eraill | Conwy | Sir Ddinbych | Sir y Fflint | Gwynedd | Ynys Môn | Wrecsam | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £m | £m | £m | £m | £m | £m | £m | £m | £m | £m | £m | £m |
| 1 | 1.40 | 0.51 | 0.75 | 0.52 | 2.29 | 1.17 | 0.96 | 1.56 | 1.24 | 0.70 | 1.36 | 12.46 |
| 2 | 1.99 | 0.73 | 1.07 | 0.74 | 3.24 | 1.67 | 1.36 | 2.22 | 1.77 | 1.00 | 1.94 | 17.73 |

## Llywodraethu'r Cynllun Twf

1.23. Wedi sicrhau'r Cynllun Twf, mae'r Partneriaid wedi cytuno i ymrwymo i ail Gytundeb Llywodraethu (GA2) a fydd yn cefnogi'r bartneriaeth i wedd nesaf gweithredu'r Cynllun Twf a datblygu'r Weledigaeth Twf ymhellach.

1.24 Mae'r cytundeb, sy'n ddogfen sydd wedi'i rhwymo mewn cyfraith, yn diffinio rôl a swyddogaeth Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, a'i bwerau dirprwyedig. Yn ogystal, mae'n darparu ar gyfer ei strwythurau gwneud penderfyniadau ac atebolrwydd democrataidd. Gwneir darpariaeth ar gyfer ymrwymiadau'r partneriaid i'r prosiectau a sut caiff y rhain eu rheoli a'u dosrannu. Mae GA2 yn rhoi sicrwydd i Gyngor Gwynedd, yr awdurdod lletya, wrth gymryd y rôl honno. Yn ogystal, rhoddir sylw i'r trefniadau gwaelodol sy'n darparu ar gyfer materion cyfreithiol a chydymffurfio o fewn y bartneriaeth a llywodraethu'r Swyddfa Rheoli Perfformiad.

1.25 Mae GA2 yn ddogfen allweddol, sy'n rhoi strwythur a sylfaen glir, er mwyn bwrw ymlaen â gweithredu'r Cynllun Twf.

1.26 Mae Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru wedi mabwysiadu model cyflawni sy'n seiliedig ar ddull arfer gorau ar gyfer rheoli'r portffolio, y rhaglenni a'r prosiectau ac mae wedi sefydlu Swyddfa Rheoli Portffolio i gyflawni'r Cynllun Twf.

1.27 Bydd perfformiad y rhaglen a'r prosiect yn cael ei fonitro'n fisol drwy'r byrddau rhaglen a phrosiect perthnasol, gydag adroddiadau ffurfiol yn cael eu cyflwyno bob chwarter i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, eu partneriaid a Llywodraethau'r DU a Chymru.

## 2. Pwrpas


2.1 Y Cynllun Busnes Cyffredinol (OBP) hwn yw'r sail y mae'r Partneriaid yn ymrwymo i Gynllun Twf Gogledd Cymru arni (*y cyfeirir ato o hyd ymlaen fel y Cynllun Twf*). Mae'r isod yn rhoi trosolwg o'r Cynllun Twf gan gynnwys y rhaglenni a'r prosiectau sydd i'w cyflawni. Mae'n nodi beth fydd y Cynllun Twf yn ei gyflawni yn nhermau allbynnau a buddion i'r rhanbarth, cyfraniadau ariannol pob partner a threfniadau rheoli perfformiad a llywodraethu i sicrhau y cyflawnir y Cynllun Twf.

## 3. Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru

3.1 Sefydlwyd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel y Bwrdd Uchelgais) yn 2012 fel partneriaeth rhwng chwe ardal awdurdod lleol rhanbarth Gogledd Cymru, sef Cynghorau Gwynedd, Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Wrecsam a Sir y Fflint. Mae'r Bwrdd hefyd yn cynnwys Prifysgol Bangor, Prifysgol Glyndŵr, Coleg Cambria a Grŵp Llandrillo Menai.

3.2 Ar ddechrau 2019, sefydlwyd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn ffurfiol fel cyd-bwyllgor yn sgil mabwysiadu Cytundeb Llywodraethu 1 (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel GA1) gan y bartneriaeth. Mae GA1 yn nodi'r fframwaith y byddai'r Bwrdd yn gweithredu o'i fewn er mwyn sicrhau'r Cynllun Twf.

Ffigwr 3.1 Map o Ogledd Cymru a Phartneriaid y Bwrdd Uchelgais




3.3 Mae'r Cynllun Twf yn bartneriaeth rhwng y sectorau cyhoeddus a phreifat. Mae Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy wedi bod yn cynrychioli'r sector preifat yn gryf iawn ac, fel un o sylfaenwyr y Bwrdd Uchelgais, maen nhw wedi gweithio'n agos

iawn gyda phartneriaid a rhanddeiliaid rhanbarthol o'r sector preifat a'r sector cyhoeddus i ffurfio a dylanwadu ar gynnig y Cynllun Twf. Fel cynrychiolydd sefydliadau eraill gan gynnwys y Siambr Fasnach, Conffederasiwn Diwydiant Prydain (y CBI) a Ffederasiwn y Busnesau Bach (yr FSB), mae eu hymrwymiad gweithredol wrth ffurfio'r cynllun twf wedi bod yn amhrisiadwy. Ers 3 Awst 2020, yn sgil herio a achoswyd gan Covid-19, mae'r Cyngor Busnes wedi tynnu eu haelodaeth yn ôl. Mae'r Cyngor Busnes yn parhau'n rhanddeiliad allweddol a byddant yn bartner hanfodol, yn fwy strategol ac yn llai gweithredol, wrth symud ymlaen.

3.4 Mae cynrychiolaeth gref i'r sector preifat o hyd yn y Cynllun Twf drwy'r Grŵp Cyflawni Busnes sy'n gweithredu fel corff ymgynghorol annibynnol i'r Bwrdd Uchelgais.

# 4. Cefndir i Gynllun Twf Gogledd Cymru

4.1 Daeth Cynlluniau Twf i'r amlwg yn gyntaf yn sgil llywodraeth glymbleidiol San Steffan rhwng 2010 a 2015 fel rhan o'i gynllun hirdymor i roi hwb i economïau lleol. Diben y Cynlluniau Dinasoedd a Thwf yw cefnogi dinasoedd a rhanbarthau i gyflawni strategaethau lleol ymatebol a hyblyg. Maent wedi'u dylunio i hyrwyddo datganoli a symbylu twf economaidd a lleol drwy roi mwy o bŵer a hyblygrwydd i ranbarthau, er mwyn gwneud yr achos dros fuddsoddiad a gyrru gweithgaredd a thwf economaidd cynhwysol.

4.2 Mewn ymateb i'r polisi hwn, sefydlwyd y Bwrdd gan bartneriaid ledled y Gogledd yn 2012 er mwyn datblygu ymagwedd ranbarthol i dwf economaidd ac er mwyn rhoi sylw i'r heriau a'r rhwystrau sy'n wynebu economi'r Gogledd.

4.3 Yn 2016, mabwysiadodd partneriaid y Bwrdd Uchelgais Weledigaeth Twf ar gyfer Economi Gogledd Cymru (y Weledigaeth Twf).

4.4 Y Weledigaeth sydd wedi’i mabwysiadu yw datblygu “rhanbarth hyderus, cydlynol sydd â thwf economaidd cynaliadwy, sy’n elwa i’r eithaf o lwyddiant sectorau economaidd gwerth uchel a’n cysylltiad ag economïau Pwerdy’r Gogledd ac Iwerddon."

4.5 Seiliwyd y Weledigaeth Twf ar dair egwyddor allweddol:

- **Gogledd Cymru Blaengar** - gan ganolbwyntio ar arloesedd mewn sectorau economaidd gwerth uchel i symud perfformiad economaidd ymlaen.
- **Gogledd Cymru Gwydn** - gan ganolbwyntio ar gadw pobl ifanc, codi lefelau cyflogaeth a gwella sgiliau er mwyn cyflawni twf cynhwysol.
- **Gogledd Cymru Cysylltiedig** - gan ganolbwyntio ar wella isadeiledd trafnidiaeth a digidol er mwyn gwella cysylltedd strategol i'r rhanbarth ac o'i fewn.

4.6 Yng Nghyllideb yr hydref 2017, datganodd Llywodraeth y DU y byddai'n dechrau trafodaethau i gytuno ar Gynllun Twf i Ogledd Cymru. Yn dilyn y datganiad hwn, gweithiodd y Bwrdd Uchelgais ar y cyd gyda Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a chynrychiolwyr o'r sectorau cyhoeddus a phreifat i ddatblygu Cynllun Twf Gogledd Cymru, a amlinellwyd yn y Ddogfen Gynnig.

4.7 Yn seiliedig ar Strategaeth y Weledigaeth Twf, cytunwyd ar y Ddogfen Gynnig gan bartneriaid y Bwrdd Uchelgais ym mis Hydref 2018. Gosododd hyn becyn arfaethedig

o 24 o brosiectau trawsffurfiol ar draws naw rhaglen strategol, gan geisio £334.5m o arian cyfalaf a £8m o arian refeniw gan y Cynllun Twf. Cafodd y rhaglenni eu diffinio fel grŵp o brosiectau cysylltiedig sydd wedi'u rheoli mewn ffordd gydlynol i sicrhau buddion a chyflawni'r Weledigaeth a'r Nodau cyffredinol.

4.8 Yng Nghyllideb yr hydref 2018, bu i Ganghellor y Trysorlys, y Gwir Anrhydeddus Phillip Hammond AS, gyhoeddi £120 miliwn o gyllid ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru. Bu i Lywodraeth Cymru gadarnhau y byddai'n cynnig arian cyfatebol i gyfraniad ariannol Llywodraeth y DU at Gynllun Twf Gogledd Cymru, gan sicrhau ymrwymiad o £240m fel cyfraniad grant mewn cyllid cyfalaf gan y llywodraethau.

4.9 Yn dilyn y cyhoeddiad hwn ac mewn ymateb i ddymuniad Llywodraeth y DU i weld portffolio wedi'i gydgrynhoi o brosiectau uchelgeisiol, a chan fod yr arian a ymrwymwyd yn llai na sgôp gwreiddiol y cynnig ac yn gyllid cyfalaf yn unig, datblygodd a chytunodd y Bwrdd Uchelgais ar Gynllun Gweithredu Drafft, gan nodi pecyn wedi'i liflinio o 14 o brosiectau trawsffurfiol, a gyflwynwyd i'r ddwy lywodraeth ym mis Mawrth 2019.

4.10 Daeth y Cynllun Gweithredu Drafft yn sail i'r cytundebau Penawdau'r Telerau a lofnodwyd gan y ddwy lywodraeth ym mis Tachwedd 2019, a sicrhau, mewn egwyddor, £240m o gyllid cyfalaf i Gynllun Twf Gogledd Cymru. Roedd y Penawdau'r Telerau yn ymrwymo'r holl bartïon i gwblhau Cytundeb Terfynol o fewn 12-15 mis, a fyddai, wedi'i gyflawni, yn gweld cyllid yn cael ei ryddhau o'r llywodraethau i'r rhanbarth. Mae'r achos busnes cyffredinol hwn yn ffurfio rhan o'r broses y cytunwyd arni i gyflawni'r Cytundeb Terfynol.

# 5. Yr Achos dros Newid

## Economi Gogledd Cymru

5.1 Mae bwlch cynhyrchedd parhaus a chynyddol yn dal i fodoli rhwng y Gogledd a'r DU gydag amrywiadau eang yn y GVA (Gwerth Ychwanegol Crynswth) cyfartalog y pen ledled y rhanbarth. Mae mynd i'r afael â'r anghyfartaledd hwn yn flaenoriaeth bwysig i'r Cynllun Twf.


5.2 Mae Gogledd Cymru yn gartref i bron i 700,000 o drigolion ac mae'n cyfrannu £14.2 biliwn i economi'r DU bob blwyddyn,[3] gan gynrychioli 22% o economi Cymru.[4] Mae'r perfformiad economaidd wedi bod yn wydn yn dilyn yr argyfwng ariannol ac yn ystod y cyfnod o lymder, gyda gwir[5] GVA yn cynyddu 20% ers 2009. Mae hyn o gymharu â 14.9% yn Rhanbarth Dinas Bae Abertawe a 12.6% yn ardal Cynllun Twf Canolbarth Cymru.

3 Mesurwyd gan Werth Ychwanegol Crynswth (GVA). Ffynhonnell: ONS, data 2018.

4 https://statswales.gov.wales/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/Regional-Accounts/Gross-Value-Added-GDP/gva-by-measure-welsheconomicregion-year

5 h.y. wedi'i addasu o ran chwyddiant.


Ffigwr 5.1 Gwir Dwf GVA ers 2009 mewn detholiad o leoliadau yn y DU




Ffynhonnell: GVA rhanbarthol, ONS, 2018

5.3 Er hynny, mae bwlch cyson a chynyddol mewn cynhyrchedd yn parhau yn y DU. Mae GVA cyfartalog y pen oddeutu 28% yn is na chyfartaledd y DU, yn £20,400 y flwyddyn. Unwaith y diystyrir Llundain a de-ddwyrain Lloegr, mae'r bwlch hwn yn gostwng, ond erys yn 16%.

Ffigwr 5.2 GVA y pen (£) 1998-2018





Ffynhonnell: GVA rhanbarthol, ONS, 2018

5.4 Yn y Gogledd, mae amrywiadau eang mewn GVA y pen, gyda chynhyrchedd penodol wan yn Ynys Môn (53% o gyfartaledd y DU), ond gyda pherfformiad cryfach yn Sir y Fflint a Wrecsam (y ddau yn 81% o gyfartaledd y DU).[6] Mae hyn hefyd yn cael ei

6 https://statswales.gov.wales/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/Regional-Accounts/Gross-Value-Added-GDP/gvaperhead-by-area-year

adlewyrchu mewn enillion cyfartalog, sydd ymhell o gyfartaledd y DU. Yn wir, mae enillion cyfartalog rhai awdurdodau lleol yn y Gorllewin ymhlith yr isaf yng Nghymru a'r DU.

Ffigwr 5.3 GVA y Pen (£), 2018





Ffynhonnell: GVA rhanbarthol, ONS, 2017

5.5 O ganlyniad i'r cynhyrchedd is ym Môn, Gwynedd, Conwy a Sir Ddinbych, mae'r ardaloedd hyn wedi bod yn gymwys yn y gorffennol ar gyfer y lefel uchaf o ymyrraeth arian strwythurol yr Undeb Ewropeaidd.

## Sectorau Allweddol

**5.6 Mae cefnogi sectorau gwerth uchel ac ymdrin â'r rhwystrau hir-dymor i dwf wrth galon Cynllun Twf Gogledd Cymru.**

5.7 Mae economi'r Gogledd yn amrywiol a'r sectorau allweddol yw gweithgynhyrchu, ynni a thwristiaeth yn ogystal â swyddi yn y sector cyhoeddus. Mae'r sector cyhoeddus yn cyfrif am bron i chwarter (24.7%) o GVA y rhanbarth. Mae gweithgynhyrchu yn cyfrif am 1/5 (20.3%) o'r economi, sy'n llawer pwysicach yng Ngogledd Cymru nag yng Nghymru'n gyffredinol (lle mae'n cyfrif am 17% o GVA). Mae cyfanwerthu a manwerthu, trafnidiaeth, gwestai a'r sector bwyd yn cyfrif am 17% o economi'r Gogledd. Mae'r siart isod yn dangos trawstoriad o gyfraniad y diwydiant at GVA 2018 yn y Gogledd.




5.8 Mae cyfran o'r bwlch cynhyrchedd yn cael ei briodweddu gan strwythur sectorau economi'r Gogledd, gyda rhai ardaloedd yn benodol ddibynnol ar sectorau sydd â chyflogau cymharol isel, gan gynnwys twristiaeth a manwerthu. Ar yr un pryd, mae rhai cryfderau, gyda 64,000 o bobl yn gyflogedig mewn sectorau gwerth uchel, a ddiffinnir fel gweithgynhyrchu, gwybodaeth a chyfathrebu; a gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol.

5.9 Yn benodol, mae'r Bwrdd Uchelgais yn cydnabod y potensial arwyddocaol a gynigir gan sectorau gwerth uchel a sylfaen, yn cynnwys:

- **Gweithgynhyrchu uwch**: Mae 36,000 o bobl yn gweithio mewn gweithgynhyrchu uwch yn y Gogledd, gyda chryfderau penodol mewn awyrofod, cerbydau modur, cemegolion a fferyllol, peirianneg, opro-electronig, bwyd a diod a metel a dur.[7] Mae hyn yn cynnwys prif gyflogwyr megis Airbus a Toyota, a meysydd o ragoriaeth ymchwil ac arloesedd o fewn prifysgolion y rhanbarth. Mae AMRC Cymru (Canolfan Ymchwil a Gweithgynhyrchu Uwch), cyfleuster ymchwil a datblygu gwerth £20 miliwn gyda'r offer diweddaraf a agorwyd yn ddiweddar ym Mrychdyn, wedi'i ddisgrifio gan weinidogion Llywodraeth Cymru fel "*game changer*" ar gyfer y rhanbarth.
- **Ynni carbon isel:** Amcangyfrifir bo 16,750 o bobl yn gweithio mewn cwmnïau amgylcheddol ac ynni arbenigol yn y Gogledd yn 2016. Mae Cymru wedi ymrwymo i ostyngiad o 95% mewn allyriadau carbon erbyn 2050. Mae'r Gogledd eisoes yn hwb ar gyfer cynhyrchu ynni carbon isel, gyda chyfwerth â 82% o'i ddefnydd o drydan eisoes yn dod o ffynonellau adnewyddadwy lleol. Mae'r rhanbarth yn gartref i dros draean o gapasiti ynni adnewyddadwy Cymru ac mae yma hefyd ddau safle trwyddedig niwclear, Wylfa a Thrawsfynydd. Mae daearyddiaeth, adnoddau naturiol a threftadaeth cynhyrchu ynni'r rhanbarth yn golygu bod yma gyfleoedd unigryw i ddefnyddio amrediad eang o dechnolegau carbon isel, gydag adnoddau i gynyddu'r cynhyrchu ynni gwynt ar y môr ac ar y tir, ynni ffrwd llanw, ynni amrediad llanw, ynni dŵr, ynni solar a chynhyrchu niwclear y genhedlaeth newydd.

7 Ffynhonnell: Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru

Mae hyn yn cael ei ategu gan alluedd ymchwil ac arloesedd arwyddocaol, yn cynnwys y Sefydliad Dyfodol Niwclear ym Mhrifysgol Bangor.

- **Bwyd-Amaeth**: Mae bwyd-amaeth yn gonglfaen ar gyfer economi Gogledd Cymru, ac yn cyflogi oddeutu 20,900 o bobl ac yn cyfrannu £370m mewn GVA.[8] Mae 1/5 o holl fusnesau Gwynedd a Môn yn rhai amaethyddol. Roedd Llywodraeth Cymru'n bwriadu cynyddu gwerthiant yn y diwydiant Bwyd a Diod 30% i £7 biliwn erbyn 2020[9]. Mae'r Cynllun Gweithredu diwygiedig wrthi'n mynd drwy broses ymgynghori, fodd bynnag, mae'r Cynllun Gweithredu newydd yn gosod targedau uchelgeisiol ar gyfer y sector Bwyd a Diod. Mae hyn yn cynnwys sicrhau y bydd trosiant y Sector Bwyd a Diod yn tyfu'n flynyddol i gyd-fynd â'r newid y Fynegai Pris Defnyddwyr (CPI), yn ogystal â 2% ychwanegol.
- **Twristiaeth**: Mae twristiaeth yn sector arall hir-sefydlog a hanfodol ar gyfer economi'r Gogledd, gydag oddeutu 37,200 o bobl yn gweithio mewn twristiaeth a lletygarwch yn y rhanbarth, gan gynrychioli 12% o'r gweithlu. Mae'r sector wedi gweld cynnydd mewn ymweliadau a gwariant yn y blynyddoedd diweddar, gyda chynnydd o 4% mewn tripiau a chynnydd o 10% mewn gwariant rhwng 2013-2015 a 2014-2016.[10] Gwelwyd twf i'w groesawu mewn twristiaeth antur, gan fanteisio ar y dirwedd ôl-ddiwydiannol ac asedau naturiol yr ardal. Yn ôl y data crynodeb STEAM diweddaraf sydd ar gael ar gyfer y Gogledd, mae cyfanswm effaith economaidd twristiaeth i economi'r Gogledd bellach yn £3.69biliwn.
- **Digidol**: mae effaith ddyfnach digideiddio yn golygu bod technoleg yn tarfu'n gynyddol ac yn werthfawr i economi'r Gogledd, gan fod yn yrrwr cynhyrchedd a'r elfen gystadleuol. Er bod y sector digidol wedi sefydlu ei hun fel cynhyrchydd pwysig o allbwn cyflogaeth ac economaidd, mewn realiti, mae sylfaen llawer ehangach o sectorau wedi cael ei siapio gan dechnolegau a phrosesau digidol. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu mewn polisi - mae llywodraethau'r DU a Chymru yn cefnogi'r sector, o fewn Strategaethau Digidol perthnasol, gan gyd-fynd â'r cyfle i fanteisio ar dwf digidol fel y nodir yn Strategaeth Ddiwydiannol y DU. Ystyrir bod sicrhau bod gan fusnesau a chymunedau fynediad at gysylltedd digidol o'r radd flaenaf, yn sefydlog a symudol, yn allweddol i ddatgloi'r Gogledd a'i botensial am dwf.

## Y boblogaeth a'r farchnad lafur

5.10 **Mae buddsoddi yn y sgiliau sy'n cyd-fynd ag anghenion cyfleoedd cyflogaeth newydd y rhanbarth yn sylfaenol i iechyd economaidd y Gogledd yn y dyfodol.**

5.11 Mae poblogaeth sy'n heneiddio ledled y rhanbarth a thraddodiad o ddoniau yn symud allan o'r rhanbarth. Er y disgwylir i boblogaeth y Gogledd gynyddu i 7,22,317 erbyn 2039, mae disgwyl i gyfran y boblogaeth sy'n 65 oed neu hŷn gynyddu o 23.6% o 29.8%. Mae hyn yn golygu cyfran lai o bobl oedran gweithio, a allai roi pwysau ar y cyflenwad sgiliau.

---

8 Ffynhonnell: Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru; Labour Market Insights, Mehefin 2020

9 Ffynhonnell: Cynllun Gweithredu ar gyfer Bwyd a Diod Llywodraeth Cymru

10 Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru Awst 2018 'Tourism Profile - North Wales (2014-2016)'

5.12 Roedd y gyfradd cyflogaeth ymysg trigolion oedran gweithio yn y Gogledd yn 75.9% ym mis Mawrth 2020, oedd yr un fath â'r DU. Dros 5 mlynedd, rhwng mis Mawrth 2015 a mis Mawrth 2020, ychwanegwyd 18,300 o swyddi i'r economi, twf o 6.2 y cant ar gyfer y rhanbarth. Mae effeithiau penodol COVID-19 ar economi'r Gogledd a'r Cynllun Twf yn adran 4.21-4.23.

## Safleoedd ac eiddo

**5.13 Bydd rhaglen y Cynllun Twf yn mynd i'r afael â'r prinder safleoedd ac eiddo yn y rhanbarth ac yn buddsoddi i alluogi twf Porthladd Caergybi.**

5.14 Mae ymchwil diweddar wedi tynnu sylw at ddiffyg gofod diwydiannol a chyflogaeth gyfoes ledled y rhanbarth. Er bod parciau busnes wedi'u lleoli ar hyd yr A55 a thir ar gael i'w ddatblygu, mae cyfyngiadau dosbarth defnydd cynllunio a maint y lleiniau, ynghyd â diffyg cyllid datblygu a gwerth eiddo sy'n is na'r costau adeiladu, wedi golygu nad oes llawer o ddatblygiad wedi digwydd ynddynt ers 2008. Bu i adolygiad diweddar a gynhaliwyd gan Jones Lang LaSalle (JLL, ymgynghoriaeth eiddo blaengar) i Lywodraeth Cymru ganfod mai rhwydwaith cymharol wan a darniog o safleoedd strategol oedd modd eu datblygu ar unwaith, fyddai'n gallu cefnogi twf busnes cynhenid a mewnfuddsoddiad, sydd ar gael.[11] Mae'r adroddiad SQW ar gyfer Llywodraeth Cymru a gwblhawyd ym mis Mawrth 2020 yn cadarnhau casgliadau adroddiad JLL.

## Porthladd Caergybi

5.15 Mae Porthladd Caergybi yn cynnig arwyddocâd strategol ac economaidd i Ogledd Cymru a'r DU. Y Porthladd yw'r ail borthladd llongau Ro-Ro prysuraf yn y DU: yn 2018 bu i'r Porthladd ymdrin â 75% o deithwyr, 71% o gerbydau teithwyr ac 81% o gerbydau llwyth oedd yn pasio drwy borthladdoedd Cymru i Iwerddon[12]. Porthladd Caergybi sydd â'r ail nifer uchaf o groesiadau fferi byr yn ôl cyfanswm teithwyr yn y DU.[13] Stena Line Ports Limited, sydd hefyd yn gweithredu fel yr Awdurdod Porthladd statudol, yw Perchnogion a Gweithredwyr y Porthladd.

5.16 Caergybi-Dulyn yw'r prif gyswllt fferi i Weriniaeth Iwerddon o'r DU ac mae'n gwasanaethu marchnadoedd Gogledd Cymru a Chanolbarth a Gogledd Lloegr yn bennaf ac ar hyn o bryd fe'i gweithredir gan Stena Line ac Irish Ferries. Mae defnydd y porthladd gan longau mordaith wedi cynyddu'n sylweddol dros y degawd diwethaf o 18 o ymweliadau yn 2013 i 51 yn 2018[14], yn yr un cyfnod, bu i ymweliadau gan deithwyr gynyddu o 15,000 i 50,000 [15].

5.17 Mae cynllun Porth Caergybi yn gyfres o fuddsoddiadau wedi'u targedu i roi sylw i asedau sydd wedi cyrraedd diwedd eu hoes ond sy'n hanfodol i weithrediad y

---

11 Ffynhonnell : JLL (2017) Priority Property Interventions for Economic Development Report.

12 DfT Port Freight Stats 2019

13 DfT Port Freight Stats 2019

14 Stena Lina Ports, 2018

15 Stena Line Ports, 2018

porthladd a chynyddu capasiti ar gyfer symudiadau cerbydau a llongau ar gyfer traffig teithwyr a nwyddau.

## Cysylltedd Digidol

**5.18 Mae gwella cysylltedd digidol yn flaenoriaeth bwysig i ddatgloi twf economaidd.**

5.19 Mae'r galw am fand eang cyflym iawn a chysylltedd symudol yn y Gogledd wedi dal i fyny â'r cyflenwad. Fodd bynnag, yn hanesyddol, mae isadeiledd y rhanbarth wedi bod ar ôl gweddill y DU yn nhermau darpariaeth signal a chapasiti.

5.20 Gyda dyfodiad technoleg ffibr-opting a oedd ar gael yn fasnachol tuag at ddiwedd yr 20fed ganrif, mae potensial i ehangu'r 'bwlch digidol' gynyddu'n gyflym. Yn enwedig lle gall y gwahaniaeth mewn lled band fforddiadwy bellach fod yn 100oedd o Megabits yr eiliad o'i gymharu â rhanbarthau eraill (e.e. 4.9% o eiddo yn Sir Ddinbych sydd ag argaeledd cyflym iawn ar >100Mbps o gymharu â 49% yng Ngogledd Orllewin Lloegr). Mae pob un o'r pedair sir yn y Gogledd-orllewin yn dod yn 25% isaf ardaloedd y DU ar gyfer darpariaeth band eang Cyflym Iawn (>30Mbps).

## Effaith economaidd COVID-19

5.21 Mae Covid-19 wedi cael effaith economaidd syfrdanol ar y Gogledd, yn yr un modd â rhannau eraill o'r DU ac yn fyd-eang. Mae'r Bwrdd Uchelgais Economaidd yn gweithio'n agos gyda'r chwe awdurdod lleol, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU a chynrychiolwyr o'r sector preifat i gydlynu'r ymateb rhanbarthol i adfer yr economi. Nid yw'n hysbys eto beth yw effeithiau tymor hwy Covid-19 ar yr economi rhanbarthol.

5.22 Mae gwaith ar y gweill i ddiffinio dadansoddiad sefyllfaol i ddisgrifio cyflwr yr economi yn y Gogledd yn ystod yr hyn sydd wedi bod yn gyfnod cyfnewidiol a heriol i fusnesau a gweithwyr ar draws sawl sector. Mae'r cyfnod hwn o ansicrwydd a achoswyd gan y parndemig yn parhau a chyda'r cyfnod trosiannol ar gyfer gadael yr UE yn dod i ben ar 31 Rhagfyr, mae'r gaeaf yn edrych yn llwm. Yn nhermau cryfhau'r economi yn yr hir-dymor, bydd y Cynllun Twf yn ffynhonnell dda o obaith a buddsoddiad i ddinasyddion y Gogledd.

5.23 Mae'r ymyraethau sydd eisoes wedi'u cymryd a'u cynllunio i greu ymagwedd ddibynadwy ac ar sail tystiolaeth i'r dadansoddiad sefyllfaol yn cynnwys arolwg rhanbarthol o fusnesau a wnaeth ddenu dro 1,800 o ymatebion. Adroddiad a gomisiynwyd ar dwristiaeth i adnabod y cryfderau, y gwendidau a'r cyfleoedd i warchod ac adfywio a datblygu'r economi twristiaeth yn gynaliadwy. Penodi partner economaidd annibynnol i gyd-ddatblygu'r dadansoddiad sefyllfaol a'r fframwaith ar gyfer cynllunio adfer ar gyfer y Gogledd. Gan edrych i ddechrau ar adfer yr economi yn y tymor agos ar ôl Covid ond gan gydnabod yr angen i fesur a gwerthuso effaith buddsoddiad y Cynllun Twf ar economi'r Gogledd yn yr hir-dymor drwy gydol oes y cynllun twf.

5.24 Mae'r Cynllun Twf wedi'i ddylunio i fynd i'r afael â rhwystrau strwythurol, hir-dymor sy'n atal twf economaidd. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd yn gwbl ymwybodol yn y byr-dymor y bydd angen amrediad o gamau gweithredu er mwyn hwyluso adferiad ac mae sicrhau bod y mesurau byr-dymor hynny'n cyd-fynd â'r Cynllun Twf yn allweddol.

5.25 Ni all y Cynllun Twf ar ei ben ei hun fynd i'r afael â'r holl heriau sy'n wynebu economi'r Gogledd, yn enwedig yng ngoleuni COVID-19. Fodd bynnag, bydd y chwistrelliad

sylweddol o fuddsoddiad cyfalaf i economi'r Gogledd o du'r Cynllun Twf yn hwb arwyddocaol i'r sectorau adeiladu a chysylltiedig a hynny ar adeg pan mae'n debygol y bydd capasiti dros ben yn yr economi.

# 6. Rhaglenni'r Cynllun Twf

6.1 Nod y Cynllun Twf yw adeiladu economi mwy bywiog, cynaliadwy a gwydn yn y Gogledd, gan adeiladu ar ein cryfderau i roi hwb i gynhyrchedd wrth fynd i'r afael â heriau a rhwystrau economaidd hir-dymor i gyflawni twf cynhwysol. Mae ein dulliau gweithredu i gyflawni twf mewn ffordd gynhwysol, gynaliadwy, y gellir ei ymestyn yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r Cynllun Twf yn seiliedig ar gyflawni 14 o brosiectau trawsffurfiol ar draws pum rhaglen. Mae'r rhaglenni wedi'u diffinio fel naill ai rhaglenni twf uchel neu raglenni hwyluso.

## Sectorau Twf Uchel i yrru cynhyrchedd yn y rhanbarth

6.2 Bydd y prosiectau o fewn y Cynllun Twf wedi'u hanelu at gynyddu gwerth ac effaith y sectorau twf uchel yn canolbwyntio ar dair prif raglen:

- **Ynni carbon isel**
- **Arloesi mewn gweithgynhyrchu gwerth uchel**
- **Bwyd-amaeth a thwristiaeth**

## Mynd i'r afael â'r rhwystrau allweddol i hwyluso a chyflawni twf economaidd

6.3 Rydym wedi adnabod sectorau hwyluso drwy'r Cynllun Twf i fynd i'r afael â rhwystrau economaidd allweddol a rhoi sylw i faterion strwythurol sydd wedi cael effaith ar gynhyrchedd a swyddi. Bydd cyflawni yn y sectorau hyn yn creu'r amodau priodol i fusnesau fuddsoddi yn y rhanbarth ac i'r farchnad lafur gymryd mantais ar gyfleoedd cyflogaeth newydd. Byddwn yn defnyddio dulliau mwy strategol i'n buddsoddiadau, gan sicrhau eu bod wedi'u targedu'n dda er mwyn hwyluso twf economaidd a thwf mewn cyflogaeth ledled y rhanbarth. Gwneir hyn mewn partneriaeth â phartneriaid allweddol, yn enwedig Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.

6.4 Mae'r prosiectau o fewn y Cynllun Twf i fynd i'r afael â rhwystrau allweddol i dwf yn canolbwyntio ar ddwy raglen allweddol:

- **Tir ac Eiddo**
- **Digidol**

6.5 Drwy ganolbwyntio ar gyflawni'r rhaglenni hyn ar y cyd, bydd y Bwrdd yn llwyddo i gael effaith well yn nhermau ein huchelgais a'n defnydd o adnoddau yn hytrach na'u cyflawni nhw ar wahân.


6.6 Mae dwy raglen hwyluso pellach yn eistedd y tu allan i sgôp Cynllun Twf Gogledd Cymru yn sgil cyfyngiadau ariannu:

- **Sgiliau a Chyflogaeth -** Nod y rhaglen hon yw mynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd a chyflawni gwasanaeth cyngor a chefnogaeth gydlynol ar sgiliau a chyflogaeth yn y rhanbarth.

- **Trafnidiaeth Strategol -** Nod y rhaglen hon yw wyluso gwell hygyrchedd a chysylltedd i'r rhanbarth ac o'i fewn.

6.7 Mae'r rhaglen yn parhau'n allweddol i gyflawni'r weledigaeth ehangach ar gyfer y Gogledd ac mae'r Bwrdd Uchelgais yn gweithio gyda'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol a thrwy ei Is-fwrdd Trafnidiaeth i adnabod a sicrhau ffynonellau cyllid amgen i gyflawni'r rhaglenni hyn.

Ffigwr 6.1 Rhaglenni'r Cynllun Twf




Ffynhonnell: Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru

6.8 Bydd pob un o'r rhaglenni a'r prosiectau o fewn y Cynllun Twf yn cyfrannu at gyflawni'r Weledigaeth Twf a chyflawni buddion i'r Gogledd. Bydd y buddion o'r Cynllun Twf yn cefnogi twf cynaliadwy a chynhwysol ledled y rhanbarth - yn unol â'r Weledigaeth Twf ynghyd â blaenoriaethau Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

## Crynodeb o'r Rhaglenni

6.9 Gweler isod grynodeb o'r amcanion strategol i roi sylw iddynt ymhob rhaglen, a'r mathau o ymyraethau y maent yn bwriadu eu hwyluso.

| |
|---|
| **Ynni carbon isel**<br>**Amcanion strategol**: Datgloi buddion economaidd prosiectau ynni carbon isel trawsffurfiol a sefydlu Gogledd Cymru fel un o leoliadau arweiniol y DU ar gyfer cynhyrchu ynni carbon isel, arloesedd a buddsoddi yn y gadwyn gyflenwi.<br>**Mathau o ymyrraeth**: Gwaith hwyluso ar gyfer cynhyrchu ynni carbon isel newydd, gan wella cyfleusterau ymchwil ac arloesedd ar gyfer y sectorau economi carbon isel, datgarboneiddio trafnidiaeth a chefnogaeth ar gyfer y prosiectau ynni lleol. |
| |

### Arloesi mewn gweithgynhyrchu gwerth uchel

**Amcanion strategol**: Cyfnerthu lleoliad Gogledd Cymru fel clwstwr gweithgynhyrchu gwerth uchel pwerus ac arloesol, sy'n adeiladu ar arbenigedd presennol ac arbenigedd byd-eang i greu sail economaidd gwerth uwch, mwy amrywiol sy'n cefnogi trosglwyddo i economi carbon isel.

**Mathau o ymyrraeth**: Cydweithrediadau diwydiant ac ymchwil, ynghyd â sefydlu canolfannau rhagoriaeth mewn technolegau a dargedir er mwyn helpu i oresgyn rhwystrau a methiannau yn y farchnad yn y broses masnacheiddio ymchwil.

### Bwyd-amaeth a thwristiaeth

**Amcanion strategol**: Adeiladu economi sylfaen mwy cynaliadwy, bywiog a gwydn o fewn y rhanbarth, gan wneud y gorau o gyfleoedd am gyflogaeth a ffyniant drwy ein hamgylchedd a'n tirwedd.

**Mathau o ymyrraeth**: Cyflwyno technolegau newydd ac arloesedd, sgiliau ac ymarferion yn y sectorau hyn, drwy gefnogaeth busnes ac uwchsgilio.

### Tir ac eiddo

**Amcanion strategol**: Mynd i'r afael â'r diffyg tir ac eiddo addas ar gyfer twf busnes a dod â safleoedd ymlaen ar gyfer datblygiadau tai a chyflawni gwelliannau a fydd yn sbarduno buddsoddiad ym Mhorthladd Caergybi a'r rhanbarth ehangach. Bydd gan y prosiectau hyn rôl hwyluso ar gyfer y rhaglenni eraill drwy sicrhau bod safleoedd wedi'u gwasanaethu ar gael i fuddsoddwyr a datblygwyr.

**Mathau o ymyrraeth**: Darparu gwasanaethau sylfaenol a gwaith hwyluso i ddwyn safleoedd datblygu masnachol a thai ymlaen, cyflawni gofod llawr cyflogaeth a sicrhau gwaith gwella capasiti ac addasu ar gyfer y dyfodol ym mhorthladd Caergybi.

### Digidol

**Amcanion strategol**: Cyflawni newid amlwg yn y cysylltedd digidol sydd ei angen i sicrhau y gall y Gogledd gyflawni galw'r defnyddwyr, cynnal cyflymdra â gweddill y DU, datgloi potensial sectorau a safleoedd â blaenoriaeth am dwf a thanategu ecosystem arloesi ffyniannus. Chwarae rôl hwyluso ar gyfer rhaglenni eraill i gyflawni'r budd mwyaf bosib.

**Mathau o ymyrraeth**: Mae'r rhaglen wedi adnabod angen i gydbwyso buddsoddiad mewn seilwaith a thechnoleg, drwy ôl-troed band eang sefydlog estynedig mewn safleoedd allweddol mewn ardaloedd gwledig, yn datgloi ceisiadau drwy fynediad 5G a bwrw ymlaen ymhellach ag arloesedd digidol.

# 7. Y Prosiectau

7.1 Mae'r Cynllun Twf yn seiliedig ar 14 o brosiectau trawsffurfiol i'w cyflawni ar draws pum rhaglen. Mae'r prosiectau hyn wedi'u hadnabod gan y Bwrdd Uchelgais ar y sail eu bod:

- yn cyflawni yn erbyn Gweledigaeth Twf Gogledd Cymru ac yn cyd-fynd â strategaethau perthnasol yng Nghymru a'r DU;
- wedi'u targedu'n ofodol ar draws y rhanbarth cyfan;
- yn cyflawni buddion a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar gynifer o gymunedau â phosib yn y rhanbarth;
- yn hwyluso twf economaidd;
- yn cefnogi twf ac yn denu buddsoddiad o'r sector preifat;
- yn hyrwyddo arloesi.



Tabl 4: Crynodeb o Brosiectau Cynllun Twf Gogledd Cymru

| Rhaglen | Prosiect | Ariannwr y Prosiect | Crynodeb o'r Prosiect |
|---|---|---|---|
| **Arloesi mewn gweithgynhyrchu gwerth uchel** | **Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol (CEB)** | Prifysgol Bangor | Bydd y Ganolfan Biotechnoleg Amgylcheddol yn ganolfan gyda'r gorau yn y byd o ran canfod a nodweddu ensymau newydd o bwys diwydiannol. Bydd y Ganolfan Biotechnoleg Amgylcheddol yn darparu sylfaen gref ar gyfer denu ymchwilwyr blaenllaw ar lefel fyd-eang, cyllid ymchwil cyhoeddus a masnachol arwyddocaol a mewnfuddsoddiad i Gymru, gan adeiladu ar fuddsoddiad ERDF cychwynnol o £5m i gapasiti ymchwil. Mae'r prosiect hefyd yn ceisio denu cwmnïau yn y sector biocatalysis i'r Gogledd i gymryd mantais ar y buddion clystyru a chydgrynhoi y mae'r rhanbarth yn eu cynnig yn sgil ei arbenigedd hir-sefydlog mewn biobeirianneg. |
| | **Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter** | Prifysgol Glyndŵr | Bydd y Ganolfan Opteg a Pheirianneg Menter yn darparu cyfleusterau (yn Wrecsam a Llanelwy) sydd wedi'u targedu i hybu datblygiad sgiliau lefel uchel ar gyfer y rhanbarth a galluogi busnesau bach a chanolig eu maint a busnesau mawr i weithio mewn partneriaeth â Phrifysgol Glyndŵr, Wrecsam, ar ymchwil a datblygiad sy'n cael ei lywio'n fasnachol. |
| **Bwyd-amaeth a thwristiaeth** | **Rhwydwaith TALENT Thwristiaeth** | Grŵp Llandrillo Menai | Mae'r Rhwydwaith Talent Twristiaeth yn amlinellu cynlluniau uchelgeisiol i ddiogelu darpariaeth sgiliau a chynyddu buddion masnachol o un o'r sectorau mwyaf sefydledig a'r un sy'n tyfu gyflymaf yn y rhanbarth. Nod Rhwydwaith TALENT Twristiaeth Gogledd Cymru yw ysgogi cydweithrediad cyhoeddus-preifat i gydlynu gweithrediad ar sgiliau a datblygu cynnyrch i drawsnewid a sbarduno twf y sector twristiaeth a lletygarwch yn y rhanbarth. |

| Rhaglen | Prosiect | Ariannwr y Prosiect | Crynodeb o'r Prosiect |
|---|---|---|---|
| | **Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon** | Grŵp Llandrillo Menai | Y weledigaeth yw creu Canolbwynt Economi Gwledig arbennig o'r radd flaenaf yng Nglynllifon, sy'n cynnig ystod o gyfleusterau a gwasanaethau i gryfhau a gwella'r economi rhanbarthol, yn benodol drwy dyfu'r sector bwyd a diod. |
| | **Canolfan Carbon Niwtral Llysfasi** | Coleg Cambria | Nod Canolfan Carbon Niwtral Llysfasi yw arwain y Gogledd at ddyfodol gwydn lle mae rheolaeth tir carbon niwtral yn ganolog i sector ynni adnewyddadwy datblygol sy'n cefnogi cymuned gynaliadwy, ffyniannus ac iach sy'n cwmpasu cymysgfa wledig/trefol y rhanbarth. |
| **Tir ac eiddo** | **Porth Caergybi** | Stena Line | Sicrhau dyfodol porthladd Caergybi drwy ddarparu cyfleusterau mordeithio a llwytho trwm dŵr dwfn, gwella mynediad cerbydol, gwarantu dyfodol y morglawdd a darparu ar gyfer galwadau prosiectau ynni rhanbarthol. |
| | **Tir ac Eiddo Rhanbarthol** | Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | Wedi'i ffurfio o bum safle datblygu i ddechrau:<br>**Safle Ysbyty Dinbych**- Mae cais cynllunio wedi'i gyflwyno am ddatblygiad masnachol a phreswyl defnydd cymysg. Bydd arian y Cynllun Twf yn cynorthwyo wrth gyflawni safle wedi'i glirio a'i adfer gyda phrif wasanaethau.<br>**Safle Strategol Bodelwyddan -**Safle datblygu masnachol a phreswyl defnydd cynnwys 137 hectar. Bydd arian y Cynllun Twf yn darparu'r prif wasanaethau fel y gellir dod â'r safle i'r farchnad i'w ddatblygu.<br>**Safle Strategol Bryn Cegin**-Darparu arwynebedd llawr diwydiannol i fodloni'r galw hysbys am unedau.<br>**Porth Wrecsam**- Bydd arian y Cynllun Twf yn darparu'r caniatâd statudol gofynnol ac yn cyflwyno'r prif wasanaethau fel bod modd dod â'r safle i'r farchnad i'w werthu a'i ddatblygu.<br>**Safle Strategol Warren Hall**- Bydd arian y Cynllun Twf yn darparu'r caniatâd statudol gofynnol ac yn cyflawni prif wasanaethau fel bod modd i'r safle defnydd cymysg 65 hectar gael ei roi ar y farchnad ar werth ac yna gael ei ddatblygu gan y sector preifat. |
| **Digidol** | **Prosiect Cysylltedd Digidol** | Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | Mae'n cynnwys pedair elfen:<br>**Ffibr llawn** - Ceisia'r prosiect hwn gyflawni cysylltedd ffeibr llawn (addas ar gyfer gigabit) i 28 o safleoedd busnes allweddol ar draws y Bwrdd Uchelgais. Ffocws y prosiect yw darparu mynediad at wasanaethau ffeibr llawn sy'n fwy fforddiadwy, y gellir ei gyflawni ar raddfa ac er mwyn gwasanaethu anghenion busnesau bach a chanolig eu maint, yn lle ac er mwyn ategu cylchedau lein ar les sy'n ddrytach. Unwaith y bydd wedi'i gwblhau, bydd tua 4,100 o eiddo busnes a 450 o eiddo preswyl yn medru cael mynediad at fand llydan ffeibr llawn addas ar gyfer gigabit.<br><br>**Campws Cysylltiedig** Mae'r prosiect hwn yn ceisio cyflymu datblygiad Campysau Cysylltiedig mewn 19 o safleoedd economaidd rhanbarthol allweddol. Bydd yn targedu safleoedd allweddol sy'n cyflwyno achosion defnydd ar gyfer 5G a rhwydweithiau pŵer isel yng nghyd-destun |

| Rhaglen | Prosiect | Ariannwr y Prosiect | Crynodeb o'r Prosiect |
|---|---|---|---|
| | | | diwydiant trwm, diwydiant ysgafn, safleoedd ymchwil, safleoedd masnachol ac ar draws campws gwledig llawer mwy (gan gynnwys miloedd o ffermydd a chlystyrau amaethyddol). Amcangyfrifir y bydd gan oddeutu 2,600 o eiddo busnes fynediad at 5G band eang uchel a gwasanaethau Wi-Fi pŵer isel, unwaith y bydd wedi'i gwblhau.<br><br>**Coridor Cysylltiedig** - Mae'r prosiect hwn yn ceisio ymateb i alw'r diwydiant a gyrwyr technoleg drwy gefnogi gweithrediad mwy effeithlon y cadwyni cyflenwi, a gweithrediadau trafnidiaeth mawr (megis porthladdoedd). Gyda'i gilydd, bydd 156km o goridor ffordd a rheilffordd wedi'i gysylltu â 5G/Rhwydweithiau Mynediad Di-Wifr Pŵer Isel, ar hyd coridor yr A55 a'r llwybr prif lein rheilffordd cyfagos. Amcangyfrifir bod hyd at 1.57 miliwn o siwrnai rheilffordd a 1.3 miliwn o siwrnai ar y ffordd yn elwa o well cysylltedd 5G, unwaith y bydd wedi'i gwblhau.<br><br>**Cysylltu'r Ychydig Ganrannau Olaf -** Mae'r prosiect hwn yn targedu gwasanaeth cyflym iawn hollgynhwysol ar draws y Gogledd, nad ydynt yn cael eu gwasanaethu hyd yma gan ddulliau eraill ac na allant gyflawni cyflymder o 30Mbps (lawrlwytho) o leiaf ar hyn o bryd.<br><br>Mae diffyg band llydan dibynadwy, neu mewn rhai achosion, band llydan sylfaenol (sy'n cael ei ddiffinio gan Ofcom fel lawrlwytho 10Mbps) yn broblem allweddol sy'n wynebu busnesau gwledig. Mae 'rhwyg digidol' sy'n cael ei chydnabod yn eang yn effeithio ar fynediad trigolion i wasanaethau ar-lein ac atal busnesau bach a chanolig eu maint rhag datblygu a chynnal masnach. Mae'r tueddiad cynyddol o weithio o gartref hefyd yn cael ei gyfyngu gan gysylltedd gwael.<br><br>Bydd hyd at 10,100 o eiddo preswyl a 4,300 eiddo busnes yn cael mynediad at fand llydan cyflym iawn unwaith y bydd wedi'i gwblhau. |
| | **Prosiect Canolfan Prosesu Signal Digidol (DSP)** | Prifysgol Bangor | Bydd y prosiect yn dwyn ynghyd ymchwilwyr o Brifysgol Bangor i weithio law yn llaw â chwmnïau rhyngwladol proffil uchel a busnesau bach a chanolig eu maint yng Nghymru gan alluogi iddynt weithio gyda'i gilydd i ymchwilio datrysiadau rhwygol ar gyfer 5G. Bydd y prosiect yn galluogi i'r Ganolfan Prosesu Signal Digidol ymestyn ei bresenoldeb a'i gylch gwaith, gan integreiddio'n llawn â'r Prosiect Strategaeth Cenedlaethol a galluogi datblygu asedau allweddol ar raddfa, gan gynnwys prawf-wely 5G, capasiti ymchwil ac offer o'r radd flaenaf. Disgwylir i'r prosiect hwn greu cyfanswm o 160 o swyddi. |
| **Ynni carbon isel** | **Morlais** | Menter Môn | Adeiladu'r seilwaith sy'n cysylltu Parth Morlais â'r system grid trydan, gan baratoi'r safle ar gyfer datblygwyr sector preifat sy'n buddsoddi i lesu rhannau o'r parth ar gyfer defnyddio technolegau |

| Rhaglen | Prosiect | Ariannwr y Prosiect | Crynodeb o'r Prosiect |
|---|---|---|---|
| | | | ynni llanwol. Byddai hyn yn golygu mai'r parth fyddai'r safle agnostig technoleg estynadwy gyda chaniatâd cyntaf yn y byd gyda hyd at 180 MW o botensial. |
| | **Gorsaf Bŵer Trawsfynydd** | Cwmni Egino | Mae safle Trawsfynydd yn cynnig ei hun yn berffaith wneud defnydd 'Cyntaf o'i Fath' o Adweithydd Modwlar Bychan (SMR) neu Adweithydd Modwlar Uwch (AMR) yn sgil ei statws fel ased ym mherchnogaeth gyhoeddus, ei weithlu hynod fedrus (sydd yn gweithio tuag at ddadgomisiynu'r adweithydd presennol ar hyn o bryd), a'r gymuned gefnogol. Ar y cyd â'r sector cyhoeddus a phreifat, bydd y Cynllun Twf yn cyfrannu cyllid tuag at seilwaith galluogi ar gyfer y datblygiad hwn, gan helpu i ddiogelu swyddi a gosod y Gogledd mewn safle blaenllaw o ran arloesedd ac ymchwil a datblygu mewn technoleg sydd â photensial arwyddocaol i'w ddefnyddio ledled y DU. |
| | **Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel** | Prifysgol Bangor | Datblygu'r seilwaith ym Mhrifysgol Bangor a Pharc Gwyddoniaeth Menai, gwella galluedd y Gogledd a'r DU ar gyfer arloesedd mewn ynni carbon isel a meysydd cysylltiedig, gan helpu i greu'r amodau ar gyfer mewnfuddsoddiad newydd a thwf busnes yn y gadwyn gyflenwi ynni carbon isel yn y Gogledd |
| | **Ynni Lleol Blaengar** | Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | Er mwyn helpu i gyflawni targedau ynni adnewyddadwy, datgarboneiddio a pherchnogaeth leol, bydd y prosiect yn cefnogi prosiectau hwyluso arloesol ac arddangoswyr sy'n goresgyn methiannau'r farchnad a datgloi buddsoddiad sector preifat a chymunedol mewn datrysiadau ynni lleol blaengar. |
| | **Datgarboneiddio Trafnidiaeth** | Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | Cefnogi cyflawi prosiect arddangos sy'n ymwneud â chynhyrchu hydrogen gwyrdd o ffynonellau ynni carbon isel a'i ddefnydd o fewn rhwydweithiau trafnidiaeth rhanbarthol. |

# 8. Effaith Economaidd

## Amcanion Gwariant

8.1 Mae'r cytundeb Penawdau'r Telerau yn nodi y byddai buddsoddiad y Llywodraeth yn cael ei ddefnyddio i greu hyd at 4,000 o swyddi newydd, cefnogi cynnydd o 5% mewn GVA a sicrhau £500 miliwn mewn buddsoddiad gan y sector preifat dros y cyfnod o 15 mlynedd. Wrth ddatblygu portffolio a phum rhaglen achos busnes i sicrhau cytundeb y Cynllun Terfynol gyda Llywodraethau Cymru a'r DU, mae'r rhain wedi cael eu mireinio i'r amcanion gwario a ganlyn ar gyfer Portffolio Cynllun Twf Gogledd Cymru. Mae'r holl raglenni a phrosiectau o fewn y Cynllun Twf yn cyfrannu at yr amcanion cyffredinol hyn.


| | |
|---|---|
| Amcan Gwariant 1 - Swyddi | Creu rhwng 3,400 a 4,200 o swyddi newydd net yn y Gogledd drwy'r Cynllun Twf erbyn 2036. |
| Amcan Gwariant 2 - GVA | Cefnogi cynnydd ychwanegol net o rhwng £2.0 biliwn a £2.4 biliwn mewn GVA i Economi'r Gogledd drwy'r Cynllun Twf erbyn 2036. |
| Amcan Gwariant 3 - Buddsoddiad | Cyflawni cyfanswm o hyd at £1.1 biliwn o fuddsoddiad yn Economi'r Gogledd drwy'r Cynllun Twf erbyn 2036. |

## Crynodeb o'r Buddion

8.2 Wrth ddatblygu pob un o bum rhaglen y Cynllun Terfynol, mae asesiad lefel uchel o'r buddion economaidd perthnasol wedi'i gynhyrchu. Bydd pob un o'r rhaglenni yn cynhyrchu cyfres o fuddion sydd wedi cael eu dosbarthu fel buddion uniongyrchol, anuniongyrchol ac ehangach. Mae union natur y rhain yn amrywio rhwng y rhaglenni. Mae'r prif fathau yn cael eu crynhoi isod, yn ôl rhaglen.

8.3 Mesurau craidd ar draws yr holl raglenni a phrosiectau yw swyddi a Gwerth Ychwanegol Crynswth (GVA) a grëwyd, gan adlewyrchu amcanion gwario craidd y Cynllun Twf. Mae twf mewn GVA yn swyddogaeth twf sector (gyda thwf cysylltiedig mewn swyddi) a gwella cynhyrchedd (e.e. wedi'i greu gan fuddsoddiadau mewn seilwaith digidol).

Ffigwr 1.3 Fframwaith Buddion




Ffynhonnell: Hatch

## Buddion ychwanegol net

8.4 Ar ôl ystyried y lefelau tebygol o elfen ychwanegol o fewn y prosiectau a'r rhaglenni, mae disgwyl i raglenni'r Cynllun Twf gynhyrchu cyfanswm o **£1.97 i £2.41 biliwn** mewn GVA ychwanegol net, a **3,400 i 4,200 o swyddi cyfwerth ag amser llawn ychwanegol net** bob blwyddyn ar raddfa sefydlog.

8.5 Ceir trawstoriad ar draws yr holl brosiectau yn Atodiad B.

Tabl 5: Buddion Economaidd Ychwanegol Net (mae GVA yn gronnus hyd 2036 ac wedi'i fynegi mewn prisiau 2020/21, heb ei ddisgowntio; mae swyddi yn flynyddol ar raddfa sefydlog)

| | GVA (£m) | Swyddi a grëir (cyfwerth ag amser llawn) |
|---|---|---|
| Ynni carbon isel | 430 - 530 | 800 – 980 |
| Arloesi mewn gweithgynhyrchu gwerth uchel | 90 – 110 | 150 – 180 |
| Bwyd-amaeth a thwristiaeth | 230 – 280 | 310 – 380 |
| Tir ac eiddo | 1,060 – 1,290 | 1,870 – 2,280 |
| Digidol | 150 – 190 | 310 – 380 |
| **Cyfanswm, Cynllun Twf Gogledd Cymru** | **1,970 – 2,410** | **3,440 – 4,210** |

Ffynhonnell: Cyfrifiadau Hatch yn seiliedig ar ddata ar lefel prosiect. Wedi'i dalgrynnu i'r £10m/10 swydd cyfwerth ag amser llawn agosaf. Mae'r amrediadau yn defnyddio lled gwall o ± 10%.

## Cymhareb budd-cost

8.6 Wrth dynnu'r dadansoddiad ynghyd, mae gan Raglen y Cynllun Twf amcangyfrif o gymhareb budd-cost rhwng **2.8:1 a 3.4:1**, h.y. ar gyfer pob £1 mewn buddsoddiad sector cyhoeddus (ar ôl Tuedd Optimistiaeth*), mae disgwyl i'r Cynllun Twf ddychwelyd buddion economaidd ychwanegol net o rhwng £2.80 a £3.40. Mae hyn yn codi i rhwng £4.90 a £6.00 ar gyfer pob £1 o fuddsoddiad y Cynllun Twf yn unig.

8.7 Mae hyn yn rhoi'r Cynllun Twf yn gyffredinol yn y categori gwerth "uchel" am arian, fel y diffinnir gan Lywodraeth Ganolog.[16]

| Tabl 6: Cymhareb Budd-Cost (£m, prisiau 2020/21) | | |
|---|---|---|
| | Seiliedig ar Gyfanswm Cost y Sector Cyhoeddus | Seiliedig ar Gost y Cynllun Twf yn unig |
| Buddion ychwanegol net wedi'u disgowntio | £1,370m - £1,670m | |
| Costau wedi'u disgowntio, ar ôl tuedd optimistiaeth | £488m | £273m |
| Gwerth Cymdeithasol Presennol Net | **£930 – £1,140** | **£1,120 - £1,370** |
| BCR | **2.8:1 - 3.5:1** | **5.0:1 - 6.1:1** |

Ffynhonnell: Cyfrifiadau Hatch yn seiliedig ar ddata ar lefel prosiect

Nodyn Tueddiad Optimistiaeth: Cyn cyfrifo'r Gymhareb Budd-Cost terfynol, rydym wedi disgowntio'r holl gostau a buddion 3.5%, yn unol â Chanllawiau Llyfr Gwyrdd Trysorlys EM.

# 9. Proffil Cyllid y Cynllun Twf

9.1 Mae'r Cynllun Twf yn seiliedig ar gyflawni 14 o brosiectau ar draws pum rhaglen a rhagwelir y bydd cyfanswm y gwariant cyfalaf yn £1.1 biliwn, gyda £240 miliwn ohono'n dod o'r Cynllun Twf a'r gweddill yn cael ei ddarparu gan bartneriaid y sector cyhoeddus a phreifat.

9.2 Darperir trawstoriad o'r gwariant cyfalaf fesul prosiect yn y tabl isod:


| Prosiect | | Ariannwr y Prosiect | Buddsoddiad Cynllun Twf (£m) | Buddsoddiad Sector Cyhoeddus Arall ($) | Buddsoddiad Sector Preifat (£) | Cyfanswm Buddsoddiad Cyfalaf (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhaglen Ddigidol** | | | | | | |
| Prosiect Canolfan Prosesu Signal Digidol | | Prifysgol Bangor | 3.0 | 3.1 | 1.1 | **7.3** |
| Prosiect Cysylltedd Digidol | Ffibr llawn mewn safleoedd allweddol | Bwrdd Uchelgais Economaidd | 6.8 | - | 0.411 | **7.2** |

16 Gweler, er enghraifft, https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/918481/value-for-money-supplementary-guidance-on-categories.pdf

| Prosiect | | Ariannwr y Prosiect | Buddsoddiad Cynllun Twf (£m) | Buddsoddiad Sector Cyhoeddus Arall ($) | Buddsoddiad Sector Preifat (£) | Cyfanswm Buddsoddiad Cyfalaf (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Coridor Cysylltiedig | Bwrdd Uchelgais Economaidd | 2.2 | - | - | **2.2** |
| | Cysylltedd Uwch ('Campws Cysylltiedig') | Bwrdd Uchelgais Economaidd | 21.0 | - | - | **21.0** |
| | Yr ychydig % olaf | Bwrdd Uchelgais Economaidd | 4.0 | - | - | **4.0** |
| **Rhaglen Ynni Carbon Isel** | | | | | | |
| Morlais | | Menter Môn | 9.0 | 27.0 | - | **36.0** |
| Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel | | Prifysgol Bangor | 21.0 | 75.7 | 1.0 | **97.7** |
| Gorsaf Bŵer Trawsfynydd | | Llywodraeth Cymru | 20.0 | 20.0 | 360.0 | **400.0** |
| Datgarboneiddio Trafnidiaeth | | Bwrdd Uchelgais Economaidd | 11.4 | 11.45 | 5.7 | **28.6** |
| Ynni Lleol Blaengar | | Bwrdd Uchelgais Economaidd | 25.0 | 6.2 | 75 | **106.2** |
| **Rhaglen Tir ac Eiddo** | | | | | | |
| Porth Caergybi | | Stena Line | 35.0 | - | 45.0 | **80.0** |
| Prosiect Tir ac Eiddo | Warren Hall | Bwrdd Uchelgais Economaidd | 15.0 | - | 55.0 | **70.0** |
| | Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych | Bwrdd Uchelgais Economaidd | 4.0 | - | 70.0 | **74.0** |
| | KSS, Bodelwyddan | Bwrdd Uchelgais Economaidd | 10.0 | - | 72.0 | **82.0** |
| | Parc Bryn Cegin | Bwrdd Uchelgais Economaidd | 6.0 | - | - | **6.0** |
| | Porth y Gorllewin, Wrecsam | Bwrdd Uchelgais Economaidd | 9.1 | 1.9 | 32.4 | **43.4** |
| **Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel** | | | | | | |
| Canolfan BIOTECHnoleg Amgylcheddol | | Prifysgol Bangor | 3.0 | 6.6 | - | **9.6** |
| Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter | | Prifysgol Glyndŵr | 10 | 19.9 | - | **29.9** |
| **Rhaglen Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth** | | | | | | |

| Prosiect | Ariannwr y Prosiect | Buddsoddiad Cynllun Twf (£m) | Buddsoddiad Sector Cyhoeddus Arall ($) | Buddsoddiad Sector Preifat (£) | Cyfanswm Buddsoddiad Cyfalaf (£) |
|---|---|---|---|---|---|
| Prosiect Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon | Grŵp Llandrillo Menai | 10.0 | 3.0 | | **13.0** |
| Fferm Carbon Niwtral Llysfasi | Coleg Cambria | 10.0 | 2.7 | 2.7 | **15.4** |
| Rhwydwaith TALENT Twristiaeth | Grŵp Llandrillo Menai | 4.5 | 6.7 | 1.7 | **13.0** |
| | | | | | |
| **CYFANSWM Y CYNLLUN TWF** | | **240** | **184.3** | **722.1** | **1146.4** |

**ARIANNU CYNLLUN TWF GOGLEDD Cymru**




# 10. Cyfraniadau Partner Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru

## Cyfraniadau Blynyddol y Partneriaid

10.1 Nid oes unrhyw gyllid refeniw yn cael ei ddarparu drwy'r Cynllun Twf ar gyfer cyflawni'r prosiectau neu gostau rhedeg gweithredol y prosiectau unwaith y byddant wedi'u cwblhau.

10.2 Mae'r cyllid refeniw i gefnogi'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn cael ei ddarparu drwy gyfraniadau partneriaid y Bwrdd Uchelgais (yn cynnwys cyfraniadau atodol awdurdodau lleol) ac mae cyllid ESF ychwanegol hefyd wedi'i sicrhau ar gyfer y tair blynedd weithredol gyntaf (o fis Mai 2020). Hefyd gellir defnyddio swm sydd gyfwerth â 'haenen uchaf' y grantiau llywodraeth blynyddol ar 1.5% i ariannu hyn, yn amodol ar

hyblygrwydd Llywodraeth Cymru i reoli cyllid. Bydd unrhyw gostau Swyddfa Rheoli Portffolio ychwanegol a briodolir yn uniongyrchol i gyflawni'r prosiectau yn cael eu cynnwys o fewn achosion busnes y prosiectau.

10.3 Mae cyfraniadau blynyddol y partneriaid tuag at gostau'r Swyddfa Rheoli Portffolio wedi'u nodi yn y tabl isod:

| | Cyfraniad Awdurdodau Lleol | Cyfraniadau Blynyddol AU/AB | Cyfanswm y Cyfraniadau Blynyddol |
|---|---|---|---|
| **Cyfraniadau Craidd Blynyddol** | £50k fesul ALl | £25k fesul partner | £400k |
| **Cyfraniad Atodol Blynyddol*** | £40k per LA | 0 | £240k |

** mae'r cyfraniad hwn yn gyfraniad atodol y cytunwyd arno gan y Cynghorau yn unig*

## Cyfraniadau Cyllido Llif Arian y Cynllun Twf

10.4 Mae cyfanswm cyfraniad grant o £240m i Gynllun Twf Gogledd Cymru yn cael ei ddarparu gan Lywodraethau'r DU a Chymru mewn rhandaliadau blynyddol dros gyfnod o 15 mlynedd.

10.5 Yn sgil natur taliadau grant blynyddol y Cynllun Twf gan y llywodraethau, mae bwlch cyllido tymor canolig rhwng proffil gwariant disgwyliedig y Cynllun Twf a'r cyllid a dderbynnir.

10.6 Bydd y Bwrdd Uchelgais, drwy Gyngor Gwynedd fel yr awdurdod lletya, yn rheoli'r llif arian negyddol hwn. Yr awdurdodau lleol (yn gymesurol i'r boblogaeth) fydd yn cwrdd â'r gost ar gyfer prosiectau rhanbarthol y Bwrdd Uchelgais gydag arianwyr y prosiectau yn gyfrifol am y gost mewn perthynas â'u prosiect nhw (sy'n creu asedau).

10.7 Mae cyfanswm y cyfraniadau (15 mlynedd) y bydd eu hangen gan bartneriaid Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, i alluogi cyflawni'r Cynllun Twf, wedi'u nodi fel ystod ar gyfer pob partner. Mae Fersiwn 1 wedi'i fodelu fel y senario achos gorau a Fersiwn 2 fel y senario achos gwaethaf, i adlewyrchu amseriad cwblhau'r Cynllun Twf ac amseru canlyniadol cyllid grant y llywodraethau. Byddai angen i unrhyw gynnydd arfaethedig mewn cyfraniadau cytûn gael ei gymeradwyo fel mater a gedwir yn ôl.

| Version | Bangor University | Glyndwr University | Grŵp Llandrillo Menai | Coleg Cambria | Other Commerical Partners | Conwy | Denbighshire | Flintshire | Gwynedd | Isle of Anglesey | Wrexham | Total |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £m | £m | £m | £m | £m | £m | £m | £m | £m | £m | £m | £m |
| 1 | 1.40 | 0.51 | 0.75 | 0.52 | 2.29 | 1.17 | 0.96 | 1.56 | 1.24 | 0.70 | 1.36 | 12.46 |
| 2 | 1.99 | 0.73 | 1.07 | 0.74 | 3.24 | 1.67 | 1.36 | 2.22 | 1.77 | 1.00 | 1.94 | 17.73 |

10.8 Dengys y tabl isod gyfanswm cyfraniadau'r partneriaid i ymdopi â chost 'benthyca' a fydd ei angen mewn egwyddor i hwyluso'r llif arian negyddol.

| Version | Bangor University | Glyndwr University | Grŵp Llandrillo Menai | Coleg Cambria | Other Commerical Partners | Conwy | Denbighshire | Flintshire | Gwynedd | Isle of Anglesey | Wrexham | Total |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ |
| 1 | 93,330 | 34,000 | 50,000 | 34,670 | 152,660 | 78,010 | 64,000 | 104,000 | 82,670 | 46,670 | 90,670 | 830,680 |
| 2 | 132,670 | 48,670 | 71,330 | 49,330 | 216,000 | 111,340 | 90,670 | 148,000 | 118,000 | 66,670 | 129,340 | 1,182,020 |

# 11. Strategaeth Fasnachol

11.1 Mae'r Bwrdd Uchelgais wedi ymrwymo i wneud y mwyaf o effaith Cynllun Twf Gogledd Cymru.

11.2 Y prif lywiwr ar gyfer yr holl brosiectau o fewn y Cynllun Twf yw cyflawni buddion economaidd a chymdeithasol i'r Gogledd yn unol â'r deilliannau strategol a nodir yn achos busnes y portffolio. Mae'r Cynllun Twf yn ceisio gwneud y mwyaf o fuddsoddiad uniongyrchol ac anuniongyrchol y sector cyhoeddus ar draws y portffolio.

11.3 Mae potensial arwyddocaol ar draws y portffolio i greu enillion masnachol ar fuddsoddiad a allai gael eu hailfuddsoddi yn y rhanbarth. Bydd disgwyl i bob achos busnes ystyried cyfleoedd am fuddsoddiadau masnachol. Gallai'r cyfleoedd hyn gynnwys darparu arian y Cynllun Twf fel benthyciad, buddsoddiad neu drefniant rhannu elw (yn amodol ar gyngor cymorth gwladwriaethol prosiect perthnasol).

11.4 Mae'r Bwrdd Uchelgais yn disgwyl cynhyrchu enillion ar fuddsoddiad ar draws y portffolio cyfan, gyda ffocws penodol ar gyfleoedd o fewn y rhaglenni Tir ac Eiddo ac Ynni Carbon Isel a fyddai, yn amodol ar gytundeb Llywodraeth Cymru a'r DU, yn caael eu hailfuddsoddi yn y rhanbarth.

11.5 Mae caffael yn cynrychioli cyfle masnachol arwyddocaol ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru. Ystyrir y cyfleoedd caffael ar y cyd lle bo hynny'n briodol ar draws y Cynllun Twf yn unol â'r strategaeth gaffael a amlinellir isod.

# 12. Dull Caffael

12.1 Mae'r Bwrdd Uchelgais wedi ymrwymo i sicrhau gwerth am arian a gwneud y mwyaf o'r buddion i'r rhanbarth drwy Gynllun Twf Gogledd Cymru. Bydd caffael yn chwarae rôl allweddol yng nghyflawniad prosiectau'r Cynllun Twf, ond hefyd o ran gwireddu'r buddion i'r rhanbarth. Mae'r adran a ganlyn yn nodi'r ymagwedd y bydd y Bwrdd yn ei defnyddio o ran caffael, gyda ffocws penodol ar wneud y mwyaf o'r buddion cymdeithasol a chymunedol i'w cyflawni drwy'r gweithgarwch caffael.

12.2 Bydd yr egwyddorion caffael a ganlyn yn tanategu holl weithgarwch caffael y Cynllun Twf:

- **Arweinyddiaeth Rhanbarthol ac ymagwedd strategol**
  Bydd y Bwrdd Uchelgais Economaidd:
  - *yn meddu ar strategaeth ac egwyddorion clir ar gyfer cyflawni arferion caffael arloesol a chynaliadwy gyda chleientiaid, contractwyr a chymunedau sy'n gweithio gyda'i gilydd*
  - *yn ymgysylltu â chontractwyr a'r gadwyn gyflenwi mewn modd agored a thryloyw gyda sgwrs ddwyffordd*

- *yn hyrwyddo ac yn hybu cyfleoedd caffael cydweithredol, gan gefnogi arloesedd a thwf*
- *yn gweithio gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ac yn cefnogi cynlluniau llesiant lleol a chynlluniau gwytnwch cymunedol esblygol yn uniongyrchol ar gyfer y rhanbarth er mwyn adfer ac adeiladu'n ôl yn decach ac yn well*
- *yn hyrwydd ac yn hybu cyflawni buddion gwerth cymdeithasol a chymunedol drwy weithgarwch caffael ac yn cyd-fynd â pholisïau allweddol megis y ddyletswydd gymdeithasol economaidd a'r bil partneriaethau cymdeithasol, ac yn eu profi.*
- *yn ymgorffori 'Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015' yn yr holl weithgarwch caffael lle bo hynny'n berthnasol i'r 46 o ddangosyddion llesiant cenedlaethol i Gymru.*

- **Ymgysylltu a chefnogi'r gadwyn gyflenwi a'r Economi Sylfaen**
  - *Ymgysylltu mewn sgwrs ddwyffordd gyda phartneriaid, contractwyr a chymunedau a sicrhau bod anghenion a blaenoriaethau lleol a rhanbarthol yn rhan o'r cymalau gwerth cymdeithasol*
  - *Cefnogi a gwella mynediad i fusnesau bach a chanolig eu maint a chefnogi cydweithio rhwng y busnesau hynny o fewn y rhanbarth.*
  - *Cefnogaeth agored a theg i gadwyni cyflenwi lleol i ymgysylltu gyda chontractau mwy drwy sesiynau briffio cadwyni cyflenwi a chyfleoedd bidio ar y cyd a rhestr aros o brosiectau.*
  - *Sicrhau arferion gwaith teg a moesegol, yn cynnwys talu contractwyr yn brydlon ac o fewn y gadwyn gyflenwi*
  - *Cefnogi'r economi sylfaen yn y rhanbarth gyda sgiliau ac arloesedd wedi'u mapio ar draws y Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth Rhanbarthol.*

- **Sgiliau, swyddi a thwf**
  - *Canolbwyntio ar recriwtio a hyfforddiant arloesol ac sydd wedi'i dargedu, gan weithio gyda'n partneriaid i sicrhau ein bod yn cefnogi pobl i ailhyfforddi, datblygu sgiliau newydd drwy wirfoddoli neu gyfrannu at addysg/prentisiaethau.*
  - *Targedu cyfleoedd ac ymgysylltu â mecanweithiau presennol i gefnogi hyn a thargedu grwpiau penodol megis pobl ifanc neu'r rheini sydd mewn ardaloedd o amddifadedd i ymgysylltu mewn addysg a dysgu/datblygu.*

- **Cyfraniad i addysg a chefnogi pobl ifanc**
  - *Gweithio gyda phrosiectau sy'n esblygu megis Prifysgol y Plant i gefnogi contractwyr i ymgysylltu a chyflawni datblygiadau dysgu a sgiliau i bobl ifanc.*
  - *Cefnogi ymgysylltu a chysylltiadau gydag ysgolion i gynnig cyfleoedd i bawb gefnogi'r Cwricwlwm 22 newydd yng Nghymru, gyda ffocws ar gynhwysiad digidol.*

- **Llesiant a gwytnwch cymunedol**

- *Gweithio'n uniongyrchol gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i gynnwys gwytnwch cymunedol ac adeiladu cyfoeth gan ddatblygu asedau yn ein cymunedau i gynnwys cefnogi iechyd meddwl cadarnhaol mewn gweithleoedd, cadwyni cyflenwi ac mewn cymunedau*
- *Ymgysylltu â phartneriaethau newydd megis amgueddfeydd, theatrau a'r celfyddydau i gefnogi'r gwaith o ddatblygu ein hystyriaethau diwylliannol ac iaith Gymraeg yn ein cyfleoedd contract.*
- *Gweithio â phartneriaid caffael a sefydliadau trydydd sector i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd i adeiladu cyfoeth cymunedol.*
- *Cefnogi ac ymgysylltu â'r trydydd sector mewn ymagwedd ar sail gwerth sy'n cefnogi gwytnwch yn y trydydd sector i weithio gyda chontractwyr a'r gadwyn gyflenwi a'u cefnogi.*

- **Cynaliadwyedd Amgylcheddol ac Adferiad Gwyrdd**
  - *Sicrhau bod gennym ystyriaethau amgylcheddol mewn cyfleoedd contract, lleihau i'r eithaf ein heffaith ar yr amgylchedd a chefnogi technolegau, ymagweddau ac arloesi newydd gyda chontractwyr a'r gadwyn gyflenwi, gyda ffocws ar yr economi cylchol.*
  - *Ceisio lleihau i'r eithaf ôl-troed carbon prosiectau a chefnogi'r economi carbon isel, gan ganolbwyntio ar yr ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i gyflawni sector cyhoeddus carbon niwtral erbyn 2030, gan leihau nwyon tŷ gwydr, gwella ein hamgylchedd naturiol a gwarchod ein bioamrywiaeth.*
- **Arloesedd ac arferion newydd**
  - *Profi ac archwilio ffyrdd newydd o weithio gyda'r holl bartneriaid i geisio gwneud y mwyaf o werth cydweithio rhanbarthol*
  - *Sefydlu trefniadau effeithiol ar gyfer monitro effaith, archwilio'r teclyn mwyaf priodol i wneud hyn*
  - *Cydweithio ar draws y bartneriaeth i ddarparu adnoddau ar gyfer gweithgarwch caffael yn effeithiol a chanolbwyntio ar ddatblygu a chyflawni fforymau newydd i gefnogi capasiti a galluedd i ddefnyddio caffael fel teclyn effeithiol megis cymuned arferion ac ati.*

# 13. Trefniadau Llywodraethu

## Cytundeb Llywodraethu 2

13.1 Wedi sicrhau'r Cynllun Twf, mae'r Partneriaid wedi cytuno i ymrwymo i ail Gytundeb Llywodraethu (GA2) a fydd yn cefnogi'r bartneriaeth i wedd nesaf gweithredu'r Cynllun Twf a datblygu'r Weledigaeth Twf ymhellach.

13.2 Mae'r cytundeb, sy'n ddogfen sydd wedi'i rhwymo mewn cyfraith, yn diffinio rôl a swyddogaeth y Bwrdd, a'i bwerau dirprwyedig. Yn ogystal, mae'n darparu ar gyfer ei strwythurau gwneud penderfyniadau ac atebolrwydd democrataidd. Gwneir darpariaeth ar gyfer ymrwymiadau'r Partneriaid i'r prosiectau a sut caiff y rhain eu


rheoli a'u dosrannu. Mae GA2 yn rhoi sicrwydd i'r Awdurdod Lletya (Cyngor Gwynedd), wrth gymryd y rôl honno. Yn ogystal, rhoddir sylw i'r trefniadau gwaelodol sy'n darparu ar gyfer materion cyfreithiol a chydymffurfio o fewn y bartneriaeth a llywodraethu'r Swyddfa Rheoli Perfformiad.

13.3 Mae'n ddogfen allweddol, sy'n rhoi strwythur a sylfaen glir, er mwyn bwrw ymlaen â gweithredu'r Cynllun Twf.

## Trefniadau Rheoli Portffolio, Rhaglenni a Phrosiectau

13.4 Mae'r Bwrdd wedi mabwysiadu model cyflawni sy'n seiliedig ar ddull arfer gorau ar gyfer rheoli'r portffolio, y rhaglenni a'r prosiectau fel sydd wedi'i nodi yn '*Government Functional Standard GovS 002: Project Delivery*'. Mae rheoli'r portffolio, y rhaglenni a'r prosiectau yn ffordd integredig o fodloni uchelgeisiau'r sefydliad, gan annog gwell penderfyniadau a chynyddu'r tebygolrwydd o gael deilliannau llwyddiannus.

13.5 Mae'r diagram isod yn amlinellu strwythur cyflawni llywodraethu rheoli rhaglen a phrosiect ar gyfer y Cynllun Twf:




### Lefel Strategol a Phortffolio

13.6 **Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (Grŵp Ariannu)** - Mae'r Bwrdd Uchelgais yn gweithredu fel Grŵp Ariannu (Sefydliad) a'r Corff Gwneud Penderfyniadau. Mae'r holl hawliau dan y lefel hon wedi'u dirprwyo i bartïon perthnasol fel sydd angen drwy benderfyniad ffurfiol gan y Bwrdd. Bydd aelod o'r Bwrdd Uchelgais yn cymryd rôl Aelod Arweiniol ar gyfer pob un o'r rhaglenni ac yn eistedd ar y Bwrdd Rhaglen perthnasol. Y Bwrdd Uchelgais fydd yn gyfrifol am ystyried a chymeradwyo achosion busnes prosiectau o fewn y portffolio a bydd y cyfrifoldeb am gyflawni'n cael ei ddirprwyo i'r byrddau rhaglen a phrosiect perthnasol.

13.7 **Grŵp Cefnogaeth Weithredol (Bwrdd Portffolio)** - Y grŵp hwn yw'r corff ymgynghorol i'r Bwrdd Uchelgais ond mae hefyd yn gweithredu fel y Bwrdd Portffolio ar gyfer y Cynllun Twf i gefnogi a herio Cyfarwyddwr Rhaglen y Cynllun Twf i sicrhau ei fod yn cael ei gyflawni. Mae uwch swyddogion o bob un o bartneriaid y Bwrdd Uchelgais yn gwasanaethu ar y grŵp. Bydd aelod o'r Grŵp Cefnogaeth Weithredol yn gweithredu fel Uwch Berchennog Cyfrifol (SRO) ar gyfer pob un o'r rhaglenni ac yn arwain y Bwrdd Rhaglen perthnasol.

13.8 **Cyfarwyddwr Rhaglen** - Mae'r Cyfarwyddwr Rhaglen yn atebol i'r Bwrdd Uchelgais ar gyfer cyflawni portffolio'r Cynllun Twf.

### Lefel Rhaglenni a Phrosiectau

13.9 **Swyddfa Rheoli Portffolio (PMO)** - Mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn cefnogi ac yn cydlynu gweithgareddau ar draws y rhaglenni gan weithredu fel hwb gwybodaeth a sicrhau bod dulliau adrodd, rheoli risg a materion yn gyson. Yn ogystal, mae'n gweithredu fel rôl sicrwydd werthfawr, gan roi cyngor a her i raglenni a phrosiectau. Aseinir Rheolwr Rhaglen ar gyfer pob rhaglen o blith y Swyddfa Rheoli Rhaglen.

13.10 **Byrddau Rhaglen** - Bydd gan bob rhaglen Fwrdd Rhaglen ffurfiol ac Uwch Berchennog Cyfrifol wedi'i benodi. Bydd y byrddau hyn yn canolbwyntio ar ddatblygu (i ddechrau) a chyflawni Achos Busnes cytûn y Rhaglenni, gyda ffocws penodol ar y buddion a'r deilliannau i'w cyflawni. Mae'r Byrddau Rhaglen yn dyrchafu i'r Bwrdd Portffolio drwy'r Cyfarwyddwr Rhaglen.

13.11 **Byrddau Prosiect** - Bydd yr holl brosiectau o fewn y Cynllun Twf yn cael eu rheoli drwy Fwrdd Prosiect, gydag Uwch Berchnogion Cyfrifol a rheolwyr prosiect yn eu lle i sicrhau cyflawniad. Bydd y byrddau hyn yn canolbwyntio ar ddatblygu a chyflawni Achos Busnes cytûn y Rhaglenni, gyda ffocws penodol ar y buddion a'r deilliannau i'w cyflawni. Ariannwr y Prosiect fydd yn gyfrifol am y Prosiectau a'r Byrddau Prosiect a bydd trefniadau clir ar gyfer cyflawni prosiectau yn unol ag arferion gorau yn cael eu nodi yn achos busnes pob prosiect. Bydd prosiectau yn adrodd i'r Bwrdd Rhaglen perthnasol. Cytunir ar y Cylch Gorchwyl ar gyfer Byrddau Prosiect rhwng Ariannwr y Prosiect a'r Swyddfa Rheoli Portffolio i sicrhau bod y ddau barti'n deall y cysylltiadau priodol a'r trefniadau adrodd rhwng y prosiect a'r Bwrdd Rhaglen.

## Y Broses Cymeradwyo Prosiectau

13.12 Bydd y Cynllun Twf yn cael ei lofnodi yn seiliedig ar achos busnes y portffolio a phum achos busnes rhaglen. Unwaith y ceir cytundeb ar y cynllun terfynol, gellir dwyn achosion busnes prosiectau ymlaen er ystyriaeth gan y Bwrdd Uchelgais.

13.13 Datblygir achosion busnes llawn (Model 5 Achos) ar gyfer pob prosiect o fewn Cynllun Twf Gogledd Cymru, yn unol â'r canllawiau 'Gwell Achosion Busnes' a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru a Thrysorlys EM.

13.14 Mae'r gwaith o baratoi Achos Busnes Prosiect gan ddefnyddio'r model 5 achos yn rhoi fframwaith sydd wedi'i brofi i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau a rhan-ddeiliaid, ar gyfer 'meddwl' strwythuredig a sicrwydd bod y prosiect yn darparu ac yn cyd-fynd yn strategol, yn gwneud y mwyaf o werth cyhoeddus, yn fasnachol hyfyw, yn fforddiadwy a bod modd ei ariannu dros amser.

13.15 Bydd gofyn i achosion busnes prosiect arddangos sut maent yn cyflawni yn erbyn amcanion a dyheadau Cynllun Twf Gogledd Cymru ac yn benodol yn erbyn yr achos busnes rhaglen perthnasol.

13.16 Cydnabyddir, drwy ddatblygu a chytuno ar achosion busnes portffolio a rhaglenni rhwng y Bwrdd Uchelgais a Llywodraethau'r DU/Cymru, y bydd yr achos strategol ar gyfer prosiectau wedi cael ei sefydlu.

13.17 Bydd pob Achos Busnes Prosiect yn destun adolygiad porth allanol ar adegau y cytunir arnynt gyda Hwb Sicrwydd Llywodraeth Cymru.

13.18 Yn y lle cyntaf, bydd yr achosion busnes prosiect yn cael eu hystyried gan y Bwrdd Rhaglen perthnasol. Ni chyflwynir achosion busnesau i'r Bwrdd Uchelgais cyn iddynt gael eu cymeradwyo gan y Bwrdd Portffolio a'r Bwrdd Rhaglen ac ar ôl cwblhau'r adolygiadau porth gofynnol. Mae Swyddfa'r Rheoli Portffolio yn cadw'r hawl i gomisiynu adolygiadau allanol o achosion busnes prosiect lle bo'r angen.




## Y Broses ar gyfer Ystyried Prosiectau Newydd

13.19 Mae'r Cynllun Twf yn bortffolio sy'n rhychwantu 15 mlynedd ac mae potensial na fydd pob un o'r 14 prosiect presennol yn cael eu cyflawni os na ellir arddangos buddion economaidd prosiectau penodol drwy achosion busnes prosiectau neu os bydd blaenoriaethau newydd yn dod i'r amlwg i'r rhanbarth. Mae'n bosib hefyd y bydd ffynonellau cyllid pellach yn cael eu hadnabod neu y cynhyrchir incwm drwy'r Cynllun Twf i'w ailfuddsoddi yn y prosiectau newydd.

13.20 Bydd unrhyw brosiectau newydd neu amgen yn fater i'r Bwrdd Uchelgais benderfynu arnynt o fewn yr amlen fforddiadwyedd gytûn ar gyfer y bartneriaeth a lle mae'r prosiectau'n cyflawni yn erbyn amcanion y Cynllun Twf a'i raglenni. Bydd angen i'r cynigion am brosiectau sy'n eistedd y tu allan i'r amlen ariannu gytûn ar gyfer y bartneriaeth ac y tu allan i'r paramedrau y cytunwyd arnynt gyda Llywodraethau'r DU a Chymru dderbyn cymeradwyaeth partneriaid unigol a/neu'r ddwy lywodraeth.

13.21 Byddai cynigion am brosiectau newydd neu amgen yn cael eu hasesu yn y bwrdd rhaglen perthnasol cyn iddynt gael eu hystyried gan y bwrdd portffolio a'r Bwrdd Uchelgais. Pe byddai'r Bwrdd Uchelgais yn cadarnhau prosiect newydd i'w ddatblygu, byddai achos busnes prosiect yn cael ei ddatblygu yn unol â'r broses sydd wedi'i nodi uchod.




## Monitro a Gwerthuso

13.22 Bydd perfformiad y rhaglen a'r prosiect yn cael ei fonitro'n fisol drwy'r byrddau rhaglen a phrosiect perthnasol, gydag adroddiadau ffurfiol yn cael eu cyflwyno bob chwarter i'r Bwrdd Portffolio a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

13.23 Mae Cynllun Monitro a Gwerthuso wedi'i ddatblygu ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru. Mae cydrannau allweddol y Cynllun Monitro a Gwerthuso wedi'u nodi isod:

13.24 Adroddiadau Uchafbwyntiau Misol ar gyfer pob rhaglen a phrosiect;

13.25 Adroddiadau Chwarterol Ffurfiol i'r Bwrdd Uchelgais, Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru;

13.26 Adroddiad Blynyddol Ffurfiol i'r Bwrdd Uchelgais, ei bartneriaid, Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru;

13.27 Gwerthusiad effaith economaidd annibynnol i'w gynnal bob 3-5 mlynedd yn erbyn cyfres o ddangosyddion y cytunwyd arnynt â Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.


13.28 Bydd y buddion ehangach i'w cyflawni drwy gaffael, yn enwedig gwerth cymdeithasol a chymunedol, yn cael eu monitro a'u gwerthuso i sicrhau bod y rhanbarth yn cael y budd mwyaf o'r fath weithgarwch.

13.29 Bydd y Bwrdd Uchelgais yn gweithio â Llywodraeth Cymru i sicrhau bod gwerthuso yn erbyn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gydran allweddol o'r holl weithgareddau monitro a gwerthuso.

13.30 Mae'r Bwrdd Uchelgais wedi ymrwymo i ddatblygu mecanwaith adborth priodol ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru gyda'r ddwy lywodraeth i sicrhau bod y gwersi a ddysgir yn ystod cyflawniad y Cynllun Twf yn cael eu cofnodi a'u rhannu.

# 14. Amserlen Cyflawni Prosiectau'r Cynllun Twf

Ffigwr A. 1 Amserlen Cyflawni'r Cynllun Twf




Ffynhonnell: Y BWRDD UCHELGAIS

Nodyn Eglurhaol ar Gyflawni Preifat yn y Rhaglen Tir ac Eiddo

Yn sgil graddfa'r datblygiad arfaethedig, bydd gan y prosiectau a ganlyn amserlenni cyflawni a fydd yn ymestyn y tu hwnt i 2026 - Porth y Gorllewin, Warren Hall, Bodelwyddan, Cyn Ysbyty Gogledd Cymru. Mae'r amserlen uchod yn cyfeirio at elfennau'r prosiectau hyn a ariannir gan y Cynllun Twf. Dangosir amserlen cyflawni mynegol llawn y prosiectau hyn yn Nhabl 5.4 yn Achos Ariannol Achos Busnes y Rhaglen Tir ac Eiddo.

Atodiad 2

# CYNLLUN TWF GOGLEDD CYMRU - CYTUNDEB TERFYNOL DRAFFT









# 1. Tabl Cynnwys

## Tabl Cynnwys


1. Tabl Cynnwys2
2. Diffiniadau2
3. Rhagair 3
4. Crynodeb Gweithredol4
5. Cyflwyniad5
6. Rhaglenni'r Cynllun Twf15
7. Strwythur Lywodraethol21
8. Rôl y Corff Atebol26
9. Monitro a Gwerthuso27


# 2. Diffiniadau

**[Noder: I'w gynnwys]**

DRAFT

# 3. Rhagair

Mae'r **Cynllun Twf** wedi'i ddatblygu drwy gydweithio agos ac ymrwymiad gan bartneriaid ar draws y llywodraethau a'r sectorau, i gyflawni buddsoddiad a newid cadarnhaol a hirhoedlog a fydd yn galluogi twf economaidd a chyflogaeth yn yr hir-dymor.

Dros y pymtheg mlynedd nesaf, bydd y Cynllun Twf yn ein grymuso i gydweithio a chymryd rheolaeth dros sut rydym yn buddsoddi yn ein dyfodol.

Mae'n gyfle unigryw i ddatganoli buddsoddiadau'r llywodraeth, gwneud y penderfyniadau buddsoddi hynny yn lleol ac arddangos y gwerth a ddaw yn sgil hyn. Yn y pendraw, fel rhan o raglen fuddsoddi ehangach, bydd y Cynllun Twf yn galluogi i ni adeiladu economi bywiog, cynaliadwy a chynhwysol i ni i gyd yng Ngogledd Cymru.

Mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn buddsoddi £240miliwn i Gynllun Twf Gogledd Cymru dros y 15 mlynedd nesaf. Law yn llaw â phartneriaid Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a'r sector preifat, mae'r Cynllun Twf yn ceisio cyflawni cyfanswm o hyd at £1.1bn o fuddsoddiad yn economi'r Gogledd (£240m o'r Cynllun Twf), i greu 3,400 - 4,200 o swyddi ychwanegol net a chynhyrchu £2.0 - £2.4 biliwn mewn GVA ychwanegol net.

Gan adeiladu ar Benawdau'r Telerau, a lofnodwyd ym mis Tachwedd 2019, mae'r ddogfen hon yn amlinellu gweledigaeth rymus i Ogledd Cymru. Nod y Cynllun Twf yw adeiladu economi mwy bywiog, cynaliadwy a gwydn yn y Gogledd, gan adeiladu ar ein cryfderau i roi hwb i gynhyrchedd wrth fynd i'r afael â heriau a rhwystrau economaidd hir-dymor i gyflawni twf cynhwysol. Mae ein dulliau gweithredu i gyflawni twf mewn ffordd gynhwysol, gynaliadwy, y gellir ei ymestyn yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae llofnodi'r ddogfen hon yn cadarnhau ein hymrwymiad ar y cyd i weithredu Cynllun Twf Gogledd Cymru yn llawn dros y pymtheg mlynedd nesaf.

Edrychwn ymlaen at arwain y buddsoddiad pwysig hwn yn ein cartref a'n rhanbarth, Gogledd Cymru.

**[Insert signatures – NWEAB/UK/WG]**


DRAFT

# 4. Crynodeb Gweithredol

**[Noder: I'w gynnwys unwaith y bydd y cynnwys wedi'i gytuno gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU]**

Mae model rhesymeg yn ffordd o fynegi'r cyd-destun ar gyfer newid a buddsoddi. Mae crynodeb o fodel rhesymeg ar gyfer y Cynllun Twf wedi'i nodi yn Ffigwr 1.1 isod ac mae'n rhoi trosolwg o'r gyrwyr strategol, yr amcanion, y mewnbynnau ac effaith y Cynllun Twf.

Ffigwr 1.1 Model Rhesymeg y Portffolio





Ffynhonnell: Hatch; Y BWRDD UCHELGAIS. Nodyn ar Fethiant y Farchnad: **Allanoldebau cadarnhaol:** buddion economaidd/cymdeithasol/amgylcheddol trydydd parti i'r economi/cymdeithas ehangach. Ni all sefydliadau masnachol ddal y rhain i gyd felly mae angen buddsoddiad cyhoeddus. **Methiant gwybodaeth:** nid oes gan fusnesau'r wybodaeth gyflawn am dechnolegau/datblygiadau a allai sicrhau twf. Mae angen buddsoddiad cyhoeddus i bontio'r bylchau gwybodaeth hyn. **Methiant cydlynu:** mae'n bosib nad oes gan un sefydliad yn unig y cymhelliant i fuddsoddi mewn menter sy'n sicrhau buddion i bartneriaid ehangach. Mae angen buddsoddiad cyhoeddus i symbylu buddsoddiad partneriaeth.

# 5. Cyflwyniad

## Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru

Sefydlwyd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (*y cyfeirir ato o hyd ymlaen fel y Bwrdd Uchelgais neu'r Bwrdd*) yn 2012 fel partneriaeth rhwng chwe ardal Awdurdod Lleol rhanbarth Gogledd Cymru, sef Cynghorau Gwynedd, Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Wrecsam a Sir y Fflint. Mae'r Bwrdd hefyd yn cynnwys Prifysgol Bangor, Prifysgol Glyndŵr, Coleg Cambria a Grŵp Llandrillo Menai. Ar ddechrau 2019, sefydlwyd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn ffurfiol fel cyd-bwyllgor.

Ffigwr 5.1 Map o Ogledd Cymru a Phartneriaid y Bwrdd Uchelgais




Mae Cynllun Twf Gogledd Cymru'n bartneriaeth rhwng y sectorau cyhoeddus a phreifat. Mae Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy wedi bod yn cynrychioli'r sector preifat yn gryf iawn ac, fel un o sylfaenwyr y Bwrdd Uchelgais, maen nhw wedi gweithio'n agos iawn gyda phartneriaid a rhanddeiliaid rhanbarthol o'r sector preifat a'r sector cyhoeddus i ffurfio a dylanwadu ar gynnig y Cynllun Twf. Ers 3 Awst 2020, yn sgil heriau a achoswyd gan Covid-19, mae'r Cyngor Busnes wedi tynnu eu haelodaeth yn ôl ond byddant yn bartner hanfodol, er yn fwy o bell, wrth symud ymlaen.

Mae cynrychiolaeth gref i'r sector preifat o hyd yng Nghynllun Twf Gogledd Cymru drwy'r Grŵp Cyflawni Busnes sy'n gweithredu fel corff ymgynghorol annibynnol i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

## Y Weledigaeth ar gyfer Gogledd Cymru

Yn 2016, mabwysiadodd partneriaid y Bwrdd Uchelgais *Weledigaeth ar gyfer Twf yr Economi yng Ngogledd Cymru* (y Weledigaeth Twf).

Y weledigaeth sydd wedi'i mabwysiadu yw datblygu "*rhanbarth hyderus, cydlynol sydd â thwf economaidd cynaliadwy, sy'n elwa i'r eithaf o lwyddiant sectorau economaidd gwerth uchel a'n cysylltiad ag economïau Pwerdy'r Gogledd ac Iwerddon.*.”

Seiliwyd y Weledigaeth Twf ar dair egwyddor allweddol i'r Gogledd:

- **Blaengar** - gan ganolbwyntio ar arloesedd mewn sectorau economaidd gwerth uchel i symud perfformiad economaidd ymlaen.
- **Gwydn** - gan ganolbwyntio ar gadw pobl ifanc, codi lefelau cyflogaeth a gwella sgiliau er mwyn cyflawni twf cynhwysol.
- **Cysylltiedig** - gan ganolbwyntio ar wella isadeiledd trafnidiaeth a digidol er mwyn gwella cysylltedd strategol i'r rhanbarth ac o'i fewn.

Bydd gan Gynllun Twf Gogledd Cymru rôl allweddol wrth gyflawni'r weledigaeth hon. Byddwn yn **flaengar** gyda'n buddsoddiadau - yn adeiladu ar ein cryfderau i roi hwb i gynhyrchedd, meithrin arloesedd a bod yn gystadleuol yn y marchnadoedd yr ydym yn eu gwasanaethu. Mae gennym ganolbwyntiau ymchwil ac arloesedd sydd wedi'u hen sefydlu eisoes, sy'n ein helpu ni i wthio'r ffiniau wrth ddod o hyd i feysydd twf newydd ar gyfer ein busnesau gweithgynhyrchu gwerth uchel. Byddwn yn buddsoddi ymhellach i greu canolfannau rhagoriaeth i wella ein henw da a galluogi twf yn y diwydiant pwysig hwn.

Byddwn yn mynd i'r afael â methiant marchnad hir-dymor sydd wedi bod yn rhwystr i fuddsoddiad masnachol - gan wneud y Gogledd yn lle mwy addas i fuddsoddi ynddo a datgloi'r potensial ar gyfer swyddi medrus gwerth uchel, er mwyn i'n pobl ifanc a chenedlaethau'r dyfodol ffynnu. Byddwn yn mynd i'r afael â'r diffyg tir ac eiddo addas ar gyfer twf busnes a dod â safleoedd ymlaen er mwyn darparu'r tir cyflogaeth a thai yr ydym ei angen ynghyd â buddsoddi yn ein Porthladd yng Nghaergybi.

Drwy fuddsoddi yn awr, rydym yn adeiladu ein **gwytnwch** ar gyfer y dyfodol.

Rydym yn **gysylltiedig** fel rhanbarth. Mae ein partneriaeth ar draws y chwe awdurdod lleol, y prifysgolion, y colegau a'r sector preifat wedi'i hen sefydlu ac yn cryfhau o hyd. Yn ogystal, rydym yn gyrru newid cyfeiriad mewn cysylltedd digidol drwy gydbwyso buddsoddiad mewn isadeiledd a thechnoleg. Rydym yn cyfarch yr ardaloedd hynny sydd angen cysylltiadau band eang cyflymach a mwy dibynadwy fwyaf a gwneud y mwyaf o botensial mynediad i 5G ac arloesedd digidol newydd. Mae cyfleoedd hefyd yn bodoli yn ein cysylltiadau agos gyda'r economïau cyfagos megis Pwerdy'r Gogledd, Iwerddon a Chanolbarth Cymru. Drwy weithio gyda’n gilydd, gallwn adeiladu economïau cryfach.

DRAFT

Byddwn yn cryfhau ein henw da fel rhanbarth cydlynus; rhoi lifer ar ein partneriaethau i hyrwyddo twf yn yr economi sy'n gynaliadwy, yn gynhwysol ac y gellir ei ymestyn. Mae ein Buddsoddiad mewn prosiectau ynni carbon isel yn galluogi i ni gyfrannu'n uniongyrchol i'r argyfwng newid hinsawdd, gan helpu i wneud y Gogledd yn amgylchedd glanach, gwyrddach, ond hefyd gan leoli ein hunain fel un o'r lleoliadau arweiniol yn y DU o fewn y sector ynni carbon isel. Heb anghofio ein economïau sylfaen o fewn amaeth a thwristiaeth, byddwn yn helpu i alluogi ac annog arallgyfeirio i wella dyfodol hir-dymor y diwydiannau allweddol hyn, gan sicrhau bod ganddynt y cyfle i ddatblygu'n gynaliadwy a ffynnu.

Byddwn yn buddsoddi mewn ffordd sy'n hyrwyddo gwerth cymdeithasol ac yn adeiladu cyfoeth yn ein cymunedau. Rydym yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi ei rhwymedigaeth i gyflawni'r Cynllun Twf mewn ffordd sy'n gwella ein llesiant cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd.

## Y Rhanbarth

Adwaenir y Gogledd am ei dirweddau prydferth, ei hanes, ei dreftadaeth, ei ddiwylliant ac mae ganddo'r gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru, ar tua 41.9%[1].

Mae'r Gogledd yn gartref i bron i 700,000 o drigolion ac mae'n cyfrannu £14.2 biliwn i economi'r DU bob blwyddyn,[2] gan gynrychioli 22% o economi Cymru.[3] Yn y Gogledd, rhagamcanir y bydd y boblogaeth yn cynyddu 2.1 y cant yn y cyfnod o 2018-2028, a 3.1 y cant yn y cyfnod o 2018-2038. Mae poblogaeth sy'n heneiddio yng Ngogledd Cymru. Rhwng 1998 a 2018, mae cyfran y boblogaeth sy'n 65 mlwydd oed a throsodd wedi cynyddu o 18.5 y cant i 23 y cant, ac mae cyfran y boblogaeth sy'n 15 mlwydd oed ac iau wedi cwympo o 19.8 y cant i 17.8 y cant.[4]. Mae proffil pobl ifanc 14-18 mlwydd yn y rhanbarth oed wedi parhau'n wastad ers degawd, ond, o 2020 ymlaen, rhagwelir y bydd yn cynyddu, sy'n golygu bod angen i'r rhanbarth ystyried y cyfleoedd sgiliau a chyflogaeth i wasanaethau'r demograffig cynyddol hwn.

Mae'r perfformiad economaidd wedi bod yn wydn yn dilyn yr argyfwng ariannol ac yn ystod y cyfnod o lymder, gyda gwir[5] GVA yn cynyddu 20% ers 2009. Mae hyn o gymharu â 14.9% yn Rhanbarth Dinas Bae Abertawe a 12.6% yn ardal Cynllun Twf Canolbarth Cymru.

---

1 Welsh Government – Summary Statistics for Welsh economic regions: North Wales, May2020

2 Mesurwyd gan Werth Ychwanegol Crynswth (GVA). Ffynhonnell: ONS, data 2018.

3 https://statswales.gov.wales/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/Regional-Accounts/Gross-Value-Added-GDP/gva-by-measure-welsheconomicregion-year

4 Welsh Government – Summary Statistics for Welsh economic regions: North Wales, May2020

5 h.y. wedi'i addasu o ran chwyddiant.

**Yn 2018, y cyfanswm GVA yn y Gogledd oedd £14,239miliwn,** 4.1 y cant yn uwch na'r flwyddyn flaenorol, a oedd yn cyfrif am 21.9 y cant o gyfanswm GVA Cymru (£65,089 miliwn) a 0.8 y cant o gyfanswm GVA y DU (£1,892,681 miliwn) yn y flwyddyn honno.[6] Yn y Gogledd, mae **amrywiaethau eang mewn GVA y pen**, gyda chynhyrchedd penodol wan yn Ynys Môn (53% o gyfartaledd y DU), ond gyda pherfformiad cryfach yn Sir y Fflint a Wrecsam (y ddau yn 81% o gyfartaledd y DU).[7] Mae hyn hefyd yn cael ei adlewyrchu mewn enillion cyfartalog, sydd ymhell o gyfartaledd y DU. Yn wir, mae enillion cyfartalog rhai awdurdodau lleol yn y Gorllewin ymhlith yr isaf yng Nghymru a'r DU. Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 30 Mehefin 2018, y Gogledd oedd â'r gyfradd cyflogaeth uchaf a'r cyfraddau diweithdra a segurdod economaidd isaf o holl ranbarthau Cymru[8]. Fodd bynnag, mae mwy o angen yn y rhanbarth am gyfleoedd cyflogaeth gwerth uchel.

Mae gan y Gogledd nifer o ardaloedd sydd o fewn y 10% uchaf o ardaloedd sydd fwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae nifer o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yn ein hardaloedd gwledig.

**Mae bwlch cynhyrchedd parhaus a chynyddol yn dal i fodoli rhwng y Gogledd a'r DU gydag amrywiadau eang yn y GVA (Gwerth Ychwanegol Crynswth) y pen ledled y rhanbarth. Mae mynd i'r afael â'r bwlch cynhyrchedd a'r anghyfartaledd hwn yn flaenoriaeth bwysig i'r Cynllun Twf.**

Mae economi'r Gogledd yn amrywiol a'r sectorau allweddol yw gweithgynhyrchu, ynni a thwristiaeth yn ogystal â swyddi yn y sector cyhoeddus. Mae'r sector cyhoeddus yn cyfrif am bron i chwarter (24.7%) o GVA y rhanbarth. Mae gweithgynhyrchu yn cyfrif am 1/5 (20.3%) o'r economi, sy'n llawer pwysicach yng Ngogledd Cymru nag yng Nghymru'n gyffredinol (lle mae'n cyfrif am 17% o GVA). Mae cyfanwerthu a manwerthu, trafnidiaeth, gwestai a'r sector bwyd yn cyfrif am 17% o economi'r Gogledd. Mae'r siart isod yn dangos trawstoriad o gyfraniad y diwydiant at GVA 2018 yn y Gogledd. [9]

DRAFT


---

6 https://statswales.gov.wales/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/Regional-Accounts/Gross-Value-Added-GDP/gva-by-measure-welsheconomicregion-year

7 https://statswales.gov.wales/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/Regional-Accounts/Gross-Value-Added-GDP/gvaperhead-by-area-year

8 Welsh Government – Summary Statistics for Welsh economic regions: North Wales, May2020

9 Ffynhonnell: ONS.




Mae cyfran o'r bwlch cynhyrchedd yn cael ei briodweddu gan strwythur sectorau economi'r Gogledd, gyda rhai ardaloedd yn benodol ddibynnol ar sectorau sydd â chyflogau cymharol isel, gan gynnwys twristiaeth a manwerthu. Ar yr un pryd, mae rhai cryfderau, gyda 64,000 o bobl yn gyflogedig mewn *sectorau gwerth uchel*, a ddiffinnir fel gweithgynhyrchu, gwybodaeth a chyfathrebu; a gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol.

**Mae cefnogi sectorau gwerth uchel ac ymdrin â'r rhwystrau hir-dymor i dwf wrth galon Cynllun Twf Gogledd Cymru.**

Mae poblogaeth sy'n heneiddio ledled y rhanbarth a thraddodiad o ddoniau yn symud allan o'r rhanbarth. Er y disgwylir i boblogaeth y Gogledd gynyddu i 7,22,317 erbyn 2039, mae disgwyl i gyfran y boblogaeth sy'n 65 oed neu hŷn gynyddu o 23.6% o 29.8%. Mae hyn yn golygu cyfran lai o bobl oedran gweithio, a allai roi pwysau ar y cyflenwad sgiliau.

Roedd y gyfradd cyflogaeth ymysg trigolion oedran gweithio yn y Gogledd yn 75.9% ym mis Mawrth 2020, oedd yr un fath â'r DU. Dros 5 mlynedd, rhwng mis Mawrth 2015 a mis Mawrth 2020, ychwanegwyd 18,300 o swyddi i'r economi, twf o 6.2 y cant ar gyfer y rhanbarth. Amlinellir effeithiau penodol COVID-19 ar economi'r Gogledd a'r Cynllun Twf yn yr adran nesaf.

**Mae buddsoddi yn y sgiliau sy'n cyd-fynd ag anghenion cyfleoedd cyflogaeth newydd y rhanbarth yn sylfaenol i iechyd economaidd y Gogledd yn y dyfodol.**

DRAFT

## Yr Achos dros Newid

Mae'r adran hon yn nodi'r heriau a'r cyfleoedd ar draws y sectorau allweddol yn economi'r Gogledd y mae'r Cynllun Twf yn ceisio mynd i'r afael â nhw:

**Gweithgynhyrchu gwerth uchel**

- **Bydd cefnogi arloesedd ac ymchwil a datblygu**: mae angen am gyfleusterau a chefnogaeth dechnegol â busnesau unigol yn methu â chael mynediad at y sgiliau a'r arbenigedd i arloesi a gwella cynhyrchedd drwy arbedion effeithlonrwydd.
- **Cefnogi'r rhaglen carbon isel**: mae angen cryf i ddatgarboneiddio'r diwydiant er mwyn bodloni targedau cenedlaethol ar gyfer twf glân, ynghyd â gwneud y mwyaf o gyfleoedd yn y farchnad, gyda disgwyliad y bydd nifer y swyddi coler werdd yn tyfu i 2 filiwn a gwerth allforion y DU o'r economi carbon isel dyfu £170 biliwn bob blwyddyn erbyn 2030.
- **Integreiddio'r gadwyn gyflenwi**: Mae disbyddiad cynyddol neu 'gafnu' yn y gadwyn gyflenwi sydd wedi'i lleoli yng Nghymru ac yn y DU dros ddegawdau diweddar yn cyflwyno bygythiad hirdymor i'r galluedd cynhyrchu a gweithgynhyrchu a'i ffyniant yn y dyfodol. Mae angen ail-adeiladu a chynnal busnesau bach a chanolig eu maint o fewn cadwyni cyflenwi i yrru'r elfen gystadleuol.
- **Gwella cynhyrchedd**: Mae sectorau gweithgynhyrchu uwch y Gogledd yn sectorau cynhyrchedd uchel cymharo yn yr economi, ond mae potensial mawr i gynyddu cynhyrchedd drwy dargedu buddsoddiadau mewn ymchwil a datblygu a sgiliau.

**Bwyd-amaeth a thwristiaeth**

- **Tan-fuddsoddiad mewn Ymchwil a Datblygu ac Arloesedd**: Mae data'r Cyngor Ymchwil Peirianneg a Gwyddorau Ffisegol (EPSRC) yn awgrymu mai dim ond 2% (c. £95 miliwn) o'r holl grantiau sy'n cael eu cynnig sydd wedi'u cyfeirio at y sector Bwyd a Diod. Roedd y gwariant ar ymchwil a datblygu ar draws y sectorau hyn gyfwerth â 1.3% o'r holl wariant ar ymchwil a datblygu ar draws yr holl sectorau yn y DU yn 2018, er bod y sectorau hyn yn cyfrif am 10% o gyfanswm cyflogaeth.
- **Cefnogi'r rhaglen carbon isel ar draws Cymru a'r DU**: O safbwynt amgylcheddol, mae lleihau allyriadau carbon yn hanfodol i gynaladwyedd Cymru yn y dyfodol a chafodd hyn ei gydnabod yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n gosod targed i leihau allyriadau o leiaf 80% yn erbyn gwaelodlin 1990. Gallai cyflwyno ymarferion rheoli tir carbon isel cynaliadwy, ynghyd â gyrru arloesedd a thechnolegau carbon isel newydd yn y sector amaethyddiaeth gyfrannu at y rhaglen gostwng carbon hir-dymor.
- **Gwella cynhyrchedd**: Yn 2017, roedd yr allbwn gros fesul hectar o dir amaethyddol yn £858 yng Nghymru, sy'n sylweddol is na rhanbarth mwyaf cynhyrchiol y DU, sef De Ddwyrain Lloegr (£3,190 fesul hectar). Mae'r sector twristiaeth hefyd yn dioddef o lefelau cynhyrchedd is na'r rhai a welir yn Lloegr, gyda GVA fesul gweithiwr yn y sector twristiaeth gyfystyr â £19,600, 14% yn is na'r metrig cyfatebol yn Lloegr.
- **Cwrdd ag anghenion sgiliau**: Awgrymodd yr Arolwg Sgiliau Cyflogwr diweddaraf bod 25% o fwytai a gwestai yng Nghymru wedi adrodd am ddiffyg sgiliau a 45% o fusnesau mewn prif ddiwydiannau (sy'n cynnwys amaethyddiaeth). Bu i'r ddau sector hefyd adrodd am gynnydd mewn bwlch sgiliau o'r arolwg blaenorol, gyda

gwestai a bwytai yn adrodd am +3% o gynnydd, a phrif ddiwydiannau'n adrodd am +28% o gynnydd.

- **Arallgyfeirio a gwytnwch**: y sectorau amaeth, bwyd a thwristiaeth yw asgwrn cefn nifer o economïau lleol yn y Gogledd. Gyda'r ymadawiad o'r Undeb Ewropeaidd ar y gorwel, a cholled y cyllid cysylltiedig, mae'n bwysig bod gan fusnesau gweledig gefnogaeth a gwybodaeth i'w helpu i arallgyfeirio.
- **Diffyg eiddo priodol**: Mae ymchwil a gynhaliwyd gan Arad ar gyfer Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon yn nodi bod y diffyg eiddo graddfa bwyd, cyfleusterau datblygu cynnyrch lleol a chefnogaeth dechnegol yn llesteirio potensial y sector, gyda busnesau unigol yn methu â chael mynediad at y sgiliau a'r arbenigedd i arloesi a gwella cynhyrchedd drwy arbedion effeithlonrwydd.

**Ynni carbon isel**

- **Mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd**: Ymateb i'r argyfwng hinsawdd a ddatganwyd gan Lywodraeth Cymru a'r nod o gyflawni Sero Net erbyn 2050. Mae angen ddatgarboneiddio system ynni'r Gogledd, gan gynnwys pŵer (e.e. cynhyrchu ynni carbon isel cynyddol), tai (gan gynnwys heriau cysylltiedig â nifer uchel o gartrefi heb fod ar y grid nwy) a thrafnidiaeth.
- **Cefnogi twf economaidd yn y sectorau ynni carbon isel**: ecsbloetio cryfderau lleol a manteision cystadleuol (e.e. seilwaith ynni presennol, cryfderau ymchwil a gweithlu medrus) i yrru twf yn y sector ynni carbon isel lle mae cyfleoedd twf sylweddol yn genedlaethol (rhagolygon y bydd y sector yn tyfu 11% y flwyddyn hyd 2030). Mae angen oddeutu £10.9bn o fuddsoddiad ychwanegol erbyn 2035 er mwyn rhoi'r rhanbarth ar y trywydd iawn i gyflawni Sero Net. Mae gan y lefel hon o fuddsoddiad y potensial i greu hyd at 24,400 o swyddi newydd.

**Tir ac eiddo**

- **Angen am ofod llawr cyflogaeth modern**. Mae'r rhwydwaith o safleoedd strategol parod, sydd â'r gallu i gefnogi twf busnesau cynhenid a mewnfuddsoddiad yn gymharol wan a darniog
- **Mae gwerth tir isel a chyfyngiadau seilwaith** wedi arwain at ddiddordeb annigonol gan ddatblygwyr, gan arwain at ddiffyg cyflenwad o dai ac eiddo masnachol. Hyd yma, mae'r farchnad wedi methu â mynd i'r afael â'r heriau hyn ac felly mae angen penodol am gyllid y Cynllun Twf fel bod modd cyflawni gofod cyflogaeth, tir preswyl wedi'i wasanaethu a gwelliannau i Borth Caergybi.

**Cysylltedd digidol**

- **Ymdrin â'r rhaniad digidol:** er mwyn i economi'r Gogledd ffynnu ac er mwyn i sectorau allweddol dyfu i'w llawn botensial; rhaid mynd i'r afael â bylchau arwyddocaol mewn cysylltedd. Mae angen cynyddu cysylltedd gigabit mewn safleoedd twf allweddol yn gyflym, sicrhau bod ardaloedd gwledig lle nad oes unrhyw gysylltedd yn cael eu taclo'n llawn, cyflawni cysylltedd symudol ar draws coridorau ac asedau economaidd a darparu'r sylfeini ar gyfer mwy o ecwiti a chynhwysiad cymdeithasol.

- **Ymateb i alw clir am well cysylltedd:** mae corff eang o dystiolaeth yn dangos yr angen rhagweledol am fand llydan sefydlog a symudol ar gyfer y ganrif nesaf a chost darpariaeth wael, perthnasol i rannau eraill o'r DU. Mae dyhead eithriadol i ddefnyddio technolegau mwy soffistigedig a defnydd arloesol, a fydd yn sicrhau cynhyrchedd, effeithiolrwydd a chystadleuaeth ledled y rhanbarth.
- **Creu amodau cystadleuol yn y farchnad**: Mae cysylltedd digidol y Gogledd wedi cael ei gyfyngu gan ddiffyg cystadleuaeth yn y farchnad ar lefel cyfanwerthu, ac o fewn graddfa'r newid a gynigir gan ddarparwyr band eang ar lefel manwerthu. Mae cyfle i ymateb i hyn drwy greu amodau sy'n gwella pa mor ddeniadol yw'r farchnad, lleihau costau defnyddwyr, cynyddu nifer y defnyddwyr terfynol a darparu'r sail ar gyfer buddsoddiad masnachol tymor hwy.
- **Sefydlu coridor digidol gyda'r gorau yn y byd:** yr A55 yw'r prif echel economaidd ar gyfer y Gogledd, yn cysylltu safleoedd allweddol, hybiau ar gyfer twf ac asedau mwyaf amlwg y rhanbarth. Mae cyfle yma i sicrhau bod 5G a band eang ffibr llawn yn creu coridor cyflymder uchel di-dor, fel sail ar gyfer defnyddio technoleg clyfar ar raddfa fawr, cynlluniau peilot a phrawf ac fel lifer i fewnfuddsoddiad.
- **Ymestyn y capasiti ymchwil digidol:** Mae gan y Gogledd broffil sy'n dod i'r amlwg fel sylfaen ar gyfer ymchwil arloesol ac sy'n cael ei arwain gan dechnoleg, dan arweiniad sefydliadau addysg uwch a'r sector preifat. Mae yma gyfle i fynd â hyn ymhellach, gan dynnu ar ffynonellau eraill o gyllid a bwriad busnes, gan greu màs critigol o dechnoleg, arbenigedd ac uchelgais i sicrhau bod y Gogledd ar flaen y gad o ran darganfod a defnyddio'r technolegau diweddaraf.

## Effaith economaidd COVID-19

Mae Covid-19 wedi cael effaith economaidd syfrdanol ar y Gogledd, yn yr un modd â rhannau eraill o'r DU ac yn fyd-eang. Mae'r Bwrdd Uchelgais Economaidd yn gweithio'n agos gyda'r chwe awdurdod lleol, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU a chynrychiolwyr o'r sector preifat i gydlynu'r ymateb rhanbarthol i adfer yr economi. Nid yw'n hysbys eto beth yw effeithiau tymor hwy Covid-19 ar yr economi rhanbarthol.

Mae gwaith ar y gweill i ddiffinio cyflwr yr economi yn y Gogledd yn ystod yr hyn sydd wedi bod yn gyfnod cyfnewidiol a heriol i fusnesau a gweithwyr ar draws sawl sector. Mae'r cyfnod hwn o ansicrwydd a achoswyd gan y pandemig yn parhau a chyda'r cyfnod trosiannol ar gyfer gadael yr UE yn dod i ben ar 31 Rhagfyr, mae'r gaeaf yn edrych yn llwm. Yn nhermau cryfhau'r economi yn yr hir-dymor, bydd y Cynllun Twf yn ffynhonnell dda o obaith a buddsoddiad i ddinasyddion y Gogledd.

Mae'r ymyraethau sydd eisoes wedi'u cymryd a'u cynllunio i greu ymagwedd ddibynadwy ac ar sail tystiolaeth i'r dadansoddiad sefyllfaol yn cynnwys arolwg rhanbarthol o fusnesau a wnaeth ddenu dro 1,800 o ymatebion. Adroddiad a gomisiynwyd ar dwristiaeth i adnabod y cryfderau, y gwendidau a'r cyfleoedd i warchod ac adfywio a datblygu'r economi twristiaeth yn gynaliadwy. Penodi partner economaidd annibynnol i gyd-ddatblygu'r dadansoddiad sefyllfaol a'r fframwaith ar gyfer cynllunio adfer ar gyfer y Gogledd. Gan edrych i ddechrau ar adfer yr economi yn y tymor agos ar ôl Covid ond gan

gydnabod yr angen i fesur a gwerthuso effaith buddsoddiad y Cynllun Twf ar economi'r Gogledd yn yr hir-dymor drwy gydol oes y cynllun twf.

Mae'r Cynllun Twf wedi'i ddylunio i fynd i'r afael â rhwystrau strwythurol, hir-dymor sy'n atal twf economaidd. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd yn gwbl ymwybodol yn y byr-dymor y bydd angen amrediad o gamau gweithredu er mwyn hwyluso adferiad ac mae sicrhau bod y mesurau byr-dymor hynny'n cyd-fynd â'r Cynllun Twf yn allweddol.

Ni all y Cynllun Twf ar ei ben ei hun fynd i'r afael â'r holl heriau sy'n wynebu economi'r Gogledd, yn enwedig yng ngoleuni COVID-19. Fodd bynnag, bydd y chwistrelliad sylweddol o fuddsoddiad cyfalaf i economi'r Gogledd o du'r Cynllun Twf yn hwb arwyddocaol i'r sectorau adeiladu a chysylltiedig a hynny ar adeg pan mae'n debygol y bydd capasiti dros ben yn yr economi.

## Y Buddsoddiad

Bydd y buddsoddiad gan Lywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn gweithredu fel catalydd a sbardun i ddatgloi buddsoddiad a chynorthwyo adferiad yr economi yn y rhanbarth.

Mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo hyd at £120 miliwn yr un i'r buddsoddiad (cyfanswm o £240 miliwn) dros y 15 mlynedd nesaf, gyda Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru hefyd yn ymrwymo i sicrhau hyd at £900miliwn o fuddsoddiad, sy'n cynrychioli cynllun buddsoddiad cyffredinol sydd werth dros £1 biliwn.

Drwy Weledigaeth Twf Gogledd Cymru, mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU a'u partneriaid yn dechrau perthynas strategol newydd sy'n creu gwaddol hirhoedlog a fydd yn trawsffurfio'r rhanbarth yn yr hir-dymor gyda chanolfannau cydlynus ar draws rhaglenni allweddol fel yr amlinellir yn Nhabl 1.

**Tabl 1: Crynodeb Ariannol Cynllun Twf Gogledd Cymru**

| Maes Rhaglen | Cyfraniad y Llywodraethau (£m) | Cyfraniad Cyhoeddus (£m) | Cyfraniad Preifat (£m) | Cyfanswm Costau'r Rhaglen (£m) |
|---|---|---|---|---|
| **Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel** | 13.0 | 26.5 | 0.0 | 39.5 |
| **Cysylltedd Digidol** | 37.0 | 3.1 | 1.6 | 41.7 |
| **Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth** | 24.5 | 12.4 | 4.4 | 41.3 |
| **Tir ac Eiddo** | 79.1 | 1.9 | 274.4 | 355.4 |
| **Ynni Carbon Isel** | 86.4 | 140.4 | 441.7 | 668.5 |
| **Cyfanswm** | **240.0** | **184.3** | **722.1** | **1,146.4** |

## Effaith y Cynllun Twf

Mae'r cytundeb Penawdau'r Telerau yn nodi y byddai buddsoddiad y Llywodraeth yn cael ei ddefnyddio i greu hyd at 4,000 o swyddi newydd, cefnogi cynnydd o 5% mewn GVA a sicrhau £500 miliwn mewn buddsoddiad gan y sector preifat dros y cyfnod o 15 mlynedd. Wrth ddatblygu portffolio a phum rhaglen achos busnes i sicrhau cytundeb y Cynllun Terfynol gyda Llywodraethau Cymru a'r DU, mae'r rhain wedi cael eu mireinio i'r amcanion gwario a ganlyn ar gyfer Portffolio Cynllun Twf Gogledd Cymru. Mae'r holl raglenni a phrosiectau o fewn y Cynllun Twf yn cyfrannu at yr amcanion cyffredinol hyn.

| | |
|---|---|
| **Amcan Gwariant 1 - Swyddi** | **Creu rhwng 3,400 a 4,200 o swyddi newydd net yn y Gogledd drwy'r Cynllun Twf erbyn 2036.** |
| **Amcan Gwariant 2 - GVA** | **Cefnogi cynnydd ychwanegol net o rhwng £2.0 biliwn a £2.4 biliwn mewn GVA i Economi'r Gogledd drwy'r Cynllun Twf erbyn 2036.** |
| **Amcan Gwariant 3 - Buddsoddiad** | **Cyflawni cyfanswm o hyd at £1.1 biliwn o fuddsoddiad yn Economi'r Gogledd drwy'r Cynllun Twf erbyn 2036.** |

Bydd holl raglenni a phrosiectau'r Cynllun Twf yn cyfrannu at gyflawni'r amcanion gwariant uchod. Bydd pob un o'r rhaglenni yn cynhyrchu cyfres o fuddion sydd wedi cael eu dosbarthu fel buddion uniongyrchol, anuniongyrchol ac ehangach. Mae union natur y rhain yn amrywio rhwng y rhaglenni. Mae'r prif fathau yn cael eu crynhoi isod, yn ôl rhaglen.

Ffigwr 1.2 Fframwaith Buddion




Ffynhonnell: Hatch

# 6. Rhaglenni'r Cynllun Twf

Nod y Cynllun Twf yw adeiladu economi mwy bywiog, cynaliadwy a gwydn yn y Gogledd, gan adeiladu ar ein cryfderau i roi hwb i gynhyrchedd wrth fynd i'r afael â heriau a rhwystrau economaidd hir-dymor i gyflawni twf cynhwysol. Mae ein dulliau gweithredu i gyflawni twf mewn ffordd gynhwysol, gynaliadwy, y gellir ei ymestyn yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r Cynllun Twf yn seiliedig ar gyflawni 14 o brosiectau trawsffurfiol ar draws pum rhaglen. Mae'r rhaglenni wedi'u diffinio fel naill ai rhaglenni twf uchel neu raglenni hwyluso.

## Sectorau Twf Uchel i yrru cynhyrchedd yn y rhanbarth

Bydd y prosiectau o fewn y Cynllun Twf wedi'u hanelu at gynyddu gwerth ac effaith y sectorau twf uchel yn canolbwyntio ar dair prif raglen:

- **Rhaglen Ynni Carbon Isel,** mae'r prosiectau hyn yn cynnwys:
  - Morlais
  - Gorsaf Bŵer Trawsfynydd
  - Canolfan Ragoriaeth Carbon Isel
  - Ynni Lleol Blaengar
  - Datgarboneiddio Trafnidiaeth
- **Rhaglen Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel,** mae'r prosiectau hyn yn cynnwys:
  - Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol
  - Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter
- **Rhaglen Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth,** mae'r prosiectau hyn yn cynnwys:
  - Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon
  - Canolfan Carbon Niwtral Llysfasi
  - Rhwydwaith TALENT Twristiaeth

## Mynd i'r afael â'r rhwystrau allweddol i hwyluso a chyflawni twf economaidd

Rydym wedi adnabod sectorau hwyluso drwy'r Cynllun Twf i fynd i'r afael â rhwystrau economaidd allweddol a rhoi sylw i faterion strwythurol sydd wedi cael effaith ar gynhyrchedd a swyddi. Bydd cyflawni yn y sectorau hyn yn creu'r amodau priodol i fusnesau fuddsoddi yn y rhanbarth ac i'r farchnad lafur gymryd mantais ar gyfleoedd cyflogaeth newydd. Byddwn yn defnyddio dulliau mwy strategol i'n buddsoddiadau, gan sicrhau eu bod wedi'u targedu'n dda er mwyn hwyluso twf economaidd a thwf mewn cyflogaeth ledled y rhanbarth. Gwneir hyn mewn partneriaeth â phartneriaid allweddol, yn enwedig Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.

Mae'r prosiectau o fewn y Cynllun Twf i fynd i'r afael â rhwystrau allweddol i dwf yn canolbwyntio ar ddwy raglen allweddol:

- **Rhaglen Tir ac Eiddo,** mae'r prosiectau hyn yn cynnwys:



DRAFT

- Tir ac Eiddo Rhanbarthol
- Porth Caergybi

- **Rhaglen Digidol,** mae'r prosiectau hyn yn cynnwys:
  - Cysylltedd Digidol
  - Canolfan Prosesu Signal Digidol


Drwy ganolbwyntio ar gyflawni'r rhaglenni hyn ar y cyd, bydd y Bwrdd yn llwyddo i gael effaith well yn nhermau ein huchelgais a'n defnydd o adnoddau yn hytrach na'u cyflawni nhw ar wahân.

Mae dwy raglen hwyluso pellach yn eistedd y tu allan i sgôp Cynllun Twf Gogledd Cymru i'w hariannu o ffynonellau eraill:

- **Sgiliau a Chyflogaeth**
- **Trafnidiaeth Strategol**

Mae'r rhaglen yn parhau'n allweddol i gyflawni'r weledigaeth ehangach ar gyfer y Gogledd ac mae'r Bwrdd Uchelgais yn gweithio gyda'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol a thrwy ei Is-fwrdd Trafnidiaeth i adnabod a sicrhau ffynonellau cyllid amgen i gyflawni'r rhaglenni hyn.

Ffigwr 6.1 Rhaglenni'r Cynllun Twf




Ffynhonnell: Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru


Bydd pob un o'r rhaglenni a'r prosiectau o fewn y Cynllun Twf yn cyfrannu at gyflawni'r Weledigaeth Twf a chyflawni buddion i'r Gogledd. Bydd y buddion o'r Cynllun Twf yn cefnogi twf cynaliadwy a chynhwysol ledled y rhanbarth - yn unol â'r Weledigaeth Twf ynghyd â blaenoriaethau Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Gweler isod grynodeb o'r amcanion strategol i roi sylw iddynt ymhob rhaglen, a'r mathau o ymyraethau y maent yn bwriadu eu hwyluso.

### Ynni carbon isel

**Amcanion strategol**: Mynd i'r afael â newid hinsawdd drwy gefnogi cynhyrchu ynni carbon isel newydd yng Ngogledd Cymru, a gyrru buddsoddiad cynyddol mewn cadwyni cyflenwi a thwf mewn sectorau ynni carbon isel.


**Mathau o ymyrraeth**: Hwyluso gwaith ar gyfer cynhyrchu ynni carbon isel newydd yn y Gogledd, gan wella cyfleusterau ymchwil ac arloesedd ar gyfer y sectorau economi carbon isel, a chefnogaeth ar gyfer y prosiectau ynni lleol.



**Arloesi mewn gweithgynhyrchu gwerth uchel**

**Amcanion strategol**: Sicrhau bod y Gogledd yn parhau i fod yn gystadleuol ac yn cael cydnabyddiaeth yn ardaloedd ymchwil ac arloesedd hir-sefydlog y rhanbarth, gan gynorthwyo i yrru arloesedd, cystadleuaeth a chynhyrchedd ar draws sectorau gweithgynhyrchu'r Gogledd.


**Mathau o ymyrraeth**: Cydweithrediadau diwydiant ac ymchwil, ynghyd â sefydlu canolfannau rhagoriaeth er mwyn helpu i oresgyn rhwystrau a methiannau yn y farchnad yn y broses masnacheiddio ymchwil.



### Bwyd-amaeth a thwristiaeth

**Amcanion strategol**: Arallgyfeirio a gwella cynaladwyedd hir-dymor amaethyddiaeth a thwristiaeth, gan sicrhau eu bod yn fwy cynhyrchiol a pharhaus yn yr hirdymor, gan gefnogi'r agenda carbon isel ar yr un pryd.


**Mathau o ymyrraeth**: Cyflwyno technolegau newydd ac arloesedd, sgiliau ac ymarferion yn y sectorau hyn, drwy gefnogaeth busnes ac uwchsgilio.



### Tir ac eiddo

**Amcanion strategol**: Mynd i'r afael â'r diffyg tir ac eiddo addas ar gyfer twf busnes a dod â safleoedd ymlaen ar gyfer datblygiadau tai a chyflawni gwelliannau a fydd yn sbarduno buddsoddiad ym Mhorthladd Caergybi a'r rhanbarth ehangach. Bydd gan y prosiectau hyn rôl hwyluso ar gyfer y rhaglenni eraill drwy sicrhau bod safleoedd wedi'u gwasanaethu ar gael i fuddsoddwyr a datblygwyr.

**Mathau o ymyrraeth**: Darparu gwasanaethau sylfaenol a gwaith hwyluso i ddwyn safleoedd datblygu masnachol a thai ymlaen, cyflawni gofod llawr cyflogaeth a sicrhau gwaith gwella capasiti ac addasu ar gyfer y dyfodol ym mhorthladd Caergybi.



**Digidol**

**Amcanion strategol**: Cyflawni newid amlwg yn y cysylltedd digidol sydd ei angen i sicrhau y gall y Gogledd gyflawni galw'r defnyddwyr, cynnal cyflymdra â gweddill y DU, datgloi potensial sectorau a safleoedd â blaenoriaeth am dwf a thanategu ecosystem arloesi ffyniannus. Chwarae rôl hwyluso ar gyfer rhaglenni eraill i gyflawni'r budd mwyaf bosib.

**Mathau o ymyrraeth**: Mae'r rhaglen wedi adnabod angen i gydbwyso buddsoddiad mewn seilwaith a thechnoleg, drwy ôl-troed band eang sefydlog estynedig mewn safleoedd allweddol mewn ardaloedd gwledig, yn datgloi ceisiadau drwy fynediad 5G a bwrw ymlaen ymhellach ag arloesedd digidol.




# 7. Strwythur Lywodraethol

Mae trefniadau llywodraethu'r Cynllun Twf yn caniatáu i benderfyniadau gael eu gwneud mewn modd agored a thryloyw er budd y rhanbarth cyfan. Mae'r adran hon yn manylu ar y trefniadau hyn a sut maent yn cyfrannu at reoli'r rhaglen a'r risgiau cysylltiedig.

Sefydlwyd y Bwrdd gan bartneriaid awdurdodau lleol fel cyd-bwyllgor yn 2019 a hwn yw'r corff sy'n gwneud penderfyniadau ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru. Yn ogystal, mae iddo rôl ehangach i arwain cydweithio rhanbarthol yn fwy cyffredinol. Mae trefniadau llywodraethu'r Bwrdd wedi'u tanategu gan y cytundeb partneriaeth 'Cytundeb Llywodraethu 2' sydd i'w fabwysiadu wrth gwblhau'r Cynllun Twf Terfynol.

Mae gan Lywodraethau Cymru a'r DU gysylltiadau â'r strwythur llywodraethu yn ffurfiol ac yn anffurfiol.

## Cytundeb Llywodraethu 2

Wedi sicrhau'r Cynllun Twf, mae'r Partneriaid wedi cytuno i ymrwymo i ail Gytundeb Llywodraethu ("GA2") a fydd yn cefnogi'r bartneriaeth i wedd nesaf gweithredu'r Cynllun Twf a datblygu'r Weledigaeth Twf ymhellach.

Mae'r cytundeb, sy'n ddogfen sydd wedi'i rhwymo mewn cyfraith, yn diffinio rôl a swyddogaeth y Bwrdd, a'i bwerau dirprwyedig. Yn ogystal, mae'n darparu ar gyfer ei strwythurau gwneud penderfyniadau ac atebolrwydd democrataidd. Gwneir darpariaeth ar gyfer ymrwymiadau'r Partneriaid i'r prosiectau a sut caiff y rhain eu rheoli a'u dosrannu. Mae GA2 yn rhoi sicrwydd i'r Awdurdod Lletya ("Cyngor Gwynedd"), wrth gymryd y rôl honno. Yn ogystal, rhoddir sylw i'r trefniadau gwaelodol sy'n darparu ar gyfer materion cyfreithiol a chydymffurfio o fewn y bartneriaeth a llywodraethu'r Swyddfa Rheoli Perfformiad.


Mae'n ddogfen allweddol, sy'n rhoi strwythur a sylfaen glir, er mwyn bwrw ymlaen â gweithredu'r Cynllun Twf.

## Trefniadau Rheoli Portffolio, Rhaglenni a Phrosiectau

Mae'r Bwrdd wedi mabwysiadu model cyflawni sy'n seiliedig ar ddull arfer gorau ar gyfer rheoli'r portffolio, y rhaglenni a'r prosiectau fel sydd wedi'i nodi yn *'Government Functional Standard GovS 002: Project Delivery'*. Mae rheoli'r portffolio, y rhaglenni a'r prosiectau yn ffordd integredig o fodloni uchelgeisiau'r sefydliad, gan annog gwell penderfyniadau a chynyddu'r tebygolrwydd o gael deilliannau llwyddiannus.

Mae'r diagram isod yn amlinellu strwythur cyflawni llywodraethu rheoli rhaglen a phrosiect ar gyfer y Cynllun Twf:

Ffigwr 1.3 Strwythur Cyflawni'r Cynllun Twf




Ffynhonnell: Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru

### Lefel Strategol a Phortffolio

**Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (Grŵp Ariannu)** - Mae'r Bwrdd yn gweithredu fel Grŵp Ariannu (Sefydliad) a'r Corff Gwneud Penderfyniadau. Mae'r holl hawliau dan y lefel hon wedi'u dirprwyo i bartïon perthnasol fel sydd angen drwy benderfyniad ffurfiol gan y Bwrdd. Bydd aelod o'r Bwrdd yn cymryd rôl Aelod Arweiniol ar gyfer pob un o'r rhaglenni ac yn eistedd ar y Bwrdd Rhaglen perthnasol. Y Bwrdd fydd yn gyfrifol am ystyried a chymeradwyo achosion busnes prosiectau o fewn y portffolio a bydd y cyfrifoldeb am gyflawni'n cael ei ddirprwyo i'r byrddau rhaglen a phrosiect perthnasol.

**Grŵp Cefnogaeth Weithredol (Bwrdd Portffolio)** - Y grŵp hwn yw'r corff ymgynghorol i'r Bwrdd Uchelgais ond mae hefyd yn gweithredu fel y Bwrdd Portffolio ar gyfer y Cynllun Twf i gefnogi a herio Cyfarwyddwr Portffolio'r Cynllun Twf i sicrhau ei fod yn cael ei gyflawni. Mae uwch swyddogion o bob un o bartneriaid y Bwrdd Uchelgais yn gwasanaethu ar y grŵp. Bydd aelod o'r Grŵp Cefnogaeth Weithredol yn gweithredu fel Uwch Berchennog Cyfrifol (SRO) ar gyfer pob un o'r rhaglenni ac yn arwain y Bwrdd Rhaglen perthnasol.

**Cyfarwyddwr Portffolio** - - Mae'r Cyfarwyddwr Portffolio yn atebol i'r Bwrdd Uchelgais ar gyfer cyflawni portffolio'r Cynllun Twf.

### Lefel Rhaglenni a Phrosiectau

**Swyddfa Rheoli Portffolio (PMO) -** Mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn cefnogi ac yn cydlynu gweithgareddau ar draws y rhaglenni gan weithredu fel hwb gwybodaeth a sicrhau bod dulliau adrodd, rheoli risg a materion yn gyson. Yn ogystal, mae'n gweithredu fel rôl sicrwydd werthfawr, gan roi cyngor a her i raglenni a phrosiectau. Aseinir Rheolwr Rhaglen ar gyfer pob rhaglen o blith y PMO.

**Byrddau Rhaglen -** Bydd gan bob rhaglen Fwrdd Rhaglen ffurfiol ac Uwch Berchennog Cyfrifol wedi'i benodi. Bydd y byrddau hyn yn canolbwyntio ar ddatblygu (i ddechrau) a chyflawni Achos Busnes cytûn y Rhaglenni, gyda ffocws penodol ar y buddion a'r deilliannau i'w cyflawni. Mae'r Byrddau Rhaglen yn dyrchafu i'r Bwrdd Portffolio drwy'r Cyfarwyddwr Portffolio.

**Byrddau Prosiect** - Bydd yr holl brosiectau o fewn y Cynllun Twf yn cael eu rheoli drwy Fwrdd Prosiect, gydag Uwch Berchnogion Cyfrifol a rheolwyr prosiect yn eu lle i sicrhau cyflawniad. Bydd y byrddau hyn yn canolbwyntio ar ddatblygu a chyflawni Achos Busnes cytûn y Rhaglenni, gyda ffocws penodol ar y buddion a'r deilliannau i'w cyflawni. Y Partner Arweiniol fydd yn gyfrifol am y Prosiectau a'r Byrddau Prosiect a bydd trefniadau clir ar gyfer cyflawni prosiectau yn unol ag arferion gorau yn cael eu nodi yn achos busnes pob prosiect. Bydd prosiectau yn adrodd i'r Bwrdd Rhaglen perthnasol. Cytunir ar y Cylch Gorchwyl ar gyfer Byrddau Prosiect rhwng y Partner Arweiniol a'r Swyddfa Rheoli Portffolio i sicrhau bod y ddau barti'n deall y cysylltiadau priodol a'r trefniadau adrodd rhwng y prosiect a'r Bwrdd Rhaglen.

## Rheolau Sefydlog, dirprwyo hawliau a chylch gorchwyl

Mae Swyddfa Rheoli Portffolio wedi'i sefydlu gan y Bwrdd er mwyn cyflawni'r Cynllun Twf. Cânt eu cyflogi gan Gyngor Gwynedd fel y Corff Atebol ac maent yn gweithredu i'w safonau, eu gweithdrefnau a'u polisïau yn gyffredinol.

Mae Cytundeb Llywodraethu 2 yn gosod yr hawl a ddirprwyir i'r Bwrdd gan y Sefydliadau Partner a pha hawliau sydd wedi'u dirprwyo i'r Cyfarwyddwr Portffolio. Mae cylch gorchwyl y Bwrdd wedi'i gynnwys fel rhan o Gytundeb Llywodraethu 2.

## Adnoddau

Mae Swyddfa Rheoli Portffolio wedi'i sefydlu er mwyn cyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru. Sefydlwyd Swyddfa Rheoli Portffolio'r Bwrdd Uchelgais ym mis Ionawr 2020 i gymryd trosolwg o gyflawniad Cynllun Twf Gogledd Cymru, ei raglenni a'r brosiectau. Dan arweiniad y Cyfarwyddwr Portffolio, mae'r tîm yn cynnwys rheolwyr prosiectau a rhaglenni profiadol, ynghyd â staff gweithredol. Cefnogir y tîm yn benodol gan adnoddau cyfreithiol ariannol a ddarperir drwy'r Corff Atebol ynghyd ag ystod eang o adnoddau ychwanegol a ddaw o'r holl bartneriaeth.

## Y Broses Gwneud Penderfyniadau

Mae'r partneriaid Cynllun Twf Gogledd Cymru wedi ymrwymo i osod prosesau gwneud penderfyniadau a rheolaeth ariannol cadarn er mwyn sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n gyfrifol a bod atebolrwydd drosto. Mae'r Bwrdd yn gyd-bwyllgor gweithredol Awdurdod Lleol ac, o'r herwydd, mae'n amodol ar ofynion mewn perthynas â thryloywder, atebolrwydd, safonau llywodraethu, gwneud penderfyniadau ac ymddygiad sy'n berthnasol i gorff o'r fath.

Gellir categoreiddio penderfyniadau o fewn fframwaith llywodraethu'r Bwrdd Uchelgais ar dair lefel:

- **Materion i'r Cyfarwyddwr Portffolio** - penderfyniadau y gall y Cyfarwyddwr Portffolio eu gwneud
- **Materion i'r Cyd-bwyllgor** - penderfyniadau y gall y Bwrdd eu gwneud
- **Materion a gedwir yn ôl** - penderfyniadau a fyddai angen cytundeb ar wahân gan bob partner

Mae'r holl benderfyniadau sy'n ymwneud â chyflawni'r Cynllun Twf fel y'u nodir yn y ddogfen hon ac o fewn yr amlen ariannu gytûn ar gyfer y bartneriaeth naill ai'n faterion i'r Cyfarwyddwr Portffolio neu'n faterion i'r Cyd-bwyllgor.

DRAFT

Er bod y Bwrdd, fel Cyd-bwyllgor, yn gweithredu pleidlais drwy fwyafrif, bydd yn ceisio sefydlu consenswS yr holl Bartneriaid ynghylch yr holl benderfyniadau yn ymwneud â'r Cynllun Twf.

Cydnabyddir bod pwerau a dyletswyddau'r Bwrdd yn ymwneud â gweithgareddau sydd wedi'u nodi yng Nghynllun Twf Gogledd Cymru.  Ni fydd y penderfyniadau a wneir gan bob partner cyfansoddol mewn perthynas â'i ymrwymiadau ariannol ei hun yn amodol ar gymeradwyaeth y Bwrdd Uchelgais. Fodd bynnag, mae gan y Bwrdd Uchelgais yn gweithio gyda'r Corff Atebol, rôl monitro a sicrwydd mewn perthynas â chyllid y Cynllun Twf i sicrhau ei fod yn cael ei wario yn unol ag amcanion y Cynllun Twf.

## Y Broses Cymeradwyo Prosiectau

Cytunir ar y Cynllun Twf ar sail achos busnes y portffolio a phum achos busnes rhaglen. Unwaith y cytunir ar y cynllun terfynol, gellir dwyn achosion busnes prosiectau ymlaen er ystyriaeth gan y Bwrdd.

Datblygir achosion busnes llawn (Model 5 Achos) ar gyfer pob prosiect o fewn Cynllun Twf Gogledd Cymru, yn unol â'r canllawiau 'Gwell Achosion Busnes' a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru a Thrysorlys EM.

Mae'r gwaith o baratoi Achos Busnes Prosiect gan ddefnyddio'r model 5 achos yn rhoi fframwaith sydd wedi'i brofi i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau a rhan-ddeiliaid, ar gyfer 'meddwl' strwythuredig a sicrwydd bod y prosiect yn darparu ac yn cyd-fynd yn strategol, yn gwneud y mwyaf o werth cyhoeddus, yn fasnachol hyfyw, yn fforddiadwy a bod modd ei ariannu dros amser.

Bydd gofyn i achosion busnes prosiect arddangos sut maent yn cyflawni yn erbyn amcanion a dyheadau Cynllun Twf Gogledd Cymru ac yn benodol yn erbyn yr achos busnes rhaglen perthnasol.

Cydnabyddir, drwy ddatblygu a chytuno ar achosion busnes portffolio a rhaglenni rhwng y Bwrdd Uchelgais a Llywodraethau'r DU/Cymru, y bydd yr achos strategol ar gyfer prosiectau wedi cael ei sefydlu.

Bydd pob Achos Busnes Prosiect yn destun adolygiad porth allanol ar adegau y cytunir arnynt gyda Hwb Sicrwydd Llywodraeth Cymru.

Yn y lle cyntaf, bydd yr achosion busnes prosiect yn cael eu hystyried gan y Bwrdd Rhaglen perthnasol. Ni chyflwynir achosion busnesau i'r Bwrdd Uchelgais cyn iddynt gael eu cymeradwyo gan y Bwrdd Portffolio a'r Bwrdd Rhaglen ac ar ôl cwblhau'r adolygiadau porth gofynnol. Mae Swyddfa'r Rheoli Portffolio yn cadw'r hawl i gomisiynu adolygiadau allanol o achosion busnes prosiect lle bo'r angen.

## Rheoli Newid

Bydd gweithgareddau rheoli newid ar gyfer y Cynllun Twf yn cael eu rheoli'n bennaf drwy'r Byrddau Rhaglen a'r Bwrdd Prosiect perthnasol o fewn lefelau goddefgarwch a ddyrannwyd gan y Bwrdd Uchelgais wrth ystyried yr achos busnes prosiect.



DRAFT

Byddai angen dyrchafu unrhyw newidiadau arwyddocaol y tu allan i'r lefelau goddefgarwch hyn i'r Bwrdd Portffolio. Yna, cyflwynir argymhellion i'r Bwrdd Uchelgais am benderfyniad.  Gallai enghreifftiau o benderfyniadau o'r fath gynnwys newidiadau i gost, sgôp, amserlenni a buddion. Byddai unrhyw newidiadau arwyddocaol y tu hwn i'r fframwaith llywodraethu cytûn ar gyfer y Cynllun Twf, yn benodol newidiadau a fyddai'n arwain at gost gynyddol i bartneriaid y Bwrdd, yn cael eu hystyried fel mater a gedwir yn ôl a bydd angen cymeradwyaeth yr holl bartneriaid unigol.

Rhaid i unrhyw brosiectau newydd neu amgen sydd i'w cyflwyno am ystyriaeth y tu allan i'r 14 prosiect cychwynnol, ddangos eu bod yn cyflawni yn erbyn yr achos busnes rhaglen perthnasol ac amcanion yr achos busnes portffolio. Lle mae'r prosiectau hyn o fewn yr amlen ariannol gytûn bresennol ar gyfer y bartneriaeth, byddai angen i'r Bwrdd wneud penderfyniad yn eu cylch.

Byddai prosiectau sy'n syrthio y tu allan i gylch gorchwyl achos busnes rhaglen cytûn neu'r rhai a fyddai'n fwy na'r amlen ariannol gytûn, yn cael eu hystyried fel 'materion a gedwir yn ôl' ar gyfer partneriaid y Bwrdd.

### Rôl Aelodau/Atebolrwydd

Mae'n ddyletswydd ar holl aelodau'r Bwrdd i weithredu er budd gorau rhanbarth Cynllun Twf Gogledd Cymru.  Hefyd, bydd gofyn i'r holl aelodau sector preifat a thrydydd sector weithredu er budd rhanbarth Cynllun Twf Gogledd Cymru, gan hepgor unrhyw fuddiannau (os o gwbl) y gallai eu sefydliad eu hunain eu cael yng Nghynllun Twf Gogledd Cymru ac unrhyw brosiectau cysylltiedig.

Disgwylir i'r holl aelodau gydymffurfio gyda chod ymarfer eu sefydliadau eu hunain, Polisi Gwrthdaro Buddiannau'r Bwrdd Uchelgais a gwerthoedd a dyheadau Cynllun Twf Gogledd Cymru.

Gall cynrychiolwyr y Llywodraethau fynychu fel sylwedyddion/rôl ymgynghorol ac nid ydynt wedi'u rhwym i ofynion aelodau'r Bwrdd.

# 8. Rôl y Corff Atebol

Am oes y Cynllun Twf, bydd y corff atebol yn gyfrifol am dderbyn a chlustnodi cyllid ar gyfer ac ar ran y Bwrdd.  Bydd y Corff Atebol:

- yn gweithredu'n ddiwyd ac yn ddidwyll ym mhopeth a wna gyda'r Partïon eraill a bydd yn gwneud ymdrech resymol i gyflawni rhwymedigaethau'r Partïon yng nghyswllt gweithredu'r Cynllun Twf a chyflawni'r Weledigaeth Twf.

- yn gweithredu fel y prif ryngwyneb ar gyfer y Bwrdd Uchelgais gyda Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU ac unrhyw gorff arall sy'n angenrheidiol i gyflawni'r Cynllun Twf.
- yn dal unrhyw arian a dderbynnir yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, partneriaid y Bwrdd Uchelgais ac/neu unrhyw ffynonellau eraill (os o gwbl) yng nghyswllt y Cynllun Twf a bydd ond yn defnyddio ac yn rhyddhau'r arian hwn fel y cytunir yn unol â thelerau Cynllun Twf;
- yn dal tir ac/neu unrhyw asedau eraill a gaffaelir dan unrhyw brosiect ar ymddiriedaeth ar gyfer partneriaid y Bwrdd Uchelgais yn unol â thelerau'r Achos Busnes Prosiect perthnasol.
- heb gymryd cyfrifoldeb am gyflawni unrhyw brosiect penodol o fewn y Cynllun Twf ac o fewn cyfyngiadau'r arian sydd wedi'i ddarparu iddo (fel rhan o Gostau'r Cyd-bwyllgor), bydd yn darparu'r gwasanaethau cefnogaeth sydd angen i hwyluso gwaith y Bwrdd.
- heb gymryd cyfrifoldeb am gyflawni unrhyw brosiect penodol o fewn y Cynllun Twf, darparu i Brif Swyddog Cyllid yr Awdurdod Lletya ("Swyddog a151") a'r Swyddog Monitro (y "Swyddog Monitro") (neu eu dirprwyon a enwebir) i weithredu, yn eu trefn, fel Swyddog a151 a Swyddog Monitro i'r Cyd-bwyllgor; a
- bod â chyfrifoldeb ar y cyd ar gyfer, ond heb fod yn gyfyngedig i, weinyddu materion ariannol y Cyd-bwyllgor (a'i is-bwyllgorau a'i grwpiau a sefydlir), yn cynnwys cyfrifo TAW, cadw cofnodion ariannol, sicrhau y paratoir cyfrifon blynyddol y Cyd-bwyllgor yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol a gwneud trefniadau ar gyfer archwilio'r Cyd-bwyllgor yn allanol.
- cyflogi'r Swyddfa Rheoli Portffolio er mwyn cyflawni'r Cynllun Twf.

# 9. Monitro a Gwerthuso

Bydd perfformiad y rhaglen a'r prosiect yn cael ei fonitro'n fisol drwy'r byrddau rhaglen a phrosiect perthnasol, gydag adroddiadau ffurfiol yn cael eu cyflwyno bob chwarter i'r Bwrdd Portffolio a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

Mae gan y Bwrdd Fframwaith Risg wedi'i fabwysiadu ar gyfer cyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru. Mae'r Fframwaith yn nodi sut i reoli risgiau a materion ar y lefel briodol ar draws y portffolio, gyda phrosesau dyrchafu clir yn eu lle. Mae'r Strategaeth yn nodi tair lefel o risg sy'n gysylltiedig â chyflawni'r Cynllun Twf - risgiau lefel portffolio, risgiau lefel rhaglen a risgiau lefel prosiect.

Mae Cynllun Monitro a Gwerthuso wedi'i ddatblygu ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru. Mae cydrannau allweddol y Cynllun Monitro a Gwerthuso wedi'u nodi isod:

- Adroddiadau Uchafbwyntiau Misol ar gyfer pob rhaglen a phrosiect;
- Adroddiadau Chwarterol Ffurfiol i'r Bwrdd Uchelgais, Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru;

DRAFT

- Adroddiad Blynyddol Ffurfiol i'r Bwrdd Uchelgais, partneriaid y Bwrdd, Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru;
- Gwerthusiad effaith economaidd annibynnol i'w gynnal bob 3-5 mlynedd yn erbyn cyfres o ddangosyddion y cytunwyd arnynt â Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.
- Bydd y buddion ehangach i'w cyflawni drwy gaffael, yn enwedig gwerth cymdeithasol a chymunedol, yn cael eu monitro a'u gwerthuso i sicrhau bod y rhanbarth yn cael y budd mwyaf o'r fath weithgarwch.
- Bydd y Bwrdd Uchelgais yn gweithio â Llywodraeth Cymru i sicrhau bod gwerthuso yn erbyn y Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol yn gydran allweddol o'r holl weithgareddau monitro a gwerthuso.
- Mae'r Bwrdd Uchelgais wedi ymrwymo i ddatblygu mecanwaith adborth priodol ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru gyda'r ddwy lywodraeth i sicrhau bod y gwersi a ddysgir yn ystod cyflawniad y Cynllun Twf yn cael eu cofnodi a'u rhannu.

DRAFT

# GA2 - CRYNODEB O'R MATERION ALLWEDDOL

## 1. CEFNDIR

Ymrwymodd y Partneriaid i Gytundeb Llywodraethu 1 (GA1) cychwynnol ym mis Rhagfyr 2018. Drwy hynny, sefydlwyd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (y Bwrdd Uchelgais) yn ffurfiol fel Cyd-bwyllgor a diffiniodd rolau a chyfrifoldebau'r Partneriaid o fewn y berthynas honno. Roedd yn gytundeb a ddyluniwyd i dywys y Bartneriaeth drwy'r broses a oedd yn arwain at Benawdau'r Telerau ac yna i Gytundeb Terfynol y Cynllun Twf. Yn ogystal, roedd yn galluogi creu'r capasiti i fwrw ymlaen â gweithredu'r Cynllun Twf a'r Weledigaeth Twf unwaith y byddai Cytundeb Terfynol y Cynllun Twf wedi'i lofnodi. Fel rhan o wedd nesaf y Cynllun Twf, cynigir ail Gytundeb Llywodraethu (GA2).

Mae'r partïon i GA2 yn parhau heb eu newid.

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Cyngor Sir Ddinbych
- Cyngor Sir y Fflint
- Cyngor Gwynedd
- Cyngor Sir Ynys Môn
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
- Prifysgol Bangor
- Prifysgol Glyndŵr Wrecsam
- Coleg Cambria
- Grŵp Llandrillo Menai

## 2. CYCHWYN AC OES

Bwriedir i'r cytundeb barhau mewn grym ac yn weithredol am gyfnod y Cynllun Twf. Daw i rym wrth lofnodi Cytundeb Terfynol y Cynllun Twf a fydd yn ymrwymo'r Partneriaid i'r Cynllun Twf. Bydd yn parhau i fod mewn llawn rym ac yn effeithiol hyd nes y bydd yr holl Bartïon wedi tynnu'n ôl neu fod yr holl Bartïon yn cytuno i derfynu'r cytundeb. Mae hefyd yn cynnwys "cyfnod cloi i mewn" sy'n gytundeb na all yr un parti weithredu'r darpariaethau tynnu'n ôl am chwe blynedd gyntaf GA2. Bydd hyn yn sicrhau sefydlogrwydd y Bartneriaeth ac mae'n seiliedig ar y cyfnod buddsoddi a ragwelir ar gyfer y Cynllun Twf cychwynnol. Mae'n bosib tynnu'n ôl ar ôl y cyfnod hwn drwy roi rhybudd. Fodd bynnag, yn ôl telerau GA2, bydd gofyn i unrhyw Bartner sy'n dymuno tynnu'n ôl indemnio'r Partneriaid sy'n weddill yn erbyn effaith ariannol tynnu'n ôl ac yn benodol unrhyw ymrwymiadau cytundebol presennol a pharhaus.

## 3. EGWYDDORION LLYWODRAETHU A FFRAMWAITH

### 3.1 Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru

Sefydlodd GA1 Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (y Bwrdd Uchelgais) fel Cyd-bwyllgor "Gweithredol" ac mae'r trefniant hwnnw'n parhau i GA2. Fel gyda GA1, mae aelodaeth y pwyllgor sydd â hawliau pleidleisio wedi'i ffurfio o Arweinyddion pob un o'r chwe awdurdod lleol gyda'r partïon eraill i GA2 yn cymryd rhan fel Ymgynghorwyr. Mae'r newidiadau allweddol yn GA2 mewn perthynas ag elfennau o'r materion sydd wedi'u dirprwyo i'r Bwrdd Uchelgais wrth iddo drawsnewid i gyflawni'r Weledigaeth Twf a'r Cynllun Twf.

**3.2 Y Grŵp Cefnogaeth Weithredol**

Sefydlwyd y Grŵp Cefnogaeth Weithredol dan GA1 i gydlynu cyngor proffesiynol i'r Bwrdd Uchelgais, goruchwylio'r defnydd o adnoddau a bod yn gyfrifol am reoli perfformiad ffrydiau gwaith y Bwrdd Uchelgais. Mae hefyd yn gweithredu fel "tŷ clirio" ar gyfer adroddiadau i'r Bwrdd Uchelgais. Mae ei aelodaeth yn cynnwys uwch swyddogion o'r holl Bartneriaid a bydd presenoldeb o Lywodraethau Cymru a'r DU fel sydd angen.

**3.3 Swyddfa Rheoli Portffolio**

Sefydlwyd y Swyddfa Rheoli Portffolio dan GA1 ac mae'n darparu adnoddau staff a phroffesiynol i gefnogi a chyflawni'r Weledigaeth Twf a'r Cynllun Twf. Fe'i harweinir gan y Cyfarwyddwr Rhaglen. Mae GA2 yn darparu'r fframwaith ar gyfer sefydlu, cyflogi a rheoli'r Swyddfa Rhaglen. Mae wedi'i hariannu drwy gyfuniad o Gyfraniadau'r Partneriaid a grant sydd wedi'i sicrhau drwy ESF.

**3.4 Grŵp Cyflawni Busnes**

Gwnaed darpariaeth benodol ym Mhenawdau'r Telerau i sefydlu grŵp rhan ddeiliaid sector preifat i gynghori a herio gwaith y Bwrdd Uchelgais. Roedd y Bwrdd Uchelgais wedi sefydlu'r Grŵp Cyflawni Busnes fel rhan o'i waith wrth weithio tuag at Gytundeb Terfynol y Cynllun Twf ac mae hyn bellach wedi'i ymgorffori fel gofyn yn GA2.

**3.5 Y Corff Atebol**

O'r cychwyn yn GA1, sefydlwyd y Bwrdd Uchelgais fel Cyd-bwyllgor gydag Awdurdod Lletya. Mae hyn yn parhau i GA2 gyda Chyngor Gwynedd yn gweithredu fel yr Awdurdod Lletya sydd â'r swyddogaeth graidd o gefnogi'r Bwrdd Uchelgais drwy weithredu fel yr endid cyfreithiol sy'n ymrwymo i gontractau, yn dal yr arian a'r asedau ac yn gweithredu fel y corff sy'n cyflogi'r staff. Mae hefyd yn darparu'r gefnogaeth sydd ei hangen ar y Bwrdd Uchelgais fel Cyd-bwyllgor. Mae gofynion gweinyddol y Cynllun Twf yn mynnu bod un Awdurdod yn gweithredu fel y corff atebol sy'n ymrwymo i Gytundeb Terfynol ffurfiol y Cynllun Twf ac yn derbyn y Llythyr Cynnig Grant. Mae hon yn rôl ffurfiol yr ymgymerir â hi gan y Corff Atebol ar ran y Bartneriaeth ond mae'n rhoi cyfrifoldebau a rhwymedigaethau arno. Mae GA2 yn darparu ar gyfer y trefniant hwn a'r warchodaeth a'r indemniad ar gyfer y Corff Atebol yn y rôl hon.

**4. COD YMDDYGIAD A GWRTHDARO BUDDIANNAU**

Fel gyda GA1, mae'r cytundeb hwn yn ymestyn darpariaethau Cod Ymddygiad yr Aelodau mewn perthynas â datgan a rheoli Buddiannau Personol i Gynrychiolwyr y Partneriaid eraill. Yn ogystal, mae'n darparu ar gyfer Polisi Gwrthdaro Buddiannau sydd wedi'i ddylunio i sicrhau y rheolir yn briodol unrhyw Wrthdaro Buddiannau a allai godi yn y grŵp ehangach o gyrff a sefydlwyd i gefnogi a rheoli'r rhaglenni er mwyn sicrhau priodoldeb yng ngwaith y Bwrdd Uchelgais.

**5. CYFRANIADAU'R PARTNERIAID A DIRPRWYO.**

Mae'r trefniadau ar gyfer cyfraniadau'r Partneriaid tuag at gostau rhedeg y Bwrdd Uchelgais yn parhau ar yr un sail ag ar gyfer GA1. Hefyd, ymgorfforir y Cyfraniad Atodol a ddarperir gan y Cynghorau yn GA2 ond fel mater i'r Cynghorau yn unig.

| | **Cyfraniad Awdurdodau Lleol** | **Cyfraniadau Blynyddol AU/AB** | **Cyfanswm y Cyfraniadau Blynyddol** |
|---|---|---|---|
| **Cyfraniadau Craidd Blynyddol GA1*** | £50k fesul ALl | £25k fesul partner | £400k |
| **Cyfraniad Atodol Blynyddol** | £40k fesul ALl | 0 | £240k |

**Mae GA2 yn darparu y bydd y cyfraniadau hyn yn amodol ar gynnydd blynyddol ar sail chwyddiant.*

**6. DIRPRWYO**

Mae'r Bwrdd Uchelgais yn derbyn ei awdurdod dirprwyedig gan y Cynghorau. Mae hon yn agwedd allweddol o GA2 a llywodraethiant y bartneriaeth. Mae ei ddirprwyaeth hefyd wedi'i ddiffinio drwy gyfeirio at y cyfyngiadau ariannol ar ei hawl i wneud penderfyniadau.

Mae'r dirprwyaethau penodol wedi'u rhannu'n bedwar categori ond, yn gyffredinol, nid oes rhwystr i'r sawl sydd wedi'i ddirprwyo, ddirprwyo ymlaen.

**Materion i'r Cyfarwyddwr Rhaglen** - Materion sydd wedi'u dirprwyo i'r Cyfarwyddwr Rhaglen.

**Materion i'r Cyd-bwyllgor** - Materion y gall y Cyd-bwyllgor benderfynu arnynt.

**Materion a Gedwir i'r Partneriaid** - Materion sy'n gofyn am benderfyniad gan yr holl Bartneriaid yn unigol.

**Materion a gedwir i'r Cynghorau** - Materion sy'n gofyn am benderfyniad gan yr holl Gynghorau'n unigol (mae'r rhain wedi'u cyfyngu i'r Cyfraniad Atodol a sefydlu Cyd-bwyllgor Corfforaethol yn wirfoddol)

Yn y rhan fwyaf o bethau, nid yw'r cynllun dirprwyo wedi newid llawer o ran ei sylwedd. Fodd bynnag, mae rhai agweddau allweddol sydd wedi'u datblygu wrth edrych ar y symud tuag at wedd gweithredu'r Cynllun Twf yn benodol.

a) Rheoli Rhaglen a Phortffolio - Mae'n nodi'r ddirprwyaeth i'r Bwrdd Uchelgais mewn perthynas â chymeradwyo Achosion Busnes y Prosiectau a phennu pa Brosiectau newydd i'w cynnwys yn y Rhaglen yn unol a'r amodau yn y Cynllun Busnes.

b) Y bydd penderfyniadau sy'n gofyn am gyllid ychwanegol neu gynyddol gan y Partneriaid yn Faterion a Gedwir i'r Partneriaid.

**7. CRAFFU**

Fel Cyd-bwyllgor Gweithredol awdurdod lleol, mae swyddogaethau'r Bwrdd Uchelgais yn destun Trosolwg a Chraffu. Er y gellid sefydlu Cyd-bwyllgor Craffu, cynigir bod Pwyllgorau Craffu Lleol yn cadw'r rôl hon. Er mwyn hwyluso'r trefniant hwn, mae GA2 yn cynnwys Protocol Craffu sy'n darparu sail ar gyfer diweddariadau parhaus i Bwyllgorau Craffu mewn perthynas â gwaith y Bwrdd Uchelgais yn ogystal â dulliau cytûn pe byddai cais am Alw i Mewn gan unrhyw Bwyllgor Craffu.

**8. CYNLLUNIAU BUSNES**

Mae pedwar categori o Gynllun Busnes o fewn y Cynllun Twf sy'n berthnasol i GA2:

Caiff y **Cynllun Busnes Cyffredinol** ei fabwysiadu gan y Partneriaid a'i fwriad yw adlewyrchu strategaeth y Partneriaid ar gyfer y Cynllun Twf a sut maent yn rhagweld y bydd y Bwrdd

Uchelgais yn cyflawni'r rhaglen ar eu rhan. Mae cymeradwyo'r Cynllun Busnes Cyffredinol yn Fater a Gedwir i'r Partneriaid fel y mae unrhyw newid materol i'w gynnwys. Fodd bynnag, bydd gofyn i'r Bwrdd Uchelgais adolygu'r ddogfen yn rheolaidd.

Caiff yr **Achosion Busnes Portffolio a Rhaglenni** eu cyflwyno gan y Bwrdd Uchelgais i'r ddwy Lywodraeth i ddechrau fel rhan o broses Cytundeb Terfynol y Cynllun Twf a rheoli'r Cynllun Twf wedi hynny. Mae **Achosion Busnes y Prosiectau** , fel yr awgryma'r enw, ar gyfer Prosiectau unigol. Ni chânt eu cyflwyno i'r Llywodraethau am gymeradwyaeth, ond mae angen iddynt gyd-fynd â chynllun cyffredinol yr Achosion Busnes Portffolio a Rhaglen.

**9. YMRWYMIADAU'R PARTNERIAID**

Yn ogystal, mae GA2 yn diffinio ymrwymiad ariannol y Partneriaid i'r Cynllun Twf nid yn unig yn nhermau'r costau rhedeg ond hefyd wrth ariannu goblygiadau llif arian ar y ffordd y caiff cyllid y Cynllun Twf ei dynnu i lawr gan y Llywodraethau. Felly, mae'r cytundeb yn nodi uchafswm y costau benthyca y bydd y Cynghorau'n eu cyfarch. Ni all y Bwrdd Uchelgais wneud unrhyw benderfyniadau mewn perthynas â Rhaglenni neu Brosiectau a fyddai'n achosi mynd y tu hwnt i'r uchafswm hwnnw heb ganiatâd y Partneriaid unigol fel Mater a Gedwir yn Ôl.

**10. TYNNU'N ÔL A THERFYNU**

Yn amodol ar y Cyfnod "Cloi i Mewn", gall Partner dynnu'n ôl o'r GA2 o roi'r isafswm o 12 mis o rybudd sy'n ofynnol. Pe byddai rhybudd fel hyn yn cael ei gyflwyno, cyflwynir Rhybudd Cyfrifoldeb i'r Partner sy'n Tynnu'n Ôl sy'n mynnu eu bod yn ad-dalu ac yn indemnio'r Partneriaid yn erbyn, mewn termau cyffredinol, y costau a'r cyfrifoldebau sy'n parhau neu a godir o ganlyniad i'r tynnu'n ôl.

**11. CYFFREDINOL**

Mae GA2 hefyd yn cynnwys yr amodau a thelerau cyffredinol sy'n ddisgwyliedig o gytundeb cyd-fenter cyhoeddus o'r maint yma yng Nghymru. Caiff y rhain eu trawsosod o GA1 ac maent yn cynnwys sut caiff dyletswyddau a materion statudol megis Diogelu Data a Rhyddid Gwybodaeth eu rholi a'u cymhwyso.

**DYDDIEDIG 2020** **Drafft: 15/10/2020**

**(1) CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY**

**(2) CYNGOR SIR DDINBYCH**

**(3) CYNGOR SIR Y FFLINT**

**(4) CYNGOR GWYNEDD**

**(5) CYNGOR SIR YNYS MÔN**

**(6) CYNGOR BWRDEISTREF SIROL WRECSAM**

**(7) PRIFYSGOL BANGOR**

**(8) PRIFYSGOL GLYNDŴR**

**(9) COLEG CAMBRIA**

**(10) GRŴP LLANDRILLO MENAI**

# CYTUNDEB LLYWODRAETHU 2 YN YMWNEUD Â CHYFLAWNI'R CYNLLUN TWF

Pinsent Masons

**CYNNWYS**

**Tudalen**

| | | |
|---|---|---|
| **1** | **DIFFINIADAU A DEHONGLI** | 4 |
| **2** | **CYCHWYN, OES A THERFYNU** | 11 |
| **3** | **EGWYDDORION AC AMCANION ALLWEDDOL** | 11 |
| **4** | **LLYWODRAETHU** | 13 |
| **5** | **GWNEUD PENDERFYNIADAU** | 14 |
| **6** | **YR AWDURDOD LLETYA** | 14 |
| **7** | **DYLETSWYDDAU'R AWDURDOD LLETYA** | 15 |
| **8** | **DYLETSWYDDAU'R PARTÏON ERAILL** | 16 |
| **9** | **CYD-BWYLLGOR** | 16 |
| **10** | **Y GRŴP CEFNOGAETH WEITHREDOL** | 22 |
| **11** | **Y SWYDDFA RHAGLEN** | 23 |
| **12** | **CRAFFU** | 24 |
| **13** | **CYNLLUN BUSNES** | 24 |
| **15** | **Y BROSES GYMERADWYO** | 27 |
| **15** | **YMRWYMIAD Y PARTÏON A CHYFRANIADAU** | 27 |
| **17** | **LLINIARU** | 32 |
| **18** | **CYFRIFOLDEBAU'R PARTÏON** | 32 |
| **19** | **TYNNU'N ÔL** | 33 |
| **20** | **CANLYNIADAU'R TERFYNIAD** | 34 |
| **21** | **EIDDO DEALLUSOL** | 35 |
| **22** | **CYFRINACHEDD A CHYHOEDDIADAU** | 36 |
| **23** | **CONTRACTAU (HAWLIAU TRYDYDD PARTI)** | 36 |
| **24** | **DATRYS ANGHYDFOD** | 36 |
| **25** | **DIOGELU DATA** | 37 |
| **26** | **RHYDDID GWYBODAETH A GWYBODAETH AMGYLCHEDDOL** | 39 |
| **27** | **HYSBYSIADAU** | 39 |
| **28** | **CYFRAITH LYWODRAETHU** | 40 |

**29** **ASEINIO** ... 40

**30** **ILDIO HAWL** ... 40

**31** **Y CYTUNDEB CYFLAWN** ... 40

**32** **GWRTHRANNAU** ... 40

**33** **PERTHYNAS Y PARTÏON** ... 40

**34** **CYFRIFOLDEBAU STATUDOL** ... 41

ATODLEN 1 - POLISI DIRPRWYO ... 42

ATODLEN 2 - CYLCH GORCHWYL ... 47

RHAN 1 - CYLCH GORCHWYL Y CYD-BWYLLGOR ... 47

RHAN 2 - CYLCH GORCHWYL Y TÎM GWEITHREDOL ... 50

RHAN 3 - CYLCH GORCHWYL Y SWYDDFA RHEOLI PORTFFOLIO ... 52

RHAN 4 - CYLCH GORCHWYL YR IS-BWYLLGORAU ... 53

ATODLEN 3 - MANYLION Y PARTÏON ... 58

ATODLEN 5 - PENAWDAU GWARIANT ... 60

ATODLEN 6 - CYFNODAU CYFRIFO ... 61

ATODLEN 7 - COD YMDDYGIAD AR GYFER YMGYNGHORWYR BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU ... 62

ATODLEN 8 - ADRODDIAD ATEBOLRWYDD ... 66

ATODLEN 9 - Y WELEDIGAETH TWF ... 67

ATODLEN 10 - CYNLLUN BUSNES CYFFREDINOL ... 68

ATODLEN 12 - CYNLLUN TWF ... 79

Gwneir y **CYTUNDEB HWN** ar                                    2020

**RHWNG:-**

(1) **CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY** PO Box 1, Conwy, LL30 9GN ("**Cyngor Conwy**");

(2) **CYNGOR SIR DDINBYCH** PO Box 62, Rhuthun, LL15 9AZ ("**Cyngor Sir Ddinbych**");

(3) **CYNGOR SIR Y FFLINT** Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint, CH7 6NB ("**Cyngor Sir y Fflint**");

(4) **CYNGOR GWYNEDD** Cyngor Gwynedd, Stryd y Jêl, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH ("**Cyngor Gwynedd**");

(5) **CYNGOR SIR YNYS MÔN** Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, Ynys Môn LL77 7TW ("**Cyngor Sir Ynys Môn**");

(6) **CYNGOR BWRDEISTREF SIROL WRECSAM** Neuadd y Dref, Wrecsam LL11 1AY ("**Chyngor Wrecsam**"),

(7) **PRIFYSGOL BANGOR** Bangor, Gwynedd, LL57 2DG;

(8) **PRIFYSGOL GLYNDŴR** Ffordd yr Wyddgrug, Wrecsam, LL11 2AW;

(9) **COLEG CAMBRIA** Ffordd Kelsterton, Cei Connah, Glannau Dyfrdwy, CH5 4BR;

(10) **GRŴP LLANDRILLO MENAI** Ffordd Llandudno, Bae Colwyn, Conwy LL28 4HZ;

(y cyfeirir atynt ar y cyd fel "**Partïon**"[1] ac yn unigol fel "**Parti**").

**YN GYMAINT Â BOD**:-

(A) Partïon GA1 wedi ymrwymo i'r Cytundeb Llywodraethu cyntaf ar 18 Rhagfyr 2018 ("**GA1**") i sefydlu'r Cyd-bwyllgor a diffinio'u rolau a'u cyfrifoldebau unigol yng nghyswllt y Cynllun Twf hyd at y pwynt pan ymrwymir i'r Cynllun Twf gan y Cynghorau, Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.

(B) Y Cynllun Twf bellach wedi'i lofnodi ar ddyddiad y Cytundeb hwn neu tua'r adeg honno a bod y Partïon yn dymuno ymrwymo i'r cytundeb hwn, yr ail gytundeb llywodraethu (y "**Cytundeb**" hwn), i reoleiddio eu rolau a'u rhwymedigaethau unigol mewn perthynas â gweithredu'r Cynllun Twf a chyflawni'r Weledigaeth Twf yn cynnwys (ymhlith materion eraill) y broses a'r trefniadau llywodraethu ar gyfer cymeradwyo buddsoddiadau a gwariant dan y Cynllun Twf drwy Brosiectau Cymeradwy. Cydnabyddir a chytunir gan y Partïon, drwy lofnodi'r Cytundeb hwn, y bydd GA1 yn dod i ben a'i fod yn cael ei ddisodli gan y Cytundeb hwn. Mae cyfeiriadau at y "**Cytundeb**" hwn a "**GA2**" yn golygu'r un peth.

(C) Y Partïon wedi sefydlu'r Cyd-bwyllgor fel yr endid a fydd yn gyfrifol, yn y pendraw, am oruchwylio'r gwaith o weithredu'r Cynllun Twf a chyflawni'r Weledigaeth Twf. Mae'r Cyd-bwyllgor yn cynnwys y Cynghorau fel aelodau ffurfiol y Cyd-bwyllgor, wedi'u cefnogi gan yr Ymgynghorwyr. Mae'r Cynghorau oll yn Barti i'r Cytundeb hwn, ac mae ganddynt hawliau pleidleisio a rhwymedigaethau i gyfrannu'n ariannol i'r Cyd-bwyllgor fel y nodir yn fwy penodol yn y Cytundeb hwn. Mae'r Ymgynghorwyr, oddieithr y Bwrdd Cyflawni Busnes, oll yn Barti i'r Cytundeb hwn ac mae ganddynt rwymedigaethau i gyfrannu'n ariannol i'r Cyd-bwyllgor. Bydd yr Ymgynghorwyr, oddieithr y Bwrdd Cyflawni Busnes, yn cynghori'r Cynghorau ond ni fydd ganddynt hawliau pleidleisio ffurfiol mewn perthynas ag unrhyw Fater i'r Cyd-bwyllgor a gyflwynir gerbron y Cyd-bwyllgor, ond mi fydd gofyn iddynt, law yn llaw â'r Cynghorau, benderfynu ar unrhyw "Faterion a Gedwir yn Ôl" fel y nodir yn fwy penodol yn y Cytundeb hwn.

---

(D) Y Partïon wedi cytuno i benodi Cyngor Gwynedd i weithredu fel yr Awdurdod Lletya ar gyfer ac ar ran y Partïon a chyflawni rhwymedigaethau'r Partïon yng nghyswllt gweithredu'r Cynllun Twf a chyflawni'r Weledigaeth Twf ac yn unol â'r Cytundeb hwn.

(F) Y Bwrdd Cyflawni Busnes yn grŵp gwirfoddol anghorfforedig o arbenigwyr y sector busnes yn y rhanbarth sydd wedi'i sefydlu fel is-grŵp i'r Cyd-bwyllgor. O ganlyniad, mae'r Partïon yn dymuno gwahodd Cadeirydd y Bwrdd Cyflawni Busnes i fod yn "Ymgynghorydd" i'r Cyd-bwyllgor, ond, cydnabyddir a chytunir na fydd y Cadeirydd a/neu'r Bwrdd Cyflawni Busnes yn llofnodwr i'r Cytundeb hwn, nad yw'n Barti i'r Cytundeb hwn, ac nid oes ganddo unrhyw hawliau pleidleisio mewn perthynas ag unrhyw Fater i'r Cyd-bwyllgor nac unrhyw Fater a Gedwir yn Ôl nac unrhyw rwymedigaethau i wneud unrhyw gyfraniad ariannol i'r Cyd-bwyllgor. Mae Cylch Gorchwyl drafft y Bwrdd Cyflawni Busnes wedi'u gosod yn Rhan 5, Atodlen 2 (Cylch Gorchwyl) y Cytundeb hwn ac yr adolygir a chymeradwyir gan y Cyd Bwyllgor fel mater Cyd Bwyllgor

(H) Drwy ymuno yn y gytundeb yma mae'r Partïon hefyd yn cadarnhau a derbyn newid enw y Swyddfa Rheoli Rhaglen i'r Swyddfa Rheoli Portffolio er adlewyrchu ei gylch gorchwyl a swyddogaeth.

(G) Y Cynghorau'n dymuno ymrwymo i'r Cytundeb hwn a chyflawni'r Cynllun Twf yn unol â'r pwerau sydd wedi'u rhoi iddynt dan adrannau 101, 102, 111 ac 113 Deddf Llywodraeth Leol 1972, adran 1 Deddf Awdurdod Lleol (Nwyddau a Gwasanaethau) 1970, adran 25 Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994, adran 2, 19 a 20 Deddf Llywodraeth Leol 2000, adran 9 Mesur Llywodraeth Leol Cymru 2009 a'r holl bwerau galluogi sydd bellach wedi'u breinio i'r Cynghorau.[2]

## 1. DIFFINIADAU A DEONGLIADAU

1.1 Yn y Cytundeb hwn a'r cronicliadau, oni bai fod y cyd-destun yn gofyn yn wahanol, bydd y termau isod yn golygu'r hyn a nodir isod:-

"**Cyfnod Cyfrifyddu**" sef y cyfnodau hynny sydd wedi'u nodi ym mharagraff 1, Atodlen 7 (Cyfnodau Cyfrifyddu) fel y cânt eu diwygio o bryd i'w gilydd yn unol â thelerau'r Cytundeb hwn0

"**Ymgynghorwyr**" sef cynrychiolwyr y cyrff a'r unigolion hynny sydd wedi'u rhestru isod ynghyd yn ddarostyngedig i Gymal 9.2.4 ( Swyddogaeth Ymgynghorwyr)ag unrhyw unigolion a/neu gyrff eraill y mae'r Cyd-bwyllgor yn dewis eu gwahodd yn y rhinwedd hwnnw o bryd i'w gilydd:-

(a) Prifysgol Bangor;

(b) Coleg Cambria;

(c) Grŵp Llandrillo Menai;

(d) Prifysgol Glyndŵr; a

(e) Chadeirydd y Bwrdd Cyflawni Busnes yn gweithredu ar rhan y Bwrdd Cyflawni Busnes

**"Prosiect Mae'r Ymgynghorwyr yn Arwain"** sef Prosiect Cymeradwy a arweinir gan Hyrwyddwr Prosiect sydd yn Ymgynghorwr ( ac nid Cyngor)

**"Cyfraniad Ymgynghorwr"** sydd 'ar ystyr a roddir yng Nghymal 15.5.1(a)(iv) (Cyllid)

**"Cyfraniad Unigol Ymgynghorwr"** sydd a'r ystyr a roddir yng Nghymal 15.5.6(b)

2 PM: Parties to please consider and satisfy themselves as to the powers that they have to enter into this Agreement. Please confirm or raise any queries if any concerns.

| | |
|---|---|
| "**Cyllideb Flynyddol**" | sef cyllideb flynyddol yr Awdurdod Lletya a gedwir ar gyfer ac ar ran y Cyd-bwyllgor ac fel sydd wedi'i nodi yng Nghymal 15.4 (Cyllideb Flynyddol) sy'n cynnwys talu unrhyw Gostau'r Cyd-bwyllgor yn unol â'r Cytundeb hwn |
| **"Cyfraniadau i'r Gyllideb Flynyddol"** | yn golygu'r hyn a nodir yng Nghymal 15.4.2 (Cyllideb Flynyddol) |
| **"Prosiectau Cymeradwy"** | sef unrhyw brosiect sydd wedi'i gynnwys o fewn Achos Busnes Prosiect sydd wedi'i gymeradwyo am fuddsoddiad gan y Cyd-bwyllgor |
| **“”Cytundeb Cefn Wrth Gefn”** | sydd a’r ystyr a roddir yng nghymal 15.5.4(f) ( Cyfraniad Cyngor a Chyfraniad Ymgynghorydd) |
| "**Diwrnod Busnes**" | sef unrhyw ddiwrnod heblaw dydd Sadwrn neu ddydd Sul neu ŵyl y banc neu wyliau cyhoeddus yng Nghymru a/neu Lloegr |
| "**CEDR**" | sef y Ganolfan Datrys Anghydfod |
| "**Dyddiad Cychwyn**" | sef dyddiad y Cytundeb hwn |
| "**Gwybodaeth Gyfrinachol**" | yr holl wybodaeth, boed yn wybodaeth fasnachol, ariannol, technegol neu fel arall sy’n perthyn i fusnes, materion neu ddulliau yr holl Bartïon neu unrhyw un ohonynt, sydd wedi’i chynnwys neu y gellir ei chanfod mewn pa ffurf bynnag (gan gynnwys, heb gyfyngiad, meddalwedd, data, lluniau, ffilmiau, dogfennau a chyfryngau y gellir eu darllen ar gyfrifiadur), a boed wedi’i marcio neu ei dynodi’n wybodaeth gyfrinachol neu wybodaeth berchnogol neu beidio, neu’n cael ei datgelu ar lafar neu drwy ei dangos, ac y’i disgrifir ar adeg ei datgelu fel gwybodaeth gyfrinachol, neu sy’n amlwg yn wybodaeth gyfrinachol o natur ei chynnwys neu gyd-destun y datgeliad. |
| **"Polisi Gwrthdaro"** | yn golygu'r hyn a nodir yng Nghymal 3.5.12(a) (Polisi Gwrthdaro); |
| **"Mater i'r Cyngor"** | yn golygu'r hyn a nodir yng Nghymal 5.2 (Mater i'r Cyngor); |
| "**Cynghorau**" | sef yr isod:<br>(a) Cyngor Conwy;<br>(b) Cyngor Sir Ddinbych;<br>(c) Cyngor Sir y Fflint;<br>(d) Cyngor Gwynedd;<br>(e) Cyngor Sir Ynys Môn; a<br>(f) Chyngor Wrecsam |
| **“Cyfraniad Cyngor”** | Sydd a’r ystyr a roddir yng nghymal 15.5.1(a)(iii)( Ariannu) |

| | |
|---|---|
| **"Taliadau Atodol y Cynghorau"** | sef y taliad blynyddol £40,000 (pedwar deg mil o bunnoedd yr un) a ddarperir gan bob Cyngor yn barhaus i'r Cyd-bwyllgor i ariannu Cyllideb Flynyddol y Cyd-bwyllgor yn rhannol. Er osgoi amheuaeth, mae'r taliad blynyddol hwn yn ychwanegol i unrhyw Gyfraniad i'r Gyllideb Flynyddol a Chyfraniad Cyngor i sydd i'w darparu yn unol â'r Cytundeb hwn a dylid ei ddiystyru er dibenion cyfrifo rhwymedigaeth pob Parti dan ddiffiniad "Sail Gymesur" a "Sail Poblogaeth" |
| **"Cyfnod Penderfynu"** | sef y cyfnod o ugain (20) Diwrnod Busnes o ddyddiad yr Adroddiad Atebolrwydd neu unrhyw amser hwy arall fel y cytunir yn unfrydol gan y Cyd Bwyllgor |
| "**Polisi Dirprwyo**" | sef clustnodi dirprwyaeth fel y nodir yn Atodlen 1 |
| "**Deddfwriaeth Diogelu Data**" | sef Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol |
| "**Dyddiad Gadael Methianwyr**" | sef, lle nad oes posib cywiro'r toriad sylweddol, y diwrnod ar ôl dyddiad yr hysbysiad a gyflwynir gan y [Partïon] yn unol â Chymal 2.3 pennir ei fod wedi'i gyflwyno neu, lle mae posib cywiro'r toriad sylweddol, y diwrnod ar ôl y diwrnod olaf y gellir cywiro'r toriad ac nad yw wedi ei gywiro o fewn y cyfnod fel y nodir yn yr hysbysiad; |
| "**Y Grŵp Cefnogaeth Weithredol**" | sef y tîm sydd wedi'i sefydlu gan y Partneriaid i gefnogi'r Cyd-bwyllgor a rhoi cyfarwyddyd a chyngor i'r Swyddfa Rheoli Portffolio ar weithredu penderfyniadau'r Cyd-bwyllgor fel y nodir yn fwy penodol yng Nghymal 10 (Grŵp Cefnogaeth Weithredol) a Rhan 2, Atodlen 3 (Cylch Gorchwyl y Grŵp Cefnogaeth Weithredol) |
| "**Partïon GA1**" | sef yr holl Gynghorau a'r Ymgynghorwyr (a), (b), (c) a (d) yn unig |
| "**Cod Ymddygiad GA**" | sef y cod ymddygiad ar gyfer yr Ymgynghorwyr sydd wedi'i nodi yn Atodlen 70 |
| **"Adolygiad Porth"** | sef asesiad annibynnol o raglenni a phrosiectau i asesu cynnydd a thebygolrwydd cyflawni'n llwyddiannus y rhagwelir y bydd yn digwydd yn flynyddol |
| **"Llythyr Cynnig Grant"** | sef y llythyr gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i'r Partïon sy'n cadarnhau amodau a thelerau'r Cynllun Twf a'r cyllid sydd i'w ddarparu ac mae wedi'i atodi i'r Cytundeb hwn yn Atodlen 12 (Llythyr Cynnig Grant)0 |
| "**Cynllun Twf**" neu **"Cynllun Twf Gogledd Cymru"** | sef y cytundeb rhwng Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a'r Partïon i weithio gyda'i gilydd ar gyfer pobl a busnesau'r Gogledd, a chyflawni prosiectau lleol a fydd yn cynyddu cyfleoedd a ffyniant mewn cymunedau ledled y rhanbarth fel y nodir yn fwy penodol yn y Llythyr Cynnig Grant. [ar ddyddiad y Cytundeb hwn neu tua'r adeg honno] sy'n nodi telerau "Cynllun Twf Gogledd Cymru" |
| **"Cyfraniad y Cynllun Twf"** | sef Cyfraniad Trysorlys Ei Mawrhydi a Chyfraniad Llywodraeth Cymru |

| | |
|---|---|
| "**Gweledigaeth Twf**" | sef y strategaeth ar gyfer twf a datblygiad yr economi o fewn rhanbarth y Gogledd y cytunwyd arni ar y cyd gan y Partïon ac sydd wedi'i hatodi i'r Cytundeb hwn yn Atodlen 90 |
| "**Awdurdod Lletya**" | sef y Cyngor a benodir dan Gymal 6 (Awdurdod Lletya) a fydd yn gyfrifol am dderbyn a chlustnodi arian ar gyfer ac ar ran y Partïon ar gyfer Prosiectau Cymeradwy dan y Cynllun Twf ac y mae eu dyletswyddau wedi'u nodi dan Gymal 7 (Dyletswyddau'r Awdurdod Lletya) a bydd cyfeiriadau at Awdurdod Lletya a Chorff Atebol yn golygu'r un peth |
| **"TEM"** | sef Trysorlys Ei Mawrhydi, adran weinidogol o Lywodraeth y DU |
| **"Cyfraniad TEM"** | fel y diffinnir yng Nghymal 15.5.1(a)(ii) (Cyllid)**Error! Reference source not found.** |
| **"Amodau Cyllid TEM"** | fel y diffinnir yng Nghymal 15.5.2(a)(ii) (Cyfraniad TEM)0 |
| "**Cynllun Gweithredu**" | sef y cynllun gweithredu sy'n gosod, ymhlith pethau eraill, y broses a'r amserlen ddangosol er mwyn caffael a gweithredu'r Cynllun Twf, ac mae wedi'i atodi i'r [Llythyr Cynnig Grant] sydd wedi'i atodi yn Atodlen 12 (Llythyr Cynnig Grant) y Cytundeb hwn. Er osgoi amheuaeth, mae hon yn ddogfen fyw sy'n ffurfio rhan o Atodlen 12 er gwybodaeth yn unig er mwyn cadarnhau'r sefyllfa fel ag ar y Dyddiad Cychwyn ond caiff ei diweddaru o bryd i'w gilydd gan y Partïon yn unol â thelerau'r Llythyr Cynnig Grant |
| "**Eiddo Deallusol**" | unrhyw a phob patent, nod masnach, enw masnach, hawlfraint, hawliau moesol, hawliau wrth ddylunio, hawliau mewn cronfeydd data, medr a phob hawl eiddo deallusol arall, boed y rheini'n gofrestredig neu'n bosib eu cofrestru neu beidio, ac yn bodoli yn y Deyrnas Unedig neu mewn unrhyw ran arall o'r byd neu beidio, ynghyd â phob neu unrhyw ewyllys da sy'n perthyn iddynt a'r hawl i wneud cais i'w cofrestru |
| "**Costau Mewnol**" | fel y diffinnir ym mharagraff 1.1 Atodlen 5 (Penawdau Gwariant) |
| "**Deunydd ED**" | sef yr Eiddo Deallusol yn y Deunydd |
| **"Cynllun Sicrwydd a Chymeradwyaeth"** | sef y ddogfen i'w chyflwyno i LlC fel rhan o broses adrodd a chymeradwyo gyda LlC ynglŷn a'r Cynllun Twf |
| **"Mater Heb ei Ddatrys gan y Cyd-bwyllgor"** | fel y diffinnir yng Nghymal 9.6.5 (Cyd-bwyllgor) |
| "**Cyd-bwyllgor**" | sef y cyd-bwyllgor a sefydlir gan Bartïon GA1 yn unol â thelerau GA1 ac fel sydd wedi'u hymestyn dan y Cytundeb hwn i gynnwys y Cynghorau a'r Ymgynghorwyr ac mae cyfeiriad at Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymry , BUEGC ac / neu BUE a'r un ystyr. |

| | |
|---|---|
| "**Costau'r Cyd-bwyllgor**" | sef fel y diffinnir ym mharagraff 1.2 Atodlen 5 (Penawdau Gwariant) ac eithrio unrhyw Gostau Mewnol (oddieithr Costau Mewnol yr Awdurdod Lletya wrth ymgymryd â dyletswyddau'r Awdurdod Lletya y byddant yn cael eu cyfrifo fel Costau'r Cyd-bwyllgor) |
| **"Mater i'r Cyd-bwyllgor"** | sef yr ystyr a roddir iddo yng Nghymal 5.1.2 |
| "**Cyfarfod o'r Cyd-bwyllgor**" | sef cyfarfod o'r Cyd-bwyllgor sy'n cwrdd yn briodol yn unol â Chymal 9 (Cyd-bwyllgor) |
| **"Adroddiad Cyfrifoldebau"** | sef adroddiad a baratoir gan yr Awdurdod Lletya (neu unrhyw Gyngor arall a enwebir dan Gymal 19.3 (Tynnu'n Ôl)) sy'n gweithredu'n rhesymol yn nodi ymrwymiadau ariannol ac adnoddau y Parti perthnasol dan Gymal 19 (Tynnu'n Ôl) neu 20 (Canlyniadau'r Terfyniad) yn cynnwys yr eitemau a nodir yn Atodlen 7 (Adroddiad Cyfrifoldebau) |
| **"Cronfeydd Benthyciadau"** | sydd a'r ystyr a roddir yng Nghymal 15.5.4(a)(i) |
| **"Awdurdod Lleol"** | sef prif gyngor (fel y diffinnir yn Adran 270 Deddf Llywodraeth Leol 1972) neu unrhyw gorff llywodraethol yng Nghymru a sefydlir yn olynydd i brif gyngor |
| **"Cyfnod Cloi i Mewn"** | sef hyd at gwblhau'r Adolygiad Porth cyntaf neu chwe (6) mlynedd o ddyddiad y cytundeb hwn, p'un bynnag sydd hwyraf; |
| "**Deunydd**" | sef yr holl ddata, testun, graffeg, delweddau a deunyddiau neu ddogfennau eraill a grëir, a ddefnyddir neu a gyflenwir gan Barti mewn perthynas â'r Cytundeb hwn, oni bai fod y Parti, cyn eu defnyddio neu eu cyflenwi am y tro cyntaf, yn hysbysu'r Partïon eraill nad yw'r diffiniad hwn yn berthnasol i'r data neu'r testun a gyflenwir |
| **"Côd Ymddygiad yr Aelodau"** | sef, yng nghyswllt unrhyw Gyngor, y cod ymddygiad priodol ar gyfer y Cyngor hwnnw y mae ei aelodau wedi'u rhwymo i gydymffurfio ag ef; |
| **"Swyddog Monitro"** | sef fel y diffinnir yng Nghymal 7.1.6 (Dyletswyddau'r Awdurdod Lletya) |
| "NNDR" | sef Trethi Annomestig Cenedlaethol |
| "**Cynllun Busnes Cyffredinol**" neu **"OBP"** | sef y cynllun busnes cyffredinol a gymeradwyir ac a fabwysiadir gan y Partïon i reoleiddio gweithrediad y Cynllun Twf [a'r Weledigaeth Twf] |
| "**Data Personol**" | sef data personol fel y mae wedi'i ddiffinio yn y Ddeddfwriaeth Diogelu Data |
| "**Sail Poblogaeth**" | sef y gyfran berthnasol i bob Cyngor ("A%") wrth gyfeirio at eu cyfraniad ffracsiynol unigol fel y nodir yng Nghymal 15.5.5(g) (Cyfraniad y Cyngor) sy'n berthnasol mewn perthynas â Chyfraniad y Cyngor yn unig; |

| | |
|---|---|
| **"Achos Busnes Portffolio"** | sef achos busnes manwl ar gyfer portffolio o Raglenni a Phrosiectau sy'n ddarostyngedig i gymeradwyaeth gan Lywodraethau'r DU a Chymru ac mae'n darparu manylion i Lywodraethau'r DU a Chymru ynghylch sut mae'r Cyd-bwyllgor yn bwriadu cyflawni'r Cynllun Twf |
| **“Swyddfa Rheoli Portffolio”** | sef y tîm a arweinir gan y Cyfarwyddwr Rhaglen a sefydlwyd gan y Cyd Bwyllgor i gefnogi’r Cyd Bwyllgor i weithredu’r Cynllun Twf a’r Weledigaeth Twf, i drafod gyda’r Grŵp Cefnogaeth Gweithredol fel y manylir yn Rhan 2 ( Swyddfa Rheoli Portffolio) a Rhan 3 o Atodlen 2 ( Cylch Gorchwyl Swyddfa Rheoli Portffolio) |
| "**Rhaglen"** | sef y pum rhaglen allweddol fel y nodir yn fwy penodol yn y Cynllun Twf:<br>• arloesi mewn gweithgynhyrchu gwerth uchel<br>• ynni carbon isel<br>• bwyd-amaeth a thwristiaeth<br>• cysylltedd digidol<br>• tir ac eiddo |
| "**Achos Busnes Rhaglen**" | sef achos busnes manwl ar gyfer datblygu a gweithredu Rhaglen sy'n ddarostyngedig i gymeradwyaeth gan Lywodraethau'r DU a Chymru |
| **"Cyfarwyddwr Rhaglen"** | sef y swyddog a benodir fel cyfarwyddwr rhaglen y Cynllun Twf Gogledd Cymru a'r Weledigaeth Twf |
| **"Mater i'r Cyfarwyddwr Rhaglen"** | sef yr ystyr a roddir iddo yng Nghymal 5.1.1 |
| **"Achos Busnes Prosiect"** | sef achos busnes manwl ar gyfer datblygu a gweithredu Prosiect a fydd, unwaith y caiff ei gymeradwyo gan y Cyd-bwyllgor yn unol a Chymal 14( y Broses Gymeradwyo), yn golygu y bydd y Prosiect hwnnw'n Brosiect Cymeradwy a bydd yr Achos Busnes Prosiect yn rheoleiddio'r buddsoddiad i'r Prosiect Cymeradwy hwnnw a'r gwaith o'i gyflawni |
| **“Hyrwyddwr Prosiect”** | Sef Ymgynghorydd neu drydydd parti, nu yn achos Prosiect Rhanbarthol yr Awdurdod Lletyo ( neu gyngor arall) yn gweithredu ar ran y Cyd-Bwyllgor yn arwain at gyflawni Prosiect Gymeradwy |
| "**Sail Gymesur**"[3] | sef y gyfran berthnasol i bob Parti wrth gyfeirio at eu cyfraniad ffracsiynol unigol fel y nodir fel a ganlyn: |

| **Partïon** | **Cyfran y Cyfraniad** |
|---|---|
| Cyngor Conwy | [1/8] |
| Cyngor Sir Ddinbych | [1/8] |
| Cyngor Sir y Fflint | [1/8] |

3 PM: All financial detail subject to NWEAB confirmation.

| | |
|---|---|
| Cyngor Gwynedd | [1/8] |
| Cyngor Sir Ynys Môn | [1/8] |
| Cyngor Wrecsam | [1/8] |
| Prifysgol Bangor | [1/16] |
| Prifysgol Glyndwr | [1/16] |
| Coleg Cambria | [1/16] |
| Grŵp Llandrillo Menai | [1/16] |

| | |
|---|---|
| "**Cyfnod Chwarter**" | sef y cyfnodau hynny sydd wedi'u nodi ym mharagraff 2, Atodlen 7 (Cyfnodau Cyfrifyddu) fel y cânt eu diwygio o bryd i'w gilydd gan delerau'r Cytundeb hwn0 |
| **"Adroddiad Chwarterol"** | fel y diffinnir yng Nghymal 13.5.1 (Monitro Cynnydd) |
| **"Prosiect Rhanbarthol"** | sef Prosiect Gymeradwy a arweinir gan yr Awdurdod Lletya ar ran y Cyd Bwyllgor er budd y rhanbarth. |
| "**Mater a Gedwir yn Ôl**" | sef yr ystyr a roddir iddo yng Nghymal 5.1.3 |
| **"Swyddog A151"** | sef fel y diffinnir yng Nghymal 7.1.6 (Dyletswyddau'r Awdurdod Lletya) |
| "**Costau Cyfieithu**" | sef y costau cyfieithu a gyfyd i'r Awdurdod Lletya wrth gydymffurfio ag unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol sy'n ymwneud â'i rwymedigaethau dan y Cytundeb hwn |
| **"Ll y DU"** | Llywodraeth y DU |
| **"LlC"** | Llywodraeth Cymru |
| **"Cyfraniad LlC"** | fel y diffinnir yng Nghymal 15.5.1(a)(ii) (Cyllid) |
| **"Amodau Cyllid LlC"** | fel y diffinnir yng Nghymal 15.5.3 (Cyfraniad LlC) |
| **"Rhybudd Tynnu'n Ôl"** | fel y diffinnir yng Nghymal 19.3 |

1.2 **Deongliadau**

Yn y Cytundeb hwn, oni bai fod y cyd-destun yn gofyn fel arall:-

1.2.1 bydd cyfeiriad at yr unigol yn golygu'r lluosog hefyd, ac i'r gwrthwyneb;

1.2.2 bydd cyfeiriad at unrhyw Gymal, Paragraff, Atodlen neu Gronicliad, oni bai y nodir yn glir i'r gwrthwyneb, yn gyfeiriad at gymal, paragraff, atodlen neu gronicliad o'r fath ac at y Cytundeb hwn;

1.2.3 bydd unrhyw gyfeiriad at y Cytundeb hwn neu at unrhyw ddogfen arall yn cynnwys unrhyw amrywiad, newid neu ychwanegiad a ganiatawyd i'r fath ddogfen;

1.2.4 bydd unrhyw gyfeiriad at ddeddfwriaeth yn cael ei ddehongli fel cyfeiriad at unrhyw ddiwygiad, newid, uniad neu ailddeddfiad o'r ddeddfwriaeth;

1.2.5 tybir bod cyfeiriad at sefydliad cyhoeddus (yn cynnwys, er osgoi amheuaeth, unrhyw Gyngor) yn cynnwys cyfeiriad at unrhyw olynydd i sefydliad cyhoeddus o'r fath neu unrhyw sefydliad neu endid sydd wedi cymryd swyddogaethau a chyfrifoldebau sefydliad cyhoeddus o'r fath drosodd;

1.2.6 mae cyfeiriad at berson yn cynnwys cwmnïau, partneriaethau a chorfforaethau a'u holynwyr, ac aseinai neu drosglwyddai a ganiatawyd;

1.2.7 nid yw penawdau ac eglurynnau'r Cymalau, y Paragraffau a'r Atodlenni sydd yng nghorff y Cytundeb hwn yn ffurfio rhan o'r Cytundeb hwn, ac ni chymerir hwy i ystyriaeth wrth greu neu ddehongli'r Cytundeb;

1.2.8 bydd geiriau sy'n dod o flaen "**yn cynnwys", "gan gynnwys"** ac "**wedi'i gynnwys**" yn cael eu dehongli, heb gyfyngiad, yn ôl y geiriau sy'n dilyn y geiriau hynny;

1.2.9 bydd geiriau o ystyr gwrywaidd yn cael eu dehongli i gynnwys y benywaidd neu'r diryw ac i'r gwrthwyneb; a

1.2.10 bydd unrhyw gyfeiriad at deitl swyddog o unrhyw un o'r Cynghorau yn cynnwys unrhyw berson sy'n dal y swydd honno o bryd i'w gilydd dan yr un teitl neu deitl gaiff ei amnewid wedi hynny, neu unrhyw swyddog arall o'r Cyngor perthnasol y bydd y Cyngor hwnnw o bryd i'w gilydd yn ei benodi i gyflawni dyletswyddau'r swyddog y cyfeiriwyd ato.

1.3 **Atodlenni**

1.3.1 Mae'r Atodlenni i'r Cytundeb hwn yn ffurfio rhan o'r Cytundeb hwn.

1.3.2 Pe cyfyd unrhyw anghysondeb rhwng y Cymalau a'r Atodlenni, rhoddir blaenoriaeth i'r Cymalau.

1.3.3 Pe cyfyd unrhyw anghysondeb rhwng yr Atodlenni, rhoddir blaenoriaeth i'r Atodlen 1( Polisi Dirprwyo) goruwch pob Atodlen arall. [x]

2. **CYCHWYN, OES A THERFYNU**

2.1 **Cychwyn**

Bydd y Cytundeb hwn yn cychwyn ar y Dyddiad Cychwyn.

2.2 **Oes y Cytundeb**

Bydd y Cytundeb hwn yn parhau i fod mewn llawn rym ac yn effeithiol o'r Dyddiad Cychwyn hyd nes y cynharaf o'r dyddiadau a ganlyn:

(a) pan fo'r holl Bartïon yn cytuno'n ysgrifenedig i'w derfynu [a chanlyniadau terfyniad o'r fath]; neu

(b) nad oes ond un Cyngor ar ôl nad yw wedi tynnu'n ôl o'r Cytundeb hwn yn unol â Chymal 19 (Tynnu'n Ôl). **Error! Reference source not found.**

2.3 **Terfynu**

2.3.1 Heb ragfarnu unrhyw hawliau neu gywiriadau eraill, gall y Partïon eraill (y "Partïon Di-feth") ddod â'r Cytundeb hwn i ben mewn perthynas ag unrhyw Barti unigol (y "Methianwr"), gan wneud hynny'n unfrydol, drwy roi rhybudd ysgrifenedig i'r Methianwr sy'n dod i rym pan dderbynnir ef os yw'r Methianwr yn torri'n sylweddol unrhyw un o ddarpariaethau'r Cytundeb hwn, ac os oes posib cywiro'r methiant hwn, yn methu â chywiro pob methiant yn iawn o fewn trideg (30) Diwrnod Busnes (neu ryw gyfnod arall y mae'r Partïon Di-feth yn cytuno arno) o gael ei hysbysu'n ysgrifenedig o'r methiant gan y Partïon Di-feth ac o'r

angen i gywiro’r methiant. Bydd y penderfyniad i roi rhybudd ysgrifenedig i'r Methianwr yn Fater a Gedwir yn Ôl.

2.3.2 Yn ddarostyngedig, bob amser, i'r darpariaethau sydd wedi'u nodi yng Nghymal 20 (Canlyniadau Terfyniad), lle rhoddir rhybudd dan Gymal 2.3.1 uchod ac nad oes posib cywiro'r toriad sylweddol neu, yn achos toriad y mae posib ei gywiro, ac nad yw'r Methianwr yn cywiro'r toriad hwnnw o fewn y cyfnod amser sydd wedi'i nodi yn y rhybudd uchod, bydd Cymal 20 (Canlyniadau'r Terfyniad) y Cytundeb hwn yn berthnasol a phennir bod y Methianwr wedi tynnu'n ôl o'i rôl fel aelod Cyngor o'r Cyd-bwyllgor neu Ymgynghorydd ar gyfer y Cyd-bwyllgor (fel sy'n berthnasol) a Pharti i'r Cytundeb hwn fel ag ar Ddyddiad Gadael Methianwr. 192.3.119

## 3. EGWYDDORION AC AMCANION ALLWEDDOL

3.1 Mae’r Partïon yn bwriadu i’r Cytundeb hwn fod yn gytundeb cyfreithiol.

3.2 Mae'r Partïon yn cytuno i gydweithio i gyflawni rhwymedigaethau'r Partïon yng nghyswllt gweithredu'r Cynllun Twf a’r Weledigaeth Twf yn unol â'r Cytundeb hwn.

3.3 Mae'r Partïon yn cytuno ac yn cydnabod y caiff y Cynllun Twf a'r Weledigaeth Twf eu cyflawni yn unol â'r:-

(a) Cynllun Gweithredu;

(b) OBP;

(c) unrhyw Achos Busnes Portffolio;

(d) unrhyw Achos Busnes Rhaglen; ac

(e) Achosion Busnes y Prosiectau.

### 3.4 Amcanion

Mae'r Partïon yn cydnabod ac yn cytuno mai amcanion Gweledigaeth Twf Gogledd Cymru yw:-

3.4.1 gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Rhanbarth y Gogledd;

3.4.2 cefnogi a chadw pobl ifanc yn y cymunedau sydd wedi'u lleoli yn Rhanbarth y Gogledd;

3.4.3 mynd i'r afael â diweithdra a segurdod ledled Rhanbarth y Gogledd; a

3.4.4 chefnogi a galluogi buddsoddiad sector preifat yn Rhanbarth y Gogledd i roi hwb i gynhyrchiant economaidd a gwella perfformiad economaidd a chyflogaeth Rhanbarth y Gogledd.

### 3.5 Egwyddorion

Heb ragfarnu telerau’r Cytundeb hwn, mae’r Partïon yn cytuno y byddant yn cynnal eu perthynas yn unol â’r egwyddorion a ganlyn:-

#### 3.5.1 Bod yn Agored ac Ymddiriedaeth

Mewn perthynas â’r Cytundeb hwn bydd y Partïon yn agored ac yn ymddiried yn y naill a’r llall wrth ddelio â’i gilydd, yn rhoi gwybodaeth a dadansoddiadau ar gael i’w gilydd, yn trafod ac yn datblygu syniadau’n agored ac yn cyfrannu’n llawn at bob agwedd o wneud y cydweithio’n llwyddiannus. Gan barchu'r angen o bob ochr am gyfrinachedd masnachol, bydd y Partïon yn cofleidio'n barod ymrwymiad i dryloywder yn eu hymwneud ac yn benodol angen i gydymffurfio â mynediad statudol i ofynion gwybodaeth yn cynnwys Rheoliadau

Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a'r codau ymarfer sy'n eu cefnogi. Bydd y Partïon yn ymwybodol o'r angen i barchu materion o gyfrinachedd masnachol a sensitifrwydd posib;

3.5.2 **Ymrwymiad a Chymhelliant**

Bydd y Partïon wedi'u hymrwymo'n llawn i weithio gyda'i gilydd, yn ceisio ysgogi'r holl weithwyr ac yn mynd i'r afael â heriau cyflawni'r Cynllun Twf yn llawn brwdfrydedd ac yn benderfynol o lwyddo;

3.5.3 **Sgiliau a Chreadigedd**

Mae'r Partïon yn cydnabod bod pob un yn dod â sgiliau a gwybodaeth ddefnyddiol y gellir eu cymhwyso'n greadigol er mwyn cyflawni amcanion y Partïon, parhad, datrys anawsterau a datblygu'r berthynas gydweithio a'r staff sy'n gweithio oddi mewn iddi. Cydnabyddir y bydd hyn yn golygu gwerthfawrogi a mabwysiadu gwerthoedd cyffredin;

3.5.4 **Perthnasau Effeithiol**

Bydd rolau a chyfrifoldebau pob un Parti yn glir, gan ddatblygu perthnasau ar y lefelau priodol ym mhob sefydliad, gyda mynediad hawdd ac uniongyrchol at gynrychiolwyr y naill a'r llall;

3.5.5 **Datblygu ac Addasu**

Mae'r Partïon yn cydnabod eu bod ynghlwm â beth allasai fod yn berthynas hirdymor, sydd angen datblygu ac addasu, a byddant yn ymdrechu'n rhesymol i ddatblygu a chynnal proses ar y cyd effeithiol er mwyn sicrhau bod y berthynas yn datblygu'n briodol ac yn unol â'r egwyddorion a'r amcanion hyn;

3.5.6 **Enw Da**

Mae'r Partïon yn cytuno, mewn perthynas â'r Cytundeb hwn a'r Cynllun Twf yn gyffredinol, y byddant yn rhoi'r sylw pennaf i enw da'r naill a'r llall, ac yn gweithredu gan ystyried codau ymddygiad cyflogwyr ac aelodau pob Parti ei hun ac na fyddant yn gwneud na'n methu â gwneud dim byd a fyddai'n dwyn gwarth ar enw da unrhyw Barti arall neu'n denu cyhoeddusrwydd gwael i unrhyw Barti arall;

3.5.7 **Gweithredu Er y Budd Cyhoeddus**

Mae'r Partïon yn cydnabod a chytuno fod y Cyd Bwyllgor yn gorff cyhoeddus yn gweinyddu a chyfarwyddo adnoddau ac arian cyhoeddus er y budd cyhoeddus. Mae'r Partïon a phob cynrychiolydd y Partïon a dyletswydd felly i weithredu yn unol a'r dyletswydd sylfaenol yma - weithredu yn unig er y budd cyhoeddus.

3.5.8 **Rhesymoldeb Gwneud Penderfyniadau**

Mae'r Partïon yn cytuno y bydd yr holl benderfyniadau a wneir mewn perthynas â'r Cytundeb hwn a'r Cynllun Twf yn gyffredinol yn cael eu gwneud gan ymddwyn yn rhesymol ac yn ddidwyll;

3.5.9 **Caniatâd Angenrheidiol**

Mae pob Parti drwy hyn yn sicrhau i'r Partïon eraill ei fod wedi derbyn pob caniatâd angenrheidiol sy'n ddigon i sicrhau y dirprwyir y swyddogaethau a'r cyfrifoldebau y darperir ar eu cyfer yn y Cytundeb hwn;

3.5.10 **Ymrwymiadau Aelodau, Swyddogion, Cyfarwyddwyr a Gweithwyr**

Bydd pob Parti yn gwneud pob ymdrech resymol i sicrhau bod eu haelodau, eu swyddogion, eu cyfarwyddwyr a'u gweithwyr hwy sydd ynghlwm â'r Cynllun Twf yn gweithredu er pennaf les y Cynllun Twf bob tro, ac yn gweithredu gan ystyried cod ymddygiad cyflogwyr ac aelodau pob Parti ei hun, yn rhoi digon o adnoddau i gyflawni'r Cynllun Twf ac yn ymateb yn brydlon i bob cais perthnasol gan y Partïon eraill.

3.5.11 **Cod Ymddygiad**

(a) Mae'r Cynghorau'n cytuno y bydd ymddygiad eu haelodau wedi'i lywodraethu gan Godau Ymddygiad eu Cynghorau unigol ar gyfer Aelodau, fel y'u diwygir o bryd i'w gilydd, mewn perthynas â'r Cytundeb hwn, gweithredu'r Cynllun Twf a chyflawni'r Weledigaeth Twf wrth weithredu fel Aelodau y Cyd Bwyllgor

(b) Mae'r Ymgynghorwyr yn cytuno y bydd ymddygiad eu haelodau wedi'i lywodraethu gan Gòd Ymddygiad GA mewn perthynas â'r Cytundeb hwn, gweithredu'r Cynllun Twf a chyflawni'r Weledigaeth Twf wrth weithredu fel Ymgynghorydd y Cyd Bwyllgor

(c) Ym mhob achyklsur arall budd unrhyw gynrychiolwyr mewn unrhyw grŵp neu is grŵp arall sydd yn cynnwys ond heb ei gyfyngu y Grŵp Cefnogi Gweithredol a'r Grŵp Rheoli Portffolio yn y dilyn y Polisi Gwrthdaro.

3.5.12 **Polisi Gwrthdaro**

(a) Mae'r Partïon yn yn cytuno i byddent yn cydymffurfio gyda pholisi gwrthdaro buddiannau ("**Polisi Gwrthdaro**") y Bwrdd Uchelgais sydd wedi'i atodi yn Atodlen 11 (Polisi Gwrthdaro) sy'n pennu'r canllawiau a'r gweithdrefnau ar gyfer adnabod, monitro a rheoli gwrthdaro buddiannau, p'un a ydynt yn rhai go iawn neu'n rhai a allai ddigwydd.

(b) Bwriedir i'r Polisi Gwrthdaro gyd-fynd â'r Codau Ymddygiad, a gweithio law yn llaw ag ef. Fodd bynnag, os gwelwch yn dda, adroddwch am unrhyw anghysondeb i Swyddog Monitro'r Bwrdd Uchelgais, yn unol ag Atodlen 11 (Polisi Gwrthdaro).

(c) Cydnabyddir a chytunir

(i) pe cyfyd unrhyw anghysondeb rhwng y Cod Ymddygiad Cyngor perthnasol a'r Polisi Gwrthdaro dylai'r Cod Ymddygiad perthnasol yn cael blaenoriaeth ac;

(ii) pe cyfyd unrhyw anghysondeb rhwng y Cod Ymddygiad GA perthnasol a'r Polisi Gwrthdaro , dylai'r Polisi Gwrthdaro gael blaenoriaeth.

4. **LLYWODRAETHU**

4.1 Mae'r Partïon yn cydnabod ac yn cytuno bod y Cytundeb hwn yn cynnwys darpariaethau llywodraethu allweddol i'w dilyn gan y Partïon mewn perthynas a gweithredu'r Cynllun twf a chyflawni'r Weledigaeth Twf i gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) yr egwyddorion allweddol a ganlyn:

4.1.1 mae'r Partïon wedi ffurfio'r Cyd-bwyllgor fel y manylir yn fwy penodol yng Nghymal 9 (Cyd-bwyllgor) ac wedi penodi'r Awdurdod Lletya fel y nodir yng Nghymal 6 a 7 y Cytundeb hwn;

4.1.2 cefnogir y Cyd-bwyllgor a'r Awdurdod Lletya gan y Grŵp Cefnogaeth Weithredol (Cymal 10) a'r Swyddfa Rheoli Portffolio (Cymal 11), yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth ac unrhyw is-bwyllgorau neu is-grwpiau eraill a sefydlir gan y Cyd-bwyllgor yn unol â Chymal 9.9.1 (Is-bwyllgorau ac Is-grwpiau) a'r Cyfarwyddwr Rhaglen sy'n gyfrifol am reoli'r Swyddfa Rheoli Portffolioac mae'n adrodd yn uniongyrchol i'r Cyd-bwyllgor; ac

4.1.3 Mae Cymal 5 (Gwneud Penderfyniadau) yn manylu pwerau allweddol y Cyd-bwyllgor i wneud penderfyniadau ac mae Cymal 12 (Craffu) yn cynnwys darpariaethau craffu allweddol.

5. **GWNEUD PENDERFYNIADAU**

5.1 Yn nhermau'r angen i benderfyniadau a gweithredoedd eraill gael eu gwneud a'u gweithredu yn ystod tymor y Cytundeb hwn, mae'r Partïon wedi adnabod y tri chategori a ganlyn ar y cyd, gyda'r modd y'u gweithredir:-

5.1.1 "**Mater i'r Cyfarwyddwr Rhaglen**" - sef mater y disgwylir i'r Cyfarwyddwr Rhaglen allu gwneud penderfyniad arno a bydd ganddo'r pŵer i rwymo'r Partïon a'r Cyd-bwyllgor wrth wneud hynny;

5.1.2 "**Mater i'r Cyd-bwyllgor**" - sef mater y disgwylir i gynrychiolydd y Cyngor (neu ddirprwy priodol) pob Cyngor a benodir yn unol â'r Cytundeb hwn (ond nid cynrychiolwyr yr Ymgynghorwyr) allu gwneud penderfyniad arno a bydd ganddo'r pŵer i rwymo'r Partïon a'r Cyd-bwyllgor wrth wneud hynny;

5.1.3 "**Mater a Gedwir yn Ôl**" – sef mater, yn ddarostyngedig i Gymal 5.2 (Mater i'r Cyngor), y bydd rhaid ei gyfeirio at bob Parti er penderfyniad ac, er osgoi amheuaeth, ni fydd y Cyd-bwyllgor yn ymdrin â'r mater sydd angen penderfyniad hyd nes bod pob un o’r Partïon wedi penderfynu arno'n unfrydol, a bydd y penderfyniad hwnnw (unwaith y bydd wedi'i wneud) yn rhwymo'r Partïon a'r Cyd-bwyllgor wrth wneud hynny,

ac ym mhob achos, mae materion o'r fath wedi'u hadnabod yn Atodlen 1 (Polisi Dirprwyo).

**5.2 Mater i'r Cyngor**

5.2.1. Er gwaetha'r darpariaethau sydd wedi'u nodi yng Nghymal 5.1 (Gwneud Penderfyniadau) ac mewn mannau eraill yn y Cytundeb hwn, cydnabyddir a chytunir y bydd unrhyw benderfyniad mewn perthynas â Mater i'r Cyngor yn fater i'r Cynghorau yn unig (ac nid yr Ymgynghorwyr) ac, er osgoi amheuaeth, ni fydd y Cyd-bwyllgor yn ymdrin â Mater i'r Cyngor hyd nes bydd y penderfyniad wedi'i gytuno'n unfrydol gan yr holl Gynghorau, a bydd y penderfyniad hwnnw (unwaith y bydd wedi'i wneud) yn rhwymo'r Partïon a'r Cyd-bwyllgor wrth wneud hynny.

5.2.2. Mae "Mater i'r Cyngor" yn golygu;

(a) unrhyw newid i Daliadau Atodol y Cynghorau a/neu

(b) penderfyniad yn unol a Chymal 9.1.3 ( Cyd Bwyllgor Corfforaethol)

6. **AWDURDOD LLETYA**

6.1 Mae’r Partïon (gan weithredu bob yn un) wedi cytuno mai Cyngor Gwynedd fydd yn gweithredu fel Awdurdod Lletya sy'n gyfrifol am gyflawni rhwymedigaethau'r Partïon yng nghyswllt y Cynllun Twf a chefnogi'r Cyd-bwyllgor fel arall yn unol â'r Cytundeb hwn ar gyfer ac ar ran y Partïon, ac y bydd hynny’n dod i rym o’r [Dyddiad Cychwyn]. Mae Cyngor Gwynedd yn cytuno i weithredu yn y capasiti hwnnw yn amodol ar amodau a thelerau'r Cytundeb hwn ac yn unol â hynny.

6.2 Gall Cyngor Gwynedd, ar ei ddisgresiwn lwyr ei hun, ddewis tynnu'n ôl o'i rôl fel Awdurdod Lletya i'r Cyd-bwyllgor (ond parhau fel aelod Cyngor o'r Cyd-bwyllgor a Pharti i'r Cytundeb hwn) drwy roi rhybudd ysgrifenedig o'i fwriad i bob Parti ei fod yn dymuno tynnu'n ôl o'i rôl fel Awdurdod Lletya gan gychwyn [tri mis] o ddyddiad y pennir bod y rhybudd wedi'i gyflwyno.[4]

6.3 Os yw’r Awdurdod Lletya yn methu, a bod y Cytundeb yn cael ei derfynu yng nghyswllt y Cyngor hwnnw yn unol â Chymal 2.3 (Terfynu), neu os yw’r Awdurdod Lletya yn tynnu’n ôl yn unol â Chymal

6.2 (Yr Awdurdod Lletya) uchod neu'n tynnu'n ôl o'r Cytundeb yn unol â Chymal 19 (Tynnu'n ôl), bydd y Cyd-bwyllgor yn penodi Awdurdod Lletya yn ei le, ac, fel sy'n berthnasol, ni fydd gan yr Awdurdod Lletya sydd wedi methu yr hawl i bleidleisio yng nghyswllt unrhyw benodiad o'r fath.

6.4 Pan caiff Awdurdod Lletya newydd ei benodi yn ei le, yn unol â Chymal6.3 uchod, bydd unrhyw gyfeiriad at Gyngor Gwynedd (yn rhinwedd ei rôl fel yr Awdurdod Lletya cychwynnol) yn cael ei ddarllen gan gyfeirio at yr Awdurdod Lletya newydd sydd yn ei le a bydd Cyngor Gwynedd yn defnyddio ymdrechion rhesymol i drosglwyddo gwybodaeth a dogfennaeth allweddol ynglŷn a'r Cynllun Twf i'r Awdurdod Lletya newydd gan gynnwys( ond heb ei gyfyngu i ) hwyluso trosglwyddiad/ aseiniad o'r Llythyr Cynnig Grant i'r Awdurdod Lletya newydd ble mynnir hyn gan y Cyd Bwyllgor.

6.5 Bydd yr Awdurdod Lletya yn gweithredu fel Awdurdod Lletya a bydd yn derbyn:-

6.5.1 unrhyw Gyfraniad Cynllun Twf a dderbynnir ar gyfer ac ar ran y Partïon;

6.5.2 Cyfraniad y Cynghorau

6.5.3 Cyfraniad yr Ymgynhorwyr

6.5.4 y Cyfraniadau i'r Gyllideb Flynyddol;

6.5.5 Cyfraniadau Atodol y Cynghorau; ac

6.5.6 unrhyw arian arall y gellir ei dderbyn o bryd i'w gilydd yng nghyswllt y Cynllun Twf,

a bydd yn dal ac yn rheoli'r arian hwnnw yn unol â thelerau'r Cytundeb hwn.

## 7. DYLETSWYDDAU'R AWDURDOD LLETYA

7.1 Ar gyfer oes y Cytundeb hwn, bydd yr Awdurdod Lletya:

7.1.1 yn gweithredu'n ddiwyd ac yn ddidwyll ym mhopeth a wna gyda'r Partïon eraill a bydd yn gwneud ymdrech resymol i gyflawni rhwymedigaethau'r Partïon yng nghyswllt gweithredu'r Cynllun Twf a chyflawni'r Weledigaeth Twf drwy ac yn unol â'r Cytundeb hwn a'r holl ddeddfwriaeth berthnasol yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:-

(a) Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015;

(b) Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011;

(c) unrhyw hysbysiad cydymffurfio a gyhoeddir dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yng nghyswllt y Cyd-bwyllgor (os yw'n berthnasol); a

(d) Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Penderfyniadau, Dogfennau a Chyfarfodydd) (Cymru) 2001 (fel y'u diwygiwyd);

7.1.2 yn gweithredu fel yr Awdurdod Lletya a'r prif ryngwyneb (ar ei ran ei hun ac ar ran y Partïon eraill) gyda LlC, Ll y DU a Chronfa Datblygu Ranbarthol Ewrop ac unrhyw gorff arall sy'n angenrheidiol i gyflawni rhwymedigaethau'r Partïon yng nghyswllt gweithredu'r Cynllun Twf a chyflawni'r Weledigaeth Twf;

7.1.3 yn gweithredu fel yr Awdurdod Lletya i ddal unrhyw arian a dderbynnir yn uniongyrchol gan LlC, Ll y DU, Cronfa Datblygu Ranbarthol Ewrop (os o gwbl), y Partïon ac/neu unrhyw ffynonellau eraill (os o gwbl) yng nghyswllt y Cynllun Twf a bydd ond yn defnyddio ac yn rhyddhau'r arian hwn fel y cytunir yn unol â thelerau arian o'r fath a'r Cytundeb hwn;

7.1.4 yn gweithredu fel yr Awdurdod Lletya i ddal tir ac/neu unrhyw asedau eraill a gaffaelir dan unrhyw Brosiect Cymeradwy ar ymddiriedaeth ar gyfer y Partïon yn unol â thelerau'r Achos Busnes Prosiect perthnasol a bydd yr Achos Busnes Prosiect hwnnw yn rhoi manylion prynu, lesu neu fel arall unrhyw asedau ynghyd â gwaredu'r asedau hynny.

7.1.5 heb gymryd cyfrifoldeb am gyflawni unrhyw brosiect penodol o fewn y Cynllun Twf ac o fewn cyfyngiadau'r arian sydd wedi'i ddarparu iddo (fel rhan o Gostau'r Cyd-bwyllgor), bydd yn darparu'r gwasanaethau cefnogaeth sydd angen i hwyluso gwaith y Cyd-bwyllgor (a'i is-bwyllgorau a'i grwpiau a sefydlir yn unol â Chymalau 9.7.4 a 9.8), yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i wasanaethau cyllid, adnoddau dynol, cyfreithiol, TGCh, ystadau, rheoli gwybodaeth, archwilio mewnol a chaffael. Er osgoi amheuaeth, ni fydd darpariaethau'r Cymal 7.1.5 hwn yn llyffetheirio gallu'r Awdurdod Lletya i ymrwymo i drefniadau gydag unrhyw rai o'r Partïon eraill i ddarparu'r gwasanaethau uchod ar ei ran.

7.1.6 heb gymryd cyfrifoldeb am gyflawni unrhyw brosiect penodol o fewn y Cynllun Twf, darparu i Brif Swyddog Cyllid yr Awdurdod Lletya ("**Swyddog a151**") a'r Swyddog Monitro (neu eu dirprwyon a enwebir) (y "**Swyddog Monitro**") yn gweithredu, yn y drefn honno, fel Swyddog a151 a Swyddog Monitro'r Cyd-bwyllgor; ac

7.1.7 heb gyfyngu i'w rolau dan ddarpariaeth flaenorol y Cymal 7.1.7 hwn, bod â chyfrifoldeb ar gyfer, ond heb fod yn gyfyngedig i weinyddu materion ariannol y Cyd-bwyllgor (a'i is-bwyllgorau a'i grwpiau a sefydlir yn unol â Chymalau 9.7.4 a 9.8), yn cynnwys cyfrifo TAW, cadw cofnodion ariannol, sicrhau y paratoir cyfrifon blynyddol y Cyd-bwyllgor yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol a gwneud trefniadau ar gyfer archwilio'r Cyd-bwyllgor yn allanol.

7.1.8 defnyddio'r Swyddfa Rheoli Portffolio fel sydd wedi'i nodi yng Nghymal11 (Swyddfa Rheoli Portffolio).

## 8. DYLETSWYDDAU'R PARTÏON ERAILL

8.1 Ar gyfer oes y Cytundeb hwn, bydd y Partïon eraill yn gweithredu'n ddiwyd ac yn ddidwyll ym mhopeth a wnânt gyda'r Awdurdod Lletya a byddant yn gwneud ymdrech resymol i gynorthwyo'r Awdurdod Lletya i gyflawni rhwymedigaethau'r Partïon yng nghyswllt gweithredu'r Cynllun Twf a chyflawni'r Weledigaeth Twf drwy ac yn unol â'r Cytundeb hwn a'r holl ddeddfwriaeth berthnasol

8.1.1 yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i:-

(a) Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015;

(b) Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011;

(c) unrhyw hysbysiad cydymffurfio a gyhoeddir dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 i unrhyw Barti unigol; a

(d) Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Penderfyniadau, Dogfennau a Chyfarfodydd) (Cymru) 2001 (fel y'u diwygiwyd);

8.2 Cydnabyddir a chytunir y bydd rhwymedigaethau a chyfrifoldebau pob Parti yn rhwymo unrhyw endid olynol pe byddai unrhyw ad-drefnu Cynghorau neu Ymgynghorwyr yn digwydd.

## 9. CYD-BWYLLGOR

### 9.1 Sefydlu'r Cyd-bwyllgor

9.1.1 Mae'r Cynghorau wedi sefydlu'r Cyd-bwyllgor yn unol â'r Cytundeb hwn er dibenion:-

(a) cydlynu'r gwaith o gynllunio a chyflawni'r Cynllun Twf a'r Weledigaeth Twf;

(b) rhoi cyfeiriad i strategaethau allweddol i gefnogi paragraff (a) uchod, yn benodol trafnidiaeth, sgiliau a chyflogaeth, datblygu'r economi a chynllunio defnydd tir;

(c) uno'r Partïon, cyrff eraill yn y sector cyhoeddus, elusennau a busnesau o amgylch diben cyffredin i gefnogi (a) uchod;

(d) rhoi cyfeiriad i unrhyw is-bwyllgorau neu is-grwpiau y mae'r Cyd-bwyllgor yn dewis eu penodi yn cynnwys comisiynu tasgau neu brosiectau penodol;

(e) cynnig prosiectau newydd i'w hystyried gan y Bwrdd Uchelgais fel rhan o'r Cynllun Twf i'w datblygu drwy Achos Busnes Prosiect yn unol â'r Cynllun Busnes Cyffredinol a'r Cytundeb hwn;

(f) trafod prosiectau o'r fath i asesu p'un a oes cyfiawnhad am ddiwydrwydd dyladwy pellach a chyrraedd cytundeb ar y costau y dylid mynd iddynt wrth ymgymryd â gwaith arfarnu pellach;

(g) cwblhau a chymeradwyo unrhyw Achosion Busnes Prosiect yn unol â Chymal 13;

(h) adolygu'r OBP (a'i ddiweddaru os oes angen) yn unol â Chymal 13 (Achos Busnes);

(i) gwneud yr holl benderfyniadau angenrheidiol i fwrw ymlaen â nodau ac amcanion y Weledigaeth Twf; ac

(j) ymgymryd â'r swyddogaethau sydd wedi'u nodi yn Rhan 1, Atodlen 2 (Cylch Gorchwyl y Cyd-bwyllgor).0

9.1.2 Ni fydd gan y Cyd-bwyllgor y pŵer i gymeradwyo unrhyw Fater a Gedwir yn Ôl.

9.1.3 Mae'r Partïon yn cydnabod cynnwys cyd-bwyllgor corfforaethol yn y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau a gyflwynwyd ar 18 Tachwedd 2019 ac y gall y Partïon, lle nad ydynt wedi'u mandadu gan ddeddfwriaeth, ddewis ymgymryd â, neu beri ymgymryd ag adolygiad manwl i sefydlu canlyniadau llawn cyd-bwyllgor corfforaethol o'r fath ar gyfer y Cyd-bwyllgor yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) rwymedigaethau a chyfrifoldebau'r Cyd-bwyllgor a/neu'r Cynghorau a/neu'r Ymgynghorwyr dan y Cytundeb hwn, y Weledigaeth Twf, y Cynllun Twf ac unrhyw ddogfennaeth berthnasol arall. Bydd unrhyw benderfyniad i newid i gyd-bwyllgor corfforaethol yn "Fater a Gedwir i’r Cynghorau".

9.2 **Rôl yr Ymgynghorwyr**

9.2.1 Mae'r Cynghorau wedi gwahodd yr Ymgynghorwyr i gefnogi'r Cyd-bwyllgor i gynllunio a chyflawni'r Cynllun Twf a'r Weledigaeth Twf a chyflawni'r holl rwymedigaethau a chyfrifoldebau fel y nodir yn fwy penodol yn y Cytundeb hwn.

9.2.2 Cydnabyddir a chytunir y bydd yr Ymgynghorwyr, oddieithr y Bwrdd Cyflawni Busnes ac unrhyw Ymgynghorydd arall a benodir gan y Cyd-bwyllgor yn unol â'r Cytundeb hwn:

(a) oll yn Barti i'r Cytundeb hwn;

(b) yn Ymgynghorydd i'r Cyd-bwyllgor (ond nid yn aelod gweithredol ffurfiol);

(c) â'r hawl i fynychu a siarad yng nghyfarfodydd y Cyd-bwyllgor ond ni fydd ganddynt hawliau pleidleisio ffurfiol yng nghyswllt unrhyw Fater i'r Cyd-bwyllgor a gyflwynir gerbron y Cyd-bwyllgor;

(d) bydd gofyn iddynt, law yn llaw â'r Cynghorau, benderfynu ar unrhyw "Faterion a Gedwir yn Ôl"; ac

(e) wedi cytuno i gyfrannu'n ariannol i'r Cyd-bwyllgor,

oll fel y nodir yn fwy penodol yn y Cytundeb hwn.

9.2.3 Cydnabyddir a chytunir mai dim ond Cymalau 9.2.2(b) a 9.2.2(c) sy'n berthnasol i'r Ymgynghorwyr nad ydynt yn llofnodwyr

9.2.4 Gall y Cyd-bwyllgor wahodd, yn ddarostyngedig i unrhyw ofynion rhesymol, (a'u tynnu oddi yno yn ddiweddarach) gyrff neu sefydliadau pellach i fod yn Ymgynghorwyr nad ydynt yn llofnodwyr (ond nid yn Barti i'r Cytundeb). Bydd unrhyw benderfyniad i benodi neu dynnu oddi yno yn ddiweddarach gyrff neu sefydliadau pellach fel Ymgynghorwyr sy'n llofnodwyr sydd neu a fydd yn Barti i'r Cytundeb i ddarparu cefnogaeth ariannol i'r Cyd-bwyllgor yn Fater a Gedwir yn Ôl.

9.3 **Penodi Cyfarwyddwr Rhaglen**

9.3.1 Mae'r Cyfarwyddwr Rhaglen wedi'i benodi gan y Cyd-bwyllgor i, ymhlith materion eraill:

(a) gefnogi'r Cyd-bwyllgor i gyflawni ei rwymedigaethau a'i gyfrifoldebau dan y Cytundeb hwn;

(b) Arwain y Swyddfa Rheoli Portffolio

(c) cefnogi'r Grŵp Cefnogaeth Weithredol

(d) mynychu cyfarfodydd y Cyd-bwyllgor a'r Grŵp Cefnogaeth Weithredol;

(e) gwneud penderfyniadau Materion i'r Cyfarwyddwr Rhaglen fel y nodir yn Atodlen 1 (Matrics Penderfyniad); a0

(f) adrodd yn uniongyrchol i'r Cyd-bwyllgor.

9.3.2 Cyflogir y Cyfarwyddwr Rhaglen gan yr Awdurdod Lletya ar ran y Cyd-bwyllgor a chaiff unrhyw gost neu gyfrifoldeb y gyflogaeth honno eu cyfrifo fel Costau'r Cyd-bwyllgor a bydd yr Awdurdod Lletya yn eu hadfer gan y Cyd-bwyllgor.

9.4 **Penodi Cynrychiolwyr i'r Cyd-bwyllgor**

9.4.1 Bydd pob Parti yn penodi un (1) cynrychiolydd i'r Cyd-bwyllgor. Caiff y Cynghorau eu cynrychioli gan yr Arweinydd am y tro o bob Cyngor, a chaiff yr Ymgynghorwyr eu cynrychioli gan y Prif Weithredwr neu gyfatebol pob Ymgynghorydd, neu unrhyw berson arall o statws ac awdurdod digonol fel y mae'r Ymgynghorydd yn hysbysu'r Awdurdod Lletya.

9.4.2 Bydd gan bob Parti hawl o bryd i'w gilydd i benodi dirprwy a enwir ar gyfer ei gynrychiolydd a bydd yn hysbysu Swyddog Monitro'r Awdurdod Lletya o fewn un (1) mis calendr o'r Dyddiad Cychwyn am fanylion ei ddirprwy. Gall unrhyw ddirprwyon fynychu cyfarfodydd y Cyd-bwyllgor ond, yn achos dirprwy i Gyngor, ni fydd ganddynt hawl i siarad na phleidleisio mewn cyfarfodydd oni bai bod y prif gynrychiolydd cyfatebol yn absennol ac, yn achos dirprwy i Ymgynghorydd, ni fydd ganddynt hawl i siarad mewn cyfarfodydd oni bai bod y prif gynrychiolydd cyfatebol yn absennol. Rhaid i Ddirprwyon fod o statws ac awdurdod digonol i ymgymryd â'r rôl.

9.4.3 Ar eu disgresiwn, gall y Partïon ddisodli eu cynrychiolwyr (a'u dirprwyon perthnasol) ar yr amod bod hyn ar yr un sail â'r sawl a benodwyd yn wreiddiol ac ar yr amod na chaiff yr un cynrychiolydd ei symud na'i ddisodli gan unrhyw Barti heb i'r Parti hwnnw roi rhybudd ysgrifenedig ymlaen llaw cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol.

9.4.4 Bydd Cadeirydd y Cyd-bwyllgor yn gynrychiolydd Cyngor a benodir i'r Cyd-bwyllgor a chaiff ei benodi'n flynyddol o blith aelodau Cyngor gan y Cyd-bwyllgor yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Ni fydd gan y Cadeirydd bleidlais fwrw.

9.4.5 Bydd Is-gadeirydd y Cyd-bwyllgor yn gynrychiolydd Cyngor a benodir i'r Cyd-bwyllgor a chaiff ei benodi'n flynyddol o blith aelodau Cyngor gan y Cyd-bwyllgor yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Ni fydd gan yr Is-gadeirydd bleidlais fwrw a'i rôl ef/hi fydd i ymgymryd â rôl y cadeirydd pan fo'r cadeirydd yn absennol.

9.4.6 Gall pob Parti, ar ei ddisgresiwn, newid ei gynrychiolydd (a'i ddirprwy priodol) a benodir i'r Cyd-bwyllgor, ar yr amod:-

(a) bod ganddynt, bob amser, gynrychiolydd wedi'i benodi i'r Cyd-bwyllgor yn unol â'r rolau sydd wedi'u hadnabod yn Rhan 1, Atodlen 2 (Cylch Gorchwyl y Cyd-bwyllgor);0

(b) nad oes gan yr olynydd statws nac awdurdod is na'r hyn sydd wedi'i nodi yn Rhan 1, Atodlen 2 (Cylch Gorchwyl y Cyd-bwyllgor) oni bai y cytunir fel arall gan y Partïon; a0

(c) chaiff manylion unrhyw gynrychiolydd o'r fath eu rhannu gyda'r Partïon eraill yn ysgrifenedig, er mwyn diweddaru'r manylion perthnasol sydd wedi'u nodi yn 9.4.1 a 9.4.4 uchod

9.5 **Cyfarfodydd y Cyd-bwyllgor**

9.5.1 Oni bai bod y Cyd-bwyllgor yn penderfynu fel arall (e.e. os pennir nad oes angen cyfarfod), bydd y Cyd-bwyllgor yn cyfarfod naill ai bob yn ail fis neu fel sydd angen yn unol ag amserlen cyflawni'r Cynllun Twf neu'r Weledigaeth Twf. Caiff Cyfarfodydd Arferol eu cynnull yn unol â "Chalendr o Gyfarfodydd" i'w gymeradwyo gan y Cyd-bwyllgor ac wedi rhoi'r hysbysiad statudol angenrheidiol (i'w gyhoeddi drwy'r Awdurdod Lletya) i drafod Materion i'r Cyd-bwyllgor y cyfeirir atynt yn Atodlen 1 (Polisi Dirprwyo) a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd yr Awdurdod Lletya fydd y "Swyddog Priodol" ar gyfer cynnull cyfarfodydd.0

9.5.2 Disgwylir i bob Cyngor a phob Ymgynghorydd fynychu holl gyfarfodydd y Cyd-bwyllgor lle bo hynny'n bosib.

9.5.3 Gall unrhyw Gyngora /neu Ymgynghorydd, drwy gais ysgrifenedig a wneir i'r Awdurdod Lletya ddim hwyrach na 15 (pymtheg) diwrnod gwaith clir cyn dyddiad y cyfarfod, ofyn i fater gael ei ystyried yng nghyfarfod nesaf y Cyd-bwyllgor. Bydd y cais hwnnw yn cynnwys crynodeb o'r mater a'r penderfyniad, os o gwbl, a geisir.

9.5.4 Bydd yr Awdurdod Lletya yn sicrhau y caiff yr holl raglenni a'r wybodaeth berthnasol a'r adroddiadau yng nghyswllt cyfarfod y Cyd-bwyllgor eu dosbarthu'n amserol a beth bynnag yn unol â gofynion deddfwriaethol.

9.5.5 Gall unrhyw gynrychiolydd ofyn i'r Cadeirydd ar ddechrau cyfarfod y Cyd-bwyllgor i eitem frys gael ei hychwanegu i'r rhaglen, os yw ef neu hi yn ystyried bod angen ystyried mater ar frys, ond mater i'r Cadeirydd benderfynu a yw am ei gynnwys fydd hyn.

9.6 **Penderfyniadau Cyd-bwyllgor**

9.6.1 Y cworwm angenrheidiol i gyfarfod y Cyd-bwyllgor fydd cynrychiolydd neu ddirprwy o o leiaf 4 (pedwar) Cyngor.

9.6.2 Yng nghyfarfodydd y Cyd-bwyllgor bydd gan bob cynrychiolydd neu ddirprwy priodol (yn absenoldeb y cynrychiolydd perthnasol) o bob Cyngor yn unig 1 (un) bleidlais.

9.6.3 Yng nghyfarfodydd y Cyd-bwyllgor, bydd gan bob cynrychiolydd neu ddirprwy priodol (yn absenoldeb y cynrychiolydd perthnasol) o bob Ymgynghorydd yr hawl i gynghori'r Cyd-bwyllgor ar benderfyniadau a chaiff eu barn ei chofnodi gan y Cyd-bwyllgor. Er nad oes bwriad i'r Ymgynghorwyr gael hawliau pleidleisio ffurfiol, bydd y Cyd-bwyllgor yn ystyried unrhyw farn neu sylw a wneir gan yr Ymgynghorwyr ac os nad yw'r Ymgynghorwyr yn cytuno gyda phenderfyniad arfaethedig, bydd y Cyd-bwyllgor yn ystyried (gan ymddwyn yn ddidwyll) datgan bod mater yn Fater Heb ei Ddatrys gan y Cyd-bwyllgor (fel y nodir yn fwy penodol yng Nghymal 9.6.5 isod).

9.6.4 Gwneir penderfyniadau yng nghyfarfodydd y Cyd-bwyllgor drwy bleidlais fwyafrif syml o'r cynrychiolwyr (neu ddirprwyon fel sy'n briodol) o'r Cynghorau sy'n bresennol, ar yr amod os:-

(a) yw'r pleidleisiau'n gyfartal (h.y. sefyllfa ddiddatrys); neu

(b) bod dau Gyngor a/neu Ymgynghorydd neu fwy yn gwneud cais o'r fath yn y cyfarfod,

caiff y penderfyniad hwnnw ei ddatgan fel Mater Heb ei Ddatrys gan y Cyd-bwyllgor ac ymdrinnir ag ef yn unol â Chymal 9.6.5.

9.6.5 Os, mewn cyfarfod o'r Cyd-bwyllgor, nad yw mater yn derbyn penderfyniad, caiff y mater hwnnw ("**Mater Heb ei Ddatrys gan y Cyd-bwyllgor**") ei ohirio er mwyn ei ystyried yng nghyfarfod arferol nesaf y Cyd-bwyllgor, neu adeg gynharach o'r fath fel y cytunir. Os, yng nghyfarfod y Cyd-bwyllgor sydd wedi'i ail-gynnull, y bydd angen pleidlais fwyafrif syml o'r cynrychiolwyr (neu'r dirprwyon fel sy'n briodol) gan y Cynghorau sy'n bresennol yn unig, ar unrhyw benderfyniadau sy'n ymwneud â Mater Heb ei Ddatrys gan y Cyd-bwyllgor, ar yr amod na fydd cytundeb ar y Mater Heb ei Ddatrys gan y Cyd-bwyllgor ac ni chaiff ei weithredu gan y Cyd-bwyllgor os yw'r pleidleisiau'n gyfartal (h.y. sefyllfa ddiddatrys). Er osgoi amheuaeth, ni fydd gan yr Ymgynghorwyr hawl i ddatgan bod Mater Heb ei Ddatrys gan y Cyd-bwyllgor yn parhau'n Fater Heb ei Ddatrys gan y Cyd-bwyllgor yng nghyfarfod y Cyd-bwyllgor sydd wedi'i ail-gynnull.

9.6.6 Bydd yr Awdurdod Lletya yn cyhoeddi rhybudd o benderfyniadau'r Cyd-bwyllgor a'i is-bwyllgorau yn unol â gofynion Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Penderfyniadau, Dogfennau a Chyfarfodydd) (Cymru) 2001 (fel y'u diwygiwyd) 2002/1385 a bydd yn cyflwyno copi o'r rhybudd dywededig i Bennaeth Gwasanaethau Democrataidd pob Cyngor a'r Ymgynghorwyr i'r Cyd-bwyllgor o fewn yr amserlen sydd wedi'i nodi yn ei reolau sefydlog.

9.7 **Gweithdrefnau'r Cyd-bwyllgor**

9.7.1 Bydd pob Parti yn darparu'r holl wybodaeth sy'n rhesymol ofynnol ar gais gan y Cyd-bwyllgor i'r Cyfarwyddwr Rhaglen, a byddant yn cydymffurfio ag unrhyw benderfyniadau gan y Cyd-bwyllgor i ofyn am wybodaeth o'r fath.

9.7.2 Bydd pob Parti yn ymgynghori â'r Partïon eraill i sicrhau bod y materion dydd i ddydd sy'n ymwneud â chyflawni rhwymedigaethau'r Partïon yng nghyswllt cyflawni'r Cynllun Twf yn mynd yn eu blaen yn ddiwyd.

9.7.3 Os yw Parti yn dymuno darparu unrhyw wybodaeth a/neu gyflwyno hysbysiad neu orchymyn ar y Cyd-bwyllgor, dylid cyflwyno'r rhain i'r Cyfarwyddwr Rhaglen yn unol â Chymal 27 (Hysbysiadau) ac Atodlen 3 (Manylion y Partïon). Bydd y Cyfarwyddwr Rhaglen yn cadw cofnod o'r holl wybodaeth, hysbysiadau a gorchmynion a dderbynnir a bydd yn diweddaru pob cynrychiolydd yn brydlon.

9.7.4 Mae'r Partïon yn cydnabod ac yn cytuno y bydd y Cyd-bwyllgor, oddieithr fel yr amrywir gan y Cytundeb hwn, yn mabwysiadu (fel sy'n briodol) reolau sefydlog y Weithrediaeth, rheolau sefydlog contract, rheolau gweithdrefnau ariannol ac unrhyw bolisïau a gweithdrefnau perthnasol eraill cyffredinol yr Awdurdod Lletya ar gyfer ac ar ran y Partïon wrth gyflawni ei rwymedigaethau dan y Cytundeb hwn a bod Swyddog a151 a Swyddog Monitro'r Awdurdod Lletya (neu eu dirprwyon a enwebir) yn gweithredu, yn y drefn honno, fel Swyddog a151 a Swyddog Monitro'r Cyd-bwyllgor.

9.7.5 Mae'r Ymgynghorwyr yn cydnabod ac yn cytuno y bydd eu cynrychiolydd neu ei ddirprwy yn cydymffurfio â thelerau Cod Ymddygiad y GA ac mae'r Cynghorau'n cydnabod ac yn cytuno y bydd eu cynrychiolydd neu ei ddirprwy yn cydymffurfio â Chod Ymddygiad Aelodau perthnasol y Cyngor y maent yn ei gynrychioli.

9.8 **Gall y Cyd-bwyllgor Ddirprwyo**

9.8.1 Gall y Cyd-bwyllgor ddirprwyo unrhyw rai o'r pwerau sydd wedi'u rhoi iddo dan y Cytundeb hwn fel "Materion i'r Cyd-bwyllgor" neu sy'n ffurfio rhan o'i gylch gorchwyl yn unol â Rhan 1 (Cylch Gorchwyl y Cyd-bwyllgor):-**Error! Reference source not found.**

(a) i is-bwyllgor neu swyddog o un o'r cynghorau; a/neu

(b) i'r Cyfarwyddwr Rhaglen;

i'r graddau, mewn perthynas â'r materion hynny y cyfeirir atynt yn y Cymal 9.8.1 hwn ac ar yr amodau a'r telerau hynny yr ystyria'n addas o bryd i'w gilydd (yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau y gellid eu gosod ar ddirprwyo o'r fath gan y Cyd-bwyllgor).

9.8.2 Gall y Cyd-bwyllgor ganiatáu y bydd dirprwyo fel hyn yn awdurdodi dirprwyo pwerau'r Cyd-bwyllgor ymhellach yn awtomatig, gan unrhyw berson y maent wedi'u dirprwyo iddo, ar yr amod bod y Cyd-bwyllgor yn nodi hyn yn benodol o fewn awdurdod dirprwyo o'r fath.

9.8.3 Gall y Cyd-bwyllgor ddiddymu unrhyw ddirprwyo yn gyfan gwbl neu'n rhannol, neu addasu'r amodau a thelerau unrhyw bryd.

9.9 **Is-bwyllgorau ac Is-grwpiau**

9.9.1 Gall y Cyd-bwyllgor greu is-bwyllgorau, is-grwpiau, cyrff rheoli prosiect neu gerbydau pwrpas arbennig (yn amodol ar yr angen i sicrhau cymeradwyaeth ar gyfer cwmni masnachu awdurdod lleol a sefydlir dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 fel Mater a Gedwir yn Ôl) fel y gwêl yn dda o bryd i'w gilydd er mwyn cefnogi a chyflawni ei Gylch Gorchwyl a gynhwysir yn Rhan 1 o Atodiad 2 ( Cylch Gorchwyl)

9.9.2 Rhaid i is-bwyllgorau y mae'r Cyd-bwyllgor yn dirprwyo unrhyw rai o'i bwerau iddynt ddilyn gweithdrefnau sy'n seiliedig gyhyd ag sy'n berthnasol ar y darpariaethau hynny yn y Cytundeb hwn sy'n llywodraethu'r Cyd-bwyllgor wrth wneud penderfyniadau.

9.9.3 Bydd y Cyd-bwyllgor yn sefydlu aelodaeth, rheolau gweithdrefn a chylch gorchwyl yr holl is-bwyllgorau neu is-grwpiau neu gyrff rheoli prosiect er mwyn, ymhlith materion eraill, egluro eu rôl briodol ac ystod y dirprwyo a gaiff ei gymeradwyo gan y Cyd-bwyllgor.

9.9.4 Drwy ac yn unol â GA1, sefydlodd y Cyd-bwyllgor [Is-bwyllgor Trafnidiaeth] a chaiff cylch gorchwyl yr [Is-bwyllgor Trafnidiaeth], yn amodol ar bwerau'r Cyd-bwyllgor i amrywio neu ddiddymu dirprwyo o'r fath yn unol â chymal 9.8 uchod, ei nodi yn Rhan 4, Atodlen 2.0

9.9.5 Cydnabyddir a chytunir gan y Partïon y bydd yr is-bwyllgorau neu'r grwpiau y cyfeirir atynt yn y Cytundeb hwn:

(a) yn ymgymryd â nifer o swyddogaethau yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i rheoli rhaglen a phrosiect, craffu, herio a/neu wasanaethau ymgynghori yn unol â'u cylch gorchwyl; ac

(b) ni fydd ganddynt unrhyw bwerau dirprwyedig i wneud penderfyniadau (oni bai y cymeradwyir hynny'n benodol fel arall gan y Cyd-bwyllgor).

10. **GRŴP CEFNOGAETH WEITHREDOL**

10.1 **Sefydlu'r Grŵp Cefnogaeth Weithredol**

10.1.1 Drwy ac yn unol â GA1, sefydlodd y Partïon y Grŵp Cefnogaeth Weithredol i gefnogi'r Cyd-bwyllgor a rhoi cyfarwyddyd a chyngor i'r Swyddfa Rheoli Portffolioar weithredu penderfyniadau'r Cyd-bwyllgor fel y nodir yn fwy penodol yn Rhan 2, Atodlen 2 (Cylch Gorchwyl y Grŵp Cefnogaeth Weithredol).0

10.1.2 Mae'r Cyfarwyddwr Rhaglen wedi'i benodi gan y Cyd-bwyllgor ac mae'n gyfrifol am gynghori'r Grŵp Cefnogaeth Weithredol ac arwain y Swyddfa Rheoli Portffolioi gefnogi'r Cyd-bwyllgor i gyflawni ei rwymedigaethau a'i gyfrifoldebau dan y Cytundeb hwn. Bydd y Cyfarwyddwr Rhaglen yn adrodd yn uniongyrchol i'r Cyd-bwyllgor.

10.2 **Penodi Cynrychiolwyr i'r Grŵp Cefnogaeth Weithredol**

10.2.1 Yn unol â chylch gorchwyl y Grŵp Cefnogaeth Weithredol, bydd pob Parti yn penodi un cynrychiolydd o blith uwch swyddogion i'r Grŵp Cefnogaeth Weithredol. Bydd y cadeirydd yn gynrychiolydd fel y penna'r Cyd-bwyllgor o bryd i'w gilydd a fydd yn gyfrifol am arwain y Grŵp Cefnogaeth Weithredol. Caiff y cadeirydd ei ail-benodi bob dwy flynedd.

10.2.2 Bydd gan bob Parti hawl, o bryd i'w gilydd, i benodi dirprwy i'w uwch swyddog a bydd gan y dirprwy hwn (ym mhob achos) yr hawl i fynychu cyfarfodydd y Grŵp Cefnogaeth Weithredol yn lle'r uwch swyddog.

10.2.3 Ar eu disgresiwn, bydd y Partïon yn disodli eu cynrychiolwyr (a'u dirprwyon perthnasol) a benodir i'r Grŵp Cefnogaeth Weithredol ar yr amod bod hyn ar yr un sail â'r sawl a benodwyd yn wreiddiol ac ar yr amod na chaiff yr un uwch swyddog o'r Grŵp Cefnogaeth Weithredol ei symud na'i ddisodli gan unrhyw Barti heb i'r Parti hwnnw roi rhybudd ysgrifenedig ymlaen llaw cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol a beth bynnag o fewn deg (10) Diwrnod Busnes o'i fwriad i symud neu ddisodli'r cynrychiolydd hwnnw.

10.2.4 [Er osgoi amheuaeth, caiff y Costau Mewnol a geir gan y Cynghorau a'r Ymgynghorwyr wrth ddarparu'r cynrychiolwyr hynny yn cael eu cyfrifo fel a ganlyn:

(a) mewn perthynas â'r Cyfarwyddwr Rhaglen, bydd Cymal 9.3.2 (Penodi'r Cyfarwyddwr Rhaglen) yn berthnasol;9.3.2

(b) bydd pob cynrychiolydd uwch swyddog (a'r dirprwyon) yn cael eu cyflogi gan eu Cyngor neu Ymgynghorydd eu hunain (fel sy'n briodol), ym mhob achos arall, bydd Cymal 15.2 (Costau Mewnol) yn berthnasol.0

(c) mewn perthynas â'r Swyddog a151 a'r Swyddog Monitro, caiff y Costau Mewnol eu cyfrifo fel Costau'r Cyd-bwyllgor a bydd yr Awdurdod Lletya yn eu hadfer gan y Cyd-bwyllgor; a

(d) mewn perthynas â chynrychiolwyr eraill, rhagwelir y caiff y rhain eu cyfrifo gan yr endidau eu hunain oni bai eu cytunir a codir am y costau hyn i'r Awdurdod Lletya a/neu'r Cyd-bwyllgor a, dan yr amgylchiadau hynny, cânt eu cyfrifo fel Costau'r Cyd-bwyllgor.][5]

10.3 **Cyfarfodydd y Grŵp Cefnogaeth Weithredol**

10.3.1 Bydd y Grŵp Cefnogaeth Weithredol yn cyfarfod fel sydd angen yn unol â'r amserlen ar gyfer y Cynllun Twf a'r Weledigaeth Twf a gofynion cylch cyfarfodydd y Cyd-bwyllgor, Penderfyniadau'r Grŵp Cefnogaeth Weithredol

10.3.2 Ni fydd gan y Grŵp Cefnogaeth Weithredol unrhyw bwerau i wneud penderfyniadau yn unol â'r Cytundeb hwn.

11. **SWYDDFA RHEOLI PORTFFOLIO**

11.1 **Sefydlu'r Swyddfa heoli Portffolio**

11.1.1 Drwy ac yn unol â GA1, sefydlodd y Cyd-bwyllgor Swyddfa Rheoli Portffolioi gynorthwyo'r Cyd-bwyllgor i weithredu'r Cynllun Twf a'r Weledigaeth Twf, i gysylltu â'r Grŵp Cefnogaeth Weithredol a chymryd cyfarwyddyd ganddynt ac ymgymryd â gwaith rheoli dydd i ddydd

---

5 NWEAB – This remains subject to review by NWEAB.

swyddogaethau'r Cyd-bwyllgor fel y nodir yn fwy penodol yn Rhan 3, Atodlen 2 (Cylch Gorchwyl y Swyddfa Rhaglen). Drwy ymuno yn y gytundeb yma mae'r Partïon hefyd yn cadarnhau a derbyn newid enw y Swyddfa Rheoli Rhaglen i'r Swyddfa Rheoli Portffolio er adlewyrchu ei gylch gorchwyl a swyddogaeth. 0

11.1.2 Mae'r Cyfarwyddwr Rhaglen wedi'i benodi gan y Cyd-bwyllgor ac mae'n gyfrifol am arwain y Swyddfa Rheoli Portffolioi gefnogi'r Cyd-bwyllgor i gyflawni ei rwymedigaethau a'i gyfrifoldebau dan y Cytundeb hwn. Bydd y Cyfarwyddwr Rhaglen yn adrodd yn uniongyrchol i'r Cyd-bwyllgor.

11.2 **Penodi unigolion i'r Swyddfa Rhaglen**

11.2.1 Bydd y Swyddfa Rheoli Portffolioyn cynnwys y Cyfarwyddwr Rhaglen a swyddi eraill fel y mae'r Cyd-bwyllgor yn eu cymeradwyo o bryd i'w gilydd

11.2.2 Bydd yr Awdurdod Lletya, yn gweithredu ar gyfarwyddiadau'r Cyd-bwyllgor neu'r Cyfarwyddwr Rhaglen (yn dilyn unrhyw benderfyniad a wneir gan y Cyd-bwyllgor ynghylch hynny), yn cyflogi pob un o'r swyddogion ac unrhyw unigolion eraill y cytunir arnynt yn unol â Chymal 11.2 (Swyddfa Rhaglen) er mwyn ffurfio'r Swyddfa Rheoli Portffolioa chaiff unrhyw gost neu gyfrifoldeb y gyflogaeth honno eu cyfrifo fel Costau'r Cyd-bwyllgor a bydd yr Awdurdod Lletya yn eu hadfer gan y Cyd-bwyllgor.

11.2.3 Caiff yr holl staff a gyflogir yn y Swyddfa Rheoli Portffolioeu penodi ar yr amodau a thelerau cyflogaeth, yn cynnwys, er osgoi amheuaeth, tâl a graddfa'r Awdurdod Lletya.

11.3 **Gwneud Penderfyniadau gan y Cyfarwyddwr Rhaglen a'r Swyddfa Rhaglen**

11.3.1 Bydd y Cyfarwyddwr Rhaglen yn penderfynu ar Faterion i'r Cyfarwyddwr Rhaglen fel y nodir yn Atodlen 1, ond gall, lle bo hynny'n briodol, ddirprwyo penderfyniadau o'r fath i staff os yw hynny'n briodol o ystyried eu rôl a lefel eu swydd. 0

## 12. ARCHWILIO A CHRAFFU

12.1 Bydd yr Awdurdod Lletya yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau archwilio mewnol i'r Cyd-bwyllgor a bydd adroddiadau archwilio yng nghyswllt y Cyd-bwyllgor yn cael eu hystyried gan ei bwyllgor archwilio yn unol â'i reolau a'i arferion arferol. Bydd yn gwneud ei argymhellion i'r Cyd-bwyllgor neu'r Cyfarwyddwr Rhaglen fel y gwêl yn briodol. Caiff y Cyfarwyddwr Rhaglen wybod yn ysgrifenedig am fwriad i adrodd unrhyw beth i'r Pwyllgor Archwilio. Er osgoi amheuaeth:, caiff adroddiad archwilio mewnol blynyddol ei gyflwyno gan Reolwr Archwilio'r Awdurdod Lletya i'r Cyd-bwyllgor.

12.2 Bydd y Cyd-bwyllgor a'i Is-bwyllgorau yn ddarostyngedig i drosolwg gan unrhyw rai o Bwyllgorau Craffu perthnasol y Cynghorau a bydd y rhain yn digwydd yn unol â'r Protocol Craffu a nodir yn Atodlen 3 (Protocol Craffu) yn unig.

12.3 Os caiff penderfyniad ei alw i mewn gan un neu fwy o'r Cynghorau, cydnabyddir a chytunir y bydd gweithrediad penderfyniad o'r fath, oddieithr yn achos materion y pennir eu bod yn Faterion Brys yn unol â'r Protocol Craffu, eu hatal gan y Cyd-bwyllgor hyd nes bydd deilliant y galw i mewn wedi'i gyfathrebu i'r Cyd-bwyllgor a'i ystyried ganddo yn unol â'r Protocol Craffu.

## 13. CYNLLUN BUSNES

13.1 **OBP**

13.1.1 Mae'r penderfyniad i gymeradwyo a mabwysiadu'r OBP yn "Fater a Gedwir yn Ôl".

13.1.2 Mae'r Partïon wedi paratoi a mabwysiadu ar ddyddiad y Cytundeb hwn gynllun busnes cyffredinol 5 (pum) mlynedd (yr "**OBP**") sydd, ymhlith materion eraill, yn nodi amcanion a blaenoriaethau'r Partïon er mwyn cyflawni'r Cynllun Twf ac mae wedi'i atodi yn Atodlen 10 (OBP) i'r Cytundeb hwn. 0

13.2 **OBP wedi'i Ddiweddaru**

13.2.1 Gellir adolygu'r OBP unrhyw bryd gan y Cyd-bwyllgor os oes angen yn unol â Chymal 13.4 (Achos Busnes Prosiect) neu caiff ei adolygu'n flynyddol o leiaf (a'i ddiweddaru os oes angen) ddim cynharach na thri (3) mis a ddim hwyrach nag un (1) mis cyn diwedd y Cyfnod Cyfrifyddu perthnasol yn unol â'r Cymal hwn.

13.2.2 Yn dilyn adolygiad o'r fath a dim ond os oes angen diwygiadau, bydd y Swyddfa Rheoli Portffolio , ar y cyd â'r Grŵp Cefnogaeth Weithredol, yn paratoi, yn cwblhau, yn cytuno (gan weithredu er budd gorau'r Cyd-bwyllgor) ac yn argymell i'w fabwysiadu i'r Cyd-bwyllgor OBP drafft wedi'i ddiweddaru ar gyfer y pum mlynedd dilynol i ymgorffori unrhyw ddiwygiadau arfaethedig ar yr amod bod yr OBP bob amser yn parhau'n gyson gydag Achosion Busnes Portffolio, Rhaglen ac unrhyw Achosion Busnes Prosiect unrhyw Brosiectau Cymeradwy.

13.2.3 Mae'r penderfyniad i gymeradwyo a mabwysiadu unrhyw OBP wedi'i ddiweddaru yn "Fater i'r Cyd-bwyllgor" oddieithr i'r graddau bod unrhyw ddiweddariad o'r fath gyfystyr â newid materol yng nghynnwys yr Achosion Busnes Portffolio, Rhaglen neu unrhyw Achosion Busnes Prosiect unrhyw Brosiectau Cymeradwyo ac, os felly, bydd y penderfyniad i gymeradwyo a mabwysiadu'r OBP wedi'i ddiweddaru yn "Fater a Gedwir yn Ôl".

13.2.4 Bydd y Cyd-bwyllgor (neu, os yw unrhyw ddiweddariad gyfystyr â newid materol, pob un o'r Partïon (fel sy'n briodol)) yn ymdrechu'n rhesymol i geisio cytuno'r OBP drafft hwnnw a'i fabwysiadu fel yr OBP ffurfiol o fewn 60 (chwedeg) Diwrnod Busnes o'r dyddiad y caiff ei ddosbarthu gyntaf i'r Cyd-bwyllgor neu ddyddiad arall fel y cytunwyd gan y Cyd-bwyllgor.

13.2.5 Bydd yr OBP wedi'i ddiweddaru yn unol â Chymal 13.2.4 (gydag unrhyw ddiwygiadau iddo fel y cytunir gan y Cyd-bwyllgor neu fel "Mater a Gedwir yn Ôl" (fel sy'n briodol)) yn disodli'r OBP cyfredol ar y pryd fel yr OBP ffurfiol ar yr hwyraf o:

(a) diwedd yr OBP cyfredol ar y pryd; a

(b) dyddiad cymeradwyaeth y Cyd-bwyllgor iddo yn unol â Chymal 9 (Cyd-bwyllgor) neu, fel sy'n briodol, y dyddiad y caiff yr OBP wedi'i ddiweddaru ei gymeradwyo gan y Partïon fel "Mater a Gedwir yn Ôl".

13.2.6 Hyd nes y bydd wedi'i ddisodli yn unol â Chymal 13.2.4, bydd yr OBP sydd wedi'i fabwysiadu fwyaf diweddar fel yr OBP ffurfiol yn parhau i fod yn OBP rhwymol ffurfiol.

13.2.7 Os nad yw'r OBP drafft a ddosberthir dan Gymal 13.2.2 wedi'i gymeradwyo eto gan y Cyd-bwyllgor neu, os yw unrhyw ddiweddariad gyfystyr â newid materol, pob un o'r Partïon (fel sy'n berthnasol), erbyn y dyddiad chwe (6) mis calendr yn dilyn y dyddiad y caiff ei ddosbarthu gyntaf i'r Cyd-bwyllgor, pennir bod y mater yn Fater Heb ei Ddatrys gan y Cyd-bwyllgor a bydd Cymal 9.6.5 (Cyd-bwyllgor) yn berthnasol neu os bydd y gymeradwyaeth honno i'w rhoi fel "Mater a Gedwir yn Ôl", pennir nad yw'r OBP wedi'i gymeradwyo yn dilyn y cyfnod chwe (6) mis hwnnw.

13.3 **Achosion Busnes Portffolio a Rhaglenni**

13.3.1 Mae'r Cyd-bwyllgor yn rhagweld gweithredu rhwymedigaethau'r Partïon mewn perthynas â'r Cynllun Twf drwy bum Rhaglen a fydd oll yn cynnwys nifer o Brosiectau. Bydd gan bob un o'r Rhaglenni Achos Busnes Rhaglen a bydd gan y Prosiectau oll Achos Busnes Prosiect.

13.3.2 Mae'r Achos Busnes Portffolio yn ymdrin â'r holl Gynllun Twf ac fe'i cefnogir gan bob un o'r pum (5) Achos Busnes Rhaglen sydd oll yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth gan Lywodraethau'r DU a Chymru a’r Cyd Bwyllgor ac maent yn darparu manylion i Lywodraethau'r DU a Chymru ynghylch sut mae'r Cyd-bwyllgor yn bwriadu cyflawni'r Cynllun Twf.

13.3.3 Bydd Cynllun Busnes Rhaglen, ymhlith materion eraill, yn ymdrin â'r isod:

(a) sut mae'r Rhaglen yn cyfrannu i amcanion gwariant cyffredinol y portffolio a'r OBP;

(b) sut mae'r Rhaglen yn cyd-fynd â'r Weledigaeth Twf a strategaethau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU rhanbarthol perthnasol eraill;

(c) manylion penodol ynghylch effaith economaidd y Rhaglen; a

(d) manylion penodol ynghylch goblygiadau ariannol y Rhaglen.

13.3.4 Caiff yr OBP a'r Achosion Busnes Prosiectau eu datblygu a'u cymeradwyo gan y Cyd-bwyllgor yn unol â'r Cytundeb hwn. Yr OBP yw cynllun cyffredinol y Bwrdd Uchelgais (gan ystyried yr Achosion Busnes Portffolio a Rhaglen) ac mae'r Cynlluniau Busnes Prosiectau yn mynd i lawr i fanylder pob un o'r Prosiectau arfaethedig i'w datblygu a'u cymeradwyo yn unol â'r Cytundeb hwn.

13.4 **Achosion Busnes Prosiectau**

13.4.1 Bydd yr Achos Busnes Prosiect yn cyd-fynd â'r OBP a'r Achos Busnes Rhaglen perthnasol a bydd yn parhau'n gyson gyda'r Cynllun Twf a'r Weledigaeth Twf a thelerau'r Cytundeb hwn.

13.4.2 Cydnabyddir a chytunir bod Achosion Busnes Prosiectau wedi'u cychwyn ar gyfer nifer o Brosiectau a bydd y Swyddfa Rheoli Portffolioyn parhau i ddatblygu'r rhain ar y cyd â'r Grŵp Cefnogaeth Weithredol i'w cymeradwyo gan y Cyd-bwyllgor erbyn y dyddiadau a osodir gan y Cyd-bwyllgor.

13.4.3 Mae cymeradwyo Achos Busnes Prosiect yn Fater i'r Cyd-bwyllgor yn unol a Cymal 14 ( Y Broses Cymeradwyo). Unwaith y bydd Achos Busnes Prosiect y Prosiect wedi'i gymeradwyo gan y Cyd-bwyllgor, yn unol a Cymal 14 ( Y Broses Cymeradwyo)bydd y Prosiect yn "Brosiect Cymeradwy".

13.4.4 Bydd y Cynllun Busnes Prosiect yn cynnwys ymysg materion eraill yr eitemau a gynhwysir o fewn Cymal 15.5.4(f)( Cyfraniadau Cynghorau a Chyfraniadau Ymgynhorwyr).

13.5 **Monitro Cynnydd**

13.5.1 Bydd y Swyddfa Rheoli Portffolio , ar y cyd â'r Grŵp Cefnogaeth Weithredol, yn paratoi (neu'n caffael y gwaith o baratoi) adroddiad chwarterol byr a fydd yn adolygu'r cynnydd sydd wedi'i wneud yn y Chwarter blaenorol yn erbyn yr OBP ac unrhyw Achos Busnes Prosiect (yr "**Adroddiad Chwarterol**") a chaiff ei ddosbarthu i'r Cyd-bwyllgor a phob Parti o fewn 1 (un) mis calendr yn dilyn diwedd y Chwarter blaenorol.

13.5.2 Caiff yr Adroddiad Chwarterol ei adolygu'n rheolaidd yng Nghyfarfodydd y Cyd-bwyllgor.

13.5.3 Os, yn unrhyw Gyfarfod y Cyd-bwyllgor, yw unrhyw rai o'r Cynghorau a/neu'r Ymgynghorwyr yn credu bod methiant materol wedi bod o'r Cynghorau a/neu'r Ymgynghorwyr a/neu'r Cyd-bwyllgor i gydymffurfio â'r OBP a/neu Achos Busnes Prosiect, bydd y Cyd-bwyllgor yn trafod camau priodol i gywiro'r methiant perthnasol ar unwaith a/neu liniaru effeithiau'r methiant hwnnw gyhyd ag sy'n bosib.

14. **PROSES GYMERADWYO**[6][7]

14.1 Bydd y Cyd Bwyllgor yn gyfrifol am reoli y rhestr Prosiectau ( cyfredol a newydd) i'w hystyried a datblygu ar gyfer cyflawni y Cynllun Twf fel yr amlygir yn fwy manwl yr OBP ac yn dilyn gwerthusiad yn rhoi cymeradwyaeth gychwynnol i'r Noddwr Prosiect i ymgymryd a sicrwydd priodoldeb pellach a chychwyn ar ddatblygu Achos Busnes Prosiect ar gyfer y Prosiect.

14.2 Yn dilyn y fath gymeradwyaeth gychwynnol mae proses tri cam i'w ddilyn ar gyfer Prosiect er dod yn "Brosiect Cymeradwy" a derbyn Cyfraniadau Cynllun Twf yn y modd y nodir isod:

14.2.1 Yn dilyn y gymeradwyaeth gychwynnol caiff Achos Busnes Prosiect potensial ei ddatblygu gan y Noddwr Prosiect ar gyfer y Prosiect gan ddilyn y Model Busnes Pum Achos a chyd fynd gyda Green Book Guidance a ddatblygwyd gan LIC a TEM a gweithio r y cyd gyda'r SWYDDFA Rheol Portffolio gyda chyngor gan ymgynghorwyr allanol

14.2.2 bydd yr Achos Busnes Prosiect yn destun adolygiad porth allanol ar adegau y cytunir arnynt yn ystod y gwaith o'i ddatblygu.

14.2.3 caiff yr Achos Busnes Prosiect ei asesu a'i gymeradwyo gan y Cyd-bwyllgor fel Mater i'r Cyd-bwyllgor fel y nodir yn fwy penodol yng Nghymal 13.4 (Achosion Busnes Prosiectau); ac dod yn "Brosiect Gymeradwy" yn dilyn cymeradwyaeth o'r fath

**15. YMRWYMIAD Y PARTÏON A CHYFRANIADAU**

**15.1 Cyffredinol**

Yn amodol ar **Gymal 19.11.3** (Tynnu'n Ôl), mae'r Partïon yn cytuno ac yn ymgymryd i ymrwymo i'r Cynllun Twf yn unol â thelerau'r Cytundeb hwn, ac i beidio â chomisiynu a/neu ymgymryd ag unrhyw gaffaeliad a/neu brosiect a fyddai'n ceisio neu'n peri cyflawni'r cyfan neu unrhyw ran o'r Cynllun Twf [neu'r Weledigaeth Twf] y tu allan i delerau'r Cytundeb hwn.

**15.2 Costau Mewnol**

15.2.1. Yn amodol ar Gymal 15.2.2, bydd y Costau Mewnol a geir gan bob Parti (yn cynnwys yr Awdurdod Lletya) yn cael eu talu gan y Parti sy'n darparu'r adnodd mewnol hwnnw.

15.2.2. Mae'r Partïon yn cytuno drwy hyn, os yw un o'r Partïon yn credu ei fod yn debygol o gael Costau Mewnol anghymesur, y caiff y mater hwnnw ei gyfeirio at y Cyd-bwyllgor am benderfyniad ynghylch a fydd costau o'r fath yn anghymesur ac a ddylai'r Partïon eraill wneud unrhyw gyfraniadau i'r gost hon.

**15.3 Costau'r Cyd-bwyllgor**

**15.3.1** Bydd unrhyw Gostau'r Cyd-bwyllgor a geir gan y Cyd-bwyllgor yn cael eu rhannu ar Sail Gymesur rhwng y Partïon yn unol â'r Cytundeb hwn. Byddant yn ffurfio rhan o'r Gyllideb Flynyddol y cyfeirir ati yng Nghymal 15.4 isod.

**15.3.2** Bydd gofyn i bob Parti baratoi cyfrifon yn cynnwys manylion unrhyw Gostau Mewnol a gytunir Gostau'r Cyd-bwyllgor a geir yn unol ag **Atodlen 5** (Penawdau Gwariant) (y "**Cyfrifon**") ar gyfer pob Cyfnod Cyfrifyddu ac ar gyfer unrhyw gyfnodau cyfrifo pellach a/neu eraill yn ôl penderfyniad y Cyd-bwyllgor ac a gaiff eu hymgorffori i **Atodlen 6** (Cyfnodau Cyfrifyddu). Er osgoi amheuaeth, ni fydd y Cyfrifon hyn yn cynnwys unrhyw gostau refeniw na gofynion buddsoddiad cyfalaf yng nghyswllt datblygu unrhyw achos busnes gan Ariannwr Prosiect unrhyw Brosiect y mae'r Ymgynghorwyr yn eu Harwain neu weithredu unrhyw brosiect

6 PM: NWEAB to please provide - to follow approach in the OBP / Evaluation Methodology.
7 PM: The Heads of Terms referred to a best practice Integrated Assurance and Approval Plan (IAAP) to be developed by the Board (para 65). Parties to please develop.

arfaethedig gan Ariannwr Prosiect unrhyw Brosiect y mae'r Ymgynghorwyr yn eu Harwain a byddant yn ymwneud â chostau gweithredu a rheoli'r Cyd-bwyllgor yn unig.

**15.3.3** Bydd pob Parti:-

(a) yn y Cyfrifon, yn gwneud cofnodion gwir a chyflawn o'r holl daliadau perthnasol a wnaed ganddo yn ystod y Cyfnod Cyfrifyddu blaenorol;

(b) o fewn un (1) mis o ddiwedd pob Cyfnod Cyfrifyddu, bydd pob Parti yn darparu Cyfrifon heb eu harchwilio i'r Awdurdod Lletya ar gyfer y Cyfnod Cyfrifyddu hwnnw ynghyd ag ardystiad bod y Cyfrifon hynny yn cydymffurfio â'r Cymal 15 hwn (Ymrwymiad y Partïon a Chyfraniadau);

(c) yn enwebu unigolyn i fod yn gyfrifol am sicrhau bod y Parti hwnnw ei hun yn cydymffurfio â'r Cymal 15 hwn (Ymrwymiad y Partïon a Chyfraniadau) a rhoddir gwybod i'r Partïon eraill beth yw enw, cyfeiriad a rhif ffôn pob unigolyn sydd wedi'i enwebu yn unol â'r Cymal 15 hwn (Ymrwymiad y Partïon a Chyfraniadau) yn unol â Chymal **27** (Hysbysiadau); ac

(d) os yw unigolyn a enwebir gan Barti yn unol â Chymal 15 (Ymrwymiad y Partïon a Chyfraniadau) yn newid, bydd y Parti hwnnw yn rhoi gwybod i'r Partïon eraill ar unwaith pwy yw'r enwebai newydd.

**15.3.4** Bydd yr Awdurdod Lletya:-

**(a)** o fewn deg (10) Diwrnod Busnes o dderbyn y Cyfrifon a gyflwynir gan y Partïon eraill yn unol â Chymal 15.3.3(b) yn paratoi datganiad cysoni yn adnabod y taliadau a wnaed gan bob Parti a'r gweddill sy'n daladwy gan bob un neu sy'n ddyledus iddynt; ac**Error! Reference source not found.**

**(b)** o fewn ugain (20) Diwrnod Busnes o baratoi'r datganiad cysoni, yn anfon copi o'r datganiad cysoni ynghyd â naill ai anfoneb mantoli neu, yn amodol ar Gymal 15.3.4(b), taliadau credyd i bob Parti.**Error! Reference source not found.**

**15.3.5** Ni fydd gorfodaeth ar yr Awdurdod Lletya i wneud unrhyw daliadau sy'n dyladwy dan y Cytundeb hwn hyd nes bod yr Awdurdod Lletya wedi derbyn yr arian gan y Partïon yn unol â'r Cymal 15.3 hwn.

**15.3.6** Bydd Parti sy'n derbyn anfoneb am daliad yn ei dalu'n llawn o fewn ugain (20) Diwrnod Busnes. Rhaid rhoi gwybod am unrhyw gamgymeriad mewn anfoneb mantoli i'r Awdurdod Lletya o fewn pum (5) Diwrnod Busnes o anfon anfoneb mantoli o'r fath. Bydd anfoneb mantoli wedi'i diwygio yn cael ei chyhoeddi gan yr Awdurdod Lletya a bydd y Parti sy'n derbyn yr anfoneb hon yn ei thalu'n llawn o fewn ugain (20) Diwrnod Busnes.

**15.3.7** Mae'r Partïon yn cytuno drwy hyn, os yw un o'r Partïon yn ymgymryd ag unrhyw waith neu'n cael unrhyw gostau neu dreuliau er mwyn ymgymryd ag unrhyw waith neu'n cael unrhyw gostau neu dreuliau nad ydynt o fewn cyllideb neu ystod y gwaith sydd wedi'i nodi yn y Cytundeb hwn neu wedi'i gytuno ymlaen llaw gan y Cyd-bwyllgor, caiff y mater hwnnw ei gyfeirio gan y Grŵp Cefnogaeth Weithredol i'r Cyd-bwyllgor am benderfyniad ynghylch a fydd y gwaith, y gost neu'r treuliau hyn yn rhan o'r Cynllun Twf neu p'un a ddylai'r gwaith, y gost neu'r treuliau hyn fod yn gyfrifoldeb llwyr ar y Parti sy'n ymgymryd â nhw neu sy'n gofyn amdanynt (yn ôl fel y bo'n digwydd).

**15.4 Cyllideb Flynyddol**

**15.4.1** Bydd y Gyllideb Flynyddol yn cynnwys yr isod:

**(a)** y Cyfraniadau i'r Gyllideb Flynyddol;

**(b)** Cyfraniadau Atodol y Cynghorau; ac

**(c)** unrhyw gostau ychwanegol a sicrheir drwy'r gronfa fuddsoddi ehangach neu ffynonellau eraill (os o gwbl). Ac

**(d)** unrhyw gronfeydd wrthgefn a grynhowyd

**15.4.2** Mae'r Cyfraniadau i'r Gyllideb Flynyddol fel a ganlyn:

**(a)** £50,000 fesul Cyfnod Cyfrifyddu gan bob Cyngor; a

**(b)** £25,000 fesul Cyfnod Cyfrifyddu gan bob Ymgynghorydd (oddieithr Cadeirydd y Bwrdd Cyflawni Busnes nad yw'n gwneud unrhyw Gyfraniad i'r Gyllideb Flynyddol),

gyda'i gilydd "**Cyfraniadau i'r Gyllideb Flynyddol**" ac sy'n amodol ar fynegeio ar ddechrau pob Cyfnod Cyfrifyddu yn unol â Chymal 15.4.3.

**15.4.3** Cydnabyddir a chytunir y bydd y Cyfraniadau i'r Gyllideb Flynyddol yn amodol ar yr amrywiadau a ganlyn ar ddechrau pob Cyfnod Cyfrifyddu i adlewyrchu'r cynnydd gwirioneddol mewn costau dros y Gyllideb Flynyddol ar gyfer y Cyfnod Cyfrifyddu blaenorol o ganlyniad i gynyddiadau yn yr isod:

**(a)** cynnydd mewn cyflogau sy’n digwydd drwy gyrff dyfarnu cenedlaethol llywodraeth leol; a

**(b)** chynnydd yng Nghyfraniadau Cyflogwyr i’r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a Chyfraniadau Yswiriant Gwladol.[8]Bydd y Partïon yn darparu eu cyfran o'r Cyfraniadau i'r Gyllideb Flynyddol i'r Awdurdod Lletya, mewn perthynas â'r Cyfnod Cyfrifyddu cychwynnol, o fewn 10 (deg) Diwrnod Busnes o'r Dyddiad Cychwyn ac, ym mhob achos arall, o fewn 10 (deg) Diwrnod Busnes o gychwyn y Cyfnod Cyfrifyddu perthnasol.

**15.4.4** Bydd y Pariton yn darparu eu cyfran o’r Cyfraniad Cyllid Blynyddol i’r Awdurdod Lletyol, ynglŷn a'r Cyfnod Cyfrifo cychwynnol o fewn deg(10) Diwrnod Busnes o’r Dyddiad Cychwyn ac, ym mhob achos arall o fewn 10 ( deg) Diwrnod Busnes o gychwyn y Cyfnod Cyfrifo perthnasol

**15.4.5** Bydd Taliad Atodol y Cynghorau yn parhau i gael ei dalu ar ddechrau’r Cyfnod Cyfrifo ar dderbyn anfoneb oddi wrth yr Awdurdod Lletyol.

**15.4.6** Bydd yr Awdurdod Lletyo yn dal ac yn adrodd ar y Gyllideb Flynyddol ar ran y Cyd Bwyllgor a’ Partïon

**15.4.7** Os yw Costau cyfansymiol gwirioneddol y Cyd-bwyllgor yn debygol o fod yn uwch na'r Gyllideb Flynyddol unrhyw bryd,

**(a)** bydd cynnydd i'r Cyfraniadau i'r Gyllideb Flynyddol yn Fater a Gedwir yn Ôl i'r Partïon; a

**(b)** bydd unrhyw newidiadau i Gyfraniad Atodol y Cynghorau yn Fater i'r Cyngor ar gyfer y Cynghorau yn unig.

**15.5 Cyllid**

**15.5.1 Cyfanswm cyllid**

**(a)** Mae'r Partïon yn cydnabod ac yn cytuno bod y cyllid isod sydd wedi'i gadarnhau ar gael i hwyluso gweithredu'r Cynllun Twf:

**(i)** £120,000,000 (cant ac ugain miliwn o bunnoedd) gan Ll y DU (y "**Cyfraniad TEM**"); a

**(ii)** £120,000,000 (cant ac ugain miliwn o bunnoedd) gan LlC (y "**Cyfraniad LlC**"),

sef Cyfraniad Trysorlys Ei Mawrhydi a Chyfraniad Llywodraeth Cymru ar y cyd "**Cyfraniadau'r Cynllun Twf**"; a

**(iii)** £9,960,300 ( naw miliwn naw cant a chwe deg o bunnoedd) yn gyfanredol gan y Cynghorau ("**Cyfraniad y Cynghorau**")[9];

**(iv)** rhwng £3,180,000 (tair miliwn can wythdeg mil o bunnoedd) a £4,530,000 ( pedwar miliwn fumcant a thri deg mil o bunnedd) yn gyfanredol gan yr Ymgynghorwyr ("**Cyfraniad yr Ymgynghorwyr**") a;

**(v)** cyfraniad pob Parti tuag at y Gyllideb Flynyddol, yn unol â Chymal 15.4.

**15.5.2 Cyfraniad TEM**

**(a)** Cydnabyddir a chytunir gan y Partïon:

**(i)** Y bydd cyfraniad TEM yn cael ei ddarparu i'r Awdurdod Lletya ar gyfer ac ar ran y Cyd-bwyllgor fel cyfradd unffurf sefydlog o £8,000,000 (wyth miliwn o bunnoedd) fesul [Cyfnod Cyfrifyddu sy'n cychwyn ar 1 Ebrill 2021] am gyfnod o 15 (pymtheg) mlynedd; a

**(ii)** Bod Cyfraniad TEM yn amodol ar yr amodau cyllid a ganlyn:-

[x][10]

gyda'i gilydd "**Amodau Cyllid TEM**".

**(b)** Mae pob Parti yn cydnabod ac yn cytuno ei fod yn derbyn Amodau Cyllid TEM ac y bydd wedi'i rwymo gan yr amodau hynny ac na fydd drwy unrhyw weithred neu hepgoriad yn peri i unrhyw Barti arall yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r Awdurdod Lletya dorri unrhyw rai o'r amodau hynny.

**15.5.3 Cyfraniad LlC**

**(a)** Cydnabyddir a chytunir gan y Partïon:

**(i)** Y bydd cyfraniad LlC yn cael ei ddarparu i'r Awdurdod Lletya ar gyfer ac ar ran y Cyd-bwyllgor fel cyfradd unffurf sefydlog o £8,000,000 (wyth miliwn o bunnoedd) fesul [Cyfnod Cyfrifyddu sy'n cychwyn ar 1 Ebrill 2021] am gyfnod o 15 (pymtheg) mlynedd; a

**(ii)** Bod Cyfraniad TEM yn amodol ar yr amodau cyllid a ganlyn:-

[x][11]

gyda'i gilydd "**Amodau Cyllid LlC**".

**(b)** Mae pob Parti yn cydnabod ac yn cytuno ei fod yn derbyn Amodau Cyllid LlC ac y bydd wedi'i rwymo gan yr amodau hynny ac na fydd drwy unrhyw weithred neu

---

10
11

hepgoriad yn peri i unrhyw Barti arall yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r Awdurdod Lletya dorri unrhyw rai o'r amodau hynny.

**15.5.4 Cyfraniad y Cynghorau a Chyfraniad yr Ymgynghorwyr**

**(a)** Cydnabyddir a chytunir:

**(i)** er mwyn hwyluso llif arian ar gyfer gwariant prosiect yn erbyn proffil cyflawni o amcangyfrif o 6 (chwe) blynedd o gymharu â phroffil ariannu 15 (pymtheg) mlynedd mewn perthynas â Chyfraniadau'r Cynllun Twf; ac;

**(ii)** yn amodol ar Gymalau 15.5.4(b) a 15.5.4(c), bydd y Corff Atebol yn ymdrechu'n rhesymol, ar ran y Cyd-bwyllgor, i ddarparu cyllid ychwanegol ar gyfer Prosiectau Cymeradwy fel y nodir ym mhob Achos Busnes Prosiect y gellid eu cael o'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus, arianwyr eraill neu hunan-fenthyciadau neu fel arall (y "**Cronfeydd Benthyciadau**"[12]).

**(b)** Bydd y Partïon yn gyfrifol am ad-dalu unrhyw a'r holl gyfalaf (os o gwbl)[13], llog, unrhyw newidiadau mewn cyfraddau llog (neu yn achos senario hunan-fenthyciad unrhyw log rhagweladwy) ac unrhyw gostau neu gyfrifoldebau eraill a geir gan y Corff Atebol wrth ddarparu'r Cronfeydd Benthyciadau drwy Gyfraniad y Cynghorau a Chyfraniad yr Ymgynghorwyr fel y nodir yn fwy penodol yng Nghymalau 15.5.5 (Cyfraniad y Cynghorau) a 15.5.6 (Cyfraniad yr Ymgynghorwyr) isod a phob Achos Busnes Prosiect perthnasol[14];[15]

**(c)** Bydd diwydrwydd dyladwy yn asesu'r holl dybiaethau a chyfrifoldebau yn cynnwys p'un a oes cyllid NNDR ar gael neu p'un a oes angen cyllid ychwanegol o ganlyniad i oblygiadau cymorth gwladwriaethol neu fel arall a bydd angen cydnabod hyn o fewn Achos Busnes y Prosiectau yn amodol bob amser ar y symiau cyfanredol uchaf sydd wedi'u cynnwys o fewn Cymal 15.5.1 (Cyfanswm Cyllid) a bydd unrhyw gynnydd yn Fater a Gedwir yn Ôl.

**(d)** Os oes unrhyw gyfalaf i'w ad-dalu, bydd y Parti Arweiniol yn gyfrifol am gaffael ad-dalu'r cyfalaf hwnnw gan ei gontractwyr trydydd parti ac ad-dalu'r Corff Atebol yn unol â'r Achos Busnes Prosiect. Er osgoi amheuaeth, ni fydd unrhyw ad-daliad cyfalaf o'r fath yn cyfrif tuag at uchafswm cyfraniad y Parti Arweiniol i'w gwneud drwy Gyfraniad y Cynghorau a Chyfraniad yr Ymgynghorwyr (fel sy'n berthnasol).

**(e)** Caiff cyfran y Cyfraniadau Cynllun Twf, Cronfeydd Benthyciadau a Chyfraniad y Cynghorau neu Gyfraniad yr Ymgynghorwyr (fel sy'n berthnasol) ei chytuno fel rhan o Achos Busnes Prosiectau ar gyfer Prosiect penodol i'w gymeradwyo gan y Cyd-bwyllgor yn unol â'r Cytundeb hwn yn amodol bob amser ar y symiau cyfanredol uchaf sydd wedi'u cynnwys o fewn Cymal 15.5.1 (Cyfanswm Cyllid).15.5.1

**(f)** Yn amodol ar Gymal 15.5.5(g), ymrwymir i gytundeb cefn wrth gefn rhwng y Corff Atebol (yn gweithredu ar ran y Cyd-bwyllgor) a Pharti Arweiniol Prosiect Cymeradwy i gadarnhau, ymhlith pethau eraill,

**(i)** talu unrhyw Gyfraniadau Cynllun Twf neu Gronfeydd Benthyciadau i Ariannwr y Prosiect,

**(ii)** rhwymedigaethau ad-dalu Ariannwr y Prosiect

---

12
13
14 PM:
15 PM:

**(iii)** trosglwyddo cyfrifoldeb i Ariannwr y Prosiect i gyflawni'r Prosiect;

**(iv)** darpariaeth adfachu i adfachu Cyfraniadau'r Cynllun Twf a'r Symiau Benthyciadau gan Ariannwr y Prosiect os bydd methiant; a

**(v)** chymeradwyo unrhyw ddogfennaeth trydydd parti berthnasol i ymrwymo iddynt gan Ariannwr y Prosiect ac unrhyw drydydd parti i gyflawni'r Prosiect Cymeradwy.

Y **"Cytundeb Gefn Wrth Gefn"**

**(g)** Yn ogystal, bydd y cytundeb cefn wrth gefn (ac unrhyw ddogfennaeth trydydd parti berthnasol) yn cael eu cytuno ac yn ffurfio rhan o'r Achos Busnes Prosiectau ar gyfer Prosiect i'w gymeradwyo gan y Cyd-bwyllgor ar yr amod, yn achos cytundeb cefn wrth gefn (ac unrhyw ddogfennaeth berthnasol), y caiff hyn ei gytuno gan Ariannwr y Prosiect cyn iddo gael ei gyflwyno gerbron y Cyd-bwyllgor fel Penderfyniad i'r Cyd-bwyllgor.[16]

### 15.5.5 Cyfraniad y Cynghorau

**(a)** Defnyddir Cyfraniad y Cynghorau i gyllido'r Prosiectau Rhanbarthol yn unig oni bai y cytunir fel arall gan y Cyd-bwyllgor bydd y darpariaethau hynny wedi'u hadlewyrchu o fewn telerau'r OBP a/neu'r Achos Busnes perthnasol i gynnwys, ymhlith materion eraill, amcangyfrif o broffil gwariant blynyddol pob Cyngor.

**(b)** Yn amodol bob amser ar y symiau cyfanredol uchaf sydd wedi'u cynnwys o fewn Cymal 15.5.1(a)(iii) (Cyfanswm Cyllid) a'r rhwymedigaeth i gyfrannu i'r Gyllideb Flynyddol yn unol â Chymal 15.4 (Cyllideb Flynyddol), bydd pob Cyngor yn cyfrannu tuag at Gyfraniad cyfanredol y Cynghorau sydd angen ar bob Prosiect Rhanbarthol ar sail poblogaeth yn unol â'r fformiwla a ganlyn:

**A % = B x 100**

**gyda A% yn "Sail Poblogaeth" Cyngor**

**(c)** Cyfrifir hyn fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| B | B = <u>Y Boblogaeth Gyfredol</u><br>Cyfanswm y Boblogaeth |
| Y Boblogaeth Gyfredol | Y Boblogaeth Gyfredol = sef ar gyfer pob Cyfnod Cyfrifyddu, yr amcan ffigwr poblogaeth canol blwyddyn ar gyfer Cyngor penodol a gymerir gan Stats Cymru ar gyfer y Cyfnod Cyfrifyddu blaenorol.<br><br>Stats Cymru yw corff swyddogol Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am gyhoeddi ystadegau swyddogol) drwy'r ddolen a ganlyn: https://statswales.gov.wales/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Estimates/Local-Authority/populationestimates-by-localauthority-year<br><br>Lle nad yw'r Boblogaeth Gyfredol ar gael bellach gan Stats Cymru ar unrhyw adeg, defnyddir y ffigyrau canol blwyddyn diwethaf oddieithr lle cytunir fel arall gan y Cynghorau fel Penderfyniad i'r Cyd-bwyllgor. |
| Cyfanswm y Boblogaeth | Cyfanswm y Boblogaeth = sef ar gyfer pob Cyfnod Cyfrifyddu, yr amcan ffigwr poblogaeth canol blwyddyn cyfanredol ar gyfer y chwe Chyngor a gymerir gan Stats Cymru ar gyfer y Cyfnod Cyfrifyddu blaenorol. |

16 PM

**(d)** Caiff Sail Poblogaeth pob Cyngor ei ail-gyfrifo yn flynyddol ar ddechrau pob Cyfnod Cyfrifyddu yn unol â'r Cymal 15.5.5 hwn (Cyfraniad y Cynghorau).

**15.5.6 Cyfraniad yr Ymgynghorwyr**

**(a)** Yn amodol ar Gymal 15.5.7(b) (Cyfraniad yr Ymgynghorwyr), defnyddir Cyfraniad yr Ymgynghorwyr i gyllido'r Prosiectau y mae'r Ymgynghorwyr yn eu Harwain[17] yn unig oni bai y cytunir fel arall gan y Partïon fel Mater a Gedwir yn Ôl a bydd y darpariaethau hynny wedi'u hadlewyrchu o fewn telerau'r OBP a/neu'r Achos Busnes Prosiect perthnasol[18] i gynnwys, ymhlith materion eraill, amcangyfrif o broffil gwariant blynyddol pob Ymgynghorydd.

**(b)** Yn amodol bob amser ar y rhwymedigaeth i gyfrannu i'r Gyllideb Flynyddol yn unol â Chymal 15.4 (Cyllideb Flynyddol), bydd gofyn i bob Ymgynghorydd ddarparu Cyfraniad yr Ymgynghorydd ar gyfer Prosiect(au) Cymeradwy lle mae'r Ymgynghorydd hwnnw yn gweithredu fel Ariannwr y Prosiect yn unig[19] hyd at uchafswm cyfraniad cyfanredol unigol cyffredinol pob Parti isod:

| Ymgynghorydd | Isafswm cyfraniad cyfanredol | Uchafswm cyfraniad cyfanredol |
|---|---|---|
| Prifysgol Bangor | £1399,950 ( un miliwn tri chant a naw deg a naw mil naw cant a phum deg o bunnoedd ) | £1,990,050 ( un miliwn naw cant a naw deg o filoedd a phum deg o bunnoedd ) |
| Prifysgol Wrecsam | £510,000 ( pum cant a deng mil o bunnoedd) | £730,050 (saith gant a thri deg o filoedd a pum deg o bunnoedd ) |
| Coleg Cambria | £520,050 ( pum cant ac ugain mil a phum deg o bunnoedd) | £739,950 (saith gant a thri deg a naw o filoedd a naw cant a phum deg o bunnoedd) |
| Grŵp Llandrillo Menai | £750,000 ( saith cant a hanner o filoedd o bunnoedd) | £1,069,950 ( un miliwn a chwe deg naw mil naw cant a phum deg o bunnoedd) |

**(c)** Yn ddarostyngedig i Gymal 15.5.6(d) bydd Cyfraniad Unigol yr Ymgynghorydd yn unol a’r hyn o osodir yn y golofn a enwir “Uchafswm cyfraniad cyfanredol “ ( Colofn 3)

**(d)** Cydnabyddir a chytunit fod dyhead i dderbyn y taliad cyntaf o Gyfraniadau Cynllun Twf ym Mawrth 2021 sydd yn gyfartal a lle derbynnir hyn bydd Cyfraniad Unigol Ymgynghorydd yn cael ei leihau i’r “Isafswm cyfraniad cyfanredol” yn unol a’r hyn a osodir yn y Tabl uchod ( Colofn 2) .

**(e)** Mae’r cyfraniad yn perthnasu i’r cyfanswm symiau a dderbynnir gan Noddwr Prosiect ar Brosiect( Cyllid Twf a Chyllid Benthyg)

---

17 PM:.
18 PM:
19 Project and who enters into a back to back agreement with the Accountable Body to capture, amongst other things, the Growth Deal Contributions to be made available, the use of and repayment of any Advisor Contribution and the agreement of any documentation with third parties.

**15.5.7 Archwiliad**

Bydd pob Parti yn caniatáu i'r holl gofnodion y cyfeirir atynt yn y Cytundeb hwn gael eu harchwilio a'u copïo o bryd i'w gilydd gan yr Awdurdod Lletya, neu unrhyw gynrychiolwyr o'r Awdurdod Lletya neu unrhyw gynrychiolwyr eraill sydd angen yn rhesymol fynediad iddynt er mwyn ymgymryd ag unrhyw archwiliad o'r arian sydd wedi'i dderbyn a'i wario yn unol â'r Cytundeb hwn.

**15.5.8 Cadw Cofnodion**

Caiff y cyfrifon y cyfeirir atynt yn y Cymal 15.5.8 hwn (Ymrwymiad y Partïon a Chyfraniadau) eu cadw am gyfnod o o leiaf deg (10) mlynedd wedi cyflawni'r Cynllun Twf yn unol â'r Cytundeb hwn.

**16. HEB EI DDEFNYDDIO**

**17. LLINIARU**

Bydd pob Parti bob amser yn cymryd pob cam rhesymol i leihau a lliniaru unrhyw golled y mae gan y Parti perthnasol hawl i wneud hawliad amdano yn erbyn y Parti/Partïon eraill yn unol â'r Cytundeb hwn.

**18. CYFRIFOLDEBAU’R PARTÏON**

18.1 Bydd yr Awdurdod Lletya yn indemnio pob un o’r Partïon eraill yn y Cytundeb hwn ac yn parhau i’w hindemnio rhag unrhyw golledion, hawliadau, treuliau, gweithredoedd, gorchmynion, costau a chyfrifoldebau rhesymol sy’n wynebu’r Parti hwnnw, os yw hynny’n codi'n uniongyrchol o'r ffaith fod yr Awdurdod Lletya wedi methu'n fwriadol neu dorri'n fwriadol ei rwymedigaethau dan y Cytundeb hwn (ac nid yw bwriadol yn y cyd-destun hwn, er osgoi amheuaeth, yn cynnwys materion sydd y tu allan i reolaeth resymol yr Awdurdod Lletya neu faterion sy'n codi o unrhyw weithred esgeulus neu o beidio â gwneud rhywbeth mewn perthynas â rhwymedigaethau o'r fath).

18.2 Ni wneir unrhyw hawliad yn erbyn yr Awdurdod Lletya i adfer unrhyw golled neu niwed a allai ddigwydd wrth i’r Awdurdod Lletya gyflawni ei rwymedigaethau dan y Cytundeb hwn, neu sy’n codi o hynny, oni bai ac i’r graddau fod y fath golled neu niwed yn codi o’r ffaith fod yr Awdurdod Lletya wedi methu'n fwriadol neu dorri'n fwriadol ei rwymedigaethau dan Gymal 17 (Cyfrifoldebau'r Partïon).

18.3 Bydd pob un o’r Partïon eraill (yn gweithredu bob yn un) yn indemnio’r Awdurdod Lletya ac yn parhau i’w indemnio rhag unrhyw golledion, hawliadau, treuliau, gweithredoedd, gorchmynion, costau a chyfrifoldebau rhesymol a allai ddod i law’r Awdurdod Lletya yn uniongyrchol wrth iddo gyflawni ei rwymedigaethau dan y Cytundeb hwn ar gyfer y Parti hwnnw, neu sy’n codi'n uniongyrchol o'r ffaith fod Parti wedi methu'n fwriadol neu dorri'n fwriadol ei rwymedigaethau dan y Cytundeb hwn (ac nid yw bwriadol yn y cyd-destun hwn, er osgoi amheuaeth, yn cynnwys materion sydd y tu allan i reolaeth resymol y Parti hwnnw neu faterion sy'n codi o unrhyw weithred esgeulus neu o beidio â gwneud rhywbeth mewn perthynas â rhwymedigaethau o'r fath) oni bai ac i'r graddau y ceid yr un canlyniad o unrhyw dorri bwriadol gan yr Awdurdod Lletya o unrhyw rwymedigaethau o'r fath.

18.4 Mae'r Partïon yn cytuno ac yn cydnabod y bydd y swm sydd i'w dalu i'r Awdurdod Lletya gan unrhyw rai o'r Partïon eraill dan Gymal 17 (Cyfrifoldebau'r Partïon) yn cael ei dalu gan bob un Parti i’r graddau y mae’n gyfrifol amdano, fodd bynnag, os yw’r cyfrifoldeb yn un a rennir rhwng y Partïon (fel nad yw’n rhesymol ymarferol pennu’r union gyfrifoldeb rhwng y Partïon) fe rennir y swm sydd i'w dalu yn gyfartal rhwng y Partïon ar Sail Gymesur.

18.5 Pe ceid hawliad dan y Cymal 17 hwn (Cyfrifoldebau'r Partïon) lle nad yw’n rhesymol ymarferol pennu i ba raddau mae pob Parti'n gyfrifol (gan gynnwys yr Awdurdod Lletya), caiff y swm ei rannu’n gyfartal rhwng y Cynghorau (gan gynnwys yr Awdurdod Lletya) ar Sail Gymesur. Er osgoi amheuaeth, caiff unrhyw hawliad sy'n codi ac eithrio yn sgil yr Awdurdod Lletya neu'r Partïon eraill yn methu'n fwriadol neu'n torri'n fwriadol ei rannu ymhlith y Partïon (yn cynnwys yr Awdurdod Lletya) ar Sail Gymesur.

18.6 Bydd Parti sy’n derbyn hawliad am golledion, treuliau, gweithredoedd, gorchmynion, costau ac ymrwymiadau yn rhoi gwybod i’r Partïon eraill cyn gynted ag sy’n ymarferol bosib, ac yn rhoi manylion yr hawliad iddynt.

18.7 Ni fydd unrhyw Barti yn cael ei indemnio’n unol â’r Cymal 17 hwn (Cyfrifoldebau'r Partïon) oni bai ei fod wedi rhoi rhybudd yn unol â’r Cymal 17.6 hwn (Cyfrifoldebau'r Partïon) i’r Parti arall y bydd yn gorfodi ei hawl i indemniad dan y Cytundeb hwn yn ei erbyn.

18.8 Ni fydd yr un Parti ("**Yr Indemniwr**") yn gyfrifol nac wedi'i rwymo i indemnio'r Partïon eraill (yn cynnwys yr Awdurdod Lletya) ("**Buddiolwr**”) os yw unrhyw yswiriant a gedwir gan y Buddiolwr ar yr adeg berthnasol yn rhoi indemniad rhag y golled sydd wedi arwain at hawliad o’r fath, ac os yw’r Buddiolwr yn adfer y golled dan bolisi yswiriant o’r fath (oddieithr mai’r Indemniwr fydd yn gyfrifol am y swm a ddidynnir dan unrhyw bolisi yswiriant o’r fath ac am unrhyw swm dros yr uchafswm sydd wedi’i yswirio dan bolisi yswiriant o’r fath).

## 19 CANLYNIADAU’R TERFYNIAD

19.1 Os caiff y Cytundeb ei derfynu yn unol â Chymal 2.3 (Terfynu), oddieithr y rhwymedigaethau sydd wedi'u nodi yng Nghymal 15 (Ymrwymiadau'r Partïon a Chyfraniadau), Cymal 18 (Cyfrifoldebau'r Partïon), Cymal 19 (Tynnu'n Ôl), y Cymal 20 hwn (Canlyniadau'r Terfynu) a Chymal 22 (Cyfrinachedd a Chyhoeddiadau), bydd y Partïon wedi'u rhyddhau o'u cyfrifoldebau unigol fel y disgrifir yn y Cytundeb hwn.

19.2 Os caiff y Cytundeb hwn ei derfynu mewn perthynas â'r Parti hwnnw yn unol â Chymal 2.3 (Terfynu):

19.2.1 bydd unrhyw ased cyfalaf a ddaeth i feddiant ac/neu a sicrhawyd ac/neu a oedd ym mherchnogaeth ac a ddarparwyd gan y Methianwr er dibenion y Cynllun Twf yn parhau ym mherchnogaeth y Methianwr a bydd y Methianwr yn ad-dalu eu cyfraniadau unigol (os o gwbl) i'r Partïon ynghyd ag unrhyw gostau rhesymol a gafwyd o ganlyniad i'r tynnu'n ôl neu'r methiant;

19.2.2 gall y Partïon eraill ddewis parhau neu derfynu unrhyw gaffaeliad a/neu brosiect sy'n ffurfio rhan o'r Cynllun Twf; a

19.2.3 yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth y Cyd Bwyllgor gall y [Parti]/[Cyngor] sy'n Methu ddewis canlyn yn annibynnol caffael unrhyw brosiect o fewn ei ardal weinyddol neu brosiect lle mae’n gweithredu fel Noddwr Prosiect a adnabuwyd fel rhan o'r Cynllun Twf ar yr amod ei fod yn gwneud hynny ar ei gost ei hun heb unrhyw fynediad i unrhyw gyfraniadau a ddarperir dan y Gyntundeb yma gan gynnwys ( ond heb ei gyfyngu) Cyfraniadau'r Cynllun Twf

19.2.4 Ble terfynir y cytundeb yma ac mae’r Parti/ Partïon a derfynir yn Gyngor/hau mae gweddill y Partïon yn cytuno y bydd y Cworwm sydd yn angenrheidiol ar gyfer cyfarfod Cyd Bwyllgor canlynol yn unol a chymal 9.6.1 ( Penderfyniad Cyd Bwyllgor) y Cytundeb yma yn cael ei ostwng yn barhaol gan y nifer o bartio sydd yn Gynghorau ac mae eu ymwneud a’r Cytundeb yma wedi ei ddiddymu.

19.3 Mae'r Partïon yn cydnabod ac yn cytuno:-

19.3.1 bod y Cynllun Twf wedi'i fodelu ar sail cyfranogiad gan yr holl Bartïon a bod buddion economaidd sylweddol i'w cyflawni o ganlyniad i'r cydweithio hwn; ac

19.3.2 yn unol â hynny, os caiff y Cytundeb hwn ei derfynu yng nghyswllt unrhyw Barti yn unol â Chymal 2.3 (Terfynu) bydd y Methianwr hwn yn atebol i'r Parti neu'r Partïon Di-feth am eu costau rhesymol a phriodol yng nghyswllt y Cynllun Twf fel y nodir yng Nghymal 19.5 (Tynnu'n Ôl) ac [Atodlen 7] (Adroddiad Atebolrwydd).

## 20 EIDDO DEALLUSOL

20.1 Bydd pob Parti yn cadw holl Eiddo Deallusol yn ei Ddeunydd.

20.2 Bydd pob Parti yn rhoi i bob Parti arall drwydded anghyfyngedig a pharhaol na ellir ei throsglwyddo ac sy'n rhydd rhag unrhyw freindal, i ddefnyddio, addasu, newid a datblygu ei Ddeunydd ED er mwyn cyflawni rhwymedigaethau'r Partïon yng nghyswllt y Cynllun Twf ac er unrhyw ddiben arall sy'n deillio o'r Cynllun Twf, waeth a yw'r parti sy'n rhoi'r drwydded yn parhau i fod yn barti yn y Cytundeb hwn ai peidio.

20.3 Heb ragfarnu Cymal 21.1 (Eiddo Deallusol), os oes mwy nag un Parti yn berchen ar Ddeunydd ED, neu a chanddynt hawl neu fuddiant llesol neu gyfreithiol ar unrhyw agwedd o'r Deunydd ED am unrhyw reswm (gan gynnwys, heb gyfyngiad, na all yr un Parti unigol ddangos ei fod wedi cyflenwi neu greu'r Deunydd ED perthnasol yn annibynnol heb gymorth un neu fwy o'r Partïon eraill), bydd pob un o'r Partïon a gyfrannodd at y Deunydd ED perthnasol yn rhoi i bob Parti arall yn y Cytundeb hwn drwydded anghyfyngedig a pharhaol na ellir ei throsglwyddo ac sy'n rhydd rhag unrhyw freindal, i ddefnyddio a manteisio ar Ddeunydd ED o'r fath fel petai'r holl Bartïon eraill yw unig berchennog y Deunydd dan Ddeddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988 neu unrhyw statud perthnasol arall neu reol mewn cyfraith.

20.4 Er osgoi amheuaeth, bydd gan unrhyw endid neu berson sy'n barti i'r Cytundeb hwn ar ddyddiad y Cytundeb, ac sydd wedi trwyddedu unrhyw Eiddo Deallusol dan y Cytundeb hwn, hawl anghyfyngedig a pharhaol i barhau i ddefnyddio'r Eiddo Deallusol trwyddedig yng nghyswllt y Cynllun Twf.

20.5 Mae pob Parti yn gwarantu bod ganddo, neu y bydd ganddo'r hawliau angenrheidiol i ganiatáu'r trwyddedau sydd wedi'u nodi yng Nghymal 21.2 (Eiddo Deallusol) a 21.3 (Eiddo Deallusol) yng nghyswllt y Deunydd ED sydd i'w drwyddedu.

20.6 Mae pob Parti yn cytuno i weithredu unrhyw gamau neu ddogfennau pellach neu'n cytuno i wneud unrhyw beth y mae Parti arall yn gwneud cais rhesymol amdano (ar gost y Parti/Partïon sy'n gwneud y cais) i roi grym llawn i delerau'r Cytundeb hwn.

## 21 CYFRINACHEDD A CHYHOEDDIADAU

21.1 Bydd pob Parti ("**Cyfamodwr**"), yn ystod oes y Cytundeb hwn a thrwy'r adeg wedi iddo derfynu neu ddod i ben, yn cadw unrhyw Wybodaeth Gyfrinachol am y busnes neu Wybodaeth Gyfrinachol sy'n perthyn i unrhyw Barti arall, ac sydd wedi dod i'w sylw drwy'r Cytundeb hwn neu mewn cysylltiad ag ef, yn breifat ac yn gyfrinachol, ac ni fydd yn ei defnyddio na'i datgelu (boed hynny er ei fudd ei hun neu er budd trydydd parti).

21.2 Ni fydd y rhwymedigaeth a nodir yng Nghymal 22 (Cyfrinachedd a Chyhoeddiadau) yn berthnasol i wybodaeth:-

21.2.1 sy'n dod i'r byd cyhoeddus neu a gaiff wedyn ei datgelu i'r cyhoedd (oni bai fod hynny drwy fethiant ar ran y Cyfamodwr neu unrhyw berson arall y mae gan y Cyfamodwr hawl i ddatgelu gwybodaeth iddo dan y Cytundeb hwn);

21.2.2 y mae'n ofyn cyfreithiol i'w datgelu;

21.2.3 oedd eisoes ym meddiant y Cyfamodwr (heb gyfyngiadau o ran ei defnydd) ar ddyddiad ei derbyn;

21.2.4 lle mae rheolau unrhyw gorff llywodraethol neu reolaethol gan gynnwys unrhyw ganllawiau o bryd i'w gilydd yn gofyn neu'n argymell bod gwybodaeth yn agored ac yn cael ei datgelu gan gyrff cyhoeddus; neu

21.2.5 sydd rhaid ei datgelu er mwyn darparu gwybodaeth berthnasol i yswiriwr neu frocer yswiriant mewn perthynas â chael unrhyw yswiriant sy'n ofynnol dan y Cytundeb hwn.

21.3 Pan ganiateir datgelu gwybodaeth dan Gymal 22.2.3 (Cyfrinachedd a Chyhoeddiadau) neu 22.2.4 (Cyfrinachedd a Chyhoeddiadau), bydd y sawl sy'n derbyn y wybodaeth yn destun rhwymedigaeth cyfrinachedd tebyg i'r un yng Nghymal 22 (Cyfrinachedd a Chyhoeddiadau), a bydd y Parti sy'n datgelu'r wybodaeth yn rhoi gwybod am hyn i'r sawl sy'n derbyn y wybodaeth.

21.4 Ni fydd unrhyw Barti yn gwneud unrhyw ddatganiad cyhoeddus neu ddatganiad i'r wasg nac yn cyhoeddi unrhyw ddogfen gyhoeddus arall sy'n ymwneud â'r Cytundeb, yn gysylltiedig ag ef neu'n codi ohono neu unrhyw gytundeb arall sy'n ymwneud â'r Cynllun Twf heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw y Partïon eraill.

**22 CONTRACTAU (HAWLIAU TRYDYDD PARTI)**

Nid yw'n fwriad gan y Partïon fel partïon i'r Cytundeb hwn i unrhyw un o'i delerau allu cael eu gorfodi dan Ddeddf Contractau (Hawliau Trydydd Partïon) 1999 gan unrhyw unigolyn nad yw'n barti iddo.

**23 DATRYS ANGHYDFOD**

23.1 Bydd unrhyw anghydfod sy'n codi mewn perthynas ag unrhyw agwedd o'r Cytundeb hwn yn cael ei ddatrys drwy'r Cymal 24 hwn (Datrys Anghydfod). Mae'r Partïon yn ymrwymo ac yn cytuno i fwrw ymlaen ag ymagwedd bositif tuag at ddatrys anghydfod sy'n ceisio (yng nghyd-destun y cyd weithio hon) canfod ateb, sy'n osgoi gweithdrefnau cyfreithiol, a chynnal perthynas weithio gref rhwng y Partïon.

23.2 Mewn unrhyw achos o anghydfod neu wahaniaeth rhwng y Partïon sy'n gysylltiedig â'r Cytundeb hwn (boed hynny'n fater o ddehongli'r contract neu fel arall), yna, oddieithr mewn perthynas ag anghydfod neu anghytundeb ynghylch Mater a Gedwir yn Ôl, ymdrinnir â'r mater gan ei gyfeirio yn y lle cyntaf i'r Cyd-bwyllgor a fydd yn ystyried unrhyw anghydfod neu anghytundeb o'r fath yng nghyfarfod nesaf y Cyd-bwyllgor sydd wedi'i raglennu, i geisio datrys y mater cynhennus mewn modd didwyll.

23.3 Mewn perthynas ag anghydfod neu anghytundeb sy'n ymwneud â Mater a Gedwir yn Ôl, neu os yw'r Cyd-bwyllgor yn methu â datrys yr anghydfod neu'r anghytundeb o fewn pum (5) Diwrnod Busnes o gyfarfod yn unol â Chymal 24.2 (Datrys Anghydfod), yna gall y Partïon sydd mewn anghydfod neu'r Cyd-bwyllgor (yn ôl fel y bo'n digwydd) gyfeirio'r mater i'w ddatrys at:-

23.3.1 Brif Weithredwr, Rheolwr Gyfarwyddwr, Arweinydd Cyngor (neu unrhyw bennaeth sefydliad perthnasol arall) y Partïon perthnasol;

23.3.2 cyflafareddu gan y parti hwnnw fel y gall y Partïon perthnasol gytuno; neu

23.3.3 awdurdodaeth gyfyngedig Llysoedd Cymru a Lloegr.

23.4 Bydd unrhyw anghydfod ac/neu anghytundeb sydd i'w ddatrys gan y penaethiaid sefydliadau perthnasol, cyflafareddu neu Lysoedd Cymru a Lloegr (yn ôl fel y bo'n digwydd) dan y Cytundeb hwn yn cael ei gyfeirio atynt ar fyrder er mwyn iddynt wneud penderfyniad.

23.5 Bydd y Partïon, ar gais, yn rhoi ar fyrder i'r penaethiaid sefydliadau perthnasol neu'r cyflafareddwr neu Lysoedd Cymru a Lloegr (yn ôl fel y bo'n digwydd) unrhyw gymorth, dogfennau a gwybodaeth a allai fod arnynt eu hangen er mwyn gwneud penderfyniad.

23.6 Os caiff cyflafareddwr ei benodi i benderfynu ar anghydfod yn unol â Chymal 24.3 (Datrys Anghydfod), yna pennir bod y cyflafareddwr yn gweithredu fel arbenigwr ac nid fel canolwr a bydd ei benderfyniad (yn absenoldeb camgymeriad amlwg) yn derfynol ac yn rhwymol i'r Partïon.

23.7 Bydd costau datrys unrhyw anghydfod ac/neu anghytundeb rhwng y Partïon dan y Cytundeb hwn yn cael eu hysgwyddo gan y Partïon perthnasol ar Sail Gymesur i'r anghydfod dan sylw, ac eithrio os yw'r penaethiaid sefydliadau perthnasol, y cyflafareddwr neu Lysoedd Cymru a Lloegr (yn ôl fel y bo'n digwydd) yn cyfarwyddo fel arall.

**24 DIOGELU DATA**

24.1 Mewn perthynas â phob Data Personol, bydd pob Parti yn cydymffurfio â'r GDPR bob amser (fel rheolydd data os oes angen) sy'n cynnwys (ond nid yn gyfyngedig i) cadw cofrestriad neu hysbysiad dilys a diweddar dan y GDPR sy'n diogelu'r holl weithgareddau prosesu data fydd yn cael eu gweithredu yng nghyswllt y Cynllun Twf.

24.2 Bydd pob Parti:-

24.2.1 yn prosesu Data Personol sy'n perthyn i unrhyw Barti arall yn sgil derbyn cyfarwyddiadau gan y Parti hwnnw yn unig (yn amodol ar gydymffurfio â chyfraith berthnasol);

24.2.2 ddim ond yn ymgymryd â phrosesu Data Personol sydd ei angen yn rhesymol yng nghyswllt y Cynllun Twf ac ni fydd yn trosglwyddo unrhyw Ddata Personol i unrhyw wlad na thiriogaeth y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd; ac

24.2.3 yn gwneud pob ymdrech resymol i beri bod yr holl is-gontractwyr a thrydydd parti perthnasol yn cydymffurfio â'r Cymal 25.2 hwn (Diogelu Data). Er osgoi amheuaeth, mae is-gontractwr perthnasol yn un sy'n prosesu Data Personol sy'n berchen i un neu unrhyw Barti.

24.3 Ni fydd y Partïon yn datgelu Data Personol i unrhyw drydydd parti oni bai am:-

24.3.1 i weithwyr ac is-gontractwr a thrydydd parti y mae datgelu'r wybodaeth iddynt yn rhesymol angenrheidiol er mwyn i'r Partïon gyflawni rhwymedigaethau'r Partïon yng nghyswllt y Cynllun Twf; neu

24.3.2 i'r graddau sy'n angenrheidiol dan orchymyn llys neu er mwyn cydymffurfio ag unrhyw gyfreithiau perthnasol yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) unrhyw statud, is-ddeddf, Cyfarwyddeb Ewropeaidd neu reoliad,

ar yr amod bod unrhyw ddatgeliad i unrhyw is-gontractwr neu unrhyw drydydd parti dan Gymal 25.3.1 (Diogelu Data) yn cael ei wneud yn amodol ar delerau ysgrifenedig sy'n sylweddol yr un fath â'r telerau sydd wedi'u cynnwys yn y Cymal 25 hwn (Diogelu Data) a ddim llai llym na hwy, ac y bydd yr holl Bartïon yn rhoi rhybudd ysgrifenedig i'r holl Bartïon eraill am unrhyw ddatgelu Data Personol sy'n berchen iddynt hwy y mae gofyn iddynt hwy neu is-gontractwr neu drydydd parti ei wneud dan Gymal 25.3.2 (Diogelu Data) ar unwaith pan fyddant yn ymwybodol o ofyniad o'r fath;

24.3.3 bydd y Partïon yn gweithredu ac yn cynnal ac yn gwneud pob ymdrech resymol i sicrhau bod yr holl is-gontractwyr perthnasol ac unrhyw drydydd parti yn gweithredu ac yn cynnal yr holl fesurau technegol a threfniadaethol rhesymol angenrheidiol i atal prosesu Data Personol heb ganiatâd neu'n anghyfreithlon, ac yn erbyn unrhyw golled, dinistr neu ddifrod damweiniol i Ddata Personol yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i gymryd camau rhesymol i sicrhau bod unrhyw weithiwr neu asiant i is-gontractwr perthnasol neu unrhyw drydydd parti sydd â mynediad i'r Data Personol yn ddibynadwy ac yn gywir; neu

24.3.4 gall unrhyw Barti ofyn, ar ôl cyfnod rhesymol, am ddisgrifiad ysgrifenedig o'r dulliau technegol a threfniadaethol a ddefnyddir gan unrhyw Barti arall a'r is-gontractwyr perthnasol y cyfeirir atynt yng Nghymal 25.2.3 (Diogelu Data). O fewn pum (5) Diwrnod Busnes o gais o'r fath, bydd y Parti y gofynnwyd iddo wneud hynny, yn darparu manylion ysgrifenedig o'r holl fesurau hyn y mae'n eu cynnal i lefel resymol fel y gall y Parti sy'n gwneud y cais bennu p'un a yw'n cydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data, yng nghyswllt y Data Personol. Bydd pob Parti yn gwneud pob ymdrech resymol i sicrhau bod yr is-gontractwyr ac unrhyw drydydd parti perthnasol hefyd yn cydymffurfio â chais o'r fath gan unrhyw Barti arall.

24.4 Bydd yr holl Bartïon yn sicrhau fod unrhyw Ddata Personol y maent yn ei gael ac yn ei ddarparu i unrhyw Barti arall wedi'i gael yn gyfreithlon ac yn cydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data ac na fydd y defnydd ohono yn unol â'r Cytundeb hwn yn torri unrhyw ddarpariaethau'r Ddeddf Diogelu Data.

24.5 Os:-

24.5.1 dan y Ddeddf Diogelu Data bod gofyn i unrhyw Barti ddarparu gwybodaeth i destun data (fel y'i diffinnir yn y Ddeddf Diogelu Data) yng nghyswllt Data Personol pan fo'r data hwn ym meddiant neu dan reolaeth unrhyw Barti arall; a

24.5.2 bod y Parti y mae gofyn iddo ddarparu'r wybodaeth yn rhoi gwybod i'r Parti sy'n rheoli yn ysgrifenedig mai dyma'r sefyllfa,

yna bydd y Parti sy'n rheoli yn gwarantu cydweithredu'n rhesymol ac yn amserol gyda'r Parti y mae gofyn iddo ddarparu'r wybodaeth wrth iddo fodloni ei rwymedigaethau dan y Ddeddf Diogelu Data, yn cynnwys gwneud copïau o'r Data Personol perthnasol i'r graddau y mae yn ei feddiant.

24.6 Bydd pob Parti yn darparu'r wybodaeth hon sy'n ymwneud â Data Personol a'i phrosesu i'r llall cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol fel y gall y Parti arall wneud cais rhesymol amdano yn ysgrifenedig ac y gall y parti y gofynnir iddo ddarparu'r data perthnasol ei ddarparu'n rhesymol er mwyn i'r Parti arall allu:-

24.6.1 cydymffurfio â'i rwymedigaethau dan y Cymal hwn a'r Ddeddf Diogelu Data; ac

24.6.2 asesu p'un a yw prosesu'r Data Personol perthnasol yng nghyswllt y Cytundeb hwn yn torri neu y gall dorri'r Ddeddf Diogelu Data mewn modd sy'n faterol a heb ei ganiatáu mewn gwirionedd gan unrhyw ddatganiad canllaw a gyhoeddir gan y Comisiynydd Gwybodaeth.

24.7 Bydd y Partïon oll yn cymryd camau rhesymol (gan roi sylw i natur eu rhwymedigaethau bob un dan y Cytundeb hwn) i warchod cywirdeb unrhyw Ddata Personol.

24.8 Bydd y Partïon yn gweithio gyda'i gilydd i greu a chytuno ar brotocol rhannu gwybodaeth yn benodol yng nghyswllt eu cydweithio ar y Cynllun Twf a byddant yn adolygu'n barhaus unrhyw brotocolau rhannu gwybodaeth presennol a ddefnyddir yng nghyswllt y Cynllun Twf i sicrhau eu bod yn parhau'n berthnasol i'r Cynllun Twf ac adnabod pa Ddata Personol sydd angen ei brosesu ac ar ba sail i sicrhau y cydymffurfir â'r Cymal 25 hwn (Diogelu Data).

## 25 RHYDDID **GWYBODAETH A GWYBODAETH AMGYLCHEDDOL**[20]

25.1 Mae pob Parti yn cydnabod bod y Partïon yn ddarostyngedig i ofynion Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ("**FOIA**") a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 ("**EIR**") a bydd y Partïon yn cydymffurfio â pholisi'r Awdurdod Lletya ar FOIA yng nghyswllt y rhwymedigaethau datgelu gwybodaeth hyn i'r graddau eu bod yn berthnasol i'r Cynllun Twf.

25.2 Pan fo Parti **(" y Parti Derbyn")**yn derbyn cais am wybodaeth dan naill ai'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth neu'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol ynghylch gwybodaeth y mae'n ei dal ar ran unrhyw un o'r Partïon eraill mewn perthynas â'r Cynllun Twf, bydd yn:-

25.2.1 trosglwyddo'r cais am wybodaeth i'r Awdurdod Lletya cyn gynted ag sy'n ymarferol bosib ar ôl ei dderbyn, a beth bynnag o fewn dau (2) Ddiwrnod Busnes o dderbyn cais am wybodaeth;

25.2.2 rhoi copi i'r Awdurdod Lletya o'r holl wybodaeth sydd yn ei feddiant, neu y mae ganddo rym drosti, yn y ffurf y mae'r Awdurdod Lletya yn gofyn yn rhesymol amdani, o fewn deg (10) Diwrnod Busnes (neu gyfnod hirach os yw'r Awdurdod Lletya yn nodi hynny) o pan fo'r Awdurdod Lletya yn gwneud y cais am y wybodaeth; ac

25.2.3 yn rhoi pob cymorth angenrheidiol y mae'r Awdurdod Lletya wedi gofyn yn rhesymol amdano i alluogi i'r Awdurdod Lletya ymateb i gais am wybodaeth o fewn yr amserlen a ganiateir yn y FOIA neu'r EIR.

25.3 Mae'r Partïon yn cydnabod ac yn cytuno y bydd yr Awdurdod Lletya yn gyfrifol am gydlynu unrhyw ymateb ar ran y Partïon perthnasol i'r graddau y maent yn berthnasol i'r Cynllun Twf a chyfrifir am yr holl gostau a geir fel Costau'r Cyd-bwyllgor.

---

20

25.4 Bydd yr Awdurdod Lletya yn gyfrifol am benderfynu yn ôl ei ddisgresiwn ei hun yn llwyr p'un a yw unrhyw wybodaeth y ceisiwyd amdani dan y FOIA neu'r EIR:-

25.4.1 yn eithriedig rhag ei rhyddhau dan y FOIA neu'r EIR; ac

25.4.2 i gael ei rhyddhau mewn ymateb i gais am wybodaeth.

25.5 Mae pob Parti yn cydnabod y gall fod rhaid i'r Awdurdod Lletya, dan y FOIA neu'r EIR, fynnu fod y Parti Derbyn yn datgelu a drwy weithredu ar gyfarwyddyd yr Awdurdod Lletyol yn ddatgelu gwybodaeth:

25.5.1 heb ymgynghori â'r Partïon eraill lle nad oedd yn ymarferol i gael ymgynghoriad o'r fath; neu

25.5.2 yn dilyn ymgynghori â'r Partïon eraill ac ar ôl rhoi ystyriaeth i'w barn hwy.

**26 HYSBYSIADAU**

26.1 Bydd unrhyw rybudd neu orchymyn mewn cysylltiad â'r Cytundeb hwn i unrhyw Barti yn un ysgrifenedig a gellir ei ddanfon â llaw, drwy bost dosbarth cyntaf a dalwyd yn barod, post danfon arbennig neu e-bost, wedi'i gyfeirio at y derbynnydd yn y cyfeiriad fel y nodir yn Atodlen 3 (Manylion y Partïon) neu gyfeiriad derbynnydd arall gaiff ei hysbysu'n ysgrifenedig o bryd i'w gilydd gan unrhyw un o'r Partïon i'r holl Bartïon eraill.

26.2 Bydd unrhyw rybudd neu orchymyn mewn cysylltiad â'r Cytundeb hwn i'r Cyd-bwyllgor yn un ysgrifenedig a gellir ei ddanfon â llaw, drwy bost dosbarth cyntaf a dalwyd yn barod, post danfon arbennig neu e-bost, wedi'i gyfeirio at y [Rheolwr Rhaglen gyda chopïau yn cael eu hafon i Brif Weithredwr a Swyddog Monitro Cyngor Gwynedd a Hedd Vaughan Evans( Rheolwr Gweithredu) yn y cyfeiriad fel y nodir yn Atodlen 3 (Manylion y Partïon) neu gyfeiriad derbynnydd arall gaiff ei hysbysu'n ysgrifenedig o bryd i'w gilydd gan y [Grŵp Cefnogaeth Weithredol] i'r holl Bartïon eraill.

26.3 Tybir bod y rhybudd neu'r gorchymyn wedi'i gyflwyno'n briodol os:-

26.3.1 danfonwyd ef â llaw, a'i gadawyd yn y cyfeiriad priodol i'w gyflwyno;

26.3.2 rhoddwyd neu os gwnaed ef drwy bost dosbarth cyntaf a dalwyd yn barod, bedwar deg wyth (48) awr ar ôl iddo gael ei bostio (ac eithrio dyddiau nad ydynt yn Ddiwrnodau Busnes); neu

26.3.3 rhoddwyd neu os gwnaed ef drwy e-bost, ar adeg ei drosglwyddo,

cyn belled ag yn achos danfon â llaw neu drosglwyddo â llaw neu e-bost, y caiff ei ddanfon neu ei drosglwyddo naill ai ar ôl 4.00pm ar Ddiwrnod Busnes, neu ar ddiwrnod nad yw'n Ddiwrnod Busnes, tybir bod y rhybudd/gorchymyn wedi'i gyflwyno am 9.00am ar y Diwrnod Busnes canlynol.

26.4 Er osgoi amheuaeth, pan gyflwynir achosion lle mae'r Rheolau Gweithdrefn Sifil yn berthnasol, rhaid cydymffurfio â darpariaethau'r Rheolau Gweithdrefn Sifil yng nghyswllt cyflwyno dogfennau mewn cysylltiad â'r achosion hynny.

**27 CYFRAITH LYWODRAETHU**

Caiff y Cytundeb hwn ac unrhyw rwymedigaethau digontract sy'n codi ohono neu yn gysylltiedig ag ef, ei lywodraethu gan gyfraith Cymru a Lloegr ym mhob cyswllt, ac fe'i dehonglir yn unol â hynny. Yn amodol ar Gymal 24 (Datrys Anghydfod), bydd gan Lysoedd Cymru a Lloegr awdurdodaeth lwyr i setlo unrhyw anghydfod a allai godi o'r Cytundeb hwn, neu mewn cysylltiad ag ef.

**28 ASEINIO**

Ni chaiff hawliau a rhwymedigaethau'r Partïon dan y Cytundeb hwn eu haseinio, eu hamnewid neu eu trosglwyddo fel arall heb ganiatâd y Partïon eraill.

## 29 ILDIO HAWL

29.1 Ni fydd unrhyw fethiant neu ohiriad gan unrhyw Barti i gyflawni unrhyw hawl, pŵer neu gywiriad yn golygu ei fod yn eu hildio, ac ni fydd eu gweithredu'n rhannol yn atal unrhyw weithredu pellach ar y rhain neu ryw hawl, pŵer neu gywiriad arall, oni bai fod y Parti hwnnw'n eu hildio'n ysgrifenedig.

29.2 Bydd pob Parti yn talu ei gostau ei hun yng nghyswllt paratoi, cyflawni, cwblhau a gweithredu'r Cytundeb hwn.

## 30 Y CYTUNDEB CYFLAWN

Mae'r Cytundeb hwn yn cynnwys yr holl delerau y mae'r partïon wedi cytuno iddynt yng nghyswllt testun y Cytundeb hwn, ac mae'n disodli unrhyw gytundebau, sylwadau neu ddealltwriaethau blaenorol, ysgrifenedig neu lafar, rhwng y Partïon ynghylch y testun dan sylw. Nid yw'r un Parti wedi'i gymell i ymrwymo i'r Cytundeb hwn nac i unrhyw un o'r dogfennau hyn drwy ddatganiad neu addewid nad ydynt yn eu cynnwys, oddieithr na fydd y Cymal hwn yn eithrio unrhyw gyfrifoldeb fyddai gan un Parti fel arall tuag at y llall mewn perthynas ag unrhyw ddatganiad a wnaed drwy dwyll gan y Parti hwnnw.

## 31 GWRTHRANNAU

Gellir cyflawni'r Cytundeb hwn mewn unrhyw nifer o wrthrannau, a bydd pob un o'r rheini'n gopi gwreiddiol os gweithredir hwy felly, ond gyda'i gilydd un ac yr un offeryn fyddant. Bydd copi cyflawn o'r Cytundeb a wedi ei arwyddo a ddanfonir drwy e-bost mewn fformat pdf gan bob Parti yn cael ei dderbyn ei fod a'r un effaith cyfreithiol a danfon copi gwreiddiol wedi ei arwyddo o'r Cytundeb. Bydd pob Parti yn dal ei gopi a arwyddwyd i orchymyn yr Awdurdod Lletyol a dyddir y Cytundeb a'r dyddiad a osodir arni gan yr Awdurdod Letyol.

## 32 PERTHYNAS Y PARTÏON

Mae pob Parti yn gorff annibynnol ac nid oes dim sydd wedi'i gynnwys yn y Cytundeb hwn a gaiff ei ddehongli i awgrymu bod yna berthynas rhwng Partïon y bartneriaeth neu (ac eithrio pan ddarperir yn llwyr am hynny yn y Cytundeb hwn) bennaeth/asiant neu gyflogwr/gweithiwr. Ni fydd gan yr un Parti yr hawl i weithredu ar ran Parti arall nac ymrwymo'r llall drwy gontract neu fel arall, ac eithrio i'r graddau y caniateir yn glir iddo wneud hynny yn nhelerau'r Cytundeb hwn. Yn benodol er osgoi amheuaeth, ni chymerir bod unrhyw un o'r darpariaethau sy'n ymwneud ag egwyddorion gweithio mewn partneriaeth yn sefydlu unrhyw bartneriaeth fel y diffinnir yn Neddf Partneriaeth 1890.

## 33 CYFRIFOLDEBAU STATUDOL

Er gwaethaf unrhyw beth sydd i'w weld i'r gwrthwyneb yn y Cytundeb hwn, wrth ymgymryd â'u dyletswyddau statudol, ni chaiff disgresiwn unrhyw Barti ei lyffetheirio neu ei effeithio fel arall gan delerau'r Cytundeb hwn.

**SCHEDULE 10**

**POLISI DIRPRWYO**

| **PENDERFYNIAD** | **MATER I'R CYFARWYDDWR RHAGLEN** | **MATER I'R CYD-BWYLLGOR** | **MATER A GEDWIR YN ÔL** |
|---|---|---|---|
| **THEMÂU ALLWEDDOL** | | | |
| 1. Cymeradwyo a mabwysiadu'r OBP | | | **Ydy** |
| 2. Cymeradwyo a mabwysiadu unrhyw OBP wedi'i ddiweddaru oddieithr i'r graddau y mae diweddariad o'r fath gyfystyr â newid materol i'r OBP pennaf neu newid materol yng nghynnwys y Portffolio Rhaglen neu Gynllun Busnes mewn unrhyw Brosiect Gymeradwy (mewn achos o'r fath bydd y penderfyniad i gymeradwyo a mabwysiadu OBP wedi'i ddiweddaru yn Fater a Gedwir yn Ôl)<br><br>Er osgoi amheuaeth, mae newid materol yn newid sydd (yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i) unrhyw newid sydd eisoes wedi'i gynnwys fel "Mater a Gedwir yn Ôl" yn y Cytundeb hwn. | | Ydy | |
| 3 Cymeradwyo a mabwysiadu Achosion Busnes Rhaglenni a Phortffolio yn cynnwys unrhyw ddiweddariadau diweddaru yn unol â Chymal 13 (Achos Busnes) | | Ydy | |
| 4. Cymeradwyo a mabwysiadu Achosion Busnes Prosiect yn unol a chymal 13( Cynllun Busnes) | | Ydy | |
| 5. Yn ddarostyngedig i 2 uchod amrywio y Rhaglenni i'w darparu | | Ydy | |

| PENDERFYNIAD | | MATER I'R CYFARWYDDWR RHAGLEN | MATER I'R CYD-BWYLLGOR | MATER A GEDWIR YN ÔL |
|---|---|---|---|---|
| **CYLLID A GWARIANT** | | | | |
| 6. | Cytuno ar unrhyw gynnydd yng Nghyfraniad y Cyngor neu Gyfraniad Ymgynghorydd neu unrhyw Gyfraniad Ymgynghorydd Unigol | | | **Ydy** |
| 7. | Cymeradwyo unrhyw Gostau Mewnol anghymesur yn unol â Chymal 15.2.2 (Ymrwymiad y Partïon a Chyfraniadau) | | Ydy | |
| | | | | |
| 8. | Cymeradwyo gwariant o fewn Cyllideb Flynyddol gymeradwy'r Awdurdod Lletya a gedwir ar ran y Cyd-bwyllgor fel sydd wedi'i nodi yng Nghymal 15.4 (Cyllideb Flynyddol) | Ydy | | |
| 9. | Ac eithrio lle darparir ar ei gyfer yng Nghymal 15.4.3 ble nad yw cynnydd sydd yn ddarostyngedig i raddfa indecs ( Cymeradwyo Cynnydd Cyllideb Flynyddol) mae cymeradwyo cynnydd mewn unrhyw Gyfraniadau Cyllideb Blynyddol yn fater a gedwir i'r Partïon. | | | Ydy |
| 10. | mae unrhyw newidiadau i Gyfraniad Ychwanegol y Cynghorau yn **Fater Cynghorau** ar gyfer y Cynghorau yn unig. | | | **Ydy – Mater Cyngor yn unig** |
| 11. | mae penderfyniad yn unol a chymal 9.1.3 ( Cyd Bwylgorau Corfforaethol ) yn **Fater Cynghorau** ar gyfer y Cynghorau yn unig. | | | **Ydy – Mater Cyngor yn unig** |

| PENDERFYNIAD | | MATER I'R CYFARWYDDWR RHAGLEN | MATER I'R CYD-BWYLLGOR | MATER A GEDWIR YN ÔL |
|---|---|---|---|---|
| 12. | Trosglwyddo cyllid sydd wedi'u glustnodi o un Prosiect i un arall | | Ydy | |
| 13. | Yr Awdurdod Lletyo yn ymrwymo i (neu gytuno i ymrwymo i) unrhyw drefniant benthyca ar ran y Cyd-bwyllgor a/neu roi unrhyw sicrwydd yng nghyswllt y benthyca hwn | | Ydy | |
| 14. | Derbyn amodau a thelerau yng nghyswllt unrhyw arian trydydd parti ar gyfer y Cynllun Twf neu'r Weledigaeth Twf | | Ydy | |
| 15. | Cytuno ar ffurf yr Adolygiadau Porth | Ydy | | |
| 16. | Cytuno ar unrhyw Amodau Cyllid Llywodraeth Cymru neu Lywodraeth y DU | | Ydy | |
| **CYFFREDINOL** | | | | |
| 17. | **Cymeradwyo cylch gorchwyol y Bwrdd Cyflawni Busnes a atodir yn Rhan 5 o Atodiad 2.** | | Ydy | |
| 18. | Disodli'r Awdurdod Lletya yn unol â Chymal 6.3 (Yr Awdurdod Lletya) | | Ydy | |
| 19. | Cyhoeddi hysbysiad ysgrifenedig i Fethianwr i gywiro toriad neu gael eu trin fel petai wedi tynnu'n ôl o'r Cyd-bwyllgor yn unol â Chymal 2.3 (Terfynu) | | | Ydy |
| 20. | Bydd unrhyw benderfyniad i benodi a wedyn diddymu cyrff neu sefydliadau eraill fel Ymgynghorydd wedi arwyddo i fod yn Barti i'r Cytundeb er ddarparu cefnogaeth ariannol | | | Ydy |

| PENDERFYNIAD | | MATER I'R CYFARWYDDWR RHAGLEN | MATER I'R CYD-BWYLLGOR | MATER A GEDWIR YN ÔL |
|---|---|---|---|---|
| | i'r Cyd Bwyllgor yn Faer a Gadwir yn ol. | | | |
| 21. | Sefydlu is-bwyllgor, is-grŵp neu gorff rheoli prosiect yn unol â'r Cytundeb hwn a phennu eu cylch gorchwyl ac ystod y dirprwyo. | | Ydy | |
| 22. | Gwneud unrhyw amrywiadau neu ildio unrhyw hawliau neu derfynu unrhyw gontractau a lofnodwyd gan y Partïon / yr Awdurdod Lletya (ac eithrio'r Cytundeb hwn) sy'n faterol i'r Cynllun Twf. | | Ydy | |
| 23. | Diwygiadau i delerau'r Cytundeb hwn | | | **Ydy** |
| 24. | Cymeradwyo Strwythur Staffio'r Swyddfa Rheoli Portffolio | | Ydy | |
| 25. | Cyflogi a diswyddo (a gosod telerau cyflogaeth) aelodau o staff y Swyddfa Rheoli Portffolioac eithrio'r Cyfarwyddwr Rhaglen | Ydy | | |
| 26. | Cyflogi a diswyddo (a gosod telerau cyflogaeth) y Cyfarwyddwr Rhaglen. | | Ydy | |
| 27. | Cychwyn unrhyw hawliad, gweithrediadau neu ymgyfreithiad arall a ddygir gan neu amddiffyn unrhyw hawliad, gweithrediadau neu ymgyfreithiad arall a ddygir yn erbyn y Cyd-bwyllgor neu Barti unigol yng nghyswllt y Cynllun Twf, ac eithrio yng nghyswllt casglu dyled yng nghwrs arferol busnes. | | Ydy | |
| 28. | Gwneud unrhyw gyhoeddiadau neu ddatganiadau o ba bynnag natur yng nghyswllt y Cyd-bwyllgor a'r Cynllun Twf | Ydy | | |

| PENDERFYNIAD | | MATER I'R CYFARWYDDWR RHAGLEN | MATER I'R CYD-BWYLLGOR | MATER A GEDWIR YN ÔL |
|---|---|---|---|---|
| 29. | Cymeradwyo'r Achos Busnes ar gyfer creu cwmni masnachu awdurdod lleol dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 | | | **Ydy** |
| 30. | Unrhyw benderfyniad i newid i Gyd-bwyllgor Corfforaethol | | | **Ydy** |
| 31. | Yn amodol ar delerau'r Cytundeb hwn, unrhyw faterion eraill nad ydynt wedi'u cynnwys yn Atodlen 1 (Polisi Dirprwyo) sy'n hwyluso, neu sy'n ffafriol neu'n atodol i gyflawni Cylch Gorchwyl y Cyd-bwyllgor0 | | Ydy | |

**ATODLEN 2**

**CYLCH GORCHWYL**

0

**CYLCH GORCHWYL Y CYD-BWYLLGOR**

1. **NODAU/PWRPAS**

1.1 Y Cyd-bwyllgor fydd y corff allweddol i oruchwylio'r Cynllun Twf a chynrychioli buddiannau'r Partïon a'i randdeiliaid ac, yn amodol ar y Cytundeb hwn, bydd yn wneud yr holl benderfyniadau angenrheidiol i hwyluso a gweithredu ei gyflawni. Yn ogystal, bydd y Cyd-bwyllgor yn gyfrifol am fonitro cynnydd y rhaglen a rheoli dimensiynau gwleidyddol y Cynllun Twf.

1.2 Hefyd, bydd y Cyd-bwyllgor yn goruchwylio'r Weledigaeth Twf ac, yn amodol ar y Cytundeb hwn, bydd yn gwneud yr holl benderfyniadau angenrheidiol i hwyluso a gweithredu ei chyflawni.

1.3 Bydd y Cyd-bwyllgor yn ymgymryd â'r swyddogaethau a ganlyn:-

1.3.1 pennu ffurf a nifer y cronfeydd i gyflawni'r Cynllun Twf;

1.3.2 cymeradwyo Achosion Busnes Prosiectau i gyflawni'r Cynllun Twf yn unol â'r OBP;

1.3.3 darparu cyfeiriad strategol i'r Grŵp Cefnogaeth Weithredol (i gynnwys cymeradwyo cylch gwaith y Grŵp Cefnogaeth Weithredol a chymeradwyo unrhyw faterion adnoddau);

1.3.4 gweithredu fel cynrychiolydd i bob un o'r Partïon i sicrhau cysondeb gydag amcanion a gweledigaethau unigol;

1.3.5 monitro trefniadau perfformiad, rheoli a gwaith (i gynnwys y gwiriadau archwilio a sicrwydd angenrheidiol);

1.3.6 sicrhau bod adnoddau digonol wedi'u hymrwymo i'r Cynllun Twf;

1.3.7 cyflafareddu ar unrhyw anghydfod o fewn y rhaglen a negodi datrysiad i unrhyw broblemau rhwng y rhaglen a chyrff allanol;

1.3.8 cyfathrebu a darparu cynnydd ar faterion strategol o fewn y Cynllun Twf;

1.3.9 hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth rhwng y Partïon;

1.3.10 cyhoeddi datganiad llywodraethu blynyddol a Chyfrifon Blynyddol;

1.3.11 cysylltu â phartneriaid Cynlluniau Twf neu Gynlluniau Dinasoedd eraill ledled y Deyrnas Unedig i rannu arfer gorau a sicrhau dull strategol wedi'i gydlynu;

1.3.12 darparu adroddiadau cynnydd blynyddol i'r Partïon; a

1.3.13 diweddaru'r Polisi Dirprwyo o bryd i'w gilydd.

2. **TELERAU**

2.1 Ar ddechrau'r Cynllun Twf:-

2.1.1 cwblhau unrhyw Achosion Busnes yn unol â Chymal 13; a

2.1.2 chytuno ar fanylion y broses gwneud penderfyniadau ac asesiadau cyn i'r Cyd-bwyllgor ystyried prosiectau unigol.

2.2 Yn ystod y camau cynllunio a datblygu:-

2.2.1 adolygu statws y prosiect yn erbyn y cynlluniau cymeradwy;

2.2.2 monitro rheolaeth cyllideb, risgiau ac ansawdd y prosiect;

2.2.3 hyrwyddo a chefnogi'r prosiect ymhlith rhanddeiliaid perthnasol a lle bo hynny'n briodol, derbyn eu caniatâd;

2.2.4 ceisio datrys anghydfodau lle nad yw'n bosib datrys y rhain yn foddhaol drwy unrhyw ddull arall; a

2.2.5 sicrhau bod y cynigion yn fforddiadwy ac yn rhoi'r gwerth gorau am arian i'r sector cyhoeddus.

## CYLCH GORCHWYL Y GRŴP CEFNOGAETH WEITHREDOL

1. **STATWS**

1.1 Mae'r Grŵp yn un gweithredol proffesiynol sy'n cefnogi ac yn cynghori Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ac yn gweithredu penderfyniadau'r Bwrdd hwnnw.

1.2 Ni fydd gan y Grŵp unrhyw bwerau ffurfiol i wneud penderfyniadau a bydd yn cynghori swyddogion y Bwrdd, sydd â phwerau dirprwyedig, wrth weithredu eu pwerau.

2. **PWRPAS Y GRŴP**

2.1 (a) cydlynu cyngor proffesiynol i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (y cyfeirir ato fel 'y Bwrdd' o hyn allan); (b) gweithredu penderfyniadau'r Bwrdd; (c) goruchwylio'r gwaith o ddatblygu a rheoli adnoddau'r Bwrdd a (d) bod yn gyfrifol am reoli perfformiad ffrydiau gwaith, rhaglenni a phrosiectau'r Bwrdd.

2.2 Mae gan y Grŵp y rolau a'r cyfrifoldebau penodol a ganlyn:-

**Strategol**

2.2.1 rhoi cyngor strategol ar ddatblygu'r Weledigaeth Twf;

2.2.2 rhoi cyngor proffesiynol i'r Bwrdd ym meysydd penodol trafnidiaeth, sgiliau a chyflogaeth, datblygu'r economi, tai, cynllunio defnydd tir a digidol;

2.2.3 rhoi cyngor ar ddatblygu strategaeth ranbarthol i adfywio llefydd.

**Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau**

Gweithredu fel y Bwrdd Portffolio i oruchwylio'r gwaith o ddatblygu, cydlynu a chyflawni'r Rhaglenni a'r prosiectau a gomisiynir o fewn y Cynllun Twf a goruchwylio'r gwaith o ddatblygu, cydlynu a chyflawni prosiectau eraill a gomisiynir gan y Bwrdd i gyflawni'r Weledigaeth Twf.

**Rheoli Perfformiad**

2.2.4 goruchwylio'r gwaith o reoli ac adrodd am berfformiad rhaglenni a phrosiectau'r Bwrdd; a

2.2.5 chynnal a rheoli systemau adrodd rheoli perfformiad a risg.

**Gweinyddiaeth a Chyfathrebu**

2.2.6 cefnogi’r strwythur llywodraethu a sicrhau y caiff ei weithredu'n effeithlon;

2.2.7 goruchwylio strategaeth gyfathrebu; a

2.2.8 gweithredu fel "tŷ clirio" ar gyfer adroddiadau i'r Bwrdd.

3. **AELODAETH**

3.1 Cadeirydd y Cyd-bwyllgor neu ddirprwy priodol

3.2 Cyfarwyddwr Rhaglen

3.3 Swyddogion a.151 a Monitro o'r Awdurdod Lletya

3.4 Uwch swyddog o'r sefydliadau isod:-

3.4.1 Cyngor Gwynedd;

3.4.2 Cyngor Sir Ynys Môn;

3.4.3 Cyngor Conwy;

3.4.4 Cyngor Sir Ddinbych;

3.4.5 Cyngor Sir y Fflint;

3.4.6 Cyngor Wrecsam;

3.4.7 Prifysgol Bangor;

3.4.8 Prifysgol Glyndŵr;

3.4.9 Coleg Cambria;

3.4.10 Grŵp Llandrillo-Menai;

3.4.11 Bwrdd Cyflawni Busnes.

## 4. AMSERLENNI CYFARFODYDD

4.1 Cynhelir cyfarfodydd ar ail ddydd Gwener bob mis neu fel y cytunir fel arall gan y Grŵp Gweithredol er mwyn hwyluso'i swyddogaethau.

4.2 Fodd bynnag, gelwir cyfarfodydd arbennig os credir bod angen.

## 5. YSGRIFENYDDIAETH

Darperir ysgrifenyddiaeth y Grŵp gan y Swyddfa Rhaglen.

0

**CYLCH GORCHWYL Y SWYDDFA CEFNOGI PORTFFOLIO**

1. Darparu tîm cefnogaeth broffesiynol dan arweiniad y cyfarwyddwr rhaglen er mwyn cyflawni rhaglen gytûn y Bwrdd Uchelgais Economaidd yn llwyddiannus er mwyn cyflawni twf economaidd a datgloi arian gan y llywodraeth

2. Rhoi cyngor a chyfeiriad proffesiynol i'r Bwrdd Uchelgais Economaidd ar strategaethau allweddol i gefnogi'r uchod, yn benodol trafnidiaeth, sgiliau a chyflogaeth, datblygu'r economi a thwf sectorau, isadeiledd digidol a chynllunio defnydd tir;

3. Cefnogi'r gwaith o ddatblygu a chyflawni Gweledigaeth Twf Gogledd Cymru, gan roi cyngor a chyfeiriad i'r Bwrdd er mwyn gwneud y gorau o'r potensial i gyflawni twf economaidd cynaliadwy a chynhwysol yn y Gogledd;

4. Cydlynu'r gwaith o ddatblygu a chyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru;

5. Gweithio'n agos gyda'r sector busnes yn y rhanbarth er mwyn adnabod cyfleoedd i sicrhau twf economaidd;

6. Gweithio ar y cyd ac mewn partneriaeth â swyddogion allweddol o Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru er mwyn cyflawni blaenoriaethau'r Bwrdd Uchelgais Economaidd;

7. Arwain ar gaffael nwyddau, gwaith a gwasanaethau yn amodol ar gymeradwyaeth gan y Cyd-bwyllgor fel y nodir yn fwy penodol ym mharagraff 3, Rhan 1 yr Atodlen hon.

8. Bod yn gyfrifol am reoli adnoddau yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i):

   (a) cynnal cyllideb flynyddol i'r Bwrdd;

   (b) goruchwylio defnydd o'r gyllideb;

   (c) sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio'r gyllideb; a

   (d) gwneud penodiadau ac ymrwymo i gontractau gyda chymeradwyaeth y Bwrdd ac o fewn y gyllideb sydd wedi'i chymeradwyo, ac yn unol â pholisïau'r Awdurdod Lletya

0

**CYLCH GORCHWYL YR IS-BWYLLGORAU**

**CYLCH GORCHWYL**

**IS-FWRDD CYFLAWNI TRAFNIDIAETH**

Mae Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn penodi Is-grŵp Cyflawni Trafnidiaeth i ymgymryd â'r swyddogaethau sydd wedi'u hamlinellu isod.

Bydd yr Is-fwrdd yn Is-bwyllgor a benodir dan Adran 102 Deddf Llywodraeth Leol 1972 ac Adran 20 Deddf Llywodraeth Leol 2000 a'r Rheoliadau a wnaed oddi tano

Bydd yr Is-fwrdd yn cynnwys chwe Chynghorydd, un o bob Cyngor sy'n Bartner a fydd yn Aelodau Gweithredol.

Gellir gwahodd Arsyllwyr i fynychu, yn seiliedig ar eu gwybodaeth a'u cyfraniad posib i'r meysydd cyfrifoldeb.

**RÔL:**

- Cynllunio a chydlynu gwasanaeth trafnidiaeth integredig a chydgysylltiedig yng ngogledd Cymru;
- cynllunio, cydlynu a chynghori ar ymatebion rhanbarthol i gynigion Gwella Trafnidiaeth Gyhoeddus Llywodraeth Cymru.
- cynllunio a chydlynu cyflawni ymyraethau trafnidiaeth strategol, yn cynnwys prosiectau'r Cais Twf a phrosiectau datgarboneiddio trafnidiaeth;
- adrodd ar gynnydd, perfformiad, deilliannau a materion ariannu i'r Bwrdd Uchelgais. Bydd yr Is-fwrdd Cyflawni yn Is-bwyllgor o Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

**PWRPAS:**

Ymateb i'r briffiau a'r comisiynau yn unol â chyfarwyddyd a chytundeb y Bwrdd Uchelgais Economaidd, a'u gweithredu.

Mae gan yr Is-fyrddau'r swyddogaethau a'r cyfrifoldebau cyffredinol a ganlyn:

**Strategol**

- cydlynu gweithgarwch Awdurdodau Lleol a phartneriaid eraill fel y byddai dull rhanbarthol strategol yn ei le yn y maes polisi perthnasol;
- darparu cyngor strategol perthnasol i'r Bwrdd;
- cefnogi'r Bwrdd i ddylanwadu ar bolisïau cenedlaethol a rhaglenni ariannu;

  gweithredu penderfyniadau'r Bwrdd Uchelgais Economaidd. Bydd y Bwrdd Uchelgais Economaidd yn rhoi cyfarwyddyd ac yn comisiynu'r Is-fyrddau Cyflawni i ymgymryd â thasgau allweddol.

**Rheoli Prosiectau a Rhaglenni**

- cydlynu cynllunio, datblygu a chyflawni Rhaglen(ni) perthnasol a gomisiynir gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd;
- cydlynu cynllunio, datblygu a chyflawni Prosiectau perthnasol a gomisiynir gan y bwrdd Uchelgais Economaidd, yn benodol y Prosiectau sydd wedi'u cynnwys yng "Nghais" y Cynllun Twf. Bydd hyn yn cynnwys datblygu Achosion Busnes Amlinellol unigol a Modelau Busnes Pum Achos ar gyfer pob Prosiect;
- monitro ac adolygu cynnydd ac effaith y Rhaglen(ni) perthnasol a Phrosiectau perthnasol a chyflwyno unrhyw argymhellion i'r Bwrdd.

**Rheoli Adnoddau**

- Goruchwylio datblygiad y gyllideb berthnasol a sicrhau gwerth am arian yn nefnydd y gyllideb.
- Adrodd i'r Bwrdd Uchelgais ar y gyllideb a cheisio cymeradwyaeth gan y Bwrdd Uchelgais am unrhyw amrywiadau i'r gyllideb.

**Rheoli Perfformiad**

- Cydlynu'r gwaith o adrodd ar berfformiad y Rhaglen(ni) a'r Prosiectau perthnasol i'r Bwrdd;
- Cynnal a rheoli system adrodd rheoli perfformiad a risg.

**Grymoedd yr Is-bwyllgorau**

Dim wedi'u dirprwyo.

**PERTHYNAS GYDA'R BWRDD UCHELGAIS**

- Gwahoddir Cadeirydd pob Is-fwrdd Cyflawni i rai cyfarfodydd y Bwrdd Uchelgais Economaidd i adrodd ar gynnydd, perfformiad a deilliannau.
- Bydd y Bwrdd Uchelgais yn creu Arweinydd Portffolio ar gyfer pob un o themâu yr Is-fyrddau Cyflawni. Arsyllwyr fyddant yng nghyfarfod yr Is-fwrdd, a byddant yn sicrhau cyswllt uniongyrchol gyda'r Bwrdd Uchelgais.

**GWEITHDREFNAU A LLYWODRAETHU**

- Penodir Swyddog Arweiniol ar gyfer pob un o'r Is-fyrddau Cyflawni.
- Fel arfer, bydd penderfyniadau yn cael eu gwneud drwy gonsensws ac yna bydd chwe aelod yr awdurdodau lleol yn pleidleisio'n ffurfiol er mwyn cael mwyafrif syml.
- Os bydd y bleidlais yn gyfartal, caiff y mater ei gyfeirio i'r Bwrdd Uchelgais am benderfyniad.
- Ym mhob agwedd arall, bydd yr Is-fwrdd yn gweithredu'r rheolau a'r gweithdrefnau sy'n berthnasol i'r Bwrdd Uchelgais fel y nodir yn y GA1 neu unrhyw gytundeb dilynol sy'n ei ddisodli.

## ATODLEN 2

### Cylch Gorchwyl y Bwrdd Cyflawni Busnes

**1. Rôl a Chylch Gwaith**

1.1. Bydd y Bwrdd Cyflawni Busnes yn gweithredu fel llais busnes a chyflogwyr yn y rhanbarth, ac yn gweithio'n agos gyda sefydliadau megis Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy (y corff ymbarél ar gyfer sefydliadau sy'n cynrychioli Busnesau). Bydd yn canolbwyntio ar gyflawni'r Weledigaeth Twf ar gyfer y rhanbarth.

1.2. Bydd ganddo rôl allweddol wrth herio a chynghori Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ar faterion yn ymwneud â'r Weledigaeth Twf a'r Cynllun Twf.

1.3. Bydd y Bwrdd yn amlygu'r rhwystrau i dwf, ynghyd â dwyn ymlaen syniadau a chynigion. Disgwylir i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru sefydlu ffyrdd i gyflawni'r cynigion hyn.

1.4. Mae'r Bwrdd yn rhan allweddol o gyfarpar llywodraethu'r Cynllun Twf ac mae ganddo rôl ddeublyg bwysig:

- Sicrhau bod llais a dymuniadau busnesau yn siapio ac yn dylanwadu ar y Weledigaeth Twf ar gyfer Gogledd Cymru a phecyn a chyflawniad y Cynllun Twf;
- Sicrhau y gall busnesau gael mynediad i'r cyfleoedd a symbylir ac a gataleiddir gan ddatblygu'r Cynllun Twf, a'u harwain.

1.5. Mae'r Bwrdd wedi'i ymrwymo i wneud y gorau o'r cyfleoedd o fewn y Cynllun Twf, a hyrwyddo buddsoddiad anuniongyrchol gan gwmnïau, mentrau a busnesau.

1.6. Bydd y Bwrdd yn cynnwys Cadeirydd a rhwng 9 a 12 aelod. Bydd ei aelodaeth yn cynnwys cynrychiolwyr ac arbenigwyr sector o fusnesau allweddol o'r sectorau economaidd twf a sylfaenol ledled y rhanbarth. Mae disgwyl i Aelodau'r Bwrdd gynnwys swyddogion uwch sy'n gwneud penderfyniadau o sefydliadau a gynrychiolir.

1.7. Bydd ei raglen waith (a fydd wedi'i gosod mewn cynllun busnes blynyddol) yn arddangos yn glir y cyfleoedd i'r sector preifat a ddaw yn sgil cyflawni'r Weledigaeth Twf a'r Cynllun Twf. Caiff y cynllun busnes blynyddol a'r cynigion a gyflwynir gan y Bwrdd eu hystyried yn ffurfiol gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru er mwyn eu hymgorffori o fewn ei raglen waith.

1.8. Bydd yn cryfhau proffil llais a mewnbwn busnesau i'r Cynllun Twf, er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei yrru a'i gyflawni gan fusnes a diwydiant, er ei fod yn cael ei arwain yn wleidyddol.

1.9. Bydd y Bwrdd yn sicrhau bod buddsoddiad mewn twf yn cael ei hysbysu a'i siapio gan fusnesau i fusnesau.

1.10. Bydd Cadeirydd y Bwrdd yn aelod ymgynghorol o Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a mewn partneriaeth gyda'r Bwrdd Uchelgais bydd ganddo rôl allweddol wrth ddarparu arweinyddiaeth a chysylltiadau allweddol gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Bydd swydd y Cadeirydd yn cael ei hysbysebu a'i phenodi'n gyhoeddus.

1.11. Caiff cyfansoddiad a rôl y Bwrdd o fewn llywodraethiant y Cynllun Twf a'i gyd-berthynas gyda'r Cyd-bwyllgor ei gwmpasu yng Nghytundeb Llywodraethu 2. Rhaid i'r Bwrdd fod yn hyblyg i newid ei gyfansoddiad a'i rôl fel y gwêl yn dda er mwyn bod mor annibynnol â phosib. Caiff cyfansoddiad ac rôl y Bwrdd a unrhyw newidiadau ei gytuno gyda Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

1.12. Bydd y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, yn ystyried yn llawn a derbyn unrhyw gyngor neu her gan y Bwrdd Cyflawni Busnes. Bydd unrhyw argymhellion ffurfiol gan y Bwrdd Cyflawni Busnes i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn cael ei cyflwyno mewn adroddiad

ysgrifenedig fydd yn cael ei ystyried mewn cyfarfod o’r Bwrdd gyda ymateb a rhesymau yn cael ei cofnodi a’i cyfathrebu.

**2. Cyfrifoldebau Allweddol**

2.1. Bydd y Bwrdd Cyflawni Busnes yn gyfrifol am:

- Adolygu a siapio'r Weledigaeth Twf ar gyfer y Gogledd;
- Herio ac adolygu'r portffolio o brosiectau a gynigir o fewn y Cynllun Twf ac ystyried a herio'r Achosion Busnes Llawn ar gyfer prosiectau unigol er manteisio i'r eithaf ar effaith y cynllun ar gyfer y rhanbarth, gan sicrhau buddsoddiad uniongyrchol ac anuniongyrchol ychwanegol o'r sector preifat ar gyfer y Cynllun.;
- Canolbwyntio ar gyflawni prosiectau a gomisiynir gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a sicrhau y gall busnesau gael mynediad i'r cyfleoedd a gataleiddir gan y Cynllun Twf, a'u harwain;
- Darparu rôl eirioli, gan hyrwyddo'r rhanbarth fel prif leoliad ar gyfer buddsoddwyr ac ymwelwyr a gweithio gyda phartneriaid i gynyddu gwerth ac ansawdd mewnfuddsoddi;
- Rhoi cyngor ar ymyrraeth arfaethedig gan randdeiliaid allweddol eraill, yn cynnwys Llywodraeth Cymru.

2.2. Bydd gan y Bwrdd rôl hanfodol i'w chwarae wrth

2.3. Bydd y Bwrdd yn gweithio yn agos ac mewn partneriaeth gyda Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

**3. Cadeirydd y Bwrdd**

3.1. Caiff y Cadeirydd ei benodi ar sail tymor penodol o ddwy flynedd, gyda nifer y tymhorau wedi'i gyfyngu i ddau.

3.2. Tybir y byddai'r ymrwymiad amser, er yn hyblyg, yn un diwrnod yr wythnos ar gyfartaledd, ond bydd lefel yr ymrwymiad yn amrywio dipyn ar draws y tymor.

3.3. Bydd y rôl yn derbyn cydnabyddiaeth ar lefel sy'n adlewyrchu arwyddocâd y rôl.

3.4. Bydd y Cadeirydd yn gyfrifol am:

- Arwain y Bwrdd, gan sicrhau ei fod yn cyflawni ei gyfrifoldebau;
- Cadeirio cyfarfodydd y Bwrdd, casglu barnau sydd wedi'u mynegi gan bob grŵp rhanddeiliaid a, lle bo angen, dod i gonsensws;
- Cyfathrebu a chynrychioli argymhellion y Bwrdd ar Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru;
- Bod yn arweinydd "busnes" a phencampwr dros y rhanbarth yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

3.5. Dylai’r Cadeirydd feddu ar y cefndir a'r profiad a ganlyn:

- Bod yn aelod o gymuned fusnes y sector preifat;
- Meddu ar brofiad arweinyddiaeth uwch helaeth;
- Cael rhwydwaith eang o gysylltiadau cyhoeddus, preifat ac yn y llywodraethau sy'n ymestyn y tu hwnt i'r rhanbarth.

3.6. Darperir cefnogaeth strategol, ymchwil, polisi a chyfryngau i'r Cadeirydd a'r Bwrdd Cyflawni Busnes gan y Swyddfa Rheoli Portffolio(unwaith y bydd wedi'i sefydlu'n llawn).

3.7. Bydd angen i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru gymeradwyo penodiad y Cadeirydd. Caiff y broses ei goruchwylio gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Yn unol a cymeradwyaeth Llywodraeth Prydain ac Llywodraeth Cymru bydd y Cadeirydd yn cael ei benodi gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

3.8. Caiff y Cadeirydd ei benodi yn unol â'r safonau cydnabyddedig ar gyfer penodiadau cyhoeddus, yn cynnwys hysbyseb agored.

**4. Dethol Aelodau'r Bwrdd Cyflawni Busnes**

4.1. Rhaid i'r broses ddethol fod yn agored ac yn dryloyw, gan ddefnyddio'r meini prawf dethol a restrir isod.

4.2. Bydd y Panel Penodi yn cynnwys Cadeirydd ac Is-gadeirydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a Chadeirydd y Bwrdd Cyflawni Busnes. Bydd y Panel yn cyflwyno argymhellion i'r Bwrdd Uchelgais i gymeradwyo'r ymgeiswyr mwyaf addas i'w penodi.

4.3. Caiff rôl Aelodaeth y Bwrdd ei hysbysebu'n gyhoeddus i annog ystod eang o geisiadau. Bydd cyfres gyfunol o sgiliau a phrofiad y Bwrdd yn ystyriaeth allweddol. Bydd proses ymgeisio a fydd yn caniatáu i aelodau arfaethedig gael eu henwebu.

4.4. Ar y cyd, dylai'r Bwrdd feddu ar y wybodaeth a'r sgiliau a ganlyn:

- Dealltwriaeth o economi'r Gogledd a gwerthfawrogiad o gyfleoedd yn y sectorau economaidd twf a sylfaen ledled y rhanbarth
- Rhwydwaith eang o gysylltiadau ledled y DU ac yn rhyngwladol;
- Profiad o ddadansoddi ac asesu gwybodaeth fasnachol, dechnegol ac ariannol er mwyn rhoi cyngor safonol i'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau;
- Profiad o ddarparu cyngor diduedd am brosiectau a mentrau, yn benodol yng nghyswllt eu hyfywedd a'u heffaith ar faterion cyflogaeth ac economi.

4.5. Ymgymerir â'r broses mewn ymgynghoriad â'r ddwy Lywodraeth.

4.6. Wrth benodi aelodau, rhoddir ystyriaeth i sefydlu aelodaeth sydd, gyhyd ag sy'n bosib, yn gytbwys yn gyffredinol fel ei bod yn adlewyrchu ac yn cynrychioli holl ardal ddaearyddol y Gogledd, ei sectorau a'i chymunedau busnes a bydd angen ystyried hyn yn ystod y broses benodi.

**5. Gwrthdaro Buddiannau**

5.1. Er mwyn caniatáu i'r Bwrdd Cyflawni Busnes ymgymryd â'i holl swyddogaethau, gwneir gwahaniaeth clir rhwng y rheini sy'n ymwneud â datblygu prosiectau penodol a'r rheini sy'n paratoi argymhellion am y prosiectau hynny i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Gweithredir system gadarn o ddatgan gwrthdaro buddiannau. Yn ogystal, mae Ymgynghorwyr y Bwrdd Uchelgais wedi'u rheoli gan Gôd yng nghyswllt buddiannau personol. Disgwylir i aelodau a benodir i'r Bwrdd Cyflawni Busnes gydymffurfio â rhai darpariaethau.

21

21 PM: NWEAB to please provide. As the BDB are not a Party to this Agreement but the Chair is an "Advisor", we presume reference to the GA2 and compliance with its terms (including confidentiality and FOIA, code of conduct) will be captured in the terms of reference.

**ATODLEN 3**

**PROTOCOL CRAFFU**

**1. Cyfathrebu a Chodi Ymwybyddiaeth**

1.1 Bydd y Swyddfa Rhaglen yn paratoi adroddiad chwarterol ar waith y Bwrdd Uchelgais Economaidd a fydd yn cynnwys:

- Cynnydd ar weithredu'r OBP yn cynnwys Rhaglenni a Phrosiectau unigol.
- Perfformiad Ariannol y Bwrdd
- Datblygiadau sydd ar y gweill.

1.2 Caiff yr adroddiad ei anfon at bob Sefydliad sy'n Bartner a bydd ar ffurf a fydd yn hwyluso ei gyflwyno i drefniadau Craffu neu lywodraethu arall y Partneriaid fel y mae'r Partneriaid yn pennu.

1.3 Bydd Swyddog o'r Swyddfa Rhaglen ar gael i fynychu cyfarfod perthnasol ar yr amod, yn absenoldeb amgylchiadau arbennig neu alw penderfyniad i mewn, na fydd yr un Partner angen swyddog i fynychu mwy na dau o'u cyfarfodydd bob blwyddyn.

**2. Galw i mewn**

2.1 Caiff holl benderfyniadau'r Bwrdd Uchelgais neu ei Is-fyrddau ("Corff Penderfyniadau") eu cofnodi a'u cyhoeddi ar ddatganiad o benderfyniadau a baratoir wrth gydymffurfio â Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Penderfyniadau, Dogfennau a Chyfarfodydd) (Cymru) 2001. Caiff yr hysbysiad ei anfon yn electroneg ar yr un adeg ag y'i cyhoeddir at Bennaeth Gwasanaethau Democrataidd y Cynghorau hefyd i'w drin yn unol â threfniadau llywodraethu ei Cynghorau eu hunain mewn perthynas â Chraffu.

2.2 Er gwaethaf unrhyw ddarpariaeth yng Nghyfansoddiad unrhyw Gyngor, ni ellir galw unrhyw benderfyniad Corff Penderfyniadau gan unrhyw Gyngor ar ddiwedd 5 diwrnod gwaith clir (a gymerir ei fod wedi dod i ben am 17:00 ar y diwrnod olaf) yn dilyn dyddiad cyhoeddi'r datganiad penderfyniad.

2.3 Os derbynnir cais i alw penderfyniad i mewn yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor hwnnw, anfonir copi o'r hysbysiad neu'r hysbysiadau hynny at yr isod cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol wedi hynny:

1. Swyddog Monitro pob un o'r Cynghorau Eraill
2. Cyfarwyddwr Rhaglen
3. Cynrychiolydd Bwrdd y partneriaid eraill

2.4 Bydd y Cyngor yn trefnu i'r mater gael ei ystyried mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu perthnasol i'w gynnal ddim hwyrach na 15 diwrnod gwaith clir o ddyddiad derbyn yr hysbysiad Galw i Mewn gan y Cyngor hwnnw.

2.5 Ni ellir galw unrhyw benderfyniad gan Gorff Penderfyniadau i mewn fwy nag unwaith gan unrhyw Gyngor ac ni fydd ailystyried penderfyniad yn destun Galw i Mewn gan unrhyw Gyngor.

2.6 Caiff cynrychiolwyr y Cyd-bwyllgor a'r Swyddfa Rhaglen eu gwahodd i fynychu i siarad yng nghyfarfod Pwyllgor Craffu sy'n ystyried y cais am alw i mewn.

2.7 Os, wedi ystyried y penderfyniad, yw'r Pwyllgor Craffu yn dal i fod yn bryderus yn ei gylch, yna gall ei gyfeirio yn ôl i'r corff gwneud penderfyniadau i'w ailystyried, gan nodi'n ysgrifenedig natur ei bryderon i'r penderfynwr, yna byddant yn ailystyried o fewn 15

diwrnod gwaith clir pellach, gan ddiwygio'r penderfyniad neu beidio, cyn mabwysiadu penderfyniad terfynol.

2.8 Cyflwynir rhybudd o argymhellion y cyfarfod Craffu yn ysgrifenedig i Gyfarwyddwr Rhaglen, Swyddog Monitro a Phrif Swyddog Cyllid y Cyd-bwyllgor ddim hwyrach na 5 diwrnod gwaith clir wedi dyddiad y cyfarfod.

2.9 Ni fydd y drefn galw i mewn a nodir uchod yn berthnasol os yw'r penderfyniad a wneir yn un brys. Bydd penderfyniad yn un brys pe byddai unrhyw oedi a achosir gan y broses galw i mewn yn rhagfarnu gwaith y Corff Penderfyniadau'n ddifrifol neu fudd cyhoeddus arall, er enghraifft. Bydd y penderfyniad ynghylch p'un a yw mater yn un brys yn cael ei wneud drwy ei ddatrys gan y Corff Penderfyniadau gan nodi'r sail dros y penderfyniad. Bydd cofnod y penderfyniad, a'r hysbysiad sy'n ei wneud yn gyhoeddus, yn nodi p'un a yw'r penderfyniad yn un brys ym marn y corff sy'n gwneud penderfyniadau ac, felly, ni fydd yn amodol ar alw i mewn a'r sail dros y penderfyniad hwnnw.

**ATODLEN 4**

**MANYLION Y PARTÏON**

| **Enw'r Derbynnydd** | **Cyfeiriad** | **E-bost** |
|---|---|---|
| Cyngor Conwy:-<br>[Prif Weithredwr] | PO Box 1,<br>Conwy,<br>LL30 9GN | Iwan.davies@conwy.gov.uk |
| Cyngor Sir Ddinbych:-<br>[Prif Weithredwr] | PO Box 62,<br>Rhuthun,<br>LL15 9AZ | Judith.greenhalgh@denbighshire.gov.uk |
| Cyngor Sir y Fflint:-<br>[Prif Weithredwr] | Neuadd y Sir,<br>Yr Wyddgrug<br>CH7 6NB | Chief.executive@flintshire.gov,uk |
| Cyngor Gwynedd:-<br>[Prif Weithredwr] | Cyngor Gwynedd<br>Stryd y Jêl<br>Caernarfon<br>LL55 1SH | dilwynowenwilliams@gwynedd.llyw.cymru |
| Cyngor Sir Ynys Môn:-<br>[Prif Weithredwr] | Swyddfeydd y Cyngor<br>Llangefni<br>Ynys Môn<br>LL77 7TW | AnnwenMorgan2@ynysmon.gov.uk |
| Cyngor Wrecsam:<br>[Prif Weithredwr] | Neuadd y Dref<br>Wrecsam<br>LL11 1AY | Ian.bancroft@wrexham.gov.uk |
| Prifysgol Bangor:-<br>[Prif Weithredwr] | College Road,<br>Bangor,<br>Gwynedd<br>LL57 2DG | vc@bangor.ac.uk |
| Prifysgol Glyndŵr:-<br>[Is-ganghellor] | Prifysgol Glyndŵr<br>Ffordd yr Wyddgrug,<br>Wrecsam,<br>LL11 2AW | Maria.Hinfelaar@glyndwr.ac.uk |
| Coleg Cambria:-<br>[Prif Weithredwr] | Ffordd Kelsterton,<br>Cei Connah,<br>Glannau Dyfrdwy,<br>Sir y Fflint<br>CH5 4BR | Yana.williams@cambria.ac.uk |

| Enw’r Derbynnydd | Cyfeiriad | E-bost |
|---|---|---|
| Grŵp Llandrillo-Menai:-<br>[Prif Weithredwr] | Ffordd Llandudno,<br>Bae Colwyn,<br>LL28 4HZ | dafydd.evans@gllm.ac.uk |
| Bwrdd Cyflawni Busnes | Canolfan Fusnes Conwy<br>Cyffordd Llandudno<br>Conwy<br><br>LL31 9XX | AlwenWilliams@buegogleddcymru.co.uk – i’w ddiweddaru ar benodiad Cadeirydd i’r Bwrdd Cyflanwi Busnes |
| Cyfarwyddwr Rhaglen | Canolfan Fusnes Conwy<br>Cyffordd Llandudno<br>Conwy<br><br>LL31 9XX | AlwenWilliams@buegogleddcymru.co.uk |

## ATODLEN 50

## PENAWDAU GWARIANT

1. Mae’r hyn a ganlyn yn rhestr anghyflawn o'r penawdau gwariant y gallai'r Partïon eu cael yn y Cynllun Twf:-

1.1 "**Costau Mewnol**" sef y costau sy'n gysylltiedig gyda phob Parti yn darparu adnoddau mewnol yng nghyswllt y Cynllun Twf sy'n cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i:-

1.1.1 gostau staffio a gorbenion cysylltiedig;

1.1.2 rheoli prosiectau / cefnogaeth dechnegol a gweinyddol;

1.1.3 cyfathrebu; a

1.1.4 (lle bo hynny'n briodol) costau sydd ynghlwm â rheoli ceisiadau FOIA yn unol â Chymal 26 (Rhyddid Gwybodaeth a Gwybodaeth Amgylcheddol).25

1.2 "**Costau'r Cyd-bwyllgor**" sef costau gweithredol a rheolaeth y Cyd-bwyllgor, (ei is-bwyllgorau a grwpiau a grëir yn unol â Chymalau 9.8 a 9.9) sy'n cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i:-9.89.9

1.2.1 costau staffio a gorbenion cysylltiedig yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i gostau a chyfrifoldebau penodi a therfynu penodiad y Cyfarwyddwr Rhaglen a phob unigolyn o fewn y Swyddfa Rhaglen;

1.2.2 rheoli prosiectau / cefnogaeth dechnegol a gweinyddol;

1.2.3 cyfathrebu;

1.2.4 Costau Cyfieithu;

1.2.5 y costau a geir gan yr Awdurdod Lletya wrth weithredu dyletswyddau’r Awdurdod Lletya yn unol â Chymalau 6 a 7; 67

1.2.6 y costau a geir gan y Cyd-bwyllgor ac/neu'r Awdurdod Lletya wrth ddatblygu'r Achos Busnes Portffolio yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i gyngor proffesiynol allanol; ac

1.2.7 heb gyfrif ddwywaith, unrhyw gyngor proffesiynol allanol arall.

1.3 Er osgoi amheuaeth, nid yw'r Costau Mewnol a Chostau'r Cyd-bwyllgor yn cynnwys unrhyw gostau refeniw na buddsoddiad cyfalaf yng nghyswllt gweithredu unrhyw brosiect sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Twf.

**ATODLEN 60**

**CYFNODAU CYFRIFYDDU**[22]

1. Y Cyfnod Cyfrifyddu cychwynnol fydd dyddiad y Cytundeb hwn hyd at 31 Mawrth ac wedi hynny:-

1 Ebrill i 31 Mawrth

2. Pob Chwarter fydd dyddiad y Cytundeb hwn hyd at 31 Mawrth ac wedi hynny:-

- 1 Ebrill i 30 Mehefin;
- 1 Gorffennaf i 30 Medi;
- 1 Hydref i 31 Rhagfyr; a
- 1 Ionawr i 31 Mawrth.

22 Finance team to please confirm.

**ATODLEN 70**

**COD YMDDYGIAD AR GYFER YMGYNGHORWYR BWRDD UCHELGAIS GOGLEDD CYMRU[23]**

1. Mae'n rhaid i chi ystyried, ym mhob mater, p'un a oes gennych fuddiant personol, a ph'un a yw'r cod ymddygiad hwn yn mynnu eich bod yn datgan y buddiant hwnnw.

2. Mae'n rhaid i chi ystyried bod gennych fuddiant personol mewn unrhyw fusnes Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru os:-

2.1 yw'n debygol o effeithio ar lesiant neu sefyllfa ariannol personau o'r fath isod i raddau ehangach na threthdalwyr eraill Gogledd Cymru:-

2.1.1 chi;

2.1.2 unrhyw un yr ydych yn byw gydag ef/hi; neu

2.1.3 unrhyw un y mae gennych gysylltiad personol agos ag ef/hi;

2.2 os yw'n gysylltiedig â'r isod, neu'n debygol o effeithio arnynt:-

2.2.1 unrhyw gyflogaeth neu fusnes a gynhelir gan berson o'r fath;

2.2.2 unrhyw unigolyn sy'n cyflogi neu sydd wedi penodi person o'r fath, unrhyw gwmni y mae person o'r fath yn bartner ynddo neu unrhyw gwmni y mae'n gyfarwyddwr taledig ar ei gyfer;

2.2.3 unrhyw gorff corfforaethol sydd â lle busnes neu dir yng Ngogledd Cymru, ac y mae gan berson o'r fath fuddiant llesiannol ynddo mewn dosbarth o warantau'r corff hwnnw sy'n fwy na gwerth enwol £25,000 neu ganfed ran o gyfanswm cyfalaf cyfrannau dyroddedig y corff hwnnw;

2.2.4 unrhyw gontract ar gyfer nwyddau, gwasanaethau neu waith a wnaed rhwng y Bwrdd Uchelgais ac:-

(a) unrhyw berson o'r fath;

(b) cwmni y mae person o'r fath yn bartner ynddo;

(c) cwmni y mae person o'r fath yn gyfarwyddwr taledig ar ei gyfer neu; neu

(d) gorff sy'n cyfateb i'r disgrifiad a roddir yn is-baragraff (iii) uchod;

2.2.5 unrhyw dir yng ngogledd Cymru:-

(a) y mae gan berson o'r fath fuddiant llesiannol ynddo; neu

(b) drwydded (ar ei ben ei hun neu ar y cyd ag eraill), i'w feddiannu am 28 diwrnod neu gyfnod hwy;

2.2.6 unrhyw dir y mae'r Bwrdd Uchelgais yn landlord ar ei gyfer ac y mae'r tenant yn:

(a) gwmni y mae person o'r fath yn bartner ynddo;

(b) cwmni y mae person o'r fath yn gyfarwyddwr taledig ar ei gyfer; neu

---

23 PM: Subject to final legal review. Is the intention for the GA Code of Conduct to refer to individuals or Corporate Bodies or both?

(c) gorff sy'n cyfateb i'r disgrifiad a roddir yn is-baragraff 2.2.3 uchod;

2.2.7 unrhyw un o’r cyrff a ganlyn y mae person o’r fath yn aelod ohono neu'n dal swydd o reolaeth gyffredinol ynddo:-

(a) awdurdod neu gorff cyhoeddus sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus;

(b) cwmni, cymdeithas ddiwydiannol neu ddarbodus, elusen, neu gorff sydd wedi'i gyfeirio at ddibenion elusennol;

(c) corff y mae ei brif ddibenion yn cynnwys dylanwadu ar farn neu bolisi cyhoeddus;

(d) undeb llafur neu gymdeithas broffesiynol; neu

(e) glwb, cymdeithas neu fudiad preifat sy'n gweithredu o fewn Gogledd Cymru.

**Datgan Buddiannau Personol**

3. Pan fydd gennych fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef a'ch bod yn bresennol mewn cyfarfod lle mae'r busnes hwnnw'n cael ei ystyried, mae'n rhaid i chi ddatgan bodolaeth a natur y buddiant hwnnw cyn neu ar ddechrau'r ystyriaeth honno, neu pan ddaw'r buddiant yn amlwg.

4. Pan fydd gennych fuddiant personol mewn unrhyw fusnes eich awdurdod a'ch bod yn cyflwyno sylwadau ysgrifenedig neu ar lafar i aelod neu swyddog o’r Bwrdd Uchelgais, yna mae’n rhaid i chi:-

4.1 gynnwys manylion y buddiant hwnnw yn y cyfathrebiad ysgrifenedig; neu

4.2 ddatgan y buddiant ar ddechrau sylwadau o'r fath, neu pan ddaw'n amlwg i chi bod gennych fuddiant.

5. Mae'n rhaid i chi, o ran buddiant personol na ddatgelwyd yn flaenorol, cyn neu'n union ar ôl diwedd cyfarfod lle y gwnaed y datgeliad, roi hysbysiad ysgrifenedig i Swyddog Monitro’r Bwrdd Uchelgais ar y ffurflen a ddynodir ganddo ef/hi yn cynnwys:-

5.1 manylion y buddiant personol;

5.2 manylion y busnes y mae'r buddiant personol yn ymwneud ag ef; ac

5.3 eich llofnod.

6. Ac eithrio’r hyn a ddarperir ym mharagraff 7 isod, bydd buddiant personol hefyd yn fuddiant sydd yn rhagfarnu os yw'r buddiant yn un y byddai'n rhesymol i aelod o'r cyhoedd sy'n ymwybodol o'r ffeithiau perthnasol fod o'r farn ei fod mor arwyddocaol fel y bydd yn debygol o ragfarnu eich barn ynghylch budd y cyhoedd.

7. Ni ystyrir bod gennych fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes os nad yw'r busnes hwnnw yn ymwneud â phenderfynu ar unrhyw gymeradwyaeth, cydsyniad, trwydded, caniatâd neu gofrestriad ac:-

7.1 Mae’n ymwneud â'r isod:-

7.1.1 awdurdod cyhoeddus neu gorff cyhoeddus arall sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus yr ydych yn dal swydd reolaeth gyffredinol ynddo;

7.1.2 corff y cawsoch eich ethol, eich penodi neu eich enwebu iddo gan y Bwrdd Uchelgais;

7.1.3 eich rôl fel llywodraethwr ysgol (os na chawsoch eich penodi neu eich enwebu gan awdurdod sydd yn aelod o’r Bwrdd Uchelgais) oni bai ei fod yn ymwneud yn benodol â'r ysgol yr ydych yn llywodraethwr arni;

7.1.4 eich rôl fel aelod o Fwrdd Iechyd Lleol os na chawsoch eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod sydd yn aelod o’r Bwrdd Uchelgais; neu

7.1.5 oddieithr na ystyrir buddiant yn fuddiant personol nac yn rhagfarnu lle mae’n gysylltiedig â’r Parti sydd wedi penodi’r Ymgynghorydd i’r Cyd-bwyllgor, neu'n debygol o effeithio ar y Parti hwnnw.

7.2 Mae’n ymwneud â'r isod:-

7.2.1 swyddogaethau tai awdurdod sydd yn aelod o’r Bwrdd Uchelgais lle mae gennych denantiaeth neu brydles gyda'ch awdurdod, ar yr amod nad oes gennych ôl-ddyledion rhent o fwy na dau fis gyda'ch awdurdod, ac ar yr amod nad yw'r swyddogaethau hynny'n ymwneud yn benodol â'ch tenantiaeth neu'ch prydles; neu

7.2.2 swyddogaethau awdurdod sydd yn aelod o’r Bwrdd Uchelgais o ran costau prydau ysgol, trafnidiaeth a theithio, os ydych chi'n warcheidwad, yn rhiant neu’n rhiant-cu neu'n meddu ar gyfrifoldeb rhiant (fel y'i diffinnir yn Adran 3 Deddf Plant 1989) am blentyn sydd mewn addysg amser llawn, oni bai ei fod yn ymwneud yn benodol â'r ysgol y mae'r plentyn hwnnw/honno'n mynd iddi.

7.3 Lle mae’n gysylltiedig â’r Parti sydd wedi penodi’r Ymgynghorydd i’r Cyd-bwyllgor, neu'n debygol o effeithio ar y Parti hwnnw.

**Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu**

8. Hefyd, bydd gennych fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes a gyflwynir gerbron un o bwyllgorau trosolwg a chraffu eich awdurdod (neu un o is-bwyllgorau pwyllgor o'r fath):-

8.1 pan fo'r busnes hwnnw'n ymwneud â phenderfyniad a wnaed (p’un a'i gweithredwyd ai peidio) neu gam a gymerwyd gan y Bwrdd Uchelgais neu un arall o’i bwyllgorau, ei is-bwyllgorau, ei gyd-bwyllgorau neu ei is-gydbwyllgorau; ac

8.2 ar yr adeg y gwnaed y penderfyniad neu y cymerwyd y cam, yr oeddech chi'n Ymgynghorwr i’r Bwrdd Uchelgais, pwyllgor, is-bwyllgor, cyd-bwyllgor neu is-gydbwyllgor AC yn bresennol pan wnaed y penderfyniad hwnnw neu y cymerwyd y cam hwnnw.

**Cyfranogiad mewn perthynas â Buddiannau a Ddatgelwyd**

9. Pan fydd gennych fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes y Bwrdd Uchelgais, mae'n rhaid i chi, oni bai eich bod wedi cael goddefeb gan Bwyllgor Safonau’r Awdurdod Arweiniol;-

9.1 fynd allan o'r ystafell, y siambr neu'r man lle y mae cyfarfod sy'n ystyried y busnes yn cael ei gynnal:-

9.1.1 lle mae is-baragraff (ii) isod yn berthnasol, yn union ar ôl i'r cyfnod ar gyfer gwneud sylwadau, ateb cwestiynau neu roi tystiolaeth ynglŷn â'r busnes wedi dod i ben a, sut bynnag, cyn i ystyriaeth bellach o'r busnes ddechrau, p’un a ganiateir i'r cyhoedd aros yn y cyfarfod ar gyfer ystyriaeth o'r fath ai peidio; neu

9.1.2 mewn unrhyw achos arall, pryd bynnag y daw'n amlwg bod y busnes yn cael ei ystyried yn y cyfarfod hwnnw;

9.2 peidio ag arfer swyddogaethau’r Bwrdd Uchelgais o ran y busnes hwnnw;

9.3 peidio â cheisio dylanwadu ar benderfyniad ynglŷn â'r busnes hwnnw;

9.4 peidio â gwneud unrhyw sylwadau ysgrifenedig (boed hynny drwy lythyr, ffacs neu ryw fath arall o gyfathrebu electroneg) mewn perthynas â'r busnes hwnnw oni bai bod gan y cyhoedd yr hawl i wneud hynny; a

9.5 pheidio â gwneud unrhyw sylwadau llafar (boed hynny'n bersonol neu drwy ryw fath o gyfathrebu electroneg) mewn perthynas â'r busnes hwnnw neu roi'r gorau ar unwaith i wneud sylwadau llafar o'r fath pan ddaw'r buddiant sy'n rhagfarnu i'r amlwg oni baid bod gan y cyhoedd yr hawl i wneud hynny.

10. Pan fydd gennych fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef, cewch fynychu cyfarfod er mwyn cyflwyno sylwadau, ateb cwestiynau neu roi tystiolaeth yn ymwneud â'r busnes yn unig, cyn belled ag y caniateir i'r cyhoedd fynychu'r cyfarfod hefyd at yr un diben, boed hynny o dan hawl statudol neu fel arall.

11. Nid yw paragraff 12 yn eich atal rhag mynychu a chymryd rhan mewn cyfarfod:-12

11.1 os gofynnir i chi fynychu cyfarfod pwyllgor trosolwg a chraffu, gan bwyllgor o'r fath sy'n arfer ei bwerau statudol;

11.2 os ydych yn mynychu cyfarfod er mwyn cyflwyno sylwadau, ateb cwestiynau neu roi tystiolaeth yn ymwneud â'r busnes yn unig, cyn belled ag y caniateir i'r cyhoedd fynychu'r cyfarfod hefyd at yr un diben, boed hynny o dan hawl statudol neu fel arall; neu

11.3 os oes gennych oddefeb cyn belled â'ch bod:-

11.3.1 yn datgan yn y cyfarfod eich bod yn dibynnu ar yr oddefeb; a

11.3.2 chyn neu yn union ar ôl i'r cyfarfod orffen, eich bod yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'ch awdurdod sy'n cynnwys:-

(a) manylion y buddiant sy'n rhagfarnu;

(b) manylion y busnes y mae'r buddiant sy'n rhagfarnu yn ymwneud ag ef;

(c) manylion yr oddefeb a'r dyddiad y'i caniatawyd; ac

(d) eich llofnod.

12. Pan fydd gennych fuddiant sy'n rhagfarnu a'ch bod yn gwneud sylwadau ysgrifenedig neu lafar i’r Bwrdd Uchelgais gan ddibynnu ar oddefeb, mae'n rhaid i chi gynnwys manylion yr oddefeb mewn unrhyw sylwadau ysgrifenedig neu lafar o'r fath ac, yn yr achos olaf, roi hysbysiad ysgrifenedig i'r Bwrdd Uchelgais o fewn 14 diwrnod o wneud y sylwadau.

## ATODLEN 12

## ADRODDIAD CYFRIFOLDEBAU

Bydd yr Adroddiad Cyfrifoldebau yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) wariant anadferadwy a geir ac a ymrwymir mewn perthynas â'r isod:

| | **Swm** (yr holl ffigyrau mewn punnoedd cyfan) |
|---|---|
| Unrhyw gostau ymrwymedig yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r rheini sydd wedi'u nodi yng Nghymal 19.5 (Tynnu'n Ôl)**Error! Reference source not found.** | |
| Costau Caffael | |
| Costau sy'n gysylltiedig ag oedi a gorfod ailymweld ag unrhyw gaffaeliadau (yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i gost cyngor cyfreithiol, ariannol a thechnegol) | |
| Costau tir - y costau sy'n gysylltiedig ag adnabod a chaffael tir | |
| Costau staffio (a gorbenion cysylltiedig) wrth fwrw ymlaen â'r cynllun:-<br>a) Ffioedd Ymgynghoriaeth / Ymgynghorwyr<br>b) Rheoli a Monitro'r Prosiect yn fewnol<br>c) Cyngor proffesiynol allanol | |
| Yr holl gostau a cholledion rhesymol ac a godir yn briodol (i gynnwys cost paratoi'r Adroddiad Cyfrifoldebau) | |
| Unrhyw gostau, hawliadau neu iawndal sy'n codi o unrhyw drydydd parti mewn perthynas ag unrhyw gostau sy'n ymwneud ag unrhyw oedi neu'n codi o'r terfynu | |

Tystiwyd yn Gywir ______________________________ ___________________________
(Llofnod) (Dyddiad)

**ATODLEN 90**

**GWELEDIGAETH TWF[24]**

24 PM: Growth Vision for the Economy of North Wales to be appended to this Agreement.

**ATODLEN 100**

**CYNLLUN BUSNES CYFFREDINOL**

**ATODLEN 11**

# POLISI GWRTHDARO

**DYDDIAD**

------------

**BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**

**POLISI BUDDIANNAU SY'N GWRTHDARO**[25]

25 PM: This remains subject to final client comments re scrutiny and final legal review on interface with the codes of conduct.

**POLISI GWRTHDARO**

**DYDDIAD**

------------

**BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**

**POLISI GWRTHDARO BUDDIANNAU**

## 1. Cyflwyniad

1.1 Dyma bolisi gwrthdaro buddiannau ("**Polisi Gwrthdaro**") Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ("**y Bwrdd Uchelgais**") sy'n pennu'r canllawiau a gweithdrefnau ar gyfer adnabod achosion o wrthdaro buddiannau, eu monitro a'u rheoli, p'un a ydynt yn rhai go iawn neu'n rhai a allai ddigwydd.

1.2 Nod y Polisi Gwrthdaro yw amlygu dau beth:

(a) Buddiannau Personol (a ddiffinnir ym mharagraff [x]); a

(b) Buddiannau Sefydliadol sydd a wnelont ag achosion penodol o wrthdaro a gyfyd o ganlyniad i ddyletswydd unigolyn i weithredu er pennaf les y Bwrdd Uchelgais a'r corff sy'n ei gyflogi/drefnu (a ddiffinnir ym mharagraff [x]);

gyda'i gilydd "**Buddiannau**".

1.3 Mae'r Polisi Gwrthdaro'n berthnasol i aelodau ac ymgynghorwyr **Cyrff y Bwrdd Uchelgais** fel y'u rhestrir yn Atodlen 1 y Polisi Gwrthdaro hwn, a phob un ohonynt yn "**Unigolyn**" .

1.4 Mae'r Polisi Gwrthdaro:

(a) yn un o'r amodau wrth benodi pob Unigolyn i Gorff y Bwrdd Uchelgais (penodiadau presennol ac yn y dyfodol);

(b) yn cael ei dderbyn gan bawb sy'n ymgymryd â phob swyddogaeth;

(c) mewn grym o'r dyddiad sydd ar glawr y Polisi Gwrthdaro hwn; a

1.5 Bwriedir atodi'r Polisi Gwrthdaro fel Atodlen i'r ail Gytundeb Llywodraethu ("**GA2**") sydd i'w sefydlu rhwng y Partïon.

## 2. Pwrpas y polisi hwn

2.1 Mae'r Bwrdd Uchelgais yn Gydbwyllgor Awdurdod Lleol a ffurfiwyd fel rhan o bartneriaeth rhwng Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru (y Cynghorau) a chyrff eraill (yr Ymgynghorwyr) a restrir yn Atodlen 1 y Polisi Gwrthdaro hwn.

2.2 Pennir ei egwyddorion a'i drefniadau llywodraethu yn y Cytundeb Llywodraethu cyntaf ("**GA1**") a gaiff ei ddiwygio a'i ddisodli gan GA2 tua'r un pryd ag y bwriedir llofnodi'r Cynllun Twf ddiwedd 2020.

2.3 Mae'n gorff cyhoeddus sy'n gweinyddu a chyfarwyddo adnoddau ac arian cyhoeddus er budd y cyhoedd. Mae'n arfer a hyrwyddo'r safonau uchaf o ran gonestrwydd ac atebolrwydd yn ei weithgareddau. Llywodraethir y Cynghorwyr gan y Codau Ymddygiad lleol ar gyfer aelodau Awdurdodau Lleol sy'n cynnwys rheoli Buddiannau Personol, ymysg materion eraill, ac ar gyfer Ymgynghorwyr y Cyd-bwyllgor wrth iddynt gyflawni'r swyddogaeth honno, bydd y Cod Ymddygiad gwirfoddol ynghylch Buddiannau Personol a oedd wedi'i gynnwys yn GA1 yn cael ei gynnwys hefyd yn GA2. Mae Swyddogion yr Awdurdodau Lleol hefyd yn rhwym i'w Codau Ymddygiad a fydd yn gyffredinol yn berthnasol i'w hymddygiad. Mae'r Polisi Gwrthdaro'n rheoleiddio swyddogaeth pob Unigolyn yng Nghyrff y Bwrdd Uchelgais a bwriedir iddo ategu'r

Codau Ymddygiad hyn a gweithio ochr-yn-ochr â hwy. Pe cyfyd unrhyw anghysondeb, dylid hysbysu Swyddog Monitro'r Bwrdd Uchelgais yn ddiymdroi.

2.4 Gall gwrthdaro buddiannau lesteirio trafodaethau agored a gall arwain at Unigolyn yn cymryd materion amherthnasol i ystyriaeth, neu wneud penderfyniadau nad ydynt er pennaf les y cyhoedd. Gallant hefyd amharu ar enw da'r Bwrdd Uchelgais os ymddengys bod Unigolyn dan ddylanwad buddiannau neu deyrngarwch personol ac mewn rhai amgylchiadau greu risg o her gyfreithiol i benderfyniad. Rhaid i bob Unigolyn, felly, fod yn ymwybodol o'r posibilrwydd y gall gwrthdaro buddiannau effeithio arnynt hwy neu unrhyw aelod arall o'r Bwrdd Uchelgais.

2.5 Mae'r Bwrdd Uchelgais wedi cydnabod fod y dull o weithio mewn partneriaeth ac ar y cyd ag amryw sectorau o'r economi yng ngogledd Cymru'n golygu y bydd achosion yn codi lle bydd gan aelodau, ymgynghorwyr neu gyfranogwyr mewn cyfarfodydd ac ymgynghoriadau eu buddiannau busnes neu fasnachol eu hunain yn y mater dan sylw. Gallai hynny danseilio eu gallu i weithredu er budd y cyhoedd, neu danseilio'r canfyddiad o'u gallu i weithredu er budd y cyhoedd, a hynny er anfantais i'r Bwrdd Uchelgais.

2.6 Bydd y gweithdrefnau yn y polisi hwn yn galluogi adnabod a rheoli achosion o wrthdaro Buddiannau.

2.7 Bod y Polisi Gwrthdaro hwn:-

(a) â'r nod o'ch cynorthwyo wrth adnabod a chydnabod achosion o wrthdaro buddiannau a all godi o ganlyniad i'ch rôl ar un o gyrff y Bwrdd Uchelgais; ac

(b) yn nodi gofynion a disgwyliadau'r Bwrdd Uchelgais ynglŷn â sut y dylid rheoli achosion o'r fath, er mwyn sicrhau nad yw gwrthdaro buddiannau'n eu hatal rhag gwneud penderfyniadau er budd y cyhoedd a diogelu'r Bwrdd Uchelgais a Thîm y Bwrdd Uchelgais rhag unrhyw argraff o amhriodoldeb lle cyfyd unrhyw achos o wrthdaro buddiannau.

2.8 Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau eich bod wedi darllen y Polisi Gwrthdaro hwn, yn ei ddeall ac yn medru cydymffurfio ag ef.

## 3. Adnabod Buddiant Personol

Mae'n rhaid i chi ystyried bod gennych Fuddiant Personol mewn unrhyw fusnes Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yr ydych yn cyfranogi ynddo fel aelod o Gorff y Bwrdd Uchelgais neu'n cynghori'r corff hwnnw:-

3.1 os yw'n effeithio neu'n debygol o effeithio ar les neu sefyllfa ariannol yr unigolion isod i raddau ehangach na threthdalwyr eraill gogledd Cymru:-

(a) chi;

(b) unrhyw un yr ydych yn byw gydag ef/hi; neu

(c) unrhyw un y mae gennych "gysylltiad personol agos" ag ef/hi;

3.2 os yw'n gysylltiedig ag unrhyw un o'r isod yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, neu'n debygol o effeithio arnynt yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol:-

(a) unrhyw gyflogaeth neu fusnes a gynhelir gan unigolyn o'r fath;

(b) unrhyw unigolyn sy'n cyflogi neu sydd wedi penodi rhywun o'r fath, unrhyw gwmni mae unigolyn o'r fath yn bartner ynddo neu unrhyw gwmni y mae'n gyfarwyddwr taledig ar ei gyfer;

(c) unrhyw gorff corfforaethol sydd â lle busnes neu dir yng ngogledd Cymru, ac y mae gan berson o'r fath fuddiant llesiannol ynddo mewn dosbarth o warantau'r corff hwnnw sy'n fwy na gwerth enwol £25,000 neu ganfed ran o gyfanswm cyfalaf cyfrannau dyroddedig y corff hwnnw;

(d) unrhyw gontract ar gyfer nwyddau, gwasanaethau neu waith a wnaed rhwng y Bwrdd Uchelgais ac:-

(i) unrhyw unigolyn o'r fath;

(ii) cwmni y mae unigolyn o'r fath yn bartner ynddo;

(iii) cwmni y mae unigolyn o'r fath yn gyfarwyddwr taledig ar ei gyfer; neu

(iv) gorff sy'n cyfateb i'r disgrifiad a roddir yn is-baragraff 2.2.3 uchod;

(e) unrhyw dir yng ngogledd Cymru:-

(i) y mae gan unigolyn o'r fath fuddiant llesiannol ynddo; neu

(ii) y mae gan yr unigolyn drwydded (yn unigol neu ar y cyd ag eraill) i'w feddiannu am 28 diwrnod neu gyfnod hwy;

(f) unrhyw dir y mae'r Bwrdd Uchelgais yn landlord ar ei gyfer ac y mae'r tenant yn:

(i) gwmni y mae unigolyn o'r fath yn bartner ynddo;

(ii) cwmni y mae unigolyn o'r fath yn gyfarwyddwr taledig ar ei gyfer; neu

(iii) gorff sy'n cyfateb i'r disgrifiad a roddir yn is-baragraff 2.2.3 uchod;

(g) unrhyw un o'r cyrff a ganlyn y mae unigolyn o'r fath yn aelod ohono neu'n dal swydd o reolaeth gyffredinol ynddo:-

(i) cwmni, cymdeithas ddiwydiannol neu ddarbodus, elusen, neu gorff sydd wedi'i gyfeirio at ddibenion elusennol;

(ii) corff y mae ei brif ddibenion yn cynnwys dylanwadu ar farn neu bolisi cyhoeddus;

(iii) undeb llafur neu gymdeithas broffesiynol; neu

(iv) glwb, cymdeithas neu fudiad preifat sy'n gweithredu yng ngogledd Cymru,

a phob un yn "**Fuddiant Personol**".

Dehonglir "Cysylltiad Personol Agos" yn unol â darpariaethau Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) 2008. Os cyfyd ansicrwydd a yw unigolyn yn gysylltiedig ai peidio, dylai pob unigolyn geisio cyngor gan Swyddog Monitro'r Bwrdd Uchelgais.

## 4. Adnabod Buddiant Sefydliadol

4.1 Wrth ichi gyflawni eich swyddogaethau ar gyfer y Bwrdd Uchelgais a'ch cyflogwr neu'ch sefydliad, rhagwelir y cyfyd sefyllfaoedd lle bydd eich dyletswydd i weithredu'n unol ag Egwyddorion Cyffredinol y Bwrdd Uchelgais fel y'u pennir yn GA2 ac er budd y cyhoedd yn gwrthdaro'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, neu'n debygol o wneud, gyda'ch dyletswydd i weithredu er pennaf les eich sefydliad.

4.2 Gall gwrthdaro godi mewn amrywiaeth helaeth o sefyllfaoedd, gan gynnwys penderfyniadau ynglŷn ag adroddiadau, trafodaethau cytundebol a cheisiadau am fuddsoddiad, ymysg pethau eraill.

4.3 Ceir enghreifftiau o'r fath wrthdaro isod:-

*Enghraifft 2*

*(a) Bydd gennych Fuddiant Sefydliadol mewn unrhyw fater a ddaw gerbron y Bwrdd Rhaglen yr ydych yn aelod ohono neu'n ei gynghori: os oes a wnelo'r mater ag adolygu neu graffu ar berfformiad eich sefydliad chi'n benodol wrth gyflawni prosiect neu agwedd ar brosiect y mae wedi ymrwymo i'w gyflawni drwy gontract neu grant.*

*(b) Bydd gennych Fuddiant Sefydliadol mewn unrhyw fater a ddaw gerbron corff y Bwrdd Uchelgais os yw eich sefydliad chi'n bidio am gontract y mae ei fod yn cael ei werthuso neu ei ddyfarnu gan y corff hwnnw*

4.4 Er bod y gwrthdaro buddiannau'n amlwg yn yr enghreifftiau uchod, gallai sefyllfaoedd godi pan nad yw pethau mor eglur. Chi sy'n gyfrifol am adnabod lle mae Buddiannau o'r fath wedi codi, neu lle gallant godi.

4.5 Pe byddech chi'n methu â phenderfynu a oes Buddiant Personol neu Sefydliadol sy'n berthnasol i'r mater dan sylw, dylech gyfeirio'r mater at Swyddog Monitro'r Bwrdd Uchelgais.

## 5. Y weithdrefn ar gyfer asesu a yw Buddiant yn creu Gwrthdaro

Er mwyn penderfynu a yw Buddiant yn creu "**Gwrthdaro Buddiannau**", dylid dilyn y camau a ganlyn:

### 5.1 Cam Un - Eithriadau

Oes unrhyw rai o'r Eithriadau'n berthnasol? Os oes gennych Fuddiant Personol neu Sefydliadol mewn unrhyw fusnes gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, ceir cydnabyddiaeth a chytundeb nad yw hynny'n golygu Gwrthdaro Buddiannau yn yr achosion a ganlyn:

(a) lle'r ydych yn mynychu ac yn gwneud cyfraniadau i unrhyw gorff neu gyfarfod lle nad ydych chi'n benderfynwr nac ymgynghorydd, ond yn hytrach yn bresennol drwy wahoddiad er mwyn cynrychioli'ch sefydliad neu wneud cyfraniadau neu gyfranogi fel arall mewn unrhyw broses ar ran eich sefydliad.

(b) lle mae natur y Gwrthdaro Buddiannau'n golygu ei fod yn gyffredin i'r rhan helaeth o'r busnes a chynrychiolwyr eraill y sector yr ydych yn rhan ohono.

a phob un yn "**Eithriad**".

**5.2 Cam Dau - Prawf Gwrthrychol**

(a) Os nad yw'r un o'r Eithriadau uchod yn berthnasol, dylech ystyried a yw'r Buddiant dan sylw yn debygol o amharu'n arwyddocaol ar eich penderfyniadau. Dylid gwneud hynny drwy ddefnyddio'r "Prawf Gwrthrychol" a ganlyn:-

> **'***A fyddai'n rhesymol i aelod o'r cyhoedd, sy'n ymwybodol o'r ffeithiau perthnasol, ddod i'r casgliad bod y Buddiant mor arwyddocaol fel ei fod yn debygol o ragfarnu eich cyfraniadau neu'ch penderfyniadau?'*

(b) Os mai'r ateb yw y byddai'n rhesymol, rhaid ichi ddatgan y Gwrthdaro Buddiannau i'r Swyddog Monitro'n ddiymdroi, yn ogystal â datgan y Gwrthdaro Buddiannau ymhob cyfarfod Bwrdd lle trafodir y mater dan sylw. Gweler paragraff [x] ynglŷn â'r goblygiadau ychwanegol a ddaw yn sgil Gwrthdaro Buddiannau.

(c) Os oes gennych Fuddiant Personol neu Sefydliadol nad yw'n bodloni'r Prawf Gwrthrychol, neu os ydych yn ansicr a fodlonwyd y prawf, rhaid ichi ddatgan y Gwrthdaro Buddiannau i'r Swyddog Monitro'n ddiymdroi, yn ogystal â datgan y Gwrthdaro Buddiannau ymhob cyfarfod bwrdd lle trafodir y mater dan sylw. Dylech ddarparu rhesymau dros gredu na fodlonwyd y Prawf Gwrthrychol.

**5.3 Cam Pedwar - Monitro**

Pe byddai materion ychwanegol yn codi a fyddai'n newid natur neu arwyddocâd y gwrthdaro, dylech ymdrechu naill ai i dynnu'n ôl yn llwyr o'r trafodaethau sydd a wnelont â mater y gwrthdaro a/neu wneud datgeliad pellach i'r Bwrdd yn unol â cham tri uchod (fel y bo'n briodol).

**6. Y broses ar gyfer datgan gwrthdaro**

6.1 Bydd yr eitem gyntaf ar raglen pob cyfarfod yn eitem sefydlog sy'n gofyn i bob Unigolyn sy'n bresennol ddatgan unrhyw Fuddiannau, p'un a ydynt o'r farn bod y Buddiant hwnnw'n creu Gwrthdaro Buddiannau, neu y gallai wneud hynny, neu beidio.

6.2 Os yw Unigolyn o'r farn fod ganddo/ganddi Fuddiant sy'n Gwrthdaro neu y gallai fod ganddo/ganddi, rhaid iddo/iddi hysbysu'r cadeirydd cyn gynted â phosib, a phob amser cyn trafod y mater dan sylw. Wrth ddatgan unrhyw Fuddiant sy'n creu Gwrthdaro Buddiannau rhaid manylu ynghylch ei natur a'i arwyddocâd.

6.3 Os oes Parti'n ansicr a yw eu buddiannau'n gwrthdaro neu beidio, rhaid iddynt roi pob blaenoriaeth i bwyll a thryloywder a datgan y Buddiant, a bydd paragraff [x] uchod yn berthnasol.

6.4 Rhaid cofnodi pob Gwrthdaro Buddiannau a ddatganir yng nghofnodion y cyfarfod lle gwneir y datganiad, neu os datganir y gwrthdaro y tu allan i'r cyfarfod, yng nghofnodion y cyfarfod dilynol.

6.5 Os oes gan Unigolyn Fuddiant mewn unrhyw weithrediad neu drefniant y mae'r Bwrdd Uchelgais eisoes wedi ymrwymo iddo ond heb ddatgan y Buddiant hwnnw, rhaid iddo/iddi ddatgan natur ac arwyddocâd y Buddiant hwnnw cyn gynted ag y mae'n ymarferol bosib.

**7. Goblygiadau Gwrthdaro Buddiannau**

7.1 Os penderfynwch fod gennych Fuddiant sy'n Gwrthdaro a'i fod yn bodloni'r Prawf Gwrthrychol, rhaid ichi:

(a) beidio â gwneud unrhyw sylwadau llafar neu ysgrifenedig (boed hynny yn y fan a'r lle neu drwy ryw fath o gyfathrebu electronig) mewn perthynas â'r busnes hwnnw;

(b) sicrhau nad ydych chi'n cymryd rhan mewn unrhyw drafodaethau sydd a wnelont â thestun y gwrthdaro, nac yn dylanwadu arnynt mewn unrhyw ffordd;

(c) yn ymadael â'r cyfarfod yn ystod y rhan lle trafodir testun y gwrthdaro, a phan gynhelir unrhyw bleidlais ar y mater hwnnw; ac

(d) ni fyddwch yn cyfrif tuag at gworwm ar gyfer y fath bleidlais ac ni fydd gennych hawl i bleidleisio ar y mater.

7.2 Rhaid i gofnodion y cyfarfod perthnasol gynnwys cofnod o natur ac arwyddocâd y buddiant, braslun o'r drafodaeth a'r camau gweithredu a gymerwyd i reoli'r gwrthdaro.

7.3 Rhaid ceisio cyngor y Swyddog Monitro ymhob achos.

**8. Datgan a Chofrestru Buddiannau gan ddarpar Bartïon**

8.1 Mae gan bob Unigolyn yn Nhîm y Bwrdd Uchelgais gyfrifoldeb personol i ddatgan unrhyw Fuddiant y byddai'n rhesymol i ystyried y gallai greu gwrthdaro.

8.2 Cyn penodi darpar Barti i Dîm y Bwrdd Uchelgais gellid gofyn iddynt adnabod Gwrthdaro Buddiannau posib.

8.3 Os yw'r Partïon eraill o'r farn y byddai'r darpar Barti'n destun Gwrthdaro Buddiannau difrifol neu fynych, dylai'r Partïon ystyried a yw'n briodol bwrw ymlaen â'r penodiad.

8.4 Os yw Unigolyn yn ymuno â Thîm y Bwrdd Uchelgais rhaid iddo/iddi gadarnhau ei fod/bod yn derbyn y Polisi Gwrthdaro hwn ac y bydd yn cydymffurfio ag ef (gan sicrhau fod cynrychiolwyr yn gwneud hynny hefyd).

8.5 Swyddog Monitro'r Bwrdd Uchelgais a fydd yn gyfrifol am gadw'r Gofrestr Buddiannau, a bydd yn cofnodi yn y gofrestr honno unrhyw wrthdaro, Buddiannau, rhoddion a lletygarwch a ddatganir gan bob Unigolyn; a

## 9. Monitro'r Polisi Gwrthdaro hwn, ei orfodi a'i adolygu.

Rhaid i unrhyw Unigolyn a ddaw'n ymwybodol o unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth â'r Polisi Gwrthdaro hwn hysbysu'r Swyddog Monitro cyn gynted ag y bo modd, a bydd y Swyddog Monitro'n penderfynu pa gamau gweithredu sydd eu hangen mewn ymateb.

## ATODLEN 1

## RHESTR O GYNGHORAU AC YMGYNGHORWYR Y BWRDD UCHELGAIS

**"Cynghorau"** sef:-

(a) Cyngor Conwy;

(b) Cyngor Sir Ddinbych;

(c) Cyngor Sir y Fflint;

(d) Cyngor Gwynedd;

(e) Cyngor Sir Ynys Môn; a

(f) Chyngor Wrecsam

"**Ymgynghorwyr**" sef y cyrff a'r unigolion hynny sydd wedi'u rhestru isod ynghyd ag unrhyw unigolion a/neu gyrff eraill y mae'r Cyd-bwyllgor yn dewis eu gwahodd yn y rhinwedd hwnnw o bryd i'w gilydd:-

(a) Prifysgol Bangor;

(b) Coleg Cambria;

(c) Grŵp Llandrillo Menai;

(d) Prifysgol Glyndŵr Wrecsam; a'r

(e) Bwrdd Cyflawni Busnes.

"**Cyrff y Bwrdd Uchelgais**" sef y cyrff a'r unigolion hynny sydd wedi'u rhestru isod ynghyd ag unrhyw gyrff eraill y mae'r Cyd-bwyllgor yn pennu y dylai'r Polisi fod yn berthnasol iddynt:-

(a) Y Grŵp Cefnogaeth Weithredol

(b) Bwrdd Rhaglen

(c) Bwrdd Prosiect;

**ATODLEN 12**

**LLYTHYR CYNNIG GRANT**[26]

26 To be attached. Final deal once developed to be considered to include whether any additional provision needed in this Agreement for any additional asks that the Councils are asking from HMT/WG.

**FEL Y TYSTIWYD**, mae'r Cytundeb hwn wedi'i gyflawni fel Gweithred ar y dyddiad a ysgrifennwyd ar ddechrau'r Cytundeb hwn yng ngŵydd y rheini sydd wedi'u nodi.

**AS WITNESSED** this Agreement has been executed as a Deed on the date written at the beginning of this Agreement in the presence of those stated.

Gosodwyd Sêl Gyffredin **CYNGOR** )
**BWRDEISTREF SIROL CONWY** )
at hynny yng ngŵydd: - )
The Common Seal of **CONWY COUNTY** )
**BOROUGH COUNCIL** was )
hereunto affixed in the presence of: - )

Gosodwyd Sêl Gyffredin )
**CYNGOR SIR DDINBYCH** )
at hynny yng ngŵydd:- )
The Common Seal of **DENBIGHSHIRE** )
**COUNTY COUNCIL** was
hereunto affixed in the presence of:-

Gosodwyd Sêl Gyffredin )
**CYNGOR SIR Y FFLINT** )
at hynny yng ngŵydd:- )
The Common Seal of **FLINTSHIRE** )
**COUNTY COUNCIL** was )
hereunto affixed in the presence of:- )

Gosodwyd Sêl Gyffredin )
**CYNGOR GWYNEDD** )
at hynny yng ngŵydd:- )
The Common Seal of **GWYNEDD** )
**COUNCIL** was )
hereunto affixed in the presence of:- )

Gosodwyd Sêl Gyffredin )
**CYNGOR SIR YNYS MÔN** )
at hynny yng ngŵydd:- )
The Common Seal of **THE ISLE OF** )
**ANGLESEY COUNTY COUNCIL** was )
hereunto affixed in the presence of:- )

Gosodwyd Sêl Gyffredin **CYNGOR** )
**BWRDEISTREF SIROL WRECSAM** )
at hynny yng ngŵydd:- )
The Common Seal of **WREXHAM** )
**COUNTY BOROUGH COUNCIL** was )
hereunto affixed in the presence of:- )

| | |
|---|---|
| Gosodwyd Sêl Gyffredin | |
| **PRIFYSGOL BANGOR** drwy hyn yn unol â'i herthyglau cwmni:- | (1)…………………………………………… |
| | (AELOD O'R CYNGOR/MEMBER OF COUNCIL) |
| The Common Seal of the **BANGOR UNIVERSITY** | |
| was hereby affixed in accordance with its Articles of | …………………………………………… |
| | (PRINTIWCH ENW/PRINT NAME) |
| Association | |
| | (2)…………………………………………… |
| | (AELOD O'R CYNGOR/MEMBER OF COUNCIL) |
| | …………………………………………… |
| | (PRINTIWCH ENW/PRINT NAME) |
| | (3)…………………………………………… |
| | (COFRESTRYDD/ YSGRIFENNYDD) (REGISTRAR/SECRETARY) |
| | …………………………………………… |
| | (PRINTIWCH ENW/PRINT NAME) |

yng ngŵydd
In the presence of ……..……………………….)
Enw Tyst
Witness name ………………………………..….)
Llofnod Tyst
Witness signature ……………………………...)
Cyferiad Tyst

Witness address

Gosodwyd Sêl Gyffredin )

**PRIFYSGOL GLYNDŴR** )
at hynny yng ngŵydd:- )
The Common Seal of )
**GLYNDŴR UNIVERSITY** was )
hereunto affixed in the presence of:- )

Llofnodwyd fel gweithred ar ran )
**COLEG CAMBRIA** )
Signed as a deed on behalf of )
**COLEG CAMBRIA** by:-
yng ngŵydd )
in the presence of
Enw Tyst )
Witness name
Llofnod Tyst )
Witness signature
Cyferiad Tyst )

Witness address )

Llofnodwyd fel gweithred ar ran )
**GRŴP LLANDRILLO MENAI** )
Signed as a deed on behalf of **GRŴP** )
**LLANDRILLO MENAI** by:-
yng ngŵydd )
in the presence of
Enw Tyst )
Witness name
Llofnod Tyst )
Witness signature
Cyferiad Tyst )

Witness address )

# Asesiad Cenedlaethau'r Dyfodol a Themâu Trawsbynciol

| SUT MAE'R CYNNIG YN CYD-FYND Â'R NODAU LLESIANT? | | |
|---|---|---|
| **Nod Llesiant** | **Sut mae'r cynnig yn cyd-fynd â'r nodau llesiant? (Nodwch unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol)** | **Pa gamau sydd wedi / sydd angen eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i wella'r effaith cadarnhaol?** |
| **Cymru ffyniannus**<br>Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas. | + Bydd y portffolio yn creu rhai miloedd o swyddi newydd i Ogledd Cymru<br>+ Bydd hefyd yn hyfforddi busnesau ac unigolion, ac yn ehangu'r gofod ar gyfer hyfforddi, deori, ymchwil a datblygu<br>+ Mae'r portffolio yn cryfhau arweinyddiaeth Gogledd Cymru ym maes technolegau carbon isel ar draws y sector gweithgynhyrchu gwerth uchel (biotechnoleg, technoleg cell hydrogen), bwyd-amaeth (amaeth carbon niwtral), trafnidiaeth a chynhyrchu ynni<br><br>- Bydd datblygu safleoedd yn creu allyriadau carbon; fydd yn cael eu lliniaru a'u rheoli drwy bolisïau a phrosesau cenedlaethol ac ar lefel awdurdod lleol. | • Bydd y broses o gymeradwyo achosion prosiectau yn rhoi ystyriaeth i'r allyriadau carbon arfaethedig ynghyd â'r arbedion sy'n deillio o bob prosiect.<br>• Bydd Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol wedi'i hymgorffori i'r holl weithgarwch caffael, gan asesu'r cyfraniad tuag at y dangosyddion llesiant cenedlaethol perthnasol i Gymru<br>• Bydd ystyriaethau amgylcheddol yn rhan greiddiol o'r cyfleoedd am gontractau, gan leihau'r effaith ar yr amgylchedd a chefnogi technolegau, ymagweddau ac arloesi newydd gyda chontractwyr a'r gadwyn gyflenwi, gyda ffocws ar yr economi cylchol. |
| **Cymru gydnerth**<br>Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cefnogi cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd). | + Bydd y portffolio yn adeiladu ar sgiliau busnesau ac unigolion gan gefnogi gallu'r busnesau ac unigolion hynny i addasu i newid a'u paratoi ar gyfer cyfleoedd sy'n canolbwyntio ar y dyfodol<br>+ Bydd y Rhaglen Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth yn adeiladu ar sgiliau mewn rheolaeth tir carbon niwtral a thechnolegau ynni | • Bydd y broses o gymeradwyo achosion prosiectau yn rhoi ystyriaeth i'r gwelliannau i fioamrywiaeth ac effaith pob prosiect.<br>• Bydd Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol wedi'i hymgorffori i'r holl weithgarwch caffael, gan asesu'r cyfraniad tuag at y dangosyddion llesiant cenedlaethol perthnasol i Gymru |

| | | |
|---|---|---|
| | adnewyddadwy drwy addysgu pobl ifanc a busnesau bach a chanolig<br>+ Bydd y prosiect datgarboneiddio trafnidiaeth rhanbarthol a'r rhaglenni digidol yn cynorthwyo i wella ansawdd yr aer drwy'r newid o deithio mewn cerbydau petrol/disel i weithio o bell neu ddewisiadau teithio di-garbon / carbon isel<br><br>- Mae'n bosib y bydd datblygu safleoedd yn effeithio ar safleoedd sy'n sensitif yn ecolegol, gan greu allyriadau carbon a disodli ecosystemau naturiol; caiff yr effaith ei liniaru a'i reoli drwy bolisïau a phrosesau cenedlaethol ac ar lefel awdurdod lleol. | • Bydd ystyriaethau amgylcheddol yn rhan greiddiol o'r cyfleoedd am gontractau, gan leihau'r effaith ar yr amgylchedd, gyda ffocws ar ddatblygu safleoedd tir llwyd yn hytrach na thir glas, a chynnwys yr economi cylchol ac integreiddio isadeiledd gwyrdd<br>• Ceisio lleihau i'r eithaf ôl-troed carbon prosiectau a chefnogi'r economi carbon isel, gan ganolbwyntio ar yr ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i gyflawni sector cyhoeddus carbon niwtral erbyn 2030, gan leihau nwyon tŷ gwydr, gwella ein hamgylchedd naturiol a gwarchod ein bioamrywiaeth.<br>• Cefnogi ac ymgysylltu â'r trydydd sector mewn ymagwedd ar sail gwerth sy'n cefnogi gwytnwch yn y trydydd sector i weithio gyda chontractwyr a'r gadwyn gyflenwi a'u cefnogi. |
| **Cymru iachach**<br>Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol. | + Bydd y Cynllun Twf yn cynorthwyo i wella lles meddyliol drwy (1) creu swyddi o ansawdd gwell ar gyfer y farchnad lafur leol drwy ymyraethau wedi'u targedu mewn sectorau gwerth uchel a (2) adeiladu gweithlu mwy medrus o fewn y rhanbarth drwy gefnogi mentrau sgiliau a hyfforddiant<br>+ Bydd y cyfleoedd hyn yn cefnogi gwelliannau mewn safonau byw ar draws y rhanbarth gan leihau tlodi, anghyfartaledd ac amddifadedd.<br>+ Drwy ei bartneriaeth gyda'r Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, mae'r Bwrdd Uchelgais wedi ymgysylltu â'r Byrddau Sector Cyhoeddus i ystyried sut y gall y | • Bydd Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol wedi'i hymgorffori i'r holl weithgarwch caffael, gan asesu'r cyfraniad tuag at y dangosyddion llesiant cenedlaethol perthnasol i Gymru<br>• Bydd y Bwrdd Uchelgais yn gweithio'n uniongyrchol gyda'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i gynnwys gwytnwch cymunedol ac adeiladu cyfoeth gan ddatblygu asedau yn ein cymunedau i gynnwys cefnogi iechyd meddwl cadarnhaol mewn gweithleoedd, cadwyni cyflenwi ac mewn cymunedau<br>• Bydd y Bwrdd Uchelgais yn gweithio gyda phrosesau cynllunio cenedlaethol a lleol i hyrwyddo a hybu deilliannau llesiant drwy'r |

| | | |
|---|---|---|
| | rhaglenni/prosiectau gynnig buddiannau cyfartal i drigolion y rhanbarth drwy ddatblygu sgiliau a chyflogaeth<br>+ Bydd y prosiect datgarboneiddio trafnidiaeth rhanbarthol yn gwella ansawdd yr aer ar draws Gogledd Cymru, gan arwain at leihau afiechydon cardiofasgwlaidd ac anadlol gan wella disgwyliad oes yn gyffredinol | gweithgareddau caffael, ac yn profi polisïau allweddol mewn meysydd megis *dyluniadau adeiladau sy'n hyrwyddo iechyd; mynediad i safleoedd prosiectau i gerddwyr/beicwyr, gan gynnwys pobl anabl; ynghyd ag ystyried cyfleoedd i gynnwys isadeiledd gwyrdd*. |
| **Cymru sy'n fwy cyfartal**<br>Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd) | + Mae'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol wedi bod yn bartner allweddol wrth ddatblygu'r portffolio gan ystyried sut mae'r rhaglenni/prosiectau yn gallu cynnig buddiannau cyfartal i drigolion y rhanbarth drwy ddatblygu sgiliau a chyflogaeth<br>+ Mae rhaglenni'r Cynllun Twf wedi'u dosbarthu ar draws rhanbarth y Gogledd, gydag arweinyddiaeth ac ymgysylltiad gyda'r holl Gynghorau Sir gyda'r bwriad o ledaenu'r buddion yn deg.<br>+ Bydd y systemau caffael yn cefnogi'r cadwyni cyflenwi lleol i ymgysylltu gyda chontractau mwy drwy sesiynau briffio cadwyni cyflenwi a chyfleoedd bidio ar y cyd a rhestr aros o brosiectau<br>+ Mae pob rhaglen/prosiect hefyd wedi ystyried y bydd rhywfaint o'r buddiannau economaidd yn cael eu colli gan y bydd rhai swyddi'n cael eu llenwi gan drigolion o tu hwnt i ffin rhanbarth y Gogledd<br>+ Bydd manylion y swyddi sy'n cael eu creu ar draws y portffolio yn cael eu didoli yn ôl rhywedd, oedran, amrywiaeth a boddhad swydd. | • Bydd y Bwrdd Uchelgais yn hyrwyddo ac yn hybu cyflawni buddion gwerth cymdeithasol a chymunedol drwy weithgarwch caffael ac yn profi polisïau allweddol megis y ddyletswydd gymdeithasol economaidd a'r bil partneriaethau cymdeithasol.<br>• Gweithio gyda'n partneriaid i sicrhau ein bod yn cefnogi pobl o bob cefndir ac amgylchiadau i ailhyfforddi, datblygu sgiliau newydd drwy wirfoddoli neu gyfrannu at addysg/prentisiaethau drwy gyfrwng strategaethau recriwtio ac ymgysylltu arloesol<br>• Targedu cyfleoedd ac ymgysylltu â mecanweithiau presennol i gefnogi grwpiau penodol megis pobl ifanc neu'r rheiny sydd mewn ardaloedd o amddifadedd i ymgysylltu mewn addysg a dysgu/datblygu.<br>• Cefnogi ymgysylltu a chysylltiadau gydag ysgolion ac ymgysylltu â'r cwricwlwm 2022 newydd yng Nghymru, gyda ffocws ar gynhwysiad digidol. |

| | | |
|---|---|---|
| | - Ymysg rhai o drigolion Gogledd Cymru, bydd cenedlaethau sydd wedi'u hamddifadu o brofiadau addysgiadol da, ac efallai y byddant yn cael anhawster i gael mynediad at y cyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth a gynigir gan y Cynllun Twf. Bydd hyn yn parhau â'r bwlch tlodi sydd wedi bodoli ers cyhyd yn y rhanbarth | |
| **Cymru o gymunedau cydlynol**<br>Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da. | + Mae'r Cynllun Twf yn canolbwyntio ar dwf y gellir ei ymestyn a'i wasgaru ledled y rhanbarth i gyflawni twf economaidd cynaliadwy, cytbwys a chynhwysol, gyda'r buddion wedi'u rhannu ar draws y rhanbarth.<br>+ Bydd y rhaglen ddigidol yn gwella'r cyfathrebu ar draws gogledd Cymru, gan gysylltu cymunedau yn rhithiol<br>+ Bydd manylion y swyddi sy'n cael eu creu ar draws y portffolio yn cael eu didoli (bob blwyddyn?) yn ôl rhywedd, oedran ac amrywiaeth<br>+ Mae'r rhaglenni a'r prosiectau yn cael eu cyd-gynhyrchu drwy bartneriaethau sy'n cynnwys y sector cyhoeddus a'r sector preifat, cyrff ymchwil a'r bartneriaeth sgiliau rhanbarthol, ac yn canolbwyntio ar ymgysylltu â phobl sydd o dan anfantais oherwydd eu rhywedd, anabledd, ethnigrwydd neu oedran. | • Bydd Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol wedi'i hymgorffori i'r holl weithgarwch caffael, gan asesu'r cyfraniad tuag at y dangosyddion llesiant cenedlaethol perthnasol i Gymru<br>• Gweithio â phartneriaid caffael a sefydliadau trydydd sector i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd i adeiladu cyfoeth cymunedol.<br>• Mae gwaith ar y gweill i adeiladu dealltwriaeth a pherchnogaeth o'r Cynllun Twf ar lefel gymunedol ar draws y rhanbarth, gan sicrhau ymagwedd gynhwysol sy'n canolbwyntio ar ymgysylltu â grwpiau sy'n anodd cysylltu â hwy, a phobl sydd o dan anfantais oherwydd eu rhywedd, anabledd, ethnigrwydd neu oedran<br>• Bydd gofyn i'r holl achosion busnes prosiect gynnwys cynllun yn amlinellu camau'r prosiect fydd yn sicrhau bod mynediad teg a chynhwysol i gyfleoedd sy'n deillio o fuddsoddiad y Cynllun Twf fel rhan o'r broses datblygu a chymeradwyo |
| **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** | • Bydd y Cynllun Twf yn creu swyddi a chyfleoedd hyfforddi er mwyn i bobl ifanc aros a gweithio yng Ngogledd Cymru a | • Bydd Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol wedi'i hymgorffori i'r holl weithgarwch caffael, gan |

| | | |
|---|---|---|
| Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden. | pharhau i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau personol a phroffesiynol.<br>• Mae'r Cynllun Twf yn cynnwys prosiectau o fewn diwydiannau twf ynni carbon isel a gweithgynhyrchu gwerth uchel fydd yn darparu cyfleoedd swyddi gwerth uchel ledled Gogledd Cymru, yn enwedig yng Ngwynedd a Môn sydd â chanran uwch o siaradwyr Cymraeg ar draws y rhanbarth<br>• Hefyd, mae prosiectau sy'n canolbwyntio ar sectorau sylfaenol mwy traddodiadol - bwyd-amaeth a thwristiaeth. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i'r sector amaethyddiaeth lle mae canran uwch o weithwyr yn siarad Cymraeg o gymharu â'r boblogaeth gyffredinol.<br>• Bydd y rhaglen Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth yn gwella'r cyfleoedd i drigolion ac ymwelwyr ymgysylltu'n gadarnhaol gyda'n hetifeddiaeth ddiwylliannol ac amgylcheddol drwy wella'r cyfleoedd gwasanaeth i gwsmeriaid, a chyfleoedd pellach i ddatblygu cynnyrch bwyd o Gymru<br>• Mae'r Bwrdd Uchelgais yn endid dwyieithog yn ei holl weithrediadau; mae'r holl ddeunyddiau cyhoeddus yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog | asesu'r cyfraniad tuag at y dangosyddion llesiant cenedlaethol perthnasol i Gymru<br>• Ymgysylltu â phartneriaethau newydd megis amgueddfeydd, theatrau a'r celfyddydau i gefnogi'r gwaith o ddatblygu ein hystyriaethau diwylliannol ac iaith Gymraeg yn ein cyfleoedd contract<br>• Bydd gofyn i'r holl achosion busnes prosiect gwblhau asesiad effaith ar yr iaith Gymraeg fel rhan o'u proses datblygu a chymeradwyo, ac ystyried cyfleoedd i ddathlu ac ymgysylltu â diwylliant Cymru a'r iaith Gymraeg drwy gomisiynu pob prosiect isadeiledd |
| **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang**<br>Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried | • Bydd y portffolio yn cefnogi'r trawsnewidiad i economi carbon isel drwy gynhyrchu ynni, arbed carbon ac arloesi drwy gyflwyno technolegau carbon isel o fewn y diwydiant | • Bydd Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol wedi'i hymgorffori i'r holl weithgarwch caffael, gan asesu'r cyfraniad tuag at y dangosyddion llesiant cenedlaethol i Gymru perthnasol |

| | | |
|---|---|---|
| a allai gwneud peth o’r fath gyfrannu’n gadarnhaol at lesiant byd-eang. | ac ar lefel busnes/fferm. Bydd y prosiectau yn cyfrannu at weithrediadau Cymru ar newid hinsawdd a'r ymdrechion tuag at ddatgarboneiddio byd-eang. | • Ystyried mesurau gwrthbwyso carbon byd-eang ar gyfer unrhyw allyriadau carbon<br>• Chwilio am gyfleoedd i ymgysylltu â ffoaduriaid a cheiswyr lloches â chanddynt sgiliau gwerthfawr sy'n berthnasol i'r rhaglenni / prosiectau<br>• Sicrhau nad yw'r cadwyni cyflenwi ar gyfer prosiectau yn cefnogi caethwasiaeth fodern, camdriniaeth amgylcheddol nac yn groes i hawliau dynol |

| Thema trawsbynciol | Sut mae'r cynnig yn cyflawni yn erbyn y thema trawsbynciol? | Pa gamau sydd wedi / sydd angen eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i wella'r effaith cadarnhaol? |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal** | + Mae'r Cynllun Twf yn ceisio darparu mwy o gyfleoedd i bawb ledled Gogledd Cymru drwy amrediad o brosiectau trawsffurfio fydd yn cyflwyno cyfleoedd ar gyfer datblygu sgiliau a hyfforddiant. Un o agweddau allweddol Cynllun Twf Gogledd Cymru yw ei fod yn cael ei dargedu'n ofodol i greu cyfleoedd ledled y rhanbarth<br>+ Mae'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol wedi bod yn bartner allweddol wrth ddatblygu'r portffolio gan ystyried sut mae'r rhaglenni/prosiectau yn gallu cynnig buddiannau cyfartal i drigolion y rhanbarth drwy ddatblygu sgiliau a chyflogaeth<br>+ Bydd y systemau caffael yn cefnogi'r cadwyni cyflenwi lleol i ymgysylltu gyda chontractau mwy drwy sesiynau briffio cadwyni cyflenwi a chyfleoedd bidio ar y cyd a rhestr aros o brosiectau<br>+ Bydd y rhaglenni trafnidiaeth strategol a digidol yn gwella'r cysylltiadau ffisegol a rhithiol rhwng cymunedau ledled y Gogledd<br>+ Mae'r rhaglenni a'r prosiectau yn cael eu cyd-gynhyrchu drwy bartneriaethau sy'n cynnwys y sector cyhoeddus a'r sector preifat, cyrff ymchwil a'r bartneriaeth sgiliau rhanbarthol, ac yn canolbwyntio ar ymgysylltu â phobl sydd o dan anfantais oherwydd eu rhywedd, anabledd, ethnigrwydd neu oedran | • Bydd y Bwrdd Uchelgais yn hyrwyddo ac yn hybu cyflawni buddion gwerth cymdeithasol a chymunedol drwy weithgarwch caffael ac yn profi polisïau allweddol megis y ddyletswydd gymdeithasol economaidd a'r bil partneriaethau cymdeithasol.<br>• Gweithio gyda'n partneriaid i sicrhau ein bod yn cefnogi pobl o bob cefndir ac amgylchiadau i ailhyfforddi, datblygu sgiliau newydd drwy wirfoddoli neu gyfrannu at addysg/prentisiaethau drwy gyfrwng strategaethau recriwtio ac ymgysylltu arloesol<br>• Targedu cyfleoedd ac ymgysylltu â mecanweithiau presennol i gefnogi grwpiau penodol megis pobl ifanc neu'r rheiny sydd mewn ardaloedd o amddifadedd i ymgysylltu mewn addysg a dysgu/datblygu.<br>• Cefnogi ymgysylltu a chysylltiadau gydag ysgolion ac ymgysylltu â'r cwricwlwm 2022 newydd yng Nghymru, gyda ffocws ar gynhwysiad digidol.<br>• Bydd manylion y swyddi sy'n cael eu creu ar draws y portffolio yn cael eu didoli yn ôl rhywedd, oedran ac amrywiaeth |

| | | |
|---|---|---|
| **Datblygu Cynaliadwy** | + Mae datblygu cynaliadwy yn greiddiol i'r Cynllun Twf ac mae ganddo ffocws clir ar ynni carbon isel, gwella'r seilwaith digidol, hyrwyddo arloesedd a sicrhau cynaladwyedd mwy hirdymor ar gyfer y rhanbarth a chymunedau<br>+ Cryfhau arweinyddiaeth Gogledd Cymru ym maes technolegau carbon isel ar draws y sector gweithgynhyrchu gwerth uchel (biotechnoleg, technoleg cell hydrogen), bwyd-amaeth (amaeth carbon niwtral), trafnidiaeth a chynhyrchu ynni<br>+ Adeiladu ar sgiliau busnesau ac unigolion sy'n cefnogi'r busnesau i addasu i newid a'u paratoi ar gyfer cyfleoedd sy'n canolbwyntio ar y dyfodol<br>+ Bydd y Rhaglen Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth yn adeiladu ar sgiliau mewn rheolaeth tir carbon niwtral a thechnolegau ynni adnewyddadwy drwy addysgu pobl ifanc a busnesau bach a chanolig<br>+ Bydd y rhaglenni trafnidiaeth a digidol yn cynorthwyo i wella ansawdd yr aer drwy'r newid o deithio mewn cerbydau petrol/disel i weithio o bell neu ddewisiadau teithio di-garbon / carbon isel | • Bydd Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol wedi'i hymgorffori i'r holl weithgarwch caffael, gan asesu'r cyfraniad tuag at y dangosyddion llesiant cenedlaethol perthnasol i Gymru<br>• Bydd ystyriaethau amgylcheddol yn rhan greiddiol o'r cyfleoedd am gontractau, gan leihau'r effaith ar yr amgylchedd, gyda ffocws ar ddatblygu safleoedd tir llwyd yn hytrach na thir glas, a chynnwys yr economi cylchol ac integreiddio isadeiledd gwyrdd<br>• Ceisio lleihau i'r eithaf ôl-troed carbon prosiectau a chefnogi'r economi carbon isel, gan ganolbwyntio ar yr ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i gyflawni sector cyhoeddus carbon niwtral erbyn 2030, gan leihau nwyon tŷ gwydr, gwella ein hamgylchedd naturiol a gwarchod ein bioamrywiaeth.<br>• Cefnogi ac ymgysylltu â'r trydydd sector mewn ymagwedd ar sail gwerth sy'n cefnogi gwytnwch yn y trydydd sector i weithio gyda chontractwyr a'r gadwyn gyflenwi a'u cefnogi. |

| | | |
|---|---|---|
| **Mynd i'r Afael â Thlodi** | + Mae'r Cynllun Twf yn cyflawni yn erbyn Gweledigaeth Twf Gogledd Cymru a'i hamcanion, yn benodol o ran gwella llesiant economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Gogledd Cymru. Elfen allweddol o hyn yw cefnogi a chadw pobl ifanc yn y rhanbarth ac ymdrin â mudandod ac anweithgarwch.<br>+ Bydd y portffolio yn creu rhai miloedd o swyddi newydd i Ogledd Cymru<br>+ Bydd hefyd yn hyfforddi busnesau ac unigolion, ac yn ehangu'r gofod ar gyfer hyfforddi, deori, ymchwil a datblygu<br>+ Cryfhau economi Gogledd Cymru drwy arwain ym maes technolegau carbon isel ar draws y sector gweithgynhyrchu gwerth uchel (biotechnoleg, technoleg cell hydrogen), bwyd-amaeth (amaeth carbon niwtral), trafnidiaeth a chynhyrchu ynni<br>+ Mae'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol wedi bod yn bartner allweddol wrth ddatblygu'r portffolio gan ystyried sut mae'r rhaglenni/prosiectau yn gallu cynnig buddiannau cyfartal i drigolion y rhanbarth drwy ddatblygu sgiliau a chyflogaeth<br>+ Mae rhaglenni'r Cynllun Twf wedi'u dosbarthu ar draws rhanbarth y Gogledd, gydag arweinyddiaeth ac ymgysylltiad gyda'r holl Gynghorau Sir gyda'r bwriad o ledaenu'r buddion yn deg. | • Bydd Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol wedi'i hymgorffori i'r holl weithgarwch caffael, gan asesu'r cyfraniad tuag at y dangosyddion llesiant cenedlaethol perthnasol i Gymru<br>• Gweithio gyda'n partneriaid i sicrhau ein bod yn cefnogi pobl o bob cefndir ac amgylchiadau i ailhyfforddi, datblygu sgiliau newydd drwy wirfoddoli neu gyfrannu at addysg/prentisiaethau drwy gyfrwng strategaethau recriwtio ac ymgysylltu arloesol<br>• Targedu cyfleoedd ac ymgysylltu â mecanweithiau presennol i gefnogi grwpiau penodol megis pobl ifanc neu'r rheiny sydd mewn ardaloedd o amddifadedd i ymgysylltu ag addysg a dysgu/datblygu.<br>• Gweithio â phartneriaid caffael a sefydliadau trydydd sector i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd i adeiladu cyfoeth cymunedol.<br>• Cefnogi ymgysylltu a chysylltiadau gydag ysgolion ac ymgysylltu â'r cwricwlwm 2022 newydd yng Nghymru, gyda ffocws ar gynhwysiad digidol. |
| **Yr iaith Gymraeg a Diwylliant** | • Bydd y Cynllun Twf yn creu swyddi a chyfleoedd hyfforddi er mwyn i bobl ifanc aros a gweithio yng Ngogledd Cymru a | • Bydd Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol wedi'i hymgorffori i'r holl weithgarwch caffael, gan asesu'r cyfraniad tuag at y dangosyddion |

| | | |
|---|---|---|
| | pharhau i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau personol a phroffesiynol<br>• Mae'r Cynllun Twf yn cynnwys prosiectau o fewn diwydiannau twf ynni carbon isel a gweithgynhyrchu gwerth uchel fydd yn darparu cyfleoedd swyddi gwerth uchel ledled Gogledd Cymru, yn enwedig yng Ngwynedd a Môn sydd â chanran uwch o siaradwyr Cymraeg ar draws y rhanbarth<br>• Hefyd, mae prosiectau sy'n canolbwyntio ar sectorau sylfaenol mwy traddodiadol - bwyd-amaeth a thwristiaeth. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i'r sector amaethyddiaeth lle mae canran uwch o weithwyr yn siarad Cymraeg o gymharu â'r boblogaeth gyffredinol.<br>• Bydd y rhaglen Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth yn gwella'r cyfleoedd i drigolion ac ymwelwyr ymgysylltu'n gadarnhaol gyda'n hetifeddiaeth ddiwylliannol ac amgylcheddol drwy wella'r cyfleoedd gwasanaeth i gwsmeriaid a chyfleoedd pellach i ddatblygu cynnyrch bwyd o Gymru<br>• Mae’r Bwrdd Uchelgais yn endid dwyieithog yn ei holl weithrediadau; mae'r holl ddeunyddiau cyhoeddus yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog | llesiant cenedlaethol perthnasol i Gymru perthnasol<br>• Ymgysylltu â phartneriaethau newydd megis amgueddfeydd, theatrau a'r celfyddydau i gefnogi'r gwaith o ddatblygu ein hystyriaethau diwylliannol ac iaith Gymraeg yn ein cyfleoedd contract<br>• Bydd gofyn i'r holl achosion busnes prosiect gwblhau asesiad effaith ar yr iaith Gymraeg fel rhan o’u proses datblygu a chymeradwyo, ac ystyried cyfleoedd i ddathlu ac ymgysylltu â diwylliant Cymru a'r iaith Gymraeg drwy gomisiynu pob prosiect isadeiledd |

# Asesiad Effaith yr Iaith Gymraeg

| A yw’r cynnig yn cysylltu’n glir gyda strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg – Cymraeg 2050, Miliwn o Siaradwyr? |
|---|
| Mae’r strategaeth Cymraeg 2050 yn darparu ffocws ar gyfer yr iaith Gymraeg ac yn gosod allan gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer cyrraedd miliwn o Siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae Cymru lewyrchus hefyd yn un o nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015.<br><br>Mae’r targed uchelgeisiol yn y strategaeth yn dangos yr angen i bob sector weithredu ac gynnig ymyraethau. Mae’r strategaeth yn cynnwys thema strategol i ‘greu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun’, sy’n cynnwys cymuned a’r economi, diwylliant a’r cyfryngau, ac technoleg digidol; bydd y Cynllun Twf yn cyfrannu tuag at rhain. Mae’r Bwrdd Uchelgais wedi mabwysiadu gweledigaeth i ddatblygu “rhanbarth hyderus, cydlynol sydd â thwf economaidd cynaliadwy, sy'n elwa i'r eithaf o lwyddiant sectorau economaidd gwerth uchel a'n cysylltiad ag economïau Pwerdy'r Gogledd ac Iwerddon.” Mae’r weledigaeth yn seiliedig ar dri nod allweddol Gogledd Cymru flaengar, wydn a chysylltiedig.<br><br>Mae’r iaith Gymraeg yn cryfhau ein cymunedau, diwylliant a’n treftadaeth yma yng Ngogledd Cymru. Bydd y Cynllun Twf yn hyrwyddo pwysigrwydd a pherthnasedd dwyieithrwydd i’r economi er mwyn cefnogi yr iaith Gymraeg yn ein cymunedau ac mewn lleoliadau gwaith. |

| Disgrifiwch effaith y cynnig ar yr iaith Gymraeg? |
|---|
| Mae data o’r Arolwg Blynyddol or Boblogaeth yn dangos mai, yn y flwyddyn yn diweddu Mehefin 2018, fod 286,400 o siaradwyr Cymraeg yn y rhanbarth. Gwynedd oedd yr awdurdod â'r nifer uchaf o siaradwyr Cymraeg yn y Gogledd ac yng Nghymru gyfan, gyda 76.4% o drigolion tair oed a hŷn yn dweud eu bod yn medru siarad Cymraeg. Sir y Fflint oedd â'r gyfradd isaf o siaradwyr Cymraeg yn y Gogledd, ar tua 23.3%. Ar lefel ranbarthol, y Gogledd oedd â'r gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru, ar tua 42.7% yn y flwyddyn oedd yn diweddu ym mis Mehefin 2018.<br><br>Mae’r economi yn allweddol i greu yr amodau cymdeithasol i siaradwyr Cymraeg aros yn yr ardal mewn cymunedau Cymraeg neu ddychwelyd yn ôl i’r cymunedau hynny. Mae portffolio y Cynllun Twf yn anelu i greu rhwng 3,440 ac 4,200 o Swyddi newydd erbyn 2036. Yn ogystal a chefnogi cynhyrchu rhwng £2.0biiwn a £2.4biliwn mewn GVA ychwanegol net; a chyflawni hyd at £1.1biliwn o fuddsoddiad yn economi Gogledd Cymru. Bydd y rhaglenni a prosiectau yn y portffolio yn cynhyrchu buddion fydd yn cael effaith gadarnhaol ar gymaint o gymunedau a phosibl yn y rhanbarth; galluogi twf economaidd; ac denu buddsoddiad.<br><br>Mae cyfleoedd cyflogaeth yn hanfodol ar gyfer dyfodol yr iaith Gymraeg; mae’r iaith yn allweddol ar gyfer sgiliau a chyflogaeth yn y rhanbarth. Bydd y rhaglenni a phrosiectau yn galluogi creu swyddi; fydd yn creu cyfleoedd cyflogaeth i siaradwyr Cymraeg weithio yng Ngogledd Cymru. Yn hanesyddol mae Gogledd Cymru wedi gweld pobl ifanc yn gadael y rhanbarth, bydd y Cynllun Twf yn cefnogi cadw pobl ifanc yn lleol. Bydd hyn yn gwarchod a hyrwyddo yr iaith a diwylliant Cymraeg, ac yn cyfrannu tuag at dwf graddadwy a gwasgaredig yn y rhanbarth. Mae cael gweithlu dwyieithog yng Ngogledd Cymru, yn bresennol ac yn y dyfodol yn ein galluogi i hyrwyddo |

amrywiaeth sgiliau iaith. Bydd hyn yn arwain at gadw a datblygu yr iaith Gymraeg ar draws sectorau gan ychwanegu gwerth a cryfder yn ein heconomi.

Gall yr iaith Gymraeg gael ei weld fel gyrrwr ar gyfer yr economi gan uchafu busnes a thwristiaeth yn y rhanbarth ar gyfer y gymuned ac ymwelwyr i gael profiad diwylliannol sy'n dangos yr ymdeimlad o gymuned gryf yn y rhanbarth.

Bydd y Cynllun Twf yn rhagweithiol wrth adnabod cyfleon i hyrwyddo a cefnogi ymarfer da yn nghyswllt yr iaith. Bydd y Bwrdd Uchelgais yn hyrwyddo a hwyluso defnydd yr iaith Gymraeg o fewn y ffordd rhanbarthol newydd o weithio.

**Eglurwch sut byddwch yn lliniaru unrhyw effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg neu hyrwyddo effaith cadarnhaol ar yr iaith?**

Bydd Cynllun Twf Gogledd Cymru yn anelu i greu rhwng 3,400 and 4,200 o Swyddi newydd er budd pobl lleol yn y rhanbarth. Mae'n bosibl colli buddion economaidd wrth i'r swyddi grëir gael ei llenwi gan unigolion o tu allan y rhanbarth, bydd hyn yn cael ei reoli ar lefel prosiect.

Mae'r Bwrdd Uchelgais yn bartneriaeth sydd yn gweithredu yn ddwyieithog; mae holl ddogfennau a cyfarfodydd y Bwrdd yn ddwyieithog.

Mae tîm y Swyddfa Rhaglen yn ddwyieithog, gyda'r swyddi blaen allweddol efo'r Gymraeg fel gofyniad hanfodol er mwyn galluogi pobl i ymgysylltu gyda ni yn ei iaith dewisol. Mae'r tîm yn hyrwyddo defnydd yr iaith Gymraeg, ac mewn amser byddwn yn datblygu Polisi Iaith Gymraeg.

Bydd yr iaith Gymraeg yn cael ei wreiddio yn ein prosesau caffael. Mae ein Strategaeth Caffael yn cynnwys cyfres o egwyddorion caffael, fel rhan o'r egwyddorion gwydnwch a lles cymunedol. Bydd y Bwrdd Uchelgais yn ' ymgysylltu gyda partneriaid newydd fel amgueddfeydd, theatrau a'r celfyddydau i gofio datblygu ein hystyriaethau diwylliannol a Chymraeg mewn cytundebau.'

Bydd y Cynllun Twf yn rhagweithiol yn cefnogi, hwyluso a chwilio am gyfleoedd ar gyfer hyrwyddo yr iaith ar draws y portffolio, rhaglenni ac prosiectau. Byddwn yn annog integreiddio yr iaith ar draws y prosiectau. Mae'n hanfodol i ni gydnabod pwysigrwydd yr iaith Gymraeg a'r Saesneg yma yng Ngogledd Cymru. Bydd holl brosiectau y Cynllun Twf yn paratoi Asesiad Effaith y Gymraeg ac Asesiad Effaith Cenedlaethau'r Dyfodol fel rhan o'r broses benderfyniadau.

Mae hyrwyddo'r iaith Gymraeg wrth weithredu a thrwy allbynnau y Cynllun Twf yn galluogi'r Bwrdd Uchelgais fod yn benodol a cyfannol wrth fynd i'r afael â heriau economaidd a thwf economaidd cynaliadwy.

# Asesiad Effaith Cydraddoldeb

| Nodweddion Gwarchodedig – Manylwch ar y dystiolaeth sydd gennych / unrhyw effaith / camau lliniaru | | | |
|---|---|---|---|
| **Nodweddion** | **Tystiolaeth a gwybodaeth** | **Manylion yr effaith** | **Pa gamau sydd wedi / a gymerir i liniaru unrhyw effaith negyddol neu i wella effaith gadarnhaol?** |
| **Hil** | • Yn ôl yr Arolwg Poblogaeth Blynyddol (Mehefin 2019) roedd 97.8% o'r boblogaeth yn 'wyn', 0.5% o grwpiau ethnig cymysg / lluosog, 1% yn Asiaidd, ac 0.5% o grwpiau ethnig eraill. | • Mae Cynllun Twf Gogledd Cymru yn anelu i adeiladu economi fywiog, cynaliadwy a gwydn gan gael effaith gadarnhaol ar bob grŵp gwarchodedig.<br>• Mae'r Cynllun Twf yn anelu i greu miloedd o swyddi newydd yn y rhanbarth. Gan adeiladu gweithlu medrus yn y rhanbarth drwy gefnogi cyfleoedd sgiliau a hyfforddiant ar gyfer pawb.<br>• Bydd y cyfleoedd yma yn cefnogi gwelliannau mewn safonau byw ar gyfer yr holl grwpiau gwarchodedig.<br>• Mae rhaglenni a'r prosiectau yn cael ei llunio ar y cyd drwy bartneriaethau gan gynnwys y sector cyhoeddus ar sector breifat, cyrff ymchwil a'r bartneriaeth Sgiliau rhanbarthol, gan gynnwys ffocws ar ymgysylltu gyda rhai dan anfantais oherwydd rhyw, anabledd, hil neu oed. | • Byddwn yn mabwysiadu agwedd gadarnhaol i gynhwysiad cymdeithasol er mwyn hyrwyddo cymunedau cynaliadwy, ffyniannus a chyfartal.<br>• Bydd pob achos busnes prosiect yn datblygu Asesiad Effaith Cydraddoldeb er mwyn adnabod ac asesu y rhwystrau.<br>• Mae gwaith parhaus i adeiladu dealltwriaeth ac perchnogaeth o'r Cynllun Twf ar lefel gymunedol ar draws y rhanbarth, gan sicrhau agwedd gynhwysol i holl grwpiau gwarchodedig.<br>• Byddwn yn sicrhau fod negeseuon a dulliau cyfathrebu yn gynhwysol. |
| **Rhyw** | • Yn ôl Census 2011, roedd 49.2% o boblogaeth Gogledd Cymru yn wryw ac 50.9% yn fenyw, yn gyson gyda cyfartaledd Cymru. | • Mae Cynllun Twf Gogledd Cymru yn anelu i adeiladu economi fywiog, cynaliadwy a gwydn gan gael effaith gadarnhaol ar bob grŵp gwarchodedig. | • Byddwn yn mabwysiadu agwedd gadarnhaol i gynhwysiad cymdeithasol er mwyn hyrwyddo cymunedau cynaliadwy, ffyniannus a chyfartal. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | • Mae'r Cynllun Twf yn anelu i greu miloedd o swyddi newydd yn y rhanbarth. Gan adeiladu gweithlu medrus yn y rhanbarth drwy gefnogi cyfleoedd sgiliau a hyfforddiant ar gyfer pawb.<br>• Bydd y cyfleoedd yma yn cefnogi gwelliannau mewn safonau byw ar gyfer yr holl grwpiau gwarchodedig.<br>• Mae rhaglenni a'r prosiectau yn cael ei llunio ar y cyd drwy bartneriaethau gan gynnwys y sector cyhoeddus ar sector breifat, cyrff ymchwil a'r bartneriaeth Sgiliau rhanbarthol, gan gynnwys ffocws ar ymgysylltu gyda rhai dan anfantais oherwydd rhyw, anabledd, hil neu oed. | • Bydd pob achos busnes prosiect yn datblygu Asesiad Effaith Cydraddoldeb er mwyn adnabod ac asesu y rhwystrau.<br>• Mae gwaith parhaus i adeiladu dealltwriaeth ac perchnogaeth o'r Cynllun Twf ar lefel gymunedol ar draws y rhanbarth, gan sicrhau agwedd gynhwysol i holl grwpiau gwarchodedig.<br>• Byddwn yn sicrhau fod negeseuon a dulliau cyfathrebu yn gynhwysol. |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | • Mae data TONS ar gyfer 2016 yn dangos fod 95.2% o bobl Cymru yn adnabod ei hunain fel heterorywiol/strêt, 1.7% fel hoyw/lesbiaidd/deurywiol ac 0.4% fel arall (roedd y gweddill unai heb ateb yr arolwg neu ddim yn gwybod). | • Mae Cynllun Twf Gogledd Cymru yn anelu i adeiladu economi fywiog, cynaliadwy a gwydn gan gael effaith gadarnhaol ar bob grŵp gwarchodedig.<br>• Mae'r Cynllun Twf yn anelu i greu miloedd o swyddi newydd yn y rhanbarth. Gan adeiladu gweithlu medrus yn y rhanbarth drwy gefnogi cyfleoedd sgiliau a hyfforddiant ar gyfer pawb.<br>• Bydd y cyfleoedd yma yn cefnogi gwelliannau mewn safonau byw ar gyfer yr holl grwpiau gwarchodedig.<br>• Mae rhaglenni a'r prosiectau yn cael ei llunio ar y cyd drwy bartneriaethau gan gynnwys y sector cyhoeddus ar sector | • Byddwn yn mabwysiadu agwedd gadarnhaol i gynhwysiad cymdeithasol er mwyn hyrwyddo cymunedau cynaliadwy, ffyniannus a chyfartal.<br>• Bydd pob achos busnes prosiect yn datblygu Asesiad Effaith Cydraddoldeb er mwyn adnabod ac asesu y rhwystrau.<br>• Mae gwaith parhaus i adeiladu dealltwriaeth ac perchnogaeth o'r Cynllun Twf ar lefel gymunedol ar draws y rhanbarth, gan sicrhau agwedd gynhwysol i holl grwpiau gwarchodedig.<br>• Byddwn yn sicrhau fod negeseuon a dulliau cyfathrebu yn gynhwysol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | breifat, cyrff ymchwil a’r bartneriaeth Sgiliau rhanbarthol, gan gynnwys ffocws ar ymgysylltu gyda rhai dan anfantais oherwydd rhyw, anabledd, hil neu oed. | |
| **Priodas a phartneriaeth sifil** | • Yn ôl yr Arolwg Poblogaeth flynyddol (Chwefror 2019), roedd 50% o’r boblogaeth yn briod, 32% yn sengl, 21% wedi ysgaru / gwahanu / wedi diddymu o bartneriaeth sifil, ac 14% yn weddw / goroeswr partneriaeth sifil | • Mae Cynllun Twf Gogledd Cymru yn anelu i adeiladu economi fywiog, cynaliadwy a gwydn gan gael effaith gadarnhaol ar bob grŵp gwarchodedig.<br>• Mae’r Cynllun Twf yn anelu i greu miloedd o swyddi newydd yn y rhanbarth. Gan adeiladu gweithlu medrus yn y rhanbarth drwy gefnogi cyfleoedd sgiliau a hyfforddiant ar gyfer pawb.<br>• Bydd y cyfleoedd yma yn cefnogi gwelliannau mewn safonau byw ar gyfer yr holl grwpiau gwarchodedig.<br>• Mae rhaglenni a’r prosiectau yn cael ei llunio ar y cyd drwy bartneriaethau gan gynnwys y sector cyhoeddus ar sector breifat, cyrff ymchwil a’r bartneriaeth Sgiliau rhanbarthol, gan gynnwys ffocws ar ymgysylltu gyda rhai dan anfantais oherwydd rhyw, anabledd, hil neu oed. | • Byddwn yn mabwysiadu agwedd gadarnhaol i gynhwysiad cymdeithasol er mwyn hyrwyddo cymunedau cynaliadwy, ffyniannus a chyfartal.<br>• Bydd pob achos busnes prosiect yn datblygu Asesiad Effaith Cydraddoldeb er mwyn adnabod ac asesu y rhwystrau.<br>• Mae gwaith parhaus i adeiladu dealltwriaeth ac perchnogaeth o’r Cynllun Twf ar lefel gymunedol ar draws y rhanbarth, gan sicrhau agwedd gynhwysol i holl grwpiau gwarchodedig.<br>• Byddwn yn sicrhau fod negeseuon a dulliau cyfathrebu yn gynhwysol. |
| **Ailbennu rhywedd** | • Dim data ar gael i Ogledd Cymru ar hyn o bryd. | • Mae Cynllun Twf Gogledd Cymru yn anelu i adeiladu economi fywiog, cynaliadwy a gwydn gan gael effaith gadarnhaol ar bob grŵp gwarchodedig.<br>• Mae’r Cynllun Twf yn anelu i greu miloedd o swyddi newydd yn y rhanbarth. Gan adeiladu gweithlu medrus yn y rhanbarth | • Byddwn yn mabwysiadu agwedd gadarnhaol i gynhwysiad cymdeithasol er mwyn hyrwyddo cymunedau cynaliadwy, ffyniannus a chyfartal.<br>• Bydd pob achos busnes prosiect yn datblygu Asesiad Effaith Cydraddoldeb er mwyn adnabod ac asesu y rhwystrau. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | drwy gefnogi cyfleoedd sgiliau a hyfforddiant ar gyfer pawb.<br>• Bydd y cyfleoedd yma yn cefnogi gwelliannau mewn safonau byw ar gyfer yr holl grwpiau gwarchodedig.<br>• Mae rhaglenni a'r prosiectau yn cael ei llunio ar y cyd drwy bartneriaethau gan gynnwys y sector cyhoeddus ar sector breifat, cyrff ymchwil a'r bartneriaeth Sgiliau rhanbarthol, gan gynnwys ffocws ar ymgysylltu gyda rhai dan anfantais oherwydd rhyw, anabledd, hil neu oed. | • Mae gwaith parhaus i adeiladu dealltwriaeth ac perchnogaeth o'r Cynllun Twf ar lefel gymunedol ar draws y rhanbarth, gan sicrhau agwedd gynhwysol i holl grwpiau gwarchodedig.<br>• Byddwn yn sicrhau fod negeseuon a dulliau cyfathrebu yn gynhwysol. |
| **Beichiogrwydd a mamolaeth** | • Yn ôl data Beichiogrwydd a Genedigaethau roedd 6,740 o enedigaethau yn ardal Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr yn 2018. | • Mae Cynllun Twf Gogledd Cymru yn anelu i adeiladu economi fywiog, cynaliadwy a gwydn gan gael effaith gadarnhaol ar bob grŵp gwarchodedig.<br>• Mae'r Cynllun Twf yn anelu i greu miloedd o swyddi newydd yn y rhanbarth. Gan adeiladu gweithlu medrus yn y rhanbarth drwy gefnogi cyfleoedd sgiliau a hyfforddiant ar gyfer pawb.<br>• Bydd y cyfleoedd yma yn cefnogi gwelliannau mewn safonau byw ar gyfer yr holl grwpiau gwarchodedig.<br>• Mae rhaglenni a'r prosiectau yn cael ei llunio ar y cyd drwy bartneriaethau gan gynnwys y sector cyhoeddus ar sector breifat, cyrff ymchwil a'r bartneriaeth Sgiliau rhanbarthol, gan gynnwys ffocws ar | • Byddwn yn mabwysiadu agwedd gadarnhaol i gynhwysiad cymdeithasol er mwyn hyrwyddo cymunedau cynaliadwy, ffyniannus a chyfartal.<br>• Bydd pob achos busnes prosiect yn datblygu Asesiad Effaith Cydraddoldeb er mwyn adnabod ac asesu y rhwystrau.<br>• Mae gwaith parhaus i adeiladu dealltwriaeth ac perchnogaeth o'r Cynllun Twf ar lefel gymunedol ar draws y rhanbarth, gan sicrhau agwedd gynhwysol i holl grwpiau gwarchodedig.<br>• Byddwn yn sicrhau fod negeseuon a dulliau cyfathrebu yn gynhwysol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | ymgysylltu gyda rhai dan anfantais oherwydd rhyw, anabledd, hil neu oed.<br>• Mae'n bwysig i'r grŵp yma gael mynediad rhwydd i wasanaethau a cyfleusterau yn y gymuned a pheidio teimlo yn ynysig. | |
| **Crefydd neu gred** | • Yn unol a data yr Arolwg Boblogaeth Flynyddol (Mehefin 2019), roedd cyfran y boblogaeth yng Ngogledd Cymru yn Gristion yn 60%, 1% Mwslim, 4% crefydd arall ac 37% wedi nodi dim crefydd. | • Mae Cynllun Twf Gogledd Cymru yn anelu i adeiladu economi fywiog, cynaliadwy a gwydn gan gael effaith gadarnhaol ar bob grŵp gwarchodedig.<br>• Mae'r Cynllun Twf yn anelu i greu miloedd o swyddi newydd yn y rhanbarth. Gan adeiladu gweithlu medrus yn y rhanbarth drwy gefnogi cyfleoedd sgiliau a hyfforddiant ar gyfer pawb.<br>• Bydd y cyfleoedd yma yn cefnogi gwelliannau mewn safonau byw ar gyfer yr holl grwpiau gwarchodedig.<br>• Mae rhaglenni a'r prosiectau yn cael ei llunio ar y cyd drwy bartneriaethau gan gynnwys y sector cyhoeddus ar sector breifat, cyrff ymchwil a'r bartneriaeth Sgiliau rhanbarthol, gan gynnwys ffocws ar ymgysylltu gyda rhai dan anfantais oherwydd rhyw, anabledd, hil neu oed. | • Byddwn yn mabwysiadu agwedd gadarnhaol i gynhwysiad cymdeithasol er mwyn hyrwyddo cymunedau cynaliadwy, ffyniannus a chyfartal.<br>• Bydd pob achos busnes prosiect yn datblygu Asesiad Effaith Cydraddoldeb er mwyn adnabod ac asesu y rhwystrau.<br>• Mae gwaith parhaus i adeiladu dealltwriaeth ac perchnogaeth o'r Cynllun Twf ar lefel gymunedol ar draws y rhanbarth, gan sicrhau agwedd gynhwysol i holl grwpiau gwarchodedig.<br>• Byddwn yn sicrhau fod negeseuon a dulliau cyfathrebu yn gynhwysol.<br>• Lle'n briodol byddwn yn gwarchod Adnoddau ac gwasanaethau diwylliannol. |
| **Anabledd** | • Yn unol a data yr Arolwg Boblogaeth Flynyddol (Mehefin 2019), roedd cyfanswm o 77,000 o bobl oed gwaith yng Ngogledd Cymru yn anabl sy'n gyfateb a 18.7% o'r boblogaeth oed gwaith. | • Mae Cynllun Twf Gogledd Cymru yn anelu i adeiladu economi fywiog, cynaliadwy a gwydn gan gael effaith gadarnhaol ar bob grŵp gwarchodedig.<br>• Mae'r Cynllun Twf yn anelu i greu miloedd o swyddi newydd yn y rhanbarth. Gan | • Byddwn yn mabwysiadu agwedd gadarnhaol i gynhwysiad cymdeithasol er mwyn hyrwyddo cymunedau cynaliadwy, ffyniannus a chyfartal.<br>• Bydd pob achos busnes prosiect yn datblygu Asesiad Effaith Cydraddoldeb er mwyn adnabod ac asesu y rhwystrau. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | adeiladu gweithlu medrus yn y rhanbarth drwy gefnogi cyfleoedd sgiliau a hyfforddiant ar gyfer pawb.<br>• Bydd y cyfleoedd yma yn cefnogi gwelliannau mewn safonau byw ar gyfer yr holl grwpiau gwarchodedig.<br>• Mae rhaglenni a’r prosiectau yn cael ei llunio ar y cyd drwy bartneriaethau gan gynnwys y sector cyhoeddus ar sector breifat, cyrff ymchwil a’r bartneriaeth Sgiliau rhanbarthol, gan gynnwys ffocws ar ymgysylltu gyda rhai dan anfantais oherwydd rhyw, anabledd, hil neu oed.<br>• Gall cysylltedd digidol alluogi gweithio o adref, yn benodol mewn ardaloedd gwledig llai hygyrch. Gall hyn alluogi pobl gyda problemau symudedd weithio o adref.<br>• Bydd y prosiectau Tir ac Eiddo yn hwyluso mynediad i drafnidiaeth, cyflogaeth, hyfforddiant a mynediad i ddeunydd / gwasanaethau fydd o fudd i’r holl grwpiau gwarchodedig. | • Mae gwaith parhaus i adeiladu dealltwriaeth ac perchnogaeth o’r Cynllun Twf ar lefel gymunedol ar draws y rhanbarth, gan sicrhau agwedd gynhwysol i holl grwpiau gwarchodedig.<br>• Byddwn yn sicrhau fod negeseuon a dulliau cyfathrebu yn gynhwysol.<br>• Byddwn yn ystyried mynediad mewn datblygiadau isadeiledd gyda ystyriaeth i leoliadau hygyrch. Gall hyn gynnwys hygyrchedd trafnidiaeth, adnoddau cymunedol a gwasanaethau ayyb. Lle’n briodol byddwn yn uchafu darpariaeth a hygyrchedd i bobl gyda anabledd.<br>• Byddwn yn hyrwyddo hygyrchedd, gyda dyluniad cynhwysol mewn datblygiadau newydd gan gynnwys hygyrchedd mewnol addas ar gyfer yr anabl, ac hygyrchedd allanol drwy drafnidiaeth. |
| **Oed** | • Mae gan Ogledd Cymru boblogaeth sy’n heneiddio.<br>• Rhwng 1998 ac 2018, mae cyfran y boblogaeth dros 65 oed wedi cynyddu o 18.5% i 23.0%, ar cyfran y boblogaeth o dan 15 oed wedi gostwng o 19.8% i 17.8%. | • Mae Cynllun Twf Gogledd Cymru yn anelu i adeiladu economi fywiog, cynaliadwy a gwydn gan gael effaith gadarnhaol ar bob grŵp gwarchodedig.<br>• Mae’r Cynllun Twf yn anelu i greu miloedd o swyddi newydd yn y rhanbarth. Gan adeiladu gweithlu medrus yn y rhanbarth | • Byddwn yn mabwysiadu agwedd gadarnhaol i gynhwysiad cymdeithasol er mwyn hyrwyddo cymunedau cynaliadwy, ffyniannus a chyfartal.<br>• Bydd pob achos busnes prosiect yn datblygu Asesiad Effaith Cydraddoldeb er mwyn adnabod ac asesu y rhwystrau.<br>• Mae gwaith parhaus i adeiladu dealltwriaeth ac perchnogaeth o’r Cynllun Twf ar lefel gymunedol ar |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | drwy gefnogi cyfleoedd sgiliau a hyfforddiant ar gyfer pawb.<br>• Bydd y cyfleoedd yma yn cefnogi gwelliannau mewn safonau byw ar gyfer yr holl grwpiau gwarchodedig.<br>• Mae rhaglenni a'r prosiectau yn cael ei llunio ar y cyd drwy bartneriaethau gan gynnwys y sector cyhoeddus ar sector breifat, cyrff ymchwil a'r bartneriaeth Sgiliau rhanbarthol, gan gynnwys ffocws ar ymgysylltu gyda rhai dan anfantais oherwydd rhyw, anabledd, hil neu oed.<br>• Bydd y Cynllun twf yn darparu cyfleon cyflogaeth i annog pobl ifanc ddod yn ôl i'r rhanbarth neu i aros yng Ngogledd Cymru.<br>• Gall cyfleon ar gyfer pobl hyn sy'n byw mewn ardaloedd gwledig a thu hwnt gynnwys gwell mynediad i wasanaethau. | draws y rhanbarth, gan sicrhau agwedd gynhwysol i holl grwpiau gwarchodedig.<br>• Byddwn yn sicrhau fod negeseuon a dulliau cyfathrebu yn gynhwysol.<br>• Byddwn yn adnabod cyfleodd ac yn ymgysylltu i gefnogi grwpiau penodol fel pobl ifanc neu rhai sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig i ymgysylltu gyda dysgu/datblygiad.<br>• Ystyried hygyrchedd ar gyfer pobl hyn. Gan sicrhau na fydd datblygiad yn cael effaith ar Adnoddau cymunedol sy'n addas ar gyfer pob oed. |
| **Iaith Gymraeg** | Weler dogfen ar wahân ar gyfer Asesiad Effaith yr Iaith Gymraeg: Cynllun Twf Gogledd Cymru | | |

north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

# ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU
# 23 HYDREF, 2020

**TEITL:** *Cytundeb Terfynol*

**AWDUR:** *Alwen Williams, Cyfarwyddwr Rhaglen*

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Pwrpas yr adroddiad yw cyflwyno y pecyn o’r dogfennau allweddol sydd eu angen ar gyfer cyrraedd Cytundeb Terfynol ar Gynllun Twf Gogledd Cymru gyda Llywodraeth y DU ac Llywodraeth Cymru.

1.2. Mae’r dogfennau allweddol yn cynnwys y canlynol:

- Achos Busnes y Portffolio
- Cynllun Busnes Cyffredinol
- Cytundeb Terfynol Drafft
- Cytundeb Llywodraethu 2

## 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Cymeradwyo cyflwyno'r Achos Busnes Portffolio a'r pum Achos Busnes Rhaglen i Lywodraethau'r DU a Chymru am Gytundeb Terfynol ar Gynllun Twf Gogledd Cymru.

2.2. Argymell bod pob un o'r Partïon yn unigol yn cymeradwyo'r Cynllun Busnes Cyffredinol sy'n nodi'r trefniadau ar gyfer cyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru fel sail ar gyfer cwblhau'r Cytundeb Terfynol a derbyn y Llythyr Cynnig Grant gyda Llywodraethau'r DU a Chymru.

2.3. Argymell bod pob un o'r Partïon yn unigol yn cymeradwyo ac yn ymrwymo i Gytundeb Llywodraethu 2 ac yn benodol yn mabwysiadu'r dirprwyadau a'r Cylch Gorchwyl yn *“Atodiad 1 o Gytundeb Llywodraethu 2”* ohono fel sail ar gyfer ymrwymo i'r Cytundeb Terfynol a derbyn y Llythyr Cynnig Grant gyda Llywodraethau'r DU a Chymru.

2.4. Argymell cymeradwyo'r dull a ddefnyddir i gyfrifo cost benthyca mewn egwyddor sydd ei angen i hwyluso'r llif arian negyddol ar gyfer y Cynllun Twf, a'r cyfraniadau partner blynyddol cyfatebol sydd eu hangen i gwrdd â'r gost hon a’r cyfraniadau craidd ac atodol sydd wedi’u sefydlu, fel sydd wedi'i nodi yn GA2 (ac ym mharagraffau 5.5 - 5.7 isod).

2.5. Bod y Cyfarwyddwr Rhaglen, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd ac Is-gadeirydd y Bwrdd Uchelgais, Swyddog Monitro'r Corff Atebol a Swyddog Adran 151 y Corff Atebol, yn derbyn awdurdod dirprwyedig i gytuno ar fân newidiadau i'r dogfennau fel sydd angen i gwblhau'r cytundeb.

2.6. Cymeradwyo ailenwi'r Swyddfa Rhaglen yn Swyddfa Rheoli Portffolio yn unol ag arfer gorau ac o ganlyniad i hynny, newid teitl swydd y Cyfarwyddwr Rhaglen yn Gyfarwyddwr Portffolio.

**3. RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

3.1. Yn 2016, mabwysiadodd partneriaid y Bwrdd Uchelgais Weledigaeth Twf ar gyfer Economi Gogledd Cymru. Yn seiliedig ar Strategaeth y Weledigaeth Twf, yn Hydref 2018 cytunwyd ar y Cynllun Twf gan holl bartneriaid y Bwrdd Uchelgais drwy weithio gyda Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a'r sector breifat. Yn Nhachwedd 2019 cytunodd y Bwrdd Uchelgais a'r ddwy Lywodraeth i Benawdau'r Telerau, gyda Cytundeb Terfynol i'w gwblhau yn 2020.

3.2. Mae'r Bwrdd Uchelgais wedi ymrwymo i gyrraedd Cytundeb Terfynol gyda'r ddwy Lywodraeth cyn diwedd Rhagfyr 2020.

3.3. Mae'r Swyddfa Rhaglen wedi datblygu y dogfennau sydd angen ei cyflwyno i'r ddwy Lywodraeth ar gyfer cyrraedd y Cytundeb Terfynol. Mae cynnwys y dogfennau wedi amlinellu yn yr adroddiad hwn, gyda copïau o'r dogfennau fel atodiadau.

3.4. Mae'r adroddiad yn argymell i'r Swyddfa Rhaglen gael ei ailenwi fel Swyddfa Rheoli Portffolio. Mae'r newid hwn yn ymateb i gwestiwn gododd yn ystod yr adolygiad porth diweddar gyda Llywodraeth Cymru. Cwestiynwyd enw y Swyddfa Rhaglen gan fod y Cynllun Twf yn bortffolio o raglenni a phrosiectau. Mae'r enw arfaethedig 'Swyddfa Rheoli Portffolio' yn cyd-fynd gyda ymarfer da ac yn gwahaniaethu yn glir rhwng rôl y Cyfarwyddwr sydd a chyfrifoldeb dros y Cynllun Twf yn ei gyfanrwydd a'r Rheolwyr Rhaglen sydd yn gyfrifol am weithredu y rhaglenni unigol.

**4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL**

4.1. Mae Cynllun Twf Gogledd Cymru yn bortffolio sy'n cynnwys 5 rhaglen i'w gweithredu dros y bymtheg mlynedd nesaf. Bydd yn cael ei weithredu gan Swyddfa Rheoli y Portffolio ar ran y Bwrdd Uchelgais.

4.2. Mae'r Cynllun Twf yn ceisio cyflawni cyfanswm o hyd at £1.1bn o fuddsoddiad yn economi'r Gogledd (£240m o'r Cynllun Twf), i greu 3,400 - 4,200 o swyddi ychwanegol net a chynhyrchu £2.0 - £2.4 biliwn mewn GVA ychwanegol net.

4.3. Mae'r pum rhaglen ac 14 prosiect, wedi'u cynllunio a'u datblygu'n ofalus gyda rhan ddeiliaid i fynd i'r afael a methiannau penodol yn y farchnad a rhwystrau i dwf economaidd.

4.4. Er mwyn cytuno i'r Cytundeb Terfynol gyda'r ddwy Lywodraeth, mae'r Bwrdd Uchelgais wedi paratoi pecyn o ddogfennau gan gynnwys Cynllun Busnes Cyffredinol, Achos Busnes y Portffolio, Cytundeb Terfynol Drafft ac Cytundeb Llywodraethu 2.

**4.5. Cynllun Busnes Cyffredinol**

4.5.1. Mae'r Cynllun Busnes Cyffredinol wedi baratoi gan y Swyddfa Rheoli Portffolio er mwyn gosod allan y trefniadau ar gyfer gweithredu Cynllun Twf Gogledd Cymru, gan gynnwys trosolwg o'r rhaglenni a prosiectau er mwyn cael cymeradwyaeth pob partner i'r gofynion Ariannol ar gyfer gweithredu'r cynllun.

4.5.2. Mae copi o'r Cynllun Busnes Cyffredinol yn ***Atodiad 1***.

**4.6. Achos Busnes Portffolio**

4.6.1. Mae'r Achos Busnes Portffolio wedi ei datblygu gan y Swyddfa Rheoli Portffolio gyda cefnogaeth gan Hatch Regeneris.

4.6.2. Pwrpas yr achos busnes portffolio yw i roi trosolwg o Gynllun Twf Gogledd Cymru a'r rhaglenni.

4.6.3. Bydd y portffolio ac achosion busnes y rhaglenni, unwaith y cymeradwyir fel rhan o'r Cynllun Terfynol, yn ddogfennau byw a ddefnyddir i reoli cyflawniad y Cynllun Twf ar sail barhaus ac fe'i diweddarir yn rheolaidd wrth i'r rhaglenni a'r prosiectau ddatblygu.

4.6.4. Mae'r Achos Busnes Portffolio yn dilyn strwythur y Model Pum Achos ac egwyddorion Llyfr Gwyrdd Trysorlys HM. Mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio wedi ymgynghori gyda Llywodraeth y DU a Chymru drwy'r broses o ddatblygu'r achos busnes.

4.6.5. Mae'r Achos Busnes Portffolio yn cynnwys y pum achos:

- **Yr Achos Strategol**: y rhesymeg dros fuddsoddiadau'r Cynllun Twf, eu hamcanion a'u gwedd â pholisi ehangach
- **Yr Achos Economaidd**: y gwerth am arian a ddarperir gan y Cynllun Twf
- **Yr Achos Masnachol**: y dull cytundebol a chaffael i'w gymryd
- **Yr Achos Ariannol**: costau a phroffil cyllido ar gyfer y Cynllun Twf
- **Yr Achos Rheoli**: y dull o reoli'r Cynllun Twf

4.6.6. Mae'r achos busnes portffolio yn rhoi crynodeb o'r cynnig ariannu ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru, ar gyfer cynnwys yn y Cytundeb Terfynol. Mae achosion busnes lefel rhaglen yn cyd-fynd gyda'r ddogfen, sy'n gosod y manylion ar gyfer y 5 rhaglen wedi seilio ar y Model Pum Achos.

4.6.7. Mae'r Achos Busnes Portffolio ar gael yn ***Atodiad 2***.

4.6.8. Mae'r Achos Busnes Portffolio wedi gefnogi gan gyfres o achosion busnes rhaglen, sy'n rhoi manylion ar y 5 rhaglen unigol. Mae'r achosion busnes rhaglen wedi crynhoi isod, ac mae trosolwg gweithredol ar gael yr ***Atodiad 3*** (mae copïau llawn o'r achosion busnes ar gael ar gais).

**4.6.9. Ynni carbon isel**

**Amcanion strategol:** Datgloi buddion economaidd prosiectau ynni carbon isel trawsffurfiol a sefydlu'r Gogledd fel un o leoliadau arweiniol y DU ar gyfer cynhyrchu ynni carbon isel, arloesedd a buddsoddi yn y gadwyn gyflenwi.

**Mathau o ymyrraeth:** Hwyluso gwaith ar gyfer cynhyrchu ynni carbon isel newydd, gan wella cyfleusterau ymchwil ac arloesedd ar gyfer y sectorau ynni carbon isel, datgarboneiddio trafnidiaeth a chefnogaeth ar gyfer y prosiectau ynni lleol.

**4.6.10 Arloesi mewn gweithgynhyrchu gwerth uchel**

**Amcanion strategol**: Cyfnerthu lleoliad Gogledd Cymru fel clwstwr gweithgynhyrchu gwerth uchel pwerus ac arloesol, sy'n adeiladu ar arbenigedd presennol ac arbenigedd byd-eang i greu sail economaidd gwerth uwch, mwy amrywiol sy'n cefnogi trosglwyddo i economi carbon isel.

**Mathau o ymyrraeth**: Cydweithrediadau diwydiant ac ymchwil, ynghyd â sefydlu canolfannau rhagoriaeth er mwyn helpu i oresgyn rhwystrau a methiannau yn y farchnad yn y broses masnacheiddio ymchwil.

**4.6.11. Bwyd-amaeth a thwristiaeth**

**Amcanion strategol:** Adeiladu economi sylfaen mwy cynaliadwy, bywiog a gwydn o fewn y rhanbarth, gan wneud y gorau o gyfleoedd am gyflogaeth a ffyniant drwy ein hamgylchedd a'n tirwedd.

**Mathau o ymyrraeth:** Cyflwyno technolegau newydd ac arloesedd, sgiliau ac ymarferion yn y sectorau hyn, drwy gefnogaeth busnes ac uwchsgilio.

**4.6.12. Tir ac eiddo**

**Amcanion strategol:** Mynd i'r afael â'r diffyg tir ac eiddo addas ar gyfer twf busnes a dod â safleoedd ymlaen ar gyfer datblygiadau tai. Cyflawni gwelliannau sy'n symbylu buddsoddiad mewn safleoedd ac eiddo ym Mhorthladd Caergybi a'r ardal ehangach. Chwarae rhan hwyluso ar gyfer rhaglenni eraill drwy sicrhau bod y seilwaith tir ac eiddo cywir ar gael.

**Mathau o ymyrraeth:** Adfer a hwyluso seilwaith i ddod â safleoedd cyflogaeth a thai ymlaen, cyflawni gofod llawr diwydiannol, gwarantu dyfodol porthladd Caergybi drwy ddarparu llwytho trwm dŵr dwfn a chyfleusterau mordeithiau a gwell mynediad cerbydol.

**4.6.13. Digidol**

**Amcanion strategol:** Cyflawni newid amlwg yn y cysylltedd digidol sydd ei angen i sicrhau y gall y Gogledd gyflawni galw'r defnyddwyr, cynnal cyflymdra â gweddill y DU, datgloi potensial sectorau a safleoedd â blaenoriaeth am dwf a thanategu ecosystem arloesi ffyniannus. Chwarae rôl hwyluso ar gyfer rhaglenni eraill i gyflawni'r budd mwyaf bosib.

**Mathau o ymyrraeth:** Mae'r rhaglen wedi adnabod angen i gydbwyso buddsoddiad mewn seilwaith a thechnoleg, drwy ôl-troed band eang sefydlog estynedig mewn safleoedd allweddol mewn ardaloedd gwledig, yn datgloi ceisiadau drwy fynediad 5G a bwrw ymlaen ymhellach ag arloesedd digidol.

4.6.14. Mae'r Cynllun Twf yn seiliedig ar gyflawni 14 o brosiectau trawsffurfiol ar draws y pum rhaglen uchod. Bydd achosion busnes rhaglenni yn cael ei datblygu a’i cyflwyno i’r Bwrdd Uchelgais am gymeradwyaeth o Ionawr 2021 ymlaen.

## 4.7. Cytundeb Terfynol

4.7.1. Yn Nhachwedd 2019 cytunodd y Bwrdd Uchelgais a Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i Benawdau’r Telerau, gyda Cytundeb Terfynol i’r gwblhau yn 2020.

4.7.2. Mae’r Cytundeb Terfynol Drafft wedi ei ddatblygu ar y cyd rhwng y Bwrdd Uchelgais a’r ddwy Lywodraeth.

4.7.3. Mae’r Cytundeb Terfynol yn gytundeb rhwng y Bwrdd Uchelgais, Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ar gyfer gweithredu Cynllun Twf Gogledd Cymru.

4.7.4. Bydd y Cytundeb Terfynol yn cael ei arwyddo ar sail yr Achos Busnes Portffolio ac 5 achos busnes rhaglen.

4.7.5. Mae copi o'r Cytundeb Terfynol Drafft ar gael yn ***Atodiad 4***.

**4.8. Cytundeb Llywodraethu 2**

4.8.1. Mae Cytundeb Llywodraethu 2 wedi ddatblygu gan y Penaethiaid Cyfreithiol rhanbarthol gyda Cyngor annibynnol arbenigol gan gwmni Pinsent Masons.

4.8.2. Mabwysiadwyd Cytundeb Llywodraethu 1 er mwyn cefnogi'r broses a'r cais am gyllid i'r ddwy Lywodraeth. Bydd Cytundeb Llywodraethu 2 yn mynd a'r bartneriaeth i'r cyfnod gweithredu ar gyfer y Cynllun Twf. Mae'r cytundeb yn gytundeb partneriaeth rhwng y chwe Awdurdod Lleol a'r Prifysgolion a'r Colegau sy'n gyrff partner. Mae'n parhau â'r model llywodraethu a fabwysiadwyd yn GA1, sef Cyd-bwyllgor a gefnogir gan awdurdod lletya ac yn darparu ar gyfer ymrwymiadau a chyfrifoldebau'r Partneriaid i'r bartneriaeth. Hefyd, mae'n diffinio'r berthynas rhwng y Bwrdd a'i sefydliadau Partner cyfansoddol, cyfyngiadau dirprwyo ac atebolrwydd.

4.8.3. Mae Cytundeb Llywodraethu 2 yn elfen angenrheidiol ar gyfer gweithredu'r Cynllun Twf. Mae'n rhoi sicrwydd i'r Llywodraethau ynghylch llywodraethiant y bartneriaeth. Mae'n sefydlu ymrwymiad cyfreithiol-rwym gan ac i'r Partneriaid a'r Corff Atebol sy'n angenrheidiol i alluogi i Gytundeb Terfynol y Cynllun Twf a'r Llythyr Grant gael eu cytuno. Heb y sicrwydd hwnnw, ni ellid ymrwymo i'r Cytundeb Terfynol a'r Llythyr Cynnig Grant ar ran y Partneriaid.

4.8.4. Darperir crynodeb eglurhaol manylach o Gytundeb Llywodraethu 2 yn Atodiad 5 ac mae copi o Gytundeb Llywodraethu 2 wedi'i gynnwys yn Atodiad 6.

**5. GOBLYGIADAU ARIANNOL**

5.1. Mae bwlch cyllido tymor canolig dros dro rhwng proffil gwariant disgwyliedig y Cynllun Twf a phroffil disgwyliedig y cyllid a dderbynnir gan y llywodraethau dros 15 mlynedd. Bydd y Bwrdd Uchelgais, drwy'r awdurdod lletya, yn gyfrifol am reoli'r llif arian negyddol hwn, ac mae wedi gweithio gydag Arlingclose i fodelu cost y benthyca a fyddai ei angen mewn egwyddor i hwyluso'r llif arian negyddol ar gyfer y Cynllun Twf, a'r cyfraniadau partner blynyddol cyfatebol sydd eu hangen i gwrdd â'r gost hon.

5.2 Gydag ystod o dybiaethau i'w hystyried, mae'r Bwrdd Uchelgais wedi rhagweld ystod o ffigyrau, wedi'u modelu fel y senario achos gorau (Fersiwn 1) a'r senario achos gwaethaf (Fersiwn 2), i adlewyrchu amseriad cwblhau'r Cynllun Twf ac amseru canlyniadol cyllid grant y llywodraethau. Mae'r gwahaniaeth rhwng y senarios achos gorau a gwaethaf yn amlygu pwysigrwydd cwblhau'r Cynllun Twf erbyn diwedd y flwyddyn galendr. Yn y ddau fersiwn, mae'r amrywiadau eraill, h.y. cyfradd llog ac incwm NNDR wedi parhau'r un fath. Y gyfradd llog a ddefnyddiwyd oedd 2.2% sy'n cael ei ystyried yn dybiaeth ddarbodus. Bydd y Bwrdd Uchelgais yn defnyddio ei grant NNDR "cadwedig" gan Lywodraeth Cymru i'w osod yn erbyn y llif arian negyddol, a'r awdurdodau lleol (yn gymesurol i'r boblogaeth) fydd yn cwrdd â'r gost net (£12.46m - £17.73m) ar gyfer prosiectau rhanbarthol y Bwrdd Uchelgais gydag arianwyr y prosiectau yn gyfrifol am y gost mewn perthynas â'u prosiect nhw.

5.3 Bydd unrhyw newidiadau i'r prosiectau yn arwain at fater a gedwir yn ôl os yw'n golygu cynyddu cyfraniadau'r partneriaid (e.e. newid o ariannwr y prosiect i'r Bwrdd Uchelgais, cynnyrch NNDR is, cost uwch, proffil gwariant cynharach).

5.4 Gyda phrosiectau cyfalaf, mae bob amser risg o orwario, a rhoddir mesurau rheoli yn eu lle i gyfyngu costau gorwario ar brosiectau penodol. Ar gyfer prosiectau rhanbarthol, byddai'r Swyddfa Rhaglen yn gyfrifol am reoli gwariant a sicrhau bod cyllidebau wrth gefn digonol wedi'u cynnwys

yn achosion busnes y prosiectau. Byddai gorwariant yn fater i Ariannwr y Prosiect ymdrin ag ef mewn perthynas a'u prosiectau nhw.

5.5 Mae'r tabl isod yn dangos **cyfanswm cyfraniadau'r partneriaid (15 mlynedd)** i ymdopi â chost 'benthyca' a fydd ei angen mewn egwyddor i hwyluso'r llif arian negyddol.

| Fersiwn | Prifysgol Bangor | Prifysgol Glyndwr | Grŵp Llandrillo Menai | Coleg Cambria | Partneriaid Masnachol eraill | Conwy | Sir Ddinbych | Sir y Fflint | Gwynedd | Ynys Môn | Wrecsam | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £m | £m | £m | £m | £m | £m | £m | £m | £m | £m | £m | £m |
| 1 | 1.40 | 0.51 | 0.75 | 0.52 | 2.29 | 1.17 | 0.96 | 1.56 | 1.24 | 0.70 | 1.36 | 12.46 |
| 2 | 1.99 | 0.73 | 1.07 | 0.74 | 3.24 | 1.67 | 1.36 | 2.22 | 1.77 | 1.00 | 1.94 | 17.73 |

5.6 Mae'r tabl isod yn dangos **cyfraniadau blynyddol y partneriaid** i ymdopi â chost 'benthyca' a fydd ei angen mewn egwyddor i hwyluso'r llif arian negyddol.

| Fersiwn | Bangor University | Glyndwr University | Grŵp Llandrillo Menai | Coleg Cambria | Other Commerical Partners | Conwy | Denbighshire | Flintshire | Gwynedd | Isle of Anglesey | Wrexham | Total |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ |
| 1 | 93,330 | 34,000 | 50,000 | 34,670 | 152,660 | 78,010 | 64,000 | 104,000 | 82,670 | 46,670 | 90,670 | 830,680 |
| 2 | 132,670 | 48,670 | 71,330 | 49,330 | 216,000 | 111,340 | 90,670 | 148,000 | 118,000 | 66,670 | 129,340 | 1,182,020 |

5.7 Mae cyfraniadau blynyddol y partneriaid (uchod) yn ychwanegol i'r cyfraniadau blynyddol 'craidd' ac 'atodol' sydd wedi'u sefydlu (isod).

| Cyfraniadau | Prifysgol Bangor | Prifysgol Glyndwr | Grŵp Llandrillo Menai | Coleg Cambria | Conwy | Sir Ddinbych | Sir y Fflint | Gwynedd | Ynys Môn | Wrecsam | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ |
| Craidd | 25,000 | 25,000 | 25,000 | 25,000 | 50,000 | 50,000 | 50,000 | 50,000 | 50,000 | 50,000 | 400,000 |
| Cyfraniadau Atodol | 0 | 0 | 0 | 0 | 40,000 | 40,000 | 40,000 | 40,000 | 40,000 | 40,000 | 240,000 |

## 6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

6.1. Mae'r adroddiad yn esbonio darpariaethau perthnasol Cytundeb Llywodraethu 2 ("GA2"), y Cynllun Busnes Cyffredinol ("OBP") a'r Gytundeb Twf Terfynol. Maent yn ffurfio rhan o'r oblygiadau cyfreithiol ond er osgoi dyblygu nid ydynt yn cael eu hail adrodd yn yr adran yma.

6.2. Gwneir yr argymhellion yn adroddiad yn unol a'r pwerau o roddir i'r Cynghorau dan adrannau 101.102 ac 113 o Deddf Llywodraeth Leol 1972, adran 1 o Ddeddf Lywodraeth Leol (Nwyddau a Gwasanaethau) 1976, adran 25 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994, Adrannau 2, 19 a 20 o Ddeddf Lywodraeth Leol 2000, Adran 9 o Fesur Llywodraeth Leol Cymru 2009 a phob pŵer grymuso arall sydd nawr gan y Cynghorau.

6.3. Mae darpariaethau Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau ( Cymru)2019 sydd ynglŷn a Cyd Bwyllgorau Corfforaethol ("CBC's") a chyhoeddiad diweddar dogfen ar ddarpar reoliadau yn amlwg yn berthnasol i'r materion a drafodir yn yr adroddiad. Fod bynnag mae Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru wedi bod yn gweithredu fel Cyd Bwyllgor ffurfiol ers Ionawr 2019. Nid yw GA2 yn newid y fframwaith llywodraethu sylfaenol yma ond mae'n angenrheidiol er caniatáu i'r Partneriaid ymrwymo i'r Cynllun Twf o fewn yr amserlen a osodir. O ganlyniad nid oes cynnig i wneud unrhyw newidiadau i'r argymhellion er cyfarch dyfodiad arfaethedig CBC's er fod GA2 yn cydnabod darpariaethau'r Bil a'r posibilrwydd o adolygiad i'r dyfodol.

6.4. Mae'r OBP yn ddogfen allweddol ynglŷn a chyflawni'r Cynllun Twf. Mae'n gweithredu i greu disgwyliad cyfreithlon y prosesir y Rhaglenni yn y modd a osodir yn y Cynllun. O ganlyniad mae'n bwysig fod pob Partner yn fodlon gyda chynnwys yr OBP. Bydd penderfyniadau ynglŷn a chyflawni

y rhaglenni a phrosiectau angen eu hystyried yn unol a’r darpariaethau yn GA2 pryd y gellir amlygu materion ynglŷn a phrosiectau unigol a sicrhau cyngor cyfreithiol manwl.

6.5. Wrth ystyried y mater yma dylid dal sylw at, ymysg materion eraill, dyletswyddau y Cyngor dan Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015. Yn gryno mae’r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i weithredu yn unol a’r egwyddor datblygu cynaliadwy er sicrhau y gellir cyfarch anghenion y presennol heb danseilio gallu cenedlaethau’r dyfodol i gyfarch eu anghenion. Mae hyn er gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae’r OBP yn esbonio fod Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 yn greiddiol i ddatblygu a gweithredu y Weledigaeth Twf a'r Cynllun Twf.

6.6. Mae Asesiad Lles a Chydraddoldeb wedi ei gynnal ac wedi ei atodi yn ***Atodiad 7***. Dylid dal sylw at y rhain wrth ddod i benderfyniad ar y mater yma.

6.7. Mae sylw wedi ei roi i ddyletswyddau dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (gan gynnwys y dyletswyddau Cymreig penodol). Yn unol a’r dyletswyddau yma rhaid i Gynghorau wrth wneud penderfyniadau;

a. ddal sylw priodol ar yr angen i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu a gormesu ac ymddygiadau eraill a waherddir gan y Ddeddf ;
b. hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobol sydd yn rhannu nodwedd gwarchodedig a’r rhai sydd ddim; a
c. hybu perthynas dda rhwng pobol sydd yn rhannu nodwedd gwarchodedig a’r rhai sydd ddim.

6.8. Yng Nghymru mae angen i’r Cynghorau gymryd camau penodol er dangos fod sylw priodol wedi ei roi i’r dyletswydd cydraddoldeb cyhoeddus. Mae’r dyletswyddau cydraddoldeb Cymreig penodol yma yn cynnwys asesu ardrawiad polisïau a threfniadaethau ar gydraddoldeb (yr hyn a elwir yn arferol yn Asesiad Ardrawiad Cydraddoldeb).

6.9. Mae’r Asesiad Llesiant a yn dangos fod y manylion a gynhwysir ym mharatoi ac yn y OBP drafft yn dangos cydymffurfiad gyda’r 5 ffordd o weithio, y Nodau Llesiant ac yn dangos y bydd y Weledigaeth Twf a’r Cynllun Twf yn cael ardrawiad cadarnhaol ar bob a grŵp a phobol sydd a nodweddion gwarchodedig.

**7. GOBLYGIADAU STAFFIO**

7.1. Dim

**8. EFFAITH AR GYDRADDOLDEB**

8.1. Mae copiau o’r asesiadau effaith i’w cael yn ***Atodiad 7-8***.

**9. YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD**

9.1. Ar y 7fed o Hydref, 2020 trafodwyd cynnwys yr adroddiad hwn gan y Grŵp Gweithredol.

9.2. Mae adroddiad a dogfennau perthnasol wedi cylchredeg ar gyfer cymeradwyaeth gan yr holl partneriaid. Bydd adroddiad blaen ac atodiadau yn cael ei cyflwyno i’r gyfarfodydd Craffu, Cabinet ac Cyngor Llawn y chwe Awdurdod lleol – copi o’r adroddiad drafft ar gael yn ***Atodiad 9***.

**ATODIADAU:**

| | |
|---|---|
| **Atodiad 1** | Cynllun Busnes Cyffredinol* |
| **Atodiad 2** | Achos Busnes Portffolio* |
| **Atodiad 3** | Achosion Busnes Rhaglen: Trosolwg Gweithredol*<br>(mae copïau llawn o'r achosion busnes ar gael ar gais) |
| **Atodiad 4** | Cytundeb Terfynol Drafft* |
| **Atodiad 5** | Crynodeb o Gytundeb Llywodraethu 2* |
| **Atodiad 6** | Cytundeb Llywodraethu 2* |
| **Atodiad 7** | Asesiad Effaith Cydraddoldeb |
| **Atodiad 8** | Asesiad Effaith yr Iaith Gymraeg |
| **Atodiad 9** | Adroddiad Drafft i gyfarfodydd Craffu, Cabinet a'r Cyngor Llawn |

** yn amodol ar adolygiad terfynol a phrawf ddarllen*

---

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Swyddog Monitro – Awdurdod Lletya:**

"Rwyf wedi cyfrannu at baratoi yr adroddiad yma ac nid oes gennyf sylwadau penodol i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb ond gallaf roi arweiniad pellach yn y cyfarfod."

**ii. Swyddog Cyllid Statudol (Swyddog Adran 151 yr Awdurdod Lletya):**

"Rwyf wedi cyfrannu at yr agweddau cyllidol o'r papur yma ac yn cefnogi'r argymhellion."

### Buddion Uniongyrchol a Ragwelir i Fôn

1. Buddsoddiad uniongyrchol mewn prosiectau ar Ynys Môn gan gynnwys Portladd Caergybi, Morlais a datblygiad ar MSParc
2. Cyfleoedd cadwyn gyflenwi a swyddi yn sgil prosiectau cyfalaf fel Morlais, Porthladd Caergybi ac ati
3. Gwell cysylltedd digidol ar gyfer busnesau, trigolion ac ymwelwyr
4. Mynediad at gyfleusterau, offer, cefnogaeth ac ymchwil arbenigol ar gyfer busnesau bwyd a diod

### Buddion Anuniongyrchol a Ragwelir i Fôn

1. Mynediad at ymchwil arloesol a chefnogaeth gyda thechnegau ffermio cynaliadwy ar gyfer y busnesau ffermio yn y safle Grwp Llandrillo Menai Glynllifon
2. Cyfleoedd am fentrau ynni adnewyddadwy o fewn y Prosiect Ynni Lleol Blaengar a buddsoddiad yn y Ganolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel ym Mhrifysgol Bangor & MSParc
3. Potensial am gyfleoedd i ddatblygu safleoedd strategol fel rhan o’r rhaglen Tir ac Eiddo hirdymor
4. Gwell sgiliau trwy biotechnoleg, canolfan ragoriaeth carbon isel, twristiaeth a'r economi wledig

# RHYBUDD o Benderfyniadau Cyfarfod y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio a gynhaliwyd yn Rhithiol ar 10 Tachwedd, 2020.

**Yn Bresennol**: Cynghorydd Gwilym O Jones (Cadeirydd)
Cynghorydd Glyn Haynes (Is-gadeirydd)

Cynghorwyr T Ll Hughes MBE, K P Hughes, Vaughan Hughes, R Ll Jones, Alun Roberts, Dafydd Roberts a Margaret Murley Roberts.

**Ymddiheuriadau**: Cynghorydd Nicola Roberts

**Wrth Law:**
Prif Weithredwr,
Dirprwy Brif Weithredwr,
Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro (ar gyfer Eitem 4)
Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 (ar gyfer eitem 4),
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Dros dro
Pennaeth Gwasanaethau Oedolion Dros dro
Pennaeth Rheoleiddio a Datblygiad Economaidd Dros dro (Eitem 4)
Rheolwr Gwasanaeth – Anableddau Dysgu ac Iechyd Meddwl (BW) (Eitem 3),
Pennaeth Gwasanaethau Tai
Prif Swyddog Datblygu (TJ) (Eitem 4),
Rheolwr Cyllid (CE)
Rheolwr Sgriwtini(AD),
Swyddog Sgriwtini (SR),
Swyddog Pwyllgor (MEH).

**Hefyd yn Bresennol:**
Cynghorydd Llinos M Huws – Arweinydd ac Aelod Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol (Eitemau 3, 4, 5 a 6);
Cynghorydd Carwyn Jones – Aelod Portffolio (Prosiectau Mawr a Datblygiad Economaidd)
Cynghorydd Dafydd R Thomas – Aelod Portffolio (Gwasanaethau Corfforaethol).

Ms Alwen Williams (Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru) (eitem 4),
Mr Hedd Vaughan Evans (Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru (eitem 4),
Ms Bethan Jones Edwards – Pennaeth Cydweithio Rhanbarthol (Cyngor Sir Ddinbych) (eitem 5),
Ms Nonn Hughes – Rheolwr Rhaglen, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn (eitem 6),
Mr Emyr Williams – Cadeirydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn (eitem 6).

(2.00 o'r glo - 4.30 o'r gloch)

| | |
|---|---|
| ITEM NUMBER AND SUBJECT MATTER | **3 Cynllun Peilot Cyngor Sir Ynys Môn a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr – Anableddau Dysgu Cyngor Sir Ynys Môn a Bwrdd Iechyd** |
| DECISION | **PENDERFYNWYD Cymeradwyo peilota** |

| | |
|---|---|
| | **cronfa gyfun rhwng Cyngor Sir Ynys Môn a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, a gyflwynir gam wrth gam, ar gyfer y gyllideb byw â chymorth bresennol ar gyfer oedolion sydd ag anableddau dysgu sy'n byw ar Ynys Môn ac sy'n cael eu cyllido ar y cyd ar hyn o bryd.** |

| | |
|---|---|
| ITEM NUMBER AND SUBJECT MATTER | **4 Cytundeb Llywodraethu 2 - Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru** |
| DECISION | **PENDERFYNWYD argymell i'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Sir y cefnogir yr argymhellion drafft fel y nodir yn yr adroddiad.** |

| | |
|---|---|
| ITEM NUMBER AND SUBJECT MATTER | **5 Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (Rhan 9: Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol)** |
| DECISION | **PENDERFYNWYD:-**<br><br>• **Cadarnhau bod y Pwyllgor wedi cymryd i ystyriaeth y gwaith sydd angen ei ymgymryd ag ef gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.**<br>• **Bod y Pwyllgor yn nodi'r gwaith a'r cynnydd sydd wedi'i wneud yn 2019/20 ar y meysydd gwaith sy'n cael eu datblygu'r rhanbarthol drwy'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru.** |

| | |
|---|---|
| ITEM NUMBER AND SUBJECT MATTER | **6 Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus - craffu ar y trefniadau llywodraethu** |
| DECISION | **PENDERFYNWYD nodi trefniadau llywodraethiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ynys Môn a Gwynedd.** |

| | |
|---|---|
| ITEM NUMBER AND SUBJECT MATTER | **7 Rhaglen Waith 2020/21** |
| DECISION | **PENDERFYNWYD nodi'r Rhaglen Waith ar gyfer Medi 2020 – Ebrill 2021.** |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **30 Tachwedd 2020** |
| **Pwnc / Testun:** | Cynllun Peilot Cyngor Sir Ynys Môn a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr – Anableddau Dysgu Cyngor Sir Ynys Môn a Bwrdd Iechyd |
| **Deilydd(ion) Portffolio:** | **Y Cynghorydd Llinos Medi** |
| **Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:** | Iola Richards, Pennaeth Gwasanaethau Oedolion (Dros Dro) |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Tel:**<br>**E-bost:** | Barbara Williams, Rheolwr Gwasanaeth – Anableddau Dysgu ac Iechyd Meddwl<br><br>Emma Edwards, Dirprwy Reolwr Busnes<br>01248 751887<br>Emmaedwards@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | Perthnasol i bob aelod |

**A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau**

**Pwrpas yr Adroddiad:**
Diweddaru aelodau parthed y cynnydd a wnaed gan CSYM a phartneriaid yn BIPBC ar y prosiect **Cyflenwad Rhannu Gwasanaeth** “Cyllidebau Cyfun ar gyfer Gwasanaethau Anableddau Dysgu”.

**Cefndir:**
Cafodd Strategaeth Anabledd Dysgu Gogledd Cymru https://www.cydweithredfagogleddcymru.cymru/anableddau-dysgu/ ei chymeradwyo gan bob un o’r chwe awdurdod lleol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ym mis Mawrth 2019. Nod y strategaeth yw datblygu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol di-dor ar gyfer pobl ag anableddau dysgu. Drwy integreiddio iechyd, gofal cymdeithasol a’r trydydd sector yn well, nod y strategaeth yw helpu pobl ag anableddau dysgu i fyw yn fwy annibynnol a derbyn y gofal sydd ei angen arnynt yn agosach at adref.

Cam canolog yn y strategaeth yw archwilio a **threialu cyllidebau cyfun** rhwng iechyd a gofal cymdeithasol yn yr ardal.

I gefnogi’r gwaith o weithredu’r strategaeth, mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru wedi sicrhau cyllid o’r Gronfa Drawsnewid ‘Cymru Iachach’ i roi’r Rhaglen Drawsnewid Anableddau Dysgu Gyda’n Gilydd Gogledd Cymru ar waith, ynghyd â thîm cyflawni. Mae’r tîm wedi cael y dasg o ddarparu’r cymorth a’r adnoddau sydd eu hangen ar y partneriaid i roi prif egwyddorion y strategaeth ar waith.

Mewn sawl ffordd, cynllun treialu'r gronfa gyfun rhwng BIPBC a Chyngor Sir Ynys Môn yw prif elfen y rhaglen ac mae Llywodraeth Cymru wedi dangos diddordeb penodol yn ei ddatblygiad a'i lwyddiant.

Bydd gan y cynllun treialu fantais ychwanegol gan y bydd yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r Cytundeb Integreiddio Cydweithredol Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Gogledd Cymru dan Ran 9 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae'r cytundeb hwn yn amlinellu'r prosiectau allweddol (gan gynnwys anableddau dysgu) y mae'r chwe Chyngor Sir a BIPBC wedi cytuno cydweithio arnynt er mwyn nodi cyfleoedd am wasanaethau integredig a all fod yn addas hefyd ar gyfer trefniadau cyllidebau cyfun ffurfiol. Llofnodwyd y cytundeb hwn yn ffurfiol gan y chwe Chyngor Sir a BIPBC yn 2018.

**Y Prosiect Treialu**

Yng Ngogledd Cymru, mae'r boblogaeth o bobl ifanc a phobl hŷn sydd ag anableddau dysgu yn tyfu (Asesiad Poblogaeth Gogledd Cymru, td. 165). Mae datblygiadau meddygol wedi cael effaith gadarnhaol ac mae mwy o bobl ifanc sydd ag anghenion cymhleth iawn yn byw i fod yn oedolion. Hefyd, mae anghenion ac ymddygiadau pobl hŷn sydd ag anableddau dysgu yn mynd yn fwy cymhleth wrth iddynt heneiddio.

Mae'r duedd hon yn creu heriau sylweddol i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol y rhanbarth er mwyn darparu'r math cywir o gefnogaeth i sicrhau fod pobl ag anableddau dysgu yn cyflawni llesiant. Mae angen dulliau arloesol, gan gynnwys gwell cydweithio ym meysydd cyllid a chomisiynu ynghyd â datrys anghydfodau yn gyflymach (Asesiad Poblogaeth Gogledd Cymru, td. 164).

**Mae Rhaglen Trawsnewid Anableddau Dysgu Gyda'n Gilydd Gogledd Cymru**, a gefnogir gan Awdurdod Lleol Ynys Môn a BIPBC, yn ymateb i'r her hwn drwy geisio treialu cronfa gyfun ar gyfer y gyllideb byw â chymorth ar gyfer oedolion sydd ag anableddau dysgu sy'n byw yn Ynys Môn. Bydd y prosiect yn cael i gyflawni ar y cyd gan Wasanaethau Anableddau Dysgu Oedolion Ynys Môn ac adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu BIPBC, sydd â hanes hir o waith partneriaeth cryf.

Mae cronfeydd cyfun yn fecanwaith i ganiatáu integreiddio cefnogaeth iechyd a gofal cymdeithasol ymhellach a bernir eu bod yn arbennig o effeithiol ar gyfer grwpiau poblogaeth sydd ag anghenion cymhleth. Mae'r mecanwaith presennol i sicrhau cyllid iechyd a gofal cymdeithasol ar y cyd ar gyfer oedolion ag anableddau dysgu yn cynnwys dwy broses nad oes aliniad da rhyngddynt.

<u>Y rheswm dros dreialu cronfa gyfun yw profi a gwerthuso a yw integreiddio'r prosesau hyn yn arwain at wasanaethau a chanlyniadau o ansawdd gwell ar gyfer unigolion ac yn gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran darparu gwasanaeth.</u>

*Gellir gweld copi o gynllun a cherrig milltir y Prosiect Treialu wedi eu halinio â'r cynllun trawsnewid cyllidebau cyfun yn yr Atodiad er mwyn i chi gael golwg arno.*

**Asesiad a Dadansoddiad o'r Prosiect Treialu**

<u>Goblygiadau Strategol:</u>

Mae CSYM yn bartner allweddol yn y Strategaeth Anabledd Dysgu Gogledd Cymru a Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd: gwasanaeth di-dor ar gyfer pobl ag anableddau dysgu. Drwy gymeradwyo'r prosiect treialu hwn, bydd CSYM yn galluogi'r Awdurdod Lleol i gyfrannu'n sylweddol at gyflawni mesurau perfformiad allweddol yn llwyddiannus ar gyfer y Rhaglen Drawsnewid, sydd â'r Strategaeth Anabledd Dysgu'n sylfaen iddi.

Cynhaliwyd y trafodaethau drwy'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

Goblygiadau Gweithredol Safonol:

Yn sail i'r gronfa gyfun mae cytundeb Adran 33 statudol sy'n amlinellu cyfrifoldebau ar y cyd, strwythurau rheoli, mesurau sicrhau perfformiad a llywodraethu ansawdd, llywodraethu ariannol a strwythurau.

I gefnogi'r ymgorffori mewn arferion gweithredol cyfredol - bydd y cytundeb Adran 33 yn llywio'r gwaith o ddatblygu trefniadau gweithredol safonol fydd yn amlinellu'r strwythurau llywodraethu cefnogol a systemau i gefnogi'r gweithredu.

Bydd hyn yn cynnwys prosesau ansawdd a sicrwydd clir a chadarn sy'n gydnaws â dangosyddion perfformiad allweddol o fframweithiau presennol. Bydd CSYM, ynghyd â BIPBC yn cefnogi'r farn y bydd DPA a phrosesau ansawdd a sicrwydd presennol ar gyfer ceisiadau i'r Cyngor Iechyd Cymunedol / ceisiadau Cyd-ariannu i'r bwrdd iechyd yn cael eu defnyddio.

Yn ogystal, defnyddir y fframwaith cydraddoldebau iechyd i fesur canlyniadau ar gyfer pob unigolyn.

Goblygiadau Ariannol:
Bydd cam cyntaf y cynllun treialu'n cyfuno ymrwymiadau ariannol cyfredol y ddwy asiantaeth ar gyfer gwasanaethau byw â chymorth ar gyfer oedolion sydd ag anableddau dysgu sy'n byw ar Ynys Môn. Bydd Rhaglen Drawsnewid Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd yn dyrannu cyfraniad ariannol i'r gronfa gyfun unwaith y bydd y prosiect treialu'n weithredol i gefnogi'r camau cyntaf o ran cyflawni'r prosiect.

Ni fydd y goblygiadau ariannol i CSYM a BIPBC yn cynyddu o ganlyniad i'r prosiect treialu, er efallai y bydd yn ofynnol cyfrannu at godiad blynyddol yng nghostau byw â chymorth ac anghenion iechyd a gofal unigolion, ond byddai hynny'n wir hyd yn oed pe na chynhaliwyd y cynllun treialu.

Bydd cam cyntaf y prosiect treialu'n golygu cyfuno'r ymrwymiadau cyd-ariannu presennol ar gyfer gwasanaethau byw â chymorth i 36 o unigolion sy'n cael eu cyd-ariannu. Ar hyn o bryd, cyfanswm y gwariant ar gyfer BIPBC a'r Awdurdod Lleol yw: £3,166,201.87. Mae hyn yn cael ei rannu yn ôl:

- Iechyd - 1,346,723.81
- Awdurdod Lleol - £1,819,478.06

Bydd y gronfa gyfun yn cael ei dal a'i rheoli gan IOACC ar ran y partneriaid a bydd y Rheolwr Gwasanaeth ar gyfer Anabledd Dysgu ac Iechyd Meddwl yn dod yn Rheolwr y Gronfa gyfun sy'n gyfrifol am ddefnyddio'r gronfa gyfun y cytunwyd arni yn effeithiol yn unol â'r cytundeb sect 33.

Bydd symud ymlaen tu hwnt i'r cam hwn yn ddibynnol ar arfarniad effaith yn erbyn y mesurau perfformiad cytunedig ar gyfer y cynllun treialu. Fe'u nodir yn y cytundeb Adran 33 y bydd y ddau

bartner yn ei lofnodi cyn i'r cynllun treialu gychwyn yn Rhagfyr 2020. Bydd Rhaglen Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd yn darparu adnoddau i gefnogi pob elfen o gyflawni'r peilot, gan gynnwys:

- Cyfraniad ariannol i'r gronfa gyfun i gefnogi unrhyw godiad yn y costau.
- Cefnogaeth annibynnol gydag arfarnu.

Mae cefnogaeth barhaus gan dîm cyllid CSYM yn hanfodol i gefnogi trefniadau llywodraethu ychwanegol y peilot hwn.

Dadansoddiad Risg

Mantais rhoi cytundeb Adran 33 mewn lle ar gyfer y cynllun treialu hwn yw y bydd yn darparu fframwaith cytunedig ar gyfer y ddau bartner i reoli risg. Rhaid i gytundebau o'r fath gydymffurfio â chyfarwyddiadau statudol penodol ynghylch y cynnwys a fydd felly'n caniatáu i bartneriaid:

- gytuno ar flaenoriaethau a thargedau ar y cyd clir,
- pa adnoddau a gwasanaethau sydd eu hangen,
- pa ganlyniadau fydd yn cael eu cyflawni,
- sut fydd y bartneriaeth yn cael ei llywodraethu, gan gynnwys datrys anghydfod

Bydd Bwrdd Rheoli Partneriaeth yn cael ei sefydlu ar gyfer y cynllun treialu hefyd. Bydd yn adrodd ar y cyd i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ac i'r Uwch Strwythurau Rheoli o fewn BIPBC ac Ynys Môn. Bydd y Bwrdd yn rhoi cyfle i'r partneriaid gwrdd yn rheolaidd a chytuno ar amcanion, adnoddau, perfformiad ac unrhyw amrywiadau brys o fewn cyd-destun mesurau lleol ar gyfer y bartneriaeth. Bydd y Bwrdd yn derbyn adroddiadau ar fesur perfformiad, effaith y bartneriaeth ac a oes angen cymryd unrhyw gamau priodol. Bydd gan y Bwrdd broses adolygu blynyddol, lle bydd adnoddau a'r camau nesaf yn y cynlluniau busnes yn cael eu cadarnhau.

Cyfreithiol a Chydymffurfio:
Mae Cytundebau Rhan 9 dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (neu Gytundebau Adran 33), yn caniatáu i'r GIG ac Awdurdod Lleol gyfuno cyllidebau os yw'r partneriaid yn cwblhau cytundeb ysgrifenedig llawn. Fel y nodwyd, bydd Ynys Môn a BIPBC yn cymeradwyo ac yn llofnodi Cytundeb Adran 33 a thrwy hynny'n darparu'r fframwaith cyfreithiol y bydd y cynllun treialu'n gweithredu oddi mewn iddo. Bydd y ddau bartner yn ceisio cyngor cyfreithiol ar y cyd ac yn unigol cyn llofnodi'r cytundeb partneriaeth. Bydd hyn yn sicrhau fod y ddau bartner yn gwybod beth yw eu hawliau/pwerau ac yn ymwybodol o unrhyw gyfyngiadau cyfreithiol. Ar ôl ei lofnodi bydd y cytundeb mewn lle am un flwyddyn galendr, ac yna bydd y Bwrdd Rheoli Partneriaeth yn cynnal adolygiad strategol ac ariannol.

**Amserlen**

Cynigir fod yr adroddiad yn cael ei rannu â'r pwyllgorau a ganlyn:

Uwch Dîm Rheoli 18 Hydref 2020

Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 10 Tachwedd 2020

Pwyllgor Gwaith 30 Tachwedd 2020

**Argymhellir**

1.1 Gwahoddir aelodau i wneud sylwadau ar gynnwys yr uchod ac i gymryd y cyfle i ofyn cwestiynau i'r panel i geisio sicrwydd ynghylch y cynnig i gynnal y prosiect treialu.

1.2 Cymeradwyo treialu cronfa gyfun rhwng Cyngor Sir Ynys Môn a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi

Cadwaladr, a gyflwynir gam wrth gam, ar gyfer y gyllideb byw â chymorth bresennol ar gyfer oedolion sydd ag anableddau dysgu sy'n byw ar Ynys Môn ac sy'n cael eu cyllido ar y cyd ar hyn o bryd. Mae hyn yn golygu cytuno ar gymeradwyo cam 1 yn y lle cyntaf.

1.3 Bod adran Gyfreithiol CSYM yn darparu barn annibynnol parthed y cytundeb Adran 33.

1.4 Bod y Pwyllgor Gwaith yn dirprwyo i'r Swyddog Monitro yr hawl i gwblhau'r cytundeb rhan 33 ac i'r Swyddog 151 i cytuno gyda BCUHB y trefniadau ariannol i sicrhau fod yr arian yn cael i rheoli yn gywir ac yn effeithiol.

**B – Pa opsiynau eraill bu I chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?**

Mae'r cynllun treialu a awgrymir yn cael ei gynnal gyda diogelwch cytundeb Adran 33 er mwyn arfarnu cynnydd i sicrhau y gellir diwygio a datblygu'r prosiect Cyllideb Gyfun hirdymor i fod yn effeithiol a'i ddiogelu at y dyfodol. Bydd Cam 2 y gronfa gyfun yn dibynnu ar werthusiad annibynnol o beilot Cam 1 dros gyfnod o 12 mis (2021-2022)

**C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Fel yr eglura'r uchod, bydd Cyllidebau Cyfun, a reolir drwy Fwrdd Rheoli Partneriaeth ar y cyd, ac a lywodraethir gan gytundeb Adran 33, yn newid cyfeiriad strategol, ac mae'n hanfodol fod Aelodau'r Pwyllgor Gwaith yn deall yr oblygiadau a'r effeithiau yn llawn ac yn eu cefnogi.

**D – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson a'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

**Ydyw.**

**DD – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

**Ydyw**

**E – Effaith ar Genedlaethau'r Dyfodol (os yn berthnasol)**

| | | |
|---|---|---|
| 1 | **Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein anghenion tymor hir fel Ynys** | Mae'n darparu gwell canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaeth ac yn cyflawni ar yr agenda integreiddio. |
| 2 | **A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir a fydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol. Os felly, sut:-** | Yn darparu prosesau symlach ar gyfer cytuno ar ddarpariaeth gofal a ariennir ar y cyd i ddefnyddwyr gwasanaeth mewn llety byw â chymorth |
| 3 | **A ydym wedi bod yn cyd-gweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda pwy-** | Ydy. Mae hon yn fenter gydweithredol rhwng IOACC a BCUHB gyda chefnogaeth y tîm Trawsnewid rhanbarthol ar gyfer Anabledd Dysgu |
| 4 | **A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae'i rhan yn drafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:-** | Nid oes unrhyw effaith uniongyrchol ar ddefnyddwyr gwasanaeth o ran sut y cytunir ar y trefniadau cyllido a'u rheoli. |
| 5 | **Nodwch yr effeithiau mae'r penderfyniad hwn yn ei gael ar yr agenda cydraddoldeb ac iaith Gymraeg** | Cydymffurfio'n llawn â gofynion yr Ecwiti a'r Iaith Gymraeg |

| **E – Gyda phwy yr ymgynghoroch?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| 1 | **Prif-weithredwr / Uwch Dim Rheoli (UDRh) (gorfodol)** | Cafodd ei gymeradwyo gan yr UDA ar 18 Hydref 2020. |
| 2 | **Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol)** | Fel uchod.<br>Mae Staff Cyllid CSYM wedi bod yn rhan o'r broses hyd yn hyn. |
| 3 | **Swyddog Cyfreithiol / Mnitro (gorfodol)** | Fel uchod.<br>Mae staff Cyfreithiol CSYM wedi bod yn rhan o'r broses hyd yn hyn. |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | Amherthnasol |
| 5 | **Eiddo** | Amherthnasol |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth (TG)** | Amherthnasol |
| 7 | **Caffael** | Cafodd yr Adroddiad hwn ei ystyried gan |

| | | |
|---|---|---|
| | | Aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 10 Tachwedd 2020. |
| **8** | **Sgriwtini** | Amherthnasol |
| **9** | **Aelodau Lleol** | Amherthnasol |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| |

| **FF – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth):** |
|---|
| Gellir cael gwybodaeth ychwanegol drwy edrych ar Strategaeth Anabledd Dysgu Gogledd Cymru ar y ddolen: https://www.cydweithredfagogleddcymru.cymru/ |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith / Cyngor Sir** |
| **Dyddiad:** | **30 Tachwedd / 8 Rhagfyr 2020** |
| **Pwnc:** | **Newid y broses gyfansoddiadol mewn perthynas â gosod Cyllideb y Cyngor** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas**<br>**Aelod Portffolio Busnes Corfforaethol** |
| **Pennaeth / Cyfarwyddwr Gwasanaeth:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Ffôn:<br>E-bost: | **Mared Yaxley**<br>**01248 752566**<br>**maredyaxley@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Nid yw'r mater hwn yn benodol i unrhyw ward** |

**A –Argymhelliad/argymhellion a Rheswm/rhesymau**

Cefndir

1. Y llynedd, cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith ar 29 Tachwedd (gan ddefnyddio dirprwyaeth yr arweinydd i gymeradwyo'r adroddiad) a'r Cyngor ar 10 Rhagfyr yn nodi y byddai'r setliad dros dro a therfynol i Lywodraeth Leol am 2020/21 yn cael ei gyhoeddi'n llawer iawn hwyrach na'r amserlen arferol oherwydd yr etholiad cyffredinol a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2019.

2. Derbyniwyd cadarnhad y bydd y setliad dros dro a therfynol i Lywodraeth Leol am 2021/2022 yn cael ei gyhoeddi'n hwyr hefyd. Ni fydd y setliad dros dro yn cael ei gyhoeddi tan 22 Rhagfyr 2020 [8 diwrnod yn hwyrach na'r llynedd]. Nid yw'r dyddiad ar gyfer cyhoeddi'r setliad terfynol yn hysbys ar hyn o bryd.

Canlyniadau'r oedi

3. Oherwydd yr oedi o ran cyhoeddi'r setliad ar gyfer cyllideb 2020/21, cytunodd y Cyngor i atal paragraff 4.3.2.2.8 o Gyfansoddiad y Cyngor ar gyfer y broses o osod cyllideb 2020/21 a chaniatáu i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ystyried Cynigion Cychwynnol y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y Gyllideb lai na phythefnos cyn y dyddiad y mabwysiadwyd y gyllideb flynyddol gan y Cyngor ar 10 Mawrth 2020.

4. Oherwydd y bydd y cyhoeddiad yn cael ei ohirio, bydd angen diwygio'r broses gosod cyllideb unwaith eto ar gyfer gosod cyllideb 2021/2022 gan na fydd yn ymarferol bosib dilyn yr amserlen sydd wedi'i chynnwys yng Nghyfansoddiad y Cyngor.

5. Gallai gosod y gyllideb yn groes i ofynion Cyfansoddiad y Cyngor ei hun arwain at her nad yw'r gyllideb flynyddol a'r dreth gyngor wedi cael eu gosod yn gyfreithlon.

Y gofynion Cyfansoddiadol

6. Yr amserlen sydd wedi'i chynnwys yng Nghyfansoddiad y Cyngor yw'r hyn a fabwysiadwyd gan y Cyngor hwn fel mater o ddewis lleol. Yr unig eithriad i hyn yw'r dyddiad y mae'n rhaid i'r Cyngor fabwysiadu cyllideb derfynol; mae Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (paragraff 30 (6)) yn datgan bod rhaid pennu swm y Dreth Gyngor ar neu cyn 11 Mawrth yn y flwyddyn ariannol cyn y flwyddyn y mae'n cael ei gosod ar ei chyfer.

7. Er mwyn sicrhau y dilynir y broses gyfansoddiadol, mae'n rhaid i rywun gychwyn gyda'r dyddiad hwnnw fel terfyn amser absoliwt a gweithio'n ôl er mwyn ymgorffori'r amserlen a bennir yn y Cyfansoddiad.

8. Gan mai hon yw'r ail flwyddyn yn olynol y gofynnir i'r Cyngor addasu'r broses ar gyfer gosod y gyllideb, oherwydd rhesymau y tu hwnt i reolaeth y Cyngor, yn hytrach na gofyn i'r Cyngor gymeradwyo atal y gofyniad am un flwyddyn yn unig, gofynnir i'r Cyngor gytuno i ddiwygio'r Cyfansoddiad i gynnwys hyblygrwydd yn yr amserlen gyfansoddiadol; byddai hyn ar gael wedyn pe byddai sefyllfa debyg yn codi yn y dyfodol.

9. Mae'r tabl isod yn nodi'r broses bresennol ar gyfer gosod y gyllideb (colofn 1) ac esboniad o'r gofynion cyfansoddiadol presennol (colofn 2). Lle argymhellir diwygio'r trefniant presennol, mae unrhyw eiriad newydd wedi ei gynnwys wedi'i <u>danlinellu</u> (ac mewn teip coch) ac mae llinell drwy unrhyw eiriau fyddai'n cael eu dileu (colofn 3).

| **Y Cam yn y Broses o Osod y Gyllideb** | **Gofynion Presennol y Cyfansoddiad** | **Gofynion Cyfansoddiadol Arfaethedig** |
|---|---|---|
| Y Pwyllgor Gwaith yn cyhoeddi Datganiad Rhag-gyllidebol | Para 4.3.2.2.1 - Cyn 30 Medi mewn unrhyw flwyddyn, bydd y Pwyllgor Gwaith yn cyhoeddi Datganiad Rhag-gyllidebol | *Nid oes cynnig i ddiwygio hyn oherwydd fod hon yn adroddiad wedi ei seilio ar wybodaeth fewnol ac felly nid yw'n ddibynnol ar ffactorau allanol sy'n gallu effeithio'r amserlen.* |
| Y Pwyllgor Sgriwtini i ystyried y Cynigion Cychwynnol mewn perthynas â'r Gyllideb | Para 4.3.2.2.4 – Bydd y Pwyllgor Gwaith yn cymryd i ystyriaeth sylwadau a dderbyniwyd gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol cyn llunio ei Gynigion Cychwynnol mewn perthynas â'r Gyllideb. | *Diwygiad a argymhellir:*<br>4.3.2.2.2 <u>Trwy wneud pob ymdrech,</u> cyn 30 Tachwedd mewn unrhyw flwyddyn, <u>neu chyn gynted ag sy'n rhesymol bosib</u> bydd y Pwyllgorau Sgriwtini Corfforaethol yn ystyried Datganiad Rhag-gyllidebol y Pwyllgor Gwaith o ran yr effaith a gaiff a chan ystyried cynlluniau corfforaethol a chynlluniau gwasanaeth yr awdurdod a chynigion ar gyfer eu datblygu. Gall gyflwyno sylwadau i'r Pwyllgor Gwaith ynglŷn â'r cyllidebau hynny sy'n rhan o'i gylch gorchwyl ac, yn ychwanegol at hyn, gall gyflwyno sylwadau ar y gyllideb yn gyffredinol. |
| Y Pwyllgor Gwaith i gyhoeddi ei Gynigion Cychwynnol mewn perthynas â'r Gyllideb | Para 4.3.2.2.5 – Cyhoeddi Cynigion Cychwynnol mewn perthynas â'r Gyllideb cyn 15 Ionawr | *Diwygiad a argymhellir:*<br>4.3.2.2.5 <u>Trwy wneud pob ymdrech,</u> cyn 15 Ionawr mewn unrhyw flwyddyn,<u> neu chyn gynted ag sy'n rhesymol bosib</u>,bydd y Pwyllgor Gwaith yn cyhoeddi cynigion cychwynnol mewn perthynas â'r Gyllideb ar gyfer y flwyddyn a fydd yn cychwyn ar yr 1 Ebrill dilynol. Bydd y cynigion cychwynnol mewn perthynas â'r gyllideb yn cynnwys y canlynol:<br>(i) os ydyw'r Cyngor wedi mabwysiadu strategaeth gyllidebol, a ydyw'r gyllideb flynyddol arfaethedig yn cydymffurfio ai peidio gyda'r strategaeth honno a manylion unrhyw achos o wyro oddi wrthi neu gynigion i adolygu neu ddiweddaru'r strategaeth<br>(ii) sut mae'r cynigion yn cysylltu â rhagdybiaethau'r Datganiad Rhag-gyllidebol a'r |

| | | |
|---|---|---|
| | | cynlluniau corfforaethol a gwasanaeth a fabwysiadwyd gan yr awdurdod neu a fydd yn cael eu cynnig gan y Pwyllgor Gwaith;<br>(iii) manylion ynghylch sut y dylanwadwyd ar y cynigion gan unrhyw ymgynghori neu atborth gan y Pwyllgorau Sgriwtini Corfforaethol. |
| Y Cynigion Cychwynnol mewn perthynas â'r Gyllideb i gael eu hystyried gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | Para 4.3.2.2.8 – O leiaf bythefnos cyn y dyddiad y bydd y gyllideb flynyddol yn cael ei mabwysiadu gan y Cyngor, bydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn ystyried y Cynigion Cychwynnol ar gyfer y gyllideb | *Diwygiad a argymhellir:*<br>4.3.2.2.8 ~~O leiaf bythefnos cyn y dyddiad y bydd y gyllideb flynyddol yn cael ei mabwysiadu gan y Cyngor~~, bydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn ystyried Cynigion Cychwynnol y Pwyllgor Gwaith mewn perthynas â'r Gyllideb o ran yr effaith a gânt a chan ystyried cynlluniau corfforaethol, yr awdurdod, cynlluniau gwasanaeth a chynigion i'w datblygu. Trwy wneud pob ymdrech, gwneir hyn o leiaf bythefnos cyn y dyddiad y bydd y gyllideb flynyddol yn cael ei mabwysiadu gan y Cyngor, neu cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol. Gall y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol gyflwyno unrhyw sylwadau y mae'n ystyried eu bod yn briodol i'r Pwyllgor Gwaith ynghylch Cynigion Cychwynnol ar gyfer y Gyllideb. |
| Y Cynigion Terfynol mewn perthynas â'r Gyllideb i gael eu cyhoeddi gan y Pwyllgor Gwaith | Para 4.3.2.2.9 - O leiaf wythnos cyn y dyddiad pryd y bydd cyllideb flynyddol yn cael ei mabwysiadu gan y Cyngor bydd y Pwyllgor Gwaith, wedi ystyried ymatebion y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a chanlyniadau unrhyw ymgynghori yn cyhoeddi ei Gynigion Terfynol ar gyfer y Gyllideb. | *Diwygiad a argymhellir:*<br>4.3.2.2.9 ~~O leiaf wythnos cyn y dyddiad pryd y bydd cyllideb flynyddol yn cael ei mabwysiadu gan y Cyngor~~ bydd y Pwyllgor Gwaith, wedi ystyried ymatebion y y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a chanlyniadau unrhyw ymgynghori yn cyhoeddi ei Gynigion Terfynol ar gyfer y Gyllideb. Trwy wneud pob ymdrech, gwneir hyn o leiaf wythnos cyn y dyddiad y bydd y gyllideb flynyddol yn cael ei mabwysiadu gan y Cyngor, neu cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol. Bydd y Cynigion Terfynol ar gyfer y Gyllideb yn cynnwys y canlynol :-<br>(i) os ydyw'r Cyngor wedi mabwysiadu strategaeth gyllidebol, a ydyw'r gyllideb flynyddol arfaethedig yn cydymffurfio ai peidio gyda'r strategaeth honno, a manylion unrhyw achos o wyro oddi wrthi, neu gynigion i adolygu neu ddiweddaru'r strategaeth;<br>(ii) Treth Gyngor arfaethedig y flwyddyn;<br>(iii) unrhyw fwriad i drosglwyddo i'r cronfeydd ariannol wrth gefn neu ohonynt;<br>(iv) crynodeb o'r gwariant arfaethedig fesul gwasanaeth;<br>(v) manylion am unrhyw newidiadau sylweddol i'r gwasanaeth yn sgil y gyllideb;<br>(vi) i ba raddau y mae'r cynigion yn rhoddi sylw i adroddiadau'r Pwyllgorau;<br>(vii) i ba raddau y mae'r cynigion yn rhoddi sylw i fanylion unrhyw ymgynghori a wnaed;<br>(viii) manylion unrhyw newidiadau sylweddol arall rhwng y cynigion cychwynnol a'r rhai terfynol;<br>(ix) cynnig y Pwyllgor Gwaith ar gyfer trosglwyddiadau yn ystod y flwyddyn;<br>(x) cynigion ar gyfer benthyca;<br>(xi) unrhyw faterion statudol eraill i'w penderfynu gan y Cyngor llawn. |

| | | |
|---|---|---|
| Y Cyngor yn Mabwysiadu'r Gyllideb Derfynol | Mae Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 yn datgan y dylai swm y Dreth Gyngor gael ei bennu cyn 11 Mawrth yn y flwyddyn ariannol cyn y flwyddyn y mae'n cael ei gosod ar ei chyfer. | *Mae hwn yn derfyn amser statudol ac nid oes modd newid y dyddiad hwn.* |

.

10. **Argymhelliad**

Gofynnir i'r Cyngor gytuno:

10.1 bod Cyfansoddiad y Cyngor yn cael ei ddiwygio fel y nodir yn y tabl ym mharagraff 9 uchod, a

10.2 bod awdurdod yn cael ei ddirprwyo i'r Swyddog Monitro wneud unrhyw newidiadau dilynol i'r Cyfansoddiad i adlewyrchu'r diwygiadau a gymeradwywyd yn 10.1 uchod.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod a/neu am ddewis yr opsiwn hwn?**

Nid yw gwneud dim yn opsiwn gan y gallai gosod cyllideb yn groes i ofynion Cyfansoddiad y Cyngor ei hun arwain at her nad yw'r gyllideb flynyddol a'r dreth gyngor wedi cael eu gosod yn gyfreithlon. Drwy ddiwygio'r gofyn Cyfansoddiadol, mae'n caniatáu i'r amserlen fod yn fyw hyblyg, ac mae'n dileu'r risg o beidio â bodloni'r broses gyfansoddiadol yn hyn o beth.

Byddai modd cyflwyno adroddiad tebyg i'r un a gyflwynwyd y llynedd, yn gofyn unwaith eto am gymeradwyaeth ar gyfer un flwyddyn. Ond, gan mai hon yw'r ail flwyddyn yn olynol y mae'r setliad yn hwyr, ymddengys y byddai'n fwy effeithlon gofyn i'r Cyngor gytuno i ymgorffori mwy o hyblygrwydd yn y gofyn Cyfansoddiadol gan olygu na fydd angen adroddiadau blynyddol yn gofyn i'r Cyngor am ganiatâd.

**C – Pam mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Dywed paragraff 2.15.2.1 y Cyfansoddiad: "Ni fydd y Cyngor llawn yn cymeradwyo newidiadau i'r Cyfansoddiad hyd oni fydd y Pwyllgor Gwaith wedi ystyried y cynnig".

**CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydy

**D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Amherthnasol

**E – Effaith ar Genedlaethau'r Dyfodol (os yn berthnasol)**

| | | |
|---|---|---|
| **1** | **Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys** | |
| **2** | **A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol. Os felly, sut:-** | |
| **3** | **A ydym wedi bod yn cydweithio â** | |

| | | |
|---|---|---|
| | **sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy:** | |
| **4** | **A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:-** | |
| **5** | **Nodwch effeithiau'r penderfyniad hwn ar yr agenda cydraddoldeb a'r Gymraeg** | |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Dim sylw. |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Dim sylw. |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Awdur yr adroddiad. |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Caffael** | |
| **8** | **Sgriwtini** | |
| **9** | **Aelodau Lleol** | Nid yw'n fater lleol. |

| **F – Atodiadau:** |
|---|
| Dim |

| **FF – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| Dim |

This page is intentionally left blank